# Datblygiad yr eglwysi Annibynnol yn ne-orllewin Cymru, c.1790-1837, gyda sylw arbennig i gyfraniad David Davies, Abertawe (1763-1816), Morgan Jones, Tre-lech (1768-1835) a David Peter, Caerfyrddin (1765-1837)

**Emyr Gwyn Evans BD**

**Prif Arolygwr: Yr Athro D. Densil Morgan**
**Ail Arolygwr: Dr Christine M. Jones**

**Datganiad:**

**Cwblhawyd yr ymchwil hwn dan nawdd Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant, ac fe'i cyflwynir i fodloni'n rhannol ofynion dyfarnu gradd PhD trwy ymchwil yn Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant**

**Ebrill 2022**

DATGANIAD

Nid yw'r gwaith hwn wedi ei dderbyn yn flaenorol yn ei sylwedd ar gyfer unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd i ymgeisio ar gyfer unrhyw raddau.

Llofnodwyd *Emyr Gwyn Evans* (ymgeisydd)

Dyddiad 1 Ebrill 2022

DATGANIAD 1

Mae'r gosodiad hwn yn ganlyniad i'm hymchwiliadau fy hun, ac eithrio lle nodir fel arall. Pan ddefnyddiwyd gwasanaethau cywiro, mae graddau a natur y cywiriad wedi'u marcio'n glir mewn troednodyn/troednodiadau. Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Mae llyfryddiaeth wedi'i hatodi.

Llofnonod *Emyr Gwyn Evans* (ymgeisydd)

Dyddiad 1 Ebrill 2022

*DATGANIAD 2*

Yr wyf drwy hyn yn rhoi caniatâd i'm traethawd ymchwil, os caiff ei dderbyn, fod ar gael i'w roi yn ystorfa ddigidol y Brifysgol.

Llofnodwyd *Emyr Gwyn Evans* (ymgeisydd)

Dyddiad 1 Ebrill 2022

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cynnwys | i |
| Crynodeb | ii |
| Diolchiadau | iii |
| Byrfoddau | iv |
| Pennod 1 - Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837: rhagarweiniad | 1 |
| Pennod 2 - Y cefndir a'r trawsnewid | 19 |
| Pennod 3 - Ffurfiant David Davies, Morgan Jones a David Peter | 48 |
| Pennod 4 - Annibynwyr y de-orllewin a'u diwinyddiaeth | 68 |
| Pennod 5 - Annibynwyr y de-orllewin a'r diwygiadau | 87 |
| Pennod 6 - Annibynwyr y de-orllewin a'r genhadaeth dramor | 113 |
| Pennod 7 - Annibynwyr y de-orllewin: gweinidogaeth a threfn eglwysig | 139 |
| Pennod 8 - Annibynwyr y de-orllewin ac Academi Caerfyrddin | 172 |
| Pennod 9 - Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837: rhai casgliadau | 205 |
| Atodiad | 220 |
| Llyfryddiaeth | 223 |
| Mapiau: | |
| Map 1 - Mannau cysylltiol â chynefin a meysydd gweinidogaethol David Davies, Morgan Jones a David Peter yn ne-orllewin Cymru | v |
| Map 2 - Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth David Davies | 45 |
| Map 3 - Eglwysi Llundain | 45 |
| Map 4 - Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth Morgan Jones | 46 |
| Map 5 - Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth David Peter | 47 |
| Map 6 - Eglwysi cysylltiedig â Morgan Jones yn ne Sir Benfro | 47 |

# CRYNODEB

Cyfnod rhwng dau gyfnod, sef cyfnod yr Hen Ymneilltuaeth a chyfnod yr Ymneilltuaeth Newydd, oedd 1790-1837, blynyddoedd a welodd newidiadau mawr yn hanes cymdeithasol Cymru a thwf aruthrol yn hanes yr eglwysi Ymneilltuol. Mae'r traethawd yn darlunio bywyd a gwaith tri arweinydd Annibynnol, sef David Davies, Morgan Jones, a David Peter, a fu'n allweddol yn y newid hwn, gan ddadansoddi arwyddocâd eu cyfraniad. Dewiswyd de-orllewin Cymru yn faes yr astudiaeth fel enghraifft daleithiol o'r hyn a oedd yn digwydd yn genedlaethol, ac er mwyn tanlinellu pwysigrwydd tri ffigur na chafodd sylw eang gan haneswyr hyd yn hyn. Roedd gweinidogaethau y tri yn cwmpasu eglwysi yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin, Abertawe a'i chyffiniau sef ardal oedd yn prysur ddatblygu'n ddiwydiannol ar y pryd, a chanolfan drefol bwysig, sef tref Caerfyrddin. Tafolir nodweddion y gwahanol fathau o Galfiniaeth efengylaidd a arddelwyd gan y tri, a'i heffeithiolwrydd yn wyneb yr Arminiaeth a'r Ariaeth resymoliaethol a oedd yn datblygu ar y pryd. Rhoir sylw arbennig i yrfa David Peter fel Pennaeth Academi Caerfyrddin, a'i ran mewn cymedroli'r hen Uchel-Galfiniaeth a goleddwyd gan lawer o'r Hen Ymneilltuwyr gynt, a lledu dylanwad Calfiniaeth Fodern 'y System Newydd', diwinyddiaeth y daeth mwyafrif gweinidogion yr Annibynwyr i'w harddel erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tri yn cynrychioli math newydd o weinidogion, yn lletach eu gorwelion ac yn fwy egnïol eu gweithgaredd na'r rhai a fu o'u blaen, a fynnent hyrwyddo achos y genhadaeth dramor yn ogystal ag estyn tiriogaeth Ymneilltuaeth gartref trwy efengylu'n rymus a phlannu toreth o eglwysi newydd. Bu'r tri yn gweinidogaethu yn ystod tymhorau o ddiwygiad ac ar anterth oes aur pregethu yng Nghymru, a chyfrannent yn helaeth at ffyniant yr Ymneilltuaeth dorfol a fu'n fynegiant mor bwerus o Gristnogaeth werinol Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

// DIOLCHIADAU

Y mae fy niolch pennaf yn ddyledus i'r Athro D. Densil Morgan, Prif Gyfarwyddwr y gwaith am ei arweiniad, ei gymorth helaeth a'i anogaeth gyson. Cefais gymorth amryw o lyfrgelloedd ac rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dr David L. Wykes, Cyfarwyddwr Llyfyrgell Dr Williams, Llundain a'r staff yno am eu cymorth; i staff Archifdy Ysgol Gwyddorau Affricannaidd a Dwyreiniol Prifysgol Llundain (SOAS); staff llyfrgelloedd Y Drindod Dewi Sant Llanbedr Pont Steffan, Llyfrgell Gyhoeddus Tref Caerfyrddin a Llyfyrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth. Diolchaf hefyd i Mr Alun Lenny, Caerfyrddin am ei gymorth yn llunio'r mapiau ar gyfer y traethawd, ac i Mr Gareth Davies, Llanybydder am ei gymorth yn datrys anawsterau technegol cyn cyflwyno'r draethawd yn derfynol.

# BYRFODDAU


*Bywg* – J. E. Lloyd, R. T. Jenkins, William Llewelyn Davies (goln), *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953).

*CyA* – John Lloyd James, *Cymanfaoedd yr Annibynwyr, yn cynnwys eu hanes a'u llythyron* (Merthyr Tyfdil: William Hughes, 1867).

*HAC* – R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1966).

*HEAC* – Thomas Rees a John Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, Cyfrolau I - IV (Lerpwl: Swyddfa Y Tyst Cymreig, 1871-75) a Chyfrol V gan John Thomas (Dolgellau: William Hughes, 1891).

**Map 1**




**Mannau cysylltiol â chynefin a meysydd gweinidogaethol David Davies, Morgan Jones a David Peter yn Ne-orllewin Cymru.**

## Pennod 1

## Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837

*Rhagarweiniad*

Er mai mudiad yn tarddu oddi mewn i Eglwys Loegr oedd y Diwygiad Efengylaidd yng Nghymru, ymhen dwy genhedlaeth ar ôl dechrau gweinidogaeth Howell Harris a Daniel Rowland, roedd yr adfywiad wedi effeithio Hen Ymneilltuwyr y de-orllewin, ac effeithio arnynt yn drwm. Gan gyfeirio at Ymneilltuwyr Sir Gaerfyrddin, meddai R. T. Jenkins:

> Not the least of its triumphs was its extensive transformation of the older Dissent. Just as Christmas Evans was accused, by an angry fellow-Baptist in North Wales, of 'filling the Methodist chapels', so, conversely, by the end of the 18th century, converts of the Revival were swelling the ranks of Carmarthenshire Dissent: the towering numbers of of Carmarthenshire Independency, the less imposing, but solid, phalanx of its Baptists, were eventually in no small degree composed of methodistically-minded people, swayed by great preachers who had mastered the 'new way'.[1]

Nid fel hyn y bu pethau bob amser. Er gwaethaf y croeso cynnes a roes arweinwyr Annibynnol pwysig fel Edmund Jones 'Yr Hen Broffwyd', Phylip Pugh o'r Cilgwyn, James Lewis o Bencader ac eraill i'r mudiad Methodistaidd yn niwedd yr 1730au a dechrau'r 1740au, oeri a wnaeth y berthynas rhwng y ddau fudiad maes o law, ar sail cymysgedd o bethau yn cynnwys gwahaniaethau mewn trefn eglwysig, anghytundeb diwinyddol ynghylch mater sicrwydd cadwedigaeth, ac nid yn lleiaf densiynau yn tarddu o bersonoliaeth benarglwyddiaethol Howell Harris ei hun.[2] Yr awydd i ddechrau oedd gweld ysbryd crefydd yn ffynnu yn y tai cwrdd fel yn y seiadau: 'The Methodist influence', meddai Eryn M. White, 'was initially afforded a warm welcome by a number of Dissenters who had been hoping for some revitalization of religion',[3] ond er gwaethaf y gwahanu a ddigwyddodd erbyn y 1750au, fe'i profwyd yn amhosibl yn y degawdau wedyn i gadw'r ysbryd diwygiadol draw: 'Despite this parting of the ways, there was no doubt that the spirit of revival had infected many amongst the Dissenting groups'.[4] Erbyn diwedd y ganrif roedd naws y Diwygiad Efengylaidd i'w brofi yn helaeth ym mywyd a thystiolaeth yr Ymneilltuwyr. Er mai cynnydd bychan a fu yn niferoedd yr eglwysi Ymneilltuol, yn Annibynwyr ac yn Fedyddwyr, am oddeutu hanner canrif wedi i'r Diwygiad Efengylaidd dorri allan yn Nhrefeca a Llangeitho yn 1735, bu newid mawr erbyn troad y ganrif, ac ystyrir blynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif i mewn i ddegawdau cynnar y bedwaredd

---

[1] R.T. Jenkins, 'Nonconformity and Methodism' yn Syr J. E. Lloyd (gol.), *A History of Carmarthenshire,* Cyfrol 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt 185-263 [191].

[2] Geraint Tudur, *Howell Harris: From Conversion to Separation, 1735-50* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 101-5 a *passim*; Eifion Evans, *Daniel Rowland and the Great Evangelical Awakening in Wales* (Edinburgh: Banner of Truth Trust, 1985), tt. 38-46.

[3] Eryn M. White, 'Protestant Dissent in Wales', yn Andrew Thompson (gol.), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions, Volume 2; The Long Eighteenth Century, c. 1689-c. 1828* (Oxford: Oxford University Press, 2018), tt. 161-82 [169]; am ymdriniaethau ar y berthynas rhwng Methodistiaeth a'r Annibynwyr gw. R. T. Jenkins, 'Yr Annibynwyr Cymreig a Hywel Harris', *Y Cofiadur*, 12 (1935), 3-37; adargraffwyd yn *Yng Ngysgod Trefeca: Ysgrifau ar Hanes Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ddeunawfed Ganrif* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid, 1968), tt.9-37; idem.'Yr Annibynwyr Cymreig a Methodistiaeth' yn J. E. Lloyd (gol.) *Hanes ac Egwyddorion Annibynwyr Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), tt. 129-44.

[4] White, 'Protestant Dissent in Wales', t. 171.

ganrif ar bymtheg fel cyfnod o gynnydd eithriadol ac egni creadigol newydd yn hanes Ymneilltuaeth Gymreig:

> By 1815 the older Dissent had vanished. It had been replaced by a new evangelicalism, zealous, popular and extrovert. It was through the newer Nonconformity that the common people of Wales found an outlet for their joys, sorrows and some of their deepest aspirations.[5]

Amcan yr astudiaeth hon yw ystyried natur y trawsnewidiad hwn ymhlith un enwad Ymneilltuol arbennig mewn un rhan neilltuol o'r wlad. Yn ne-orllewin Cymru, yn ddaearyddol, canolbwyntir ar siroedd Caerfyrddin a Phenfro ac ar dref Abertawe am mai dyma yn bennaf rhwng 1790 a 1837 lle y llafuriodd y tri gwrthrych sy'n hawlio prif sylw y draethawd.

Trwy gyfrwng eu gweinidogaeth, chwaraeodd David Davies Abertawe, Morgan Jones Tre-lech a David Peter Caerfyrddin ran allweddol yn hanes, twf a datblygiad yr eglwysi Annibynnol yn ne-orllewin Cymru ym mlynyddoedd y pontio rhwng yr Hen Ymneilltuaeth a'r hyn mae haneswyr cyfoes yn ei adnabod fel yr Ymneilltuaeth Newydd.[6] Hwn oedd y cyfnod *interim*, cyfnod rhwng dau gyfnod, gyda'r egnïon newydd weithiau yn cydio yn yr hen, bryd arall yn ymdaro yn ei erbyn, ond yn cyfrannu yn y pen draw at greu symudiad eithriadol bwysig yn hanes y Gymru fodern.[7]

O ran ysgolheictod diweddar a lled ddiweddar, rhoddodd haneswyr sylw helaeth i natur yr Hen Ymneilltuaeth,[8] cyflwr yr Eglwys Sefydliedig yng Nghymru gan gynnwys y de-orllewin,[9] y Diwygiad Efengylaidd ei hun[10] yn cynnwys cyflwr Eglwys Loegr yn ne-orllewin

---

[5] D. Densil Morgan, 'Christmas Evans (1766-1838) and the birth of Nonconformist Wales', yn *Wales and the Word: Historical Perspectives of Welsh Identity and Religion* (Cardiff: University of Wales Press, 2008), tt. 17-30 [29].

[6] Gw. D. Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), *passim.*

[7] R. Tudur Jones, 'Dylanwad y Mudiad Methodistaidd ar Ymneilltuaeth Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif,' *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru*, XLVII Rhif 3 (1962), 52-70.

[8] R. Tudur Jones, 'Yr Hen Ymneilltuwyr, 1700-1740' yn Gomer. M. Roberts, (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 1: Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1973), tt. 13-42; Geraint H. Jenkins, *Literature, Religion and Society in Wales, 1660-1730* (Cardiff: University of Wales Press, 1978), tt. 27-32 a *passim*.

[9] William Jacob, '1660-1780', yn Glanmor Williams, William Jacob, Nigel Yates a Frances Knight, *The Welsh Church from Reformation to Disestablishment, 1603-1920* (Cardiff: University of Wales Press, 2007), tt. 65-208; William Gibson, '"The most glorious enterprises have been acheiv'd": The Restoration Diocese of St Davids, 1660-1730', yn William Gibson a John Morgan-Guy (goln), *Religion and Society in the Diocese of St Davids 1485-2011* (Farnham: Ashgate, 2015), tt. 91-128.

[10] Penodau Gomer M. Roberts yn *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru: Y Deffroad Mawr*; Derec Llwyd Morgan, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1981); Evans, *Daniel Rowland and the Great Evangelical Awakening in Wales*; Tudur, *Howell Harris: From Conversion to Separation*; David Ceri Jones, Boyd Stanley Schlenther ac Eryn M. White, *The Elect Methodists: Calvinistic Methodism in England and Wales, 1735-1811* (Cardiff: University of Wales Press, 2012).

Cymru yn y blynyddoedd blaenorol,[11] a materion diwinyddol yn gyffredinol,[12] tra bod ymdriniaethau eraill wedi trafod agweddau ar grefydd a chymdeithas yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[13] Digon prin, fodd bynnag, yw'r astudiaethau diweddar sy'n canoli'n neilltuol ar y pontio rhwng cyfnod yr Hen Ymneilltuaeth a blynyddoedd yr Ymneilltuaeth Newydd. Mae'n wir bod arweinwyr ail genhedlaeth y Methodistiaid, John Elias o Fôn[14] a Thomas Charles o'r Bala[15] wedi ennyn peth sylw gan haneswyr, ynghyd â ffigurau megis Christmas Evans ymhlith y Bedyddwyr, a'r Annibynnwr William Williams o'r Wern,[16] ond prin fu'r gofod a roes haneswyr diweddar i Davies, Jones a Peter, er iddynt fod yn weinidogion blaenllaw yn eu dydd. Wrth ganolbwyntio ar ddylanwad diamheuol pregethwyr 'oes aur y pulpud Cymraeg', y duedd fu canoli ar y drindod hysbys, sef John Elias, Christmas Evans a William William o'r Wern, ar draul ffigurau pwysig eraill. I nodi un enghraifft, dyma a ysgrifennodd John I. Morgans mewn cyfrol boblogaidd ddiweddar:

> John Elias (1774-1841), the 'Pope of Anglesey', was the force behind the Calvinistic Methodist 'Confession of Faith' in 1823. Christmas Evans (1766-1838), born near Llandysul, helped transform the Baptist tradition by his powerful preaching. He visited each of the Welsh counties on an annual and sometimes bi-annual preaching tour. William Williams (1781-1840), another great preaching itinerant was ordained a Congregational minister at Y Wern (Minera, near Wrexham) and founded many new chapels in the north-east as well as ministering in Liverpool.[17]

Roedd Davies, Jones a Peter yn gyfoedion â'r tri hyn, yn eu hamser yr un mor nodedig a'r un mor enwog yn eu hardaloedd, ond prin y ceir sôn amdanynt gan neb, sy'n profi, gobeithio, fod yr amser yn aeddfed i godi eu proffeil ac i dafoli eu cyfraniad am y tro cyntaf ers amser maith. Beth, felly, oedd i'w gyfrif am lwyddiant ysgubol gweinidogaethau Davies, Jones a Peter? Pam y dylem fod yn cofio'u hanes a beth yn union oedd natur eu cyfraniad? Ymgais i ateb y cwestiynau hynny yw nod a diben y traethawd hwn.

---

[11] Eryn M. White, *'A "Poor, Benighted Church"?:* Church Society in Mid-Eighteenth-Century Wales', yn R. R. Davies a Geraint H. Jenkins (goln), *From Medieval to Modern Wales:Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Cardiff: The University of Wales Press, 2004), tt. 123-41; and idem, *The Welsh Methodist Society: The Early Societies in South-West Wales 1737-1750* (Cardiff: The University of Wales Press, 2020) a'r fesiwn cynharach, *Praidd Bach y Bugail Mawr: Seiadau Methodistaidd De-Orllewin Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995).

[12] D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales, Volume 1: From Reformation to Revival, 1588-1760* (Cardiff: University of Wales Press, 2018).

[13] Iorwerth Jones, *David Rees y Cynhyrfwr* (Abertawe, Gwasg John Penry, 1971); Alun Tudur, 'O'r Sect i'r Enwad: Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru, 1840-70', traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1993; Rhodri Glyn, 'Bywyd a Gwaith David Rees, Llanelli (1801-69)', traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Aberystwyth, 2010; John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3: Y Twf a'r Cadarnhau, c. 1814-1914* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011); W. Bryan Jones, 'Thomas Phillips Neuadd-lwyd', traethawd MPhil anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2011; Dafydd Tudur, 'The Life, work and thought of Michael Daniel Jones (1822-98)', traethawd PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 2006.

[14] R. Tudur Jones, *John Elias, Pregethwr a Phendefig* (Penybont-ar-Ogwr: Gwasg Efengylaidd Cymru, 1975; Goronwy P. Owen, 'Llythyrau John Elias o Fôn: astudiaeth destunol', traethawd anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1999.

[15] D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014).

[16] J. Arwyn Phillips, 'Bywyd a Gwaith William Williams o'r Wern', traethawd MTh anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1977.

[17] John I. Morgans a Peter C. Noble, *Our Holy Ground: The Welsh Christian Experience* (Talybont: Y Lolfa, 2016), t. 113.

*Y penderfyniad i ymchwilio i hanes Davies, Jones a Peter*

Ac yntau wedi cael galwad oddi wrth eglwys Glandŵr, Sir Benfro, cafodd Morgan Jones alwad hefyd i fugeilio eglwys Capel-y-Graig yn Nhre-lech. Bu'n ymbalfalu pa un o'r ddwy alwad i'w derbyn, un ai i fod yn gyd-weinidog â'i hen athro John Griffiths yng Nglandŵr, neu'r alwad i godi eglwys a oedd ar y pryd mewn gwendid? Glandŵr, yn ddiau, oedd yr eglwys 'orau' ond pwysai angen yr eglwys yn Nhre-lech ar ei feddwl. Gweddïodd am arweiniad ar y mater ac yn ôl y stori, cyn penderfynu'n derfynol, ymwelodd â'r ddwy eglwys unwaith yn rhagor. Wrth farchogaeth trwy Landeilo a Chaerfyrddin, cyrhaeddodd y groesffordd lle roedd un ffordd yn arwain i Landŵr a'r llall i Dre-lech, a meddai: 'Fe adawaf y reins yn rhydd ar war y ceffyl, ac os â i Landŵr, mi af innau i Landŵr yn weinidog, ac os i Dre-lech, fe af i Dre-lech'. Ond pan ddaeth i'r groesffordd, cyfaddefodd yn ddiweddarach iddo dynnu'r awenau fymryn tuag ochr Tre-lech. Roedd yn teimlo yn ei galon erbyn hynny mai i Dre-lech y dylai fynd, a chredai ei bod yn fwy diogel iddo wrando ar lais ei gydwybod na mynd fel y mynnai ei geffyl.

Mae grym mewn stori dda fel yr uchod. Er yn hagiograffaidd ramantus, eto mae'n chwedl brydferth sy'n ennyn dychymyg dyn. Fe'i chyhoeddwyd yn *Storïau am Annibynwyr,* llyfryn i blant a oedd yn rhan o raglen dathlu chweched jiwbili yr Annibynwyr yng Nghymru yn 1939.[18] Llyfryn ydoedd yn adrodd hanesion arwrol yr Annibynwyr yng Nghymru gyda'r bwriad o ennyn dychymyg plant yr eglwysi ac i gyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth. Wrth gyflwyno'r stori, atgoffwyd y darllenwyr mai Morgan Jones, y gŵr ifanc ugain oed o Sir Frycheiniog, a fu'n gyfrwng adfywiad grymus yn Nhre-lech ganrif a hanner ynghynt. Yno y treuliodd weddill ei oes, yn pregethu'n ffyddlon, yn cynnal cyfarfodydd gweddi yn ffermdai'r cylch, yn codi to ar ôl to o weddïwyr angerddol, yn eu plith bregethwyr ifainc a fu'n enwog iawn yn eu dydd. Trwyddo ef daeth eglwys Capel-y-Graig yn nodedig ar gyfrif ei hysgol Sul a'i chymanfa bwnc ac am godi mwy o wŷr ifainc i'r weinidogaeth na'r un eglwys Annibynnol arall yn y wlad. Er bod y capel yn un mawr, daeth yn rhy fach i gynnwys yr holl addolwyr, a hynny yn ystod gweinidogaeth ysblennydd Morgan Jones ei hun. Dyna, ynghyd â'r dadansoddi mwy syber a gwrthychol yng nghyfrol R. Tudur Jones *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966), a ysgogodd yr awydd i ymchwilio ymhellach i'r hyn a ddigwyddodd yn y de-orllewin yn y cyfnod, a deall sut yn union y gadawodd y Diwygiad Efengylaidd ei ôl ar yr eglwysi Annibynnol ar y pryd.

Nid digon, fodd bynnag, oedd trafod bywyd a gwaith un dyn. Perthynai Jones i ymchwydd ehangach, ac un arall a berthynai i'r un to oedd David Davies, brodor o blwyf Llangeler, yn un o bregethwyr disgleiriaf ei gyfnod yn ôl y sôn, ond un na wnaed fawr ddim ymchwil arno gan neb erioed o'r blaen. Wrth gyplysu hanes y ddau, Morgan Jones a David Davies a fu'n gweinidogaethu yn y Mynydd-bach, plwyf Llangyfelach, Morgannwg, ac yn nhref Abertawe yn ogystal ag yn Llangeler yn Sir Gaerfyrddin, gellid helaethu'n dealltwriaeth o ddatblgiadau'r Annibynwyr yn ne-orllewin Cymru ar adeg allweddol yn eu hanes. Wedi cychwyn ar y gwaith deuthum i sylweddoli'n fuan bod ffigur arall ymhlith eu cyfoeswyr, eto yn yr un ardal yn fras, a wnaeth gyfraniad unigryw i fywyd a thystiolaeth Ymneilltuaeth ei gyfnod, sef David Peter, gweinidog eglwys yr Annibynwyr yn Heol Awst, Caerfyrddin, a phennaeth yr Academi enwog yn y dref. Os ymestynnodd gweinidogaeth Davies mor bell ag Abertawe, tref a phorthladd a oedd eisoes yn ymddiwydiannu, a Peter yn gwasanaethu yng

[18] E. Curig Davies, *Storïau am Annibynwyr* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1939).

Nghaerfyrddin, tref fwyaf y de-orllewin ar y pryd, gallai hyn ddangos twf ar draws ardal gyfan. Y syniad, felly, oedd cwmpasu gweinidogaeth yng nghefn gwlad, mewn tref fasnach a oedd yn datblygu'n brysur fel canolfan ddiwydiannol, sef Abertawe, ac yn nhref marchnad Caerfyrddin a oedd yn ganolbwynt i'r sir a ddaeth yn gadarnle'r Annibynwyr yng Nghymru, fel y gellid deall cryn dipyn am ymchwydd Ymneilltuaeth ym mlynyddoedd ei thwf. Nid ymgais i gyflwyno portread bwygraffiadol o dri pregethwr o'r gorffennol mo hwn, na chronicl moel o'u cyflawniadau, eithr dadansoddiad o deithi meddwl a dulliau gweithio tri arweinydd pwysig yn eu hoes, a sut y bu iddynt gyfrannu at ddatblygiad eglwysi Annibynnol y de-orllewin rhwng oddeutu 1790 ac 1837.

*Trawsnewidiadau y cyfnod*

Gwelwyd yn ystod y cyfnod hwn symudiad mewn athrawiaeth oddi wrth yr Uchel Galfiniaeth a goleddid yn bennaf gan yr Hen Ymneilltuwyr at y 'Galfiniaeth Fodern' a hyrwyddwyd gan bobl fel y Dr Edward Williams Rotherham (1750-1813)[19] a'i ddisgybl John Roberts Llanbryn-mair (1767-1834).[20] Os oedd David Davies a Morgan Jones ar un adeg yn ddigon gwrthwynebus i symudiadau'r 'Galfiniaeth Fodern' neu'r 'System Newydd', erbyn diwedd eu hoes dangosent ysbryd mwy goddefgar na'u rhagflaenwyr, gan ddod yn fwy bodlon cydweithio gyda Chalfiniaid mwy cymedrol eu diwinyddiaeth er mwyn hybu lledaeniad yr Efengyl yng Nghymru a thu hwnt. Fel 'Sentars Sychion' yr arferid meddwl am Annibynwyr yr Hen Ymneilltuwyr, ond yn sicr erbyn diwedd eu hoes nid felly yr ystyriwyd rhai fel Davies, Jones na Peter. Cynrychiolent fath newydd o bregethwyr o ran huotledd a chynnwys eu pregethau ynghyd â'u gweledigaeth genhadol. Am Davies dywedwyd:

> Deil rhai mai efo oedd y pregethwr mwyaf a fu gan yr Annibynwyr. Ynddo ef, ond odid, y torrwyd gyntaf ar hen draddodiad y Presbyteriaid a'r Annibynwyr, a fynnai weinidogion wedi bod o dan gwrs o addysg mewn academi; ynddo ef a'i debyg y sylweddolir dylanwad y Diwygiad Methodistaidd ar yr Hen Ymneilltuwyr.[21]

A chan feddwl am yr Ymneilltuaeth Newydd yn nhermau'r 'Ysgol Newydd', meddai R. T. Jenkins ymhellach:

> By common consent, David Davies is regarded as the leader of the new school among the Independents of Carmarthenshire and, indeed, of Wales in general ... Hardly inferior to him, however, was Morgan Jones, a Breconshire lad who entered the ministry from Cefn Arthen church about 1785, and in 1789 (again without any academic training other than what might be obtained by John Grifiths at Glandŵr) was called to the wide-spread church of Trelech, where he remained for forty-five years.[22]

Yn ystod oes Davies, Jones a Peter gwelwyd twf yn y boblogaeth, yng nghefn gwlad, yn y dref ac yn yr ardaloedd diwydiannol a oedd yn datblygu'n gyflym yn y cyfnod, a chyda'r twf yn y boblogaeth, yng nghyfnod oes aur pregethu yng Nghymru, apeliwyd at gynulleidfaoedd

[19] W. T. Owen, *Edward Williams D.D. 1750-1813 his Life, Thought and Influence* (Cardiff: University of Wales Press, 1963).
[20] Samuel Roberts, *Cofiant y Parch. John Roberts, o Lanbrynmair* (Llanelli: Rees & Thomas, 1837).
[21] R. T. Jenkins, yn *Bywg*. t. 104.
[22] Jenkins, 'Nonconformity and Methodism', t. 234.

newydd o wrandawyr, ac at ehangu adeiladau a phlannu eglwysi newydd ar raddfa eang. O ran Sir Gaerfyrddin, bu cynnydd yn y boblogaeth ym mhob degawd hyd at 1841. Dyna'r patrwm ym mhoblogaeth Tre-lech a'r Betws. Rhwng y cyfrifiad cyntaf yn 1801, a'r un cyfatebol yn 1851, cynyddodd poblogaeth tref Caerfyrddin o 5,548 i 10,524 yn 1851[23] tra bod datblygiad cyfatebol, os nad yn fwy, wedi digwydd yn nhref ac ardal Abertawe. 6,099 oedd cyfanswm trigolion y dref yn 1801, chwe blynedd wedi dyfodiad David Davies i lafurio yn y Mynydd-bach, tua phedair milltir i'r gogledd o'r canol, a chynyddodd yn ddirfawr gydol blynyddoedd ei weinidogaeth yn Sgeti ac yn y dref ei hun. Roedd poblogaeth Abertawe yn 13,265 yn 1831 a chynynyddodd i 16,993 erbyn 1851**.**[24] Yn cydredeg â blynyddoedd bwrlwm economaidd y Chwyldro Diwydiannol a esgorodd ar gynnydd aruthrol yn y boblogaeth, roedd ysbryd cenhadol wedi gafael yn nychymyg ffyddloniaid yr eglwysi, gyda brwdfrydedd o blaid y genhadaeth gartrefol, ymhlith y di-Gymraeg ym Mro Gŵyr heb sôn am Gymry Llundain trwy ymdrechion Davies yn y brifddinas, ynghyd â'r genhadaeth dramor y gwnaeth ef, Morgan Jones a David Peter fwy na nemor neb i'w hyrwyddo. Hwy oedd pennaf gefnogwyr y Gymdeithas Genhadol ymhlith Annibynwyr de Cymru o 1798 ymlaen.[25] Roedd y weithgaredd hon, fel bwrlwm yr ysgolion Sul, Cymdeithas y Beibl, a'r amrywiaeth o gymdeithasau a oedd ynghlwm wrth y capeli yn nyddiau'u twf, wedi cyfrannu'n helaeth at greu'r Gristionogaeth boblogaidd fyrlymus y disgrifiodd Tudur Jones mor gofiadwy yn ei benodau 'Crisialu'r Diwygiad' a 'Crefydd a'r Werin' yn *Hanes Annibynwyr Cymru*.[26]

*Terfynau daearyddol yr astudiaeth*

> 'Helaetha faint dy babell, estyn allan lenni dy drigfannau,
> gollwng y rhaffau allan i'r pen, a sicrha'r hoelion'. Eseia 54:2.

Er eu bod yn cael eu cysylltu â llefydd neilltuol, Abertawe, Tre-lech a Chaerfyrddin, gwnaeth y tri ffigur sy'n sail i'r astudiaeth hon ledu eu cortynnau ymhell y tu hwnt i'r mannau lle y bu iddynt gartrefu.

Tra yn gweinidogaethu yn Llangeler, lledodd Davies ei weinidogaeth yn fuan i ofalu am eglwys Gwernogle yng ngogledd-ddwyrain Sir Gaerfyrddin ac yna Neuadd-lwyd yn Nyffryn Aeron, Ceredigion. Pan symudodd i'r Mynydd-bach ym mhlwyf Llangyfelach (plwyf ym Morgannwg a oedd yn ffinio ar Sir Gâr) a'r Sgeti yn 1795, dechreuodd genhadu yng nghanol bwrlwm diwydiannol tref Abertawe a oedd yn datblygu'n gyflym yn y cyfnod, yn ogystal â sefydlu eglwysi newydd ym Mhenrhyn Gŵyr, plwyf Cil-y-bebyll yng Nhgwm Tawe a hefyd ym mhlwyfi Llan-non a Phen-bre yn rhannau deheuol Sir Gaerfyrddin.

Cychwynnodd Morgan Jones ei weinidogaeth yn Nhre-lech a Chapel Iwan yng nghefn gwlad Sir Gâr. Os ystyrir Tre-lech fel ei bencadlys, ymestynnodd ei genhadaeth i bob pegwn i'r wlad o amgylch, gan sefydlu eglwysi newydd yno. Bu'n gymorth hefyd i sefydlu eglwysi newydd yn ne Penfro, ar ddwy ochr i foryd aber y ddwy Gleddau, a hefyd yng ngogledd y sir

[23] Muriel Bowen Evans, 'Poblogaeth: ailddosbarthiad a newid 1801-1891', *Carmarthenshire Antiquary*, 36 (2000), 150-1.
[24] J. R. Alban, 'Local Government, Administration and Politics, 1700 to the 1830s', yn Glanmor Williams (gol.), *Swansea: An Illustrated History* (Llandybïe: Christopher Davies, 1990), tt. 85-114 [89].
[25] Gw. Pennod 6.
[26] *HAC*, tt. 169-220.

yng nghyffiniau Cilgerran a Llwyn-yr-hwrdd heb sôn am Ddyffryn Teifi yng nghyffiniau Cenarth.

Er i Peter ganoli'i waith yn nhref Caerfyrddin, ac yntau'n cyfuno'i weinidogaeth yn eglwys Heol Awst gyda'i ddyletswyddau fel pennaeth yr Academi yno, fe fu'n gyfrwng hefyd i sefydlu achosion newydd ym mhlwyfi Llanegwad ac Abergwili, i'r dwyrain o'r dref ac ym mhlwyf Meidrim i'r gorllewin, heb gyfrif ei deithiau mynych yn pregethu ledled y wlad mewn cyfarfodydd ordeinio'i fyfyrwyr. Fel Davies a Jones, ymwelodd yn gyson â chymanfaoedd yr Annibynwyr a'r cyfarfodydd chwarterol a oedd yn amlhau yn y cyfnod.

Rhaid cofio fod cylch gweinidogaeth y tri yn ddaearyddol yn ehangach o lawer. Bu Davies a Jones â rhan flaengar mewn sefydlu yr achosion Annibynnol cynharaf yn Llundain, ac fel y gwelir, bu'r tri yn frwd yn hyrwyddo gwaith y genhadath dramor a'r gymdeithas y daethpwyd i'w hadnabod fel Cymdeithas Genhadol Llundain, yr LMS, ynghyd â hyrwyddo gwaith y Feibl Gymdeithas gyda'i harwyddair rhyngwladol 'Beibl i bawb o bobl y byd'.

Felly er bod y traethawd yn canolbwyntio ar ddatblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn ne-orllewin Cymru, gwelir bod cylch eu gweinidogaeth yn ddaearyddol yn ymestyn y tu hwnt i Glawdd Offa, ac ymhellach hefyd trwy eu cysylltiadau gyda'r genhadaeth dramor i bedwar ban y byd.

*Ffynnonellau ar gyfer yr astudiaeth yng nghyd-destun hanesyddiaeth yr Annibynwyr*

Er nad yw Davies, Jones a Peter wedi bod mor ffortunus yn eu cofianwyr ag enwogion megis y Diwygwyr Methodistaidd cynnar, John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, Thomas Charles o'r Bala ac eraill, gwnaed defnydd helaeth o'r cofiannau byrion a luniwyd amdanynt yn fuan ar ôl iddynt farw, yn ogystal â'r cofiannau mwy sylweddol a gyhoeddwyd yn ddiweddarach. Cynnyrch Oes Victoria oedd y rhain, yn aml yn brin o wrthrychedd, rhai ohonynt wedi'u llunio gan gyd-bregethwyr a oedd yn feibion-yn-y-ffydd i'r tri, neu yn berthnasau iddynt. Afraid dweud fod ynddynt naws hagiograffig yn aml, sy'n taro'n chwithig i chwaeth mwy modern. Y mae ynddynt, fodd bynnag, ddeunydd anhepgor i'r hanesydd. I'r categori hwn y perthyn y cofiannau byrion i David Davies a Morgan Jones yng nghyfrolau *Y Tadau Anibynnol* a gyhoeddwyd ar ddiwedd Oes Victoria.[27] Un ffaith amlwg yw fod y cofianwyr mwy diweddar wedi manteisio ar y deunyddiau a oedd eisoes ar gael gan amlhau yn fynych yr un ffeithiau a'r un hanesion am eu gwrthrychau.

Mae yna ddau gofiant arall i David Davies. Yr hynaf yw'r gyfrol fer *Cofiant y diweddar Barchedig David Davies, Abertawy* (1828) gan John Rowlands Cwmllynfell,[28] a'r llall, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau' gan Thomas Rees, yn ysgrif helaeth a ymddangosodd ar dudalennau'r *Beirniad* yn 1863.[29] Yn ychwanegol i'r cofiannau yn *Y Tadau Anibynnol*, mae dau gofiant arall i Morgan Jones, yr hynaf, *Cofiant y Diweddar Barch. Morgan Jones* (1836)

[27] John Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', a D. Gorllwyn Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', yn L. D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol, Cyfrol 2* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 97-144, 145-96.
[28] J. Rowlands, *Cofiant y diweddar Barchedig David Davies, Abertawy* (Abertawe: J. A. Williams, 1828).
[29] Thomas Rees, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau', *Y Beirniad,* 4 (Ebrill 1863), 321-36.

gan Samuel Griffiths,[30] a'r llall, *The Holy Art of Winning Souls to Christ* (1848) gan J. J. Beynon.[31] Un cofiant yn unig a geir i David Peter, sef *Memoir of the Life and Labours of The Rev. David Peter* (1846) gan W. H. Lewis.[32]

Ffynhonnell werthfawr yn perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw *A History of Protestant Nonconformity in Wales* (1861, ail argraffiad 1883) gan Thomas Rees, sy'n cynnwys sgets fywiog yn coffáu David Davies.[33] Dibynnais yn helaeth ar y bum cyfrol *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* gan Thomas Rees a John Thomas,[34] ffynhonnell sy'n drysorfa euraidd o wybodaeth ar gyfer hanesion cynnar yr eglwysi y llafuriodd y tri yn eu cylchoedd, ac sydd hefyd yn cynnwys toreth o wybodaeth am Davies, Jones a Peter a llu o weinidogion eraill y cyfnod. A bu adroddiadau *Cymanfaoedd yr Annibynwyr, yn cynnwys eu hanes a'u llythyron* (1867) a gasglwyd gan John Lloyd James[35] yn ffynhonnell eithriadol werthfawr wrth olrhain datblygiadau'r eglwysi yn y cyfnod. Bu'n werth troi hefyd at *Hanes Ymneillduaeth* (1855) gan David Morgan, yr Annibynnwr o Lanfyllin.[36] Ymgynghorwyd â llu o gofiannau y bedwaredd ganrif ar bymtheg (a restrir yn y llyfryddiaeth), ynghyd â llawer o gyfnodolion megis *Y Diwygiwr*, *Y Dysgedydd*, *Trysorfa Ysprydol*, *Cronicl Cenhadol*, *Evangelical Magazine* a rhai'r Undodiaid, *Yr Ymofynydd*, *Monthly Repository*, *Monthly Magazine*, *Christian Reformer* a'r *Antiquarian Notes* ac â'r papur wythnosol y *Carmarthen Journal*. O nodi hynny, dylid dweud gair am bwysigrwydd neilltuol ac arwyddocâd gweithiau hanesyddol Thomas Rees.

*Thomas Rees fel hanesydd yr Annibynwyr*

Er mai fel hanesydd cyffesiadol yn perthyn i'w gyfnod yr ystyrir Thomas Rees bellach, nid oes amheuaeth mai ef oedd prif hanesydd Annibynwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac nid hwyrach brif hanesydd Ymneilltuaeth gyfan. Iddo ef y perthyn y clod o greu'r ddelwedd am Gymru fel cenedl Ymneilltuol.[37] Mae haneswyr proffesiynol diweddarach, gan ddechrau gyda Syr John Edward Lloyd, yn cydnabod eu dyled iddo am fraenaru'r tir ar gyfer haneswyr academaidd yr ugeinfed ganrif. Gadawodd Rees waddol o ffeithiau hanesyddol sydd wedi bod yn gloddfa amhrisiadwy i'r ymchwilwyr a ddaeth ar ei ôl. Y brif feirniadaeth ohono oedd iddo or-ganoli ar neilltuolrwydd Ymneilltuaeth ar draul symudiadau crefyddol eraill a pheidio â'i gosod mewn cyd-destun cymdeithasol a chenedlaethol amgenach. 'Much of the literature of early Nonconformity in Wales', meddai'r hanesydd cyfoes Lloyd Bowen, 'betrayed the influence of a patriotic culture searching for its spiritual origins', ac er gwaethaf cryfderau'r

[30] Samuel Griffiths, *Cofiant y Diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836).
[31] J. J. Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ, Exemplified in the Life and Ministry of the Late Rev. Morgan Jones, of Trelech, Carmarthenshire* (London: J. Snow, 1848).
[32] W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of The Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green and Longmans, 1846).
[33] Thomas Rees, *A History of Protestant Nonconformity in Wales*, 2nd ed. (London: John Snow, 1883), tt. 434-40.
[34] Thomas Rees a John Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, Cyfrolau 1 - 4 (Lerpwl: Swyddfa Y Tyst Cymreig, 1871-75) a Chyfrol 5 gan John Thomas (Dolgellau: William Hughes, 1891).
[35] John Lloyd James, *Cymanfaoedd yr Annibynwyr, yn cynnwys eu hanes a'u llythyrau* (Merthyr Tyfdil: William Hughes, 1867).
[36] David Morgan, *Hanes Ymdeillduaeth* (Dolgellau: Evan Jones, 1855).
[37] Gw. Prys Morgan, 'A Nation of Nonconformists: Thomas Rees (1815-85) and Nonconformist History', yn Neil Evans a Huw Pryce (goln), *Writing a Small Nation's Past: Wales in Comparative Perspective, 1850-1950* (London & New York: Routledge, 2013), tt. 97-109.

'canonical text', sef cyfrol Rees, *A History of Protestant Nonconformity in Wales*, ei holl bwrpas oedd creu delwedd neilltuol o Gymru fel cenedl rinweddol o Brotestaniaid eiddgar a chapelwyr parchus.[38] Er iddo sôn am yr unfed ganrif ar bymtheg yn benodol, meddai Bowen am y maes yn gyffredinol: 'There has … been a tendency to overstate Nonconformity's … influence, as well as sometimes isolating it from the extra-national (i.e. non-Welsh) contexts in which it should be situated'.[39] Roedd hyn yn wir hefyd am y penodau ar y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cydnabu, fodd bynnag, bwysigrwydd arhosol y gyfrol: 'Rees's *History* is emblematic of a vigorous trend of historical enquiry in modern Welsh Nonconformity, and its influence has informed the research agenda into the era of professional history'.[40]

Gwyddai cyfoeswyr Rees am ei ogwydd a'i ragdybiaethau, ond iddynt hwy, ei uniongrededd Galfinaidd oedd ei fagl pennaf. Dylai pob hanesydd, meddai cyfaill a chofiannydd Rees, sef John Thomas Lerpwl, ymgeisio at fod yn wrthrychol a di-duedd: 'Mae cydymdeimlad eang yn hanfodol i hanesydd o radd uchel; cydymdeimlad â phobl wahanol iawn iddo ei hun, a hyd yn nod â golygiadau hollol groes i'w eiddo ef.'[41] Er gwaethaf hyn, ni allai Rees gelu ei ymrwymiad ystyfnig wrth y ffydd efengylaidd: 'Yr oedd Dr. Rees yn uniongred dros fesur; ac nid oedd y gradd lleiaf o gydymdeimlad rhyngddo â'r rhai a ŵyrant oddiar yr hen ffordd uniawn,'[42] ac yn aml iawn, gadawai i hyn lywio'i naratif. Roedd hyn yn wendid ynddo, meddai. Er bod 'argyhoeddiadau cryfion yn hanfodol i ddiwygwyr ac i bregethwr; ond am yr hanesydd rhaid i'w gydymdeimlad fod yn eang cyn y gall fod yn ddibartïaeth'.[43] Eto dewis pwysleisio cyfraniad deiliaid uniongrededd a wnaeth Thomas Rees gan danbrisio gwaith yr Arminiaid, yr Ariaid a'r Undodiaid. Ond er gwaethaf hyn, a'i ragfarnau gwrth-Anglicanaidd amlwg, gwnaeth gymwynas enfawr yn ei ddydd: 'Yr oedd Dr. Rees ... yn awdurdod uchel fel hanesydd; a phery ei *History of Nonconformity* yn drysor anmhrisiadwy am oesoedd lawer eto i ddyfod'.[44]

Y mae hyn hefyd yn wir mewn perthynas â'r llafur a aeth i mewn i baratoi'r cyfrolau *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*. Nid gorchwyl hawdd iddo yntau a John Thomas oedd cofnodi hanesion am yr holl eglwysi Annibynnol Cymraeg a fodolai ar y pryd yng Nghymru a Lloegr. Fel gyda'r *History of Protestant Nonconformity in Wales,* roedd gan Thomas Rees gymhellion gwleidyddol dros wneud, sef cryfhau delwedd a statws yr eglwysi Annibynnol ac Ymneilltuol o ran lluosogrwydd niferoedd a dylanwad diwylliannol, a hynny er mwyn profi'n ddigamsyniol (i'w fodlonrwydd ei hun) mai gwlad a chenedl o Ymneilltuwyr oedd Cymru. 'What is so striking about Thomas Rees', meddai Prys Morgan, 'is that he wrote a history of the whole of Welsh Nonconformity, and backed it up by a series of polemical essays, all in English, to argue the importance of Nonconformity in contemporary Welsh Society'.[45] Byddai'r cyfan yn rym yn y frwydr dros ddatgysylltu Eglwys Loegr fel yr eglwys sefydledig

[38] Lloyd Bowen, 'Wales, 1587-1689', yn John Coffey (gol.), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions, Vol. 1: The Post-Reformation Era, 1559-1689* (Oxford: Oxford University Press, 2020), tt. 223-43 [224].
[39] Bowen, 'Wales, 1587-1689', t. 226.
[40] Bowen, 'Wales, 1587-1689', t. 226.
[41] John Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy* (Dolgellau: William Hughes, 1888), t. 230.
[42] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 230.
[43] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, tt. 230-1.
[44] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, tt. 231.
[45] Morgan, 'Thomas Rees (1815-85) and Nonconformist History', t. 102.

yng Nghymru a fyddai'n poethi maes o law. Oddi ar yr argraffiad cyntaf a ymddangosodd yn 1861, roedd yr ailargraffiad yn 1883 yn cynnwys pennod helaeth ychwanegol yn cwmpasu'r blynyddoedd 1861-82, a hynny er mwyn tanlinellu fel roedd Ymneilltuaeth boblogaidd wedi cryfhau fwyfwy ymhlith y Cymry erbyn saithdegau ac wythdegau'r ganrif. Eto, er gwaethaf y cymhellion gwleidyddol a'r pwyslais cyffesiadol amlwg sydd yn ei waith, erys yr holl hanesion a gofnodwyd gan Rees yn ei amrywiol gyhoeddiadau yn chwarel anhepgor i haneswyr crefydd.

O droi at bedair cyfrol trwchus *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, dilynnir yr un drefn sef cofnodi hanes yr eglwysi ym mhob sir gan roddi sylw i bob cynulleidfa a changen yn unigol ynghyd â bywgraffiad byr o'u gweinidogion. Yn y Rhagdraith ar ddechrau'r gyfrol gyntaf cafwyd braslun cynhwysfawr o hanes Cymru yn gyffredin, gan fanylu ar gyflwr y wlad yn foesol a chrefyddol yn y blynyddoedd cyn cyfodiad Ymneilltuaeth. Wrth edliw i'r eglwys sefydledig mor druenus oedd sefyllfa ysbrydol Cymru cyn gwawrio Ymneilltuaeth, daeth amcan polemig y gwaith yn amlwg:

> Ni bydd Rhyddid Crefyddol Prydain yn gyflawn nes y byddo y sectau a elwir Eglwys Lloegr a Scotland wedi eu datgysylltu oddiwrth y Llywodraeth, a'u gosod ar yr un tir a'r enwadau eraill. Mae arwyddion yr amserau yn dangos, nad yw yr adeg pan y cymer hyny le yn mhell.[46]

Ar ddechrau a diwedd hanes yr eglwysi ym mhob sir, yr un oedd y bwriad wrth ychwanegu sylwadau a ffeithiau ystadegol yn adrodd am gynnydd a chwymp mewn pobologaeth yn y siroedd, cryfder yr Annibynwyr mewn perthynas â'r enwadau eraill, a hynny mewn cymhariaeth â rhifedi addolwyr Eglwys Loegr. Y nod oedd dangos cymaint lluosocach oedd niferoedd yr Ymneilltuwyr o'u cymharu â deiliaid yr eglwys wladol. Hyd yn oed ym Mynwy Seisnig, ble roedd y mewnlifiad o Loegr mewn perygl o foddi'r Cymry, ar Sul 30 Mawrth 1851 'yr oedd tua phedwar o bersonau yn addoldai yr Ymneilltuwyr am bob un oedd yn addoldai yr Eglwys Sefydledig'.[47]

Er gwaethaf y bwriad sectyddol a gwleidyddol amlwg a oedd y tu cefn i'r gwaith, nid tamaid yn llai yw'r clod sy'n ddyledus i Thomas Rees a John Thomas am grynhoi cymaint o hanes eglwysi Annibynnol Cymru, a fyddai fel arall wedi mynd ar goll. Er mai Thomas, oherwydd yr anhwylder a ddaeth i ran ei gyd-hanesydd yn 1873, a fu'n bennaf gyfrifol am lunio'r drydedd gyfrol a oedd yn cynnwys hanes eglwysi Sir Gaerfyrddin, eto, roedd llaw Rees i'w weld yn amlwg ynddi. Rhaid cofio am ei gefndir gwledig yng Nghapel Isaac, amgylchiadau ei ordeinio heb dderbyn hyfforddiant colegol, ei symudiadau o'r wlad i gymoedd y de-ddwyrain ac yna i Abertawe sef, erbyn canol Oes Victoria, y dref fwyaf yn y de diwydiannol. Ac yntau, o 1862 ymlaen, yn weinidog Ebenezer ac yn olynydd i David Davies, doedd dim syndod iddo dalu cryn sylw i eglwysi Abertawe ac i weinidogaeth gyfoethog a llwyddiannus Davies yno ac yn y cyffiniau. Cafodd yrfa a'i galluogodd i gydymdeimlo â phobl ym mhob rhan o'r de a'r de-orllewin yn bennaf, a llwyddodd, gyda chymorth y gogleddwr John Thomas, i rychwantu bywyd eglwysi Annibynnol Cymru yn ddaearyddol ac yn gymdeithasol ym mhob rhan o'r wlad ac ymhlith y Cymry alltud yn ninasoedd Lloegr.

---

[46] *HEAC*, 1, t. xxxii.
[47] *HEAC*, I, t. 1.

Serch eu natur or-bleidiol ac yn wahanol i gymaint o gynnyrch haneswyr crefyddol eraill ei gyfnod, erys gweithiau Rees yn bleserus i'w darllen hyd yn oed heddiw. Gall adrodd hanesion yn syml ac yn glir, gan osgoi'r duedd i ddoethinebu'n huawdl neu i foesoli'n ormodol. Mae'n drawiadol o wahanol yn hyn o beth i *Hanes Ymneillduaeth* David Morgan a'r cofiannau blodeuog yng nghyfrolau *Y Tadau Anibynnol*. Nid oedd Rees yn cymeradwyo cyfrol Morgan a mynegodd i John Thomas na fynnai gynorthwyo'r awdur i gwblhau'r gwaith. Roedd y gyfrol, yn ei farn (yn ôl adroddiad John Thomas), yn ddi-gynllun, yn rhy chwannog i chwythu'r utgorn Annibynnol yn hytrach na rhoi chwarae teg i'r mudiad Ymneilltuol cyfan, ac yn frith o wallau o ran enwau, dyddiadau a manylion hanesyddol. Yn bennaf oll, ni chredodd fod Morgan wedi gwneud y gwaith ymchwil angenrheidiol.[48] Ac yntau mor hoff o ymhél â hanes gan gasglu ffynonellau mewn hen lawysgrifau hwnt ac yma, roedd yn well ganddo wneud y gwaith gwreiddiol drosto'i hun. Roedd ef eisoes wedi bwrw prentisiaeth trwy lunio cofiannau byrion i wahanol weinidogion, yn eu plith hanes David Thomas, Pen-main, ac er gwaethaf maint y llafur, ymatebodd i'r her enfawr o ysgrifennu hanes yr holl eglwysi Annibynnol Cymreig. Yr oedd, ym marn John Thomas, yn nodedig am ei drefnusrwydd ac roedd ganddo'r ddawn nid yn unig i gasglu ffeithiau ond i'w nithio a'u didoli, i ysgaru'r gwych oddi wrth y gwael ac i fynegi'i hunan yn eglur ac yn sylweddol. 'Daeth o hyd i ffeithiau', meddai, 'na welodd neb o'i flaen mo honynt, a saif yn flaenaf ar restr ein haneswyr Cymreig'.[49] Yn nhermau haneswyr Ymneilltuol Oes Victoria, diau bod y farn hon yn gywir ac yn deg.

*John Edward Lloyd a haneswyr yr ugeinfed ganrif*

Wrth ddod at ffynonellau perthynol i'r ugeinfed ganrif roedd yn werth troi at lu o gyfrolau bychain yn crynhoi hanes y gwahanol eglwysi Annibynnol adeg dathliadau jiwbili arbennig yn hanes yr achosion ble llafuriodd Davies, Jones a Peter, ond ymhlith awduron y ganrif newydd roedd dau yn sefyll allan: John Dyfnallt Owen, hanesydd Heol Awst, [50] a'r Dr Lewis Evans, cofnodydd Capel Isaac,[51] y ddau yn wŷr o anian academaidd amlwg a oedd wedi'u hyfforddi'n drwyadl yn eu maes yng ngholegau Prifysgol Cymru. Yn hynny o beth, safent yn olyniaeth hanesydd proffesiynol mwyaf ei gyfnod, Syr John Edward Lloyd.

Wrth olrhain datblygiad hanesyddiaeth yr Annibynwyr yn ystod yr ugeinfed ganrif, mae'n anochel cydnabod cyfraniad allweddol J. E. Lloyd (1861-1947).[52] Fe'i maged yn eglwys Annibynnol Gymraeg Grove Street, Lerpwl,[53] eglwys y bu William Rees (Gwilym Hiraethog) yn weinidog arni rhwng 1853-75. Ar 7 Tachwedd 1875 wedi ymddeoliad Hiraethog y derbyniwyd Lloyd yn gyflawn aelod, a pharhaodd yn Annibynnwr selog gan fod yn weithgar ym mywyd ei enwad ar hyd ei oes. Gwasanaethodd am dymor fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Yn ôl ei gofiannydd Huw Pryce: 'Lloyd remained a committed Congregationalist, playing an active part in his church in Upper Bangor, and he took particular

---

[48] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, tt. 226-7.
[49] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 230.
[50] John Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (Caerfyrddin: W. M. Evans a'i Fab, 1926); amdano gw. *Bywg.* a Geraint Elfyn Jones, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1976).
[51] E. Lewis Evans, *Hanes Capel Isaac* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1950).
[52] Gw. ysgrif R. T. Jenkins amdano yn y *Bywg.* ac ysgrif R. R. Davies yn yr *Oxford Dictionary of National Biography.*
[53] *HEAC*, IV, tt. 419-21.

pride in his election as chairman of the Welsh Congregationalist Union in 1934-5.'[54] Prawf o'i deyrngarwch i'w etifeddiaeth oedd y llyfryn sylweddol *Trem ar Hanes yr Anibynwyr yn Nghymru* (1909). Ni chafwyd hyd yma loywach grynodeb o deithi'r Annibynwyr o'u dyddiau cynharaf. Fe'i cyhoeddwyd ar gais yr Undeb 'gyda'r amcan o osod yn llaw yr Anibynnwr ieuanc, grynodeb byr o hanes ei enwad yng Nghymru'.[55]

Yng ngeiriau un a ddaeth yn gydweithiwr ag ef, sef R. T. Jenkins, Lloyd, mewn gwirionedd, a 'greodd hanes Cymru'.[56] Ef a osododd ei sail fel disgyblaeth academaidd aeddfed, gan ddatblygu'r pwnc fel gwyddor fodern yng ngholegau Prifysgol Cymru a chreu fframwaith sefydliadol i'w gynnal i'r dyfodol. Mynnodd ddefnyddio'r dulliau gwyddonol manylaf wrth ymdrin â hanes yn seiliedig ar ffynonellau craidd wedi'u trin yn feirniadol a'u dadansoddi'n drylwyr. Er mai'r oesoedd canol oedd ei bennaf faes, nid esgeulusodd ran allweddol crefydd yng ngwead Cymru'r cyfnod modern cynnar. Ef a ddewisodd Thomas Richards ac R. T. Jenkins i drafod y maes yn ail gyfrol *A History of Carmarthenshire*,[57] a rhoes le blaenllaw i Ymneilltuwyr mawr a mân yn *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940*, gwaith a olygodd ar y cyd ag R. T. Jenkins.[58] Cyfrannodd hefyd 120 o ysgrifau ar destunau Cymreig i'r *Dictionary of National Biography*. Ef oedd llywydd cyntaf Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr, corff a sefydlwyd yn 1922, blwyddyn jiwbili yr Undeb, a pharhaodd yn y swydd tan ei farw yn 1947. Ei weledigaeth ef, yn bennaf, oedd *Y Cofiadur*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas, a phwysleisiodd ynddo yr angenrheidrwydd i drafod hanes ei enwad yn unol â'r safonau academaidd uchaf. Soniodd yn y rhifyn cyntaf am ddyled aruthrol y Gymdeithas i Thomas Rees:

> Gosodwyd sylfaen hanes Ymneilltuaeth i lawr yn gadarn ac yn eang gan Dr. Rees Abertawe, ac hyd yn hyn nid oes neb y mae mwy o ddyled arnom iddo nag i awdwr *History of Protestant Nonconformity in Wales*. Nid yw ond peth addas i rifyn cyntaf *Y Cofiadur* Annibynnol dalu teyrnged o barch i'w enw ac o ddiolch iddo.[59]

Braint y Gymdeithas Hanes fyddai parhau'r gwaith a ddechreuodd ef. Apeliwyd ar i'r aelodau wneud pob ymdrech i ddiogelu Llyfrau Eglwys a chasgliadau o ysgrifau personol gwerthfawr ar hyd a lled y wlad a'u trosglwyddo i ofal y Llyfrgell Genedlaethol.

Yng ngwrs y blynyddoedd gwelir yn amlwg ôl llaw J. E Lloyd ar raglen waith y Gymdeithas Hanes ac yn y paratoadau ar gyfer dathliadau chweched jiwbili yr Annibynwyr yn 1939. Clod i'r Gymdeithas Hanes oedd y rhaglen gyhoeddi helaeth a gafwyd yn ystod y dathlu y flwyddyn honno. Cyfeiriwyd eisoes at y llyfryn *Storïau am Annibynwyr*, ac ymddangosodd hefyd y gyfrol fechan *Eglwysi'r Annibynwyr*,[60] cyfrol o ddeuddeg ysgrif ar gyfraniad enwogion Annibynwyr cynnar gwahanol siroedd Cymru. A chyhoeddwyd yn ogystal ddwy gyfrol

[54] Huw Pryce, *J. E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Cardiff: University of Wales Press, 2011), t. 66.
[55] John Edward Lloyd, *Trem ar Hanes yr Anibynwyr yn Nghymru* (Caerdydd: Cwmni Cyhoeddiadol Addysgol, 1909), t. 3.
[56] Pryce, *J. E. Lloyd and the Creation of Welsh History*, t. 95.
[57] J. E. Lloyd (gol.) *A History of Carmarthenshire*, 2 Gyfrol, (Caerdydd: William Lewis, 1939).
[58] J. E. Lloyd, R. T. Jenkins, William Llewelyn Davies (goln), *Y Bywgraffiadur Cymreig Hyd 1940* (Llundain: Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1953)
[59] J. E. Lloyd, 'Nodiadau', *Y Cofiadur*, 1(1923), 1-4 [1].
[60] E. Curig Davies (gol.), *Eglwysi'r Annibynwyr* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1939).

sylweddol sef *Hanes ac Egwyddorion Annibynwyr Cymru* gyda Rhagymadrodd helaeth Lloyd ei hun,[61] ac astudiaeth fanwl gan un a ddaeth yntau yn hanesydd proffesiynol, sef Geraint Dyfnallt Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*.[62] Mae'r ddau waith yn gyforiog o wybodaeth a buont yn ffynonellau cwbl anhepgor ar gyfer y traethawd hwn.

*R. Tudur Jones a'i etifeddiaeth*

Os Lloyd oedd arloeswr y dull gwyddonol a gwrthrychol o ysgrifennu hanes crefydd, gyda chlasur R. Tudur Jones *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966) y daeth hanesyddiaeth yr Annibynwyr i'w hoed. Wedi graddio gyda chlod mewn Athrawiaeth Gristnogol a Hanes yr Eglwys yng ngradd y BD , ei athrawon yng Ngholeg y Brifysgol Bangor oedd cydweithwyr Lloyd, sef y Dr Thomas Richards a'r Athro R. T. Jenkins.[63] Wedi ei benodi yn athro Hanes yr Eglwys yng Ngholeg Bala-Bangor yn 1950, cyhoeddodd yn doreithiog yn *Y Cofiadur* ac mewn cylchgronau academaidd eraill,[64] ac ystyriwyd y cyfrolau *Congregationalism in England, 1662-1962* (1962), *Hanes Annibynwyr Cymru*, ac *Yr Undeb: Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1872-1972* (1975) yn rhai anhepgor ar gyfer unrhw astudiaeth o ddifrif yn y maes. Prin bod rhaid dweud bod ôl ei lafur ef ar y penodau sy'n dilyn. Parhaodd haneswyr a hyfforddwyd gan Tudur Jones i'n goleuo ni ymhellach ar hanes Ymneilltuaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac o ran maes yr astudiaeth hon, roedd traethawd ei fyfyriwr Noel Gibbard, 'Datblygiadau yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd, 1725-1841' (MA Prifysgol Cymru Bangor, 1973), yn eithriadol werthfawr.[65]

*Materion methodolegol*

Fel y gwelir o'r uchod, darllen a dadansoddi testunau fu'n sylfaenol i'r ymchwil hon, rhai gwreiddiol yn bennaf ynghyd â chymaint a oedd yn bosibl o destunau eilaidd perthnasol. Gwnaed pob ymgais i gael gafael ar gyhoeddiadau Davies, Jones a Peter, llythyrau a dogfennau ganddynt ynghyd a chofnodion y sefydliadau a hawliodd eu hamser, ac adroddiadau o'u gwaith yng nghyfnodolion, cylchgronau a phapurau newydd y cyfnod. Cofnodir manylion y ffynonellau hyn yn y troednodiadau yng nghorff y gwaith. Diau fod peth deunyddiau na lwyddais i ddod o hyd iddynt. Rhaid cyfaddef hefyd nad oes swmp o waith cyhoeddedig gan y tri ar gael. Ynghylch Davies, ar wahân i gyfrol o'i emynau a gyhoeddwyd wedi ei farw, a Beibl teuluaidd gyda nodiadau ymyl y ddalen a sylwadau ar bob pennod, gwaith a gwblhawyd wedi ei farw gan David Davies Pant-teg,[66] nid oes cofnod bod fawr rhagor o gynnyrch cyhoeddedig

---

[61] J. E. Lloyd (gol.), *Hanes ac Egwyddorion Annibynwyr Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939).
[62] Geraint Dyfnallt Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939).
[63] Gw. D. Densil Morgan, ' "Gan Dduw mae'r gair olaf": R. Tudur Jones (1921-98)', yn *Cedyrn Canrif: Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2001), tt. 218-52; idem, 'Twentieth century historians of Welsh Protestant Nonconformity', yn Alan P. F. Sell ac A. R. Cross (goln), *Protestant Nonconformity in the Twentieth Century* (Carlisle: Paternoster Press, 2003), tt. 78-101.
[64] Am restr o'i gyhoeddiadau, gw Derwyn Jones, 'Llyfryddiaeth: 1939-85', yn E. Stanley John (gol.), *Y Gair a'r Genedl: Cyfrol Deyrnged i R. Tudur Jones* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1986), tt. 247-57, a Huw Walters, 'Llyfryddiaeth: 1986-96', yn R.Tudur Jones, D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghmru, 1998), tt. 309-13.
[65] Dylid dweud, fodd bynnag, nad ym Mangor yr hyfforddwyd Dewi Eirug Davies, awdur cyfrol bwysig arall ym maes yr astudiaeth hon, sef *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1976).
[66] David Davies, *Y Bibl Sanctaidd ... gydag Ymyl-Nodau Cyfeiriol ac Eglurhaol, a Chrynodeb o Gynnwysiad pob Llyfr a phob Pennod* (Caerfyrddin: J. Evans, 1817).

i'w enw. Mae'r casgliad o nodiadau yn ei lawysgrif ei hun yn bytiog, yn anghyflawn ac yn anodd i'w darllen, a phrin eu bod yn gwneud cyfiawnder â'i allu areithiol.[67] Sylwadau R. Leonard Hugh amdanynt oedd: 'Ni theimlais ynddynt ddim arbenigrwydd ac ni chefais gymaint ag awgrym o athrylith yn y cynnwys nac yn y mynegiant'.[68] Ceir marwnad i'w goffáu o waith un Mary Mathews,[69] ac er i Davies gyfansoddi amryw o farwnadau yn ystod ei oes, nid ymddengys bod yr un ohonynt wedi goroesi. Am Morgan Jones mae gennym ei gyfrol yn hyrwyddo gwaith y genhadaeth dramor *Y Dydd yn Gwawrio* ynghyd ag emynau ar ei diwedd, ac fel David Davies, mae nifer o'i emynau wedi goroesi. Nid oes cofnod bellach o'i bregethau ar glawr, dim ond cyfieithiad o bregeth o waith Samuel Davies, pennaeth Coleg Princeton New Jersey, pregeth am y farn olaf a'r atgyfodiad cyffredinol oddi ar Ioan 5: 28-9.[70] Pregeth faith ydyw ar yr un testun ac yn debyg iawn o ran ei chynnwys a'i harddull i'r bregeth a draddododd Edmund Jones ar achlysur marw Evan Williams Cwmllynfell.[71] Y mae gennym rai llythyrau gwerthfawr o eiddo Jones mewn perthynas ag efengylu yn ne Sir Benfro ac sy'n manylu ynghylch diwygiad ysbrydol a dorrodd allan yn Nhre-lech, a dau holwyddoreg o'i waith sy'n help i ni ddeall ei safbwynt athrawiaethol a'i eglwysoleg. Ceir sôn am y deunyddiau hyn yn y penodau sy'n dilyn. Lluniwyd marwnad iddo gan Lewis Powell Caerdydd.[72] Er gwaethaf y prinder hwn, teimlwyd fod digon o dystiolaeth i fedru tafoli'n ddigonol natur eu cyfraniad hwy'll dau.

O ran David Peter, ceir ei gyfieithiad o holwyddoreg Samuel Palmer *Catecism yr Ymneilltuwyr Protestannaidd,* ei ddwy bregeth genhadol *Y Dydd yn Gwawrio* a *Universal Diffusion of the Gospel*, ynghyd â'i brif waith sef *Hanes Crefydd yn Nghymru*. Mae toreth o'i lythyrau yn ei lawysgrifen mewn perthynas â'i waith gyda'r Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain ynghyd â llythyrau a dogfennau yn eiriol ar ran ymgeiswyr at Fwrdd Cyfarwyddwyr y Gymdeithas Genhadol. Bu'n frwd yn danfon adroddiadau cyson i'r *Carmarthen Journal* a ddaeth yn ffynhonnell werthfawr i mi, megis y cyfeiriadau mynych ato yng nghofnodion cyfarfodydd a phwyllgorau'r Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain. Lluniwyd marwnad i'w goffau gan James Davies, 'Iago ap Dewi'.[73]

Wrth lunio'r traethawd treuliwyd cryn amser yn Llyfyrgell Dr Williams, Gordon Square, Llundain yn ymchwilio i gofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, noddwyr yr Academi yng Nghaerfyrddin. Darllenwyd am berfformiad y myfyrwyr (a'u camymddwyn) yn ystod cyfnod llywyddiaeth Peter, ffeithiau ynghylch yr athrawon, yr hanesion am drafferthion y coleg a'i lwyddiannau, a daethpwyd o hyd i wybodaeth am yr ymweliadau swyddogol â Chaerfyrddin a gynhaliwyd bob tair blynedd. Roedd yno gasgliad o lythyrau o eiddo Peter a'i gyd-athrawon a

---

[67] Casgliad o bregethau David Davies, LlGC MS 404A.
[68] R. Leonard Hugh, 'David Davies, Mynydd-bach: Pregethwr y caraswn ei glywed', *Y Dysgedydd* (Rhagfyr 1954), 324-7 [325].
[69] Mary Mathews, *Marwnad er Coffadwriaeth am y Parchedig Dafydd Dafis, Gweinidog yr Efengyl yn Ebenezer, Abertawe* (Abertawe: J. Harries, d.d.).
[70] Samuel Davies, *Pregeth ar yr Agyfodiad Cyffredinol oddiwrth ioan V. 28,29 ... wedi ei chyfieithu i'r cymraeg gan y Parch M. Jones* (Caerfyrddin: Ioan Daniel, d.d.).
[71] Edmund Jones, *A Sermon Preached from John V, 28,29. Occasioned by the death of Mr. Evan Williams, Preacher of the Gospel in Wales* (London: 1750).
[72] Lewis Powell, *Y Llwythau Mewn Dyfnder Galar ar ol y diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836).
[73] David James, *Galar gan er coffa am y diweddar Barch. David Peter, Gweinidog yr efengyl, ac Athraw yr Athrofa yn Nghaerfyrddin yr hwn a fu farw Mai 4ydd 1837 yn 72 oed* (Caerfyrddin: J. Thomas, 1837).

daflodd oleuni newydd ar natur gwaith y Llywydd ac ar ei safle ymhlith addysgwyr Ymneilltuol y cyfnod. Yn ystod yr ymweliadau â Llundain, treuliwyd cryn amser hefyd yn archifdy Ysgol Gwyddorau Affricannaidd a Dwyreiniol Prifysgol Llundain (SOAS), yn crybinio trwy'r deunydd yn archif Cymdeithas Genhadol Llundain (yr LMS) a Chyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Pwrpas hyn oedd dod o hyd i wybodaeth newydd am gyfraniad y triwyr at achos y genhadaeth dramor. Etholwyd y tri ohonynt yn eu tro yn gyfarwyddwyr ac yn gynrychiolwyr Cymru ar Fwrdd y Gymdeithas. Roedd ymhlith y 'Candidates Papers' ddeunyddiau gwerthfawr megis llythyrau yn cynnwys geiriau o gymeradwyaeth ar ran ymgeiswyr, cyflwyniadau a oedd yn cynnwys tystiolaeth o'u profiadau ysbrydol â'u hymdeimlad o alwad Duw i'r gwaith, ynghyd â chopïau o'u cyffesion ffydd. Ceid rhagor o fanylion am y darpar genhadon yn adroddiadau'r 'Committee of Examination of the Missionary Society' ac yng nghofnodion Bwrdd Cyfarwyddwyr y Gymdeithas Genhadol. Aed trwy gasgliad yr *LMS Reports* blynyddol, sy'n cynnwys manylion am gyfraniadau ariannol yr eglwysi Cymreig a chofnodion Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas ynghyd â gwybodaeth werthfawr yno am yrfaoedd y cenhadon a fu'n gwasanaethu yn enw a than nawdd y Gymdeithas. Y deunyddiau uchod, mewn llawysgrif ac yn llyfrau print, yw'r sail i beth bynnag sy'n wreiddiol yn y traethawd hwn.

*Crynodeb o'r penodau sy'n dilyn*

*Pennod 2: Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837: y cefndir a'r trawsnewid*.
Ceir awgrym ynghylch arafwch y cynnydd yn rhengoedd yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn yr union flynyddoedd wedi'r Diwygiad Efengylaidd yn yr hyn a ysgrifennodd Geraint H. Jenkins: 'Since few Dissenting ministers prior to the 1740s believed that the world was their parish, recruits dribbled rather than flowed into their congregations'.[74] Pwrpas y bennod hon yw darlunio natur y cyfnod *interim* rhwng yr Hen Ymneilltuaeth c.1700-40 a blynyddoedd yr Ymneilltuaeth Newydd, c. 1815 ymlaen; cynnig rhesymau pam y bu'r cynnydd mor fychan am yr hanner can mlynedd wedi 1735, ac yna ei gyferbynnu â'r twf aruthrol a brofwyd yn ystod gweinidogaeth Davies, Jones a Peter, a nodi fel roedd eu llwyddiannau yn gynrychioliadol o'r patrwm ehangach yn ne-orllewin Cymru yn ystod y cyfnod. Gyda chymorth mapiau dangosir lleoliadau prif feysydd eu gweithgarwch a mesurir eu cyfraniad yng nghyfanswn yr eglwysi y buont yn offerynnol i'w plannu. Yn y penodau dilynol anelir at ddadansoddi'r twf a'r cynnydd hwn.

*Pennod 3: Annibynwyr y de-orllewin: ffurfiant Davies, Jones a Peter*.
Rhoddir sylw i gynefin magwraeth y tri a'u haddysg gynnar gan ddangos mor wahanol oedd cefndir crefyddol a diwylliannol y tri. Megis yng nghonfensiwn cofiannau gweinidogion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhoddir sylw i'w tröedigaethau a'u hymdeimlad o alwad i'r weinidogaeth. Cwestiynnir yn achos Davies ai gwir oedd yr hanes amdano, wedi ei dröedigaeth, iddo droi at eglwys yr Annibynwyr ym Mhencader o dan weinidogaeth William Perkins, a pham na chafodd ei ordeinio am gyhyd. Dangosir hefyd y llwybrau gwahanol a gymrodd y tri cyn cael eu hurddo, ac fel, yn groes i ddisgwyliadau arferol yr Annibynwyr ar y pryd, na chafodd Davies a Jones eu hyfforddi ym mhrif academïau Ymneilltuol y cyfnod. Rhoddir hefyd ychydig sylw i fywyd priodasol y tri.

[74] Jenkins, *The Foundations of Modern Wales 1642-1780*, t. 382.

*Pennod 4: Annibynwyr y de-orllewin a'u diwinyddiaeth*.

Er i'r Hen Ymneilltuwyr goleddu'r daliadau Calfinaidd yn bennaf, eto daeth Sir Gaerfyrddin a'r de-orllewin yn ferw o ymbleidio diwinyddol. Wrth roi lle i'r datblygiadau meddyliol diweddaraf megis Arminiaeth ac Ariaeth, roedd yr Academi Bresbyteraidd yng Nghaerfyddin yn allweddol yn y symudiad hwn, gyda rhai myfyrwyr a gweinidogion yn ymwrthod yn llwyr â Chalfiniaeth gan gofleidio syniadau Sosinaidd a throi'n Undodiaid. Darlunnir safbwyntiau athrawiaethol y tri, Davies a Jones yn glynu'n fras at Uchel Galfiniaeth y ddeunawfed ganrif, er ei thymheru ag ysbryd cenhadol y Diwygiad Efengylaidd, tra bod Peter yn arddel o'r dechrau y Galfiniaeth gymedrol – y 'System Newydd' – a ddaeth yn ganolog yn nhystiolaeth yr Annibynwyr o ail ddegawd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Er gwaethaf ymlediad rhesymoliaeth ac Undodiaeth, cymharol fychan fu'r twf yn rhengoedd yr Undodiad yn ne-orllewin Cymru yn y cyfnod dan sylw, gyda gweinidogaeth Davies, Jones a Peter yn dangos goruchafiaeth yr uniongrededd Galfinaidd ymhlith Annibynwyr eu hoes.

*Pennod 5: Annibynwyr y de-orllewin a'r diwygiadau.*

Gan ddarlunio Cymru'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fel 'Gwlad y Diwygiadau', rhoddir diffiniadau o'r term crefyddol 'Diwygiad' a'i wahaniaethu oddi wrth y term 'Adfywiad', gan bwyso ar ddamcaniaethau rhai o'r awduron megis Edward Parry, Henry Hughes a John Hughes a fu'n croniclo hanes y diwygiadau yng Nghymru'r cyfnod. Enghreifftir dylanwad y diwygiadau yn hanes gweinidogaeth Morgan Jones a David Davies, a thrafodir eu dylanwad yng nghyd-destun y diwygiadau ehangach a brofwyd yn y de-orllewin ac ymhellach, ac a fu'n un o brif ffactorau hanes Ymneilltuaeth Gymraeg oddi ar ddyddiau'r Hen Ymneilltuaeth. Dangosir sut y cyfrannodd hyn at y trawsnewid cymdeithasol, diwylliannol a maes o law wleidyddol a greodd erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg fythos 'y Genedl Ymneilltuol'. Ar ddiwedd y bennod rhoddir sylw i ymdriniaethau ymhlith rhai ysgolheigion cyfoes a'u dadansoddiad o ffenomen diwygiadaeth.

*Pennod 6: Annibynwyr y de-orllewin a'r genhadaeth dramor.*

Wedi cofnodi sefydlu'r Gymdeithas Genhadol yn 1795 olrheinir y diddordeb cynyddol yn y genhadaeth dramor gan roi sylw i gyfraniad arbennig Thomas Charles o'r Bala, ac yna'r gefnogaeth gynharaf i'r fenter ymhlith Annibynwyr Cymru. Tafolir cyfraniad Morgan Jones, a'i gyhoeddiad pwysig *Y Dydd yn Gwawrio,* yntau ymhlith y cyntaf i hyrwyddo'r gwaith ymhlith yr Annibynwyr, a sonnir am lafur David Davies a fu'n bennaf gyfrifol am sefydlu Cangen Gynorthwyol Deheudir Cymru o'r Gymdeithas Genhadol yn 1814, y gyntaf o'r canghennau cynorthwyol i'w sefydlu yng Nghymru; penodwyd David Peter a'r Methodist David Charles yn gyd-ysgrifenyddion y flwyddyn honno. Etholwyd Jones, Davies a Peter yn eu tro yn gyfarwyddwyr tros Gymru ar Fwrdd y Gymdeithas Genhadol, a rhoddir sylw arbennig i gyfraniad ac arweiniad Peter yn eiriol ar ran y cenhadon a godwyd yn eglwysi'r de-orllewin, lawer ohonynt yn aelodau yn eglwys Heol Awst ac yn fyfyrwyr yn Academi Caerfyrddin yn ystod cyfnod ei lywyddiaeth.

*Pennod 7: gweinidogaeth a threfn eglwysig ymhlith Annibynwyr y de-orllewin.*

Rhoddir sylw yn y bennod hon i'r ddealltwriaeth o Annibyniaeth a Chynulleidfaoliaeth fel patrwm, trefn a ffurflywodraeth eglwysig, yn unol â dysgeidiaeth y Testament Newydd, ac fel y'u mabwysiadwyd gan y mudiad. Olrheinir datblygiad y gyfundrefn, gan fanylu ar yr ymdrechion i feithrin cyswllt ymhlith gweinidogion ac eglwysi a fel y bu iddynt ysbrydoli ac

ysgogi ei gilydd. Rhoddir sylw i bwysigrwydd y cymanfaoedd, a ddatblygodd maes o law yn gyfundebau ac yn gyrddau chwarter, gan arwain, erbyn Oes Victoria, at sefydlu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Trafodir hefyd yr ymbellhau rhwng yr hen Bresbyteriaeth fwy hierarchaidd ei hosgo, a'r ddealltwriaeth gynulleidfaol newydd ym mater llywio bywyd eglwys, gan nodi natur y gwahaniaethau rhyngddynt ym maes ordeinio gweinidogion a sefydlu achosion newydd. Trafodir arwyddocâd y cyffesion ffydd a'r cyfamodau eglwys fel offerynnau i feithrin perthynas rhwng aelodau â'i gilydd. Rhoddir sylw hefyd i ddatblygiadau cynnar ym maes yr Ysgol Sul a'r gymanfa bwnc, ynghyd â'r defnydd o gateceisio fel cyfryngau i hyfforddi plant ac ieuenctid â'u paratoi at ddod yn gyflawn aelodau. Rhoddir sylw i natur gwaith diacon, henuriad, pregethwr a bugail, pwrpas ac arferion disgyblaeth eglwysig, ynghyd â diwinyddiaeth y sacramantau. Yn olaf trafodir perthynas y mudiad â materion gwladwriaethol wrth i'r Ymneilltuwyr, yr Annibynwyr yn eu plith, amddiffyn eu hunain yn wyneb bygythion o du'r wladwriaeth ynghyd â'r ymgyrch i ennill mwy o ryddid, statws a chydraddoldeb crefyddol mewn cymhariaeth â safle'r eglwys sefydledig yn y gyfundrefn wladol.

*Pennod 8: Annibynwyr y de-orllewin ac Academi Caerfyrddin.*
Tafolir yn y bennod hon dymor maith David Peter fel Llywydd Academi Bresbyteraidd Caerfyrddin gan roi sylw i'w benodiad (annisgwyl ac yntau'n Galfin selog ac yn Annibynwr digymrodedd) ar sefydliad Presbyteraidd a oedd yn nodedig ar gyfrif ei ryddfrydiaeth ddiwinyddol. Wedi cyfnod helbulus ac ansefydlog, dangosir sut, o 1795 ymlaen, y creodd Peter gytgord a threfn. Llwyddodd gydol ei flynyddoedd i gynnal safonau addysgol uchel yng ngwir draddodiad Academïau Ymneilltuol y ddeunawfed ganrif, ac ymatebodd yn barhaus i'r gofyn ar ran y Bwrdd Presbyteraidd i godi safonau trwy gydol degawdau ei lywyddiaeth. Nid nad oedd heb ei feirniaid, ymhlith Calfiniaid yr adain dde ac Undodiaid yr adain chwith, eto llwyddodd i gadw ymddiriedaeth ei noddwyr ar y Bwrdd Presbyteraidd, i barchu egwyddorion rhyddfrydig y coleg, ac ennill cefnogaeth ymhlith y gweinidogion a'r eglwysi Calfinaidd yn ogystal â'r rhai rhyddfrydol. Cafodd ei ganmol am greu a chadw awyrgylch heddychlon ymhlith corff o fyfyrwyr a oedd yn arddel safbwyntiau athrawiaethol sylfaenol wahanol i'w gilydd. Telir sylw i'r modd y bu iddo oroesi beirniadaeth chwerw a'r cyhuddiadau o fod yn rhagfarnllyd tuag at Undodiaid. Er i'w gyfrol *Hanes Crefydd yn Nghymru* (1816) fod yn boblogaidd yn ei dydd, bychan oedd ei gyfraniad i wir ysgolheictod ac ychydig oedd swm ei weithiau cyhoeddedig. Prin oedd ei wreiddioldeb meddyliol ac ni feddai athrylith o unrhyw fath, ond cadwodd serch ei fyfyrwyr a chafodd deyrngedau haeddiannol ar sail ei ddiwydrwydd, ei ffyddlondeb a'i safle flaenllaw fel addysgwr ac arweinydd. Yn ogystal â hyn, cydnabuwyd ef fel y mwyaf llwyddiannus o weinidogion ei genhedlaeth.

*Pennod 9: Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837: rhai casgliadau.*
Dangosir fel roedd y twf yn hanes yr eglwysi Annibynnol yn cydredeg â'r cynnydd yn y boblogaeth a'r datblygiadau a gafwyd yn sgil y Chwyldro Diwydiannol a'r Chwyldro Amaethyddol. Roedd yn gyfnod o dwf cyffredinol, ac megis y datblygiadau economaidd a chymdeithasol, bu'n gyfnod cyffrous yn y byd crefyddol. Crynhoir fel roedd prif wrthrychau'r traethawd yn cynrychioli trobwynt yn natblygiad yr Ymneilltuwyr, tymor a oedd yn pontio rhwng yr Hen Ymneilltuaeth a'r Ymneilltuaeth Newydd a oedd eisoes yn ei grym erbyn dechrau Oes Victoria. Yn sgil Diwygiad Efengylaidd y ddeunawfed ganrif, bu'r tri yn gyfryngau i ddwyn i mewn newydd-deb, cyffro ac egni anarferol i weinidogaeth a thystiolaeth yr eglwysi Annibynnol yn eu hardaloedd, yn unol â'r hyn a brofwyd mewn mannau eraill o'r

wlad. Esgorodd hyn ar ysfa genhadol newydd gyda Davies a Jones yn ymgorfforiad o weinidogion 'Methodistaidd' eu hanian, a Peter yn cynrychioli Calfiniaeth fodern y 'System Newydd', trefn athrawiaethol a oedd yn prysur ddisodli'r Uchel Galfiniaeth gaeth a nodweddodd farn llawer o weinidogion cyfnod yr Hen Ymneilltuaeth. Gan ddefnyddio dosbarthiad D. W. Bebbington o brif nodweddion y term 'Efengylaidd', dangosir fel roedd gweinidogaeth Davies, Jones a Peter yn cydweddu â hyn, ac yn cydymffurfio â'r patrwm Prydeinig ehangach. Pregethwyr efengylaidd, uniongred, oedd y tri ohonynt, a hyn, yn wahanol i resymoliaeth Ariaidd ac Undodaidd yr hen Bresbyteriaid, yn gyfrinach eu poblogrwydd a'u hapêl. Cyfeirir yn benodol at ddatblygiad eglwys Heol Awst o dan David Peter fel enghraifft amlwg o hyn. Terfynir yr astudiaeth trwy dafoli gwaddol y tri ohonynt, a'u cyfraniad at yr hyn y daethpwyd i'w ystyried yn 'oes aur' yr Ymneilltuaeth dorfol Gymreig.

## Pennod 2

## Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837: y cefndir a'r trawsnewid

### 1. Y farn hanesyddol

Ym marn haneswyr Annibynnol Oes Victoria, lled wyw oedd yr achos cyn canol y ganrif flaenorol. Wedi dadansoddi ystadegau Dr John Evans a gyhoeddwyd yn 1715, mae John Thomas yn ei bennod 'Ad-drem ar Ymneillduaeth Cymru' yn trafod cyflwr ysbrydol yr eglwysi Ymneilltuol er corffoli eglwys Llanfaches yn 1639. Am yr hanner canrif yn dilyn tröedigaeth Howell Harris yn 1735, y mae'r casgliad y daw iddo yn negyddol iawn:

> Teg ydyw dweyd, yn y cyfnod yna o 50 mlynedd, pan yr oedd y Diwygwyr yn tramwy y wlad i bregethu teyrnas Dduw, ac i blanu eglwysi, nid ydym yn cael fod mwy na 15 o eglwysi newyddion wedi eu sefydlu gan y Bedyddwyr; nac ond 46 wedi eu ffurfio gan yr Annibynwyr; tra yr oedd y Methodistiaid yn yr un ysbaid wedi sefydlu o leiaf 150 o eglwysi. Yn ol popeth a allwn gael allan, dyma yr haner can' mlynedd mwyaf digynydd yn hanes ein henwad.[1]

Rhydd yr argraff ei fod wedi rhoi yr eglwysi yn y glorian a'u cael yn brin. Beth oedd y rhesymau y tu cefn i'w gasgliad? Er cydnabod bod yr Ymneilltuwyr o ran rhifedi yn 1715 yn ddigon i fod yn allu ysbrydol yn y wlad, eto:

> Rhaid i ni er hyny gydnabod nad oedd ei nerth ysbrydol yn cyfateb i'w nerth rhifyddol. Nid yw ond ofer ceisio lliwio ffeithiau yn amgen na'r hyn oeddynt. Yr oedd cryn lacrwydd wedi dyfod i mewn yn yr athrawiaethau; a'r surdoes oedd yn amlwg erbyn hyn yn yr Athrofa yn Nghaerfyrddin, yn lefeinio nid ychydig o'r eglwysi; a lle nad oedd dirywiad mewn athrawiaeth yn eglur iawn, yr oedd ysbryd yr eglwysi i raddau helaeth wedi ei sychu i fyny gan ffurfioldeb a deddfoldeb. Teimlid fod rhyw wywdra wedi meddianu llawer o grefyddwyr; a'r llwydrew oer a difaol wedi cymryd lle y gwlith tyner ac ireiddiol a welid yn amlwg unwaith. Ac yn yr eglwysi oedd yn glynu yn ffyddlawn wrth ffurf yr ymadroddion iachus, yr oedd dadleuon poethion, ac yn aml cyndynddadleu, yn cael llawer gormod o le; ac nid oeddynt fynychaf ond 'ymryson yn nghylch geiriau, yr hyn nid yw fuddiol i ddim, ond i ddadymchwelyd y gwrandawyr'. Athrawiaethol oedd nodwedd y weinidogaeth, a hyny yn bynciol, os nad yn aml mewn gwedd ddadleugar; fel yr oedd gofalu am fod yr athrawiaeth yn iach yn cael mwy o le yn y pulpud, na bod eneidiau y gwrandawyr yn iach ac yn llwyddo. Ychydig o arwyddion cynydd a fu am yn agos i chwarter canrif wedi gwneud yr ystadegaeth yn 1715. Ffurfiwyd amryw eglwysi newyddion; ond gwnaed hyny gan mwyaf lle yr oedd yn flaenorol ganghenau yn cyfarfod; a phrofodd eu corffori yn eglwysi yn llesiol; oblegid yn ychwanegol at ddwyn y canghenau hyny i deimlo eu cyfrifoldeb yn fwy, yr oedd yr eglwysi newydd-ffurfiedig yma yn dyfod yn ganolbwyntiau i'r rhai y cyrchai llawer nad elent o'r blaen i'r fam-eglwys. Mae hyn bob amser yn dilyn ffurfiad eglwysi newyddion. Casglant atynt ryw rai na chymerent yn flaenorol unrhyw

[1] *HEAC*, V. t. 474

> ddyddordeb neillduol mewn crefydd. Ond ychydig o dir newydd a dorwyd yn yr adeg dan sylw, ac ni wneid fawr o ymdrech i bregethu yr efengyl lle ni enwid Crist.[2]

Er bod ei sylwadau yn y dyfyniad hirfaith hwn at ei gilydd yn llawdrwm iawn, y mae rhai o'r pwyntiau y mae'n manylu yn eu cylch yn rhai teg.

*'Dadleuon poethion, ac yn aml cyndynddadleu'*

Rhagflaenydd Morgan Jones yn y weinidogaeth yng Nghapel-y-Graig, Tre-lech, oedd Owen Davies. Fe'i sefydlwyd yn 1765, a llafuriodd gyda mesur helaeth o lwyddiant am ugain mlynedd tan iddo ymateb i gynnen a rhwyg yn eglwys Glandŵr, Sir Benfro. Bu i rai aelodau blaengar yno goleddu golygiadau Arminaidd a oedd yn groes i farn Galfinaidd gweddill yr eglwys. Wedi pob ymdrech i'w diddyfnu oddi wrth y golygiadau hynny, penderfynwyd eu diarddel. Daeth yr aelodau hyn i gyswllt ag Owen Davies. Nid oedd ef yn rhannu yr un golygiadau athrawiaethol â'r rhai a ddiarddelwyd, ond gan iddo gredu fod y ddisgyblaeth a weinyddwyd arnynt yn rhy llym, ceisiodd eu derbyn yn aelodau yng Nghapel-y-Graig. Ond safodd yr aelodau yno yn erbyn hyn, gan eu bod o ran athrawiaeth o'r un farn â'r aelodau yng Nglandŵr. Un a adnabu Owen Davies oedd J. J. Beynon, awdur cofiant i olynydd Davies. Fel hyn y disgrifiodd y bennod chwerw:

> On this ordinance Sabbath, when Mr Davies intended to admit the persons already mentioned, the elders and deacons, with the church, a very small number excepted, agreed (painful as it was to them,), to prevent the possession of the chapel by Mr Davies and his party, and in consequence of this Mr Davies with his friends retired to his own home at Dinas and there ministered to those who followed him.[3]

Wedi'r dadlau a'r anghydweld, gadawodd Owen Davies a rhai o'i gefnogwyr mwyaf selog yn Nhre-lech yr eglwys yno, ac wedi bod yn cynnal addoliad am ychydig yn ei gartref ei hun, fe godasant gapel yn Rhyd-y-parc, gyda Davies yn weinidog arnynt. Achosodd y rhwyg yn Nhre-lech lawer o ddrwgdeimlad ymhlith yr aelodau. Nid oedd neb yn credu bod Owen Davies wedi cyfeiliorni yn ei olygiadau athrawiaethol, ond gwelent ei fod ef ar fai am gymryd plaid yr aelodau a ddiarddelwyd gan Landŵr. Wedi cofnodi hanes yr ymraniad, diddorol yw sylw J. J. Beynon, genhedlaeth neu ddwy yn ddiweddarach: 'There is no knowing what this good man suffered in his mind in consequence of this hasty and imprudent step'.[4] Bu i Davies weinidogaethu yn Rhyd-y-parc dros weddill ei oes, heb fedru dychwelyd i weinidogaethu yng Nghapel-y-Graig. Cydnabu, yn ddiweddarach, iddo gael ei dwyllo yn y rhai y cymerodd eu plaid, a'u bod wedi gwŷro yn llawer pellach nag yr oedd ef wedi tybied, sef at Ariaeth a Sosiniaeth. Cyn diwedd ei oes cydnabu Davies ei fod wedi bod ar fai yn y rhan a chwaraeodd yn y dadlau a'r rhwyg. Dymunodd gael ei gladdu ym mynwent Capel-y-Graig, a chaniatawyd ei ddymuniad, er bod bedd wedi ei dorri iddo ym mynwent Rhyd-y-parc.[5] Ond pennod drist

---

[2] *HEAC*, V, t. 457.
[3] J. J. Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ, Exemplified in the Life and Ministry of the Late Rev. Morgan Jones, of Trelech, Carmarthenshire* (London: J. Snow, Paternoster Row, 1848), t. 18.
[4] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls*, t. 19.
[5] *HEAC*, III, t. 400.

fu'r ymwahanu yn hanes Capel-y-Graig: 'Effeithiodd yr amgylchiad yma yn fawr ar yr eglwys hon, fel y collodd lawer o'r tir oedd wedi ei enill yn yr ugain mlynedd blaenorol'.[6]

Roedd John Thomas felly yn llygaid ei le pan gyfeiriodd at lacio yn yr athrawiaeth, hynny'n lefeinio eglwysi'r wlad a'r dadlau ynghylch athrawiaeth yn cael llawer gormod o le. A bu cymaint o wahanol ddadlau a rhwygiadau mewn gwahanol eglwysi. Bu cryn ymryson yn eglwys Cefnarthen, mam eglwys Morgan Jones, dadlau a arweiniodd at ymraniad y gynulleidfa yno yn 1740. Tan 2 Rhagfyr 1739 pryd y pregethodd David Thomas ei bregeth olaf yng Ngefnarthen, roedd yna dri o weinidogion yn gwasanaethu'r eglwys sef David Williams a John Williams a oedd yn gweinidogaethu i'r blaid Arminaidd, a David Thomas a weinidogaethai i'r blaid Galfinaidd. Ond bu rhwyg wedi ymadawiad David Thomas. Parhaodd y garfan Arminaidd i addoli yng Nhefnarthen ac wedi myned allan, aeth y Calfiniaid i addoli i le elwid Glynpentan, gan godi yn ddiweddarach gapel newydd i'r gynulleidfa yno ym Mhentre-tŷ-gwyn yn 1749. Dywedir fod Edmund Jones Pont-y-pŵl wedi bod â rhan amlwg yn y gwahanu ac ef oedd y cyntaf i weinyddu'r cymundeb yng Nglynpentan.[7] Unwyd yr achos drachefn yn 1772.

Un a gofiai'r croesddadlau oedd William Williams Pantycelyn. Tybir mai am y dadlau chwerw a'r ymraniad y canodd yn *Theomemphus*:

> Terfysgwyd pennau'r bobl, fe rannwyd yma a thraw;
> Dau biniwn mewn un eglwys, ac weithiau wyth neu naw;
> Sêl at y pethau lleia' yn gweithio yn y dall,
> Un pulpud yn fflangellu'r athrawiaeth yn y llall.
>
> Didolwyd, gwnawd partïon o'r bobl oedd gytûn,
> Tri'n erbyn pump rai prydiau, neu ddeg yn erbyn un;
> Cyhoeddwyd cymanfaoedd o'r de i'r dwyrain dir
> I chwilio gwraidd opiniwn a gwneud y pwnc yn glir.[8]

Er adleisio hwyrach brofiadau ei blentyndod yn ei gerdd, eto rhaid cofio bod

> Williams yn gwbl gefnogol i safiad ei rieni yng Nghefnarthen tros uniongrededd Galfinaidd ac ni ŵyrodd yntau oddi wrth y safbwynt hwnnw gydol ei oes. Ond gwyddai'n dda nad uniongrededd athrawiaeth yw swm a sylwedd Cristnogaeth. At ei gilydd, yr uniongrededd honno oedd yn rhyngu bodd i'r Annibynwyr ac o'r pridd athrawiaethol hwnnw y blagurodd yr egni efengylaidd a chenhadol a oedd cyn bo hir i'w nodweddu.[9]

Wrth grynhoi hanes dadlau yn eglwys Glandŵr ar droad y ganrif, gwnaeth John Thomas a Thomas Rees y sylw: '[e]r nad yw dadleuon a phleidiau croesion yn ddymunol mewn eglwys, y maent yn llawer llai anymunol nag anwybodaeth a difaterwch am wirioneddau crefydd'.[10]

[6] *HEAC,* III, t. 396.
[7] *HEAC,* III, t. 583.
[8] Gomer Morgan Roberts (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, Cyfrol 1 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964), t. 229.
[9] R. Tudur Jones, 'Annibynwyr Cymru Ddoe', yn Iorwerth Jones (gol.), *Yr Annibynwyr Cymraeg Ddoe, Heddiw ac Yfory* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1989), tt 9-33 [15].
[10] *HEAC*, III, t. 45

Ac o gydnabod y difaterwch sydd yn hanes crefydd yr eglwysi Ymneilltuol heddiw, pwy na all gytuno gyda sylw o'r fath? Ond a gariwyd y dadlau a'r croesdynnu yn rhy bell yn y cyfnod?

*'Bod yr athrawiaeth yn iach yn cael mwy o le ... na bod eneidiau ... yn llwyddo'*

Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif bu rhwyg arall drachefn yn Glandŵr ar fater yr athrawiaeth. Ymwahanodd y garfan Uchel-Galfinaidd a ffurfio eglwys yn Hebron. Bu ymraniadau yn Henllan Amgoed yng nghyfnod David John Owen a Lewis Thomas yn 1707-9, pan ffurfiwyd eglwys Rhydyceisiad, ac ymraniad pellach yn 1711 pan ymadawodd Mathias Maurice a Henry Palmer â Henllan ac ymuno gyda Rhydyceisiaid. Roedd Maurice o'r farn mai ymrannu oedd y peth iawn i'w wneud os oedd pob ymgais i anheddu anghydfod wedi methu. Yn ôl Wynford Thomas, roedd Maurice wrth gloi ei gyfarchiad i'r *Byr Hyfforddiad* wedi dweud 'y byddai'n barod i gymryd yr un llwybr unwaith eto er mwyn diogelu purdeb yr eglwys leol'.[11] Meddai Thomas amdano: 'Credai mai wrth ymrannu oddi wrth eglwysi sydd wedi cael eu llygru, a sefydlu eglwysi newydd y deuai llwyddiant i'r efengyl',[12] oherwydd

> fel hyn yr adnewyddir ac y cynhelir, purdeb, pan y byddo pob modd arall yn methu. Tra y byddo eraill yn gorphwys ar eu sorod, yn cablu ac yn difenwi gan alw ffyddlon blant Duw yn Schismatics, Rhwygwyr, ac eraill ddychrynus enwau, bydded iddynt hwy fendithio Duw, ac edrych ar eu hymraniad a'u didoliad fel eu gogoniant. A bydded iddynt fyw yn addas iddo.[13]

Mewn perthynas â gwarchod y drefn gynulleidfaol, yn ôl J. Dyfnallt Owen 'safiad Lewis Thomas a'i ddilynwyr yn ddiau a achubodd Henllan rhag gwyro a'i cholli'i hun yn llwyr yn y Bresbyteriaeth a ddatblygodd yn ddiweddarach yn Undodiaeth'.[14] Pan ddychwelodd Henry Palmer o Rydyceisiaid i Henllan yn 1721, adferwyd yr athrawiaeth a'r ddisgyblaeth a fodolai yno yn ystod gweinidogaeth Dafydd Lewis, ac felly unionwyd y cam a wnaethpwyd â Lewis Thomas a'i blaid yn ystod y gwrthdaro. 'Yn nhyb Maurice, yr oedd hyn yn cyfiawnhau yn gyhoeddus yr hyn a wnaeth Thomas a'i ddilynwyr yn sefydlu eglwys newydd, ac yn wir, yn ei gyfiawnhau yntau a Palmer pan benderfynasant adael Henllan ac ymuno ag eglwys Rhydyceisiaid yn 1711'.[15] Ond bu'r dadlau a'r ymrannu 'yn ddolur calon i bob dyn da yn y ddwy blaid, ac iddynt yn ddiau fod yn destynau gwawd i lawer o annuwiolion,'[16] ac eto

> buont yn foddion i gyffroi meddyliau i fyfyrio ac i geisio deall gwirioneddau mawrion yr efengyl ... Effeithiodd dadl Henllan yn ddaionus ar eglwysi Cymru yn gyffredinol, fel na oddefwyd i olygiadau cyfeiliornus ymlusgo i mewn iddynt yn y blynyddau dyfodol heb wrthwynebiad penderfynol a chryf iawn.[17]

---

[11] L. Wynford Thomas, 'Mathias Maurice a'i Eglwysoleg', Traethawd Ph.D. anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2011, t. 12.
[12] Thomas, 'Mathias Maurice a'i Eglwysoleg', t. 12.
[13] Matthias Maurice, *Byrr Hyfforddiad yn Addoliad Duw*, t. 11; Thomas, 'Mathias Maurice a'i Eglwysoleg', tt. 12-3.
[14] J. Dyfnallt Owen, 'Camre cyntaf Anghydffurfiaeth ac Annibyniaeth yn Sir Gaerfyrddin', *Y Cofiadur*, 13 (1936), 3-56 [43].
[15] Thomas, 'Mathias Maurice a'i Eglwysoleg', tt. 11-2.
[16] *HEAC*, III, t. 340.
[17] *HEAC*, III, t. 340.

Ond treiddio i mewn i lawer o’r eglwysi a wnaeth yr anghytuno diwinyddol wedi hynny, yn arbennig wrth i fwy a mwy o weinidogion ac eglwysi goleddu Calfiniaeth gymedrol ‘Y System Newydd’ yn nhraean cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn ôl John Thomas, roedd y pulpud yn cael ei ddefnyddio yn rhy aml i amddiffyn safbwyntiau diwinyddol ar draul gofalu am les ysbrydol y gwrandawyr. Enghraifft o eglwys lle troes y pregethu athrawiaethol yn fwrn oedd Dre-fach, gerllaw Llangeler, lle ordeiniwyd David Davies yn gyd-weinidog â John Lewis yn 1790. Uchel-Galfin oedd Lewis a’i duedd oedd ymdrîn yn wastadol â phynciau astrus fel bodolaeth Duw a’i benarglwyddiaeth, pechod gwreiddiol a pharhad mewn gras, mewn ffordd ddeddfol a gorththrymus. Dywedir mai pregethwr sych, traethodol ydoedd gyda’i bregethu yn ailadroddus a llafurus a’i weinidogaeth yn ddi-fflach. Fel canlyniad roedd yr eglwys, o dan ei weinidogaeth, yn crebachu. Pan ymgymerodd â gofal yr eglwys yn 1761, roedd ugeiniau o aelodau yno, ond wedi gweinidogaethu am wyth-mlynedd-ar-hugain roedd yr aelodau wedi gostwng i ddeuddeg, a’r rheini ar fin ymwasgaru. Beth bynnag am ei awydd cymeradwy i warchod y gwirioneddau Calfinaidd, nid oedd y pregethu sychlyd yn tycio i ennill pobl o’r newydd, ond yn hytrach yn esgus i bobl gadw draw. Ond wedi i David Davies gael ei urddo yn Nhre-fach yn 1790, adfywiodd yr achos drachefn trwy ei bregethu dawnus a’i sêl genhadol. Lluosogodd y gwrandawyr a’r aelodau yno, a chyn pen dwy flynedd bu rhaid codi adeilad newydd ac adleoli yr achos i gapel Saron, Llangeler.

*Amharodrwydd i blannu eglwysi newydd*

Diffyg arall yn yr Hen Ymneilltuwyr yn ôl John Thomas oedd eu hamarodrwydd i blannu eglwysi newydd. ‘Pan aeth Lewis Rees i ddechrau ei weinidogaeth yn Llanbryn-mair yn 1734 nid oedd yn y Gogledd i gyd ond chwe capel Ymneilltuol, sef Llanfyllin, Trelawnyd, Dinbych, Pwllheli a dau yn Wrecsam’.[18] Yn ôl ystadegau Dr John Evans roedd pymtheg, efallai, o eglwysi Ymneilltuol sefydledig yn Sir Gaerfyrddin, eto rhai digon pell oddi wrth ei gilydd oeddent yn ddaearyddol, a’r addolwyr yn teithio cryn bellter er mwyn cymuno ac addoli ar y Sul. Yn yr hanner can mlynedd wedi 1735, ‘ond ychydig o dir newydd a dorwyd yn yr adeg dan sylw, ac ni wneid fawr o ymdrech i bregethu yr efengyl lle ni enwid Crist’.[19] Er bod yr Ymneilltuwyr wedi gallu codi rhai capeli newydd er 1689, ‘ymarhous oeddynt i wneud hynny gan ddewis yn hytrach luosogi cyfarfodydd yn nhai ei gilydd’.[20] Hyd yn oed wedi pasio’r Ddeddf Goddefiad, roeddent yn hwyrfrydig i ffurfio eglwysi newydd. Eu tuedd oedd dal at y canghennau, sef canghennau y gellid fod wedi eu corffoli yn eglwysi ar wahân.

Rhagflaenydd David Davies yn y Mynydd-bach, Abertawe, oedd Lewis Rees, ac er ei lafur anturus pan yn weinidog yn Llanbryn-mair, bu’n gyndyn iawn i droi cangen Treforys yn eglwys ar wahân. (Wrth yr enw Tir-dwncyn yr adnabyddid eglwys Mynydd-bach y pryd hynny). Yn ogystal â gofalu am Dir-dwncyn roedd Samuel Jones, rhagflaenydd Lewis Rees, hefyd â gofal dros ganghennau yng Nghasllwchwr, y Cwm-mawr a’r Sgeti. Yn fuan ar ôl sefydliad Rees, adfywiodd yr achos ac adeiladwyd capel Mynydd-bach yn 1762. Yn 1770 yr adeiladwyd capel yn y Sgeti ac yn 1782 codwyd capel yng nghyffiniau Treforys. Ond mae

[18] *HAC*, t. 107.
[19] *HEAC*, V, t. 457.
[20] *HAC*, t.107.

hanes yr achos yn Nhreforys yn cadarnhau pa mor hwyrfrydig oedd yr Hen Ymneilltuwyr i gorffoli eglwysi newydd. Er 1682, bu aelodau'r Tir-dwncyn a oedd yn byw yng nghyffiniau Treforys yn cynnal oedfaon mewn lle o'r enw Tŷ-coch, ond wedi i boblogaeth Treforys luosogi gyda dyfodiad y gweithiau copr, teimlodd yr aelodau fod y lle o ran lleoliad bellach yn anghyfleus, a bod angen adeiladu tŷ cyfarfod newydd. Ond roedd Lewis Rees ac eraill yn y fam-eglwys yn anfodlon i hynny gan farnu y byddai pobl Treforys yn ymneilltuo a ffurfio iddynt eu hunain eglwys annibynnol.

> Syniad cyffredin yr hen bobl dda gynt oedd cael rhyw un lle mawr i gyfarfod ynddo bob bore Sabboth, a chadw addoliadau yn yr hwyr mewn pump neu chwech o wahanol ardaloedd. Edrychid ar adeiladu capel o fewn dwy neu dair milltir i addoldy y fam-eglwys yn gystal a rhwyg, ac yn brawf o ddiogi. Ystyrid cerdded llawer o filltiroedd i'r addoliad ar fore y Sabboth fel prawf o ragoriaeth mewn crefydd. Mae y syniad hwn o eiddo yr hen bobl yn cael ei osod allan yn dda gan Williams, Bethesda, yn y penill canlynol:
>
> Mae crefyddwyr a'u teimladau,<br>'Nawr mor dyner nad aent trwy<br>Wres nac oerfel i addoliad,<br>O fewn milltir fach neu ddwy;<br>Rhaid cael temlau'n agos, agos,<br>Tŷ cwrdd yma, tŷ cwrdd draw,<br>Gormod gwaith yw cerdded milldir,<br>Chwaethach cerdded wyth neu naw.
>
> Barnai pobl y Mynyddbach mai diogi i gerdded, a difaterwch crefyddol, ac nid lles ysbrydol eu hardal boblog, oedd yn peri i bobl y Tycoch awyddu am gael addoldy yn Nhreforis.[21]

O ddiwedd y ddeunawfed ganrif ymlaen fe fyddai cenhedlaeth newydd o bregethwyr tanllyd, egnïol nad oeddent yn gaeth i rigolau'r gorffennol, rhai fel Morgan Jones Tre-lech, David Davies Abertawe, Thomas Phillips Neuadd-lwyd, Stephen Lloyd Brynberian, Rees Powell Cross Inn ac eraill yn ymegnïo i blannu eglwysi newydd yn hytrach na disgwyl i'w tröedigion ymaelodi yn yr hen fam-eglwysi.

*Cynnydd a datblygiad*

Er i John Thomas ddweud mai 1735 hyd 1785 oedd y cyfnod mwyaf di-gynnydd yn hanes yr Annibynwyr, nid dyna oedd y gwir ym mhob man. Gwelodd John Harries gryn dwf yn ystod cyfnod ei weinidogaeth ar y Mynydd-bach (Capel Isaac). 'Yn ystod ei gyfnod ef ychwanegwyd cant namyn un at y corlannau yn Abergorlech a'r Mynydd-bach, a derbyniodd dri a deugain i Grug-y-bar a Chrofft-y-cyff rhwng 1738 a 1748'.[22] Yn Sir Benfro, ym Mrynberian, lle codwyd un o'r capeli cynharaf yn 1690 wedi pasio'r Ddeddf Goddefiad, yng nghyfnod Stephen Lloyd (1744-1801) profodd yr eglwys gryn lwyddiant cenhadol dan ei arweiniad:

---

[21] *HEAC*, II, tt. 55-56.
[22] E. Lewis Evans, *Hanes Capel Isaac* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1950), t. 56.

> Yr oedd Mr. S. Lloyd yn weinidog rhyfeddol o weithgar a llwyddianus. Yn ei amser ef ffurfiwyd canghenau o'r fam-eglwys yn y Felindre, Maenclochog, a Bethesda, gerllaw Narberth. Bu hefyd yn foddion i ddechrau yr achos yn Keyston, yn mysg y Saeson. Oherwydd cynydd y gynnulleidfa, bu raid helaethu capel Brynberian yn fuan ar ol urddiad Mr. S. Lloyd.[23]

Ac yng Nghefnarthen, mam eglwys Morgan Jones, gwelwyd cynnydd helaeth wedi'r uniad yn ystod gweinidogaeth Morgan Jones Tŷ-gwyn, ac yn dilyn ei farw yn 1780. Bu'r eglwys yn ddi-weinidog am saith mlynedd ac eto yn y cyfnod hwnnw derbyniodd aelodau newydd yn helaeth, gan gynnwys Thomas Thomas Cerrigybwbach a Morgan Jones Troed-y-rhiw pan yn dair ar ddeg oed. Cafodd Thomas Thomas ei urddo'n weinidog ar yr eglwys yn 1787 ac wedi hynny cynyddodd rif yr aelodaeth gyda'r eglwys yn ymestyn allan yn ei chenhadaeth.

> Yn Medi, 1787, urddwyd Mr. Thomas Thomas, Cerigybwbach, yn weinidog yma, ac o hyny allan yr ydym yn cael chwech neu saith yn cael eu derbyn bob Sul cymundeb. Mewn canlyniad i lwyddiant rhyfeddol gweinidogaeth Mr. Thomas, adeiladwyd capel Sardis, a ffurfiwyd cangen o'r eglwys yn eglwys Annibynol yno. Hefyd gwnaed darpariaeth effeithiol at gychwyn achos yn nhref Llanymddyfri.[24]

Ysgrifennodd Geraint H. Jenkins:

> There is no doubt that the middle years of the eighteenth century witnessed a new interest in ways and means of developing the considerable economic and strategic resources of Wales. Much greater vitality and an enthusiasm for change are detectable.[25]

Os oedd hynny yn wir am fywyd economaidd Cymru, erbyn chwarter olaf y ddeunawfed ganrif roedd yr un brwdfrydedd yn amlwg hefyd yn hanes crefydd. Nid dibrisio blynyddoedd canol y ddeunawfed ganrif ddylid gwneud ond eu gweld fel cyfnod braenaru'r tir ar gyfer yr adfywiad a ddaeth erbyn ei diwedd. Bu'n 'gyfnod o baratoi a'r gwŷr a weinidogaethai trwy'r blynyddoedd hyn oedd i raddau helaeth yn gyfrifol am arloesi'r ffordd ar gyfer buddugoliaethau'r cyfnod nesaf'.[26] Gweinidogion amlwg y cyfnod fel Phylip Pugh yng Ngheredigion, Edmund Jones Pont-y-Pŵl, a Lewis Rees Llanbryn-mair a'r Mynydd-bach, Abertawe yn ddiweddarach, rhai ar gychwyn y Diwygiad Methodistaidd oedd wedi bod yn gefnogol iawn i Howell Harris a Daniel Rowland a gweddill y diwygwyr Methodistaidd. Erbyn diwedd y ganrif roedd effaith y Diwygiad Efengylaidd wedi treiddio i fywyd eglwysi'r Annibynwyr, a chydnabu John Thomas fod y rhod wedi troi erbyn 1785:

> O gylch y flwyddyn hòno cychwynodd nifer o wŷr rhagorol allan, y rhai fuont ddefnyddiol iawn yn eu hoes; a'r rhai y bu eu cyfodiad yn ddechrau cyfnod newydd yn hanes yr hen enwadau. Yn mhlith eraill gellir enwi yn arbennig John Griffiths, Caernarfon; Dr. George Lewis; David Davies, Llangeler a Christmas Evans gyda'r Bedyddwyr.[27]

---

[23] *HEAC*, III, t. 39.
[24] *HEAC*, III, t. 584.
[25] Geraint H. Jenkins, *The Foundations of Modern Wales 1642-1780* (Oxford: Clarendon Press, 1987), t. 280.
[26] *HAC*, t. 148.
[27] *HEAC*, V, t. 474.

A mynd o nerth i nerth wnaeth yr Ymneilltuwyr yng Nghymru yn ystod y ganrif ddilynol. Gwelir y twf o'r ddeunawfed ganrif i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth ystyried ystadegau ar gyfer yr Annibynwyr:

> Posibl bod 87 o eglwysi Annibynnol yng Nghymru ym 1742; yr oedd tua 100 ym 1775; aethant yn 257 erbyn 1815; tua 500 erbyn 1839 ac erbyn 1851 yr oeddynt yn 684. Ym 1800 yr oedd ganddynt 46 o weinidogion, 28 yn y De a 18 yn y Gogledd ond erbyn 1851 yr oedd y rhif yn 319.[28]

Ac roedd i David Davies, Morgan Jones a David Peter ran gwbl allweddol yng nghynnydd a datblygiad yr Annibynwyr yn ne-orllewin Cymru a thu hwnt.

## 2. Cyfraniad David Davies i'r twf [29]

Cyfeiriwyd eisoes at yr adfywiad a brofwyd yn Llangeler pan luosogwyd y gynulleidfa wedi i Davies dderbyn galwad i fod yn gyd-weinidog â John Lewis yn 1790. O'r cychwyn roedd doniau pregethu Davies yn ennill gwrandawyr yn ôl i'r gynulleidfa fel yr aeth yn rhy luosog i'r capel yno. Penderfynwyd symud i leoliad newydd mewn man mwy canolog, ychydig uwchlaw pentref Llangeler. Yn 1792 y codwyd y capel newydd, wrth ymyl y ffordd yn arwain o Gastellnewydd i Gaerfyrddin a galwyd ef yn Saron: 'Talwyd am yr addoldy newydd ar unwaith, a gorlanwyd ef o aelodau a gwrandawyr'.[30] Helaethodd Davies faes ei weinidogaeth trwy gymryd at Saron ofal eglwysi y Neuadd-lwyd yn Sir Aberteifi a Gwernogle yn Sir Gaerfyrddin. Byddai'n pregethu ar y Sul unwaith y mis yn y ddwy eglwys hyn. Daeth ei weinidogaeth â bywyd newydd i'r ddau le 'fel y daethant yn fuan o fod yn gynnulleidfaoedd bychain, marwaidd, a digalon i fod yn eglwysi lluosog, bywiog, a blodeuog'.[31] Cyfeiriwyd at Davies fel seraff llawn o dân ac roedd yr effaith a gafodd yn ysgytwol: 'Rhoddodd ei ysbryd bywiog, a'i ddull tanllyd o bregethu, dôn newydd i'r weinidogaeth yn mysg yr Annibynwyr trwy Gymru, ac effeithiodd y chwyldroad mwyaf bendithiol a thrwyadl trwy yr holl enwad'.[32]

*Mynydd-bach, y Sgeti ac Abertawe*

Wedi llafurio yn yn Llangeler, y Neuadd-lwyd a Gwernogle am bum mlynedd, yn 1795 derbyniodd Davies alwad i olynu Lewis Rees ym Mynydd-bach a'r Sgeti yng nghyffiniau Abertawe. Anfonodd swyddogion eglwys Neuadd-lwyd lythyr llym at eglwys Mynydd-bach yn ei cheryddu am ei hysbeilio o'i gweinidog a gerid mor fawr ganddynt a chan cymaint fu llwyddiant ei weinidogaeth yn ei phlith.[33] Yn ogystal â chanoli ar Fynydd-bach a'r Sgeti, bu'n ymdrechgar yn y canghennau yn Nhreforys, Clydach a chanol tref Abertawe, a'r un fu ei hanes. Cynyddodd y cynulleidfaoedd fel yr helaethwyd capeli'r cylch. Helaethpwyd y capel yn Nhreforys yn 1796 a chapel y Mynydd-bach yn 1797: 'Ei faint ... pan adeiladwyd ef yn 1762 oedd 45 troedfedd wrth 24, ond yn 1797, gwnaed ef yn 51 wrth 35, fel yr oedd yn un o'r capeli

[28] *HAC*, t. 191.
[29] Gweler Fap 2, t. 45.
[30] *HEAC*, II. t. 48.
[31] *HEAC*, II. t. 48.
[32] *HEAC*, II. t. 48.
[33] *HEAC*, II. tt. 9-10*; HEAC*, IV, t. 101.

helaethaf yn Nghymru y pryd hwnw.'[34] Mewn ystafell yn Heol-y-Castell a adnabyddid fel '*yr hen room'* yr addolodd aelodau tref Abertawe, cynulleidfa a oedd yn gymysg o Annibynwyr a Methodistiaid. Ond roedd tensiynau ac ymbleidio yn eu mysg. Oherwydd poblogrwydd Davies, aeth *yr hen room* yn rhy fychan i'r gynulleidfa, ond roedd yna ddrwgdeimlad ymhlith rhai tuag ato. Plediodd rhai achos John Davies Llansamlet, sef mab-yng-nhyfraith Lewis Rees, a gafodd, yn eu tyb, gam. Y canlyniad oedd i'r garfan Fethodistaidd ymadael a chodi capel ar y Crug-las, lle pregethodd Howell Harris gyntaf yn y dref ymhell dros hanner canrif ynghynt, ac yn 1799 fe'i cyflwynwyd i gorff y Methodistiaid Calfinaidd. Ac eto parhaodd nifer fawr yn ffyddlon i David Davies, fel yr aeth yr ystafell yn rhy fychan ar gyfer y gynulleidfa. Bu farw Lewis Rees yn 1800 ac aeth gweinidogaeth Davies yn Abertawe o nerth i nerth. Yn 1803 adeiladwyd capel Ebenezer ar gyfer y gynulleidfa luosog: 'Cafodd ei agor Mai 9fed a'r 10fed, 1804, a bernir i'r eglwys gael ei chorffori yr un pryd'.[35]

> Yr oedd Ebenezer y pryd hwnw yn un o'r capeli mwyaf yn Nghymru. Mesurai 46 troedfedd wrth 34 o fewn y muriau. Aeth ar unwaith yn rhy fychan i gynnwys y gynnulleidfa yn gysurus. Y fath oedd poblogrwydd Mr. Davies fel yr oedd yn anhawdd cael unrhyw gapel yn ddigon mawr i gynwys ei wrandawyr.[36]

Ymhen dim roedd Ebenezer wedi datblygu yn achos llewyrchus a hawliai sylw Davies yn helaeth. Cymaint oedd y cynnydd nes penderfynu galw Daniel Evans, Bangor, i fod yn gyd-weinidog â Davies. Ond buan y daethpwyd i'r casgliad mai'r cynllun gorau fyddai rhannu'r weinidogaeth yn y cylch. Yn 1809 canolbwyntiodd Davies ar Abertawe gan ofalu am Ebenezer, y Sgeti a'r gangen yng Nghlydach gyda Daniel Evans yn gofalu am y Mynydd-bach a'r gangen yn Nhreforys. Ni wyddis ym mha flwyddyn y corfforwyd yr achos yng Nghlydach, a bu dan ei ofal hyd ddiwedd ei oes. Eithr ni chyfyngodd ei weinidogaeth i'w faes sefydlog: 'Cymaint oedd ei ysbryd cyhoeddus, fel yr ymroddai i ledaenu terfynau yr achos yn mhob man y medrai estyn ei ddylanwad iddo'.[37] Bu rhan ganddo mewn sefydlu eglwysi ym Methania, Llan-non[38] a Phen-bre[39] yn Sir Gaerfyrddin, ac achosion Saesneg yng nghapeli Providence yng Ngŵyr,[40] Heol-y-Castell yn Abertawe,[41] a lleoedd eraill ym Morgannwg.

*Llan-non a Phen-bre*

Bu cysylltiad rhwng saint Llan-non a thrigolion Pen-bre a'r Mynydd-bach ers dyddiau Samuel Jones, rhagflaenydd Lewis Rees yn y Mynydd-bach, un a fu'n weinidog i Gapel Seion, Llanddarog a Thir-dwncyn (Mynydd-bach). Bu'n cadw ysgol ym Mhen-twyn, Llan-non, yna symudodd ymhen rhai blynyddoedd i gyffiniau Pen-bre a byw yno tra'n gweinidogaethu yn Nhir-dwncyn. Dyna efallai sydd yn egluro'r berthynas hanesyddol rhwng Davies a Llan-non a Phen-bre. Dywedwyd amdano: 'Yr oedd ei lafur yn peri fod eglwysi newydd fel pe baent yn llamu dros fryniau o ddyffryn i ddyffryn yn Sir Gaerfyrddin a Sir Forgannwg yr adeg honno'.[42]

---

[34] *HEAC*, II, t. 10.
[35] Glyn Richards, *Braslun o Hanes Ebenezer Abertawe* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1954), t. 4.
[36] *HEAC*, II, t. 39.
[37] *HEAC*, II, t. 49.
[38] *HEAC*, III, t. 511.
[39] *HEAC*, III, t 472.
[40] *HEAC*, II, t. 440.
[41] *HEAC*, II, t. 58.
[42] John Gwilym Jones, *Bethania Y Tymbl Uchaf 1800-2000* (Bethesda: Gwasg Ffrancon, 2000), t. 9.

O ystyried mai gweinidog Calfinaidd ei argyhoeddiadau oedd Davies, mae'n ddealladwy fel y gwnaeth aelodau cynharaf Bethania, Llan-non droi ato am gymorth. Ymadawodd y Calfiniaid Gapel Seion Llanddarog oherwydd angytundeb athrawiaethol, a buont yn addoli am gyfnod mewn annedd-dai yn yr ardal.[43] Wedi adeiladu capel iddynt eu hunain a'i agor yng Ngorffennaf 1800, Davies a weinyddodd y cymundeb cyntaf. Erbyn mis Medi, pan gorfforwyd yr achos, roedd yno ugain o aelodau ac ymhen y mis derbyniwyd naw arall. Bu Davies yn bwrw gofal dros yr eglwys tan ddechrau'r haf 1804 pryd urddwyd Evan Evans, Cil-carw, yn weinidog i'r eglwys newydd. Roedd Evans yn bregethwr cynorthwyol yn perthyn i eglwys Pant-teg a bu'n cynorthwyo Davies i fugeilio'r eglwys yn ei blynyddoedd cyntaf.[44] Mewn perthynas â'r achos ym Mhen-bre, nid oes sicrwydd a sefydlwyd achos yno yng nghyfnod Samuel Jones, ac nid oedd dilyniant di-fwlch rhwng y cyfnod hynny a'r achos a sefydlwyd yno'n ddiweddarach. O'r flwyddyn 1810, bu Evan Davies, Llanedi, yn pregethu yma a dywedir bod David Davies wedi pregethu yno yn fynych. Cyrchai yr aelodau i Lanelli i gymuno, a chyn hynny i Lanedi, ac o gwmpas 1812 y sefydlwyd yr achos ac y codwyd y capel cyntaf. Mwy na bod David Davies wedi pregethu yn fynych ym Mhen-bre, ni wyddom pa ran gafodd yn sefydlu'r achos ac a fu yn gofalu am yr achos dros dymor byr. Ar 13 Ionawr 1813 urddwyd Howell Williams yn weinidog i Gapel Als Llanelli, Nazareth Pont-iets a Jerwsalem Pen-bre.[45]

*Achosion Saesneg ac achosion Cymraeg Llundain* [46]

Gyda sefydlu'r achos yn Ebenezer bu David Davies yn selog tros sefydlu achosion Saesneg yn Abertawe a'r cyffiniau. Yn hanes capel Providence, Bishopston, ym Mroŵyr, gan nad oedd unrhyw wasanaeth crefyddol ag eithrio yn eglwys y plwyf, trwy berswâd Rees Jenkins, aelod selog yn eglwys y Sgeti, a chyda chydweithrediad David Davies, yr aethpwyd ati i sefydlu achos crefyddol yno. Cymhellodd Jenkins ei weinidog i ddod i bregethu yn achlysurol i'w gartref a bu'r ymateb mor llwyddiannus fel y codwyd capel yno yn 1805 a chorfforwyd yr achos yn fuan wedi hynny. Gwelai Davies bod angen eglwys Saesneg yn nhref Abertawe ei hun. Y canlyniad oedd codi capel Heol-y-Castell a agorwyd ddiwedd 1814. Yn 1815 sefydlwyd Thomas Luke yn weinidog yno. Bu farw David Davies ymhen dwy flynedd wedi agoriad y capel, a dywedwyd pe bai wedi cael byw am ychydig flynyddoedd yn hwy y byddai'r ddyled wedi ei chlirio ynghynt o lawer.

Yn ychwanegol at sefydlu achosion newydd yng nhyffiniau Abertawe ac yn Sir Gaerfyrddin, priodolir i ymdrechion David Davies ddechreuad nifer o achosion Annibynnol Cymraeg yn Llundain. Yn fuan wedi iddo symud i gyffiniau Abertawe, sylweddolodd nad oedd ei wybodaeth o'r Saesneg yn ddigonol ar gyfer ymateb i ofynion cylch newydd ei weinidogaeth. Er mwyn gwella'i Saesneg, yn 1799, gadawodd ei deulu a'i eglwysi am bedwar mis ac aeth i Lundain gan ymrestru yn Academi Hackney. Tra yno treuliai ddyddiau'r wythnos yn astudio a pherffeithio'i Saesneg, ac ar y Suliau byddai'n pregethu i'r Cymry yn Gravel Lane, Lambeth, Deptford a Woolwich. A bu gweinidogaeth Davies yn ddylanwadol yn y ddinas oherwydd 'yn yr amser hwnw y rhoddwyd bywyd, os nad dechreuwyd yr achosion Cymreig

[43] Gw. Noel Gibbard, *Hanes Plwyf Llan-on Hen Sir Gaerfyrddin* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984), tt. 44-5; Gwilym Evans, *Capel Seion Drefach, Llanelli 1712-1980* (Abertawe: Gwasg John Penry,1981), tt. 18-20.
[44] Jones, *Bethania Y Tymbl Uchaf 1800-2000,* tt. 8-9.
[45] Maurice Loader (gol.), *Capel Als 1780-1980* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1980), tt. 21-2.
[46] Gweler Fap 3, t. 45.

yn y ddau le olaf a enwyd'.[47] Tua 1798, wedi ymraniad rhwng y Methodistiaid a'r Annibynwyr yn Wilderness Row a Gravel Lane, trowyd achos Gravel Lane yn un hollol Annibynnol tra'r aeth yr achos yn Wilderness Row yn un hollol Fethodistaidd. Davies ei hun a gorfforodd Gravel Lane yn eglwys Annibynnol. 'The Revd David Davies' meddai Huw Edwards yn ei gyfrol yn rhannu stori capeli Cymraeg Llundain 'had been a major influence in encouraging Gravel Lane along the Independent path.'[48] Achos yr ymraniad uchod oedd anghydweld ar fater priodas ac wedi hynny fe drôdd Daniel Jenkins, mab-yng-nghyfraith Daniel Rowland Llangeitho a phregethwr cynorthwyol gyda'r Methodistiaid, at yr Annibynwyr. Wedi corffori'r achos yn Gravel Lane, bernir bod Davies wedi urddo Daniel Jenkins yn weinidog cynorthwyol i weinyddu yr ordinhadau yn Gravel Lane, Woolwich a Deptford.[49] Roedd hynny pan nad oedd yn gyfleus i gael gweinidogion o Gymru i wasanaethu yn Llundain. Bu Daniel Jenkins farw yn 1813. Rywbryd rhwng 1807 a 1810, a hynny yn Ebenezer, Abertawe, urddwyd David Morgan i fod yn weinidog yn Woolwich a Deptford. Digwyddodd hyn yn Abertawe oherwydd yr anhawster o gael gweinidogion o Gymru i deithio i Lundain ar gyfer y sefydlu yno.[50] Bu farw Morgan yn 1814. Codwyd capel yn Little Guildford Street yn Ionawr 1807. Dyma'r capel yn ddiweddarach a ddaeth i fod yn achos y Boro, Southwark Bridge Road. Roedd Davies yn un o'r pregethwyr yn yr oedfa agoriadol. Bu cryn ymorol ymhlith gweinidogion a chynulleidfaoedd yng Nghymru i godi arian at glirio traul codi'r capel newydd hwn.[51] Am ddwy flynedd cyn codi'r capel newydd ac wedi hynny, bu nifer o weinidogion o Gymru, David Davies a Morgan Jones yn eu plith, yn aros yn y brifddinas am gyfnodau o dri mis ar y tro er mwyn cenhadu a bugeilio ymhlith y ffyddloniaid.[52] Ar 8 Awst 1811 urddwyd David Simon Davies, brodor o Lanfihangel-rhos-y-corn, aelod yn y Gwernogle a myfyriwr yn Athrofa Caerfyrddin, yn weinidog yn y Boro ynghyd â Woolwich a Deptford. Ar gais taer David Davies, Morgan Jones ac eraill y cydsyniodd i dderbyn yr alwad.[53] Wedi cael gweinidog sefydlog, yn hytrach na gorfod dibynnu ar bregethwyr o Gymru yn cyflenwi am dri mis yn eu tro, bu gwell llewyrch ar y weinidogaeth yn y tri lle.[54]

*Pregethu teithiol*

Yn ychwanegol at waith David Davies yn gweinidogaethu yn sefydlog i eglwysi ei ofal a'i lafur yn plannu ac yn sefydlu eglwysi newydd, rhaid cofio hefyd am aruthredd ei gyfraniad fel pregethwr teithiol. Os diwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r ganrif ddilynol oedd oes aur pregethu yng Nghymru, ystyriwyd Davies 'yn un o'r pregethwyr mwyaf effeithiol a phoblogaidd a esgynodd erioed i areithfa'.[55] Pan ar ei deithiau pregethu mynych trwy dde a gogledd Cymru, byddai'n cyfarch torfeydd lluosog, gan bregethu ddwywaith ac weithiau tair gwaith y dydd. Pregethwr tanllyd diwygiadol ydoedd ac yn drwyadl efengylaidd ei bwyslais:

---

47 *HEAC*, IV, t. 393.
48 Huw Edwards, *City Mission: The story of London's Welsh chapels* (Talybont: Y Lolfa, 2015), t. 87.
49 *HEAC*, IV, t. 398.
50 *HEAC*, IV, t. 399.
51 *CyA*, t. 142.
52 *HEAC*, IV, t. 393.
53 *HEAC*, IV, t. 397.
54 Am ragor o hanes cychwyniad achosion y Boro, Woolwich a Deptford gw. Huw Edwards, *City Mission: The story of London's Welsh chapels*, tt. 80-8 a 98-104; Ben Davies (gol.), *Llawlyfr Cyfarfodydd Llundain* (Llandysul: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1937); Meurig Owen, 'The Welsh Church in Deptford 1800-66' *Lewisham Local History Society Transactions* (1979).
55 *HEAC*, II, t. 51.

‘Mr Davies’s style of preaching was especially adapted to alarm the unconverted, and to win them to the love of religion; and in these repects he was made extensively useful’.[56] Yn wahanol i bregethwyr y cyfnod blaenorol, apeliai at y galon yn fwy nag at y meddwl a’r deall.[57] Dëellir hyn oddi wrth dystiolaeth rhai a gydlafuriodd ag ef. Dywedai Daniel Jones o’r Aber, iddo fod ar daith pregethu gydag ef am dair wythnos, trwy siroedd Caerfyrddin, Penfro a Cheredigion, a’u bod yn fynych yn pregethu dair gwaith y dydd, a gydol yr amser na welodd gymaint ag un oedfa pan na lwyr orchfygodd ei wrandawyr nes y byddai llawer ym mhob lle yn aros i ŵylo a moliannu.[58] Gellir synhwyro ei arddull a chynnwys ei bregethu trwy eiriau William Davies, Abergwaun:

> Y mae gennyf gof da am ymweliadau olynol Mr. Davies, Abertawy, a sir Benfro, ac nis gallaf byth anghofio y teimladau dwys a dyfnion a gynhyrchai ei hyawdledd digyffelyb yn y torfeydd lluosog a ymdyrent i’w wrandaw i bob lle yr elai iddo. Yr oedd ganddo feddwl treiddgar, dychymyg bywiog a pharabledd eglur a difloesgni. Meddai lywodraeth nodedig ar ei lais. Pan arweiniai ei wrandawyr i Sinai, taranai allan felltithion y ddeddf yn y fath seiniai dychrynllyd, nes y byddai braidd pob un o’r gynnulleidfa yn teimlo ei hun ar lewygu gan ofn; yna cymerai ei safle ar Galfaria, a desgrifiai ddyoddefiadau Oen Duw dros yr euog, a rhinwedd anfeidrol gwaed y taenelliad, gyda y fath ffrydlif o hyawdledd, ac yn y llais mwyaf perseiniol, nes y buasai ei wrandawyr swynedig braidd yn barod i neidio o lawenydd.[59]

Yn ei ddydd, ac ar ei orau, tra rhagorai Davies, mae’n debyg, ar Christmas Evans a John Elias, ond o ran mater ei bregethau, nerth ac angerdd ei draddodi, ystyriai Thomas Rees fod John Elias yn rhagorach pregethwr na Davies:

> ‘What,’ it may be asked, ‘shall be thought of John Elias, Christmas Evans, and others?’ In point of flowing eloquence Davies was superior to every one of them; but with regard to his matter, and the energy and deep feeling with which he treated his subject, Elias in his best days, excelled him.[60]

Wrth bwyso a mesur y twf a brofwyd trwy weinidogaeth David Davies, ei lafur bugeiliol yn eglwysi ei ofal, ei waith yn plannu a sefydlu eglwysi newydd, y bechgyn a godwyd i fod yn weinidogion ganddo ynghyd â’i gyfraniad llenyddol, yn arbennig trwy ei emynau, ac yn neilltuol ffrwyth ei bregethu teithiol, amhosibl yw mesur maint ei gyfraniad.

> Yn ystod gweinidogaeth o chwe’ blynedd-ar-hugain, derbyniodd Mr. Davies dros ddwy fil o aelodau i’w eglwysi; a’r hwn a wyr bob peth yn unig a wyr nifer yr eneidiau a drowyd trwyddo at yr Arglwydd yn ei deithiau pregethwrol mynych trwy Gymru a Lloegr.[61]

---

[56] Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales,* 2nd ed. (London: John Snow and Co., 1883), t. 439.
[57] Richards, *Braslun o Hanes Ebenezer Abertawe,* t. 6.
[58] *HEAC,* II, tt. 51-52.
[59] *HEAC,* II, t. 52.
[60] Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales,* t. 439.
[61] *HEAC,* II, t. 55.

## 3. Cyfraniad Morgan Jones i'r twf [62]

Pan sefydlwyd Morgan Jones yn weinidog yng Ngapel-y-Graig, Tre-lech, yn 1790 roedd yno 140 o aelodau. Llafuriodd yno am yn agos i 46 o flynyddoedd a phan fu farw yn 1835 roedd yn yr eglwys 410 o aelodau. Ar ddydd ei ordeinio yn Nhre-lech cafodd ei sefydlu hefyd yn weinidog i eglwys Capel Iwan ac yng ngwrs ei weindogaeth, yn ardal Tre-lech a'r cyffiniau, ble y llafuriodd yn bennaf, bu'n offerynnol i blannu canghennau a sefydlu eglwysi newydd ym Mlaen-y-coed, Ffynnon-bedr a Llwyn-yr-hwrdd: 'Derbyniodd o'r byd yn ystod ei weinidogaeth i Trelech a'i changhenau, dwy fil, pedwar cant, a deg o aelodau, heb law y rhai a adferwyd'.[63] (Yn ôl D. Gorllwyn Williams, 2,419 a dderbyniwyd, hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o lyfr eglwys Morgan Jones fu yn ei feddiant, a'r rhif yn cynnwys y rhai a adferwyd *'Received as members and recovered since Morgan Jones was ordained*'.[64]) Ac adeg ei farw, ym mhum eglwys ei ofalaeth, roedd yn ei ofal oddeutu 1,400 o aelodau.[65]

*Cyfarfodydd gweddi cenhadol*

Tystia'r ystadegau uchod i lwyddiant eithriadol ei weinidogaeth: 'Bu fel cysgod craig fawr i ddarn helaeth o sir Gaerfyrddin a sir Benfro trwy ei bregethu nerthol, ei sêl genhadol a'i brysurdeb yn cynnull ac yn cadarnhau eglwysi'.[66] Ac fel yn hanes nifer o'i gyfoedion, er bod rhywfaint o nodweddion yr Hen Ymneilltuwyr yn perthyn i Morgan Jones, megis ei ddiwinyddiaeth, eto wrth feddwl am ei asbri a'i sêl genhadol, roedd hefyd yn nodweddiadol o ddechreuadau cyfnod yr Ymneilltuaeth Newydd a oedd yn dod i'r amlwg ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Er y gallwn feddwl am Dre-lech fel canolbwynt ei weinidogaeth, eto yn wahanol iawn i'r Hen Ymneilltuwyr a fynnent ganoli eu hegnïon mewn ychydig o eglwysi lleol, a rheiny yn rhychwantu ardal eang, roedd Jones yn awyddus i ymestyn allan, helaethu'r cortynnau, a phlannu eglwysi newydd. Cynhaliai oedfaon a phregethu yn rheolaidd yn y bore a'r prynhawn yn yr addoldai yn Nhre-lech a Chapel Iwan, ond manteisiai hefyd i bregethu yn hwyr y Sul mewn annedd-dai ac aelwydydd ffermydd yng nghyffiniau Tre-lech. Yn ystod yr wythnos byddai'n cynnal cyrddau gweddi, cyfarfodydd pregethu a seiadau yn helaeth ar draws yr ardal. Yn ychwanegol i Gapel-y-Graig, 'prayer meetings, in connexion with this church, were held in many distant hamlets, in different directions, at farm-houses and cottages, where the people desired to have them'.[67] Yn y cyfarfodydd hyn penodwyd henuriad, diacon neu berson addas arall, i annerch ac arwain mewn gweddi, ac yn y cyfarfodydd gweddi a'r seiadau a fynychwyd gan gynulliadau lluosog, rhannwyd profiadau ysbrydol, gyda'r bwriad o hyfforddi'r rhai a oedd yn ymholi ynghylch y ffydd a'r rhai a oedd yn ceisio lle yn yr eglwys.

> A short address was generally given, and some of the brethren engaged in prayer. Then such as were under serious impressions, were brought forward by a Christian friend, or invited to come forward; when they were asked different questions, relative to the state

---

[62] Gweler Fap 4, t. 46.
[63] Samuel Griffiths, *Pregeth Angladd a bregethwyd yn Trelech, Chwef. 14, 1836, ar yr achlysur o farwolaeth y Parch. M. Jones*, (Llanelli: Rees a Thomas, 1836), tt. 33-4.
[64] D. Gorllwyn Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech' yn L. D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 164-5; cf. y nodyn am ei farwolaeth yn *Dysgedydd* 15 (1836), 67.
[65] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 59.
[66] *HAC*, t. 150.
[67] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 68.

> of their souls, their experience, hopes and fears, their views of religion, and the means where they were brought to seek the Lord.[68]

Nodweddwyd y cyfarfodydd gan ysbryd cenhadol. Ystyriwyd bod eglwysi yn bodoli i'r diben o ennill y byd i Grist: 'The very existence of Christian churches, or at least their main and principal design, is to aid in the accomplishment of this great object'.[69] Gwelir y meddylfryd cenhadol a berthynai i weinidogaeth Morgan Jones yn amlwg iawn yn nisgrifiadau J. J. Beynon, un a fagwyd yn Nhre-lech ac awdur y cofiant; tanlinella'r ysbryd cenhadol a nodweddai Capel-y-Graig yn ystod ei blentyndod, sef y disgwylid, yn dilyn tröedigaeth, bod y dychweledig, yn unol ag ewyllys Duw, i geisio troi eraill at Grist, a bod disgwyl i bob aelod a phob eglwys weithredu ar yr egwyddor honno.

Dan ddylanwad yr arweiniad a roddai Morgan Jones i'w bobl, pa ryfedd bod y gwaith wedi mynd o nerth i nerth. Profwyd diwygiadau ysbrydol grymus yn ystod ei weinidogaeth, a thyfodd y canolfannau bychain ar wahanol aelwydydd a ffermydd maes o law i fod yn ganghennau lle plannwyd a ffurfiwyd eglwysi llewyrchus. Gyda Chapel-y-Graig yng nghanol yr ofalaeth ac yn ganolfan i Gristnogion yr ardal i ddod at ei gilydd yn Nhre-lech, datblygodd ei weledigaeth o ehangu'r gwaith. Gyda Chapel Iwan i'r gogledd o Dre-lech, canolbwyntiodd ar sefydlu eglwys Blaen-y-coed (oddeutu 1801) i'r dwyrain, eglwys Ffynnon-bedr (1808) i'r de, ac eglwys Llwyn-yr-hwrdd (1805 efallai) i'r gorllewin.

*Ysgolion Sul*

Roedd i weddi le pwysig yng nghyfrinach llwyddiant gweinidogaeth Morgan Jones. Ffactor pwysig arall i ddeall natur lledaeniad y ffydd, y twf a'r cynnydd yn rhengoedd yr eglwysi oedd y lle a roddwyd i sefydlu a datblygu gwaith yr Ysgolion Sul ac roedd Jones yn gefnogwr brwd dros hyrwyddo eu gwaith. Ystyriai yr ysgolion a dosbarthiadau Beiblaidd fel meithrinfeydd yr eglwys. Yn yr Ysgolion Sul roedd dynion a merched o bob gradd nid yn unig yn cael dysgu darllen ond yn cael dysgu am feddwl ac ewyllys Duw a hynny trwy astudio Gair Duw a'i esbonio i'w gilydd. Ar ddiwedd ei weinidogaeth roedd Jones yn cydnabod ei ddyled i'r cannoedd o athrawon Ysgol Sul ac yn werthfawrogol o'u gwaith. Adleisiwyd hyn gan ei gofianwyr, J. J. Beynon a Samuel Griffiths:

> Nis gall neb ddweyd pa faint o gysur i'r gweinidog yw cael athrawon hawddgar, duwiol, a diwyd, i arwain y genedl ieuainc ar hyd llwybrau duwioldeb a rhinwedd; mae yr ysgolion fel cynnifer o feithrin-leoedd i fagu y plant i fynu i wasanaeth y cyssegr; nid oes dafod all draethu maint y cynnorthwy a wnaethant, er llwyddiant eglwys Trelech.[70]

Yn ôl Samuel Griffiths, ar derfyn gweinidogaeth Morgan Jones roedd yr Ysgolion Sul yn llewyrchus gyda phump yn perthyn i Dre-lech, dwy i Blaen-y-coed, dwy i Ffynnon-bedr, tair i Gapel Iwan ac un i Lwyn-yr-hwrdd. Fel mudiad gwelodd yr Ysgol Sul dwf eithriadol ymhlith yr Ymneilltuwyr yn y cyfnod, nid yn unig yng Nghymru ond yng ngweddill Prydain. Erbyn 1828 roedd gan Undeb Yr Ysgolion Sul Prydeinig (British Sunday School Union), a sefydlwyd

---

[68] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 68.
[69] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 70.
[70] Samuel Griffiths, *Cofiant y diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836), t. 23.

yn 1803, ddim llai na 2,568 o ysgolion yn perthyn i'r Undeb yn cynnwys 274,845 o ddisgyblion. Erbyn 1835 roedd y rhifau wedi cynyddu i 7,842 o ysgolion a 909,618 o ddisgyblion.[71] Ystyrid yr Ysgol Sul ym Mlaen-y-coed fel yr un gynharaf i'w sefydlu yn y cylch a bernir mai yno y cychwynodd yr arfer o holi'r 'pwnc' a ddatblygodd i fod yr hyn a gafodd ei hadnabod fel 'Y Gymanfa Bwnc'. Yn 1818 y dechreuwyd ar yr arfer o holi ac ateb, ond ymledodd yn fuan ar draws y wlad, nes sefydlu Cymanfaoedd Ysgolion gyda gwahanol eglwysi yn yr ardal yn dod at ei gilydd i gynnal cymanfa bwnc.[72]

*Codi pregethwyr*

Ffactor arall bwysig i'w ystyried wrth ddadansoddi y twf a'r ehangu oedd y gweinidogion a'r pregethwyr cynorthwyol a godwyd yn yr eglwysi. Yn ôl Samuel Griffiths, yn ychwanegol i Evan, mab Morgan Jones a ordeiniwyd i gynorthwyo ei dad yn yr ofalaeth yn 1824, fe neilltuwyd 16 arall i gyflawn waith y weinidogaeth yng nghyfnod Morgan Jones, ynghyd ag 20 o bregethwyr cynorthwyol.[73] Fe all y nifer a godwyd i'r weinidogaeth fod yn uwch oherwydd nid yw y cofnod gan Griffiths yn cynnwys enw Josiah Thomas Jones, golygydd *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* y dywedir iddo gael ei godi yn Llwyn-yr-hwrdd, ac a urddwyd yn 1828. Ymhlith y gweinidogion a neilltuwyd roedd gweinidogion amlwg megis Samuel Griffiths, Horeb; David Rees, Llanelli; Joseph Evans, Capel Seion a Samuel Bowen a fu'n athro yn Academi y Drenewydd. Byddai'r pregethwyr cynorthwyol yn rhannu yng ngwaith y weinidogaeth. Roedd David Lloyd, neu Dafydd Llwyd Llwyndafydd fel yr adnabyddid ef, yn henuriad a phregethwr cynorthwyol yng Nghapel-y-Graig cyn dyfodiad Morgan Jones i'r cylch, ac iddo ef yr ymddiriedwyd y dasg o gario'r alwad dros yr eglwys i'r darpar weinidog pan oedd yn fyfyriwr yng Nglandŵr. Daeth Dafydd Llwyd i fyw i ardal Blaen-y-coed a phregethai yn aml yn y canghennau, ac yn amlach ym Mlaen-y-coed na'r un o'r lleill. Byddai'n gofalu am y pulpud yn fynych gan gyflenwi yn absenoldeb ei weinidog, a byddai hefyd yn gwasanaethu mewn angladdau pan fyddai'r gweinidog oddi cartref.[74] Pregethai oddi cartref hefyd ar y Suliau, ac ef oedd yn gwasanaethu ar y Sul ym Mhencader, pryd yn y gyfeillach wedi'r oedfa yr arhosodd Thomas Phillips, Neuadd-lwyd wedyn, fel ymgeisydd am aelodaeth eglwysig.[75] Mewn gofalaeth wasgaredig o bump o eglwysi, a oedd yn tyfu'n gyflym, a chyda cyfarfodydd lluosog, roedd cael cymorth pregethwyr cynorthwyol yn allweddol i'r twf a'r ehangu. Tystia J. J. Beynon i'r cydweithio a gafwyd:

> It is atonishing, but delightful to think, with what harmony, he, and about twenty lay preachers, connected with the church, worked together ... The importance of such agency in in the church no one can now question ... The numerous lay preachers connected with his church, loved and respected him, therefore, they looked to him as children to their father, received his instructions, and followed his suggestions.[76]

[71] John Wolffe, *The Expansion of Evangelicalism: The Age of Wilberforce, More, Chalmers and Finney* (Nottingham: IVP, 2006), t. 156; Am y twf yng Nghymru gw. Huw John Hughes, *Coleg y Werin Hanes yr Ysgol Sul yng Nghymru rhwng 1780 ac 1851* (Chwilog: Cyhoeddiadau'r Gair, 2013), tt. 42, 133-9, 204-5.
[72] Stephen Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed* (Pencader: D. Jones, 1901), tt. 10-11.
[73] Griffiths, *Cofiant y diweddar Barch. Morgan Jones*, tt. 22-3.
[74] Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed*, t. 12.
[75] Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed*, t. 12.
[76] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, tt. 59-60.

*Plannu achosion newydd: de Penfro*[77]

Ni chyfyngodd Morgan Jones ei ymdrechion cenhadol i gylch gofalaeth ei eglwysi yn Sir Gaerfyrddin. Bu hefyd yn offerynnol i gychwyn achosion newydd yn Sir Benfro a thu hwnt. Dros gyfnod o flynyddoedd ffurfiodd bartnerïaeth gyda Richard Morgan, Henllan, a buont yn cenhadu yn helaeth yn ne'r sir, ar deithiau pregethu mynych gan efengylu yno i'r di-Gymraeg. Un o'r cofnodion cynharaf am eu gwaith yw yr hyn a ysgrifennodd Jones mewn llythyr at John Eyre, ysgrifennydd y Gymdeithas Genhadol, llythyr dyddiedig 1 Hydref 1801, pan ddanfonodd ato gyfraniadau tuag at waith y gymdeithas trwy gasgliadau wnaed ymhlith cynulleidfaoedd eglwysi Henllan Amgoed, Treffgarn, yn Sir Benfro ac eglwysi Tre-lech a Chapel Iwan:

> The Rev[d] Richard Morgan and self have of late paid several visits to the English in Pembrokeshire, and the prospect is somewhat encouraging, several places in dark villages have been opened to preach the gospel, we hope there are many in those places which hunger for the bread of life.[78]

Mae cofianwyr Morgan Jones wedi nodi nifer o straeon chwedlonol, hagiograffig, am eu hanturiaethau a'u dewrder yn mentro i blith poblogaeth a oedd yn elyniaethus i'w bwriadau. Rhaid cofio bod de Sir Benfro, megis Penrhyn Gŵyr, ers cael eu goresgyn gan y Normaniaid yn yr unfed ganrif ar ddeg wedi eu Seisnigeiddio'n ddybryd a'u pobl, oherwydd dylanwad polisïau y trefedigaethau Saesneg a sefydlwyd, wedi colli eu gafael ar y Gymraeg. Tebyg iawn bod brodorion de'r sir yn llugoer eu croeso i Richard Morgan a Morgan Jones gan mai Cymry Cymraeg o'r tu allan oeddent, yn ymyrryd ym mywyd eu parthau. Eto trwy gyfrwng yr iaith Saesneg yr oeddent yn cenhadu. Erbyn hyn byddai gan Morgan Jones, fel brodor o Frycheiniog a gafodd addysg cyfrwng Saesneg yn Athrofa Glandŵr, afael sicr ar y Saesneg. Beth bynnag, trwy lafur Morgan a Jones y sefydlwyd nifer o achosion Annibynnol newydd Saesneg yn ne Sir Benfro. Trwy eu llafur yr ailsefydlwyd yr eglwys Annibynnol yn nhref Penfro. O ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg bu'r achos yno mewn mewn cysylltiad â Chapel Albany, Hwlffordd, ond wedi cyfnod Evan Davies, a symudodd i Lan-y-bri a Bwlchnewydd yn 1743, bu esgeulustod a darfu am yr achos. Ailgychwynnwyd yr achos tua 1800 trwy lafur Richard Morgan a Morgan Jones:

> Tua yr amser hwnw, byddai y ddau weinidog llafurus hyn, yn talu ymweliadau mynych a'r parth Saesonig o sir Benfro, ac yn pregethu ym mhob man y cawsent dderbyniad. Trwy eu llafur hwy cafodd o leiaf bedair o eglwysi bychain eu ffurfio tua'r un amser, ac un o'r cyfryw yw yr eglwys sydd yn awr yn ymgynnull yn y Tabernacl, Penfro.[79]

I ymdrechion Richard Morgan a Morgan Jones y mae'n ddyledus am fraenaru'r tir i'r achos a sefydlwyd yn ddiweddarach yn Ninbych-y-Pysgod gan Benjamin Evans tuag 1818.[80] Blynyddoedd cyn hynny, yn dilyn yr ymateb i ymweliadau Morgan a Jones â'r dref, fe gynigiwyd iddynt ddarn o dir i godi capel arno, ond gan nad oedd ganddynt yr arian i dalu amdano, rhoesant y bwriad heibio. Ond eu gwaith hwy a hwylusodd y ffordd yn ddiweddarach

[77] Gweler Fap 6, t. 47.
[78] Archifdy LMS/CWM Home Office Extra, Box 2 1800-1839, Folder 1 Jacket A Llythyr 2.
[79] *HEAC*, III, t. 89.
[80] *HEAC*, III, tt. 99-100.

i Benjamin Evans sefydlu pregeth wythnosol mewn anedd-dŷ yn y dref yn 1818. Codwyd capel yno yn 1822, a chymrodd Morgan Jones ran yn y cyfarfodydd agoriadol. Un o'r achosion cynharaf a sefydlwyd oedd Bethel yn St Florence, pentref pedair milltir i'r gorllewin o Ddinbych-y-Pysgod.[81] Adeiladwyd y capel cyntaf yno yn 1800 gan gyfeillion o eglwys Henllan Amgoed adeg gweinidogaeth Richard Morgan. Sefydlwyd eglwys yno, ac wedi i Benjamin Evans, myfyriwr o Athrofa Caerfyrddin ymgartrefu yn y gymdogaeth yn 1804, urddwyd ef yn weinidog gyda David Peter, Richard Morgan, Morgan Jones a Benjamin Evans, Dre-wen yn gweinyddu. Brodor o Lan-cych oedd Benjamin Evans gyda'i rieni yn aelodau yn y Dre-wen, Sir Aberteifi. Cafodd ei dderbyn yn aelod ifanc iawn yn y Dre-wen ac anogwyd ef i bregethu pan yn bymtheg mlwydd oed. Trwy ffrwyth ymweliadau Morgan a Jones, a gweinidogion eraill, y cychwynwyd yr achos yn Sardis, pum milltir i'r gogledd-ddwyrain o Ddinbych-y-Pysgod.[82] Un o'r aelodau cynharaf yno oedd William Thomas, a enillwyd i'r ffydd trwy weinidogaeth pregethu Morgan a Jones adeg eu hymweliadau yn 1803. Ymaelododd â'r eglwys ifanc yno, a hwy, yn 1806, a'i cymhellodd i ddechrau pregethu. Daeth yn bregethwr hynod dderbyniol a bu'n fawr ei wasanaeth yn Sardis ym mlynyddoedd cynnar yr achos, ac mewn eglwysi eraill. Adeiladwyd y capel yno yn 1809 a pharhaodd yr eglwys dan weinidogaeth Evans tan 1819 pryd yr urddwyd William Thomas yn weinidog i eglwys Sardis ac yn gyd-weinidog â Benjamin Evans yn holl gylch ei weinidogaeth; yn fuan wedi hynny cyfyngodd Thomas ei lafur i Sardis yn bennaf.

Dwy eglwys arall y bu Morgan a Jones gyda gweinidogion eraill yn offerynnol i'w sefydlu oedd yr achosion yn Rosemarket[83] i'r gorllewin o foryd y ddwy Gleddau tua pedair milltir i'r de o Hwlffordd, a Manorbier Newton[84] pum milltir i'r gorllewin o St Florence. Sefydlwyd yr eglwys yn Rosemarket tua 1801 ac yn 1803 gosodwyd Arnold Davies yn weinidog yno. Roedd yr achos ym Manorbier Newton yn gangen i'r eglwys yn St Florence. Roedd Arnold Davies yn aelod yn St Florence, ond pan gafodd yr eglwys ym Manorbier Newton ei sefydlu, cafodd ef a David Phillips, dau bregethwr cynorthwyol, eu gollwng gan y fam-eglwys ac ymaelodasant ym Manorbier Newton. Brodor o ardal Castell-blaidd oedd Arnold Davies.[85] Wedi dod o dan argraffiadau crefyddol yn ifanc, bu'n perthyn i achos y Methodistiaid Calfinaidd yn Wystog, ac wedi dysgu darllen ac ysgrifennu, ac wedi trwytho ei hun yn yr Ysgrythurau daeth yn y man i gadw ysgol yn Templeton. Yr adeg hynny, tua 1800, daeth o dan gyfaredd pregethu Morgan a Jones a phenderfynu roi heibio cadw ysgol gan gyflwyno ei hun i'r gwaith o bregethu. Cymerodd Morgan a Jones ef dan eu hadain a phenodwyd ef yn efengylydd a phregethwr cynorthwyol ymhlith y Saeson. Mewn trefn iddo fedru gweinyddu bedydd a Swper yr Arglwydd, yn 1802, urddwyd ef yn weinidog ym Manorbier Newton: 'Wedi bod yn bregethwr teithiol am dair blynedd, a gwneyd llawer o ddaioni, barnodd ef a'i gyfeillion y buasai yn fwy defnyddiol wrth ymsefydlu fel gweinidog eglwys neillduol, ac felly ymsefydlodd yn Rosemarket yn 1803'.[86] Eto parhaodd Arnold Davies i ymweld yn achlysurol â'r eglwysi Saesneg yn ne Sir Benfro i'r dwyrain o foryd y ddwy Gleddau. Bu hefyd droeon yn pregethu ym Mhenrhyn Gŵyr gan gynorthwyo David Davies yn ei genhadaeth i'r di-Gymraeg yno. Gan ei fod yn medru pregethu yn y ddwy iaith, yn 1811

[81] *HEAC*, III, tt. 121-3.
[82] *HEAC*, III, tt. 123-4.
[83] *HEAC*, III, t. 131.
[84] *HEAC*, III, t.126.
[85] *HEAC*, III, tt. 132-3.
[86] *HEAC*, III, t.132.

roedd yn un o'r rhai a aeth am dri mis i bregethu i'r gynulleidfa Gymraeg yn Little Guildford Street yn Llundain.

Gwelir felly, mewn perthynas â'r genhadaeth gartref, yn ogystal â hyrwyddo'r genhadaeth dramor, bod Morgan Jones wedi cyfrannu'n helaeth i'r gwaith o blannu achosion ymhlith y di-Gymraeg yn ne Sir Benfro, ynghyd â bod â rhan yng ngalwad rhai o'r pregethwyr a godwyd i wasanaethu yn yr eglwysi yno.

*Plannu achosion newydd: gogledd Penfro a Chenarth* [87]

Ni chyfyngodd Morgan Jones ei hunan i dde Penfro yn unig. Cysylltir ei enw â chychwyn yr achos yn Nhŷ-rhos, ym mhlwyf Cilgerran, yng ngogledd y sir.[88] Oddi ar 1786 bu'r Bedyddwyr yn gyfrifol am gynnal Ysgol Sabbothol yn y cylch mewn lle a elwid Penyralltcadwgan, ond symudwyd yr ysgol oddi yno i'r Trip, efallai oherwydd anghydweld ar fater yr ordinhadau. Roedd y Methodistiaid wedi cael trwydded i bregethu ar fferm Tŷ-rhos, ac un o'r selogion amlycaf yno oedd William John, Rhiw-gou. Ond oherwydd i William John fynychu neithior priodas a chael ei geryddu gan awdurdodau'r Methodistiaid am wneud, ymadawodd â hwy ac ymuno â'r Annibynwyr. Ar yr adeg hynny roedd un o aelodau Capel-y-Graig, Tre-lech, sef David Williams, yn byw yn yr ardal gyda'i briod Martha, a hithau yn aelod yn Eglwys Annibynnol Brynberian. Dechrau'r ganrif daeth Morgan Jones i bregethu yn yr awyr agored mewn cae yn agos i Benyralltcadwgan, gerllaw y man lle roedd David a Martha Williams yn byw. Roedd y cae yn llawn o wrandawyr ac wedi'r oedfa bedyddiodd Morgan Jones dri o blant yn y tŷ. Wedi hynny bu Morgan Jones, Henry George Brynberian, a John Phillips Trewyddel, yn pregethu'n gyson yn y lle o 1800 hyd 1809. Sefydlwyd eglwys yno yn 1810 yn nhŷ-annedd Tŷ-rhos, a bu Jones gyda gweinidogion cymdogol yn gweinyddu'r ordinhadau yma'n rheolaidd tan i Daniel Davies, Aberteifi, gymeryd at ofalu am yr eglwys yn 1818.

Fel cangen o eglwys y Dre-wen yr ystyrir Cilfod bellach, sef cangen ym Mhontseli, ac er nad yw cofianwyr Morgan Jones wedi rhoi fawr o sylw i'r mater, trwy ei gysylltiad â Chapel Iwan, bu ganddo ran yng nghychwyniad yr achos yn Bryn Seion, Pontseli ym mhlwyf Cenarth.[89] Oddi ar 1804 buwyd yn cynnal cyfarfodydd gweddïo mewn anedd-dŷ o'r enw Cilfod ac aelodau Capel Iwan fu'n bennaf gyfrifol am gynnal y cyfarfodydd. Yn 1805 torrodd diwygiad grymus allan pryd yr ychwanegwyd llawer at yr eglwysi a bu hyn yn gyfrwng adfywiad yng Nghilfod. Yng nghysgod y diwygiad dechreuwyd cadw Ysgol Sabbothol yno ac o 1810 ymlaen bu pregethu cyson yn y lle. Cedwid ysgol ddyddiol yno gan Phillip James, pregethwr Methodist. Bu Morgan Jones yn pregethu yno lawer gwaith ac ato ef i Gapel Iwan y byddai'r aelodau yn mynd i gymuno. Bu llawer o bregethwyr adnabyddus o wahanol enwadau yn pregethu yno'n rheolaidd a thua 1830, pan ddaeth John Phillips, Dre-wen, atynt i bregethu bu adfywiad pellach a chynnydd yn y rhengoedd. Cryfhawyd yr Ysgol Sabbothol a chododd niferoedd y gwrandawyr nes i'r adeilad fynd yn rhy fychan ac y codwyd adeilad newydd yn 1831. Yn agoriad y capel, sef capel Bryn Seion, ar 9 Hydref 1831 gweinyddwyd gan Morgan Jones, Daniel Davies Aberteifi a John Phillips. Derbyniwyd adeg sefydlu'r eglwys

---

[87] Gweler Fap 4, t. 46.
[88] *HEAC*, III, tt. 100-1.
[89] *HEAC*, III, t. 414.

tua 57 o aelodau wedi eu gollwng o eglwysi Capel Iwan, Tŷ-rhos a'r Dre-wen, a bu llwyddiant pellach yno dan ofal John Phillips.

*Achosion Cymraeg Llundain* [90]

Chwaraeodd Morgan Jones ran flaenllaw hefyd yn hanes cychwyniad yr achos Cymraeg ymhlith yr Annibynwyr yn Llundain. Mewn cylchlythyr a anfonwyd allan ddechrau 1806 yn apelio am gymorth y Saeson i dalu'r ddyled am godi addoldy Little Guildford Street, enwyd nifer o weinidogion yr Annibynwyr yng Nghymru a oedd, yn ystod y ddwy flynedd flaenorol, wedi rhoi o'u gwasanaeth yn eglwysi Llundain, a hynny am am dri mis ar y tro. Ymhlith y rhai a enwyd, gyda David Davies Abertawe, yn gyntaf, roedd Morgan Jones.[91] Bu Jones yn flaengar iawn yn codi arian i glirio dyled Little Guildford Street. Yn y gymanfa dde-ddwyreiniol a gynhaliwyd yn Abertawe 25 a 26 Mehefin 1806, cytunwyd i bob gweinidog wneud casgliad ymhlith eu pobl gan ddanfon eu cyfraniadau at 'M. Jones, Trelech, J. Davies, Bethlehem, a D. Davies, Abertawe'.[92] Roedd gan Morgan Jones gryn ddylanwad ac awdurdod dros yr aelodau yno. Bu'n ddylanwadol i dawelu anghydfod yn yr eglwys:

> Wedi cael y capel yn barod a'i lenwi a chynulleidfa siriol, cyfododd ryw ymryson rhwng rhai o'r prif aelodau a'u gilydd, yr hyn fu yn niwed mawr i'r achos. Trwy gyfryngiad Mr. Jones, Trelech, adferwyd yma dangnefedd, ac yna cydunwyd i roddi galwad i Mr. David Simon Davies, myfyriwr o athrofa Caerfyrddin.[93]

Ar 8 Awst 1811 yng nghyfarfodydd sefydlu'r gweinidog newydd pregethodd Morgan Jones ar natur yr eglwys a phregethodd David Peter ar ddyletswydd y gweinidog.

*Ehangu ac ailadeiladu capeli*

Nid yn Llundain yn unig y bu Morgan Jones yn frwd dros weld eglwysi yn ehangu. Fel yn hanes David Davies a blannodd eglwysi newydd ac a welodd yr eglwysi hynny'n codi addoldai newydd, cyfrannodd Jones at y twf yn yr un ffordd. O ddechrau ei weinidogaeth denodd dorf i'w ddilyn a chymaint oedd yr adfywiad a brofwyd, fel yr aethpwyd ati ymhen blwyddyn i godi capel newydd yng Nghapel-y-Graig:

> Hundreds now attended the ministry of Mr. Jones, who had not been used to attend ... The meeting house now became too small to accommodate the people who came to hear, many often stood listening at the outside, while Mr. Jones addressed them from one of the windows.[94]

Bernir i'r ailadeiladu ddigwydd yno yn 1791, a thybed oedd y gwaith o adnewyddu yn rhan o'r paratoadau ar gyfer cynnal Cymanfa yr Annibynwyr a ymwelodd â Thre-lech ar 6 a 7 Mehefin 1792?[95] Mae'n fwy tebygol fod y gymanfa wedi ymweld â Thre-lech yng nghysgod y

---

[90] Gweler Fap 3, t. 45.
[91] *HEAC*, IV, t.393.
[92] *CyA*, t. 142.
[93] *HEAC*, IV, t. 394.
[94] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 22.
[95] Muriel Bowen Evans, *Capel-y-Graig Tre-lech 1703-2003* (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2003), t. 36.

llwyddiant a berthynai i weinidogaeth Morgan Jones yn yr eglwys, a'r adnewyddu a fu yn hanes addoldy yr eglwys yno. Ni fu ehangu pellach ar yr adeilad tan 1827 ond rhaid cofio am y datblygiadau a gafwyd yn hanes y canghennau a dyfodd i fod yn eglwysi llewyrchus. Ailadeiladwyd y capel yng Ngapel Iwan yn 1795 'a gwnaed ef yn llawer helaethach nag o'r blaen ac o dan weinidogaeth Mr. Jones daeth yma eglwys gref a chynnulleidfa luosog'.[96]

Ym Mlaen-y-coed mewn hen ysgubor yn y pentref y bu'r eglwys yn addoli yno ym mlynyddoedd cyntaf yr achos. Oddeutu 1801, un o sylfaenwyr yr achos, Dafydd Bowen, Bryn-chwith, lwyddodd i sicrhau yr ysgubor yn y lle a hynny am ardreth o gini y flwyddyn:

> Gwnaed adgyweiriadau buan yn yr hen ysgubor; cyfaddaswyd yr ystafell ar gyfer y gwasanaeth newydd ag oedd i gael ei gynnal ynddi. Gosodwyd yno areithle a bwrdd, a thorwyd ynddi ychydig ffenestri er ei goleuo. Paratôdd yr ardalwyr hefyd ychydig feinciau, rhai â chefnau iddynt, ac eraill heb ddim, ynghyd ag amryw ystolion bychain teir-troed.[97]

Yno y bu Morgan Jones yn cynnal oedfaon am rai blynyddoedd, unwaith bob deufis, a chynhelid yno gyfarfodydd gweddïo cyson. Ond ymhen rhai blynyddoedd fel y cynyddodd y gynulleidfa, ac wedi'r diwygiad grymus a fu yno yn 1805, aeth yr ysgubor yn rhy fychan ac aed ati i godi capel newydd. Cafwyd tir yn ymyl, gyferbyn â'r ysgubor, ac adeiladwyd y capel newydd yn 1807.

> Yr oedd Dafydd Bowen eto yn un o'r prif offerynau yn nygiad yn mlaen y gwaith o adeiladu y capel newydd, ond cafodd gynnorthwywr rhagorol yn un o'r enw Daniel Davies, Brynceirch; a chydweithiodd yr ardalwyr yn gyffredininol a hwynt, trwy gludo y defnyddiau oll ato yn rhad, a chyfranasant hefyd tua £100 o arian er talu amdano: rhoddai rai gymaint a £5 yr un.[98]

Dyma'r capel a ddefnyddiwyd am 30 o flynyddoedd tan y codwyd capel newydd, a helaethach, yn 1837.[99] Yr oedd hyn bron dwy flynedd wedi marw Morgan Jones, ac eto tystia i'r cynnydd a'r llwyddiant a gafwyd yn ystod ei weinidogaeth. Ac yn 1807, cymaint oedd y boddhad ym Mlaen-y-coed wedi codi'r capel newydd fel yr ymwelodd Cyfarfodydd Chwarterol Sir Gaerfyrddin â'r lle yn fuan yn 1808.[100]

Saif capel Ffynnon-bedr rhyw bedair milltir i'r de o Dre-lech, ym mhlwyf Tre-lech a'r Betws, ac ar gyfer y rhan ddeheuol o faes gweinidogaethol Morgan Jones y codwyd ef. Pregethai Jones mewn ffermdai yn yr ardal ac un o'r llefydd amlycaf yr ymwelai ag ef oedd Plasparcau-isaf, cartref John Davies, aelod blaenllaw yng Nghapel-y-Graig ac un a ddywedir ei fod yn gyfaill agos i'w weinidog. Roedd John Davies yn hanu o deulu enwog Dafisiaid Ffynnon-dafolog, fferm a theulu blaenllaw yn gysylltiedig â Chapel-y-Graig o gyfnod dechreuadau'r achos yno. Roedd ei dad o'r un enw yn un o weinidogion cyntaf Capel-y-Graig: 'Cymerodd John Davies ieuangaf lês ar Plasparcau-isaf yn 1800, ac yn sicr fe fu'r symudiad

[96] *HEAC*, III, t. 413.
[97] Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed*, tt. 5-6.
[98] Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed*, tt. 7-8.
[99] Gw. D. Huw Owen, *Capeli Cymru* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2005), tt. 46-7.
[100] Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed*, t. 8.

yn foddion i hyrwyddo dylanwad Capel-y-Graig yn rhan isaf y plwyf, yn ogystal ac ardaloedd cyfagos plwyfi Meidrim ac Abernant'.[101] Ffynnon-bedr oedd yr enw ar un o'r tai ar ystad Plasparcau-isaf ac roedd i'r tŷ gysylltiadau crefyddol gan fod un o ysgolion Griffith Jones wedi ei chadw yno yn 1769-70. Wedi bod yn addoli mewn anedd-dai am rai blynyddoedd, ac yn arbennig yn ffermdy Plasparcau-isaf, bernir mai yn 1808 y corfforwyd yr achos yn Ffynnon-bedr, yr un flwyddyn ag y codwyd y capel cyntaf neu yr addaswyd y tŷ yno yn le o addoliad. Rhai o Gapel-y-Graig oedd aelodau cynharaf yr eglwys yno, ar wahân i ddau o aelodau ym Methlehem, San Clêr, a ymunodd gyda hwy ar adeg y corffori.[102] Yn 1825 yng nghyfnod gweinidogaeth Morgan Jones a'i fab Evan, yr ail-adeiladwyd y capel yno.

Llwyn-yr-hwrdd, pedair milltir i'r gorllewin o Dre-lech, efallai, oedd yr olaf o'r canghenau i'w sefydlu yn eglwys yng ngofalaeth Morgan Jones ym mlynyddoedd ei weinidogaeth. Yr oedd aelodau o eglwysi Capel-y-Graig a Glandŵr, ynghyd â rhai Bedyddwyr yn y cylch wedi bod yn cyfarfod mewn tai annedd yn yr ardal dros lawer o flynyddoedd. Nid oes sicrwydd pa bryd y corfforwyd yr eglwys yma ond yn 1805 y codwyd y capel cyntaf.[103] Y mae'n bosibl fod yr eglwys wedi ei sefydlu ym mlwyddyn sicrhau y capel cyntaf. Ceisiwyd dod o hyd i dir i godi capel yn yr ardal, yn Ros-lyn ar dir Pen-banc, ym mhlwyf Clydau ond oherwydd rhwystr gododd fe fethwyd a gwneud.[104] Yn y diwedd fe welodd Morgan Jones ei ffordd i brynu tyddyn o'r enw Llwyn-yr-hwrdd a chyflwynodd ef y tir i'r aelodau ar gyfer codi'r capel cyntaf yn y gymdogaeth, gan gadw'r enw Llwyn-yr-hwrdd. Dyddiwyd y weithred a'r brydles gyntaf 1 Ionawr 1806 am ardreth o swllt y flwyddyn am 1,000 o flynyddoedd neu o 29 Medi 1805 tan y byddai dŵr yn rhedeg yn yr afon Taf. Nodwyd bod yr adeilad gyfer dibenion addoli yn unig ac ar gyfer 'Pregethwyr ac Athrawon yn dal at wirionedd yr Efengyl yn ôl perswâd yr Annibynwyr, y rhai a gredent athrawiaeth y Drindod a Phum Pwnc Calfiniaeth'.[105] Ailadeiladwyd y capel yn 1817, a thrachefn yn 1846. Adeiladwyd y capel sydd yno'n bresennol rhwng 1873-75.

I ddychwelyd at Gapel-y-Graig, wedi'r rhaglen adeiladu fu yn yr eglwysi a sefydlwyd yng ngofalaeth Morgan Jones, aethpwyd ati i godi capel newydd a helaethach yn Nhre-lech a agorwyd ym Mis Mai 1828.

> Wednesday last the independent Chapel at Tre-lech was re-opened. The friends of the cause in the place have exerted themselves very much to their credit in erecting a large and commodious meeting-house measuring 50 feet by 34. On the occasion of congratulating the church and neighbourhood in their comfort of having such a place to meet in, and join them in seeking the blessing of God, the Rev. Messrs. Griffiths of Hawen, Peters of Carmarthen ... and many others attended. There will be no appeal made to the public to defray the expenses ...[106]

Roedd clod yn ddyledus nid yn unig am y ffaith fod yr adeilad yn un helaeth a hardd ond am fod yr eglwys wedi llwyr glirio'r gost erbyn agoriad yr adeilad. Roedd hyn yn ffaith

---

[101] *Cofio'r Parchedig Morgan Jones 1768 – 1835* (Llwyn-yr-hwrdd: Cymdeithas Cyfeillion Morgan Jones, 1985), t. 9.
[102] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 168; *HEAC*, III, t. 412.
[103] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', tt. 171-2.
[104] Ray Samson, *Eglwys Annibynnol Llwyn-yr-hwrdd 1805-2005* (Aberteifi: E. L. Jones a'i Fab, 2005), t.13.
[105] Gweithred Prydles Llwyn-yr-hwrdd, 1 Ionawr 1806.
[106] *Carmarthen Journal*, 16 Mai 1828, yn Evans, *Capel-y-Graig Tre-lech 1703-2003*, t. 22.

arwyddocaol iawn o gofio'r holl ymdrechion a gafwyd yn y cyfnod gyda phregethwyr yn mynd ar deithiau pregethu i godi arian i glirio dyledion cost codi capeli. I bob pwrpas, er wedi rhai gwelliannau tros y blynyddoedd, dyma addoldy Capel-y-Graig heddiw.[107]

Yn ychwanegol i'w waith yn plannu eglwysi newydd a hyrwyddo ehangu pellach ym maes ei weinidogaeth, cyfrannodd Morgan Jones, fel David Davies, yn helaeth fel pregethwr y bu galw mawr am ei wasanaeth. Mynych yw'r cyfeiriadau ato yn pregethu ar achlysuron arbennig, yng nghyfarfodydd ordeinio a sefydlu gweinidogion, adeg agor capeli newydd, yng nghymanfaoedd yr Annibynwyr, mewn cyfarfodydd gweinidogion a'r cyfarfodydd chwarter ac yng ngweithgareddau hyrwyddo'r genhadaeth dramor.

### 4. Cyfraniad David Peter i'r twf

Pan gychwynnodd David Peter ei weinidogaeth yn Heol Awst yn Rhagfyr 1791 gwawriodd bennod newydd yn hanes yr eglwys yno, yn hanes yr Academi Bresbyteraidd yn ddiweddarach, a maes o law hanes tref Caerfyrddin yn ogystal. Disgrifiodd John Dyfnallt Owen bum mlynedd a deugain gweinidogaeth Peter fel 'cyfnod o chwyldro a chynnydd eithriadol.'[108] Agorodd faes eang o ddefnydioldeb o'i flaen. Yn wir, cymaint fu'r llwyddiant fel y tyfodd Heol Awst yn eglwys Annibynnol fwyaf y wlad.[109] Sylweddoli ei lwyddiant rhyfeddol a barodd i awdurdodau yr Academi Bresbyteraidd, wedi cyfnod cythryblus yn Abertawe, leoli'r coleg yng Nghaerfyrddin drachefn a phenodi Peter yn bennaeth arni.

*Codi capel newydd*

Ar ddechrau ei weinidogaeth roedd gan eglwys Heol Awst ddeugain aelod a thua chant o wrandawyr.[110] Nid un bychan oedd y capel a godwyd yn 1726: 'That sanctuary had a middle isle, with pews each side; the pulpit was at the furthest end from the entrance. There was a gallery opposite the pulpit, and a burrying groud, of small dimensions, extending south of the edifice'.[111] Ond bu rhaid ei ehangu drachefn. Yn ystod deng mlynedd gyntaf ei weinidogaeth derbyniwyd 150 o aelodau newydd yn ychwanegol at y sawl a dderbyniwyd trwy lythyr o eglwysi eraill.[112] 'The success of Mr Peter's ministry was visible in the steady increase of the Church and congregation, both in numbers and respectability'.[113] Daeth rhai nid yn unig o blith trigolion y dref ond o'r cyffiniau, a chyda'r hen dŷ cwrdd yn brif atynfa'r dref, buan yr aeth yn rhy fach ar gyfer y gynulleidfa: 'Tynnwyd ymaith y pared oedd rhwng yr ysgoldy a'r capel, er mwyn helaethu'r man cyfarfod, ar gyfer y Sul, ond erbyn 1800, yr oedd y lle yn rhy fach eilwaith'.[114] Roedd cyndynrwydd ymhlith rhai i ffarwelio â'r hen dŷ cwrdd, ac wedi hir bendroni, ynghyd â drwgdybio a gwrthwynebiad, y weledigaeth ynghylch codi adeilad newydd

[107] Gw. Owen, *Capeli Cymru*, tt. 193-4.
[108] J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst* (Caerfyrddin: W.M.Evans a'i Fab, 1926), t. 34.
[109] *HAC,* t. 151.
[110] W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green and Longmans, 1846), t. 11.
[111] Lewis, *Memoir,* t. 31.
[112] Lewis, *Memoir,* t.31.
[113] Lewis, *Memoir*, t 36.
[114] Owen, *Hanes Eglwys Heol* Awst, t. 39.

a orfu. Penderfynwyd mewn cwrdd eglwys i dynnu'r hen adeilad i lawr a chael gwell cyfleusterau: 'Many thought it to be a bold attempt, and many more predicted its total failure. But strong in faith, Mr. Peter persevered; and his determination was crowned with success'.[115] Gosodwyd carreg sylfaen y capel newydd ar 2 Mai 1802 ac yn ei anerchiad datganodd:

> When I settled here as a minister in 1792, the meeting was large enough, but God was pleased to bless His word to such a degree that the house became to small, and in the year 1802, it was taken down and built on a much larger scale.[116]

Cwblhawyd y gwaith mewn amser anhygoel o fyr oherwydd dechreuwyd addoli yn y capel newydd ar 18 Gorffennaf yn yr un flwyddyn. Hwn oedd y capel mwyaf yn y dref, a phregethodd Benjamin Evans Dre-wen yn y cyfarfod agoriadol. Costiodd y capel tua £1,300 a chasglwyd y rhan fwyaf o'r arian trwy ymdrechion Peter yn derbyn tanysgrifiadau yn ystod ei ymweliadau â Llundain, Bryste, Caerfaddon a rhannau helaeth o Gymru. Cymerwyd rhai blynyddoedd i glirio'r ddyled a chydnabu'r eglwys lafur ei gweinidog mewn datganiad dyddiedig 15 Mawrth 1811:

> We, the undersigned, members of the Dissenting Church in Lammas Street, Carmarthen, have examined the accounts of the meeting-house, and found the same to be fair and just. And we do hereby return our humble thanks to our beloved pastor, the Rev. Mr. Peter, for his exertions in promoting the building of our meeting-house, and for collecting money to discharge the expence of the same.

| | | | |
|---|---|---|---|
| W. Rhydero, | | D. Lewis | |
| H. Jones, | Elders | P. Jenkins | Deacons |
| W. Jones | | J. Evans.[117] | |

Ac wedi clirio'r ddyled, roedd £23 17s 2 a hanner yn weddill.

Yn ystod y blynyddoedd dilynol, parháu i gynyddu mewn sêl, parch a defnyddioldeb gydag arddeliad ac eneiniad ar ei lafur a'i boblogrwydd a wnaeth David Peter, ac nid oedd pall ar ei ddefnyddioldeb. Mewn byr amser wedi agoriad y capel newydd fe ddyblodd y gynulleidfa:

> It might have been supposed that he was at the zenith of his popularity. But greater things were to follow. A wider field of action, and a more enlarged sphere of usefulness was about to be opened to him; and he lived to be the instrument of effecting still greater things for the cause at Lammas street.[118]

*Hyrwyddo addysg, ehangu ac ailadeiladu eto*

O ddechrau ei weinidogaeth yn Heol Awst bu gan David Peter gyfrifoldeb i hyrwyddo addysg yn y dref. Yn ogystal â gweinidogaethu i'r eglwys cafodd ei benodi yn diwtor ac yn brifathro ar yr ysgol ramadeg, ysgol roedd ei ragflaenwyr yn Heol Awst wedi ei chynnal oddi ar ddyddiau gweinidogaeth William Evans, y gweinidog cyntaf. Bu mwy nag un ysgol ddyddiol

[115] Lewis, *Memoir*, t. 37.
[116] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst,* t. 40**.**
[117] Lewis, *Memoir*, t. 41.
[118] Lewis, *Memoir*, t. 41.

yn ei ofal, ac yn ogystal i'w gyfrifoldebau fel gweinidog a phennaeth yr Academi Bresbyteraidd, roedd yn frwd wrth hyrwyddo gweithgareddau'r Ysgol Sul. Roedd dathlu penblwydd yr Ysgol Sul yn yr eglwys yn ddigwyddiad blynyddol o bwys. Yn ôl anerchiad Peter ar yr achlysur ar 12 Mawrth 1822, cofnodir bod ar gyfartaledd 500-600 o ddisgyblion yn perthyn i'r Ysgol Sul, gyda 32 o athrawon ar gyfer dosbarthiadau'r oedolion a'r un rhif o athrawon ar blant.[119]

Gyda'r fath gynnydd roedd yr adeiladau eto yn llawer rhy fychan ar gyfer gofynion yr eglwys. Erbyn diwedd 1824 roedd yn amlwg i bawb bod yr achos yn dioddef oherwydd diffyg lle. Nid oedd braidd sedd rad yn weddill, ac yn y gwasanaeth Saesneg yn y prynhawn hyd yn oed, roedd y lle yng anghysurus o lawn. Nid oedd rhannu'r aelodau yn opsiwn felly beth oedd i'w wneud ond helaethu yr adeiladau ymhellach. Fel yn 1802 bu rhaid i Peter frwydro yn erbyn y rhai a oedd yn wrthwynebus i'r bwriad. Ceisiai llawer o'i ffrindiau i'w ddarbwyllo i ystyried ei oedran – byddai'n 60 oed yn 1825 –, a chan y byddai'r cyfrifoldeb o glirio'r gost yn gorffwys ar ei ysgwyddai, y byddai'n well iddo fodloni ar bethau fel yr oeddent. Ond nid un i orffwys ar ei rwyfau oedd Peter a gwnaeth yn amlwg mai lles yr eglwys oedd ganddo mewn golwg: 'his great object was to leave to his beloved flock a spacious and substantial structure, which would be a blessing to them, and a spiritual home for their children for generations to come'.[120] Ac wedi cryn berswadio llwyddodd yn ei fwriad.

Ym mis Hydref 1825 prynwyd tŷ a gardd a oedd yn ffinio a'r capel am £604, ac wedi gwneud yr holl gynlluniau gosodwyd carreg sylfaen y capel newydd gan ei briod ar 2 Mai 1826. Bu ei wraig yn graig o gefnogaeth iddo ac roedd wedi gwystlo ei heiddo personol er mwyn cychwyn ar y gwaith. Yn rhyfeddol, unwaith eto cwblhawyd y gwaith mewn byr amser, un-mis-ar-ddeg, a chafodd ei agor yn swyddogol ar 5 Ebrill 1827: 'All busines was laid aside, and the day was, literally, a holiday in the town.'[121] Pregethwyd yn yr agoriad gan fawrion y pulpud sef William Williams o'r Wern, Caleb Morris a chan ryw Mr East o Birmingham. Y gost am brynu'r tir, codi'r capel a'i ddodrefnu oedd £2,582 6*s* a 3*d*. Cymerwyd rhai blynyddoedd i symud y ddyled ac mewn cyfarfod eglwys ar 15 Ebrill 1831 cyhoeddwyd bod y gost wedi ei chlirio. Roedd £2,590 5*s* 5*d* wedi ei dderbyn trwy gyfraniadau yn gadael gweddill o £7 19*s* 2*d* mewn llaw. Ac unwaith eto roedd yr eglwys yn ddyledus i Peter am y llwyddiant yn clirio cost mor fawr: 'It was no small mater for a man at his age, to leave home, and encounter the privations and fatigues necessarily encountered with such an undertaking'.[122] I godi'r arian, am wythnosau a misoedd ar y tro, teithiodd ar draws de Cymru ynghyd â rhannau helaeth o Loegr. Roedd parch mawr i'w gymeriad a chafodd ymateb da ym mhob lle yr ymwelodd â hwy. Y capel newydd hwn i bob pwrpas yw'r adeilad a welir yn Heol Awst heddiw.[123] Roedd yn un o'r rhai mwyaf, os nad *y* mwyaf yng Nghymru ar y pryd, yn medru dal cynulleidfa o dros ddwy fil. Llawenhaodd yn ei ddyddiadur, 1 Ionawr 1828, fod y capel yn cael ei fynychu gan gynifer.[124]

[119] Lewis, *Memoir*, t. 154.
[120] Lewis, *Memoir*, t. 156.
[121] Lewis, *Memoir*, t. 158.
[122] Lewis, *Memoir*, t. 159.
[123] Gw. Owen, *Capeli Cymru*, tt. 55-6.
[124] Lewis, *Memoir*, t. 161.

Ac nid y ddau gapel yn Heol Awst yn unig y bu Peter yn gyfrifol am eu hadeiladu: ‘Several commodious places of worship have been erected in different localities in the neighbourhood, which owe their origin, under God, to Mr. Peter, and the co-operation of the students’.[125] Byddai oddeutu deuddeg myfyriwr ar gofrestr yr Academi yn flynyddol,[126] a chafodd dros 150 eu paratoi ar gyfer y weinidogaeth oddi tano, er i eraill gael eu hordeinio wedi iddynt fod yn fyfyrwyr yn yr Ysgol Ramadeg y bu’n brifathro arni am ddeugain mlynedd.[127]

Cynhelid ar y Sul dair oedfa yng nghapel Heol Awst gyda Peter ei hun yn pregethu yn yr oedfa Gymraeg, sef y brif oedfa, am 10, yr oedfa Saesneg am 3 y prynhawn, gydag un o fyfyrwyr yr Academi yn ei dro yn pregethu yn oedfa Gymraeg yr hwyr. Byddai hynny’n rhoi cyfle i Peter wrando arnynt.[128] Roedd y myfyrwyr yn cael cyfle hefyd i wasanaethu yn y canghennau a sefydlwyd ymhen amser yn eglwysi. Gyda bod David Peter yn rhannu ei amser yn bennaf rhwng gofynion ei weinidogaeth yn Heol Awst a galwadau’r coleg, ni fedrodd fod mor ddylanwadol â David Davies a Morgan Jones yn y gwaith o blannu eglwysi newydd, eto i’w waith ef y priodolir cychwyn a chorffori’r achosion newydd yng Nghana, gerllaw Banc-y-felin, Pont-ar-gothi ac Abergwili.

*Cana, Pontargothi ac Abergwili* [129]

Saif Cana ym mhlwyf Meidrim bedair milltir i’r gorllewin o Gaerfyrddin. Arferai Annibynwyr yr ardal fynychu eglwysi cylchynol yn Llan-y-bri, Bethlehem San Clêr, Caerfyrddin a Bwlchnewydd. Wedi bod yn cynnal cyfarfodydd gweddi o dŷ i dŷ, ar brynhawn Sul yn 1815 gwahoddwyd David Jones, pregethwr cynorthwyol yn Ffynnon-bedr, i bregethu yn Llwyn-derw. Amlhaodd y cyfarfodydd a lluosogodd y gwrandawyr ac yn dilyn cyngor gweinidogion cymydogaethol, codwyd y capel cyntaf yn 1820 a chorfforwyd yr eglwys gan David Peter yn nechrau 1821.[130] Cychwynwyd yr achos yn Siloam ym mhentref Pontargothi, plwyf Llanegwad, chwe a hanner milltir i’r dwyrain o Gaerfyrddin mewn anedd-dy o’r enw Ty’n-y-coed, nepell uwchlaw lle saif capel Siloam heddiw. Yn raddol lluosogodd y gwrandawyr, a phan fynegwyd awydd i ffurfio eglwys, er mai ychydig oeddynt mewn niferoedd, daeth Peter i Dy’n-y-coed a chorffori’r eglwys yno. Roedd hyn yn 1822.[131] Ceir manylion am y corffori a’r sefydlu yng ngofiant Peter gan W. H. Lewis.[132] Cafwyd addoldy mwy cyfleus am gyfnod ond yn 1849 y codwyd capel presennol Siloam y waith gyntaf. Saif Ebenezer ym mhlwyf Abergwili, dwy filltir i’r dwyrain o dref Caerfyrddin, a Peter a gorfforodd yr achos yno. Er gwaethaf presenoldeb amlwg Eglwys Loegr yn Abergwili, lleoliad Plas yr Esgob, eto bu gan yr Annibynwyr droedle yno oddi ar ddechrau’r ddeunawfed ganrif, a chyrchent pob Saboth i Heol Awst i addoli: ‘Sefydlwyd yma orsaf i bregethu yn benaf gan fyfyrwyr Annibynol Athrofa

[125] Lewis, *Memoir*, t. 150.
[126] David Peter, *Hanes Crefydd yn Nghymru* (Caerfyrddin: J. Evans, 1816), t. 686.
[127] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 49.
[128] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, tt. 48-9.
[129] Gweler Fap 5, t. 47,
[130] *HEAC,* III, t. 392-3; Beti-Wyn James, *Cerrig milltir yn hanes Cana* (Caerfyrddin: Gwynfor Davies, 2008), t. 2.
[131] *HEAC.* III, t. 447.
[132] Lewis, *Memoir*, tt. 141-3.

Caerfyrddin'.[133] Corfforwyd yr eglwys gan Peter yn 1829 er mai ychydig mewn nifer oedd yr aelodau cyntaf. Bernir bod y capel cyntaf wedi ei godi erbyn 1833.

Yn ogystal â'r uchod, roedd dylanwad David Peter yn ymestyn ymhell y tu hwnt i faes ei weinidogaeth yng Nghaerfyrddin a'r cyffiniau. Fel pennaeth yr Academi cafodd bregethu yn helaeth yng nghyfarfodydd ordeinio myfyrwyr ynghyd â'r bechgyn a godwyd i'r weinidogaeth yn Heol Awst ei hun. Fel David Davies a Morgan Jones, bu galw mawr arno i bregethu ar achlysuron arbennig megis agor capeli newydd. Gwelir ei enw'n fynych yng ngweithgareddau cymanfaoedd yr Annibynwyr, ac fel y gwelwn maes o law, chwaraeodd ran amlwg yn hyrwyddo gwaith y Gymdeithas Genhadol, a hefyd Cymdeithas y Beibl. Fel y datganodd E. Lewis Evans: 'Bu ef ynglŷn â phob digwyddiad cenhadol o bwys am y chwarter canrif olaf o'i oes, o un pen i'r llall o Gymru'.[134] Roedd rhychwant ei ddylanwad yn eang eithriadol. O ystyried y twf rhyfeddol a welwyd yn Heol Awst, a'r fath lewyrch a oedd yn perthyn i'r achos erbyn diwedd ei dymor, gyda thros 600 o aelodau, nid rhyfedd darllen: 'Ystyrid Eglwys Heol Awst yn nyddiau Mr. Peter yr eglwys fwyaf pendefigol yn yr enwad'.[135]


## 5. Crynhoi

Erbyn diwedd cyfnod gweinidogaeth Davies, Jones a Peter roedd golwg tra gwahanol ar gyflwr a lluosogrwydd yr eglwysi Annibynnol yn ne-orllewin Cymru gydag ethos newydd yn perthyn i'r weinidogaeth. Os canoli addoliad mewn nifer fechan o gapeli a wnâi gweinidogion yr Hen Ymneilltuwyr, bod yn gyndyn i arloesi, anturio a chroesawu datblygiadau newydd a pharhau hefyd i arddel yr hen uchel Galfiniaeth, wedi dylanwad ireiddiol y Diwygiad Efengylaidd cafwyd tro ar fyd. Roedd y patrymau a welwyd ymhlith Methodistiaid a Bedyddwyr mewn rhannau eraill o'r wlad bellach yn datblygu ymhlith Annibynwyr y de-orllewin, a'r ysbryd anturus a chenhadol a oedd yn eu cynysgaeddu yn cyfrannu at wawr newydd yn hanes Ymneilltuaeth Gymreig. Gyda'r tri ohonynt yn ymgorfforiad o'r ysbryd newydd a oedd yn y tir, codwyd to o weinidogion disglair eu doniau i gyhoeddi'r efengyl, a hynny gyda huotledd mawr a sêl danbaid, nes bod lluoedd o'u gwrandawyr yn cael eu cyffwrdd, eu dwysbigo a'u tywys i edifarhau am eu pechodau ac i gredu yn efengyl Iesu Grist fel moddion iachawdwriaeth. Yng ngwres diwygiadau lleol gwelwyd pobl yn proffesu ffydd wrth y dwsinau ac yn ymaelodi yn yr eglwysi. Arweiniodd y brwdfrydedd at ymgyrchoedd i efengylu ac at sefydlu eglwysi mewn mannau lle bu canghennau ynghynt, ac at godi capeli mewn pentrefi ac ardaloedd lle na fu capeli anghydffurfiol cynt. A chyda'r asbri cenhadol yn cydblethu ag ymdrechion i ddysgu'r werin i ddarllen a thrwytho eu hunain yng ngwirioneddau'r Ysgrythurau, cafwyd diwyllio a diwygio pellach yn gymdeithasol. Dan ddylanwad y pregethu torfol, y canu mawl afieithus a'r ymddiwyllio newydd yn sgil darllen ac astudio'r Gair, cafodd to newydd o Gristnogion eu creu a'u cadarnhau yn y ffydd a'r bodlonrwydd o brofi diwylliant Beiblaidd cyfoethog yn ymddatblygu yn eu plith. Roedd y cwbl yn cyfrannu at bennod gynhyrfus newydd ym mywyd y genedl. Ac fel y gwelwn, chwaraeodd David Davies, Morgan Jones a David Peter ran ganolog yn y broses greadigol hon.


---

[133] *HEAC,* III, t. 441.
[134] E. Lewis Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1945), t. 183.
[135] *HEAC,* III, t. 431.


**Map 2**


Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth David Davies
Bethania, Llan-non +
+ Pen-bre
Clydach +
Treforys +
Mynydd-bach +
1 +
2 +
Y Sgeti +
ABERTAWE
1. Ebeneser
2. Heol-y-Castell
Providence, Bishopston +

**Map 3**



Eglwysi Llundain
+ Gravel Lane
o San Steffan
Afon Tafwys
Woolwich +
+ Deptford

**Map 4**




Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth Morgan Jones
Tŷ-rhos +
Bryn Seion, Pontseli +
Capel Iwan +
Llwyn-yr-hwrdd +
Capel-y-Graig, Tre-lech +
Blaenycoed +
Ffynnon-bedr +
CAERFYRDDIN

**Map 5**


Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth David Peter
Ty'n-y-coed, Pontargothi
Heol Awst, Caerfyrddin
Ebenezer, Abergwili
Cana


**Map 6**


Eglwysi cysylltiedig â gweinidogaeth Morgan Jones yn Ne Sir Benfro
Rosemarket
Sardis
Tabernacl, Penfro
Bethel, St. Florence
Manorbier Newton
Dinbych-y-Pysgod

## Pennod 3

## Annibynwyr y de-orllewin: ffurfiant David Davies, Morgan Jones a David Peter

### 1. Cefndir a bore oes




*David Davies*[1]

Ganed David Davies (neu Dafydd Dafis ar lafar ac mewn llawer ffynhonnell ysgrifenedig hefyd) ym mhentref Llangeler, Sir Gaerfyrddin, ar 12 Mehefin 1763. Cadwai ei rieni dŷ tafarn ac roeddent yn barchus a chymeradwy yng ngolwg eu cymdogion.[2] Nid oeddent yn gyfoethog, ond yn ddigon cyfforddus i fod yn annibynnol ar enillion y tafarndy. Nid rhai brwd o ran eu crefydd oeddent, ond mynychent yn achlysurol eglwys y plwyf a hefyd wylnosau ac angladdau Llangeler a'r pentrefi cyfagos. Y cyfan o addysg a gafodd eu mab oedd tymor yn ystod gaeaf 1777-8 mewn ysgol a gynhelid mewn neuadd fechan yn Llangeler gan sowldiwr, is-swyddog a oedd wedi encilio o'r fyddin, o'r enw Robert Owen. Ond bu'r blas cychwynnol ar addysg yn ddigonol i alluogi Davies i ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg a pheth Saesneg, a meistroli rhifyddiaeth elfennol yn ogystal. Roedd hyn yn ddigon i greu ynddo awydd am gael mwy o wybodaeth, ac ymroes i gynyddu ei ddysg trwy ei ymdrechion personol.

Ychydig hanes o flynyddoedd ei ieuenctid sydd wedi goroesi ac mae'r hyn sydd ar gael yn sawru o dduwioldeb stereotypig cyfnod diweddarach. Ni wyddom pa ddylanwadau fu ar ei ysbryd a'i feddwl pan yn llanc, mwy nag iddo fynychu ambell wasanaeth yn eglwys Llangeler yng nghwmni ei rieni. Eto, credir iddo ddod o dan argraffiadau crefyddol pan yn blentyn. Er iddo gael ei godi mewn tŷ tafarn, soniwyd am ei arfer cyson yn blentyn i ofyn bendith cyn bwyd a hynny yng nghwmni pwy bynnag fyddai'n bresennol. Creodd ei ddull difrifol o siarad argraff ddofn ar feddyliau mynychwyr y dafarn, ac o barch i'r bachgen, byddent yn ymdawelu ac yn tynnu eu hetiau.[3] Gorweddai cadwedigaeth ei enaid, ac achubiaeth ei gydnabod yn drwm ar ei feddwl. Dywedwyd i'w dad ei glywed unwaith dan gysgod llwyn yn yr ardd yn gweddïo dros ei rieni, ac i hyn gael effaith ddwys iawn ar feddwl y tad. Yn ôl traddodiad, bu'r weddi yn gyfrwng ei dröedigaeth a'i fod wedi hynny wedi profi ei hun ymhlith crefyddwyr ffyddlonaf yr ardal.[4]

---

[1] Llun o David Davies yn *Evangelical Magazine* Ebrill 1806 ac yn John Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe' yn L. D. Jones (gol.) *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), t. 101.

[2] John Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe' yn L. D. Jones (gol.) *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 103-44 [105-6].

[3] Thomas Rees, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau', *Y Beirniad*, IV (Ebrill 1863), 322.

[4] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 107.

O ystyried ei fod yn ddifrifol iawn er yn fachgen, mae'r cwestiwn yn codi pam nad ymaelododd ag eglwys Ymneilltuol neu gymdeithas Gristnogol leol y pryd hynny? Toriad gwawr aeddfedrwydd a deallusrwydd yr arddegau cynnar, o bosibl, fyddai wedi bod yr adeg hawsaf iddo wneud proffes gyhoeddus, ond hyd y gwyddom ni wnaeth broffes felly. Dyfalodd rhai iddo, rhwng bod yn bedair-ar-ddeg hyd at ugain oed, fygu ei argyhoeddiadau crefyddol, gan ymroi i bleserau, difyrion a themtasiynau llencyndod yng nghwmni ei gyd-ieuenctid. Nid oes, fodd bynnag, unrhyw sail i ddyfalu o'r fath. Ni cheir unrhyw awgrym yn natganiadau personol Davies yn ddiweddarach, nac yn atgofion y tadau, a bair inni feddwl iddo oeri yn ei serchiadau crefyddol. Paham felly yr oedi cyn iddo wneud proffes fwy cyhoeddus o Grist?

Efallai fod y gymdeithas ym Mhen-rhiw, sef yr eglwys Bresbyteraidd yr ymaelododd â hi yn 1783 wedi bod yn hwyrfrydig i weld y llanc yn ymrestru yn eu plith. Mae'n ffaith hysbys nad oedd yr Hen Ymneilltuwyr yn caniatáu i neb ymaelodi ond ar sail proffes ddiamwys gan ymgeiswyr a fyddai'n gwneud cais penodol am gael gwneud: 'Ystyrient mai gwell oedd peidio ymaelodi oddigerth i'r sawl geisient le ym mhlith y saint amgyffred yr hyn y gwnaent broffes ohono'.[5] Ac yn gyffredinol ni thybient y gallai plentyn fod yn ddigon aeddfed i wneud ymrwymiad difrifol o'r fath. Mae'n wir yr ymdrechid i egwyddori'r ieuenctid ym mhrif athrawiaethau'r ffydd, eto, gwneud y ffordd yn anos i ieuenctid ymaelodi yn fynych y gwnâi yr Ymneilltuwyr bore. Y mae'n eithaf tebygol mai dyma fu'n atalfa i Davies ymaelodi ym Mhen-rhiw neu eglwys Ymneilltuol arall yn ei arddegau cynnar.[6] Digon hwyrfrydig oedd y capeli Ymneilltuol i dderbyn plant yn gyflawn aelodau ymhell i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod enghreifftiau o dderbyn aelodau yn yr arddegau, yn ôl tystiolaeth cofiannydd David Williams, Troedrhiwdalar, 'peth pur annghyffredin ydoedd hyn yn yr oes hono'.[7] Mae awgrymiadau cyffelyb yn Llyfrau Eglwysi Annibynwyr Bethania, plwyf Llannon yn Sir Gaerfyrddin a Philadelphia, ym mhlwyf Llangynnwr.[8] Yn hanes Eglwys Cross Inn, o'r 45 o enwau y rhai a dderbyniwyd yn aelodau rhwng 1811-44, ac a oedd yn fyw yn 1844 roedd dau ohonynt wedi eu derbyn o dan bymtheg oed, chwech rhwng pymtheg ag ugain, a 37 tros 21 mlwydd oed.[9]

Yn 1783, pan yn ugain oed, priododd â Jane Evans, merch i amaethwr o'r un gymdogaeth, ac oedd oddeutu blwyddyn yn iau nag ef. Ar yr adeg hyn 'ymddengys fod ei argyhoeddiadau crefyddol .... wedi ail-gyffroi ei feddwl, a hynny gyda mwy o nerth nag erioed o'r blaen'.[10] Daeth dan deimladau dwys o euogrwydd a dyheai am brofi tangnefedd a llonyddwch i'w enaid: 'Mor drwm y teimlai ei euogrwydd, ac mor llwyr amddifad ydoedd o obaith am ddiogelwch i'w enaid fel yr aeth ei fywyd yn faich rhy anhawdd ei ddwyn'.[11] Gwaethygodd ei iechyd, pallodd ei archwaeth am fwyd, a methai gysgu'r nos. Gofidiodd yn fawr am dynged ei enaid, a bu mewn cyflwr meddyliol trallodus am rai misoedd. Oherwydd y gwasgfeydd hyn (yn ôl y stori, beth bynnag), bu bron â chymeryd ei fywyd trwy foddi ei hun

[5] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 109.
[6] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', tt. 109-10.
[7] David Avan Griffiths, *Cofiant y diweddar David Williams, Troedrhiwdalar* (Llandilo: D.W. a G. Jones, 1877), t. 14.
[8] Noel Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd, 1725-1841', Traethawd MA anghoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1973, t. 82.
[9] Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 82.
[10] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 110.
[11] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 111.

yn yr afon a redai heibio ei gartref, ond fe'i arbedwyd pan agorodd ei Feibl a darllen y geiriau: 'Ni'th roddaf i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith' (Hebreaid 13:5):

> Ac yn y fan tywynnodd goleuni i'w enaid; diflannodd ei anobaith; gwelodd Iesu Grist yn Waredwr ac yn Achubwr iddo *ef*; ac o'r dydd hwnnw allan ni chafodd amheuaeth am ei gyflwr le am eiliad yn ei galon. Dyn oedd *wedi* ei gadw oedd efe mwyach yn ei syniad ei hun.[12]

Datblygodd Davies yn ddiweddarach ei dalent fel bardd, ac yn ôl J. Rowlands, Cwmllynfell, y cynharaf o'i gofianwyr, y profiad uchod fu'r ysbrydoliaeth iddo lunio un o'i emynau sy'n dal yn boblogaidd hyd heddiw sef 'Anturiaf ymlaen drwy ddyfroedd a thân yn dawel yng nhwmni fy Nuw'.[13] Cynhwyswyd yr emyn yn y casgliad o'i emynau gyhoeddwyd wedi ei farw *Hymnau o waith y diweddar Barch. D. Dafis, Abertawe* (1820).

Yn 1783 hefyd y gwnaeth Davies broffes gyntaf o Grist, ac ymaelododd ym Mhen-rhiw lle roedd David Davis Castellhywel yn weinidog. Ariad oedd gweinidog yr eglwys ym Mhen-rhiw, a rhyw fath o Arminiaid, Pelagiaid neu Ariaid oedd yr aelodau yno o ran eu golygiadau crefyddol. Ond oherwydd eu hathrawiaeth Arminaidd, a roes bwys allweddol ar gyfraniad dyn at broses iachawdwriaeth, ni fedrai'r Davies ifanc gael fawr o gysur i'w enaid yn eu plith. Unwaith yn unig y cyfranogodd o'r cymun ym Mhen-rhiw, cyn ymuno ag eglwys yr Annibynwyr ym Mhencader, yn ystod gweinidogaeth William Perkins, lle roedd y Galfiniaeth a arddelid yno yn fwy cydnaws â'i angen.[14] Mae'n ddiddorol nodi mai tua'r un amser yr ymunodd y Bedyddiwr Christmas Evans â'r eglwys ym Mhen-rhiw cyn ymadael yn dra buan, mae'n debyg am yr un rhesymau.[15]

Ac yntau o dan y fath wasgfeydd, teimlodd Davies na allai dysgeidiaeth Pen-rhiw leddfu trallod ei enaid am nad oedd pwyslais digonol ar aberth Iesu Grist dros bechod, a'r maddeuant, y gorfoledd a'r rhyddhad sydd i'w gael i'r credadun sy'n rhoi ei ffydd yn Iesu Grist fel Gwaredwr pechaduriaid. Yng nghymdeithas yr eglwys ym Mhencader profodd feddygyniaeth i'w gyflwr, a 'daeth i fwynhad o dangnefedd yr efengyl, a chafodd ei dderbyn yn aelod o'r eglwys hono'.[16] Ond y mae'r cyfeiriad at droi i Bencader a bod o dan weinidogaeth William Perkins yn ein taro yn annisgwyl o gofio am yr anghydfod fu ym Mhencader yn ystod tymor Perkins yno.[17] Daeth Perkins i fugeilio eglwysi Pencader a Phantycreuddyn yn 1770 wedi iddo fod yn weinidog yn eglwys Lôn Swan, Dinbych.[18] Gweinidogaethodd yn y ddwy rhwng 1770-6. Prawf o'r ffaith iddo aros yno tan 1776 o leiaf oedd iddo dderbyn rhodd oddi wrth y Bwrdd Cynulleidfaol: 'Nov. 4, 1776. Extraordinary Supply. William Perkins, Pencader, Carms. £5'.[19] Yn ôl y sôn, roedd yn bregethwr 'galluog, dawnus a phoblogaidd'.[20]

---

[12] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 111; gw. J. Rowlands, *Cofiant y diweddar Barchedig David Davies, Abertawy* (Abertawy: J.A. Williams, 1828), tt. 10-13.
[13] Emyn rhif 225 yn *Caneuon Ffydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2001), t. 257.
[14] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 112.
[15] *HEAC*, II, t. 46.
[16] Rees, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau', 323.
[17] *Bywg*, t. 703.
[18] Dafydd Owen (gol.), *Gwylio Gorymdaith Dathliad dau gant a hanner Capel Lôn Swan, Dinbych: 1742-1992* (Dinbych: Gwasg Gee, 1992), tt. 18-9.
[19] *Bywg*, t. 703; Jeremy MSS, List of Ministers; Minutes of Cong. Fund Board, 4 Tachwedd 1776.
[20] D. G. Lloyd Hughes, *Tir yr Abad: Hanes New Inn a Gwyddgrug yn Shir Gâr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1996), t. 120.

> Bu yn gweinidogaethu am tua saith mlynedd yn gymeradwy, llwyddiannus, a phoblogaidd iawn. Ond er mawr siomedigaeth i'r eglwys, a gwaradwydd i grefydd, cafwyd allan ei fod yn ddyn llygredig ei fywyd, a'i fod yn arfer yfed i ormodedd.[21]

O achos yr anghymedroldeb hwn, ac am na fynnai ddiwygio ei hun, troes llawer yn ei erbyn. Esgorodd ar anghydweld ffyrnig a bu rhwygiadau o'i achos, er i rai aelodau yn y ddwy eglwys lynu wrtho. Yn hanes Pantycreuddyn, ymadawodd y rhan fwyaf o'r aelodau a'r gwrandawyr, gan adael yr hen gapel i Perkins a'i ganlynwyr. Edwinodd yr achos yn fuan wedi hynny, ac ymadawodd Perkins wedyn o achos hynny. Ymgynullodd y rhai a aeth allan mewn anedd-dai dros dro, ond wedi ymadawiad Perkins, dychwelsant i Bantycreuddyn ac addoli yno hyd nes yr adeiladwyd capel Horeb mewn man mwy cyfleus o'r ardal yn 1784.[22]

Yn hanes achos Pencader a'r rhwyg a fu yno, Perkins ei hun a'i ganlynwyr a ymadawodd. Roeddent yn y lleiafrif, ac adeiladasant gapel yn New Inn, tua dwy filltir o Bencader gan alw'r lle yn Salem. Bernir i hyn ddigwydd tua 1777-8.[23] Ond wedi hynny, beth amser yn ddiweddarach, canfyddwyd mai gan ei gweinidog, o dan y drefn Bresbyteraidd, roedd yr hawl ar y capel.[24] Ar ôl hynny gwnaeth Perkins a'i ganlynwyr ei adfeddiannu. Wedi hynny ymadawodd y gynulleidfa oedd yn wrthwynebus i Perkins gan addoli dros dymor mewn anedd-dŷ yn agos i Gwmhwplin. Yn ôl yr hanesydd D. G. Lloyd Hughes, nid ymadawodd Perkins â Salem tan rywbryd yn y nawdegau. Rhaid cofio bod Benjamin Jones, olynydd Perkins, wedi ei ordeinio yn weinidog ar eglwysi Pencader a Phantycreuddyn ar 25 Mai 1779. Bu ei weinidogaeth yn llewyrchus yn y ddwy eglwys, ond yn gwbl ddisymwth, wedi tua tair blynedd, torrodd ei gyswllt â'r cylch. A wyddai beth oedd ar y gorwel? 'Darfu cysylltiad Mr. Jones a'r eglwysi yma ar hyny, ac yn mhen amser ymsefydlodd yn Rhosmeirch'.[25] Derbyniasai wahoddiad oddi wrth eglwys Rhos-meirch yn Sir Fôn, a chychwynnodd ei weindogaeth yno yn 1784.[26] Roedd Benjamin Jones yn weinidog felly ym Mhencader a Phantycreuddyn rhwng 1779 hyd 1782. Dywedir mai rhyw dair blynedd, a dim rhagor, y gweinidogaethodd yn y cylch. Ac wedi ymadawiad Jones bu rhaid i'r gynulledidfa ym Mhencader adael y lle.[27] Os dychwelodd Perkins a'i ganlynwyr i'r hen gapel wedi hynny, fe fyddai'r cyfnod hynny, 1782-83, yn cyfateb i oedran David Davies yn ugain oed yn 1783, sef yr amser pan yr ymaelododd ym Mhen-rhiw ac yna symud i Bencader, lle roedd y Calfinydd William Perkins yn gweinidogaethu. A'r tebyg yw fod Perkins wedi dal ymlaen i weinidogaethu yn New Inn ynghyd â gweinidogaethu ym Mhencader. Tystiolaeth o blaid hynny yw ewyllys Evan John, Gorwydd, Gwyddgrug, a luniwyd yn 1780 ond a fu farw yn 1792. Roedd wedi gadael yn ei ewyllys Feibl at wasanaeth pulpud Salem cyhyd â bod y gynulleidfa yn cydnabod Perkins yn weinidog yno. Gadawodd hefyd rodd i Perkins, ac ni fu unrhyw newid ar yr ewyllys cyn iddi gael ei phrofi yn 1792. Mae'n amhosibl bod yn sicr, ond awgrymir oddi wrth yr ewyllys bod Perkins yn dal yn Salem yn 1792.[28] Yn ôl W. J. Davies yn *Hanes Plwyf Llandysul*, gorfodwyd Perkins i adael y cylch wedi iddo ymosod ar ddau aelod o'r fintai orfod (*press gang*) a oedd yn mynd o amgylch yn gorfodi dynion ifanc i ymuno â'r llynges. Wrth iddynt geisio cael gafael

---

[21] David Morgan, *Hanes Ymneillduaeth ... yng Nghymru*, Cyfrol 1 (Dolgellau: Evan Jones, 1855), t. 407.
[22] *HEAC*, IV, t. 196.
[23] Hughes, *Tir yr Abad: Hanes New Inn a Gwyddgrug yn Shir Gâr*, t. 28.
[24] *HEAC*, III, t. 424; Morgan, *Hanes Ymneillduaeth*, t. 407; *Bywg*. t. 703.
[25] *HEAC*, III, t. 424.
[26] *HEAC*, II, t. 455; *HEAC* III, t. 170; *Bywg*, t. 420.
[27] Morgan, *Hanes Ymneillduaeth*, t. 408.
[28] Hughes, *Tir yr Abad: Hanes New Inn a Gwyddgrug yn Shir Gâr*, t. 123.

ar ŵr lleol, llwyddodd Perkins (a oedd yn fawr o gorff ac yn gryf ei gyfansoddiad), i ryddhau'r gŵr o'u gafael. Wedi hynny roedd yr awdurdodau allan i ddal Perkins am y drosedd a bu rhaid iddo ffoi o'r ardal.


> Mae'r hanes hwnnw'n awgrymu'r posibilrwydd mai ar ôl i'r rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc dorri allan yn 1793 y digwyddodd hynny. Buasai hynny hefyd ar ôl marwolaeth Evan John, Gorwydd, a byddai cystal â dweud nad oedd angen i hwnnw newid ei ewyllys gan fod Perkins yn Salem o hyd yn 1792![29]

Ond blynyddoedd cyn hynny roedd rhagolygon Perkins am brofi llewyrch yn hanes ei weinidogaeth ym Mhencader wedi gwaethygu'n ddirfawr. Wedi i'r gynulleidfa wrthwynebol i Perkins orfod ymadael â hen gapel Pencader, rhoddwyd darn o dir gan Jenkin Davies, Maes-y-creigiau iddynt ar gyfer adeiladu capel newydd.[30] Ar adeg agoriad y capel yn 1785, rhoddwyd galwad i Jonathan Jones, Rhyd-y-bont, Llanybydder, fu â'i weinidogaeth yno yn llewyrchus, i ofalu hefyd am Bencader a Horeb. Roedd wedi bod o gymorth i'r eglwys ym Mhencader wedi i Perkins ymadael â'r hen gapel.[31] Wedi codi capel newydd a rhoi galwad i Jonathan Jones, gwaethygodd y rhagolygon i Perkins ym Mhencader a gwerthodd i'r eglwys ei hawl ar yr hen gapel. Wedi'r ffrwgwd gyda'r fintai orfod symudodd yn fuan i Gydweli, ac yna drachefn i Lundain lle diweddodd ei yrfa fel swyddog o dan y llywodraeth ar Afon Tafwys. Wedi ymadawiad Perkins â'r cylch, ni bu oes hir i'r eglwys Annibynnol a gyfarfu yn Salem. Erbyn 1796 roedd y Methodistiaid Calfinaidd wedi codi capel yn New Inn a'i enwi yn Salem, yr un enw â'r capel a adeiladwyd gan yr Annibynwyr ugain mlynedd ynghynt. Mae hyn yn awgrymu bod yr aelodau a oedd yno wedi ymuno gydag achos newydd y Methodistiaid yn y pentref er y gallai yr Annibynwyr fod wedi dychwelyd i Bencader.[32] Ond nid oes lle i amau mai ymuno â'r achos ym Mhencader yn ystod gweinidogaeth Perkins pan oedd yn ugain oed wnaeth David Davies. Mae David Morgan yn *Hanes Ymneillduaeth* yn datgan mai yr eglwys ym Mhencader a gododd Davies i'r weinidogaeth.[33]

Wedi rhoi sylw neilltuol i'r saga ym Mhencader yn ystod cyfnod cythryblus Perkins, hwyrach bod modd cynnig posibilrwydd arall ynghylch yr oedi cyn i Davies gael ei ordeinio yn 1790. Tybed a oedd a wnelo hynny rywbeth â'r ffaith ei fod wedi ymuno â'r achos ym Mhencader dan weinidogaeth Perkins pan oedd hwnnw dan gabl naill ai am anfoesoldeb neu am antinomiaeth athrawiaethol? Ond wedi urddo Jonathan Jones, os cynhesodd Jones at Davies, fe fyddai wedi ymlawenhau i fod â rhan yn ei urddo. Ac fel fyddai'n wir am David Davies sef na chawsai fanteision addysg athrofaol cyn ei urddo, rhaid cofio bod Jonathan Jones, yr un modd yn un o'r gweinidogion nad oedd wedi derbyn addysg athrofaol cyn ei urddo, peth anarferol (fel y gwelwn) ymhlith gweinidogion Annibynwyr y cyfnod. Nid oes manylion am urddo Davies wedi goroesi, ond gwyddom mai Jonathan Jones oedd y gweinidog ym Mhencader yn 1790.

29 Hughes, *Tir yr Abad: Hanes New Inn a Gwyddgrug yn Shir Gâr*, t. 123.
30 *HEAC*, III, t. 424.
31 Morgan, *Hanes Ymneilltuaeth*, t. 410.
32 Hughes, *Tir yr Abad Hanes New Inn a Gwyddgrug yn Shir Gâr*, t. 33.
33 Morgan, *Hanes Ymneilltuaeth*, t. 412.

*Morgan Jones*[34]




Ganed Morgan Jones yn 1768 yn Nhroed-y-rhiw, Cwm-y-glyn ym mhlwyf Llywel, Sir Frycheiniog. Unig blentyn ydoedd i Evan ac Ann Jones.[35] Amaethwr yn perthyn i'r dosbarth cyffredin oedd ei dad. Roedd Evan Jones yn ddyn a berchid yn ei gymdogaeth, a dywedir am Ann Jones ei bod yn wraig grefyddol ac yn aelod yn eglwys Annibynnol Cefnarthen.[36] Rhoddodd ei rieni eu plentyn mewn ysgol yn y gymdogaeth nes y gallai ddarllen, ysgrifennu a chyfrif ac roedd yn medru darllen Cymraeg gyda chryn rwyddineb pan oedd yn blentyn.[37]

Ac yntau'n ddeuddeg aeth i wasanaethu ar fferm Phillip Thomas, Maes-y-bwlch, yntau yn un o ddiaconiaid Cefnarthen, ac arhosodd yno am ddwy flynedd. Dyma'r adeg y daeth dan argraffiadau crefyddol am y tro cyntaf:

> According to his own account, he thought that about this time he was enabled by grace, to yield himself to the Saviour, and as a lost sinner, to seek mercy and salvation through faith in Christ Jesus. It was now that he first knew any thing of that peace with God, which passeth all understanding, liberty from the law as a covenant of works, and access to God under the influence of the spirit of adoption.[38]

Pan yn dair ar ddeg oed derbyniwyd ef yn aelod yng Nghefnarthen, sef ar 20 Ionawr 1782 gan Peter Jenkins, gweinidog y Brychgoed, a oedd yn gwasanaethu ar y Sul hwnnw. Roedd eglwys Cefnarthen ar y pryd yn ddi-weinidog. Ffaith ddiddorol yw bod Cefnarthen, yn wahanol iawn i lawer o eglwysi cynnar yr Ymneilltuwyr, yn barod i dderbyn personau ieuanc yn gyflawn aelodau; roedd hyn yn wahanol iawn i achos David Davies ym Mhen-rhiw. Ac yntau bellach yn bedair ar ddeg, symudodd eto i fferm Cefntelych, ym mhlwyf Myddfai y tro hwn, i wasanaethu gyda Morgan Davies, yntau hefyd yn henuriad yng Nghefnarthen. Bu'n symudiad ffodus i'r llanc, oherwydd rhai di-blant oedd Davies a Mari, ei briod, ac ymserchodd y ddau mewn modd arbennig yn eu gwas ifanc.[39] Daethant i'w hoffi yn fawr gan ymddwyn tuag ato

---

[34] Llun o Morgan Jones yn *Evangelical Magazine* Ebrill 1808 ac yn D. Gorllwyn Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech' yn L. D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900, t. 148.

[35] Samuel Griffiths, *Cofiant y Diweddar Barch. Morgan Jones, Gweinidog yr Efengyl* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836), t. 5.

[36] D. Gorllwyn Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech' yn L. D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 149-96 [150].

[37] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 151.

[38] J. J. Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ Exemplified in the Life and Ministry of the Late Rev. M. Jones of Trelech, Carmarthenshire* (London: J. Snow, 1848), t. 8.

[39] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 151.

fel pe buasai yn fab iddynt eu hunain. Cymaint oedd diddordeb Morgan yn ei lyfrau fel ei fod ar brydiau yn esgeulus yn ei gyfrifoldebau ar y fferm, ond gan eu bod mor hoff ohono, roedd Morgan a Mari Davies yn barod i gydymddwyn ag ef:

> Pan oedd JONES yn y teulu a enwyd, byddai ei awydd at ei lyfr yn peri iddo anghofio, braidd, bopeth arall; byddai yn arfer cario llyfrau yn ei logell. A chan fod ei gof mor gryf, a'i duedd mor grefyddol, byddai yn adrodd y pregethau fyddai yn wrando i'r teulu gyda llawer o fedrusrwydd, byddai ganddynt gryn bleser wrth ei glywed; ac er mor ieuainc ydoedd, byddai yn dra diwyd yn canlyn y cyfarfodydd gweddi, ac yn myned i ymweled â'r cleifion, a gweddio drostynt; wrth ei weled fel hyn, yn lle ei anmharchu, daethant i'w garu yn fwy.[40]


Rhoddodd Morgan a Mari Davies bob cyfleustra i Morgan Jones ddilyn ei ddiddordebau. Roedd yn ardal Cefntelych gyfarfodydd gweddi wythnosol, a byddai Morgan yn eu mynychu gyda chysondeb di-feth. Er yn llanc roedd wedi amlygu dawn i weddïo'n gyhoeddus, a deuai pobl ynghyd i'r cyfarfodydd er mwyn ei glywed yn annerch gorsedd gras. A chan weld ynddo addewid i fod yn bregethwr ac yn weinidog, bu Morgan Davies mor garedig ag anfon Jones i ysgol yn y gymdogaeth am flwyddyn. Erbyn hynny roedd y si ar led fod Morgan Cefntelych â'i fryd ar fod yn bregethwr, ac yng nghysgod hyn:

> Rhoddodd yr eglwys gyfle iddo bregethu yn ei chlyw hi gyntaf, ac yna'n fwy cyhoeddus. Dyddorol yw cofnodi eto mai ar aelwyd ei gartref newydd y traddododd Morgan Jones ei bregeth gyhoeddus gyntaf, - pan ddaeth y cyfarfod wythnosol yno yn ei gylchdro. Ar ol hyn pregethodd o flaen yr holl eglwys, a chafodd ei gefnogi mewn modd rheolaidd a chynnes i ymroddi'n hollol i'r gwaith.[41]

---

[40] Griffiths, *Cofiant y Diweddar Barch. Morgan Jones,* t. 6.
[41] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 154.

*David Peter*[42]




Prif ffynhonnell ein gwybodaeth am ddyddiau cynnar David Peter yw'r cofiant iddo o waith W. H. Lewis a ymddangosodd yn 1846.[43] Roedd William Howell Lewis (1793?-1868) yn berthynas i Sarah Lewis, gwraig gyntaf Peter, ac fe'i codwyd i bregethu yn Heol Awst a bu'n fyfyriwr yn Academi Caerfyrddin rhwng 1814 a 1818, yng nghyfnod gweinidogaeth David Peter.[44] Egyr y cofiant gyda phennod hunangofiannol gyda Peter yn adrodd am ei ddyddiau cynnar, o'i enedigaeth ar 5 Awst 1765 hyd at ei ordeinio yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin, ym Mehefin 1792. Mae gweddill y cofiant yn cynnwys naratif cofiannol o weinidogaeth Peter a'i ddylanwad. Roedd cyfuno elfen hunangofiannol gyda naratif bywgraffiadol yn elfen boblogaidd yng nghofiannau Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[45] Ac er bod yna gofiant byr yn coffháu Peter yn y *Diwygiwr*,[46] ysgrif yn nhraddodiad cofiannau byrion cylchgronnau y bedwaredd ganrif ar bymtheg, eto ar y ffeithiau geir yng nghyfrol Lewis y mae haneswyr diweddarach megis John Dyfnallt Owen[47] a Geraint Dyfnallt Owen[48] wedi seilio'u gwybodaeth.

Brodor o Landudoch, Sir Benfro oedd ei dad, hefyd o'r enw David Peter, yn saer llongau wrth ei grefft, a'i fam, Margaret Davies, yn un o forynion Sir Drefaldwyn. Roedd y ddau wedi symud i Aberystwyth, ei fam at berthnasau yn y dref a'i dad i ddilyn ei alwedigaeth, ac yno y bu iddynt gyfarfod. Ganed iddynt ddau o blant, Mary, a briododd â Thomas Davies o'r Cei Newydd, a David. Bedyddiwyd David yn Eglwys Llanbadarn gan Mr Price, y curad. Roedd ei rieni yn aelodau selog yn Eglwys Loegr ac ymdrechent i godi eu plant yn addysg ac egwyddorion yr Eglwys Anglicanaidd: 'Though I cannot boast of a long line of noble ancestors, I can say, that I am descended from parents remarkable for their honesty, industry, humility, peaceable disposition, and other virtues, which adorn human nature in every walk of life'.[49] Cafodd fynychu ysgol leol yn gynnar, ond am fod yr ysgolfeistr yn ddisgyblwr mor llym,

---

[42] Llun o David Peter yn W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (London: Longman, Brown Green and Longmans, 1846).
[43] W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green, and Longmans, 1846).
[44] *Bywg*, tt. 527-8; a J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (Caerfyrddin: W. M. Evans a'i Fab, 1926), tt. 99-100.
[45] gw. Llion Pryderi Roberts, ' "Pob peth yn cydweithio er daioni": *Cofiant ... Thomas Charles* (1816)', yn D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), t. 167; gw. hefyd Simon Evans: *Cofiant y Parch. James Griffiths, Tyddewi* (Llanelli: Rees a Williams, 1860).
[46] *Y Diwygiwr*, Rhif 241, XX (Awst 1855), 237-8.
[47] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, tt. 34-6.
[48] Geraint Dyfnallt Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), t. 59.
[49] Lewis, *Memoir*, tt. 1-2.

profiad annymunol iddo oedd ei addysg foreol, a phenderfynodd, pe ymroddai i fod yn athro, mai'r ffordd orau iddo ennill parch ei ddisgyblion oedd trwy gyfuno cadernid cymeriad â thynerwch a chyfeillgarwch. Roedd tref Aberystwyth ar y pryd, meddai, yn nythle i anwybodaeth ac aflendid, heb gapel nac eglwys ynddi, gyda'r eglwys blwyf ryw ddwy filltir o'r dref. Cofiai am bregethwr dieithr ar ei ymweliad â'r dref ac yn cael ei bledu â phridd wrth bregethu, mor elyniaethus oedd y bobl yno i'r efengyl. Yn 1772, oherwydd galwedigaeth ei dad, symudodd y teulu i'r Cei Newydd. Wedi dychwelyd o'r eglwys ar y nos Suliau, byddai ei rieni yn darllen yr Ysgrythurau ar yr aelwyd a thrwytho'r plant yng Nghatecism yr Eglwys. Er y byddai'n well gan David fod allan yn chwarae gyda'i gyfoedion, byddai'n ddiolchgar yn ddiweddarach i'w rieni am eu harweiniad. Am chwe blynedd cafodd fynychu Ysgol Evan Davies yn Nhroed-y-rhiw. Ychydig o gynnydd a wnaeth yn y Saesneg yno, am y caniateid i'r plant siarad Cymraeg, yn groes, mae'n debyg, i arfer yr oes honno.

Ym mlynyddoedd 1775-6 daeth dan argraffiadau crefyddol dwys wrth feddwl am Dduw, marwolaeth a thragwyddoldeb. Dechreuodd weddïo yn daerach a cheisio ymddiwygio'n foesol, ond ac yntau heb fod yn gyfarwydd â threfn yr efengyl, ni phrofodd ymryddhad. Mynychodd gyfarfod pregethu a gynhaliwyd gan Fethodistiaid Calfinaidd mewn ffermdy cyfagos i'w gartref, ond wedi i'r argraffiadau a brofodd yno gilio, adweithiodd yn erbyn y brwdfrydedd diwygiadol:

> At the time when there were great revivals among the Methodists in Cardiganshire, I witnessed their jumping and weeping, but never felt inclined to join them in their exercises, nor did I aid those who ridiculed them.[50]

Bu hyn yn wir amdano am wedill ei oes: 'Er yn ŵr o dymherau pwerus, ychydig o bwys a roddai ar emosiwn crefyddol'.[51]

Dangosodd dueddfryd cryf yn 1779 i fynd yn forwr, ond gwrthwynebai ei rieni y bwriad, a hefyd ei awydd i efelychu ei dad a dysgu crefft fel saer llongau. Eu dymuniad hwy oedd iddo ymbaratoi am yrfa fel offeiriad yn Eglwys Lloegr. Tua'r un cyfnod cafodd freuddwydion am Ddydd y Farn a bu i farwolaeth ei fam yn 1780 ei ddifrifoli ymhellach. Fodd bynnag, yn 1782 ymadawodd â'r ysgol yn Nhroed-y-rhiw a symud at David Davis, Castellhywel yn ddiweddarach, i ymbaratoadau at yr offeiriadaeth. Er mai fel Ariad yr ystyrid Davis, sef un nad oedd yn credu yng nghyflawn dduwdod Crist, roedd ei addysg yn gymeradwy nid yn unig gan Ymneilltuwyr ond gan Eglwyswyr hefyd, a byddai gan Peter feddwl uchel ohono fel athro rhagorol ac ysgolhaig yn y Clasuron.[52] Yng Nghiliau Aeron y cynhaliai Davis ei ysgol ar y pryd, ond symudodd y flwyddyn honno i Gastellhywel ger Llandysul. Yno amlygodd gryn hunan-ddisgyblaeth gan ddysgu darllen Groeg a Lladin yn ddi-drafferth: 'I there read the Greek Testament and Virgil, in which I made considerable progress during the short time providence permitted me to continue'.[53] Yno hefyd y darganfu'r gwahaniaeth rhwng cyfundrefn yr Eglwys Wladol ac Ymneilltuaeth, a dechreuwyd ei argyhoeddi o ragoriaeth Ymneilltuaeth ar bob math arall o grefydda. Bu'n gwrando ar Benjamin Evans, Dre-wen, yn pregethu ym Mhenrhiwgaled, a chynheswyd ei galon i ymuno â'r Annibynwyr. Pan hysbysodd

---

[50] Lewis, *Memoir*, t. 5.
[51] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 35.
[52] Lewis, *Memoir*, t. 7
[53] Lewis, *Memoir*, t. 7

ei dad na fedrai fod yn offeiriad, dangosodd David Peter yr Hynaf gryn dynerwch at ei fab, gan barchu ei ddewis a dweud mai ei unig ddymuniad oedd iddo fod yn ddefnyddiol ac yn hapus yn ei yrfa. Bu farw ei dad rai dyddiau yn ddiweddarach. Yng ngwanwyn 1783 aeth drwy argyhoeddiadau dyfnion ac wedi gweld ei angen am Waredwr, cyflwynodd ei fywyd yng ngwasanaeth Crist. Yn dilyn ei dröedigaeth, wedi bod yn eistedd dan weinidogaeth Benjamin Evans, ymaelododd ag eglwys Penrhiwgaled ym Mawrth neu Ebrill 1783.[54]

### 2. Eu llwybrau i'r weinidogaeth

*David Davies*

Ym mhen llai na chwe mis wedi cael ei dderbyn yn aelod yn eglwys Annibynnol Pencader, anogwyd Davies i ymarfer ei ddoniau fel pregethwr. Cydsyniodd ag anogaeth yr eglwys, a thraddododd ei bregeth gyntaf mewn anedd-dŷ bychan o'r enw Tŷ-bedw, ym Mhentre-cwrt, ym mhlwyf Llangeler, cartref i deiliwr o'r enw Dafydd Hughes. Oddi fewn i'r un wythnos, yn yr un lle, traddododd Christmas Evans ei bregeth gyntaf yntau. Yn wahanol i Christmas Evans ni wyddom pa ganllawiau a gafodd Davies i'w gynorthwyo i baratoi ei bregeth gyntaf.[55] Yn ôl Thomas Rees a John Thomas, digwyddodd hyn naill ai yn 1784 neu 1785.[56] Mae gennym fwy o wybodaeth am hanes a bywyd Evans, ac yn ôl y dystiolaeth traddododd ei bregeth gyntaf yn Nhŷ-bedw wythnos o flaen y llall, rhywbryd yn 1784.[57] Am Christmas Evans a Davies dywedir:

> Dynion di-goleg oedd y ddau hyn ac yn flaenffrwyth y cynhaeaf diwygiadol mawr a gafwyd ymhlith yr Hen Ymneilltuwyr ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Nid yw'n syndod i'r ddau ohonynt orfod ymryddhau o hualau'r hen Bresbyteriaeth syber, resymolaidd, ffurfiol a cheisio cynhesach hin, ymhlith y Bedyddwyr Neilltuol yn achos Christmas Evans a'r Annibynwyr Calfinaidd yn achos David Davies.[58]

Er bod Davies a Christmas Evans wedi ymadael â Phen-rhiw, eto parhaodd y ddau ar dir cyfeillgar â David Davis Castellhywel. Yn nes ymlaen, oherwydd ei dlodi, prin iawn oedd gan Davies arian i brynu llyfrau, mwy na chynnal ei deulu ym mlynyddoedd cyntaf ei briodas; ac yn y cyflwr llwm ac anfanteisiol hynny fe fyddai'n troi at ŵr Castellhywel er mwyn cael benthyg llyfrau ganddo. Bu David Davis yn gyfaill caredig iawn i'r Davies ifanc er cymaint y gwahaniaeth barn a goleddent ar faterion athrawiaethol. Roedd gan Davis Castellhywel lyfrgell ragorol, yr orau o ddigon mae'n debyg yn y cylch, ac roedd yn caniatáu benthyg unrhyw lyfr o'i eiddo pryd bynnag y gofynnai amdano.[59] Yn unol â threfn yr hen Bresbyteriaid, roedd eglwys Llwynrhydowen, a oedd hefyd dan weinidogaeth Davis, yn gwrthod ordeinio neb nad oedd wedi cael hyfforddiant ffurfiol:

---

[54] Lewis, *Memoir*, tt. 7-8.
[55] D. Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt. 11-12.
[56] *HEAC*, II, t. 46.
[57] Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd*, t. 10.
[58] Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd*, t. 11.
[59] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 121.

> There was a kind of law in force at Llwynrhydowen that no member of the church should preach until he had received academical training. Of this law Mr Davis was afterwards heard to complain saying it had deprived his church of the two greatest men it had ever produced, namely Christmas Evans and the Rev. David Davies - afterwards a minister at Mynydd-bach near Swansea.[60]

Ar unwaith, wedi i Davies ddechrau pregethu, denodd ei ddoniau gynulleidfaoedd lluosog i'w wrando: 'Teimlid yn gyffredinol fod ganddo genadwri arbennig, a'i fod wedi ei gynysgaeddu â'r dawn a'r medrusrwydd gofynnol i'w thraethu'.[61] Prysurodd y galwadau arno i wasanaethu yn eglwysi Pencader, Neuadd-lwyd, Dre-fach, Henllan, Gwernogle, Llandysul ac ym Mhantycreuddyn, a byddai hefyd yn annerch cynulleidfaoedd ar nosweithiau gwaith mewn tai anedd yn y pentrefi cyfagos. Ymhen dim amser cymaint oedd ei boblogrwydd, yn ôl y sôn, nid oedd bentref na chapel trwy holl Sir Gaerfyrddin a Sir Aberteifi nad oedd wedi clywed amdano.[62]

Wedi iddo fod yn pregethu ym Mhencader a'r eglwysi cymdogaethol am rai blynyddoedd, yn 1790 cafodd ei urddo'n gyd-weinidog â John Lewis yn Nhre-fach gerllaw Llangeler. Nid ar chwarae bach yr ordeiniwyd neb yn weinidog gan yr Hen Ymneilltuwyr:

> Yr oedd eu gweinidogion agos oll yn ddynion addysgedig, wedi cael manteision athrofaol; ac yr oedd rhai o'r hen eglwysi mor selog dros i weinidogion gael cwrs rheolaidd o addysg, fel yr oeddynt yn rhoddi yn ngweithredoedd eu capeli, nad oedd neb i fod yn weinidogion iddynt, oddieithr y rhai oedd wedi cael yr addysg hòno.[63]

Yn eithriad i'r arferiad yr urddwyd David Davies, a hynny wedi i ddau o aelodau'r eglwys yn Nhre-fach fynd yn y gwanwyn yn 1790 i gyfarfod gweinidogion ym Mhen-y-groes, Sir Benfro, i bledio'i achos, gan ofyn am eu cymeradwyaeth a'u presenoldeb yn yr urddiad. Cydsyniodd y gweinidogion i'w urddo ac fe'i hordeiniwyd yn ystod yr haf. Ysywaeth, nid oes gofnod ar gael bellach ynghylch dyddiad yr ordeinio na pha weinidogion oedd yn bresennol.[64]

Mae cofianwyr David Davies oll yn gofyn pam y cymerwyd hyd at bum mlynedd, wedi iddo gychwyn pregethu, cyn ei ordeinio i'r weinidogaeth? Cynigir, gan amlaf, dri ateb, sef, yn gyntaf: oherwydd iddo gael ei ddrwgdybio wedi iddo adael yr eglwys ym Mhen-rhiw ac ymaelodi ym Mhencader. Er gwaethaf yr amrywiaeth mewn safbwyntiau diwinyddol, ni edrychid yn ffafriol ar neb a oedd yn pellhau eglwysi yn eu perthynas â'i gilydd, beth bynnag eu daliadau athrawiaethol.[65] Yn ail, am nad oedd wedi derbyn addysg athrofaol. Yn gam neu'n gymwys, gyda gradd o ddiystyrwch a dirmyg yr edrychai yr hen Annibynwyr a'r Presbyteriaid ar Fethodistiaid ac ar Fedyddwyr a oedd yn gadael i ddynion 'annysgedig' esgyn i bulpudau yr eglwysi: 'Gyrai hyny yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid, y rhai oeddynt ddiarhebol o selog dros weinidogaeth ddysgedig, i'r eithafion o wrthwynebu derbyniad dynion o gymhwysderau da i'r weinidogaeth, heb iddynt yn gyntaf fyned trwy gwrs addysg athrofaol'.[66] Serch hynny, roedd

---

[60] David Rhys Stephen, *Memoirs of the Late Christmas Evans, of Wales* (London: Aylott & Jones, 1847), t. 8.
[61] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 114.
[62] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', tt.114-5.
[63] John Thomas, 'Ad-drem ar Ymneilltuaeth Cymru, *HEAC*, V, t. 462.
[64] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 115.
[65] Rees, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau', tt. 323-4.
[66] *HEAC*, II, t. 47.

ychydig o ddynion mwy talentog na'r cyffredin wedi eu hurddo ymysg yr Annibynwyr yn y ddeunawfed ganrif megis Morgan Jones Pentre-tŷ-gwyn, Jonathan Jones Rhyd-y-bont a John Davies Allt-wen ymhlith eraill, nad oedd wedi derbyn addysg athrofaol, ond ychydig o rif oeddynt, ac ystyriwyd eu bod yn ffodus cael gweinidogion yn eu llawn urddau yn ymostwng i'w hurddo. Y trydydd rheswm dros yr oedi oedd y ffaith fod Davies wedi cymryd arno ofal teulu ac yntau mor ifanc.[67] Ac fel y ceisiwyd awgrymu yn flaenorol, tybed a oedd agosrwydd Davies at William Perkins, gyda'i dueddiad Antinominaidd, yn achos dros yr oedi?

Fel y dywedwyd, roedd urddo heb fod y gweinidog wedi ymbaratoi ar gyfer y gwaith mewn athrofa yn fater dadleuol ar y pryd. Y perygl, wrth gwrs, oedd gosod addysg ffurfiol yn uwch na dawn a thalent naturiol. Dadleuid y gallai talent wneud gweinidog da heb addysg reolaidd, ond na allai'r addysg orau wneud gweinidog da heb dalent. Yn groes i'r confensiwn felly, a hwythau wedi'u hargyhoeddi ynghylch galluoedd pregethwrol uwchraddol y dyn ifanc, penderfynodd eglwys Dre-fach y dylid gwahodd Davies i gyd-weinidogaethu â John Lewis, heb ddisgwyl iddo gwblhau cwrs athrofaol. A phrofwyd, yn ôl y canlyniadau, mai hyn oedd yn iawn. Adfywiodd yr achos yn Nhre-fach yn sydyn, a lluosogodd y gwrandawyr a'r aelodau yn ddirfawr. Gyda'i sêl efengylaidd danbaid, ymroes Davies yn eiddgar i rwystro cymaint o bobl ag a fedrai rhag i'w heneidiau fynd i ddistryw. Wedi ychydig fisoedd aeth y capel yn rhy gyfyng i'r gynulleidfa, a gorfodid ef yn aml i bregethu yn yr awyr agored.[68]

Wedi ei urddo yn Dre-fach ac yn dilyn ei lwyddiant ni chyfyngodd ei weinidogaeth i Saron ac ardal Llangeler yn unig, ond bwriodd hefyd ofal dros eglwysi Neuadd-lwyd yn Nyffryn Aeron a Gwernogle, Sir Gâr, am un Sul y mis. Buan daeth y ddwy gynulleidfa fychan yno yn gynulleidfaoedd mawrion, cryfion, bywiog a gweithgar:

> Darfu i weinidogaeth seraphaidd Mr. Dafis effeithio daioni annirnadwy, nid yn unig yn yr eglwysi oeddynt yn uniongyrchol dan ei ofal ef, ond hefyd trwy holl eglwysi yr enwad y perthynai iddo. Rhoddodd ei ysbryd bywiog, a'i ddull tanllyd o bregethu, dôn newydd i'r weinidogaeth yn mysg yr Annibynwyr trwy Gymru, ac effeithiodd y chwyldroad mwyaf bendithiol a thrwyadl trwy yr holl enwad. Wedi marwolaeth yr Anghydffurfwyr a'u holynwyr uniongyrchol, ni chyfododd nemawr o bregethwyr tanllyd a diwygwyr selog yn mysg yr Annibynwyr Cymreig, nes i DAFIS ymddangos fel seraph llawn o dân yn Llangeler.[69]

*Morgan Jones*

Ac yntau wedi ei gymeradwyo ar gyfer y weinidogaeth gan ei fam eglwys yng Nghefnarthen, aeth Morgan Jones i'r athrofa fechan a gadwai John Griffiths yng Nglandŵr, Sir Benfro. Roedd yn ddwy-ar-bymtheg oed ar y pryd. Addysgwyd Griffiths yn academi ryddfrydig Caerfyrddin yn gyntaf, a wedi hynny yn y sefydliad Calfinaidd yn y Fenni. Roedd yn hyddysg yn y Clasuron, a gwyddai yn burion ynghylch disgwyliadau yr hen academïau. Cymwynas yr academïau bychain oedd paratoi darpar-fyfyrwyr ar gyfer y safonau uwch a ofynnwyd yn yr academïau swyddogol, er na fyddai pob darpar-fyfyriwr yn mynd yn ei flaen i'r academïau

[67] *HEAC*, II, t. 47.
[68] Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe', t. 117-8.
[69] Rees, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau', 325.

hynny.[70] Perthynai ysgol Glandŵr felly i ddosbarth yr academïau bychan hyn. Dywedwyd am ysgol John Griffiths, fodd bynnag, 'nid oedd fawr wahaniaeth rhwng y pynciau a ddysgid ynddynt â swm a sylwedd y darlithiau yn yr Academïau swyddogol'.[71]

> Fel clasurwr a diwinydd, ychydig oedd hafal iddo yng Nghymru ar y pryd, a mawr oedd yr ymgiprys am fynychu ei ddosbarthiadau mewn Lladin, Groeg, Saesneg ac esboniadau ar y Beibl. Bu amryw o glerigwyr yn eistedd wrth ei draed, megis Ficer Maenclochog, ond Ymneilltuwyr oedd mwyafrif ei fyfyrwyr. Aeth amryw yn syth i'r weinidogaeth o Landŵr a gwneuthur elw o gyfarwyddyd John Griffiths ar hyd eu hoes. Llwyddodd eraill, ar gorn cymeradwyaeth eu hathro i fynd i'r prif Academïau, yn enwedig yr Athrofa Annibynnol, a phrofi nad ffug oedd y chwedl am orchestion ysgol Glandŵr yn y byd addysgol.[72]

Ond pam mynd i ysgol fechan Glandŵr yn hytrach nag i un o'r academïau swyddogol? Yr ateb, mae'n bosibl, oedd iddo dybio na fyddai'n cyrraedd y safonau academaidd gofynnol i gael ei dderbyn, neu, ar y llaw arall, iddo feddwl nad oedd yn ddigon aeddfed yn ddeallusol i elwa ar y ddysg a gynigiwyd yno. Fe all mai'r ateb syml oedd ei fod yn rhy ifanc i gael ei dderbyn yn ôl y rheolau, a'r cam cyntaf, felly, oedd bwrw prentisiaeth yn un o'r ysgolion llai. Yr hyn a wyddom, beth bynnag, oedd iddo aros yng Nglandŵr am bedair blynedd a mynd yn syth oddi oddi yno i'r weinidogaeth. Yn ôl pob tystiolaeth, roedd yn gysurus iawn yno; gwyddai mai gŵr tra Chalfinaidd ei olygiadau oedd ei diwtor. Eglwys Galfinaidd oedd Cefnarthen, ac mae'n bur debyg ei bod hi'n hysbys i Griffiths gefnu yn ddyn ifanc ar Academi Caerfyrddin am resymau athrawiaethol, a symud i'r Athrofa Galfinaidd newydd yn y Fenni.[73] Gellid tybio mai dyna ddylanwadodd ar Morgan Jones nid yn unig i fynd i Landŵr, ac elwa ar ddysg Griffiths am bedair blynedd, ond i beidio â mynd i unman arall am hyfforddiant pellach wedi hynny. Nid ef fyddai'r unig un i wneud hynny. Cafodd y gŵr ifanc William Gibbon, aelod yn eglwys Glandŵr a addysgwyd yn yr athrofa fechan gan Griffiths, alwad gan eglwys enwog Capel Isaac yn 1779 i fod yn weinidog heb orfod mynd i academi uwch. A beth bynnag, pur ddilewyrch oedd y sefyllfa yn Academi Caerfyrddin ar y pryd.[74] Yn ôl E. Lewis Evans, roedd 'bod yn "iach yn y ffydd"' yn bwysicach na dysg. Felly, er nad aeth i Goleg Caerfyrddin, ni chyfrifid hynny'n ddiffyg ynddo'r dwthwn hwnnw, oblegid oedai drwgdybiaeth oesol uwchben y sefydliad'.[75] Roedd hyn yng nghyfnod llywyddiaeth Jenkin Jenkins pan roedd mwyafrif y myfyrwyr yn Arminiaid neu'n Ariaid, ac amdanynt yn ei gyfnod dywedwyd 'mae yn hysbys hefyd fod y myfyrwyr, yn ei amser ef, yn Nghaerfyrddin, yn nodedig am eu hanghrefyddoldeb'.[76] A chyfnod cythryblus o ddiffyg disgyblaeth yn hanes y myfyrwyr fu

---

[70] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 188; am hanes a natur yr academïau yng Nghymru a Lloegr, gweler y wefan *Dissenting Academies Online: Database and Encyclopaedia*, Dr Williams's Centre for Dissenting Studies, https://www.qmul.ac.uk/sed/religionandliterature/dissenting-academies/dissenting-academies-online. Ceir sôn am academi Glandŵr dan 'Griffiths, John (1731-1811)'.

[71] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 189.

[72] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 190.

[73] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 189; *HEAC*, III, t. 50; Daniel Davies, *Hanes Bywyd y Parch. John Griffiths, o Landwr; ynghyd ag eiddo y Parch. W. Griffiths, ei Fab o'r Un Lle* (Caerfyrddin: Swyddfa Seren Gomer, 1826), tt. 4-5.

[74] Gw. Dewi Eirug Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1975), hefyd Noel Gibbard, 'Carmarthen Academy, c. 1743-84', yn https://www.qmul.ac.uk/sed/religionandliterature/dissenting-academies/dissenting-academies-online

[75] E. Lewis Evans, *Hanes Capel Isaac* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1950), t. 80.

[76] *HEAC*, I. t. 274.

cyfnod ei olynydd Robert Gentleman, tra fu'r Academi yn Rhyd-y-gors, cyn symud i Abertawe yn 1784. Ac ar ddiwedd yr wythdegau, mae'n debyg iawn mai cystal oedd yr addysg a gawsai Morgan Jones yng Nglandŵr nes penderfynu aros yno hyd nes y derbyniai alwad gan eglwys ddi-weinidog.

Rhaid gofyn hefyd a oedd Jones yn ddigon cryf o ran iechyd i fynd yn ei flaen, gan ddygymod â'r pwysau, yn feddyliol a chorfforol, a osodid ar ysgwyddau'r myfyrwyr yn y prif academïau? Cyfeiria ei gofianwyr at y ffaith mai un eiddil o gorff ydoedd wrth gychwyn ar ei waith: 'Gŵr main gwannaidd yr olwg arno oedd Mr. Jones y pryd hwnnw. Credai llawer nad oedd iddo oes hir'.[77] Am yr achos yn Nhre-lech: 'Nid oedd yno y pryd hyny ond cynulleidfa fechan, ac yr oedd yr olwg arno yntau yn wanaidd o ran ei gorff a'i iechyd, nes oedd y rhan fwyaf o'r rhai a'i hadwaenai yn barnu nad oedd ei ddydd gwaith ef ond byr iawn'.[78] Byddai cwrs athrofaol yn bedair blynedd o hyd, a disgwylid i'r myfyrwyr fod yn iach o gorff yn ogystal â bod yn iach yn y ffydd. Yng nghyfnod prifathrawiaeth Benjamin Davies yn y Fenni, ceir cofnod yn adroddiadau'r Bwrdd oedd yn datgan anfodlonrwydd i dderbyn llanc afiach i'r Academi: 'Authorities conversed with Mr. Jno Harries who appeared to be a very serious young man, but on account of his bodily infirmities, they think him at present not a proper person to be encouraged with a view to the ministry'.[79] Mae'n bur debyg hefyd, petai ef wedi mynd i academi uwch, i Groesoswallt y byddai hynny – symudodd Academi Fenni yno yn 1790 – ac efallai na fyddai Isel-Galfiniaeth ei phennaeth, y Dr Edward Williams, wrth fodd calon John Griffiths, ac yntau'n Uchel-Galfinydd pur bendant.

Bid a fo am hynny, am ba reswm bynnag na pharhaodd Morgan Jones ag addysg athrofaol wedi ei dymor yng Nglandŵr, mae'n amlwg bod gan John Griffiths feddwl uchel o'r myfyriwr ifanc o Lywel. Roedd yn fodlon iawn iddo dderbyn galwad oddi wrth eglwysi Tre-lech a Chapel Iwan, ac i ildio'n llawen ei ofal tros Gapel Iwan a oedd y pryd hynny mewn cysylltiad gweinidogaethol ag eglwys Glandŵr. A pharhaodd cysylltiad clós rhwng y ddau tra bu Griffiths fyw. Morgan Jones, yn 1811, gafodd y fraint o bregethu yn angladd ei hen athro.[80]

*David Peter*

> Though I had no intention to enter the ministry, when I became a professor of religion, I had not been long a church member, before I felt a strong inclination to devote myself to the work of the Christian ministry; and with that view, in August, 1783, entered the academy at Rhydygors, and supported myself.[81]

Rhyd-y-gors oedd y plasdy y tu allan i Gaerfyrddin lle symudodd Academi Caerfyrddin dros dro yn 1779. Wedi i Benjamin Davies yr is-athro ymddiswyddo yn Ebrill 1783, nid oedd gan y pennaeth, Robert Gentleman, neb i'w gynorthwyo; byddai yntau yn ymadael â'i swydd fel pennaeth ei hun cyn pen dim. Roedd yr athrofa ar y pryd yn wynebu trafferthion enbyd, gyda'r nifer fechan o fyfyrwyr yn dra dilywodraeth, ac iechyd Gentleman oherwydd y trafferthion a'r

---

[77] Williams, *Y Parch. Morgan Jones, Trelech*, t. 161.
[78] Griffiths, *Cofiant y Diweddar Barch. Morgan Jones*, t. 7.
[79] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 100.
[80] Davies, *Hanes Bywyd y Parch. John Griffiths*, t.14.
[81] Lewis, *Memoir,* t. 8.

pwysau arno yn dirywio.[82] Mae'n amlwg nad oedd awyrgyrch y lle yn ffafriol, ac felly bod Peter wedi penderfynu peidio dychwelyd i'r coleg wedi Nadolig 1783.

Yn haf 1784 symudodd Peter i Sant Ismael yn Sir Benfro i gadw ysgol gan dreulio blwyddyn yno. Wedi hynny bu'n ymrafael drachefn ynghylch ymuno ag Eglwys Loegr, ond yn y diwedd bwriodd ei goelbren yn hollol gyda'r Annibynwyr: 'I became so decided a Dissenter, that afterwards I never felt the least inclination to conform'.[83] Cymhellwyd ef i ddechrau pregethu yn eglwys Penrhiwgaled ym mhlwyf Llanllwchaiarn, Ceredigion. Ond ni fedrodd wneud ar unwaith gan mor swil ydoedd. Gorchfygodd ei swildod, ac yn nechrau Ionawr 1786 ymunodd gyda John Evans ar daith pregethu, a thraethodd ei bregeth gyntaf ym Mronddeiniol, cangen dan ofal Benjamin Evans. Testun ei bregeth oedd geiriau Iesu yn Efengyl Mathew 'Dilynwch fi'. Wedi iddo ddechrau pregethu roedd Benjamin Evans yn awyddus i Peter fod yn gynorthwyr iddo, ond gwrthododd y cynnig, ac yn Awst 1786 cofrestrodd drachefn yn Academi y Bwrdd Presbyteraidd, a oedd erbyn hynny wedi symud i Abertawe, ac o dan ofal William Howell fel prifathro, gyda Thomas Lloyd yn is-diwtor. Lloyd oedd yn gyfrifol am ddysgu'r Clasuron a Mathemateg. Y tro hwn derbyniodd Peter nawdd y Bwrdd i'w gynnal. 'Agreed at the motion of the Secretary that James Price, aged 19; David Davies, aged 19 and David Peter, aged 20, and all well recommended, be admitted to the academy at Swansea with the usual allowance from midsummer 1786'.[84] Roedd Howell wedi bod yn gyd-fyfyriwr â'r Ariad David Davis yn Academi Caerfyrddin, cyn iddo symud i Chelwood ym Mryste. Roedd dyfodol addawol i Thomas Lloyd. Fe'i addysgwyd 'yn ysgol Castellhywel, a chael ei drwytho gymaint yn y Clasuron yno nes bod ar flaen pawb arall yn Abertawe a denu sylw'r Bwrdd ato'.[85] Ond pan fu farw yn ddisymwth a chyn-amserol yng ngwanwyn 1789, gan gymaint oedd diddoreb Peter ym Mathemateg, y Clasuron a Hanes, a chan wybod am ei gryfderau a'i gefndir a'i fod wedi astudio dan gyfarwyddyd Davis Castellhywel, nid rhyfedd bod y Bwrdd wedi ei benodi yn olynydd i Thomas, tra'n parhau yr un pryd â'i wersi fel myfyriwr. Ond bu cryn helbul wedi ei benodiad gan fod rhai o'r myfyrwyr yn gwrthod ei gydnabod.[86] Datryswyd yr aflonyddwch, a pharhaodd Peter fel athro am ddwy flynedd wedi iddo gwblhau ei gwrs. Byddai'n pregethu ar y Suliau, ac er iddo dderbyn galwadau o Drelawnyd a Threffynnon yn Sir y Fflint, dewisodd yn hytrach barhau gyda'i efrydiau. Ond ar yrfa yn y weinidogaeth roedd ei fryd, ac yn Rhagfyr 1791 derbyniodd alwad oddi wrth Heol Awst, Caerfyrddin i fod yn weinidog i'r eglwys ac yn brifathro ar yr ysgol ramadeg rydd yn y dref a oedd ynghlwm wrth yr eglwys. Yn ôl ei hunangofiant, dyma eiriad ei alwad:

> We, the undersigned, members of the Protestant congregation, assembling in Lammas Street, Carmarthen, do hereby universally give a call to the Rev. Mr Peter to be our minister, and to engage to pay the several sums by us usually subscribed; and will, as far as in us lie, render everything agreeable to him.
>
> Dated this 19th day of December, 1791.
>
> Tomas Williams, Evan Evans,

[82] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 51-2; Gibbard, 'Carmarthen Academy c.1743-84'.
[83] Lewis, *Memoir*, t. 9.
[84] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Mai 1786.
[85] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 53.
[86] Lewis, *Memoir*, t. 10.

| | |
|---|---|
| John Morgan, | David Thomas, |
| Thomas Lewis, | John Nichols, |
| William John, | Jane Webb, |
| Henry John, | George Griffiths, |
| Thomas Francis, | Sarah Lewis, |
| Griffith Morris, | Josiah Thomas, |
| J. Llewellyn, | Jane Williams, |
| Wm. Rhydero, | J. Ross. |
| Thomas Davis,[87] | |

Ymhlith enwau'r llofnodwyr, daeth Sarah Lewis yn 1795 yn wraig i Peter, a J. Ross oedd John Ross, yr argraffydd enwog. Cychwynnodd Peter ei weinidogaeth yn Heol Awst ddiwedd Rhagfyr 1791, a gobeithiodd y byddai'r academi yn Abertawe, o dderbyn ei ymddiswyddiad, yn fodlon ei ryddhau yn ddiymdroi, ond gwrthodasant wneud tan y Sulgwyn canlynol. Bu rhaid iddo am rai misoedd deithio o Abertawe i Gaerfyrddin ar y Sul, sy'n egluro pam na chynhaliwyd ei gyfarfod ordeinio tan 8 Mehefin 1792. Dywed fod 27 o weinidogion yn y cyfarfod ordeinio, er mai 25 a lofnododd ei dystysgrif ordeinio. Roedd 'Morgan Jones, minister at Treleach' a 'David Davies, minister at Trevach' yn bresennol ar y diwrnod.[88] Mae'r gyffes ffydd fanwl a draddododd Peter yn ei gyfarfod ordeinio wedi ei chynnwys yn ei gofiant. Roedd estyn galwad i weinidog Calfinaidd ei argyhoeddiadau yn gam newydd i'r eglwys yn Heol Awst, a diddorol yw sylw John Dyfnallt Owen ar y mater:

> Yr oedd Cyffes Ffydd y gweinidog newydd, ddiwrnod ei ordeinio, yn sicr o fod yn swnio fel utgorn rhyfel yng nghlyw adran o'r Eglwys. Nid oes ynddi un gair o gyfaddawd. Cyffes Trindodwr pendant ydyw. Ni allai credo felly oedd yn dafod i argyhoeddiad personoliaeth gref lai nag arwain ar fyrder i drobwynt a thrawsgyweiriad yn hanes yr Eglwys.[89]

Ac felly yn wir y bu, fel y gwelir yn y penodau dilynol.

*Rhai eithriadau i'r confensiwn*

Er bod academïau yr Anghydffurfwyr yn hyfforddi gweinidogion newydd at wasanaeth yr eglwysi 'teimlid nad oedd dim fel "magu gweinidog"'.[90] Yn ychwanegol at alw gweinidog o'r tu allan, arfer lled gyffredin yn ystod y ddeunawfed ganrif oedd i eglwysi godi eu gweinidogion o blith yr aelodau:

> Nod angen y weinidogaeth hon ydoedd olyniaeth athro a disgybl. Dull y cyfnod o hyfforddi meddyg ydoedd gofalu i gychwyn fod ganddo fesur da o addysg, ac wedi hynny ei osod yn brentis gyda meddyg profiadol. Yn y modd hwn y cymhwyswyd llu o weinidogion cyntaf yr Annibynwyr.[91]

[87] Lewis, *Memoir*, t. 12.
[88] Lewis, *Memoir*, t. 28.
[89] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 38. Gw. Cyffes Ffydd Peter yn Lewis, *Memoir*, tt. 19-25.
[90] Evans, *Hanes Capel Isaac*, t. 59.
[91] Evans, *Hanes Capel Isaac*, t. 56.

Roedd John Harries, gweinidog Capel Isaac ar y Mynydd-bach rhwng 1724 a 1748, yn gofalu hefyd am eglwysi yn Abergorlech a Chrug-y-bar, ac yn bedyddio a derbyn aelodau yng Nghrofft-y-cyff ym mhlwyf Llan-y-crwys hyd ddiwedd 1743, hyd nes yr urddwyd un o'r aelodau, sef Owen Davies. Ceir y cofnod yn Llyfr yr Eglwys:

> Owen Davies .... was ordained October ye 7th, 1743 at Crofft-y-cyff by Fasting and Praying, and laying of ye hands of ye Presbytery, who were the Reverend Messers James Lewis, Philip Pugh, Christmas Samuel, Thomas Morgans of Llanierthtid (Llanwrtyd), Timothy Davies, John Lewis, Owen Rees.[92]

Arfer cyffredin yn llawer o'r eglwysi oedd urddo gweinidog iau o blith yr aelodau, neu eglwys gymdogol, i gynorthwyo'r gweinidog hŷn pan fyddai ei nerth yn diffygio neu cyn hynny pan fyddai'r maes yn un eang. Ar y Mynydd-bach roedd John Harries o eglwys Pant-teg wedi ei wahodd i fod yn gynorthwyr i William Davies, a oedd wedi gweinidogaethu yn yr eglwys ers dechrau'r ddeunawfed ganrif.[93] Cydiodd yn y maes yn 1724 wyth mlynedd cyn marw William Davies. Cyn diwedd cyfnod John Harries, roedd yr eglwys wedi codi Thomas William yn gynorthwyr i Harries, un a urddwyd yn ddiweddarach yn weinidog cyflawn ar y gynulleidfa. Dyma oedd yr arfer ym Mrynberian ac yn Nhrewyddel, Sir Benfro. Mam eglwys Brynberian oedd yr achos Annibynnol yn Llechryd, a bu ei gweinidog, David Sais, yn rhannu ei weinidogaeth gan ofalu am yr achos ym Mrynberian ar gychwyn yr achos yno. Wedi marwolaeth Sais yn 1741, 'dewisodd eglwys Brynberian weinidog iddi ei hun. Disgynodd ei dewisiad ar un o'i haelodau ei hun, sef Mr David Lloyd, yr hwn oedd wedi bod yn pregethu yma fel cynorthwywr er's naw mlynedd'.[94] Wedi dyddiau Lloyd, a fu farw yn 1764, bu ei frawd Thomas Lloyd, a oedd yn gofalu yn bennaf am Drewyddel, yn rhannu ei weinidogaeth gydag eglwys Brynberian tan 1770 pryd yr urddwyd Stephen Lloyd, mab David Lloyd, yn weinidog ar yr eglwys. Wedi iddo yntau helaethu cylch ei weinidogaeth gan blannu eglwysi i'r gogledd a'r de o fynyddoedd y Preselau, 'gan fod cylch y weinidogaeth wedi helaethu yn ddirfawr, penderfynwyd dewis Mr Henry George, un o'r aelodau, i fod yn weinidog cynorthwyol i Mr. S. Lloyd. Urddwyd ef yn y flwyddyn 1790'.[95] Wedi i Thomas Lloyd gyfyngu ei weinidogaeth i Drewyddel yn dilyn urddiad Stephen Lloyd ym Mrynberian, ymhen rhai blynyddoedd, 'yn wyneb ei fod yn heneiddio, yn 1788 urddwyd Mr. John Phillips yn gynorthwyr iddo'. [96]

Er bod cryn fri ymhlith yr Ymneilltuwyr dros weld eu gweinidogion yn derbyn addysg athrofaol, nid aeth pob gweinidog i'r academïau yn ystod y ddeunawfed ganrif. Fe dreuliodd John Harries gyfnod yn academi Samuel Jones ym Mrynllywarch, a pheth amser yn academi William Evans yng Nghaerfyrddin.[97] Ond ymhen rhai blynyddoedd ar ôl marw Harries yn 1748, wedi cyfnod gweinidogaeth fer John Powell, fu'n fyfyriwr yn Academi Caerfyrddin, pan sefydlwyd Thomas William yn weinidog i'r achos ar y Mynydd-bach yn ddiweddarach yn 1757 neu 58, rhaid cofio nad oedd ef wedi bod mewn un academi, er iddo amlygu ei hun yn ysgolhaig

---

[92] Dyfynnwyd yn Evans, *Hanes Capel Isaac*, t. 59.
[93] Evans, *Hanes Capel Isaac*, t.52.
[94] *HEAC*, III, t. 39.
[95] *HEAC*, III., t.39.
[96] *HEAC*, III, t.117.
[97] Evans, *Hanes Capel Isaac*, t. 53; R. T. Jenkins', Nonconformity after 1715', yn J. E. Lloyd (ed.), *A History of Carmarthenshire*, Vol. 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt 185-263 (161); E. Pan Jones (gol.), *Oriel Coleg Caerfyrddin* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams, 1909), t. 247.

ac yn awdur nifer o gyfrolau.[98] Nid yw'n hysbys a gafodd gweindogion Brynberian a Threwyddel a enwyd uchod hyfforddiant athrofaol. Felly nid oedd y ffaith na chafodd David Davies hyfforddiant athrofaol yn arferiad cwbl newydd, er yn groes i brif gonfensiwn Annibynwyr y cyfnod.

### 3. Eu priodasau

Roedd Davies, fel a nodwyd, wedi priodi pan yn ugain oed â Jane Evans, merch i amaethwr yng nghymdogaeth Llangeler, a oedd flwyddyn yn iau nag ef. Dywedwyd amdani: 'Edrychai ar ei thy, ei theulu, a'i phriod fel yn hawlio ei sylw pennaf a'i gofal mwyaf. Ni ymwthiai i'r cyhoedd, eithr ymfoddlonai ar weled ei gŵr yn ymnerthu yn y gras o efengylu ac yn llwyddo yn ei ymdrech yn erbyn pechod'.[99] Ergyd drom i Davies oedd marwolaeth ei briod ym mis Hydref 1816. Ganwyd iddynt chwech o blant, pedair merch a dau fachgen, a dilynodd y meibion eu tad i'r weinidogaeth 'sef y Parchn. D. Davies, Stoke Bishop, a J. Davies, Homerton, Llundain'.[100]

Yn unol ag arfer y cyfnod, ychydig iawn o sylw a roddwyd i wragedd gweinidogion, er yr oll a ddisgwylid mewn gwraig gweinidog, fel ym mhob oes. Gwyddom ychydig yn fwy am wraig Morgan Jones. Ond ar ei garreg fedd ym mynwent y teulu yn Llwyn-yr-hwrdd, cyfeiriad cwta sydd iddi, a hynny mewn perthynas â'i gŵr: 'Also MARY JONES the beloved wife of the Rev'd MORGAN JONES, who died January 20th 1848 aged 73/5 years.' Fe'u priodwyd cyn pen dwy flynedd wedi i Jones ymgartrefu yn y cylch. Y mae, fodd bynnag, gryn ramant i hanes y briodas. Unig blentyn y Parrïaid, tirfeddianwyr cyfoethog a oedd yn byw ar fferm Esgair-y-graig ym mhlwyf Troed-yr-Aur, de Ceredigion, oedd Mary. Dywedir iddynt briodi cyn i Jones ymofyn am sêl bendith ei thad. Ac fe'i cymerodd un diwrnod yn gwbl ddiarwybod i'w rhieni. Roeddent yn dyner iawn wrth ei hymgeleddu ac hynod ofalus tuag ati fel eu hetifeddes. Wrth ei gwarchod, gorchmynnwyd i'r gweision y dylent ufuddhau yn ddi-oed i unrhyw gais o'i heiddo. Ond 'agorodd ei rhieni eu llygaid un bore a'u merch nid oedd ganddynt mwyach'.[101] Pan ddaeth i glyw Mr a Mrs Parry bod un o'r gweision wedi hwyluso'r ffordd i'w merch ddianc o'i chartref, ateb y gwas oedd: 'Mishtir ond gwetsoch chi wrthw i pan ddes yma i 'neud popeth wetse Miss Parry wrthw i', a dyna derfyn ar y mater![102] Buan y tawelodd protest y tad a derbyniwyd Jones fel mab-yng-nghyfraith, ac am rai blynyddoedd bu'n byw ar aelwyd ei briod yn Esgair-y-graig.

Ymhen rhai blynyddoedd symudodd Jones a'i briod i gartref newydd yn y Garreg-wen, man cyfleus rhwng Tre-lech a Chapel Iwan, ac yno y buont weddill eu hoes. Roeddent yn berchen ar amryw leoedd eraill gan gynnwys Llwyn-yr-hwrdd, y rhoddodd Jones ran o'i ystad i godi'r capel arno wrth droed pentref Tegryn: 'Cadwent hwy eu llygaid ar y ddeufyd'.[103] Roedd y ffaith bod Jones wedi priodi etifeddes gyfoethog yn un o'r ffactorau a'i galluogodd i deithio yn helaeth gan gynnwys treulio cyfnodau yn y brifddinas, yn gweinidogaethu i eglwysi

---

[98] *HEAC*, III, t. 541.
[99] Williams, *Y Parch. David Davies, Abertawe*, t. 110.
[100] 'Davies, David o Abertawe', *Y Gwyddoniadur Cymreig*, Cyfrol X (1879), tt. 511-12 [512].
[101] Williams, *Y Parch. Morgan Jones, Trelech*, t. 180.
[102] Williams, *Y Parch. Morgan Jones, Trelech*, t. 182.
[103] Williams, *Y Parch. Morgan Jones, Trelech*, t. 182.

Annibynnol Cymraeg Llundain: 'Cafodd gymmhares dduwiol, ddirodres, ac addfwyn; a thrwy ei chyfoeth, dyrchafwyd ef ar unwaith i safle uchel mewn cymdeithas, ac i feddiant o ddylanwad nas gallasai ei dalent a'i dduwioldeb yn unig byth ei osod yn y meddiant o hono'.[104] Ganwyd iddynt unarddeg o blant, a chodwyd un o'u meibion i'r weinidogaeth, sef Evan, a fu'n gydweinidog â'i dad o 1824 ymlaen yn Nhre-lech ac eglwysi ei ofal tra bu Morgan Jones fyw. Wedi marwolaeth Morgan Jones, yn ôl ei ewyllys, rhannodd ei ystâd, ei gartrefi a'i diroedd, rhwng ei briod a'u bechgyn, Evan, Simon a John a siarsiwyd y meibion, wedi iddynt etifeddu eu llefydd, i dalu arian i'w chwiorydd, sef Mary Davies ac Elizabeth Pugh. Roedd disgwyl hefyd i'r meibion glirio dyledion eu tad. Ag eithrio Beibl a adawodd i Simon, gadawodd ei holl lyfrau i Evan. Rhoes swm o £20 i Gapel-y-Graig, gyda'r llog i helpu cydnabod y gweinidog, ac £20 i'w fam eglwys yn Cefnarthen a Phentre-tŷ-gwyn gyda'r llog eto i'w ddefnyddio i gydnabod y gweinidog.[105]

Gwyddom fwy am wragedd David Peter gan i'w gofiannydd neilltuo pennod gyfan i adrodd amdanynt. Roedd Sarah Peter, ei wraig gyntaf a briododd ym mis Hydref 1795 yn aelod yn Heol Awst ac yn ferch i William a Catherine Llewellyn, gyda'r tad yn ddiacon yn yr eglwys ac yn fasnachwr parchus yn y dref. Roedd yn wraig weddw ar y pryd, deugain mlwydd oed, a chawsant bron i chwarter canrif o fywyd priodasol yng nghwmni ei gilydd. Gwnaethant eu cartref rhyw filltir o dref Caerfyrddin. Bu hi farw yn 64 mlwydd oed yn Ebrill 1820. Roedd yn ddarllengar, â'i hoff awduron oedd y Piwritaniaid Matthew Henry, Richard Baxter, Isaac Watts a Philip Doddridge.[106] Roedd yn wraig ymarferol iawn ei doniau ac yn ogystal â darllen hoffai winio, nyddu, gwae a garddio. Roedd yn frwd dros hyrwyddo achos ei Gwaredwr, yn hael ei ffordd, ac yn weithgar yn codi arian tuag at Gymdeithas y Beibl a'r Christian's Friends Society sef cymdeithas chwiorydd eglwys Heol Awst er helpu'r cleifion a'r tlawd yn y dref. Fel ei gŵr, roedd yn efengylaidd ei hanian: 'She was a firm believer in the doctrines of grace; and experienced their transforming influence and divine consolations ... and looked for salvation in no other way than through Christ's meritorious death'.[107]

Ymhen dwy flynedd wedi ei marw, priododd Peter â Charlotte Nott yng Ngorffennaf 1822. Yr oedd hi'n chwaer i'r Cadfridog Syr William Nott, gŵr o bwys a dylanwad yn lleol. Trwyddo ef y cafodd yr eglwys gynnal ei haddoliad yn Neuadd y Dref pan oedd **y** capel yn cael ei ailadeiladu yn 1826-7. Cefnogai ei gŵr yn ei holl ymdrechion, a 'c(h)ymaint oedd ei sel hithau dros godi Tŷ Cwrdd 1826, fel y gwystlodd yr eiddo personol oedd ganddi hi a Mr. Peter, i gyfarfod y galw am arian.'[108] Pan aeth teithio yn flinedig iddynt symudasant o fwthyn Peterwell i'w cartref eu hunain er mwyn bod yn nes i'r capel a'r coleg. Bu Charlotte yn gymhares dda i'w phriod yn arbennig yn ei hen ddyddiau pan oedd ei iechyd yn pallu. Coleddai hithau hefyd ffydd efengylaidd ddiffuant: 'She felt, deeply and experimentally, that her only plea at the throne of grace, was *mercy*, through and in him, who is the Saviour of lost and perishing sinners; but she knew *that* plea to be all-sufficient'.[109] Bu ei ail wraig farw ar 6 Mai 1834 yn 51 mlwydd oed. O'r ddwy briodas ni bu iddynt blant. Goroesodd Peter ei ddwy wraig ac wedi ei farwolaeth, yn ôl ei ewyllys, gadawodd ei gartref a'i gynnwys i'w frawd yng

---

[104] 'Jones, Morgan', *Y Gwyddoniadur Cymreig*, Cyfrol VI (1868), tt. 375-6 [375].
[105] SD/1836/347 w(i), LlGC, Ewyllys Morgan Jones, Tre-lech a'r Betws, Profwyd 11 Mehefin 1836.
[106] Lewis, *Memoir*, t. 86.
[107] Lewis, *Memoir*, tt. 90-1.
[108] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 46.
[109] Lewis, *Memoir*, t. 111.

nghyfraith William George Nott. Roedd yntau i dalu £20 i Mary Davies, chwaer David Peter, ac £20 i Mary Thomas a fu’n forwyn i’w ddiweddar briod. Ei nai, y Parchedig David Peter Davies, oedd i etifeddu’r cartref wedi marwolaeth William George Nott. Gadawodd Peter ei lyfrau i’w nai a hefyd £400 oedd yn ddyledus iddo mewn taliadau mortgais ar eiddo roedd wedi ei werthu.[110]

## 4. Crynhoi

Er bod eu magwraeth yn gwahaniaethu, Davies heb fawr o gefndir crefyddol yn deuluol, Jones gyda’i gefndir Anghydffurfiol yng Nghefnarthen a Peter wedi ei godi i rieni a oedd yn ffyddlon yng nghymundeb Eglwys Loegr, gwelir bod y tri ohonynt wedi profi argraffiadau crefyddol yn eu harddegau a chael tröedigaethau yn gynnar yn eu hanes. Roedd tystio i brofiad o dröedigaeth yn naratif bywgraffiadol boblogaidd yng nghofiannau Cymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[111] Wedi’r profiadau cynnar hyn ymglywodd y tri â galwad i fod yn weinidogion yr efengyl er iddynt ddilyn llwybrau gwahanol cyn cael eu hurddo. O’r tri, Peter gafodd yr addysg gynnar orau, ac er bod y manteision lleol yn gwahaniaethu’r fawr, roedd y tri wedi cael addysg elfennol ddigonol i ddymuno cael gwella eu galluoedd yn academaidd a chynyddu mewn dysg. Yn groes i’r confensiwn sef bod disgwyl i ddarpar weinidogion yr Annibynwyr dderbyn hyfforddiant yn un o’r prif academïau, ni chafodd David Davies addysg athrofaol. Nid aeth Morgan Jones ymlaen i un o’r prif academïau cyn ei urddo ond treuliodd gyfnod helaeth yn athrofa fechan John Griffiths yng Nglandŵr, lle roedd safon yr addysg yn uchel a’r pennaeth wedi hyfforddi nifer o glerigwyr a gweinidogion. Cafodd David Peter fanteision addysg athrofaol yn yr Academi Bresbyteraidd, un o’r prif academïau a oedd wedi ei lleoli yn Abertawe yn ystod y cyfnod hwn. Dengys y bennod hon fod eithriadau i’r confensiwn, sef bod disgwyl i weinidogion gael hyfforddiant mewn academi cyn cael eu hurddo i’w swydd.

[110] SD/1837/135 x, LlGC, Ewyllys David Peter, Caerfyrddin, Profwyd 11 Mai 1837.
[111] gw. Llion Pryderi Roberts, ‘ “Pob peth yn cydweithio er daioni”: *Cofiant ... Thomas Charles* (1816)’, yn D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o'r Bala*, t. 160; gw. Saunders Lewis, ‘Y Cofiant Cymraeg’ yn R. Geraint Gruffydd (gol.) *Meistri’r Canrifoedd Ysgrifau ar Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1973), tt. 341-56.

## Pennod 4

## Annibynwyr y de-orllewin a'u diwinyddiaeth

### 1. Y cyd-destun hanesyddol

At ei gilydd arddel y ddiwinyddiaeth Galfinaidd a wnâi mwyafrif gweinidogion yr Hen Ymneilltuwyr ond bu tuedd gynnar ymhlith gweinidogion ac eglwysi'r Presbyteriaid (sef yr *hen* Bresbyteriaid) i symud i'r chwith gan fabwysiadu diwinyddiaeth ryddfrydol a choleddu Arminiaeth. Ac ymhen amser, wedi coleddu Arminiaeth, arweiniodd hynny at ogwyddiadau pellach i'r chwith i gyfeiriad Ariaith ac Undodiaeth. Bu ymdderu, ymbleidio a rhwygiadau hefyd oddi mewn i rengoedd y rhai a arddelai Galfiniaeth, rhwng y rhai 'isel' a'r rhai 'uchel', rhwng y rhai a ddilynai Galfiniaeth fwy cymedrol Richard Baxter yn hytrach nag arddel Calfiniaeth eithafol Tobias Crisp.[1] Ac yn hanes diwinyddion nad oedd am arddel y safbwynt Arminaidd, bu yna gymedroli a llareiddio ar yr hen Galfiniaeth a fu'n foddion i gynnal a phoblogeiddio Calfiniaeth ymlaen i'r dyfodol. Daethpwyd i arddel ffurf newydd ar Galfiniaeth, sef yr hon ddaeth i gael ei hadnadod fel y 'System Newydd'. Lladmerydd y Galfiniaeth newydd oedd Edward Williams, ac wrth iddo 'lacio'r tyndra rhwng athrawiaeth brennaidd yr Uchel-Galfiniaid ac awydd y pregethwyr Efengylaidd i gynnig iachawdwriaeth i bawb yn ddi-wahân'[2] a chyda'r apêl genhadol yn y ddiwinyddiaeth newydd, a'r gwres a'r hwyl mewn crefydd gafwyd ym mhrofiad y dychweledigion yn y diwygiadau crefyddol, bu'r Diwygiad Efengylaidd yn foddion i gryfhau gafael Calfiniaeth yn hanes mwyafrif gweinidogion yr Annibynwyr.

Pan ddown at ddiwinyddiaeth David Davies, Morgan Jones a David Peter, mae angen penderfynu ymhle yn ddiwinyddol a chyda phwy y gwelent eu hunain, oherwydd er mai Calfiniaid oedd y tri, nid yn yr un ffordd y deallent eu cysyniadau. Ac i ddirnad eu cyfraniadau rhaid cadw mewn cof y cefndir y codwyd hwy ynddynt, eu cysylltiadau â'r awyrgylch gwahanol y gweithient ynddynt a'r eglwysi a'r sefydliadau y buont yn eu gwasanaethu. Calfiniaid oedd y tri ohonynt, ond tra gwelir David Davies a Morgan Jones fel Calfiniaid lled uchel eu daliadau, gwelai David Peter ei hun fel Calfiniad cymedrol. Eto os gwahaniaethent o ran eu daliadau diwinyddol, nid oes amheuaeth ynghylch eu hargyhoeddiadau craidd a'u teyrngarwch i'r ffydd efengylaidd yr oeddent yn frwd yn ei hyrwyddo.

*Calfiniaeth a'r 'Pum Pwnc'*

Yng Nghymru ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif Calfiniaeth a lynai'n dynn wrth y Pum Pwnc oedd yr athrawiaeth boblogaidd a goleddid gan fwyafrif yr Annibynwyr, y Presbyteriaid a'r Bedyddwyr fel ei gilydd, ond erbyn diwedd y ganrif 'yr oedd y ffrâm gadarn hon yn dechrau gwegian'.[3] Dros amser bu cryn gynnwrf a dadlau 'a chanlyniad anorfod derbyn y syniadau hyn

[1] D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales: 1. From Reformation to Revival, 1588-1760* (Cardiff: University of Wales Press, 2018), tt. 321-33.
[2] R. Tudur Jones, ' "Y Dwym Ias" a'r "Sentars Sychion"', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd*, (Bangor:Canolfan Uwch-Efrydiau Crefydd yng Nghymru, Bangor,1998), tt 153-69 [167].
[3] Dewi Eirug Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1975), t. 31.

oedd rhwygo eglwysi'.[4] Oherwydd y cyfnewidiadau diwinyddol ynghyd â dylanwad y Diwygiad Efengylaidd, 'rhoddwyd yr hen Uchel-Galfiniaeth yn y glorian a'i chael yn brin'.[5] Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg Calfiniaeth gymedrol neu'r 'Galfiniaeth Fodern' a goleddid gan fwyafrif yr Annibynwyr, y Bedyddwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru.[6]

Gyda John Calfin (1509-64), un o sylfaenwyr y Diwygiad Protestannaidd yng Ngenefa y cychwyna y ffurf o athrawiaeth a adnabyddir wrth yr enw Calfiniaeth. Olynydd Calfin yng Ngenefa, a barhaodd i arddel y Galfiniaeth wreiddiol gan ei haddasu a'i datblygu oedd Theodore Beza (1519-1605). Y mae cryn ddadlau ymhlith haneswyr pa un ai datblygiad dilys ynteu gwyriad oedd y newid hwn, ond i'r ffrwd hon o athrawiaeth y plediodd mwyafrif y Piwritaniaid eu teyrngarwch. Roedd y ddiwinyddiaeth a goleddid gan drwch yr Hen Ymneilltuwyr yng Nghymru ddechrau'r ddeunawfed ganrif yn unol â'r athrawiaeth Galfinaidd a ddatblygwyd yng nghyfnod y Piwritaniad sy'n cael ei hadnabod fel 'Diwinyddiaeth y Cyfamodau', neu'r 'Ddiwinyddiaeth Ffederal'.[7] 'Dyma'r athrawiaeth a ymblethodd â Chalfiniaeth Beza a chael mynegiant safonol yng Nghyffes Westminster'.[8] A hon oedd yr athrawiaeth a fynegid bron yn ddieithriad yng nghyffesion ffydd eglwysi a gweinidogion Cymru ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif.[9] Dyma'r ffurff o athrawiaeth arddelid gan eglwys y Mynydd-bach yn Abertawe[10] ac eglwys Glandŵr, Sir Benfro, yn eu cyffesion ffydd. Olynydd Lewis Rees yn y Mynydd-bach oedd David Davies. Bu Morgan Jones yn drwm o dan ddylanwad eglwys Glandŵr lle bu'n ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth yn athrofa John Griffiths yno. Ac roedd eglwysi Annibynnol Capel-y-Graig, Tre-lech a Glandŵr yn arddel union yr un athrawiaeth.

Law yn llaw â'r Ddiwinyddiaeth Ffederal, glynai'r eglwysi a'u gweinidogion wrth yr hyn a ddaeth i gael ei hadnabod fel 'y Pum Pwnc':

> Hawliai'r Pum Pwnc fod Duw, y Penarglwydd, wedi dewis nifer penodol o ddynion yn Iesu Grist i ogoniant tragwyddol, cyn seilio'r byd, a hynny yn ôl ei arfaeth ddigyfnewid a'i ras, a bod hyn yn ddiamodol, h. y. heb unrhyw ystyriaeth o'u ffydd a'u gweithredoedd da; ac iddo fyned heibio i weddill y ddynoliaeth. Iawn dros bechodau'r etholedigion yn unig wnaeth Crist. Adda yw pen naturiol neu gynrychiolydd dynolryw, ac, oherwydd y cwymp yng Ngardd Eden, cyfrifir pechod Adda i'w ddisgynyddion a chan hynny y mae'r natur ddynol yn gwbl lygredig, ac, o'r herwydd, ni all dyn wneud dim i wella ei gyflwr truenus. Y mae'r etholedig yn gwbl

[4] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 36.
[5] *HAC*, t. 169.
[6] *HAC*, tt. 172-3.
[7] R. Tudur Jones, 'Athrawiaeth y Cyfamodau' yn Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd*, tt. 9-16.
[8] R. Tudur Jones, *Duw a Diwyllliant: Y Ddadl Fawr, 1800-1830* (Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1986), t. 6; *HAC*, tt. 134-5.
[9] Gw. *e.e.*, cyffes Thomas Williams, Capel Isaac (1735), yn 'Llyfr Eglwys Mynydd-bach', *Cofiadur*, 17 (1947), 27-9**;** am gyffes John David, Glandŵr (1756), gw. J. Lloyd James, *Hanes Eglwys Glandŵr* (Merthyr Tydfil: Swyddfa'r Tyst, 1902), tt. 18-9.
[10] Gw. Llyfr Eglwys Mynydd-bach, Abertawe (1700), *f.* 5.

> gadwedig trwy ddylanwad yr Ysbryd Glân arnynt. Ac ni allant gwympo oddi wrth ras a stâd o gadwedigaeth.[11]

Ond nid pawb a fedrai dderbyn athrawiaeth a oedd mor absoliwt mewn perthynas â Phenarglwyddiaeth Duw. Jacobus Arminius (1560-1609) o'r Iseldiroedd arweiniodd y gwrthwynebiad i Bum Pwnc y Calfiniaid. Bwriodd yntau a'i gefnogwyr ati i lunio system o ddiwinyddiaeth a oedd yn ateb yr athrawiaeth fesul cymal. Gan fod dehongliad y Pum Pwnc o Benarglwyddiaeth Duw fel petai'n diddymu ewyllys rydd a chyfrifoldeb personol y credadun, dymuniad yr Arminiaid oedd 'cael system o ddiwinyddiaeth a roddai fwy o le i ddyn fel un a chanddo law yn ei iachawdwriaeth.'[12] Am system Jacobus Arminius,

> ymwrthododd ef â'r egwyddor fod cyflwr neb wedi ei ragarfaethu, ond yr oedd etholedigaeth yn ddibynnol ar ffydd yr unigolyn a ragwelsid, a gwrthodedigaeth, sef bod Duw wedi myned heibio i'r gweddill, oherwydd eu hanghrediniaeth, a ragwybuasid. Yn ei farwolaeth, gwnaeth Crist Iawn dros bawb o'r ddynoliaeth, ac, felly, yr oedd iachawdwriaeth pob dyn yn bosibl er nad yn effeithiol heb ffydd. Nid yw'r ddynoliaeth yn gwbl lygredig, ac er bod dyn yn gogwyddo at bechod y mae ewyllys rydd ganddo, a chan hynny, y mae'n gyfrifol am ei dynged. Nid yw galwad Duw drwy'r Ysbryd Glân yn uniongyrchol, gellir ymwrthod â'r alwad gan mai galwad foesol ydyw trwy gyfrwng y Gwirionedd. Gall y sawl sydd yng Nghrist syrthio oddi wrth ras, gan na all Duw eu cadw yn erbyn eu hewyllys.[13]

Ac er mwyn osgoi pegynnu, oherwydd bod yr agendor rhwng Calfiniaeth y Pum Pwnc (Uchel-Galfiniaeth) ac Arminiaeth mor fawr, ceisiodd Richard Baxter (1615-91), lladmerydd pwyslais Isel-Galfiniaeth yn Lloegr sicrhau cymod yn yr eglwysi rhwng y ddwy garfan trwy geisio osgoi'r eithafion: 'Ceisiodd Richard Baxter, er mwyn gwneuthur tegwch mwy â chymeriad Duw a hawliau moesol dyn, dorri allan lwybr canol rhwng Calfiniaeth Uchel ac Arminiaeth, ac os oedd bosibl, gyfuno'r ddwy gyfundrefn'.[14] Y mae'n bwnc dadleuol pa un a lwyddodd yn ei fwriad, ond arweiniodd y ffordd at ddehongliad mwy cymedrol ar Galfiniaeth. Am Baxter, meddir

> Daliai ef, gyd â'r Calfiniaid, fod nifer penodol wedi eu hethol i iachawdwriaeth yn y cynghorau dwyfol, ac y cedwid y cyfryw yn ddiffael. Eithr daliai hefyd, gyd â'r Arminiaid, fod athrawiaeth gwrthodedigaeth yn annheilwng o Dduw ac yn groes i Reswm. Daliai drachefn i Grist farw, mewn rhyw ystyr, dros bawb, a bod cymaint mesur o ras wedi ei ganiatáu i bob dyn ag i beri i'w gadwedigaeth neu ei golledigaeth ddibynnu ar ei ewyllys ef ei hun.[15]

Aeth rhai Presbyteriaid ymhellach gan fynnu 'na allai Duw achub dynion, heb roi unrhyw ystyriaeth i'w cymeriad a'u ffydd, ac na allai faddau i bechaduriaid, fel y mynnai

---

[11] L. Wynford Thomas, 'Mathias Maurice (1648-1738) a'i eglwysoleg', PhD, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2011, t. 1; cf. J. Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist: Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist yn ei pherthynas â Chymru* (Liverpool: Gwasg y Brython, 1931), t. 27.
[12] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 35.
[13] Thomas, 'Mathias Maurice (1648-1738) a'i eglwysoleg', tt. 1-2; cf. Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist*, tt. 27-8; hefyd Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, tt. 35-6.
[14] Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist*, t. 29.
[15] Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist*, t. 29.

Calfiniaid Antinominaidd, heb edifeirwch'.[16] Parhau i ledu y bu'r dadlau, yn ymestyn fel cadwyn yn cydio un cylch wrth gylch arall. Ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, bu anghydweld rhwng Annibynwyr a Phresbyteriaid yn Llundain, yr Annibynwyr yn glynu wrth y Pum Pwnc a'r Presbyteriaid at ei gilydd yn bleidiol i'r Galfiniaeth gymedrol, neu 'Baxteriaeth' fel y daeth i gael ei hadnabod. Roedd rhan y Dr Daniel Williams, brodor o Wrecsam ac olynydd Richard Baxter yn eglwys Hand Alley yn Llundain, yn ganolog yn y dadlau, a arweiniodd erbyn 1699 at rwygo'r 'Undeb Dedwydd' gafwyd dros gyfnod byr rhwng y Presbyteriaid a'r Cynulleidfaolwyr. Yng Nghymru, lai na degawd yn gynharach, cafwyd rhwyg tebyg rhwng y Presbyteriaid a'r Cynulleidfaolwyr yn Wrecsam. Dan arweiniad James Owen, y gŵr o Sir Gaerfyrddin a oedd yn bennaeth Academi Croesoswallt a'r lladmerydd Cymreig galluocaf i ddaliadau'r Dr Daniel Williams, ymrannodd yr adran Bresbyteraidd ac ymffurfio'n eglwys ar wahân i'r Cynulleidfaolwyr.[17] Bu cysylltiad rhwng y rhwyg yn Wrecsam yn 1691 â'r rhwygiadau yn Henllan yn Sir Gaerfyrddin ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Roedd James Owen yn arddel y Galfiniaeth gymedrol a thrwy ei berthynas â'i frawd D. J. Owen, a'i fab yntau, Jeremy Owen, taflodd ei gysgod tros yr hollti fu yn hanes eglwys Henllan. Yng nghysgod yr ymbleidio yn Henllan ymwahanodd yr Uchel Galfiniaid â'r achos a ffurfio achos newydd yn Rhydyceisiaid.[18]

*Dadleuon Henllan a Rhydyceisiaid*

Bu'r dadlau yn Henllan a Rhydyceisiaid yn ffyrnig ar adegau, eto, yn ddiweddarach, tawelodd yr ymbleidio oherwydd yn 1721 roedd cynrychiolwyr o eglwys Henllan wedi troi at Rydyceisiaid yn deisyf arnynt i ollwng Henry Palmer i fod yn weinidog arnynt. Wedi iddo ddychwelyd

> adferwyd yr hen eglwys i'w phwyll Annibynnol, a gorseddwyd Annibyniaeth fel cyfundrefn wedi ei chyd-dymheru ag anianawd werinol Anghydffurfwyr y fro. Yn y man, gwelir clystwr o eglwysi mân yn taflu'u llewyrch ar daen a Henllan yn oleuad mawr yn eu canol.[19]

Uchel Galfiniaid nad oedd yn barod i gyfaddawdu dim oedd Lewis Thomas, Henry Palmer a Mathias Maurice yn Rhydyceisiaid, ac yn dal at y drefn Gynulleidfaol fel trefn lywodraeth eglwysig. Wedi dychweliad Palmer i Henllan 'yr argraff a grëir yw bod eglwys Henllan wedi ailfeddiannu'r athrawiaeth a'r ddisgyblaeth a fodolai yn ystod gweinidogaeth Dafydd Lewis, ac felly wedi unioni'r cam a wnaethpwyd â Lewis Thomas a'i blaid yn ystod y gwrthdaro'.[20] Honnwyd hefyd mai 'safiad Lewis Thomas a'i ddilynwyr yn ddiau a achubodd Henllan rhag gwyro a'i cholli'i hun yn llwyr yn y Bresbyteriaeth a ddatblygodd yn ddiweddarach yn Undodiaeth'.[21] Ar un wedd, peth diflas iawn oedd yr ymbleidio hwn, ond ym marn yr haneswyr Thomas Rees a John Thomas, ni fu'n ddi-les:

---

[16] Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist*, t. 29.
[17] Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, tt. 321-4.
[18] Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, tt. 324-8.
[19] J. Dyfnallt Owen, 'Camre cyntaf Anghydffurfiaeth ac Annibyniaeth yn Sir Gaerfyrddin', *Y Cofiadur*, 13 (1936), 3-56 [43].
[20] Thomas, 'Mathias Maurice (1684-1738) a'i eglwysoleg', t. 11.
[21] Owen, 'Camre Cyntaf Anghydffurfiaeth ac Annibyniaeth yn Sir Gaerfyrddin', 43.

> Er i'r dadleuon a'r terfysgoedd hyn fod yn ddolur calon i bob dyn da yn y ddwy blaid, ac iddynt yn ddiau fod yn destynau gwawd i lawer o annuwiolion, etto cawsant eu goruwchlywodraethu er daioni mawr. Buont yn foddion i gyffroi meddyliau i fyfyrio ac i geisio deall gwirioneddau mawrion yr efengyl ... Effeithiodd dadl Henllan yn ddaionus ar eglwysi Cymru yn gyffredinol, fel na oddefwyd i olygiadau cyfeiliornus ymlusgo i mewn iddynt yn y blynyddau dyfodol heb wrthwynebiad penderfynol a chryf iawn.[22]

Erbyn dyddiau David Davies, Morgan Jones a David Peter, roedd dadleuon Henllan ymhell yn y gorffennol ond roedd yr ymbleidio ynghylch yr union ddiwinyddiaeth yn dal i gorddi'r eglwysi. Gellir dadlau ei fod yn gysgod dros y rhwyg a fu yn eglwys Glandŵr ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, ac roedd gan Morgan Jones gysylltiadau agos â Glandŵr a'i gweinidogion.

Byth oddi ar ddyddiau Thomas Perrot fel pennaeth, bu Academi Caerfyrddin yn fagwrfa i syniadau Arminaidd ymwreiddio ymhlith y myfyrwyr, a thrwy eu dylanwad, lledodd y syniadau rhyddfrydig yn helaeth i'r eglwysi, a gwelwyd rhywrai ymhlith yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn cofleidio Arminiaeth. Bu'r dadlau yn achos rhwygiadau mewn amryw o eglwysi, gan gynnwys eglwysi y bu gan Morgan Jones gysylltiadau uniongyrchol â hwy.

*Dadleuon Cefnarthen*

Cafwyd dadlau diwinyddol yn eglwys Cefnarthen yn nwyrain Sir Gaerfyrddin trwy ei chysylltiad ag eglwys Cwm-y-glo ym Merthyr. Bu Roger Williams yn rhannu ei weinidogaeth rhwng Cwm-y-glo a Chefnarthen rhwng 1698 a 1730. Arminiad ydoedd ac ar ôl ei farw yn 1730, cymaint oedd yr ymbleidio rhwng yr Arminiaid a'r Calfiniaid nes creu ymraniadau yn y ddwy gynulleidfa. Ar un adeg roedd tri gweinidog yn gwasanaethu eglwys Cefnarthen: David Williams a John Williams oedd dewis weinidogion y blaid Arminaidd gyda David Thomas yn ddewis weinidog y blaid Galfinaidd.[23] Wedi i David Thomas ymadael, ymrannodd y gynulleidfa yng Nghefnarthen yn 1740: 'Cadwodd yr Arminaid feddiant o'r capel, ac aeth y Calfiniaid i addoli i le a elwir Glynypentan'.[24] Roedd Howell Harris wedi tystio i'r awyrgylch ddiflas pan fu yno ar daith pregethu yng Ngorffennaf 1739: 'I rode in great Haste to Rhandir issa', meddai 'discoursed to several hundreds, dry, it being a congregation in a sad confusion through Arminianism brought there'.[25] Yn 1749 codwyd capel Pentre-tŷ-gwyn ar dir a roddwyd ar gyfer y Calfinaid gan un o'u haelodau sef Dorothy Williams, Cefn-y-coed, mam William Williams Pantycelyn. Ac nid tan 1772 yr adferwyd y rhwyg pan unwyd Pentre-tŷ-gwyn â Chefnarthen yn ystod gweinidogaeth Morgan Jones, Tŷ-gwyn. Wedi hynny un eglwys Galfinaidd ei hymlyniad fu Cefnarthen a Phentre-tŷ-gwyn ond gyda'r aelodau yn parhau i addoli yn y ddau le. Mi fyddai Morgan Jones Tre-lech, brodor o Lywel, o fod wedi ei godi yn yr eglwys, yn ymwybodol iawn o'r hanes ynghyd â'r sôn am chwerwder yr ymranaid. Mae lle i gredu mai derbyn y golygiadau Calfinaidd a wnâi yntau o'i ddyddiau cynnar, a byddai

[22] *HEAC*, III, t. 340.
[23] *HEAC*, III, tt. 582-3.
[24] *HEAC*, III, t. 583.
[25] Gomer Morgan Roberts, *Y Pêr Ganiedydd (Pantycelyn)*, Cyfrol 1 (Llandysul: Gwasg Gomer, 1949), t. 42.

hynny'n gydnaws â'r aelwyd grefyddol lle bu'n lletya wrth wasanaethu Morgan Davies yng Ngefntelych. Bu'r aelwyd yno yn gartref i seiadau cynnar y Methodistiaid yn yr ardal.[26]

Ceir rhywfaint o hanes yr achos yn Cefnarthen a Phentre-tŷ-gwyn rhwng Gorffennaf 1731 ac Hydref 1756 yn nyddlyfr Morgan Williams, henuriad yn yr eglwys ac un o'r rhai fu'n arolygu y gwaith o adeiladu capel Pentre-tŷ-gwyn .[27] Wedi marwolaeth Morgan Williams daeth ei ddyddlyfr i feddiant Morgan Davies, Cefntelych, a barhaodd i'w gadw yn null Morgan Williams hyd 1774.

> Mae enw Morgan Davies hefyd yn deilwng o gael ei gadw mewn cof. Pe na wnelsai unrhyw wasanaeth yn ei oes ond cynorthwyo yr enwog Morgan Jones, Trelech, pan yn fachgenyn tlawd, i ddyfod yn ddyn cyhoeddus, dylai ei enw gael ei gadw mewn coffadwriaeth byth.[28]

Ystyriaeth arall dros feddwl am Morgan Jones fel Calfinydd yw'r cyfeiriad ato fel fel 'Morgan Jones, Pentretygwyn'[29] a'r sôn amdano fel un o'r ychydig ddynion mwy talentog na'r cyffredin yn ei gyfnod gafodd ei ordeinio heb iddo dderbyn addysg yn un o'r prif academïau. A thebyg iawn mai ei dueddiadau Calfinaidd fyddai wedi ei arwain i athrofa baratoawl John Griffiths yng Nglandŵr.

*Academi Caerfyrddin a'r 'Associated Ministers'*[30]

Gydag amser daeth y Calfiniaid ymhlith yr Annibynwyr yn fwyfwy anniddig gyda'r pwyslais Arminaidd a oedd yn cael cymaint o le trwy ddylanwad Academi Caerfyrddin. Byddai'r eglwysi Presbyteraidd ac Annibynnol yn arfer cynnal cyfarfod blynyddol yn y dref ar adeg arholi'r myfyrwyr a 'barnwyd fod athrawon yr academi ynghyd â'u cyfeillion yn gofalu bod yr Arminiaid neu'r Pelagiaid yn cael y llwyfan iddynt eu hunain, ac o ganlyniad diystyrwyd y gweinidogion Calfinaidd yn llwyr'.[31] A thrwy ddylanwad darlithio Samuel Thomas oedd wedi cofleidio Arminiaeth roedd y Bwrdd Cynulleidfaol yn bryderus 'y byddai'r myfyrwyr yn colli'r llwybr diwinyddol cywir'.[32] Yr ofn bod y myfyrwyr yn cefnu ar uniongrededd draddodiadol yr Annibynwyr oedd yn gyfrifol am benderfyniad y Bwrdd Cynulleidfaol yn 1754 i dynnu allan o Academi Caerfyrddin gan roi heibio cynnal yr athrawon a'r myfyrwyr yno. Am fod Samuel Thomas, yr is-athro, yn rhoi cymaint o le i Arminiaeth, gadawodd John Griffiths, Glandŵr, a thri arall yn 1757, a symud i'r academi Galfinaidd roedd y Bwrdd Cynulleidfaol newydd ei sefydlu yn y Fenni.

Wedi i Griffiths ymsefydlu'n weinidog yng Nglandŵr bu'n flaengar yn ei berthynas â Chwrdd Chwarter y gweinidogion. Roedd yn frwd dros warchod uniongrededd, ac yn 1771

[26] Gomer M. Roberts, *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru Cyfrol 1: Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1973), tt. 147, 183, 216, 249 a 426.
[27] Rhys Davies, *Cefnarthen, y Comin, y Capel a'r Ysgol* (Clydach: W. Walters a'i Fab, 1983), t. 37.
[28] *HEAC,* III, t. 587.
[29] *HEAC,* II, t. 47.
[30] Cf. D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales: 2. The Long Nineteenth Century, 1760-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2021), tt. 50-4.
[31] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 67; cf. Thomas Rees, *A History of Protestant Nonconformity in Wales* (London: John Snow, 1883). t. 387.
[32] Geraint Dyfnallt Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), t 32.

arweiniodd yn y mater o gael cyfansoddiad gydag amodau athrawiaethol i'w aelodau.[33] Protestiodd yr Arminiaid yn erbyn mabwysiadu'r cyfansoddiad a gosodasant eu safbwynt mewn *Declaration and Protest* (1771). Yn y datganiad ni fynnent glymu eu hunain i ddogma a chredo 'gan ddatgan mai'r Beibl yw unig safon ffydd ac na ddylai'r gweinidogion danysgrifio unrhyw esboniad dynol ar yr Ysgrythur na defnyddio'r cyfryw ddogfen yn safon uniongrededd'.[34] Atebodd y gweinidogion Calfinaidd trwy gyhoeddi *A Vindication of the Conduct of the Associated Ministers of Wales* (1772). Ac er mwyn amddiffyn athrawiaeth bur ac uniongred y bu Protestaniaid yn frwd o'u plaid:

> Cymeradwyodd y 'Vindication' i'r Cwrdd Chwarter ganolbwyntio ar yr athrawiaethau hyn: Trindod o bersonau yn yr hanfod dwyfol, cyflwr llygredig a phechadurus y ddynolryw, wrth natur; etholedigaeth a'i sail ar ras a thrugaredd Duw; ymgnawdoliad Mab Duw, ei Ddwyfoldeb a'i wir ddyndod, mewn undeb personol; ei waith dirprwyol dros y saint, ei aberth drosom a boddhad Crist i lwyr foddio'r cyfiawnder Dwyfol; cyfiawnhad trwy ffydd, trwy gyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i ni; effeithiolrwydd yr Ysbryd Glân yn nhywalltiad gras, a gwaith yr Ysbryd yn cynnal a meithrin gras, yn peri cynnydd ynddo, hyd at y cyflawnder, yn y gogoniant.[35]

Roedd yn ateb i gyfeiliorni syniadau Arminaidd ac Ariaidd a oedd yn ennyn cryn gefnogaeth yn Academi Caerfyrddin. Arweiniodd ei gyhoeddi at rwyg terfynol rhwng yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid. Roedd ei gynnwys yn wrthun i'r gwrth-Galfiniaid, a chanlyniad cau'r drws i bob pwrpas ar y gwrth-Galfiniaid, yn ddiweddarach, oedd iddynt glosio at ei gilydd gan sefydlu erbyn 1802 Gymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.[36]

Diau bod y Calfiniaid yn gweld yr angen i fabwysiadu cyfansoddiad i warchod uniongrededd ddiwinyddol oherwydd bod cymaint o eglwysi yn y gorllewin eisoes wedi cefnu ar egwyddorion Calfinaidd. Roedd Arminiaeth wedi lledu i eglwysi Phylip Pugh yng Ngheredigion. Ar ôl marw Pugh yn 1760 symudodd tair o'i gynulleidfaoedd – Cae'ronnen, Cilgwyn a Ciliau Aeron yn gyflym i gyfeiriad Ariaeth cyn troi, erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn achosion Undodaidd. Jenkin Jones, a gododd gapel Llwynrhydowen ar ei dir ei hun yn 1733, oedd arloeswr Arminiaeth yn y cylch a diddyfnodd Dafydd Llwyd, ei olynydd, lawer o Annibynwyr siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin oddi wrth eu hen Galfiniaeth. Wrth grynhoi hanesion y gwahanol eglwysi yng nghyfrolau *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru,* ceir cyfeiriadau mynych am gynnydd Arminiaeth,

> a bod amryw o'r aelodau agos yn mhob cynnulleidfa yn anghymeradwyo dull anefengylaidd eu gweinidogion o bregethu ... Nid oes un sicrwydd fod ychwaneg na dau neu dri o weinidogion Ymneillduol yn Nghymru yn pregethu Arminiaeth neu Belagiaeth noeth cyn y flwyddyn 1740, ond o'r flwyddyn honno allan ymdaenodd y lefain yn fwy cyffredinol ac amlwg, nes nad oedd ond ychydig iawn o'r hen eglwysi yn rhyddion hollol oddiwrtho.[37]

---

[33] Gw. R. Tudur Jones, 'Yr Eglwys a'r Eglwysi: Trefniadaeth Ryng-Eglwysig yr Annibynwyr, 1639-1850' yn Morgan (gol.) *Grym y Gair a Fflam y Ffydd,* tt.72-5; cf Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth,* tt. 67-70.
[34] *HAC,* t. 163.
[35] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth,* tt. 69-70.
[36] T. Oswald Williams, *Undodiaeth a Rhyddid Meddwl* (Lladysul: Gwasg Gomer, 1962), tt. 246-8.
[37] *HEAC,* IV, t. 178.

Mae'n debyg nad oedd fawr o rym yn yr eglwysi i atal y llanw Arminaidd 'ac nid yn unig yr oedd rhywrai yn yr eglwysi wedi coleddu y cyfeiliornadau hyn, ond yr oedd pawb ymron, yn swyddogion ac aelodau yn cydymffurfio â'r cyfeiliornwyr. Nid oedd dim ysbryd ynddynt i wrthsefyll y cyfeiliornadau'.[38] Yn eglwys Annibynnol Llechryd, dywedir bod tri o'i gweinidogion, sef David Evans, David Griffiths a Griffith Griffiths, yn wahanol i'w rhagflaenwyr, heb fod yn selog 'dros yr hyn a ystyrir yn "athrawiaeth iachus". Os nad oeddynt yn Arminiaid, Pelagiaid, neu Ariaid proffesedig eu hunain, yr oeddynt yn cyfeillachu a gweinidogion o'r golygiadau hyny, ac yn eu derbyn i'w pulpudau'.[39] Am y tri gweinidog a enwyd:

> Nid oes gennym un sail i'w cyhuddo o fod yn Ariaid nac yn Undodiaid, ond y mae yn amlwg eu bod y peth a adwaenir dan yr enw *Latitudinarians*, hyny yw, dynion yn dal nad yw o un pwys pa beth fyddo credo dyn, ond iddo fod yn foesol ei fuchedd. Yn gydweddol a'r syniad hwn cyfeillachent hwy a gweinidogion o bob credo, a newidient bulpudau yn ddiwahaniaeth a hwynt. Y canlyniad fu i'r eglwys dan eu gofal fyned yn gymysgedd o Galfiniaeth, Arminiaeth, Ariaeth, ac Undodiaeth, ac iddi yn y diwedd rwygo yn yfflon.[40]

*Benjamin Evans, y Dre-wen*

Mewn perthynas â'r athrawiaeth a arddelid, cymysglyd iawn oedd yr hinsawdd ddiwinyddol yn eglwys Dre-wen pan symudodd Benjamin Evans yno i weinidogaethu yn 1779:

> Yn yr amser hwnw yr oedd rhyw gymysgedd rhyfedd wedi dod i mewn i'r eglwysi Ymneillduol, yn enwedig yn siroedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Morganwg ... Er cadw y cymysgedd hwn yn nghyd heb ymranu i wahanol gynulleidfaoedd neu enwadau, ystyrid yn angenrheidiol i'r gweinidogion yn eu pregethau gyfyngu eu hunain i ddyledswyddau ymarferol crefydd yn unig, heb gyffwrdd ag un pwnc y gallasai fod gwahaniaeth barn yn ei gylch. Felly y gwnelai llawer o'r gweinidogion, a thrwy hyny ni chlywai eu cynulleidfaoedd air o ddechrau y flwyddyn i'w diwedd am y pethau a ystyriai y Calfiniaid yn wirioneddau hanfodol yr efengyl. Ystyrid pob gweinidog na chadwai at y rheol hon yn un cul, rhagfarnllyd, anfoneddigaidd, ac yn derfysgwr heddwch y cynnulleidfaoedd.[41]

Ond pan gafodd Benjamin Evans yr alwad oddi wrth eglwys Dre-wen, fe'i derbyniodd 'ar yr amod iddo gael bod at ei ryddid i draddodi iddynt holl gyngor Duw, fel y credai ac y deallai efe ef.'[42]

> Cydunodd eglwys y Drewen i dderbyn Mr. Evans ar yr amodau a osodasai efe iddynt, ond y mae yn debygol fod rhai o'r blaid wrth-Galfinaidd o honynt yn meddwl y buasai efe yn ddigon o ŵr bonheddig i wneyd aberth o bob peth er mwyn heddwch, ond yn hyn camgymerasant eu dyn. Yr oedd Mr Evans yn ŵr bonheddig yn holl ystyr yr

---

[38] Henry Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon: Gwasg Genedlaethol Gymreig, 1906), t. 162.
[39] *HEAC*, IV, t. 155.
[40] *HEAC*, IV, t. 159.
[41] *HEAC*, IV, t. 167.
[42] *HEAC*, IV, t. 167.

> ymadrodd, ond nid ystyriai ef mai boneddigeiddrwydd mewn gweinidog fuasai celu oddiwrth ei wrandawyr yr hyn a ystyriai fel y gwirioneddau pwysicaf yn y Bibl, er mwyn cadw pob math o ddynion yn nghyd yn un gynnulleidfa. Ar y dechrau efe a arferodd lawer o bwyll a doethineb, fel y gallasai, os byddai modd, ennill ei wrandawyr oll i'r un golygiadau ag yntau.
>
> Ystyriai mai annoethineb fuasai tarfu neb ymaith os gallesid eu cadw heb fradychu y gwirionedd. A llwyddodd, trwy ei arafwch a'i ddoethineb, i gadw y rhan fwyaf o honynt, ond o radd i radd aeth tôn ei weinidogaeth yn rhy efengylaidd i rai i'w goddef, a'r canlyniad fu iddynt ymadael, ond ymadael i roddi lle i'w gwell wnaethant. Yn raddol daeth yr eglwys gymysglyd hon yn un o'r eglwysi iachusaf ei barn yn y Dywysogaeth.[43]

Am Benjamin Evans, dywedir 'yr oedd yn Galfin uchel am flynyddoedd a daliai ar bob cyfle i wrthwynebu Arminiaid ac Undodiaid yn y cylch. Cymedrolodd ei Galfiniaeth cyn diwedd ei oes'.[44] Ef oedd y gweinidog yn Penrhiwgaled pan gyflwynodd David Peter ei hun i'r weinidogaeth. Bu'n cydweithio â Morgan Jones, yn arbennig mewn perthynas â'r gymanfa bwnc. Roedd ei lwyddiant i ennill eglwys Dre-wen i'r ffydd uniongred yn batrwm i David Peter wneud yr un peth yn Heol Awst maes o law.

*David Davies a Phen-rhiw*

Clywir adlais o'r aflonyddu ar dir athrawiaeth yn hanes David Davies yn fuan wedi ei dröedigaeth a chyn ei urddo'n weinidog. Mae lle i gredu iddo adael yr achos Arminaidd ym Mhen-rhiw ac ymaelodi ym Mhencader, eglwys Galfinaidd, ac iddo gael ei ddrwgdybio o fod yn gul a rhagfarnllyd yng ngolwg llawer, a dyma un o'r rhesymau pam y cymerwyd hyd at bum mlynedd wedi iddo gychwyn pregethu cyn yr aethpwyd ati i'w ordeinio. Er yr amrywiaeth mewn safbwyntiau diwinyddol, ni edrychid yn ffafriol ar neb a fyddai'n pellhau eglwysi oddi wrth ei gilydd, beth bynnag eu daliadau athrawiaethol.

> Nid oedd Ariaeth noeth hyd yn hyn wedi tori allan yn yr eglwysi a elwid yn Bresbyteraidd ac felly ni chyfrifid y cynnulleidfaoedd hyny oeddynt wedi coleddu Arminiaeth neu Belagiaeth, yn blaid wahanol oddiwrth yr Annibynwyr. Byddai y gweinidogion yn gyffredin yn newid pulpudau a'u gilydd, ac yn cydgynal cyfarfodydd urddiadau, cymanfaoedd, &c. Yr oedd *ychydig* o'r gweinidogion a'r cynulleidfaoedd mwyaf selog dros Galfiniaeth yn dechrau sefyll draw oddiwrth y rhai a gyfrfid yn Arminiaid; ond yr oedd mwyafrif y gweinidogion a'r eglwysi mwyaf dylanwadol, yn dawel i bethau fod fel yr oeddynt, ac yn hytrach yn beio y rhai a ddywedasent neu a wnaethent unrhyw beth a dueddasai i oeri y Calfiniaid a'r Arminiaid at eu gilydd. Dichon gan hyny, i ymadawiad Mr. Davies a'r Arminiaid yn Mhenrhiw, a'i ymuniad a'r Calfiniaid yn Mhencadair, fod yn foddion i beri i rai gweinidogion edrych gyda gradd o wg a drwgdybiaeth arno.[45]

[43] *HEAC*, IV, t. 176.
[44] *Bywg*, t. 205.
[45] *HEAC*, II, tt. 46-7.

*Llythyrau'r gymanfa*

Ceir syniad pur eglur am y sefyllfa athrawiaethol yn llythyrau cymanfaoedd yr Annibynwyr. Yn llythyr cymanfa Tre-lech 1792 rhoddwyd yr anogaeth i'r eglwysi gydymdrechu o blaid y ffydd a roddwyd i'r saint, i ddal cyffes eu gobaith yn ddi-sigl heb gymryd eu dychryn gan y rhai a oedd yn gwrthwynebu athrawiaethau sylfaenol 'sef Trindod o Bersonau, Duwdod ein Harglwydd Iesu Grist, haeddiant ei aberth, a gwaith yr Ysbryd Glan ar galonnau dynion'.[46] Wedi tanlinellu athrawiaeth y Drindod, dywedwyd:

> Cofiwch fod yn rhaid *bedyddio yn enw'r* TAD, *y* MAB, *a'r* YSBRYD GLAN; hefyd mai mawr *yw* DIRGELWCH *duwioldeb*, DUW *a ymddangosodd yn y cnawd*, ei fod ef yn DDUW *bendigedig uwchlaw pawb yn oes oesoedd*; ac i Grist ein *llwyr-brynu ni oddi wrth felltith y ddeddf gan ei wneuthur ei hun yn felltith drosom, i'r Arglwydd roddi arno ef ein hanwireddau ni i gyd,* ac iddo *ddwyn ein pechodau yn ei gorph ar y pren*, &c.[47]

A thrachefn yn llythyr cymanfa'r Bala 1793 mynegid pryder bod 'rhai sydd yn darllen y Testament Newydd yn gwadu athrawiaeth y Drindod, Duwdod Crist, a'i haeddiant;-adenedigaeth trwy waith Ysbryd Duw' a 'rhai yn ein dyddiau yn ofni rhoddi dwyfol addoliad i Iesu Grist'.[48] Roedd yr ôl-nodiad i lythyr cymanfa Mynydd-bach yn 1795 gan un oedd yn dymuno gwarchod athrawiaeth bur yn dangos pa mor gynhennus oedd yr awyrgylch ar y pryd:

> Yr oedd hi yn amser brwd iawn, pan ysgrifenwyd y Llythyr hwn, rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth, a rhwng pleidwyr a gwadwyr Duwdod Crist. Yr oedd y rhan luosocaf o'r pregethau a'r ysgrifeniadau, o eiddo y naill blaid a'r llall, yn llawn o ymadroddion tanllyd dros yr athrawiaeth a goleddid, ac yn llawn o ergydion diarbed ar ben y gwrthwynebwyr.[49]

Yn wyneb y llacio ar uniongrededd, mae'n amlwg fod llawer yn credu bod rhaid iddynt frwydro i ddiogelu diwinyddiaeth iach a bod yn ofalus 'rhag cyfeiliorni mewn barn am fawrion Athrawiaethau'r Efengyl'.[50]

Ceid yn y llythyrau fynych rybuddion yn wyneb ymosodiadau ar y ffydd oherwydd y duedd i ddyrchafu rheswm a diystyru datguddiad: 'Galarus meddwl am y bobl a wadant agos bob peth ag sydd uwchlaw cyrhaeddiad rheswm, heb ddwyfol ddadguddiad'.[51] Yn llythyr cymanfa Merthyr yn 1798, cyfeiriwyd yn bryderus at y twf mewn rhesymoliaeth fel y 'lledrith' a oedd yn ymledu dros y tir 'yn ymchwyddo ac yn ymledu fwyfwy yn ein Dyddiau, nes yw calon pob gwir Gristion dealladwy yn drwmlwythog dristau a gofidio'. Rhybuddiwyd hefyd rhag 'rheswm gwan a chnawdol a Dych'mygion ffol Dynion llygredig eu Meddwl' y rhai wrth ddadlau yn groes i Air Duw, a'r datguddiad o feddwl Duw drwyddo oedd yn dal at ddysgeidiaeth gyfeiliornus 'megis Sociniaeth, yr hyn yw gwadu Duwdod ein Harglwydd a'n

46 *CyA*, t. 28.
47 *CyA*, t. 28.
48 *CyA*, t. 38.
49 *CyA*, t. 52.
50 *CyA*, t. 37
51 *CyA*, t. 38.

Iachawdwr Iesu Grist'.[52] Roedd Rhesymoliaeth yn gwadu athrawiaeth yr ymgnawdoliad ac Ariaeth yn 'gwadu'n llwyr yr athrawiaeth uniongred am Berson Crist, fel Un oedd o'r un hanfod neu sylwedd (*substance)* â'r Tad'.[53] Roedd gwadu'r ymgnawdoliad yn tanseilio gwerth aberth Iesu ar y groes a phwysleisia llythyr cymanfa Merthyr bwysigrwydd gweinidogaeth Iesu fel Cyfryngwr rhwng dyn a Duw a'r berthynas rhwng ymgnawdoliad Crist a'i aberth iawnol ar Galfaria:

> Dyma ein hunig Gyfryngwr cyflawn, a'n Iachawdwr, a'n Priod, a'n cwbl i Drag'wyddoldeb. Gogoniant iddo byth - Deallwch a chofiwch, mai nid Duw Creüedig îs na'r Tad yw eich Iachawdwr mawr chwi a minnau, megis yr ofer-siarad y Lledrith byth, nag ê, ond Trag'wyddol Fab y Tad ydyw, gogyfywch a gogyhyd ... ac fe argraphodd ei Ddwyfol Rinwedd ar bob Rhan o Ufydd-dod gweithredol a dioddefodd ei Aberth, sef y Natur ddynol, Gorph ac Enaid, fel ag yr attebodd yr Ufydd-dod yn gyflawn i'r Gofyniad, yr hyn nid all'sai fod, oni buasai y Meichiau yn un mor Anfeidrol a'r Gofynwr.[54]

Roedd yn amlwg bod ymgais fwriadol yma i ymwrthod â'r Ariaeth a'r Sociniaeth a oedd ar gynnydd oherwydd tuedd yr oes i ddyrchafu rheswm ac i ymwrthod â datguddiad.

*'Y System Newydd'*

Erbyn ail ddegawd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd gwedd newydd ar Galfiniaeth wedi dod i'r golwg sef 'y Galfiniaeth Fodern' neu'r 'System Newydd',[55] a chafodd hon effaith ar ddatblygiad Annibyniaeth yn y de-orllewin. Adwaith oedd 'y Galfiniaeth Fodern' i'r syniad absoliwt o sofraniaeth Duw a thuedd yr Uchel-Galfiniaeth i briodoli colledigaeth dyn nid i'w bechod ond i'r arfaeth ddwyfol. Mewn geiriau eraill, roedd y 'Galfiniaeth Fodern' yn cynnig 'ffordd amgenach o ddehongli'r berthynas rhwng sofraniaeth Duw a'r ymateb dynol nag a fu'n gyffredin o'r blaen'.[56] Ei phennaf ladmerydd oedd Edward Williams, Rotherham. Roedd yn frodor o Lan-clwyd a bu'n aelod yn eglwys Lôn Swan yn Ninbych. Treuliodd gyfnod fel pennaeth yr academi Annibynnol yng Nghroesoswallt, a diweddodd ei yrfa yn bennaeth Academi Rotherham rhwng 1795 a'i farw yn 1813. Dylanwad pregethu Methodistaidd a fu'n gyfrwng ei dröedigaeth, cyn iddo droi at yr Annibynwyr yn Lôn Swan. 'Ym mhersonoliaeth Williams cyfunwyd y brwdfrydedd Methodistaidd â diddordebau athrawiaethol yr Hen Ymneilltuwyr ac ymdeimlai'n ddwys â'r tyndra rhwng ysbryd milwriaethus y Diwygiad a grymuster deallol y gyfundrefn Galfinaidd'.[57] Yn ei draethodau *An Essay on the Equity of Divine Government and the Sovereignty of Divine Grace* (1809) a *A Defence of Modern Calvinism* (1811) bu'n ymrafael â chwestiwn sofraniaeth Duw ac ymateb dyn yng nghadwedigaeth pechaduriaid, gan ymdrechu i roi gwedd fwy tyner ar athrawiaeth cadwedigaeth a cholledigaeth, ac i gael safbwynt a fyddai'n fwy cydnaws ag ysbryd cenhadol yr oes. Yn hytrach na gwasgu'r syniad bod Duw yn condemnio, rhoddodd fwy o bwyslais ar ryddid a chyfrifoldeb dyn i gredu. 'Yn ôl y Galfiniaeth Fodern, nid arfaethodd Duw ddamnio

---

[52] *CyA*, t. 73.
[53] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 66.
[54] *CyA*, t. 73.
[55] Gw. Morgan, *Theologia Cambrensis: 2. The Long Nineteenth Century*, tt. 133-6, 176-7.
[56] D. Densil Morgan, 'Credo ac Athrawiaeth', yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru,* Cyfrol 3 (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011), tt. tt. 112-86 [126-7].
[57] *HAC*, t. 171.

neb; y bwriad dwyfol oedd i bawb edifarhau a choleddu'r bywyd. Os oedd damnedigaeth, dyn ei hun oedd yn gyfrifol amdani er bod etholedigaeth eto'n ffaith'.[58]

Treiddiodd dylanwad Edward Williams i Gymru trwy ei gyfeillion a'i ddisgyblion. Bu'r Dr George Lewis yn amlwg yn dal syniadau lled uchel o ran ei Galfiniaeth. Roedd yn gyfaill i Edward Williams ac arolygodd lawysgrif ei gyfrol *Corph o Dduwinyddiaeth* (1797).[59] Yn y gyfrol hono dysgu am Iawn cyfyngedig wnaeth Lewis. Ond erbyn 1805, pan gyhoeddodd ei bregeth *Dyledswydd Pawb a glywant yr Efengyl i gredu yng Nghrist* dadleuodd nad yw Duw 'wedi arfaethu anghrediniaeth y rhai nad ydynt ddim yn credu yng Nghrist', a bod 'anghrediniaeth, yr un fath a phob drwg arall, yn hollol o ddyn ei hun'.[60] Tybed felly a oedd erbyn hynny'n derbyn carn athrawiaeth y Galfiniaeth Fodern mewn perthynas â'r Iawn, sef ei fod yn gyffredinol, yn ddigonol ar gyfer pawb, a chyfrifodeb pawb oedd edifarhau a chredu'r Efengyl? Roedd Edward Williams yn dysgu bod 'yr Iawn yn gyffredinol, a'r Prynedigaeth yn neillduol; y naill yn golygu pris haeddiannol, a'r llall y waredigaeth weithredol trwyddo'.[61] Yn ôl R. Tudur Jones 'yr oedd Lewis eisoes yn symud oddi wrth y math Calfiniaeth a gysylltid yn ddiweddarach ag enw Elias at y Galfiniaeth a goleddai Thomas Jones o Ddinbych, ffrind plentyndod i Edward Williams'.[62] Dywedodd Benjamin Evans, fu'n weinidog yn Llanuwchllyn rhwng 1769 a 1777, ac yn ddiweddarach yn un o gyfeillion Morgan Jones Tre-lech, ei fod wedi darllen yr *Equity* gan Edward Williams, a'i fod yn cymeradwyo yn wresog yr hyn a ddysgai gan ddatgan mai dyna oedd yr athrawiaeth yr oedd wedi ei choleddu ers deng mlynedd ar hugain. Ond mae'n debyg fod Evans yn honni gormod.[63]

Yng Nghymru ar ei ddisgyblion y dylanwadodd Edward Williams fwyaf, a'r amlycaf o'i fyfyrwyr Cymreig oedd John Roberts Llanbryn-mair a fu am gyfnod o dan ei addysg yn Academi Croesoswallt yn 1790.[64] Roedd yn ddiwinydd craff ac yn 1806, cychwynnodd gyfrannu i ddadleuon diwinyddol ei ddydd trwy gyhoeddi ei *Annerch Caredigol* a anelwyd at yr Arminiaid, a'u hailgyfarch ymhen blwyddyn gyda *Galwad Garedigol*.[65] Yn ddiweddarach ymyrrodd yn y drafodaeth rhwng Calfiniaid â'i gilydd. Yn 1814 cyhoeddodd ei *Cynnygiad Gostyngedig*. Roedd Thomas Jones yn anghydweld â rhai o'i osodiadau ac eglurodd ei safbwynt yn *Ymddiddanion rhwng Ymofynydd a Henwr* (1819). Mewn ymateb i lyfr Thomas Jones cyhoeddodd Roberts y gyfrol *Galwad Difrifol* (1820), a chan fod clawr y gyfrol wedi ei rhwymo mewn papur glas, daeth i gael ei adnabod fel 'Y Llyfr Glas'. 'Ynddo ceir rhywbeth mwy na datganiad o safbwynt personol John Roberts. Mewn gwirionedd, dyma faniffesto'r Calfiniaid Cymedrol'.[66] Roedd dwy ran o dair o'r gyfrol yn waith John Roberts ac ymunodd chwech o weinidogion eraill gydag ef i gyfrannu atodiadau yn mynegi yr un safbwynt diwinyddol. 'Y gwŷr hyn oedd Williams o'r Wern; David Morgan, Machynlleth; Robert Everett, Dinbych; Michael Jones, Llanuwchllyn; James Griffiths, Tyddewi: John Breese,

---

[58] Morgan, 'Credo ac Athrawiaeth', t. 127.
[59] 'Williams, Edward', *Y Gwyddoniadur Cymreig,* VI **(**1868), t. 563.
[60] George Lewis, *Dyledswydd Pawb a glywant yr Efengyl i gredu yng Nghrist* (1805), tt. 41-2; hefyd *HAC,* t. 173
[61] Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1874), tt. 381-2.
[62] *HAC,* t. 173.
[63] *HAC,* t. 173; J. Bulmer, *Memoirs ... of ... Benjamin Evans* (Haverfordwest: Joseph Potter, 1826), t. 65.
[64] gw. T. Stephens (gol.), *Album Aberhonddu* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams, 1899), t. 41; *Bywg*, t. 813.
[65] gw. *HAC,* t. 174. Yn ôl R. Tudur Jones yr un yw sylwedd *Annerch Caredigol* ag *A Friendly Address* (1806) o waith Roberts. Wedi i Thomas Brocas ei ateb, cyhoeddodd ei ateb yntau yn *A Second Friendly Address* (1807).
[66] *HAC,* t. 174.

Lerpwl; gyda Chadwaladr Jones, Dolgellau, yn gyfrifol am yr ôl-ysgrif ddienw'.[67] Ar y cychwyn, hwyrfrydig oedd gweinidogion y de-orllewin i dderbyn y syniadau hyn, a gwelir hyn yn amlwg yn y tensiwn a gododd rhwng James Griffiths Tyddewi a Morgan Jones Tre-lech.

## 2. Safbwynt Morgan Jones

Yng nghysgod dadlau diwinyddol y cyfnod gwelir mai Uchel-Galfin ac nid Calfin cymedrol neu un o wŷr 'y System Newydd' oedd Morgan Jones. Gwelir hyn yn ei berthynas â Richard Morgan, Henllan. Bu Morgan yn fyfyriwr yn Athrofa'r Fenni. 'Calfiniad diysgog o ran ei farn ydoedd, a gwreiddiodd bobl ei ofal yn yr un golygiadau. Yr oedd pob gwyriad oddiwrth yr hyn a ystyriau yn athrawiaeth iachus yn anyoddefol ganddo.'[68] Roedd yn un o gyfeillion pennaf Morgan Jones Tre-lech, a bu'r ddau yn cydlafurio yn helaeth wrth genhadu ymhlith y di-Gymraeg yn ne Sir Benfro, a go brin y byddent wedi cydweithio mor helaeth heb eu bod yn cydsynio o ran eu golygiadau ar bwnc athrawiaeth. Ceir yn Llyfr Eglwys Henllan gofnod o siars draddodwyd adeg neilltuo nifer o ddiaconiaid a henuriaid ddechrau 1800, gyda Richard Morgan a Morgan Jones yn dystion i'w neilltuo, a'u haddewid i lynu wrth yr athrawiaeth Galfiniadd.

> Yn gymaint a bod y pethau canlynol yn cael eu gwadu a'u gwrthwynebu yn fawr yn y dyddiau hyn, sef athrawiaeth o dri pherson yn y Duwdod, pechod gwreiddiol, etholedigaeth o rifedi neillduol i fywyd tragwyddol, Duwdod ac iawn Crist, gweinidogaeth Ysbryd Duw yn angenrheidiol ac anhebgorol i gyfnewid pechadur, parhad mewn gras, ac nad aiff dim o werth gwaed Crist i uffern, a pharhad tragwyddol i boenau yr annuwiol yn y byd a ddaw. Os bydd i rai yn eglwys Henllan, mewn amser i ddyfod, geisio gosod i fyny gymysgedd mewn gweinidogaeth, neu gymundeb a'r rhai a wadant y pethau uchod, a fydd i chwi Joshua Phillips, James Lewis, David Morgan, John Morgan, Lewis Roberts a Theophilus Morgan, i wrthwynebu y cyfryw gymysgedd?
>
> Ateb. Bydd.
>
> Hyn oedd ateb y personau uchod pan neilltuwyd hwy i fod yn ddiaconiaid a henuriaid i ac yn eglwys Henllan.
>
> Arwyddwyd hyn gan y personau uchod yn nghapel Henllan, Ionawr 25, 1800.
> R. Morgan, Henllan,
> M. Jones, Trelech. Tystion.[69]

Dywedwyd am Morgan Jones nad oedd ganddo fawr o gydymdeimlad â diwinyddiaeth 'y System Newydd'. 'Yr oedd yn wrthwynebydd penderfynol i olygiadau duwinyddol Dr. Williams ac Andrew Fuller, ac ofer oedd i neb o bleidwyr yr hyn a elwid yn System Newydd ddisgwyl unrhyw gymeradwyaeth oddiwrtho'.[70] I mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd Calfiniaeth gymedrol yn cael derbyniad helaeth ymhlith gweinidogion y gogledd. 'Syrthiodd gweinidogion y Gogledd agos oll i mewn â'r golygiadau newyddion, fel eu dysgid

[67] *HAC*, t. 174.
[68] *HEAC*, III, t. 344
[69] *HEAC*, III, t. 344.
[70] *HEAC*, III, t. 401.

gan Andrew Fuller, a Dr. Edward Williams'.[71] Ond araf a chyndyn oedd gweinidogion y de i roi derbyniad i'r golygiadau hynny.[72]

Yn Sir Benfro bu rhaid i James Griffiths Tyddewi wynebu cryn wrthwynebiad oherwydd ei fod yn bleidiol i'r System Newydd ac am y rhan a chwaraeodd yng nghyhoeddiad 'y Llyfr Glas'. Pan sefydlodd yn Nhyddewi yn 1814 'edrychid arno yn Sir Benfro gyda chilwg, fel un yn dwyn i mewn heresiau dinystriol: a barnai yr hen weinidogion mai diogelach iddynt oedd cadw yn mhell oddi wrtho'.[73] A chymaint oedd rhagfarn y gweinidogion yn ei erbyn fel y cynllwyniwyd yn ddirgelaidd i'w ddiarddel o'u cyfundeb. Roedd hyn wedi ymddangosiad 'y Llyfr Glas'. Cyfarfu nifer o weinidogion ym Maenclochog gyda'r bwriad hwn, gyda Morgan Jones yn flaenllaw yn eu plith. Am iddynt ystyried ei farn yn gyfeiliornus, y bwriad oedd i'w ddiarddel ynghyd â'i frawd Benjamin Griffiths, Treffgarn. Daeth James i wybod am y cyfarfod ac, yn groes i'r disgwyl, trodd i fyny i amddiffyn ei hun. Ceir adroddiad manwl o'r cyfarfod tymhestlog yn y cofiant a luniwyd iddo gan ei fab-yng-nghyfraith, Simon Evans.[74] Perswadiwyd Morgan Jones i gadeirio'r cyfarfod. Yn ôl Jones, roedd disgwyl i bob gweinidog arwyddo'i gydsyniad â'r Gyffes Ffydd a oedd yn gynwysedig yn Llyfr y Cwrdd Chwarter. Mae'n debyg mai cyfeiriad at yr amodau athrawiaethol a luniodd John Griffiths Glandŵr yn 1771 oedd hwn. Yn ôl yr hanes:

> 'Y mae amryw o honom ninau (ebe ef), wedi rhoddi eu henwau wrthynt, mae eraill heb wneud - yr ydym yn meddwl mai gwell fyddai fod y rhai ag ydynt o'r golygiadau hyny ac heb osod eu henwau wrthynt, yw gwneud felly, ac i ereill nad oeddent o'r golygiadau hyny i fod ar wahan, fel y byddo i undeb a brawdgarwch gael eu cynal yn ein plith'. Yna gofynodd i'r rhai nad oedd eu henwau ar lawr, 'A wnewch chwi eu *signo*?'[75]

Atebodd y mwyafrif eu bod yn barod i wneud, ond dywedodd Griffiths nad oedd yn medru llofnodi dogfen yn datgan ei gydsyniad am gredöau dynol heb eu gweld yn gyntaf ac nad oedd erioed wedi gweld Llyfr y Cwrdd Chwarter nac yn gwybod amdano. Dywedodd ymhellach petai yn cael gweld y cyfansoddiad er mwyn barnu drosto'i hun, y byddai, pe yn cydsynio â'r golygiadau, yn barod i'w arwyddo. Nid oedd y llyfr ar gael i'w weld, ond dywedodd Morgan Jones mai y *Pum Pwnc* oedd y golygiadau hynny. Dywedodd Griffiths ei fod yn credu yn y Pum Pwnc ond ei fod bob amser yn dal yr hawl i'w hegluro yng ngoleuni ei ddealltwriaeth ei hun. Yna aeth yn drafodaeth danllyd, gyda'r gweinidogion yn gyndyn iawn i roi cyfle iddo egluro ei safbwynt. Pan ofynnwyd cwestiwn iddo ar fater Athrawiaeth yr Iawn, atebodd Griffiths yn foddhaol. Roedd yn amlwg mai gwraidd y gwrthwynebiad tuag ato oedd cynnwys 'y Llyfr Glas'. Cododd James Meyler a gofyn p'un ai ydoedd yn cytuno â'r 'Llyfr Glas'? Atebodd Griffiths trwy ddweud: 'Nid wyf fi yn proffesu cytuno nac anghytuno âg un llyfr oll drwyddo, ond y Beibl. Nodwch i mi rywbeth yn y Llyfr Glas, mi a ddywedaf pwy mor bell yr wyf yn cytuno âg ef.'[76] Wedi i Griffiths lwyddo i dawelu ei feirniaid, gyda sywyddogion o

[71] John Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy* (Dolgellau: William Hughes, 1888), t. 112.
[72] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees*, tt. 112-3.
[73] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees*, t. 113.
[74] Simon Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths, Tyddewi* (Llanelli: Rees a Williams, 1860), tt. 19-22.
[75] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t. 20.
[76] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t. 22.

eglwysi cyfagos yn bresennol ac yn clywed y drafodaeth, daeth yn amlwg na allai'r gweinidogion gydag unrhyw hygrededd daflu James Griffiths a'i frawd allan o'u cyfundeb.

Yn y Cwrdd Chwarter dilynol a gynhaliwyd yng Nghydweli yn Hydref 1822, dywedodd Morgan Jones ei fod wedi cymryd yr hyfdra i ychwanegu at restr y gweinidogion enwau'r sawl nad oedd wedi arwyddo Llyfr y Cwrdd Chwarter yn flaenorol, ac er syndod i James Griffiths, ei enw ef ddarllenwyd allan gyntaf![77] Ciliodd y storm, daeth Griffiths a'r gweinidogion eraill bob yn dipyn i ddeall ei gilydd, a gydag amser daeth y rhan fwyaf ohonynt i bregethu'r un golygiadau ag ef.[78] Ond dengys yr hanes pa mor gyndyn oedd Morgan Jones i dderbyn Calfiniaeth Fodern 'y System Newydd'.

Hanesyn arall a ddengys yr un amharodrwydd oedd yr anghydfod rhyngddo a John Roberts Llanbryn-mair adeg cymanfa Blaen-y-coed, 6 a 7 Mehefin 1822. Roedd Roberts wedi trefnu i fynychu'r gymanfa, gan obeithio cael pregethu ynddi, ond daeth y gair i'w glustiau nad oedd Jones am ei weld yno rhag iddo wenwyno'r bobl gyda'i syniadau dieithr. Ysgrifennodd Roberts lythyr hynaws a charedig ato,

> yn mynegu yr hyn a glywodd, ac yn gwneud ei oreu i symud ymaith ei ofnau. Mae y llythyr yn llawn yn Ngofiant Mr. Roberts. Dywed ei fod ar ei daith, ac y byddai yn anhawdd iddo ar ol cynllunio osgoi y gymanfa, ac felly y byddai yno; ac os caniateid iddo bregethu y gwnai hyny heb beri tramgwydd i neb; ond os na chaniateid iddo, y cai fwynhau yn ddystaw weinidogaeth ei frodyr, ac uno â hwy i weddïo am wyneb yr Arglwydd ar y gymanfa.[79]

Cafodd llythyr Roberts yr ymateb y gobeithiai amdano, a bodlonodd Jones iddo bregethu. Ar y Dydd Iau, ail ddiwrnod y gymanfa, pregethodd yn gyntaf yn yr ail oedfa am 10.00 ynghyd â David Williams Llanfair-y-muallt a David Davies Sardis.[80] Er gwaethaf yr hyn a feddyliai Morgan Jones am olygiadau John Roberts, dywedir am Jones, er

> mor wrthwynebus y teimlai tuag at ei olygiadau; er ei fod ef ei hunan yn pregethu bron yr un golygiadau ond mewn termau gwahanol. Os na newidiodd ei farn am y golygiadau hyny, daeth i deimlo yn wahanol iawn at y rhai a'u pregethent, ac yr oedd yn dda ganddo gael eu cyfrif yn frodyr a chydlafurwyr yn yr efengyl.[81]

Fodd bynnag, nid oes lle i gredu fod Morgan Jones yng nghwrs y blynyddoedd wedi newid dim ar ei olygiadau Calfinaidd, ond nid oes unrhyw sail ychwaith i feddwl na fyddai'n cynnig yr efengyl i bawb, etholedig neu beidio. Nodweddid ei weinidogaeth gan asbri cenhadol a mentergarwch wrth iddo blannu eglwysi newydd o amgylch Tre-lech a thu hwnt, gyda dylanwad y Diwygiad Efengylaidd erbyn hynny wedi atgyfodi 'yr hen asbri cenhadol a'r ymdeimlad o ddyletswydd tuag at gymdeithas gyfan a ysbrydolodd waith Penry, Cradoc, Llwyd a Vavasor Powell'.[82]

---

[77] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t. 22.
[78] *HEAC*, III, t. 29.
[79] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 114
[80] *CyA*, t. 343.
[81] *HEAC*, III, tt. 401-2.
[82] Jones, *Duw a Diwylliant: Y Ddadl Fawr*, 1800-1830, t. 4.

Tra bod hyn yn digwydd, roedd y Galfiniaeth newydd yn dechrau ymwreiddio mewn mannau eraill yn y de-orllewin. Dywedwyd bod mwyafrif corff aelodau eglwys Glandŵr ddiwedd y ddeunawfed ganrif yn Galfiniaid selog, er bod rhai o'r aelodau a ddiarddelwyd oherwydd eu golygiadau Arminaidd ddiwedd yr wythdegau, ar ôl i achos Rhyd-y-parc ŵyro i gyfeiriad Undodiaeth, wedi dychwelyd i gorlan eglwys Glandŵr. Eto parhaodd pethau yn lled dawel yno hyd 1799 pan ddychwelodd William Griffiths, mab John Griffiths, ar ôl bod yn fyfyriwr yn Academi Wrecsam a chofleidio'r Galfiniaeth Fodern a hyrwyddwyd gan Edward Williams. Yn 1798 roedd yr eglwys wedi urddo William Evans yn gyd-weinidog ac yn gynorthwyr i John Griffiths, a'r gobaith oedd y byddai William Griffiths yn ymuno â hwy i fod yn gymorth i Evans a maes o law yn olynydd i'w dad. Calfinydd lled uchel oedd John Griffiths, ond roedd William Evans, fodd bynnag, yn 'Galfiniad o'r radd uwchaf, sef yn uwch-gwympiedydd (*supralapsarian*)'.[83] Mewn un bregeth yn Rhydyceisiaid, meddai: 'Bobl! pe gweddïech nes bod eich tafodau yn bres, a'ch penliniau yn haearn, os heb eich ethol, ni chedwir chwi'.[84] Er gwaethaf gwahoddiad William i olynu ei dad, roedd cryn anghydfod yn aros: 'Edrychai y blaid uchel-Galfinaidd ar y Calfiniaid cymhedrol fel cyfeiliornwyr peryglus iawn, a digon tebyg eu bod hwythau yn edrych ar eu gwrthwynebwyr yn yr un goleu'.[85] Wedi dychweliad William, roedd ei dad a mwyafrif yr aelodau yn awyddus i'w urddo yn gynorthwywr, ond gwrthwynebai William Evans hynny. Bu'r aelodau yng Nglandŵr yn rhanedig ar y mater am beth amser. Ystyriai plaid Evans nad oedd William yn iach yn y ffydd a gwrthodent iddo gael ei urddo. Am bedair blynedd bu'r eglwys yn rhanedig gyda'r pleidiau yn addoli yn yr un adeilad ond ar amserau gwahanol i'w gilydd. Y rhai a oedd yn bleidiol i William a orfu yn y diwedd, ac wedi iddo gael ei urddo 19 Mai 1803, aeth William Evans a'i bleidwyr allan a sefydlu achos Hebron gerllaw.[86] Codwyd y capel cyntaf yn Hebron yn 1804. Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod Morgan Jones, er gwaethaf ei Uchel Galfiniaeth, wedi cymryd rhan yng ngwasanaeth urddo William Griffiths yng Nglandŵr. Pregethwyd gan Benjamin Evans Dre-wen a David Peter.[87] Prin fod lle i gredu fod Morgan Jones yn cydweld â syniadau *supralapsarian* William Evans. Erys y cwestiwn pam y sefydlodd achos gerllaw yn Llwyn-yr-hwrdd, nid nepell oddi wrth Landŵr. A oedd hyn o achos bod rhywrai yn ardal Clydau yn anfodlon gydag argyhoeddiadau William Griffiths a hefyd yn anfodlon gydag Uchel Galfiniaeth eithafol William Evans? Eto, nid oes argoel bod sefydlu achos newydd yn Llwyn-yr-hwrdd wedi amharu ar gyfeillgarwch Morgan Jones â John Griffiths oherwydd, fel y nodwyd eisioes, yn 1811 Jones gafodd draddodi'r bregeth goffa i'w hen athro yn ei angladd.[88] Ac er i Jones roi sêl ei fendith ar waith William Griffiths trwy fod yn bresennol yn ei wasanaeth ordeinio, nid oes dystiolaeth iddo gymedroli dim yn ei farn. Gwelir hyn oddi wrth delerau gweithred capel cyntaf Llwyn-yr-hwrdd. Codwyd yr addoldy yn 1805 a dyddiwyd y les y Calan dilynol, 1 Ionawr 1806. Morgan Jones ei hun roddodd y tir ar gyfer codi'r capel, a gofalodd warchod y ddysgeidiaeth Galfinaidd trwy ddweud yn y weithred:

---

[83] *HEAC*, III, t. 52.
[84] J. Lloyd James, *Hanes Hebron a Nebo* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams, 1903), t. 25.
[85] *HEAC*, III, t. 45.
[86] James, *Hanes Eglwys Glandwr*, tt. 59-62.
[87] James, *Hanes Eglwys Glandwr*, tt. 62-3.
[88] Daniel Davies, *Hanes Bywyd y Parch. John Griffiths* (Caerfyrddin: J. Evans, 1826), t. 14.

> y rhoddai y tir y saif y ty cwrdd arno a'r fynwent i'r Annibynwyr a fyddent yn credu yn y Drindod a Phum Pwnc Calfiniaeth, am 999 mlynedd, neu cyhyd ag y bydd dwfr yn rhedeg dros wely'r Taf, yr afonig fechan a red drwy'r dyffryn bychan prydferth islaw heb ffafrio Calfin yn fwy nag Armin, na Throchwr *lawer* yn fwy na Thaenellwr.[89]

### 3. Safbwynt David Peter

Yn Rhagfyr 1791, gyda David Peter yn fyfyriwr ac yn diwtor yn yr academi, derbyniodd alwad oddi wrth Heol Awst, eglwys Bresbyteraidd ei thraddodiad a fu'n dilyn y trywydd Arminaidd a goleddai ei gweinidogion. Erbyn 1795, gyda'r academi yn dychwelyd i Gaerfyrddin wedi cyfnod yn Abertawe, derbyniodd Peter alwad gan y Bwrdd Presbyteraidd i fod yn bennaeth yr academi. Yr hyn oedd yn annisgwyl oedd mai gweinidog Calfinaidd ei olygiadau oedd Peter. Penodwyd David Davies Llan-y-bri yn gynorthwyr iddo: 'Both men were moderate Calvinists, but the Presbyterian Board, to do it justice, had never been intolerant, and now raised no objection to Peter's presiding over an institution of decidedly unorthodox traditions, while at the same time he was winning over the Arian church at Lammas Street to Calvinism'.[90] Gweinidogion oedd yn Ariaid o ran eu golygiadau diwinyddol fu ei ragflaenwyr yn yr hen eglwys bresbyteraidd a'r Academi yn nodedig ar gyfrif ei rhyddfrydiaeth. Parchai Peter draddodiad rhyddfrydig a goddefgar y coleg, ac eto roedd ei weinidogaeth yn Heol Awst yn gwbl uniongred.

Ym mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth yn Heol Awst, bu rhaid i Peter wrth ddoethineb wrth gadw'r heddwch ymhlith aelodau a oedd yn gymysg o ran manylion eu cred: 'Camp anodd oedd cadw'r dafol rhwng y ddwyblaid yn yr Eglwys, ac osgoi tymestl. Prawf hyn fod gan Peter fesur mawr o "synhwyrfryd ddoeth"'.[91] Ond ar ddydd ei ordeinio datganodd heb un amheuaeth mai Annibynwr a Thrindodwr ydoedd o ran ei argyhoeddiadau. Credai, ar sail yr Ysgrythur, fod tri Pherson yn y Duwdod, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân, a bod y tri yn un Duw.[92] Yn ôl Dewi Eirug Davies, 'Calfin cymedrol oedd Peter, efengylaidd ei ysbryd, yn osgoi'r eithafion'.[93] Pan ymsefydlodd yn Heol Awst, roedd yr achos yn gwanychu, 'the cause at the place had been on the decline for years. There were then but fourty members and about a hundred hearers.'[94] Ystyriwyd Heol Awst yn hen achos Presbyteraidd ac roedd yr eglwys ar y pryd yn cynnwys aelodau a oedd yn coleddu gwahanol farnau diwinyddol gyda thraddodiad Arminiaidd i'w gweinidogaeth, a phriodololodd Peter nychtod yr eglwys i'r gredo Arminaidd. Cadarnheir hyn gan awdur *Hanes Ymneillduaeth*:

> Mewn ymddyddan a fu unwaith rhyngom a'r Parch. D. Peter yn nghylch hyny, efe a ddywedodd 'nad oedd aelodau proffesedig yr eglwys ond tua deugain, ac na fedrai efe na neb arall ddweyd pa beth oedd y rhai hyn o ran eu barn a'u golygiadau ar

[89] D. Gorllwyn Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech' yn L. D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 149-96 [172].
[90] R. T. Jenkins, 'Nonconformity after 1715', yn J. E. Lloyd (gol.), *A History of Carmarthenshire,* Cyfrol 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt. 185-263 [241].
[91] J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (Caerfyrddin: W. M. Evans a'i Fab, 1926), t. 39.
[92] Lewis, *Memoir*, t. 20.
[93] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 83; cf. J. T. Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol* (Aberdar: T. J. Jones, 1867), t. 384.
[94] Lewis, *Memoir*, t. 11.

> athrawiaethau yr efengyl, ac nad oedd yn eu plith nemawr o wybodaeth am athrawiaeth na dysgyblaeth eglwysig. Yr oedd yno ychydig o ddynion syml a duwiol, a chanddynt raddau o syniadau am drefn rasol Duw yn achubiaeth dyn colledig; ond yr oedd eraill yn Arminiaid i'r graddau pellaf, eraill yn Ariaid, ac eraill yn Sociniaid proffesedig; ond golygiad a theimlad cyffredin yr eglwys oedd deddfoldeb ac Arminiaeth'.[95]

Un o'i dasgau cyntaf oedd traethu ar athrawiaethau sylfaenol y ffydd: 'Mr Peter commenced a series of discourses on the fundamental doctrines of the Christian religion'.[96]

> Prif nod ei bregethau yn y blynyddoedd cyntaf oedd goleuo meddwl ei wrandawyr ar brif wirioneddau crefydd a'u cymell i fabwysiadu'r athrawiaethau uniongred, a'u diddyfnu oddiwrth bob ymlyniad wrth draddodiadau Arminaidd ac Ariaidd. Brwydr fawr oedd hon, oblegid yr oedd llwyddo i drawsneid Eglwys Heol Awst i'r ffydd Drindodaidd yn golygu buddugoliaeth Annibyniaeth a Thrindodiaeth yn Sir Gaerfyrddin a De-Orllewin Cymru.[97]

Yng ngofiant Peter ceir rhestr o'r pynciau allweddol:

> Ymhlith yr athrawiaethau y pregethodd arnynt yr oedd y priodoleddau dwyfol sydd ynghudd, y priodoleddau dwyfol sy'n eglur, bwriadau Duw ynglŷn â'i waith, stad y byd yng ngholeuni natur, angenrheidrwydd a phosibilrwydd datguddiad dwyfol, awdurdod dwyfol yr ysgrythur, angylion da, cwymp dyn, natur pechod, etholedigaeth a chyfamod gras, swyddogaeth broffwydol Crist, brenhiniaeth Crist.[98]

Pwysleisiodd hefyd bod athrawiaethau'r Ffydd yn gwbl gyson â rheswm: 'Dyma'r athrawiaethau felly oedd i adeiladu'r saint. Yr oedd Peter o'r farn fod y dull hwn o bregethu yn wir angenrheidiol i wella cyflwr ysbrydol y gynulleidfa.'[99] Ac oherwydd yr annisgyblaeth eglwysig oedd yn nodweddu Heol Awst, adferodd Peter yr hen batrwm Ymneilltuol o hyfforddi aelodau a'u trwytho yn egwyddorion crefydd cyn eu derbyn yn aelodau. Disgwylid i ddarpar aelodau fedru 'ateb cwestiynau ynghylch natur Duw a'i briodoleddau, Crëwr dyn, y stad ddynol a'i hiachawdwriaeth, Person a Gwaith Crist, amodau cadwedigaeth a'r sacramentau'.[100]

Yngylch pregethau Peter, yn ôl J. Dyfnallt Owen 'anodd iawn yw ffurfio barn am ei nodweddion fel pregethwr, gan nad oes nemor ddim, yn anffodus, o'i bregethau ar glawr.'[101] Ond mae'r cofiant iddo yn datgelu llawer am yr hyn a wyddom amdano:

> His views were in accordance with those of the celebrated Jonathan Edwards, Andrew Fuller, and Dr. Edward Williams. He had no sympathy with supralapsarian notions, or with the Arminians, on the leading points of the imputation of Adam's sin, the vicarious character of the Saviour's death, election to eternal life, effectual and persevering grace; the last two doctrines, Arminians utterly repudiate.[102]

---

[95] David Morgan, *Hanes Ymneillduaeth ... yn Nghymru*, Cyfrol 1 (Dolgellau: Evan Jones, 1855), t. 431.
[96] Lewis, *Memoir*, t. 31.
[97] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, tt. 38-9.
[98] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 82; Lewis, *Memoir*, t. 35.
[99] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 82.
[100] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, tt. 82-3; Lewis, *Memoir*, tt. 42-3.
[101] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 38.
[102] Lewis, *Memoir* t. 121.

Dengys hyn mai Calfin cymedrol ydoedd, ac mai'r ffaith iddo ymwrthod â syniadau *supralapsarian* yn pwysleisio nad Uchel Galfin mohono, ond roedd eto yn drwyadl efengylaidd:

> Yr oedd ei bregethu yn mynd yn fwy efengylaidd bob blwyddyn, a'i awydd am achub eneidiau yn rhoi fflam yn ei neges o Sul i Sul. Cyrchid o bell ac agos i Heol Awst, a chan fod llef y weinidogaeth yn mynd yn fwy clochaidd o efengylaidd a Chalfinaidd, daeth yn argyfwng ar weddill y Gwrth-Drindodwyr. Y diwedd fu iddynt ymadael â'r hen gorlan yn 1814, a ffurfio yn Eglwys Undodaidd yn y Porth Tywyll.[103]

Ar ddiwedd gweinidogaeth Peter, pan ddaeth yn amser i chwilio am olynydd iddo, y gŵr y ddewiswyd yn 1834 i fod yn gyd-weinidog ac yn olynydd maes o law oedd John Breese, yntau yn un o bleidwyr y 'Galfiniaeth Fodern', ac yn un o'r saith o weinidogion, ynghyd â John Roberts Llanbryn-mair, a oedd wedi cyfrannu atodiadau i'r 'Llyfr Glas'.

Gellir synhwyro argyhoeddiadau Calfinaidd David Peter ymhellach wrth ystyried argyhoeddiadau Calfinaidd y bechgyn a neilltuwyd gan eglwys Heol Awst i fod yn genhadon tan nawdd Cymdeithas Genhadol Llundain. Un o amodau bod yn genhadwr oedd cydsynio â chynnwys y Gyffes Ffydd. Yn 1824, pan gafodd ei dderbyn gan y Gymdeithas, roedd cyffes ffydd William Beynon, a godwyd dan weinidogaeth David Peter yn Heol Awst yn adlewyrchu golygiadau'r Galfiniaeth gymedrol.[104] Calfiniad cymedrol ei ddiwinyddiaeth oedd David Peter, er na fu iddo, hyd y gwyddom, chwarae unrhyw ran cyhoeddus yn y dadlau fu ynghylch y System Newydd. Trwy yr ychydig a wyddom am David Davies, gallwn fod yn eithaf sicr mai Uchel Galfin ydoedd, ac felly hefyd Morgan Jones.

## 4. Crynhoi

Ni ellir dweud bod David Davies na Morgan Jones wedi cyfrannu dim at swm y meddwl diwinyddol yng Nghymru. Ceidwadwyr oeddent, yn glynu wrth yr hen Galfiniaeth ac yn amharod i newid eu golygiadau athrawiaethol, er iddynt (mewn perthynas â chenhadaeth yr eglwys) fod yn agored i syniadau newydd a mwy mentrus yn eu hoes. O ran David Peter, wrth fynnu goruchafiaeth uniongrededd (yn hytrach na Chalfiniaeth fel y cyfryw) tros yr athrawiaethau Arminaidd ac Ariaidd, gwnaeth gyfraniad sylweddol i adeiladu'r achos Annibynnol yn nhref Caerfyrddin. Erbyn diwedd ei oes roedd Heol Awst ymhlith eglwysi Annibynnol cryfaf y wlad. Wrth olrhain datblygiad yr eglwysi Annibynnol yn ne-orllewin Cymru, roedd gweinidogaethau y tri yn gynrychioladol o'r twf a'r cynnydd a welwyd ymhlith yr enwadau Trindodaidd-uniongred. Ond nid ar gyfrif eu diwinyddiaeth eithr am eu gwaith yn plannu eglwysi newydd ac yn hyrwyddo'r genhadaeth gartref a thramor y bydd mesur gwerth eu llafur ac y gwelir maint eu cyfraniad.

---

[103] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 42; Desmond Davies, *Pobl y Porth Tywyll: Hanes a Thystiolaeth Eglwys y Bedyddwyr, y Tabernacl, Caerfyrddin 1650-1968* (Caerfyrddin: Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion, 2012), t. 65.
[104] Gweler Pennod 6 isod, t. 134.

## Pennod 5

## Annibynwyr y de-orllewin a'r diwygiadau

### 1. Diwygiadau Cymru

Nid digwyddiad yn perthyn i Ynysoedd Prydain yn unig oedd Diwygiad Efengylaidd y ddeunawfed ganrif ond roedd yn ffenomen ryngwladol.[1] Roedd y rhwydwaith a ddatblygodd rhwng y diwygwyr â'i gilydd, Jonathan Edwards yn Lloegr Newydd, George Whitefield a John Wesley yn Lloegr a Howell Harris a Daniel Rowland yng Nghymru, wedi peri i'r adfywiadau a gododd mewn un wlad fod yn hysbys i arweinwyr crefydd yn y gwledydd eraill. Trwy hyn roedd y diwygiadau yn cydymblethu ac yn dylanwadu ar ei gilydd.[2] Ac nid pethau a effeithiodd ar eglwysi sefydliedig y gwledydd hynny yn unig oeddent ond ar yr Ymneilltuwyr yn ogystal.[3] Mae haneswyr wedi amrywio ymhlith ei gilydd wrth ymdrin â phwnc 'diwygiad' a heb ei gael yn beth hawdd i'w ddehongli. Amcenir yn y bennod hon groniclo cyfraniad David Davies a Morgan Jones at y diwygiadau lleol a gweld sut y bu i'r diwygiadau hynny hybu twf a datblygiad eglwysi Annibynnol de-orllewin Cymru yn y cyfnod dan sylw. Rhoddir sylw i'r ffordd y gwnaeth haneswyr cynnar y diwygiadau megis John Hughes, Edward Parry, Thomas Rees a Henry Hughes nid yn unig adrodd eu hanes ond hefyd ddiffinio eu natur, ac yna, yng ngoleuni'r dystiolaeth benodol am Davies a Jones, gymhwyso rhai o'r damcaniaethau at y deunyddiau hyn. Yn allweddol i hyn fydd y categorïau a drafodir gan yr hanesydd crefydd David Bebbington. Os mynnodd yr haneswyr cynnar ddehongli'r diwygiadau yn nhermau 'hanes rhagluniaethol', mynn Bebbington mai yn nhermau 'diwylliant a duwioldeb' y gellid wneud cyfiawnder orau â diwygiadau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.[4] Ceisiwn, yn niwedd y bennod, osod llafur Davies a Jones oddi mewn i'r patrwm hwn.

Yng Nghymru gan mor amled y cafwyd diwygiadau crefyddol yn ystod y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, daethpwyd i gyfeirio at Gymru fel 'Gwlad y Diwygiadau'. Ac er bod cryn ramantiaeth, gorddweud a hagiograffi yn perthyn i'r gred, erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fe'i derbyniwyd fwy neu lai fel ffaith:

> Y mae yn debygol nad oes un wlad dan haul wedi ei bendithio â mwy na chryfach adfywiadau crefyddol na Chymru; fel pe buasai y ffordd o'r nefoedd i Gymru yn fwy unionsyth nag i un wlad arall. *Palesteina* y byd Cristionogol yw Cymru. Gwelwyd y Secina dwyfol yn ymddysgleirio ac yn llosgi mor danbaid ar adegau yn ein gwlad, nes

---

[1] W. R. Ward, *The Protestant Evangelical Awakening* (Cambridge: Cambridge University Press, 1992); idem. *Early Evangelicalism: A Global Intellectual History, 1670-1789* (Cambridge: Cambridge University Press, 2006); cf. David Ceri Jones, *'A Glorious Work in the World': Welsh Methodism and the International Evangelical Revival, 1735-50* (Cardiff: University of Wales Press, 2004).
[2] Mark A. Noll, *The Rise of Evangelicalism: The Age of Edwards, Whitefield and the Wesleys* (Leicester: Apollos, 2004), tt. 67-91.
[3] Gw. Michel R. Watts, *The Dissenters Volume II: The Expansion of Evangelical Nonconformity 1791-1859* (Oxford: Clarendon Press, 1995), tt. 49-80.
[4] David Bebbington, *Victorian Religious Revivals: Culture and Piety in Local and Global Contexts* (Oxford: Oxford University Press, 2012), passim.

> gwneud yn anyoddefol i bechod allu byw yn agos; ac adegau anwyl ar grefydd yn Nghymru oedd y rhai hyn, blynyddoedd deheulaw y Goruchaf oeddynt.[5]

Roedd y disgwyliad y byddai diwygiad yn torri allan bob rhyw ddeng mlynedd wedi tyfu'n fath o draddodiad: 'Am gyfnod hir yn hanes crefydd yn Nghymru, bendithiodd yr Arglwydd yr eglwysi âg adfywiadau mynych, bob rhyw ddeng mlynedd, ac weithiau yn amlach na hyny'.[6] Yn ei ddisgrifiad clasurol, roedd William Williams Pantycelyn yn *Atteb Philo-Evangelius* wedi dehongli hanes y ffydd Gristnogol yn nhermau cylchdro parhaus o adnewyddu ac ymddatod.[7]

Wrth ddefnyddio termau, mae angen gwahaniaethu rhwng y gair 'diwygiad' a'r gair 'adfywiad'. Defnyddir y gair 'diwygiad' yn aml am drawsnewid sylfaenol mewn cred a threfn, weithiau dros gyfnod o amser, trawsnewid chwyldroadol sy'n arwain at gyfnewid mewn sylfeini cred a threfn llywodraethu eglwysig. Fe'i defnyddiwyd i ddisgrifio'r cynnwrf creiddiol wrth gyfnewid un traddodiad am draddodiad arall, o'r Pabyddol i'r Protestannaidd megis y Diwygiad Protestannaidd o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, neu am drawsnewid radicalaidd a esgorodd ar gychwyniadau newydd, yn genedlaethol a rhyng-genedlaethol, fel y Diwygiad Piwritanaidd yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r Diwygiad Efengylaidd neu Fethodistaidd sef 'Deffroad Mawr' y ddeunawfed ganrif.

Cafwyd diwygiadau, yn annibynnol ar ei gilydd, yn ystod ac oddifewn i bob un o'r 'diwygiadau' mawr uchod, sef adfywiadau a esgorodd ar gynnydd ymhlith yr eglwysi Ymneilltuol, ac at y rhain, sef yr adfywiadau neu *revivals* (yn Saesneg) y byddwn yn sôn yn y bennod hon. Yn ei *Methodistiaeth Cymru*, mae John Hughes yn nodi'r gwahaniaeth yn amlwg iawn wrth gyfeirio at y Diwygiad Methodistaidd ar y naill law, a'r mân ddiwygiadau a brofwyd oddi fewn i Fethodistiaeth ar y llall: 'Ar ryw gyfrifon, nid yw can mlynedd oes Methodistaeth ond un diwygiad yn hanes Cymru; ond ar gyfrifon eraill, y mae i Fethodistiaeth y can mlynedd a aethant heibio lawer o ddiwygiadau o fewn Methodistiaeth ei hun.'[8] Cadarnheir yr un pwynt gan Eryn M. White: 'The word "revival" was used in Methodist records and correspondence during the 1730s and 1740s to refer to both the overarching movement affecting Wales, England, Scotland and beyond and also the sporadic, individual outbreaks of fervour amongst members old and new.'[9]

Gwahaniaethau y diwygiadau yn helaeth o ran lleoliad a pharhad. Roedd rhai diwygiadau yn ymestyn dros gyfnod o flynyddoedd ac eraill yn fyrrach eu parhad. Tra roedd y mwyafrif yn lleol eu dylanwad, ceid diwygiadau eraill oedd yn lletach eu heffaith, rhai yn ddiwygiadau cenedlaethol megis Diwygiad Llangeitho yn 1762 a Diwygiad 1859. Roedd eraill er nad yn genedlaethol yn ddaearyddol helaeth, gan gwmpasu ardaloedd cyfain megis y cwbl o ogledd

---

[5] Edward Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau Crefyddol yn Nghymru* (Corwen: Cwmni Argraffu Corwen, 1898), tt. 98-9.

[6] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau* t. 116.

[7] Garfield H. Hughes (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn,* Cyfrol 2 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1967), tt. 21-4; cf. Derec Llwyd Morgan, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1981), pennod 1.

[8] John Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 1 (Gwrecsam: R.Hughes a'i Fab, 1851), t. 246.

[9] Eryn M. White, 'Religious Revivals in the Eighteenth, Nineteenth and Twentieth Centuries', William Gibson a John Morgan-Guy (goln), *Religion and Society in the Diocese of St Davids 1485-2011* (Farnham: Ashgate, 2015), tt 129-56 [135].

Cymru neu dde Cymru. Ar y cyfan gogledd Cymru elwodd trwy Ddiwygiad Beddgelert 1717-22. Cychwynnodd ym Meddgelert ond roedd ei ledaeniad yn eang:

> Gwreichionodd tân y diwygiad i Borthmadoc; gosododd gymydogaeth Llanberis ar dân; a cherddodd rhwng y mynyddoedd i Penrhyndeudraeth, a chroesodd y traeth oddiyno i Swydd Feirionydd. Aeth i lawr i Gaernarfon, a chroesodd y Menai i Ynys Mon. Cyrhaeddodd dylanwad diwygiad nerthol Beddgelert siroedd y Gogledd gan mwyaf - clywid sain gorfoledd mewn rhannau o Sir Ddinbych, Meirion, a Mon; ond yn Swydd Gaernarfon y teimlid ef yn angherddoldeb ei nerth.[10]

Tra chyfyngwyd effeithiau Diwygiad Beddgelert i ogledd Cymru ac i'r Methodistiaid yn bennaf, parthau de Cymru a elwodd fwyaf ar Ddiwygiad 1828-9. Gadawodd ei ôl yn helaeth yn hanes eglwysi yr Annibynwyr a'r Methodistiaid: 'The revival of 1828 is indiscriminately associated in popular parlance with the Independent chapel of Capel Isaac and with the Methodist at Llanddeusant'.[11] Ond profwyd o'i ddylanwad yn ehangach trwy dde Cymru:

> Yr oedd yr adfywiad hwn trwy siroedd y Deheudir yn gyffredinol, ond ni chyrhaeddodd nemawr o'i effeithiau i Ogledd Cymru. Teimlid ei ddylanwad bywhaol yn mhlith pob enwad crefyddol; a mawr y mwynhad nefol a gorfoleddus a gafwyd yn swyddi Penfro, Caerfyrddin, Morganwg, Mynwy, Brycheiniog, ac Aberteifi, a bu ei effeithiau yn nychweliad eneidiau yn ychwanegiad dirfawr at yr eglwysi.[12]

Wedi cydnabod bodolaeth diwygiadau fel ffenomen real mewn hanes, er mwyn egluro eu harwyddocâd byddai'n fuddiol rhestru rhai diffiniadau:

> Defnyddir y gair '*diwygiad*' ar grefydd, i ddynodi tymor neu adeg o adfywiad ynddi, a chwanegiad nodedig at ei deiliaid; adeg y bydd deffroad a chyffro yn mysg proffeswyr, a grym a mwynhad neillduol yng ngweinyddiad ordinhadau yr efengyl.[13]

> Wrth ddiwygiad crefyddol y golygwn, tywalltiad helaeth a grymus o'r Ysbryd Glan, ynghyda'r canlyniadau a'r effeithiau o hynny ... Pa le bynnag y mae gwir adfywiad ar grefydd ysbrydol, y mae yno hefyd ddiwygiad mewn bywyd a moesau yn canlyn hyny, ynghyda diwygiadau mewn cymdeithas ac yn y wladwriaeth.[14]

> Beth yw 'diwygiad crefyddol'? Mae'n golygu 'deffroad' neu 'adfywiad' ysbrydol mewn eglwysi neu ardal sy'n cyferbynnu â rhediad llyfn bywyd beunyddiol. O'r safbwynt Cristionogol y mae i'w ddeall fel gweithgarwch neilltuol yr Ysbryd Glân yn dyfnhau'r diddordeb cyhoeddus ym mherthynas dyn â'i Dduw ac yn dwysáu pryder pobl am eu tynged dragwyddol. Lluosogir tröedigaethau ymhlith uniogolion,

---

[10] Parry, Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau, t. 106; cf. Goronwy Prys Owen, 'Addoli a'r Bywyd Ysbrydol 1. Y Diwygiadau', yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru*, Cyfrol 3, Y Twf a'r Cadarnhau, c.1814-1914 (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011), tt. 42-52.
[11] R. T. Jenkins, 'Nonconformity after 1715', yn J. E. Lloyd (gol.) *A History of Carmarthenshire,* Cyfrol 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt 185-263 [251].
[12] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 119.
[13] Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 1, t. 246.
[14] Henry Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1906), t. 10.

> bywioceir yr eglwysi a chyffroir yr ardal o gwmpas. O ganlyniad ceir cynnydd yn rhifedi Cristnogion, enynnir ynddynt ysbryd cenhadol ac ymroddant i sancteiddrwydd buchedd ac i wasanaeth diwylliannol a chymdeithasol.[15]

Mae effaith y diwygiadau wedi ei gyfleu yn y delweddau sydd yn fynych wedi'u defnyddio gan y sylwebyddion a'r haneswyr. Disgrifiwyd diwygiad yn aml yn nhermau'r bywhau sy'n digwydd yn nhymor y gwanwyn, 'yn fath o wanwyn hyfryd ar ol gauaf llwm'.[16] 'Daeth yn haf ar grefydd trwy y wlad. Mewn adfywiad crefyddol ymddengys yr eglwys yn ei dillad goreu, yn ngwisgoedd ei gogoniant'.[17] 'Yr oedd adeg diwygiad, fel amser cynhauaf, yn amser i gasglu y ffrwyth'.[18] Cyfeiriwyd, wedyn, at y gorfoledd a fyddai'n dilyn yr ymbil dwys dechreuol yng ngoleuni Salm 126: 'Bydd yr un sy'n mynd allan dan ŵylo, ac yn cario ei sach o hadyd, yn dychwelyd drachefn mewn gorfoledd, ac yn cario ei ysgubau'.[19] Cyffelybwyd diwygiad i wynt ystormus yn plygu a dymchwel pob dim o'i flaen, 'fel gwynt nerthol yn rhuthro dros yr ynys, gan ddadwreiddio hen dderw pechod yn nhir y gelyn'.[20] 'Nerthoedd y byd a ddaw yn ysgwyd y cynulleidfaoedd mawrion fel coedwig o flaen rhuthr tymestl; a'r beilchion cyndyn yn syrthio ar eu gliniau i'r llwch mewn gostyngeiddrwydd, gan lefain am eu bywyd'.[21] Ym myd natur ceir llifeiriant yn dilyn cawodydd trymion, a disgrifiwyd y diwygiadau mewn termau o'r fath, 'ysgubent ymaith, megis cenlli nerthol, y tramgawyddiadau a barasent flinder blaenorol; fel dwfr newydd a llanw uchel, codent hen lestri i nofio a fuasai yn hir yn gorwedd yn y llaid'.[22] Nid rhyfedd bod tywalltiadau'r Ysbryd Glân yn cael eu disgrifio fel disgyniad cawodydd glaw,[23] a'r effeithiau yn nhermau llanw wedi trai 'fel llanw mawr y môr ar ol trai isel'.[24] Fe'u disgrifiwyd hefyd yn nhermau dyfrhau yn dilyn cyfnod o sychdwr mawr, a lledaeniad ambell ddiwygiad yn nhermau fflamau tân yn cydio, fel y cyfeiriwyd eisoes at Ddiwygiad Beddgelert yn gwreichioni a mynd ar led.[25]

Gan mor ddirgel ac (ar y wyneb, beth bynnag) anesboniadwy oedd rhai o'r digwyddiadau hyn, cyfeiriwyd atynt fel gwaith goruwchnaturiol o eiddo'r Ysbryd Glân: 'Dwyfol ac anorchfygol oedd eu gweithrediadau ar bob llaw.'[26] Wrth geisio dirnad yr hyn a ddigwyddodd yn Niwygiad Beddgelert er enghraifft, mae Edward Parry yn pwysleisio'r elfen o ddirgelwch a berthynai iddo, ac ar ôl holi ynghylch ei darddiad, daeth i'r casgliad mai mater o ymyrraeth uniongyrchol yr Ysbryd Glân yn gweithio'n ddirgel trwy offerynnau dynol ydoedd. 'Yr oedd', meddai,

> yn rhyfedd ac anesboniadwy ond yn ngoleuni dylanwad yr Ysbryd Glan. Tybed nad oedd y wylo yn y dosbarth, a thrwy yr holl ysgol, yn effaith dylanwad dirgelaidd

---

[15] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl: Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914,* Cyfrol 2 (Abertawe: Gwasg John Penry, 1982), t. 122.
[16] Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, t. 158.
[17] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 109.
[18] Hughes, *Hanes Methodistiaeth,* Cyfrol 1, t. 248.
[19] Hughes, *Hanes Methodistiaeth,* Cyfrol 1, t. 260.
[20] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau,* t. 118.
[21] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau,* t. 99.
[22] John Hughes, *Methodistiaeth Cymru,* Cyfrol 3 (Gwrecsam: R. Hughes a'i Fab, 1856), t. 17.
[23] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 99.
[24] Hughes, *Methodistiaeth Cymru,* Cyfrol 1, t. 247.
[25] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 106.
[26] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau,*, t. 121.

> Ysbryd Duw ar y galon? Ac y mae pob gwir ddiwygiad crefyddol yn ddwyfol yn ei darddiad, a'i effeithiau yn sylweddol a pharhaol.[27]

Cyfeiriwyd at eu tarddiad dwyfol mewn sylwadau fel 'blynyddoedd deheulaw y Goruchaf'[28] a'r pregethwr 'wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder'.[29] Ymhellach, 'dwyfol nerthoedd y byd a ddaw yn ysgwyd daear', 'nis gallai dim llai na dwyfol allu ddwyn oddiamgylch y fath gyfnewidiad gogoneddus yn hanes dynion' ac 'yr oedd gogoniant a godidogrwydd y gallu o Dduw, ac nid o ddynion'.[30] Un o'r diwygiadau mwyaf cynhyrfus oedd Diwygiad 1828-9 a chyfeiriwyd ato fel 'dydd y Pentecost yn hanes diwygiadau crefyddol Cymru'.[31] Un o'r ffenomenâu mwyaf anesboniadwy oedd y 'canu yn yr awyr' a glywid yn ystod rhai o'r diwygiadau. Clybuwyd seiniau'r canu neu y gerddoriaeth nefolaidd adeg Diwygiad Beddgelert, ac yn ystod Diwygiad Staylittle yn 1851, ac fe'i clywid 'yn fynych yn hanes yr hen ddiwygiadau'.[32]

> Unwaith yr oedd yr enwog Richardson, Caernarfon, yn Llanberis am Sabath, yn ystod diwygiad nerthol Beddgelert; ac ar ol dyfod o'r gwasanaeth nos Sabath, galwyd ef allan gan rai o'r brodyr i glywed y 'canu yn yr awyr'. Thomas oedd Mr. Richardson, fel miloedd ereill, ar y mater hwn yn flaenorol,- nid oedd yn credu dim ynddo. Ond ar ol myned allan, a gwrando, codai ei ddwylaw i fyny, a dywedai, 'Dyna nhw fel swn dyfroedd lawer, ac fel sain telynorion yn canu ar eu telynau'. Pa fodd y mae esbonio y gerddoriaeth ddyeithriol a nefol hon sydd bwnc nas gellir bod yn sicr ynddo; ond y mae hyn yn amlwg, fod 'canu yn yr awyr' yn ffaith gredadwy yn meddwl y rhai a ddywedasant iddynt ei glywed, pa un bynag a oedd y fath ganu mewn bod ai peidio.[33]

Wrth feddwl am y diwygiadau fel digwyddiadau y tu allan i rediad arferol yr eglwysi, mae'n werth talu sylw i rai o'r nodweddion y tybiwyd eu bod yn hynod neu yn anghyffredin. Soniwyd yn aml iawn am rwyddineb anarferol y diwygwyr wrth draethu: 'Pan y mae yr awelon nefol yn chwythu ar ein cyfarfodydd, ac Ysbryd yr Arglwydd yn anadlu arnom, y mae bywiogrwydd a gwres yn mhob peth'.[34] Sylw Thomas Charles am ddiwygiad yn y Bala yn 1791 oedd: 'y mae pregethu yr efengyl yma ar hyn o bryd yn beth hawdd'.[35] Ar adegau felly byddai pregethwyr cyffredin yn cael eu tanio nes eu rhyddhau i bregethu gyda brwdfrydedd angerddol: 'Ar yr achlysuron hyn, dyrchefid y pregethwyr yn mhell uwchlaw iddynt eu hunain; llefarent nid fel y byddent yn arfer, ond gwneid hwy yn "gedyrn o nerth gan Ysbryd yr Arglwydd"'.[36] Adeg Diwygiad Beddgelert dyna brofiad Richard Williams Brynengan, 'un o allu cyffredin iawn, ac a ystyrid yn bregethwr bychan'.[37] Ond wedi i'r diwygiad dorri allan, 'aeth yr hen bregethwr cyffredin yn yr oedfa yn anghyffredin iawn, yn anrhaethol fwy nag ef

---

27 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, tt. 100-1.
28 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 99.
29 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 99.
30 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 114.
31 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 119.
32 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 129; Hughes, *Methodistiaeth Cymru,* Cyfrol 1, tt. 270-3.
33 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, tt. 129-30.
34 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 103.
35 Hughes, *Methodistiaeth Cymru,* Cyfrol 1. t. 250.
36 Hughes, *Methodistiaeth Cymru,* Cyfrol 1. t. 249.
37 Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 101.

ei hun'.[38] Llanwyd y lle ag arwyddion o'r presenoldeb dwyfol gyda chanlyniadau rhyfeddol yn ymateb y gynulleidfa. Cafodd ieuenctid ysgyfala a chellweirus eu dwysbigo a'u 'dal gan ddychryn y dydd olaf' tra bod 'dynion wedi eu dwyn i fwlch cyfyng yr argyhoeddiad, ond heb fyned trwodd; wedi eu dal gan eu pechodau, a'r waredigaeth heb ddyfod'.[39] Bu rhaid aros tan gyfeillach yn ystod yr wythnos ddilynol i'r rhain brofi gollyngdod ac esmwythad pan 'agorwyd drws gobaith i'r bobl oeddynt wedi eu dal gan ddychryn colledigaeth'. Wedi iddynt flasu'r dihangfa torrwyd allan i ganu a gorfoleddu:

> Aeth cwrdd eglwys ffurfiol ac oeraidd yr hen frodyr am un waith, o leiaf, yn dân i gyd ac yn hollol ddidrefn; rhai yn gweddïo am faddeuant ar eu gliniau yn ngwaelod y sedd; ereill ar eu traed ar y fainc yn diolch am drugaredd; ac ereill yn cerdded ar hyd llawr y capel, yn canu â'u holl enaid am waredigaeth.[40]

Nid fel pregethwr cyffredin yr ystyrid John Elias, ond ar rai adegau, er enghraifft adeg ei bregeth enwog yn ffair gyflogi Rhuddlan yn 1802, byddai hyd yn oed ef yn cael ei gynysgaeddu â grymuster aruthrol. Meddai Henry Hughes: 'Mae yn debyg nas gallasai pregethu nerthol hyd yn nod John Elias ar adeg gyffredin gael y fath ddylanwad. Pregethu nerthol mewn amser o ddiwygiad grymus yn unig a allasai wneyd y gwaith a wnaed yr adeg yma'.[41]

Mewn amser o ddiwygiad, tan fendith a chymorth yr Ysbryd Glân cafwyd deffroi, dwysbigo ac argyhoeddi rhyfeddol, yn cyffwrdd llaweroedd ar y tro, ymhell uwchlaw'r cyffredin ym mywyd rheolaidd yr eglwysi:

> Rhoddid ysgogiad crefyddol i feddyliau dynion trwy ardaloedd cyfain. Ymgasglai preswylwyr yr ardal yn unfryd i'r addoldy. Byddai gwedd arnynt fel pe disgwylient beth anghyffredin, a disgynai y weinidogaeth arnynt gyda grym annysgrifiadwy. Gwelid dagrau rhai yn llifo; gwelid eraill yn newid eu gwedd, gan faint oedd grym yr argraffiadau. Rhai a syrthient i lawr mewn llewygfeydd; ac eraill a dorent allan mewn ocheneidiau, a llefain, gan ddychrynfeydd ac ing meddwl, fel pe buasai y Barnwr wrth y drws. Clywid rhai yn tori allan mewn mawl a gorfoledd, am eu gwaredu allan megys o safn marwolaeth; ac eraill a safent neu a eisteddent mewn syndod difrifol, neu wedd siriol, wrth ganfod y peth a wnaethid.[42]

Yn ychwanegol i'r dwysbigo, y llefain, yr ŵylo a'r llewygu fel arwyddion o edifeirwch a'r canu a'r gorfoleddu wrth ddiolch am faddeuant, daeth y Cymry yn enwog am lamu a neidio a hynny i gymaint graddau fel bod rhai o Loegr yn cyfeirio atynt yn wawdlyd fel y 'Welsh Jumpers'.[43] 'Fe ymddengys fod dull ecstatig o addoli, yng ngolwg sylwebyddion gwrthrychol Seisnig, yn destun doniolwch yn ogystal â dirmyg, ac amlygid hynny'n aml yn eu traethiadau'.[44] Yn wyneb y feirniadaeth hon, bu rhaid i arweinwyr y Methodistiaid amddiffyn

---

[38] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 101.
[39] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 102.
[40] Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 102.
[41] Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, t. 211.
[42] Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 1, t. 249.
[43] Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 1, tt. 256-7; Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, tt. 121-3.
[44] John Gwynfor Jones, ' "Pontio Dwy Genhedlaeth": Methodistiaeth Galfinaidd Cymru c. 1791-1820', yn idem a Hughes (goln), *Y Twf a'r Cadarnhau*, tt 1-41 [8].

brwdfrydedd eu deiliaid, er eu bod hefyd yn awyddus i ffrwyno'r eithafion yn nulliau ecstatig eu haddoliad. Arwyddion allanol o dröedigaeth fewnol oedd y mynegiadau cynhyrfus hyn, sef 'tân' y diwygio, a chan na cheid tân heb fwg, nid oeddynt yn fodlon condemnio'r dulliau eithafol:

> Nid er mwyn y llefain, y neidio, na'r llewygu, yr ydym yn hoffi y diwygiadau, ond er mwyn y deffro a wneir ar gydwybodau dynion, y darostwng a wneir ar eu cyndynrwydd, a'r tanio a wneir ar eu serchiadau tuag at bethau ysbrydol. Ac os bydd Ysbryd yr Arglwydd yn gweithredu y pethau hyn mewn modd mor nerthol a chyffrous, fel ag i beri cynyrfiadau corfforol (ac anserchog, fe allai, ynddynt eu hunain), pwy ydym ni i allu lluddias Duw?[45]

Fel y gwelwyd yr arwyddion allanol hyn ymhlith y Methodistiaid, erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fe'u gwelwyd yn gynyddol hefyd ymhlith yr Hen Ymneilltuwyr. Ac nid yn unig ymhlith y Cymry yn eu gwlad eu hunain. Bu gorfoleddu ymhlith Annibynwyr Cymraeg Llundain adeg cychwyn achos eglwys y Boro yn Little Guildford Street, a hynny yn ystod y Sul olaf cyn symud i'r adeilad newydd ar 5 Ionawr 1807. Roedd y gynulleidfa wedi bod yn addoli yn hen ysgoldy Gravel Lane er 1798, ond un prynhawn Sul yn niwedd 1806 pan oedd Daniel Jones Crug-y-bar yn pregethu, torrodd y dorf allan i orfoleddu gyda rhai yn neidio, a'r neidio o dan yr amgylchiadau yn ormodol ac yn afresymol. Roedd ysgoldy Gravel Lane mewn llofft uwchben cartref Sais oedrannus o weinidog Bedyddiedig. Gyda'r addolwyr yn neidio i'r fath raddau, ofnodd y byddai'r nenfwd yn syrthio a gorchmynnodd i'r gorfoleddwyr ymadael ar fyrder. Cymaint oedd gwres y gorfoleddu, fel y parhaodd rhai ohonynt ar yr heol y tu allan am beth amser.[46] O gofio mor afresymol oedd y neidio, gellir cydymdeimlo'n llwyr â'r hyn a ystyrid gan y beirniaid yn ffwlbri. Weithiau roedd lle i feirniadaeth o fath.

Roedd David Davies a Morgan Jones wedi bod â rhan flaenllaw mewn cychwyn achos y Boro, a thebyg iawn fod yr hanes am y neidio a gafwyd yn Gravel Lane yn gyfarwydd iddynt. Tybed a fyddai Morgan Jones wedi ymdrechu i ffrwyno'r elfennau gorfrwdfrydig a nodweddai crefydd y Cymry? Pan adroddodd wrth ei gyfaill Thomas Luke am y cynnwrf diwygiadol yn Nhre-lech yn 1822-3, meddai 'there are hitherto no extravagances, no jumping, not so much singing as we have witnessed in former revivals; but praying, and some possessing uncommon gifts'.[47] Yr argraff a geir yw iddo fod yn fodlon ar y ffaith nad oedd yno neidio a gor-orfoleddu.

## 2. Morgan Jones, David Davies a diwygiadau'r de-orllewin

Wedi rhoi ystyriaeth i rai o effeithiau anarferol y diwygiadau, rhaid ceisio tafoli eu canlyniadau mewn termau mesuradwy, i'r graddau bod hyn yn bosibl. Wedi ystyried y dystiolaeth am ddiwygiadau 1790-4, mae Henry Hughes yn tynnu sylw at bump o ganlyniadau pendant, sef:

1. Eu bod wedi codi y wlad i wrando'r efengyl.

---

[45] Hughes, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 1, tt. 258; White, 'Religious Revivals in the Eighteenth, Nineteenth and Twentieth Centuries', t. 141.
[46] *HEAC*, IV, tt. 393-4; Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, tt. 225-6.
[47] *Evangelical Magazine* (Awst 1823), 339.

2. Eu bod wedi bod yn achlysuron i godi pregethwyr.
3. Eu bod wedi bod yn gyfrwng i ddarostwng arferion a moesau drwg.
4. Eu bod wedi creu syched am wybodaeth o Dduw a phethau ysbrydol.
5. Eu bod wedi bod yn ysgogiad i adeiladu capeli newyddion.[48]

Ac wrth bwyso a mesur y dystiolaeth sydd gennym am y diwygiadau a fu yn ystod gweindogaethau Morgan Jones a David Davies, gwelir bod pob un o gasgliadau Henry Hughes yn berthnasol.

*Morgan Jones (i) 1790-5*

Ystyrir bod diwygiad wedi torri allan adeg dechreuad ei weinidogaeth yn Nhe-lech yn 1790 ond 'diwygiad tawel yn ysbryd yr aelodau eu hunain'.[49] Wedi'r ymbleidio ar ddiwedd gweinidogaeth Owen Davies gwelwyd cyfannu'r rhwygiadau gan dderbyn yn ôl yng Nghapel-y-Graig nifer o'r aelodau a oedd wedi mynd allan gyda Davies. 'Yn ystod pum mlynedd cyntaf ei weinidogaeth derbyniwyd ac adferwyd i'r ddwy eglwys rhyw 336 o eneidiau'.[50] Ond nid cyfleu ymdeimlad o ddiwygiad tawel am ddechreuad gweinidogaeth Jones wna J. J. Beynon wrth iddo ddefnyddio cymhariaeth Eseciel am yr esgyrn sychion:

> Mr. Jones entered upon the work in his master's name; and in a sense, the prophet's vision of the dry bones was exemplified in his ministry, and the success which attended it ... Mr. Jones preached, and a wonderful effect through the power of God followed ... there was a great stir among the people over a very considerable extent of the country; a vast number gathered to hear the word of the Lord ... The church, and the minister were now most earnest and importunate in their prayers, in public and secret, for the manifestation of the Spirit, and grace of God in the conversion of sinners ... Hundreds now attended the ministry of Mr. Jones ... The meeting house now became too small to accommodate the people who came to hear, many often stood listening at the outside, while Mr. Jones addressed from one of the windows. The preaching of the word was accompanied with great power, many were converted, and gave evidence of the saving work of grace in the soul.[51]

Adroddiadau sy'n cadarnhau canlyniadau y diwygiadau ym mlynyddoedd cynnar Morgan Jones, fel mewn mannau eraill, o ran eu bod wedi bod yn foddion i gasglu ynghyd gynulleidfaoedd lluosog i wrando'r efengyl, ydyw'r neges a ddanfonwyd i'r eglwysi trwy lythyron cymanfaoedd yr Annibynwyr. Yn ôl llythyr y gymanfa a gynhaliwyd yn Nhre-lech ar 6 a 7 Mehefin 1792 dywedwyd: 'Mae'r achos goreu yn llwyddo; amrywiol o eglwysi newydd wedi ymgorpholi, a nifer fawr iawn wedi chwanegu at yr eglwysi eraill'.[52] Ymhellach yn llythyr y gymanfa gynhaliwyd yn Neuadd-lwyd ar 18 a 19 Mehefin 1794, dywedwyd: 'Moliant

---

[48] Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, tt. 199-201.
[49] D. Gorllwyn Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', yn L. D. Jones (gol.) *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon, Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 149-96 [162].
[50] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 163.
[51] J. J. Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ Exemplified in the Life and Ministry of the late Rev. M. Jones of Trelech, Carmarthenshire* (London: J. Snow, Paternoster Row, 1848), tt. 20-2.
[52] *CyA*, t. 27.

i Dduw am ei gynnorthwyon, ac am arwyddion o'i bresennoldeb yn ein cyfarfodydd; mae'r achos goreu yn llwyddo yn ein plith yn gyffredinol, ac mewn rhai eglwysi mae cynnydd mawr'.[53] Ac roedd yr eglwys yn Nhre-lech yn sicr yn mwynhau cynnydd mawr trwy'r diwygiad a brofwyd yno ym mlynyddoedd cynnar ei gweinidog newydd. Aeth ati yn ddiymdroi i sefydlu cyfarfodydd gweddi ar aelwydydd a phregethu mewn tai annedd mewn gwahanol fannau yn yr ardal, a buan iawn y gwelwyd 'ugeiniau yn dyfod i wrandaw'r Efengyl oddi ar wefusau Morgan Jones na arferant hyd yma fynd i unman'.[54] Aeth y capeli yn rhy fychan i ddal y cynulleidfaoedd fel yr helaethwyd Capel-y-Graig yn fuan iawn ar ôl dyfodiad Jones i'r cylch, a helaethwyd Capel Iwan yn 1795.[55]

*Morgan Jones (ii) 1805-7*

Blynyddoedd tawel mewn cymhariaeth gafwyd am am y ddeng mlynedd nesaf. Yna bu cynyrfiadau ysbrydol eithriadol rhwng 1805-7. 'Derbyniodd o ddechrau 1805 hyd ddiwedd 1807 ryw 378 o aelodau. Dyma'r cyfnod y codai Mr. Jones gapeli newyddion ac y gwelai'r priodoldeb o sefydlu yn y capeli hyn yn raddol dair cangen-eglwys mewn gwahanol gyrrau o'i faes'.[56] Un ohonynt oedd Blaen-y-coed. Ar un prynhawn Sabbath yn 1805, torrodd diwygiad allan mewn canlyniad i bregeth danllyd gan Jones, ac yn fuan wedyn derbyniwyd tua deugain o aelodau newydd.[57] Ond yn ôl D. Gorllwyn Williams: 'Enwau deunaw o aelodau newyddion yn unig sydd ar lyfr Mr. Jones am 1805 ... fe geir enwau y rhai a dderbynnid yn Blaenycoed ddwy flynedd yn gynharach na hynny'.[58] (Roedd gan Gorllwyn Williams *Register* Morgan Jones wrth ei benelin wrth iddo lunio ei gofiant, ond ysywaeth mae'r ffynhonnell a oedd ganddo bellach ar goll.) Wedi'r diwygiad ym Mlaen-y-coed yn 1805, daethpwyd i deimlo bod yr hen ysgubor lle cynhaliwyd cyfarfodydd yr eglwys yn annigonol ac yn fuan wedyn adeiladwyd y capel cyntaf yno yn 1807.

*David Davies*

Rhwng 1778 a 1782 bu diwygiadau grymus yng nghyffiniau Abertawe, ymhlith y Methodistiaid ac o dan weinidogaeth Lewis Rees yr Annibynnwr. Sonnid yn aml am Roger Rogers, neu Rotsh o'r Cadle, un roedd yr elfen bentecostaidd wedi bod yn amlwg iawn yn ei dröedigaeth oddi wrth ei anuwioldeb gynt, ac yn ei ysbryd moliannus wedi ei ddychweliad at grefydd: 'Dywedir y byddai yn fynych iawn yn tori allan yn y moddion, pryd y byddai ei ddagrau yn llifo, a'i lais wedi ei bereiddio gan rym y teimlad, ac yn peri argyhoeddiad i'r sawl a'i clywai ei fod yn cael gwir fwynhad'.[59] Ac fel yn ystod ei gyfnod yn Llangeler a Saron, nid oedd gweinidogaeth David Davies yng nghyffiniau Abertawe yn brin o'r ysbryd diwygiadol. Torrodd diwygiad grymus allan yn 1807 a gafodd gryn effaith yn Ebenezer ac eglwysi eraill ardal Abertawe. 'Bendithiwyd yr eglwys hon, fel eglwysi eraill yn y gymydogaeth, a diwygiad grymus iawn yn 1807, pryd yr ychwanegwyd ugeiniau at yr aelodau, a pharhaodd pethau mewn

---

[53] *CyA*, t. 42.
[54] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 162.
[55] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 162.
[56] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 163.
[57] *HEAC*, III, t. 407.
[58] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 168.
[59] Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, tt. 154-5.

agwedd nodedig o lewyrchus tra y bu Mr. Davies byw'.[60] Byddai pobl yn aros yn y capeli hyd at hanner nos i ganu a gweddïo, gyda llawer yn ŵylo a'r mwyafrif yn gorfoleddu, ac wedi gadael byddai minteuoedd yn aros yma a thraw i weddïo drachefn. Yn ôl y sôn, cafodd llawer o rai mwyaf annuwiol yn yr ardal eu hennill at grefydd trwy'r diwygiad hwn. Cyfansoddodd Davies gân yn crynhoi profiadau'r diwygiad:

> Treforis yn ddiweddar, ga'dd brawf o ffafr Duw,
> Trwy ei ymweliad grasol, gwnaeth lawer marw'n fyw;
> Rhai hen a chanol oedran, ac hefyd ieuengctyd man,
> Achubwyd rhai ugeiniau rhag mynd i uffern dân;
> Fe gerddai'r awel rymus i fyny ac i lawr,
> A'i thro trwy Abertawy nes briwio muriau mawr,
> Ac hefyd Llangyfelach o amgylch Mynyddbach,
> Cawd yng Nghwmbwrla berlau, fydd yn berffaith iach.
>
> Y Gwr a'r bwa ganddo, a lwyddodd ar ei farch,
> Nes gwneuthur rhai gelynion o'u bodd roi iddo barch;
> Rhai canoedd ca'dd eu cymhell i mewn i eglwys Dduw,
> A welwyd yn ddiweddar ar faes y byd yn byw.
> Mae rhai o'r cablwyr creulon, gelynion gwaethaf gaed,
> Yn moli Duw yn uchel am iachawdwriaeth rad,
> A lifodd fel yr afon rhwng lladron ar y bryn,
> I olchi'r rhai ffieiddiaf mor lân a'r eira gwyn.[61]

Stori yn adrodd am drawsnewid wedi profiad diwygiadol yw'r cyfnewidiad gafwyd ym mywyd Dic y Badwr yn Abertawe yng nghyfnod Davies. Dic oedd yn gyfrifol am gludo pobl dros yr afon rhwng Abertawe a'r Foxhole. Roedd Davies wedi croesi'r afon yno droeon, ac yn adnabyddus â Dic. Pan fyddai'n gweld Davies yn nesau byddai'n rhybuddio ei gymdeithion gan ddweud 'Peidiwch rhegu fechgyn, dacw Davies yn dyfod'.[62] Edrydd cofiannydd Davies, John Williams Waun-wen, hanesyn diddorol am ei dröedigaeth:

> Dic y Badwr - dyn tal, corffol, esgyrnog, yr hwn oedd ddiarhebol fel tyngwr a rhegwr. Digwyddai Mr. Dafis, ar ryw ddydd Mercher, i basio heibio'r fan lle yr oedd Dic ac eraill yn gweithio. Ar y pryd yr oedd rhyw un wedi cyffroi ysbryd digofus Dic, ac yr oedd yntau yn tywallt allan ffrydlif arswydus o gableddau a llwon. Digwyddai fod â'i wyneb draw pan nesaodd Mr. Dafis; ac aeth yntau y tu cefn iddo, a gosododd ei law yn dirion ar ei ysgwydd. Trodd Dic yn sydyn â dwrn cauedig, a bwriadai daro yr hwn a'i cyffyrddodd. Ond pan welodd pwy oedd yno, syrthiodd ei freichiau fel pe buasent wedi parlysu. Ni ddywedodd Mr. Dafis air; ond aeth ymaith yn ddistaw. Gwelodd cymdeithion Dic fod ei lidiowgrwydd wedi ei ddofi mewn modd nas gwelwyd erioed o'r blaen. Ar derfyn y dydd aeth Dic gartref, ond yn dra gwhanol ei ysbryd i'r hyn y byddai'n arfer bod. Deallodd y wraig fod rhyw beth allan o le, oblegyd ni thyngai megys cynt; ond ofnai wneud ymholiad. Dychwelodd y nosweithiau dilynol yr un modd. Gwyddai y wraig nad oedd

[60] *HEAC*, II, t. 41.
[61] *HEAC*, II, t. 15.
[62] *HEAC*, II, t. 40.

> wedi cysgu nemawr er nos Fawrth, ac nid oedd ganddo ychwaith fawr o archwaeth at fwyd; ond ni chwynodd. Prydnawn dydd Sadwrn eisteddai Dic yn ymyl y tân yn athrist iawn ei wedd. Gofynnodd y wraig iddo mewn acenion ofnus, 'Beth sy mater arnoch chi, Dic; dych chi'n dost?' 'O Marged', ebai yntau, 'llaw Mr. Dafis sy ar 'm ysgwydd i, a mae hi bron a'm lladd'. 'Llaw pwy Mr. Dafis', ebai hithau? 'O, llaw Mr. Dafis, Ebenezer', ebai Dic, 'ac mae yna oddiar dydd Mercher fel tynnell o harn twym. Mae'n rhaid i chi fyned ato, a chiso ganddo fe i ddod i ngweld i ar unwaith ne i fydda i yn shwr o fynd yn wallgo'. Aeth y wraig i chwilio am Mr. Dafis. Daeth yntau i weled Dic druan. Gyda ei fod ar y parth, neidiodd Dic ar ei draed, â'r dagrau yn ffrydio o'i lygaid, ac ebai: 'O, Mr Dafis rwyn began arnoch i dynu'ch llaw i bant oddiar'm ysgwydd; mae bron a'n ngorffen i'. 'Na, na, Dic bach', ebai yntau, 'llaw'r Arglwydd sydd wedi cwrdd â chwi, ac mae E yn mynd i wneud dyn newydd a da o honoch o hyn allan. Fe weddïa i air man yma drosoch chwi yn awr, ond i chwi blygu ar eich gliniau a threio gweddïo eich hunan'. O'r awr honno allan gadawodd Dic yr hen ffyrdd, am y llwybr arweinia i heddwch â Duw.[63]

Er bod sylwadau Thomas Rees a John Thomas yn rhamantu'n ormodol yn null hagiograffi Oes Victoria, eto ceir ynddynt gadarnhad o effaith ei weinidogaeth a'r dylanwad a gafodd ar y werin yn gyffredinol:

> Pan ddaeth Mr. Davies i'r gymydogaeth, cymerodd cyfnewidiad buan a dymunol le. Cyffrodd ei ddoniau digyffelyb sylw y lluaws; aeth y Mynyddbach yn fuan yn ail i Langeitho, cyrchai canoedd o bell ac agos yno ar y Sabbothau i'w wrandaw, a chafodd llawer o flaenoriaid gwasanaeth Satan eu gwneyd yn wasanaethwyr ffyddlon i Iesu Grist. Er i ganoedd fyw a marw heb eu dychwelyd at yr Arglwydd, etto bu ei weinidogaeth nerthol yn foddion i gyfodi crefydd i gymaint o sylw a dylanwad, nes darostwng i raddau helaeth yr anfoesoldeb a'r barbareidd-dra gwaradwyddus a ffynant yn mysg gweithwyr y dref a'r gymydogaeth. Ennillodd gymaint o ddylanwad dros y werin mewn ychydig o flynyddau, nes y byddai ei ymddangosiad yn ddigon i dawelu yr annuwiolion mwyaf rhyfygus.[64]

*Morgan Jones (iii) 1818-25*

Profwyd awelon diwygiad pellach yn 1818-9. Derbyniwyd 98 o aelodau yn 1818 a 51 y flwyddyn ddilynol. Dyma pryd y derbyniwyd Henry Evans Pembre a David Rees, Capel Als, yn ddiweddarach, yn aelodau, dau a ddeuent yn weinidogion nodedig yn eu tro. Bu diwygiad cryfach eto yn 1822-3:

> Derbyniwyd yn y flwyddyn gyntaf, 181 o aelodau, er na ddaeth y cynhyrfiadau heibio yn gynnar yn y flwyddyn. Ni dderbyniesid ond rhyw 19 hyd Awst y 17eg. Ond y Sabbath hwnnw rhoddwyd deheulaw cymdeithas i 46 yng Nghapel y Graig yn unig ... cyn diwedd y flwyddyn hon - 1822 - derbyniwyd 59 yn ychwanegol yng Nghapel y Graig yn unig.[65]

---

[63] John Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe' yn L. D. Jones (gol.) *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 103-44 [143-4].
[64] *HEAC*, II, t. 40.
[65] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 163.

Yn eu plith roedd Joseph Evans Capel Seion a David Davies Llundain, dau arall a godwyd i'r weinidogaeth yn Nhre-lech. 'Derbyniwyd amryw yn yr eglwysi ereill hefyd dan ofal Morgan Jones y flwyddyn hon, - yn neillduol ym Mlaenycoed a Chapel Iwan. Derbyniodd y flwyddyn ddilynol 164 yn ei holl faes. Chwanegwyd amryw at nifer eglwys Llwynyrhwrdd y flwyddyn hon – 1823'.[66] Disgrifiwyd 1822 a 1823 fel 'blynyddoedd a gofir gan lawer o eglwysi Cymru fel adegau nodedig i gofio Seion'.[67] Mewn cofiant arall i Morgan Jones gan Samuel Griffiths ceir tystio i'r rhan gwbl allweddol y chwaraeodd Jones yn y cyfnodau o flaen y diwygiadau,

> pan y byddai'r eglwys wedi myned i hepian, a'i sel yn oeri, a'r byd o'i hamgylch yn gorwedd mewn drygioni, a Sïon braidd heb neb yn ei cheisio, byddai JONES yn eu hannog i weddio am dywalltiad o ddwyfol ddylanwadau yr Ysbryd Glân. Yna dechreuai y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd lefaru, bob un wrth ei gymmydog; ymgasglent i'r cyfarfodydd gweddi, taer riddfanent am y wawr, - nid hir y byddent cyn llwyddo, a gweled arwyddion amlwg fod yr Arglwydd yn eu gwrandaw. Gwedi i'r eglwys ddihuno, taenai yr effaith ar y byd, gwelid y bobl yn nesâu yn mlaen wrth y degau a'r ugeiniau i ymroddi i'r Arglwydd, ac i ymuno â'r eglwys.[68]

Mae gennym gadarnhad o'r pwyslais mawr roddai Jones ar weddïo er mwyn profi o effeithiau a grymusterau diwygiad mewn adroddiad o'i eiddo a ddanfonwyd trwy law Thomas Luke i'r *Evangelical Magazine* yn Awst 1823. Blynyddoedd yn ddiweddarach cyfieithwyd yr adroddiad i'r Gymraeg a'i ddanfon i'r *Diwygiwr* ar gyfer Mai 1840. 'Gan fod rhyw adfywiad cyffredinol yn yr eglwysi y dyddiau hyn, meddyliais y gallasai cyfieithiad o hono yn y DIWYGIWR fod fel olew ar dân adfywiad yr eglwys i beru iddo gynneu yn gryfach'.[69] Dyma sylwadau Luke ac adroddiad Morgan Jones:

> REVIVAL OF RELIGION IN WALES
> *To the Editor.*
> *Taunton, June 10 1823*
>
> Dear Sir,
> I think the encouragement afforded by the relation in the foregoing letter to *pray for* the peculiar influence of the Holy Spirit, is such as may be grateful to the pious readers of your useful Magazine.
>
> T. LUKE.
>
> *Trelech, May 11, 1823.*
>
> 'In the beginning of the last year, I endeavoured to impress the minds of our members with the necessity of praying for the outpouring of the Holy Spirit: the importance of doing so was felt, and in the course of a few months this feeling became general; several prayer meetings were formed, and several members of some years standing in the church were much affected in such meetings, and evidently began to pray with greater energy and fervour, whilst others soon became equally affected. The dwelling-houses in which these meetings were established, soon became

[66] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 163.
[67] John Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D., Abertawy* (Dolgellau: W. Hughes, 1888), t. 47.
[68] Samuel Griffiths, *Cofiant y Diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836), t. 20.
[69] *Y Diwygiwr*, 5 (Mai 1840), 143.

too small to contain the numbers that assembled on such occasions. Barns during the summer months were converted into houses of prayer; and, when convenient, in the evening we assembled at the chapel, which was crowded. Many of the young people who had attended our Sabbath-schools, began to manifest a strong desire to make a full profession of attachment to the Lord Jesus Christ. In the praying societies, at times, thirteen or fourteen would succeed each other in addressing the Throne of Grace with truly Christian simplicity. You might hear some pleading for the exhibition of divine mercy to their parents, to their brothers and sisters, to the members of those families at whose houses such meetings were held, &c. There are hitherto no extravagances, no jumping, not so much singing as we have witnessed in former revivals; but more praying, and some possessing uncommon gifts. Scarcely an evening passes without a meeting for prayer in some place or another. We have admitted into communion since last August, 230; besides several now before our societies, under examination; and the work seems to proceed in a still greater degree in the branches of our church. We are not the only people so favoured; there has been a great revival at Neuaddlwyd, under the Rev. T. Phillips; there is also at Glynarthen (a branch of the Church under the pastoral care of the Rev. T. Griffiths) such a revival, that I am informed there were sixty candidates for church fellowship at one time, and at Henllan 27. May our Jesus ride triumphantly in the Gospel chariot!
With Christian love,
I remain yours most cordially.
M.J.'[70]

Ond fel y dengys Gorllwyn Williams, roedd gweddi bob amser wedi cael lle pwysig iawn yn ystod ei weinidogaeth fugeiliol: 'Daw ysbryd gweddi a gwaith dros yr eglwysi yn bur gyffredinol'.[71] Edrydd stori am chwaer oedranus a fu'n nodedig am eiriol ar ran Morgan Jones. Yng nghyfarfodydd ordeinio ei gweinidog newydd yn 1790, gyda'r capel yn orlawn a hithau'n eistedd ar risiau'r pulpud, gwnaeth adduned na châi'r pregethwr ifanc 'esgyn grisiau'r pulpud gymaint ag unwaith heb fod nerth ei gweddi hi o'i blaid bob tro'.[72] Blynyddoedd yn ddiweddarach a hithau ar ei gwely angau, soniodd wrth ei gweinidog am y llw a wnaeth ddydd ei ordeinio, ac iddi fod yn ffyddlon iddo gydol ei hoes. Gwelir felly bod y gweddïo taer o flaen ac yn ystod diwygiad yn amlhad o'r gweddïo cyson a thawel y byddai gweinidogion yn ei annog bob amser ym mywyd a thystiolaeth arferol yr eglwysi.

*Morgan Jones (iv) 1829-30*

Roedd y diwygiad nesaf yn Nhre-lech yn 1828-9 yn fwy eang ei ddylanwad.

> Decheuodd Diwygiad 1828 yn Llanddeuasant a chafodd effeithiau arbennig o drwm yn Nhre-lech a'r gymdogaeth lle derbyniodd Morgan Jones bedwar cant o aelodau newyddion yn eglwysi ei ofal. Yng Nghapel Isaac yr un modd ychwanegwyd dros ddau gant a hanner at yr aelodaeth – a William Williams, Llandeilo, a Thomas Rees yr hanesydd yn eu plith. Ac ailadroddwyd yr un stori fel y lledai'r cynhyrfiad trwy'r eglwysi.[73]

[70] *Evangelical Magazine* (August 1823), 339.
[71] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 161.
[72] Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', t. 161.
[73] *HAC*, t. 200.

Ynghylch y cynnydd yn Nhre-lech yn niwygiad 1828-9, dywed John Thomas: ‘Ychwanegwyd at yr eglwysi yn nghylch ei weinidogaeth yn agos i 400 o eneidiau; ac ar un cymundeb derbyniwyd yn Nhrelech dros 100 o’r newydd trwy ddeheulaw cymdeithas’.[74] Ceir gwahanol adroddiadau am ddiwygiad 1828-9 yn Nhre-lech yn gwahaniaethu ym manyldeb yr ystadegau a dyddiadau, ond o ran tystio i’r un effeithiau maent yn cadarnhau ei gilydd. 1829 o holl flynyddoedd gweinidogaeth Jones ‘oedd yr hynotaf am ei hadfywiad crefyddol. Cafodd yr hyfrydwch a’r anrhydedd o roddi deheu-ddwylaw cymdeithas i 556 o ddychweledigion y flwyddyn hon!’[75] Roedd wedi dibynnu ar dystiolaeth Henry James Garreg Lwyd a dderbyniwyd yng Nghapel-y-Graig ar Sul 19 Ebrill 1829 yn un o 108 aelod newydd:

> Sabbath i’w gofio byth oedd y ‘Sul Cwrdd Mowr’ hwnnw yn Ebrill, 1829. Gall y rhai a wyddant am Gapel y Graig fel y mae yn bresennol ddarlunio iddynt eu hunain yr olygfa. Y mae yn ffrynt y capel ddau ddrws, un ar bob ochr i’r pulpud: rheda mynedfa agored o’r naill ddrws i’r llall gan gau i mewn y sedd fawr a’r areithfa. Yr oedd yr ymgeiswyr am aelodaeth wedi eu trefnu yn gylch cyfan yn cyrraedd o’r rhodle o flaen y sedd fawr allan drwy un drws a thros y tir oflaen y capel y tuallan hyd y drws allan i mewn eto hyd y man y cychwynasom. Yr oedd Mr. Evan Jones, mab Morgan Jones, ers pum mlynedd yn awr yn gynorthwywr i’w dad: dechreuai y tad a’r mab yn yr un man i roddi deheulaw cymdeithas, ac aent mewn gwahanol gyfeiriadau hyd oni chyfarfyddent â’u gilydd ... Diwrnod seinio buddugoliaeth oedd hwn.[76]

Yn ôl adroddiad J. J. Beynon dywedir:

> On the ordinance Sabbath in the Month of May, 1829, he had the unspeakable pleasure of giving the right hand of fellowship, as a token of admission to the church, to 110 new members, and in the month of June following, 64 were received. The writer of this was present and preached on the occasion, and cannot easily describe the pleasure which the scenes and services of the morning yielded, he thought it was a ‘little heaven on earth’. When the minister addressed the candidates and gave them the right hand of fellowship, almost every eye in the congregation shewed by tears, the deep feeling and sympathy that existed.[77]

### 3. Diwygiad 1828-9 a’i effaith ar Annibynwyr y de-orllewin

Cyffelyb oedd effeithiau diwygiad 1828-9 ar draws y wlad. Roedd y diwygiad wedi torrri allan gyntaf yn Llanddeusant. Yn 1827 roedd y Methodistiaid wedi helaethu maint y capel a chyda’r sirioldeb bellach a oedd yn nodweddu yr achos yno, ac mewn eglwysi cymdogaethol, pobl yn dod ynghyd gydag ymdeimlad bod adfywiad ar y ffordd; cawsant eu hysgogi i weddïo: ‘Disgynodd hefyd ar feddyliau yr eglwys yn y lle hwn i ymofyn yn neillduol â Duw yn yr achos, ac i erchi arno eu cofio, gan roddi iddynt dywalltiad o’i Ysbryd’.[78] Ac yn yr adroddiadau

---

[74] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 47.
[75] Williams, ‘Y Parch. Morgan Jones, Trelech’, t. 164.
[76] Williams, ‘Y Parch. Morgan Jones, Trelech’, t. 164.
[77] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 26.
[78] John Hughes, *Methodistiaeth Cymru,* Cyfrol 2 (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1854), t. 435.

o'r diwygiad ceir bod tywylltiadau'r Ysbryd Glân wedi eu rhagflaenu gan gyfnod o weddïo dwys:

> Mewn cwrdd gweddi yn nhŷ Dafydd Thomas, un o henuriaid yr eglwys, y dechreuodd yr awyr ysgafnhau, wrth ganu'r pennill,-
>
> Agorodd ddrws i'r caethion,
> I ddod o'r cystudd mawr, &c.
>
> Ym mhen ychydig ddyddiau, pregethai Mr. Joshua Phillips yn y lle, ar Ioan iii.3; a gwelodd yr Arglwydd yn dda wisgo ei was â nerth, ac anfon saethau y gwirionedd i lynnu yn nghydwybodau y gwarandawyr. Nid oedd yr oedfa hon ond y gyntaf o gyfres o rai cyffelyb a ddylynodd. Yr oedd y cyfarfodydd i bregethu ac i weddio yn rhoddi mwynhad llawer helaethach nag arferol i'r addolwyr, ond y cyfarfod hynotaf o'r cwbl oedd cyfarfod i weddio am lwyddiant yr efengyl, ar nos Lun cyntaf o'r mis. Darllenwyd y 60fed o Isaiah, a rhoddwyd y pennill i ganu
>
> ' ...  Os gofyn neb o'r bobl,
> Beth yw'r llawenydd mawr,
> Wrth weled plant afradlawn,
> Yn dyfod tua thre'.
>
> Ar hyn torodd un enethig fechan allan, gan ail-adrodd mewn modd cyffrous iawn y llinell o'r pennill, ac yn y fan yr oedd llawer yn gwaeddi yn groch, 'Pa beth a wnawn fel y byddwn gadwedig?' Fel hyn y dechreuodd y cyffro, ond nid oedd ond ei ddechreuad, aeth rhagddo gan ychwanegu nerth a grym, dros fisoedd o amser. Yr oedd y weinidogaeth megys yn medi lluoedd o'r gwrandawyr o bob oedran i lawr, o 7 ac 8 ml. hyd yn 80 ml. Chwanegwyd at yr eglwys yn y tymor hwn tua 280 o rifedi. Nid oedd, bellach, prin dŷ i'w gael yn y plwyf heb fod allor i Dduw wedi ei chodi ynddo; a dychryn Duw oedd megys wedi disgyn ar drigolion yr holl fro. ... Mor rymus oedd y dylanwadau, nes y byddai y pregethau a'r cyfarfodydd crefyddol, gan amlaf, yn cael eu bylchu, ac hyd yn nod gorchwylion cyffredin tyddynwyr ymron yn sefyll, yn achlysurol, ïe, yn amser cynhauaf. A'r hyn oedd yn rhyfedd, nid oedd neb yn achwyn oblegid hyn. Argreffid ar galonnau yr ardalwyr oll, 'O'r Arglwydd y daeth hyn'. 'A phwy ydym ni i geisio lluddias Duw!'[79]

A phrawf o ddilysrwydd diwygiad 1828-9 oedd mai prin fu yr achosion o unigolion yn cefnu wedi i wres y diwygiad gilio. 'Ychydig, meddir, o ffrwyth y diwygiad a gollwyd, neu ychydig o'r rhai a ddygasid at grefydd dan ei ddylanwad a droisant eu cefnau mewn gwrthgiliad.'[80]

Ac am y diwygiad yng Nghapel Isaac, dywed John Thomas 'i bob golwg allanol ni bu diwygiad erioed yn fwy penarglwyddiaethol'.[81] Ac o gofio'r amgylchiadau ar y pryd yng Nghapel Isaac, mae sylw Thomas yn un awgrymog iawn. Er bod diwygiadau wedi torri allan mewn llefydd eraill, nid oedd dim argoel y byddai diwygiad yn torri allan yng Nghapel Isaac. Roedd yr aelodau yno yn parhau i gweryla ynghylch eistedd-leoedd yn y capel, a'r cweryla wedi bod yn rhygnu ymlaen ers peth amser.

---

[79] Hughes, *Methodistiaeth Cymru* Cyfrol 2, tt. 435-6.
[80] Hughes, *Methodistiaeth Cymru* Cyfrol 2, t. 436.
[81] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 44.

> Un dydd Mercher, mewn cyfarfod eglwysig, lle yr oedd cweryl yr hen feinciau i gael ei ddwyn gerbron unwaith drachefn, yn annisgwyliadwy i bawb, dyma bedwar o'r newydd i mewn - un wraig briod a thri gwr ieuanc. ... Parodd dyfodiad y pedwar i'r gyfeillach ar y dydd Mercher bythgofus hwnw i gweryl yr hen feinciau gael ei lwyr anghofio. Tynwyd telynau yr hen bererinion oddiar yr helyg, lle yr oeddynt wedi bod yn crogi yn hir, a gofynent mewn syndod, 'Pwy a genhedlodd y rhai hyn i mi? Myfi a adawyd yn unig, o ba le y daeth y rhai hyn?' Cerddodd y son trwy yr holl wlad, nes y difrifolwyd y rhai mwyaf anystyriol, a chan fod y son eisioes wedi cyrhaedd am y diwygiad oedd mewn lleoedd eraill, dechreuwyd disgwyl am rywbeth mawr.[82]

Mewn canlyniad roedd cynulleidfa fwy lluosog na'r arfer wedi ymgynnull y Sul dilynol. Bu ymateb eithriadol pan 'arhosodd deg ar hugain ar ôl'[83] wedi pregeth effeithiol a draddodwyd ar Nos Wener 18 Gorffennaf, gyda Thomas Rees yn fachgen ifanc deuddeg mlwydd oed yn eu plith, a 'p[h]arhaodd y diwygiad i fyned rhagddo'.[84]

Gellid dadlau wrth feddwl fel y torrodd y diwygiad allan mor annisgwyl a dirybudd yng Nghapel Isaac bod sail i argyhoeddiad llawer o'r hen ddiwinyddion bod lle i

> amddiffyn sofraniaeth ddigyfrwng yr Ysbryd Glân. Gallai effeithio ar feddyliau dynion yn uniongyrchol, heb gyfrwng. Ni allech felly ei orchymyn trwy unrhyw dechneg. Pe deuai diwygiad fe ddeuai trwy ymyriad penarglwyddiaethol a grasol Duw.[85]

Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach byddai llawer o ddadlau yng Nghymru oherwydd dylanwad dysgeidiaeth yr Americanwr Charles G. Finney a fynnodd bod modd cynyhyrchu diwygiad trwy ddefnyddio'r technegau a'r ymarfer priodol.[86] Edrychai'r hen Galfiniaid ar ddiwygiad yn nhermau gwaith sofran Duw yn tywallt yr Ysbryd Glân ar led ac y perthynai elfennau goruwchnaturiol a gwyrthiol i'r tywalltiadau hynny. Roedd Finney, ar y llaw arall, wedi ei ddadrithio â'r ddealltwriaeth hon a mynnodd bod modd cynhyrchu diwygiad trwy ddefnyddio'r dulliau priodol, dulliau y daethpwyd i'w galw yn 'fesurau newydd'.[87] Yn America y cyhoeddwyd syniadau Finney gyntaf yn y llawlyfr *Lectures on Revivals of Religion* (1835), a dechreuodd ei syniadau ymledu yng Nghymru wedi cyfieithu'r gyfrol i'r Gymraeg fel *Darlithiau yr Adfywiadau Crefyddol* yn 1839. Fel yn America, croeso cymysg gafodd y gyfrol yng Nghymru. Er i'w ddulliau gael derbyniad gwresog gan weinidogion a arddelent 'Galfiniaeth Fodern' y 'System Newydd', i'r hen Galfiniaid roedd y syniad bod modd 'cynhyrchu' diwygiad trwy foddion arbennig ar wahân i ymyrraeth uniongyrchol yr Ysbryd

---

[82] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, tt. 43-4.
[83] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 44.
[84] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 44.
[85] *HAC*, t. 202.
[86] Gweler Richard Carwardine, 'The Welsh Evangelical Community and "Finney's Revival"', *Journal of Ecclesiastical History*, 29 (1978), 463-80; D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales: 2. The Long Nineteenth Century, 1760-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2021), tt. 183-6.
[87] Andrew Holmes, 'Evangelism, Revivals, and Foreign Missions' yn Timothy Larsen a Michael Ledger-Thomas (goln), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions: Volume III: The Nineteenth Century* (Oxford: Oxford University Press, 2017), tt. 397-8.

Glân yn anathema. Roedd hi'n wir bod y 'mesurau newydd' wedi cael cryn ddylanwad ar lawer o ddiwygiadau yng Nghymru ar ôl hyn,[88] ond yr hyn sy'n ddiddorol yw bod Morgan Jones, er yn un o'r 'hen Galfiniaid', yn defnyddio anogaethau nad oedd yn gwbl annhebyg i 'fesurau newydd' Finney wrth gymell brwdfrydedd ddiwygiadol ymhlith ei bobl ei hun. Adeg diwygiad grymus Tre-lech yn 1822, byddai'r gweddïwyr (yn ôl llythyr Jones) yn eiriol yn agored tros eu rhieni, eu brodyr a'u chwiorydd a hyd yn oed dros aelodau'r teuluoedd lle cynhelid y cyfarfodydd, ac nid oes dim i awgrymu nad oedd bechgyn a merched yn bresennol yn y cyfarfodydd a bod rhwydd hynt i'r merched weddïo'n gyhoeddus yn ogystal â'r gwŷr.[89] Nid 'techneg' oedd hon yn nhyb Jones, ond rhan ddilys o'r broses achubol lle byddai credinwyr yn cael eu cymell, yn unol â sofraniaeth Duw, i fod yn gydweithwyr Duw yn nhrefn yr achubiaeth. Ni fyddai Morgan Jones wedi derbyn bod modd 'cynhyrchu' diwygiad o gwbl, ac nid oes lle i gredu y byddai wedi rhoi derbyniad i ddefnydd Finney o dechneg yr 'anxious seat' ar ddiwedd oedfa bregethu.[90]

Prin y byddai neb o'r hen Galfiniaid yn rhoi pwysau seicolegol ychwaith ar ddarpar aelodau eglwysig i wneud proffes gyhoeddus o Grist yng ngwres y funud:

> Ni byddai gan ein tadau un amser seiat ar ôl y bregeth, pa mor effeithiol bynnag a fyddai. Yr oeddynt am i bobl ddyfod at grefydd mewn gwaed oer, fel y dywedir, rhag ofn iddynt wneud dim y byddent yn edifarhau o'i herwydd ar ôl iddynt oeri.[91]

Ac wrth i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fynd yn ei blaen, nid pawb a fyddai'n gysurus gyda'r arfer newydd o 'dynnu'r rhwyd', sef gwahodd y sawl a fyddai wedi ymateb i apêl yr efengyl yn ystod oedfa ddod ymlaen ar y diwedd a chyffesu yn gyhoeddus ffydd yng Nghrist. Y pregethwr Wesleaidd John Evans Eglwys-bach a fyddai'n defnyddio'r dull hwn, ac yn ôl R. Tudur Jones

> Nid oedd y genhedlaeth hŷn y pryd hwnnw'n cymeradwyo'r peth. Arfer John Elias a'i genhedlaeth oedd gwahodd y dychweledigion i fynd i seiat neu gyfarfod eglwysig ymhen ychydig ddyddiau ar ôl cael eu hysgwyd mewn oedfa. Erbyn hynny byddent wedi cael cyfle i fwrw'r draul ac yr oedd llai o berygl gwneud cyffes ffuantus yng ngwres y foment.[92]

Beth bynnag oedd y tebygrwydd ymddangosiadol rhwng rhai elfennau o'r 'mesurau newydd' ac anogaethau Morgan Jones ar i'r bobl ymbaratoi ar gyfer symudiadau'r Ysbryd, roedd y ddwy drefn yn sylfaenol wahanol i'w gilydd.

Gan gofio hyn, cafodd diwygiad 1828-9 gryn effaith yn y Mynydd-bach, Abertawe:

---

[88] Dyfed Wyn Roberts, 'The Effect of Charles Finney's Revivalism on the 1858-60 Awakening in Wales', yn Dyfed Wyn Roberts (gol.), *Revival, Renewal, and the Holy Spirit* (Milton Keynes: Paternoster, 2009), tt. 36-44.
[89] Gweler Pennod 5 uchod, t. 99.
[90] Cf. John F. Thornbury, *God Sent Revival: The Story of Asahel Nettleton and the Second Great Awakening* (Grand Rapids: Eerdmans, 1977), tt. 199-204.
[91] Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, t. 263.
[92] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914 Cyfrol 1 Prysurdeb a Phryder* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1981), t. 107.

> Yn Nghofiant y Parch. Daniel Evans, Mynydd bach, gan y Parch. Hugh Jones, Tredegar, ceir cyfeiriad at y diwygiad mawr a fu yn y cylch eang hwnw yn yr un adeg - diwedd 1828 a dechrau 1829. Yn ystod y chwe' mis derbyniodd Mr. Evans 650 o aelodau newyddion i'r eglwysi dan ei ofal. Ni chynhwysai y Mynydd bach y cymunwyr; a bu raid iddo ar fwy nag un achlysur fyned allan i'r fynwent i gymuno. Dyna yr adeg y barnwyd yn oreu i'r canghenau yn Nhreforris, a Glandwr, a'r Felindre i gael eu corffoli yn eglwysi Annibynol, ond i barhau o dan yr un weinidogaeth.[93]

Yn *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy* ceir hefyd ychydig o hanes diwygiad 1828-9 a ysgrifenwyd gan William Davies, Llanymddyfri. Ysgrifennodd yr hanes mewn llythyr at ryw Mr. David Davies, Bryste a ddanfonodd adroddiad o'i gynnwys i'r *Evangelical Magazine* yn 1829. Ni sonnir am y diwygiad yn cychwyn yn Llanddeusant, ond yn y wlad o amgylch Llanymddyfri. Manyla ynghylch ble y torrodd y diwygiad allan yno, ac am ei ledaeniad, y cynnydd a brofwyd yn yr eglwysi, y newid mewn agwedd meddwl pobl yn eu perthynas â diwygiadau crefyddol, ac yngylch rhan Ysgolion Sul ac addysg fel cyfryngau i'r deffroad:

> Parhaodd y diwygiadau hyn am gryn dymor i dori allan mewn lleoedd eraill yn y siroedd hyn, ac am y dau neu dri mis diwethaf yn swydd Morganwg hefyd. Mewn amser byr, yn Nhreforris, ymunodd 250 â'r Methodistiaid, ac oeddeutu yr un nifer â'r Annibynwyr, a pharhaodd i ymledu yn Abertawe, Castellnedd, Llansamlet, a lleoedd eraill.[94]

Bu'r diwygiad yn gyfrwng i gryfhau yr Ysgol Sul, yn foddion i fendithio plant a'u rhieni, a dywedwyd am y dychweledigion eu bod yn rhodio yn deilwng o'u proffes o'r Arglwydd Iesu Grist ac nad esgeulusid ymarfer disgyblaeth eglwysig. Cyfyd y cwestiwn i ba raddau ac am ba hyd roedd yr aelodau newyddion enillwyd trwy'r diwygiadau yn parhau yn aelodau ffyddlon yn yr eglwysi wedi'r cyffroadau. Ceir awgrym yn sylwadau Samuel Griffiths bod lle i amau nad oeddent, oherwydd

> fod achos i ofni fod amryw fel y bobl gymmysg hynny a ddaeth o'r Aifft, y rhai a gyffrowyd wrth weled yr arwyddion o blaid Israel, heb weled mawredd Duw Israel; ond pan welsant gyfyngderau y genedl yn nhroion yr aniawlwch, hwy droisant yn eu hol, gan roddi anair i'r wlad dda, ac agor geneuau gelynion yr Arglwydd i gablu; y bobl gymmysg hyn, y rhai na fynant ymwadu â hwynt eu hunain, ac ymostwng yn dawel dan iau Crist, a barasant ofid mawr i eglwys Dduw lawer gwaith.[95]

Ac eto roedd rhifedi'r dychweledigion yn niferus eithriadol. Er bod tuedd i rai wrthgilio wedi i'r berw ddistewi, eto cynyddu'n ddirfawr a wnaeth niferoedd yr eglwysi drwy'r wlad: 'I Gymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yr oedd diwygiad yn un o elfennau sylfaenol eu Cristionogaeth ... Ac yn ddi-os bu diwygiadau'n foddion i chwyddo aelodaeth yr eglwysi ar hyd y blynyddoedd'.[96] Ymadrodd a ddefnyddir droeon gan Henry Hughes ac Edward Parry

---

[93] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 47.
[94] Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 45.
[95] Griffiths, *Cofiant y Parch. Morgan Jones*, t. 21.
[96] R. Tudur Jones, 'Awr anterth efengyliaeth yng Nghymru, 1800-60', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwch-Efrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 285-308 [297].

yw bod yr eglwysi wedi dod 'yn llawen fam plant'.[97] Ac fel y gwelwyd eisoes, bu'r diwygiadau yn gyfrwng i godi to o bregethwyr a gweinidogion i wasanaethu'r eglwysi ac i hyrwyddo'r efengyl. Am ddiwygiad 1828-30 meddir:

> Un effaith i'r diwygiad hwn, yn enwedig ymysg yr Annibynwyr, oedd codi pregethwyr. Cododd nifer mawr yn eglwysi Trelech, Henllan, Capel Isaac, a Llanwrtyd. A dyma rai o'r pregethwyr enwocaf a mwyaf nerthol yn Nghymru am haner can mlynedd ar ol hyn.[98]

Rhaid cadw mewn cof hefyd bod diwygiadau diwedd y ddeunawfed ganrif a hanner can mlynedd cyntaf y bedwaredd ganrif yn cydredeg â blynyddoedd oes aur pregethu yng Nghymru, pan roedd pregethu teithiol mewn bri a phregethwyr yn annerch cynulleidfaoedd o gannoedd a miloedd. Ac fel yr eglurodd R. Tudur Jones:

> Yr oedd y cyfarfodydd niferus ynddynt eu hunain yn beth newydd ac oherwydd hynny'n cynrychioli math newydd o brofiad. Yn y capeli ceid cynulleidfaoedd wedi'u pacio'n glos yng ngwres ei gilydd ... Rhwng popeth, yr oedd angen dyn cryf i wrthsefyll y llesmair teimladol.[99]

Roedd yn naturiol wrth wrando ar bregethu a moliannu, bod y gorfoleddu a'r porthi yn esgor ar deimladau dwys a chynhyrfus. Ac yng nghysgod y diwygiadau esgorodd y gwresowgrwydd ar drawsnewid cymdeithasol a diwylliannol yn hanes y werin Gymraeg.

### 4. Dehongli'r diwygiadau

Yn y bennod 'The Interpretaion of Revival' yn ei gyfrol *Victorian Religious Revivals: Culture and Piety in Local and Global Contexts* (2012), mynn yr hanesydd crefydd David Bebbington mai'r ffordd orau i ddeall ffenomen diwygiadaeth yw yn nhermau'r hyn y mae'n ei alw yn 'ddiwylliant a duwioldeb'. Iddo ef, diwygiad oedd ffrwyth y cydgordiad rhwng y diwylliant cymdeithasol a oedd eisoes yn bod, a'r math o dduwioldeb neu grefydd brofiadol a arferwyd gan y diwygwyr a'r rheini a effeithiwyd gan eu cenadwri: 'The culture was the full range of communal attitudes within which the awakenings were set; the piety was the spiritual fuel out of which the fire of revival was kindled'.[100] Ond mae'n gosod y dehongliad hwn yng nghyd-destun hanesyddiaeth sy'n ymestyn yn ôl i gyfnod y dwygiadau eu hunain.

Y dosbarth cyntaf y sonia amdano yw 'Hanes Rhagluniaethol', sef argyhoeddiad haneswyr Cristnogol eu proffes mai ffrwyth y weithgaredd ddwyfol oedd diwygiad a hynny'n bennaf os nad yn unig. Beth bynnag fyddai gyd-destun cymdeithasol, seicolegol neu economaidd y diwygiadau, Duw yr Ysbryd Glân oedd wrth eu gwraidd. Dyna nodwedd llawer o hanes crefydd er dyddiau Eusebius, hanesydd cyntaf yr eglwys yn y bedwaredd ganrif, ac un sydd wedi bod yn boblogaidd byth oddi ar hynny. Cofnodi yn hytrach na dadansoddi oedd nod

---

97 Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, t. 293; Parry, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau*, t. 114.
98 Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, t. 312.
99 *HAC*, t.199.
100 Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 21.

amgen llawer o'r gwaith hwn, a hynny er budd ysbrydol ei ddarllenwyr. 'The weakness of this literature is not the appeal to the supernatural itself', meddai, 'rather the problems arise from what the historians of this school typically failed to do'.[101] Trwy orbwyslesio gwedd ysbrydol y diwygiadau, roeddent yn ddibris o'r ffaith fod yr ysbrydol yn cael ei gyfryngu'n aml trwy ddulliau meidrol, dynol, gyda'r canlyniad fod agweddau pwysig o'r gwirionedd yn cael eu hosgoi. Yn dilyn deiliaid y dehongliad rhagluniaethol ac yn wrthbwynt iddynt, cafwyd dosbarth o haneswyr ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, lawer ohonynt dan ddylanwad clasur William James *The Varieties of Religious Experience* (1902), a fynnent esbonio diwygiadaeth mewn termau trwyadl seicolegol, ac yn aml yn ffrwyth naifrwydd ysbrydol y tröedigion a natur gyntefig eu crefydd. 'This analysis', meddai, 'stamped revivals as little more than outbursts of unchecked excitement'.[102] Er i'r dehongliad hwn gael ei dymheru gydag amser, parhaodd yn ddylanwadol yn arbennig yn yr Unol Daleithiau, gyda rhai haneswyr yn ei gyplysu â'r hyn a ddigwyddodd wrth i gyffindiroedd y gorllewin gael eu hymestyn yn nechrau a chanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn yr hyn a eilw Bebbington 'The Frontier Thesis'. Yn ôl un o awduron y dehongliad hwn, yr hyn a ddatgelwyd oedd 'the religious destitution of the frontier, the craving of men for excitement, and the effect of powerful emotional appeals upon the minds of simple folk far removed from the main currents of contemporary civilization'.[103] Heriwyd y farn hon gan Whitney R. Cross yn ei gyfrol ddylanwadol *The Burned Over District* (1950), trwy fynnu nad ar y 'frontier' y digwyddodd diwygiadau mawr yr 1820au a'r 1830au ond yn Nhalaith Efrog Newydd a oedd wedi ei hen wladychu, ei phobl yn sefydlog ac yn cyfrannu'n llawn yn niwylliant y wlad. Creodd hyn gonsensws hanesyddol newydd,[104] ond parhaodd y dehongliad cyffindirol yn boblogaidd am yn hir.

Os oedd y syniadau hyn yn ddylanwadol ymhlith haneswyr Americanaidd, mynnodd rhai haneswyr Prydeinig ddehongli Methodistiaeth a'r cyffroadau a darddodd o'r Diwygiad Efengylaidd fel ymgais yr awdurdodau i reoli'r werin trwy gyfrwng crefydd boblogaidd; dyma baradeim y 'Social Control'. 'Revivals, in this perspective', meddai Bebbington, 'were tools to manage the masses'.[105] Dehongliad Marcsaidd oedd hwn, a boblogeiddiwyd yn bennaf gan E. P. Thompson yn ei gyfrol afaelgar *The Making of the English Working Class* (1963), ac yn gyfochrog ag ef oedd y syniad mai ffrwyth *anomie* cymdeithasol oedd ffenomen diwygiadaeth, a afaelodd yn y dosbarth gweithiol mewn cyfnodau o gyni economaidd mawr. Os cyfaddefodd rhai sylwebwyr ei bod hi'n anodd olrhain cyswllt amseryddol manwl rhwng y diwygiadau a phyliau o dlodi, 'other historians, bolstered by the strong tradition among sociologists of seeing ecstatic religion as a sign of deprivation, were more confident about a link between revivalism and economic adversity'.[106] Yn ôl rhai ffynonellau, fodd bynnag, roedd diwygiadau yr un mor debygol o dorri allan mewn cyfnodau o ffyniant economaidd, ac oherwydd hynny roedd hi'n

[101] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 23.
[102] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 25.
[103] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 26, gan ddyfynnu Peter G. Mode, *The Frontier Spirit in American Christianity* (New York: Macmillan, 1923), t. 51.
[104] Yng ngwaith rhai fel Winthrop S. Hudson, *Religion in America* (New York: Charles Scribner's Sons, 1965) a Sydney E. Ahlstrom, *A Religious History of the American People* (New Haven: Yale University Press, 1973).

[105] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 29.
[106] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 31.

amhosibl creu gyfochraeth daclus rhyngddynt. Oherwydd hynny, mynnodd haneswyr cymdeithasol eraill, W. R. Ward, John Walsh a David Hempton yn eu plith, fod y werin Fethodistaidd (a rheini a enillwyd o'r newydd i'w plith) ymhell o fod wedi'u dieithrio oddi wrth eu cymunedau, a'i bod hi'n gywirach dehongli apêl crefydd dorfol nid fel *anomie* ond fel 'cultural exchange rather than as a matter of repression or displacement'.[107] Gwendid yr holl ddehongliadau uchod medd Bebbington, o'r rhagluniaethol hyd at yr economaidd a'r cymdeithasol, oedd iddynt gyffredinoli ar sail tystiolaeth amwys neu annigonol, ac iddynt fethu talu sylw i'r amrywiaethau a nodweddodd y gwahanol adfywiadau. Mewn gwirionedd, 'with a few exceptions, chiefly from the eighteenth century, we barely know what actually took place in awakenings. That is why we need to move beyond the model of "religion and society"'.[108] Yn sgil hyn y cynigiodd ei fodel ei hun ynghylch 'diwylliant a duwioldeb', ond gan fod enghreifftiau o'r syniadaeth uchod i'w gweld ymhlith dehonglwyr diwygiadaeth Gymreig, cyn ystyried gweinidogaeth Morgan Jones a David Davies, dylem ddweud gair amdanynt.

Does dim rhaid dweud mai deiliaid y safbwynt hanes rhagluniaethol oedd Thomas Rees, Edward Parry a Henry Hughes a braidd bawb arall a luniodd yr adroddiadau yn rhannau cyntaf y bennod hon. Beth bynnag am foddion eraill 'it is the revivals', yn bennaf, meddai Rees, 'that have succeeded in bringing the great mass of the middle and labouring classes throughout the whole Principality under the influence of the Gospel. The number of those who never attend the means of grace scarcely amounts to ten per cent of the Welsh population'.[109] Parhaodd y dehongliad hwn ymhlith haneswyr crefydd yr ugeinfed ganrif, ac er i'r to a hyfforddwyd yn adrannau hanes a diwinyddiaeth Prifysgol Cymru arfer dulliau gwyddonol i drin eu deunyddiau, roeddent yn gyndyn i ollwng y cysyniad rhagluniaethol yn llwyr. Capelwyr ffyddlon oedd trwch yr haneswyr hyn: R. T. Jenkins a Gomer M. Roberts yn Fethodistiaid Calfinaidd, A. H. Williams, awdur *Welsh Wesleyan Methodism 1800-58: Its Origins, Growth and Secessions* (1935), yn Fethodist Wesleaidd, Thomas Richards yn Fedyddiwr a J. E. Lloyd, J. Dyfnallt Owen, E. Lewis Evans yn Annibynwyr heb sôn am rai eraill. Bu rhaid aros tan ganol y 1960au cyn i un hanesydd gymhwyso'r dehongliad seicolegol, cyffindirol at y dystiolaeth Gymreig, ac Eglwyswr oedd hwnnw. *Religion in the Industrial Revolution in South Wales* (1965) gan y Canon E. T. Davies oedd yr astudiaeth systematig gyntaf i arfer y dulliau hyn. Yn ôl Davies, rhesymau cymdeithasol yn anad dim a achosodd y diwygiadau, tra mai 'the church[es] of the poor, the church[es] of the dispossessed'[110] oedd capeli cymoedd y de. Fel ar oror orllewinol yr Unol Daleithiau tua'r un pryd, byddai'r pregethwyr poblogaidd yn cynnig i'w gwrandawyr wefr emosiynol, sicrwydd arallfydol a chysur mewn byd garw a chaled:

---

[107] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 31, gan ddyfynnu David Hempton a John Walsh, 'E. P. Thompson and Marxism', yn Mark A. Noll (gol.), *God and Mammon: Protestants, Money and the Market, 1790–1860* (New York: Oxford University Press, 2002), t. 112; cf. W. R. Ward, *Religion and Society in England, 1790–1850* (London: B. T. Batsford, 1972).

[108] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 35.

[109] Thomas Rees, 'The Congregational Churches of Wales' (1858), yn *Miscellaneous Papers on Subjects relating to Wales* (London: John Snow, 1867), tt. 70-83 [78].

[110] E. T. Davies, *Religion in the Industrial Revolution in South Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1965), t. 60.

> This type of preaching certainly appealed to the working class congregations, the social character of the congregations and the dismal conditions in which their members lived possibly accounted for the succesful recurrence of emotional revivalism.[111]

Mewn hanesyddiaeth Seisnig, roedd E. P. Thompson eisoes wedi mynnu mai 'the chiliasm of despair' a 'the chiliasm of the defeated and hopeless' oedd crefyddolder y werin dlawd,[112] a'u hymateb i fygythiadau tân-a-brwmstan y diwygwyr yn foddion i sianelu anfodlonrwydd cymdeithasol i gyfeiriad crefydd arallfydol yn hytrach nag i weithredu gwleidyddol radical. Roedd hyn, meddid, yn rhan o'r 'psychic processes of counter-revolution',[113] gyda newidiadau economaidd creiddiol yn creu adwaith seicolegol a esgorodd ar hysteria diwygiadaeth. Ni wyddai Gwyn A. Williams pa faint o wir oedd yn nadansoddiad ei gyd-Farcsydd Thompson, ond awgrymodd y gellid, o bosibl, esbonio'r diwygiadau Cymreig mewn termau seicolegol: 'The sweeping advances of Methodism and a "methodized" Dissent into north and west could perhaps be interpreted in terms of the currently fashionable "psychic compensation" theory'.[114] Traethawd PhD Christopher B. Turner yn 1979, fodd bynnag, a gymhwysodd y theorïau hyn yn fwyaf trylwyr at y deunyddiau Cymreig. Gan bwyso ar gyfrolau Edward Parry, Henry Hughes a'r adroddiadau yn y cylchgronau enwadol, mynnodd fod y diwygiadau wedi digwydd braidd bob tro pan oedd diwydiant wedi'i ddirwasgu a chyflogau'n isel. Yn ei farn ef, 'palliative for ... present misery' oedd y pregethu efengylaidd, 'skilfully administered by the nonconformist preachers'.[115] Gyda mewnfudwyr o'r ardaloedd gwledig yn cael eu dadrithio wedi cyrraedd y cymoedd diwydiannol ac yn hiraethu am eu hen fywyd gynt, roeddent yn agored i gael eu hudo gan neges achubol y pregethwyr, yn enwedig ar adegau o drychineb a'r geri marwol:

> Religious revivalism was the language of the lower classes; it was an expression of discontent, perhaps of disappointment, at the way in which the industrial areas fluctuated wildly and at the way life in general appeared so insecure.[116]

Adleisiwyd y farn hon gan D. Gareth Evans yn ei lawlyfr poblogaidd *A History of Wales, 1815-1906* (1989): 'Religious revivalism was the language of the lower classes', meddai, 'it was an expression of the discontent and disappointment that were keenly felt in the new industrial communities'.[117] Meddai wedyn, gan gyfeirio at yr 1860au: 'At Aberdare, as in many of the industrial communities, the revival was a force for religious conservativism, and its appeal lay not in its radicalism but in its ability to recreate the religion of the past'.[118] I'r hanesydd hwn,

[111] Davies, *Religion in the Industrial Revolution in South Wales*, t. 61.
[112] E. P. Thompson, *The Making of the English Working Class*, ail arg. (London: Penguin Books, 1968), t. 375.
[113] Thompson, *The Making of the English Working Class*, t. 380.
[114] Gwyn A. Williams, *The Welsh in their History* (London: Routledge, Kegan & Paul, 1983), t. 79.
[115] Christopher Ben Turner, 'Revivals and Popular Religion in Victorian and Edwardian Wales', PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Aberystwyth, 1979, tt. 128-9.
[116] Turner, 'Revivals and Popular Religion', t. 16.
[117] D. Gareth Evans, *A History of Wales, 1815-1906* (Cardiff: University of Wales Press,1989), t. 91.
[118] Evans, *A History of Wales, 1815-1906*, t. 238.

fel i ddeiliaid Seisnig theori y 'Social Control', 'the revival ... was a way of preserving social stability'.[119]

Prin y gellid addasu'r un o'r damcaniaethau uchod, yn fanwl beth bynnag, at ddiwygiadau David Davies neu Morgan Jones. Tra bo David Davies wedi profi llwyddiannau anarferol yng ngorllewin Morgannwg yn 1807, bu adfywiadau yn Sir Gâr Morgan Jones yn 1790-1, 1805-7, 1818-9 ac 1822-3 a chyfrannodd Jones yn helaeth at fwrlwm diwygiad eang 1828-9. Er bod cynnwrf a dwyster yn perthyn i bob un o'r rhain, 'diwygiad tawel' oedd diwygiad Tre-lech yn 1790-1, gyda'r elfen emosiynol, orfoleddus yn brin,[120] tra dengys Pennod 4 mai apelio at y pen yn ogystal ag at y galon a wnaeth pregethu Jones a Davies, a'u hathrawiaeth Galfinaidd drom ymhell o fod yn porthi'r emosiynau. Ynghyd â hyn, ardaloedd sefydlog, gwledig, oedd meysydd llwyddiant y ddau ohonynt. Er bod maes Davies yn cynnwys Abertawe drefol ac ardaloedd copr gwaelod Cwm Tawe, roedd y rhan fwyaf o ddigon o blwyf Llangyfelach yn dra gwledig o hyd ac amaeth yn brif gynhaliaeth cylch Mynydd-bach. Nid natur y 'frontier' oedd i un o'r bröydd hyn. Nid yw'n amlwg ychwaith bod y diwygiadau wedi cyd-daro â chyfnodau o gyni arbennig, ac roedd y tröedigion, i bob golwg, wedi'u hen ymwreiddio yn eu cymunedau cartref. Does dim tystiolaeth iddynt ddioddef o *anomie* y cymdeithasegwyr, heb sôn am 'the chiliasm of despair'; prin bod pregethu athrawiaethol naill ai Jones neu Davies yn 'palliative for ... present mysery', ac nid yw'n amlwg ychwaith mai amcan y diwygiadau oedd cefnogi'r status quo. Yng nghyd-destun hyn, mae sylwadau Eryn White yn graff yn ogystal ag yn allweddol:

> Attempts to identify social and economic factors behind individual revivals have at times made important connections, but have never been completely successful in offering an explanation of the phenomenon as a whole ... Outbreaks of intense religious activity did sometimes seem to occur around these periods of social tension, although not necessarily coinciding exactly ... Whether there might be some direct correlation between these events is open to speculation but impossible to determine exactly ... It is difficult to know to what extent the fervour of the religious awakening and the frenzy of popular protest might have elements in common in terms of the way individuals acted spontaneously as part of a crowd. However, it may be that revival continued to follow its own circle of decline and renewal with no direct relation to harvest failure, inflation or idustrial depression.[121]

Mae'n fwy diogel i ddehongli'r diwygiadau yn unol â'u priod nodweddion eu hunain.

Y mae David Bebbington, fodd bynnag, yn cynnig damcaniaeth fwy integreiddedig er mwyn dirnad ystyr diwygiadaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth dafoli'r hyn a eilw yn 'Recent Trends', rhestra fel mae pwysleisiadau newydd wedi dod i'r golwg ymhlith yr haneswyr mwy cyfoes. Yn un peth, ceir mwy o awydd bellach i wneud cyfiawnder â sylwedd deallusol y pregethu diwygiadol, a'r bydolwg syniadol a rannodd y diwygwyr â'u cynulleidfaoedd. Arweinydd y duedd hon oedd yr hanesydd Americanaidd John P. Boles a ddadleuodd mai'r hyn a nodweddodd y diwygiadau oedd argyhoeddiad ynghylch y

[119] Evans, *A History of Wales, 1815-1906*, t. 238.
[120] Gweler Pennod 5 uchod, t. 94.
[121] White, 'Religious Revivals in the Eighteenth, Nineteenth and Twentieth Centuries', t. 153.

rhagluniaeth ddwyfol, yr angen i'r unigolyn ymateb i'r genadwri achubol, a'r hyder y deuai profiad yn ei sgil. 'Most emphatically', meddai Boles, 'there existed a vigorous cerebral element behind the revivals'. Yr hyn oedd yn angenrheidiol, meddai, oedd 'a pervasive, strongly believed system of ideas about God and his dealings with men'.[122] Ac eto, 'The participants' faith in prayer, their beliefs in biblical prophecy and the overall will to believe were ... essential factors for the revival'.[123] Yn ôl y dehongliad hwn, crefydd ei hun oedd wrth wraidd y weithgaredd ddiwygiadol yn hytrach na bod crefydd yn cuddio rhesymau cymdeithasol, seicolegol neu economaidd. Yr un trywydd a ddilynwyd gan Leigh Eric Schmidt yn *Holy Fairs: Scottish Communions and American Revivals in the Early Modern Period* (1989) a Kenneth Jeffrey yn *When the Lord Walked the Land: The 1858–62 Revival in the North East of Scotland* (2002), tra bod Kathryn T. Long wedi dadlau yn *The Revival of 1857–58: Interpreting an American Religious Awakening* (1998) a Janice Holmes yn *Religious Revivals in Britain and Ireland, 1859–1905* (2000) fod peth o lwyddiant yr adfywiadau wedi dibynnu ar sut y cawsant eu cyfleu neu eu portreadu gan awduron y cyfnod. Gwelsom ar ddechrau'r bennod fod corff o lenyddiaeth eisoes yn bod, boed yng nghofiannau'r pregethwyr, yn adroddiadau'r cylchgronau neu yn hanesion y capeli, a oedd nid yn unig yn disgrifio'r diwygiadau ond yn creu delwedd arbennig ynghylch eu hystyr, eu diben a'u gwerth. Fel yng ngweithiau Long a Holmes, yn y cynnyrch hwn, '[i]t is not enough to analyze what actually happened; there can also be examination of how the events of revival were depicted'.[124]

Yng ngweddill ei bennod, pwysleisia Bebbington natur eang diwygiadaeth Oes Victoria. Er i'r adfywiadau amrywio o wlad i wlad, ffenomen gydwladol oedd diwygiadaeth fel y cyfryw. 'In Wales, revival was endemic' meddai, ond, '[t]he phenomenon, however, needs to be seen not as a national distinctive but in a broad global context'.[125] Ar yr un pryd, na ddylid gorgyffredinoli ynghylch y nodweddion a feddodd y diwygiadau fel ffenomenau eang. Mae'n bwysig, meddai, talu sylw manwl i'r hyn a barodd i bob diwygiad fod yn unigryw. Roedd ffactorau lleol ar waith, ac er mwyn eu deall yn gywir, rhaid dirnad manylion y ddeinamig hon. Er i ddiwygiadaeth effeithio ar yr holl enwadau Anghydffurfiol ar hyd y wlad rhwng 1790 ac 1830 heb sôn am y blynyddoedd cyn hynny a wedyn, mae ffocws y traethawd hwn ar Annibynwyr de-orllewin Cymru yn ystod un cyfnod arbennig, ac nid doeth, efallai, yw creu darlun rhy gyfansawdd o'r diwygiadau na bod yn or-bendant yn eu cylch: 'It is the local study of revivals that can hope to lay bare their true dynamics'.[126] Ond yng ngoleuni ei sylw pellach, '[w]e need to move from the general to the particular',[127] gobeithio bydd ffocws taleithiol y traethawd yn help yn hynny o beth.

Y ddwy nodwedd bennaf yn thesis Bebbington, fodd bynnag, yw'r elfen ddiwylliannol sydd ynddi a phwysigrwydd allweddol duwioldeb neu grefydd bersonol y sawl a effeithiwyd

---

122 John B. Boles, *The Great Revival: Beginnings of the Bible Belt* (1976) (Lexington: University Press of Kentucky, 1996), t. x.
123 Boles, *The Great Revival*, t. 70.
124 Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 37.
125 Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 42.
126 Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 43.
127 Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 43.

gan y diwygiadau: ‘Rather than working with a model of “religion and society”’, meddai, ‘we can adopt a paradigm of “culture and piety”’.[128] Diwylliant, meddai, yw’r byd cymdeithasol, syniadol a chrefyddol roedd yr aelodau eglwysig a’r darpar aelodau eglwysig yn trigiannu ynddo, ‘the web of attitudes that exists in any social group, whether assumptions about ultimate reality or views about everyday activities’.[129] Ystyr duwioldeb, wedyn, yw ‘the devotional expressions of lived religion’,[130] sy’n cynnwys y mathau o ddiwygiad a brofwyd boed swnllyd neu yn dawel, yn allblyg neu yn ffurfiol, yn athrawiaethol neu yn emosiynol, yn Arminaidd neu yn Galfinaidd, p’un ai eu bod yn ddigymell neu wedi’u cyfundrefnu, tra rhoir lle amlwg i wedd ddeallusol y ffenomen o ran argyhoeddiadau diwinyddol ynhylch sofraniaeth Duw, y mileniwm, y genhadaeth dramor ac eschatoleg.[131] Rhwng popeth, mae’r disgrifiad a’r dadansoddiad o weinidogaethau Morgan Jones, David Davies, a hyd yn oed David Peter (er mai ef oedd leiaf dan ddylanwad diwygiadaeth fel y cyfryw) a roddwyd ymlaen yn y traethawd hwn yn gweddu’n dda â dehongliad Bebbington yn *Victorian Religious Revivals: Culture and Piety in Local and Global Contexts*. Gallwn fynnu, fodd bynnag, mai’r diwygiadau a fu wrth wraidd y trawsnewid cymdeithasol a diwylliannol yn hanes y werin Gymraeg. Gyda thwf llythrennedd, a dylanwad yr Ysgolion Sul, cydiodd y ffydd Gristnogol yn nychymyg trwch y werin bobl yng Nghymru, fel y daeth perthyn i gynulleidfaoedd mawr, mewn adeiladau newydd, mwy cysurus nag addoldai y ddeunawfed ganrif, yn gwrando ar do newydd o bregethwyr dawnus ac efengylaidd i fod yn rhan o ddiwylliant poblogaidd y cyfnod, a datblygodd yn rym llywodraethol erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid rhyfedd wedyn bod haneswyr yn ystyried hanes crefydd eglwysi Ymneilltuol Cymru erbyn y blynyddoedd hynny yn nhermau ‘Ymneilltuaeth Newydd’.

## 5. Crynhoi

Digwyddodd gweinidogaeth David Davies, Morgan Jones a David Peter rhwng 1790 a 1837 mewn cyfnod o dwf eithriadol yn hanes crefydd yng Nghymru ac mae’r ‘diwygiadau’ a brofwyd yn ystod y blynyddoedd hynny yn un o’r ffactorau dros ddeall y twf hwnnw. Roedd y diwygiadau wedi cydredeg â chynnydd mewn llythrennedd, manteision addysgol yn arbennig trwy gyfrwng yr Ysgolion Sul, bwrlwm cymdeithasol a diwylliannol y pregethu torfol cynhyrfus ynghyd â llawer datblygiad arall. Gyda’r cyfan yn cydblethu ar adeg o ddiwygiad, crewyd i bob pwrpas Gymru Ymneilltuol newydd. Wrth gloi’r bennod ‘Revivals and Revivalism, 1790-1820’, meddai John Wolffe yn ei gyfrol *The Expansion of Evangelicalism: The Age of Wilberforce, More, Chalmers and Finney* (2006): ‘Revivals did not on their own account for the expansion of evangelicalism, but they were showing themselves to be an

[128] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 44.
[129] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 45.
[130] Bebbington, *Victorian Religious Revivals*, t. 45.
[131] Cf. Holmes, ‘Evangelism, Revivals and Foreign Missions’, tt. 389-406.

important factor in its growth.'[132] Wrth ddyfynnu Mark A. Noll, diffiniodd Wolffe 'ddiwygiadau' fel

> '"intense periods of unusual response to gospel preaching linked with unusual efforts at godly living." Or, in more theologically loaded nineteenth-century language, as "an outpouring of the Holy Spirit, which has consisted of deep conviction, followed by sound conversion, upon many souls about the same time and under the same religious instructors."'[133]

Fel y diwygiadau helaeth yn America rhwng 1795 a 1835, sef yr Ail Ddeffroad Mawr ('The Second Great Awakening'), ac yng ngwledydd Prydain yn yr un cyfnod, roedd y diwygiadau niferus a brofwyd yn ystod gweinidogaethau Davies a Jones yn cydredeg â chyfnod oes aur pregethu yng Nghymru, ac mae geirau Wolffe yn gystal ddisgrifiad a'r un o'r hyn a brofwyd dan ddylanwad eu pregethu grymus, ac yn gydnaws hefyd â dosbarthiad neilltuol Bebbington. Er y cymell egnïol a'r taer ymbil am ymweliad oddi fry, ceir yr argraff bod y diwygiadau a drafodwyd uchod yn ddigymell ac yn wahanol i ddiwygiadau diweddarach dan ddylanwad 'mesurau newydd' Finney. Roedd gwaith David Davies a Morgan Jones felly yn rhan o batrwm cydwladol tra ar yr un pryd, ac yng nghyd-destun datblygiad Annibynwyr de-orllewin Cymru rhwng oddeutu 1790 ac 1837, roedd yn meddu ar ei briod nodweddion ei hun.

---

[132] John Wolffe, *The Expansion of Evangelicalism: The Age of Wilberforce, More, Chalmers and Finney* (Nottingham: IVP, 2006), t. 67.

[133] Wolffe, *The Expansion of Evangelicalism*, t. 44 gan ddyfynnu Mark A. Noll yn *The Rise of Evangelicalism,* t.15, yntau yn dyfynnu Anon, *History of Revivals of Religion in the British Isles, Especially in Scotland* (Edinburgh: William Oliphant & Son, 1836), t. 3.

# Pennod 6

## Annibynwyr y de-orllewin a'r genhadaeth dramor

### 1. Y mudiad cenhadol yng Nghymru

*O'er those gloomy hills of darkness*
*Look, my soul, be still and gaze;*
*All the promises do travail*
*On a glorious day of grace.*
*Blessèd Jubil!*
*Let thy glorious morning dawn.*

Emyn sydd â dyhead y 'Gobaith Piwritanaidd' yn perthyn iddo yw'r uchod o eiddo William Williams Pantycelyn. Pan ganwyd yr emyn yng nghapel Northampton, Spa Fields, yn Llundain fore Mawrth 22 Medi, 1795, adeg sefydlu y Gymdeithas Genhadol (ddaeth i gael ei hadnabod fel Cymdeithas Genhadol Llundain - yr *LMS* o 1818 ymlaen) roedd llinynnau dyheadau cenedlaethau o Gristnogion yn ymgasglu ynghyd. Un o gapeli yr Arglwyddes Selina Huntingdon oedd Spa Fields, a hi oedd un o brif noddwyr y diwygwyr Methodistaidd tan ei marw yn 1791.[1] Roedd Llundain yn ganolfan i weithgarwch arweinwyr efengylaidd y cyfnod, ac ym mlynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif a blynyddoedd cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg sefydlwyd nifer o gymdeithasau i hyrwyddo cenhadaeth y Ffydd Gristnogol. Un o'r pwysicaf ac ymhlith y cynharaf ohonynt oedd y Gymdeithas Genhadol.

Sefydlwyd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn 1792 a William Carey eisoes wedi cychwyn ar ei waith yn yr India. Bu hynny'n ysgogiad i weinidogion o enwadau eraill sefydlu eu cymdeithasau cenhadol eu hunain, ac wedi peth ymgynghori daeth nifer ohonynt i'r casgliad y dylid ffurfio cymdeithas genhadol unedig ac anenwadol na fyddai'n hyrwyddo unrhyw drefn neilltuol ar ffurflywodraeth eglwysig, ond yn hytrach ganolbwyntio ar gyflwyno'r efengyl yn unig.

Bu'r parodrwydd i gydweithio ar draws ffiniau enwadol, Anglicaniad efengylaidd, Annibynwyr, Presbyteriaid a Methodistiaid Calfinaidd, yn gryn ysbrydiaeth, ac ymhlith sefydlwyr y Gymdeithas Genhadol cafwyd pobl fel Thomas Haweis, un o gaplaniaid yr Arglwyddes Huntingdon, a John Eyre, prif olygydd yr *Evangelical Magazine*, y ddau ohonynt yn Eglwyswyr; yr Annibynwr David Bogue; John Love, Presbyteriad Albanaidd, ac Alexander Waugh, Presbyteriad Seisnig. Roedd tros 200 o weinidogion wedi dod ynghyd ar y bore Mawrth cyntaf a thraddododd Thomas Haweis bregeth i'r achlysur ar y testun 'Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur' (Marc 16:15-16). Bu tridiau o gyfarfodydd ac ar Nos Iau 24 Medi, yn y cyfarfod olaf, traddododd David Bogue ei bregeth enwog: 'Fel hyn y llefara Arglwydd y lluoedd, gan ddywedyd: Y bobl hyn a ddywedant, ni ddaeth yr amser, yr amser i adeiladu tŷ yr Arglwydd' (Haggai 1:2). Aeth i'r afael â llawer o'r materion a oedd wedi bod yn rhwystr i Gristnogion uno mewn ymdrechion i hyrwyddo cenhadaeth dramor,

[1] Gw. David Ceri Jones, Boyd Stanley Schlenther ac Eryn Mant White, *The Elect Methodists: Calvinistic Methodism in England and Wales, 1735-1811* (Cardiff: University of Wales Press, 2012), tt. 154-94.

gwrthwynebiadau fel ‘mae digon o waith gartref’, ‘bydd hi’n ormod o gost’ ac ‘ni ddaeth amser Duw eto’. Wrth ysgrifennu am yr hanes ar gais ei gyd-Annibynwyr, llwyddodd Morgan Jones i gyfleu yr ysbryd gorfoleddus a’r optimistiaeth heintus a brofwyd yn yr oedfa:

> Dyma gyfarfod gogoneddus! - Cynnifer o Gannoedd o Weinidogion efengylaidd, o’r amryw bleidiau, yn uno yn wresog yn un addoliad, fel pe buasai rhagfarn wedi ei gyrru, i uffern, o’r byd, fel, pan dywedodd Mr. Bogue yn ei Bregeth, ‘Fe’n galwyd yma heno i angladd rhagfarn, ac yr wyf fi’n gobeithio y cleddir hi mor ddyfned na chyfodo byth mwy’. Y Dyrfa a amlygasant eu cyd-drawiad âg ef yn y cyfryw fodd, fel braidd yr ymattaliasant rhag rhoddi bloedd gyffredinol o lawenydd gyd â’r geiriau hyn. Y fath olwg, o bosibl, ni welwyd erioed o’r blaen yn ein byd ni, ag oedd yn sicr yn ernest ogoneddus o’r Gymmanfa fwy rhagorol, lle cyfarfyddwn â’r holl Brynedigion, ym mhresenoldeb, ac wrth Orsedd yr Oen ... Llawer o weinidogion, rhai oedd o’r blaen yn ammeu pa un a ddaethai’r amser i’r efengyl ehedeg, a gawsant eu boddhau yma.[2]

Roedd gwreiddiau’r genhadaeth dramor yn nealltwriaeth Piwritaniaid yr ail ganrif ar bymtheg o arwyddocâd rhai proffwydoliaethau’r Hen Destament a’r Newydd. Yn ôl y ddealltwriaeth hon, credent fod y Beibl yn rhagweld amser pan fyddai’r efengyl Gristnogol yn lledu dros y byd mewn ffordd na welwyd erioed o’r blaen; dyna oedd y ‘Gobaith Piwritanaidd’.[3] Yng nghwarter cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg daeth cred yn nychweliad yr Iddewon i’w mamwlad yn bwyslais cyffredin yn niwinyddiaeth Piwritaniaid Lloegr, a chan na chredent y byddai hynny’n digwydd tan i’r cenhedloedd ddychwelyd ‘yn eu cyflawn rif’ (Rhufeiniaid 11:25), datblygwyd athrawiaeth eschatolegol (sef diwinyddiaeth y ‘Pethau Diwethaf’: angau, barn, nefoedd ac uffern) a oedd yn cynnwys y cysyniad o ailddyfodiad Crist. Bu cryn drafod ar bwnc y ‘milflwyddiad’ gyda Chyn-filfwyddwyr (*Pre-Millennialists*) yn credu y byddai cyflwr y byd yn gwaethygu cyn i Grist ddychwelyd i’r ddaear, trechu drygioni, teyrnasu’n gorfforol am gyfnod estynedig o flaen diwedd y byd – sef y milflwyddiant - , ac yna gynnal Dydd y Farn. Yn ôl y farn hon, ailddyfodiad Crist a fyddai’n rhoi cychwyn i’r milflwyddiant. Yng Nghymru roedd rhai Piwritaniaid amlwg fel Morgan Llwyd a Vavasor Powell yn arddel y safbwynt hwn.[4] Dadleuai'r Ôl-filflwyddwyr (*Post-Millennialists*) y byddai ailddyfodiad Crist yn cael ei ragflaenu gan gyfnod hir o lwyddiant byd-eang i’r efengyl, pan fyddai gwybodaeth yr Arglwydd yn llenwi’r ddaear, ‘fel y lleinw’r dyfroedd y môr i’w ymylon’ (Eseia 11:9) a dim ond wedyn y deuai Crist yn ôl i deyrnasu. Y safbwynt olaf a gofleidiwyd gan ‘brif ffrwd efengylyddiaeth ym Mhrydain ... hyd at hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. A dyna’r safbwynt a welir yng ngweithiau Williams, Pantycelyn’.[5] Amrywiai diwinyddion ar union drefn y digwyddiadau mewn perthynas â’r ‘Pethau Diwethaf’ ond crynhodd Dewi Arwel Hughes y digwyddiadau fel a ganlyn:

---

[2] Morgan Jones, *Y Dydd yn Gwawrio, neu Hanes Dechreuad, Cynnydd a Llwyddiant y Gyfeillach Fawr yn Llundain* (Caerfyrddin: I. Evans, 1798), tt. 6-7.

[3] Gw. Iain H. Murray, *The Puritan Hope* (Edinburgh: The Banner of Truth Trust, 1975); Crawford Gibben, *The Puritan Millennium: Literature and Theology (1550-1682)* (Milton Keynes: Paternoster, 2008).

[4] Gw. D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales, Vol 1: from Reformation to Revival 1588-1760* (Cardiff: University of Wales Press, 2018), tt. 96-117.

[5] E. Wyn James , ‘Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol’ yn Geraint H. Jenkins (gol.) *Cof Cenedl XVII* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2002). tt. 65-101 [80].

> Ar sail eu hastudiaeth fanwl o'r Ysgrythurau daeth nifer helaeth o'r prif ddiwinyddion Piwritanaidd i'r casgliad fod y digwyddiadau a fyddai'n arwain at ddychweliad gogoneddus Crist i ddigwydd fwy neu lai yn y drefn ganlynol:
>
> i. Pregethu'r efengyl gyda llwyddiant trwy'r holl fyd.
> ii. Dychweliad Israel neu yr Iddewon fel cenedl at Grist.
> iii. Byddai dychweliad yr Iddewon yn arwain i'r mil blynyddoedd, pryd byddai Satan yn cael ei rwymo ac y byddai'r ddaear yn 'llawn o wybodaeth yr Arglwydd, megis y mae y dyfroedd yn toi y môr' (Eseia 11:9).
> iv. Dychweliad gweledig Crist, atgyfodiad y meirw a'r farn.[6]

Er cydnabod bod yna ymhlith deiliaid y 'Gobaith Cristnogol' amrywiaeth ynghylch union drefn digwyddiadau, ceir amlinelliad eglur gan E. Wyn James:

> Yn gyntaf, ceid cyfnod o lwyddiant nodedig i'r efengyl Gristnogol ymhlith y Cenhedloedd, 'hyd oni ddeuai cyflawnder y cenhedloedd i mewn' (Rhufeiniaid 11:25). Yn ail, Cwymp Anghrist (sef heresi o bob math). Yn drydydd, byddai'r Iddewon yn dychwelyd i ffydd yng Nghrist. Yn bedwerydd rhwymid Satan a dinistrid pob gau grefydd. Yn bumed, deuai cyfnod hir – 'y Mil Blynyddoedd' - pryd y byddai'r efengyl Gristnogol yn rhedeg yn ddirwystr trwy'r byd, a theyrnasoedd y ddaear yn mynd yn 'eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist ef' (Datguddiad 11:15). Yna, yn olaf, ar ôl y cyfnod dedwydd hwnnw, câi Satan ei ryddhau eto, a deuai Crist yn ôl yn weledig i drechu Satan yn derfynol, i farnu'r byw a'r meirw, ac i ddwyn i mewn nefoedd newydd a daear newydd (Datguddiad 20:7-21:1).[7]

Ond yn y gwahanol grynodebau ynghylch trefn digwyddiadau y 'Pethau Diwethaf', roedd unfrydedd mewn perthynas â'r 'Gobaith Piwritanaidd' sef y disgwyliad a goleddwyd gan y Piwritaniad y byddai gwaith yr efengyl yn llwyddo'n rhyfeddol ar y ddaear:

> I'r Piwritaniad yr oedd Iesu Grist yn Frenin y Brenhinoedd. Wedi ei farwolaeth a'i atgyfodiad roedd wedi ei ddyrchafu i'r orsedd hyd nes y byddai ei holl elynion yn cael eu dymchwel o dan ei draed. Disgwylient weld hyn yn digwydd yng nghwrs hanes; disgwylient am i'w waith lwyddo ar y ddaear.[8]

Ond llawn mor bwysig a chredu ym muddugoliaeth derfynol yr efengyl, oedd ateb y cwestiwn sut y byddai'r llwyddiant yn digwydd? Yr ateb oedd trwy dywylltiadau diwygiadol yr Ysbryd Glân:

> The answer of the main Puritan school became a most important part of the heritage which they left to posterity. It was that the kingdom of Christ would spread and triumph through the powerful operations of the Holy Spirit poured out upon the Church in revivals. Such periods would come at the command of Christ, for new Pentecosts would show him still to be 'both Lord and Christ'.[9]

---

[6] Dewi Arwel Hughes, *Meddiannu Tir Immanuel* (Pen-y-bont ar Ogwr: Llyfyrgell Efengylaidd Cymru, 1990), t. 7; cf. Murray, *The Puritan Hope*, tt. 48-9.
[7] James, 'Williams, Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', t. 81.
[8] Hughes, *Meddiannu Tir Immanuel*, t. 8.
[9] Murray, *The Puritan Hope*, t. 51.

Erbyn y ddeunawfed ganrif, roedd y 'Gobaith Piwritanaidd' yn amlwg yn *Hyfforddwr at Orsedd y Gras* (1740) Griffith Jones Llanddowror,[10] ac yng nghynnyrch Pantycelyn, yn arbennig ei *Ganiadau y Rhai sydd ar y Môr o Wydr* (1762), *Ffarwel Weledig* (1763-9) a'i weithiau rhyddiaith, yn neilltuol *Aurora Borealis, neu Goleuni yn y Gogledd, fel Arwydd o Lwyddiant yr Efengyl yn y Dyddiau Diwethaf, (neu Shecinah'r Mil Blynyddoedd)* (1774). Dehonglodd Williams ddawnsio goleuni lliwgar yr Aurora Borealis, 'y Goleuni yn y Gogledd' yn nhermau cwmni o gredinwyr yn gorfoleddu ac yn bendithio Iesu Grist, awdur iachawdwriaeth i bechaduriaid truenus. Yn ôl E. Wyn James:

> Un o resymau pennaf Williams dros gredu bod hyn yn arwydd o lwyddiant byd-eang yr efengyl oedd fod y Diwygiad Efengylaidd wedi codi yng ngogledd y byd - yn Ewrop a Gogledd America - yn ystod y ddeunawfed ganrif; a chredai Williams fod y ffordd yr oedd 'y Goleuni yn y Gogledd', yr 'Aurora Borealis', yn awr yn cynyddu tua'r deau yn arwydd o'r ffordd yr oedd y goleuni ysbrydol a gododd gyntaf yn y gogledd yn awr yn mynd i ledu tua'r de nes cylchynu'r byd i gyd. 'Yr wyf yn barod i gredu' meddai, 'bod haf gerllaw'.[11]

Roedd Williams eisoes wedi disgrifio'r diwygiad y bu'n brofiadol ohono yng Nghymru yn nhermau'r haul yn codi a'r haf yn cyrraedd. Disgrifiodd gynnwrf Diwygiad Llangeithio 1762 mewn termau cyffrous iawn yn *Llythyr Martha Philopur* (1762) ac *Ateb Philo-Evangelius* (1763):[12]

> (Bu) Duw yn ddieithr iawn yn y wlad ers blynyddau hirion ... nos, nos , oedd trwy'r eglwysi ... Ond O! Martha, Martha, yn awr fe wawriodd y dydd ... Mae'r Deau a'r Gogledd yn mofyn un brenin, a'i enw yn un, Iesu, frenin y Saint! Pan gododd Haul y Cyfiawnder ... fe oleuodd y wlad gan ei lewyrch. Disgwyliad amryw weinidogion oedd gweld yr awr; yr oedd mil o ocheneidiau am i'r Haul godi. O'r diwedd daeth; 'ein galar a drôdd yn ddawns'; gwrando gair y bywyd sydd fwy melys na ffair a marchnad ... Mae cwsg wedi ffoi. Mae blys at fwyd a diod wedi ei lyncu i fyny mewn mawl a chaniadau ... O hafddydd! fe ddaeth, fe ddaeth.[13]

I Williams roedd 'ei syniad am ledaeniad yr efengyl yn gysylltiedig â'i ddiwinyddiaeth ynghylch diwygiad'.[14] Ac fel y dywedodd Dewi Arwel Hughes amdano:

> Meddyliai am ddylanwad y diwygiad yn lledaenu allan o'r gwledydd lle y dechreuodd, fel cylchau yn ehangu allan o'r pwynt y teflir carreg i lyn llonydd. *Un* genhadaeth sydd yn ôl Williams. Ni allai feddwl am waith cenhadol yn nhermau ffurfio cymdeithas arbennig yn gysylltiedig â'r eglwys i anfon cenhadon ymhell dros y môr. Yn hytrach meddyliau am genhadaeth fel rhywbeth sy'n dechrau wrth eich traed.[15]

---

[10] Hughes, *Meddiannu Tir Immanuel*, tt. 11-2; am yr *Hyfforddwr* gw. Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, t. 300.
[11] James, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', t.92.
[12] Cf. Eryn M. White, '"I will once more shake the heavens": The 1762 Revival in Wales', yn Kate Cooper and Jeremy Gregory (goln), *Revival and Resurgence in Christian History* (Woodbridge: The Boydell Press, 2008), tt. 154-63.
[13] *Ateb Philo-Evangelius*, yn Garfield H. Hughes (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, Cyfrol 2 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1967), tt. 13-32 [16].
[14] James, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', t. 85.
[15] Hughes, *Meddianu Tir Immanuel*, t. 26.

Wedi profi o gyffroadau'r Diwygiad Mawr yng Nghymru, disgwyliai Williams weld ei ddylanwad yn lledaenu o'r gwledydd Protestannaidd nes treiddio i holl wledydd y byd. A mwy na dyheu am y cyfnod hwnnw, credai ei fod ar fin cychwyn. Ac eto damcaniaethu a wnaeth Williams. Ni phrysurodd yn ei flaen er mwyn gwireddu'r freuddwyd. Roedd nifer o resymau hwyrach yn ei rwystro neu'n ei ddal yn ôl rhag gwneud. Roedd gwaith mawr i'w gyflawni eto yng Nghymru, yn arbennig yng ngogledd Cymru gyda rhagor o dir i'w feddiannu yn enw'r efengyl. Ac o ran ei ddiwinyddiaeth, oherwydd ei gred ym mhenarglwyddiaeth Duw ni chredai y gellid disgwyl bendith heb ymyrraeth uniongyrchol oddi uchod. Roedd wedi datgan yn ei ragymadrodd i *Pantheologia:* '[Nid] oes ond gallu Duw, ac amser Duw, a ddaw â dyn neu genedl i gredu yng Nghrist'.[16] I Bantycelyn, byddai llaw benarglwyddiaethol Duw i'w gweld mor amlwg mewn unrhyw ehangu fel na fyddai'n bosibl i'r gwaith fethu. Ond gan na chafwyd yr amser hynny i sicrwydd eto, rhaid oedd aros am y tro cyn ymroi i waith cenhadu dramor.

Yn fuan wedi dyddiau Pantycelyn, gwireddwyd ei freuddwyd am gario'r efengyl i bellafoedd byd. Yn 1787, wrth ysgrifennu at Thomas Charles, datganodd yn hyderus:

> For the fullness of the Gentiles shall come in, viz, the Gentiles round the globe, black, white, yellow, orange, tawny, shall hear of a crucified Saviour, and shall believe in him ... Thus all the Gentile world shall receive ye gospel and believe. Then drowsiness shall fall on them; and in the time of their drowsiness, decay and backsliding, the Jews shall awake round the globe and believe: and then the sleeping Gentile church shall be roused up by ye zeal, love and faith and catch ye fire, so that the whole world will be on a blaze.[17]

Ac roedd Charles yn amlwg yn rhannu gwledigaeth Williams. Bu farw Pantycelyn yn 1791, ac yn ystod diwygiad grymus a dorodd allan yn y Bala y flwyddyn honno, ysgrifennodd Charles at gyfaill:

> It is an easy and delightful work to preach the glorious gospel here, in these days ... And I am not without hopes but these are dawning of the promised millennium, and showers that precede the storm which will entirely overturn the kingdom of darkness.[18]

Erbyn cyrraedd dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oes amheuaeth mai ef yw'r ffigur pwysicaf yn hanes datblygiad y mudiad cenhadol yng Nghymru. Roedd yn ymwelydd cyson â Llundain ac roedd ganddo gysylltiadau niferus ag arweinwyr y byd efengylaidd trwy Brydain. Fel un o gaplaniad yr Arglwyddes Huntingdon 'treuliau wythnosau ar y tro yn Llundain yn rheolaidd o 1790 hyd ddiwedd ei oes yn gweinidogaethu yn ei chapel yn Spa Fields'.[19] Roedd hefyd yn gyfaill i Thomas Haweis, un o brif sylfaenwyr y Gymdeithas Genhadol. Er nad oedd Charles yn bresennol adeg y sefydlu yn 1795, cafodd ef a David Jones Llan-gan (yntau yn

---

[16] Dyfynnwyd yn James, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', t. 88.
[17] Gomer M. Roberts (gol.), *Y Pêr Ganiedydd [Pantycelyn],* Cyfrol 1 (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1949), t. 162.
[18] D. E. Jenkins, *The Life of the Rev. Thomas Charles, B.A. of Bala*, Vol.2 (Denbigh: Llewelyn Jenkins, 1910), tt. 90-91.
[19] James, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', t. 95; cf. R. Watcyn James, 'Thomas Charles a Sefydlu Cymdeithas y Beibl', yn D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), tt. 37-55.

gaplan i'r Arglwyddes Huntingdon) eu hethol yn gyfarwyddwyr i'r Gymdeithas ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Wedi sefydlu'r Gymdeithas yn 1795, aeth yn agos i flwyddyn heibio cyn neilltuo'r cenhadon cyntaf. Ar 28 Gorffennaf 1796, roedd gweinidogion o sawl enwad gwahanol yn y cyfarfod neilltuo. Dr Edward Williams, yr Annibynwr a phennaeth Academi Rotherham a gyflwynodd y siars a Thomas Haweis a gyflwynodd yr urdd weddi:

> Diwrnod i'w gofio ydoedd Gorffennaf 28, 1796, oblegid plethwyd pob gwahaniaeth yn un brodwaith, a gwelwyd yn sefyll gyda'i gilydd Edward Williams, yr Annibynwr; Thomas Haweis, yr Eglwyswr; Alexander Waugh, y Presbyteriad; Mathew Wilkes, y Methodist Calfinaidd; John Love, o Eglwys yr Ymraniad, Sgotland; a John Reynolds, yr Annibynwr; safent fel colofnau oesol creadigaeth newydd.[20]

Hwyliodd y *Duff*, cwch a gostiodd £4,800 i'w phwrcasu, gyda'r deg ar hugain o genhadon arni i Ynysoedd Môr y De ar 10 Awst. Roedd Thomas Charles wedi ciniawa ar ei bwrdd cyn y fordaith, ac yn 1798 cyhoeddwyd ar ffurf llyfryn *'Llythyr at Mr T. Jones, ... yn cynnwys hanes fer o fordaith lwyddianus y llong Duff*, &c., y cyntaf o wasg W. C. Jones, Caerlleon, yn 1798 a'r ail yn 1799 o wasg E. Roberts, Trefeca,'[21] a hynny er mwyn ennyn diddordeb Methodistiaid Cymru yng ngwaith y Gymdeithas. Mae'r *Llythyr at Mr T. Jones* yn adleisio cred Charles yn y 'Gobaith Piwritanaidd': 'Mi a obeithiwn y gellir edrych arni fel cychwyniad diwygiad, a dechreuad Oes Well, a fydd yn esgor ar y canlyniadau mwyaf eu pwys, i'r Eglwys, ac i'r byd yn gyffredinol'.[22] Soniodd am y croeso a gafodd y cenhadon gan frodorion yr ynysoedd, ac roedd yn apelio am ragor o arian a hefyd am ragor o ymgeiswyr ar gyfer mordaith nesaf y *Duff*:

> A oes gennym ni neb yn ein mysg o gymmwysderau addas, ac yn ewyllysgar i ymgyssegru i Dduw a'i waith, fel, Cenhadau? Y mae dynion Duwiol, ysbrydol, wedi eu hiawn-oleuo yn yr Efengyl, yn dderbyniol, beth bynnag f'o eu galwad. Seiri, gofaint, hwsmyn, neu ryw grefftwŷr, ydynt gwbl ddymunol i'w danfon. Fe fydd yng ngallu'r cyfryw fod yn wasanaethgar i'r trigolion truain mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac ynnill eu serchiadau trwy lawer gorchwyl o diriondeb.[23]

'Y mae'n amlwg oddi wrth y dyfyniad hwn fod y Gymdeiths Genhadol wedi derbyn o'r dechrau y syniad "Morafaidd" y gall unrhyw grediniwr duwiol fod yn genhadwr trwy fyw bywyd Cristnogol ymhlith paganiaid wrth ddilyn unrhyw alwedigaeth anrhydeddus'.[24] Yn ôl E. Lewis Evans, 'gwybuasant nad oedd cael mewn cenhadwr rinweddau, fel tanbeidrwydd a dysg, yn ddigon ohonynt eu hunain ... Gwelent yn eglur ei bod yn rhaid wrth y dyn *ymarferol*, yn ogymaint â'r pregethwr a'r athro.'[25] Diddorol yw sylw Dewi Arwel Hughes y gallai rhoi cynnig cyfleoedd i'r dosbarth gweithiol brofi eu hunain fod wedi cyfrannu at dranc aristocratiaeth.[26] Wedi apelio am arian a chenhadon, manyla Charles am y 'Gobaith

[20] E. Lewis Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1945), t. 51.
[21] Gomer M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2, Cynnydd y Corff* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1978), t. 221.
[22] Thomas Charles, *Llythyr at Mr. T. Jones, o'r Wyddgrug* (Caerleon: W. C. Jones, 1798), t. 5.
[23] Charles, *Llythyr at Mr. T. Jones*,, t.10.
[24] Hughes, *Meddiannu Tir Immanuel*, t. 47.
[25] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, t. 27.
[26] Hughes, *Meddiannu Tir Immanuel*, tt. 47-8.

Piwritanaidd' fel ysgogiad i Gristnogion i gyflwyno eu hunain i waith a oedd yn rhwym o lwyddo am fod y milflwyddiant wrth law:

> Fe ellir meddwl yn dra sicr, fod addewidion ar esgor mewn modd hynod a helaeth; fod olwynion dirgelaidd ragluniaeth dwyfol yn prysuro cyflawniad o'r Proffwydoliaethau. Ni a welwn ysgydwad ar y cenhedloedd, ac yn ganlynol, 'dymuniant yr holl genhedloedd a ddaw', mewn rhyw fodd arbennig, i helaethu terfynau ei deyrnas, ac i gasglu ei etholedigion. Os edrychwch yn graff i'r proffwydoliaethau, ni a gawn dri o orchwylion mawrion eu pwys a'u canlyniadau, etto i'w cyflawni; ac amser eu cyflawniad, mae'n bossibl wrth y drws. Y mae'n debygol hefyd na fydd y cyflawniad o un ddim y'mell, o ran amser, oddiwrth y lleill. Y gorchwylion gogoneddus sy yn fy 'ngolwg, yw *Distryw Anghrist - Galwad y Cenhedloedd - a thröedigaeth yr Iddewon*. Yna Teyrnasoedd y byd a ânt yn 'eiddo'r Arglwydd, a'i Grist ef; ac Efe a Deyrnasa yn oes oesoedd': a llêf tyrfa fawr, megis llêf 'dyfroedd lawer, ac megis llêf tarannau cryfion', a glywir 'yn dywedyd, Haleluia: oblegid teyrnasoedd yr Arglwydd Dduw Hollalluog', *Dat*. xix.6. Fe fu, lawer gwaith, yn gysur nid bychan i'm meddwl egwan, i allu credu, ar sail yr Ysgrythurau, ein bod yn llafurio mewn gwaith sydd yn *sicr o lwyddo.*[27]

## 2. Yr Annibynwyr a dechreuadau'r Gymdeithas Genhadol

*Morgan Jones*

Ni ellir gwadu bod yna frwdfrydedd mawr ynghylch sefydlu'r Gymdeithas Genhadol, ac os oedd bendithion Duw ar gyfer y cenhedloedd i'w gwireddu, roedd o'r pwys mwyaf fod y weledigaeth yn cael ei rhannu ymhlith yr eglwysi. Ymhlith yr Annibynwyr a gyfrannodd yn ariannol at y fenter yn 1796 oedd Richard Tibbott Llanbryn-mair, Jenkin Lewis Llanfyllin, Benjamin Jones Pwllheli ac eraill o eglwysi Rhos-y-meirch a Bethlehem, Môn. [28] Erbyn 1798 roedd ymatebion wedi dod o blith Annibynwyr y de yn cynnwys John Griffiths Glandŵr a Benjamin Jones Hwlffordd.[29] Yn adroddiad cymanfa Saron, 6 a 7 Mehefin 1798, y ceir y cyfeiriad cynharaf at waith y Gymdeithas Genhadol:

> Mae'r achos goreu yn llwyddo yn ein plith, tu yma a thudraw i fôr: Dynion oedd ym mro a chysgod angeu, sydd yn gweled goleuni mawr mewn ynysoedd pell. Llawer etto sydd mewn tywyllwch ac eilunaddoliaeth. Os bydd i chwi gael cynnyg, ar y fraint honno, o gynnorthwyo achos Duw i fyned yn y blaen, yn fwy helaeth, mewn gwledydd tramor, gobeithio bydd i chwi ddangos eich parodrwydd mewn llawenydd.[30]

Yng Nghymanfa Saron, Morgan Jones Tre-lech oedd y mwyaf brwdfrydig yn dwyn sylw at yr achos cenhadol. Roedd cryn sylw wedi ei neilltuo i adrodd yr hanes am fordaith gyntaf y *Duff* a chlywyd fel roedd llythyr oddi wrth y Capten Wilson 'wedi gwefreiddio'r wlad, wedi achosi llawenydd i bob Cristion, ac wedi tanio calonau y gweinidogion i wneud eu goreu o blaid y

[27] Charles, *Llythyr at Mr. T. Jones, o'r Wyddgrug*, tt. 10-11.
[28] *LMS Reports*, 1796.
[29] *LMS Reports*, 1798.
[30] *CyA*, t. 66.

Gymdeithas'.[31] Yn y gymanfa cytunwyd i gyhoeddi hanes y Gymdeithas Genhadol yn Gymraeg ac ymddiriedwyd y dasg i Morgan Jones. Cyn diwedd y flwyddyn, cyhoeddwyd yr hanes fel *Y Dydd yn Gwawrio: neu, Hanes Dechreuad, Cynnydd, a Llwyddiant Y Gyfeillach Fawr, yn Llundain.* Cadarnheir ynddo benderfyniad cymanfa Saron ynghylch dylestswydd yr eglwysi i gefnogi'r gwaith ac mai 'defnyddiol fyddai'r Hanes hon i'r Cymry cyn cyfrannent at yr achos hwn.'[32] Nod Jones wrth gyflwyno'r gyfrol oedd:

> Fel y byddai i'r Cymry weddio am lwyddiant y rhai'n (y cenhadon) - Fel y byddai i'r Cymry daflu eu hatling at gynnorthwyo'r gwaith mawr - Fel y byddai'r duwiol lawenhau a gorfoleddu fod Enw'r Iesu yn myned yn fawr ac yn debygol o fyned yn fwy - Ac i gywilyddio gelynion crefydd Crist.[33]

Llyfr bychan 47 o dudalennau yw *Y Dydd yn Gwawrio* gyda pedair ar ddeg o emynau cenhadol ar ei ddiwedd. Yn agoriad y llyfr, fel yn neges ei deitl, cafwyd adlais o'r 'Gobaith Piwritanaidd' yn cyfleu'r gred 'fod yr amser hyfryd yn agosau i ddynion weled gogoniant yr ARGLWYDD o godiad haul hyd ei fachludiad, trwy bregethiad yr Efengyl hon am y Deyrnas trwy'r holl fyd'.[34] Ceir yr un pwyslais eschatolegol wrth honni y byddai'r ysgrythur 'yn cael ei chyflawni yn syrthiad Babilon, y Buttain fawr'.[35] Os oedd yr efengyl i lwyddo, roedd yn angenrheidiol i gael cenhadon i gyflwyno'r efengyl ym mhellafoedd byd, ac argraffodd ar feddyliau y darllenwyr fel y 'gwasgodd ar feddyliau amryw o weinidogion efangylaidd yn *Lloegr,* nad oedd yn ddigonol i weddio am i'r ARGLWYDD ddanfon yr Efengyl lle nad oedd, heb arfer moddion i hynny'.[36] A chan gredu fod Duw, fel penarglwydd, yn sicr o gyflawni ei amcanion, mynnodd bod angen gweithredu er mwyn troi'r gobaith yn ffaith.

Yn y llyfr ceir crynodeb o'r camau a gymerwyd yn arwain i fyny at gyfarfodydd sefydlu y Gymdeithas Genhadol. Cyfeiriwyd at y symiau ariannol a gyfranwyd i gronfa'r Gymdeithas, a'r cynnydd o fis i fis, ac amlinellwyd sut y medrai pobl gyfrannu i'r Gymdeithas, gyda gweinidogion yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd i'r amcan hwnnw ar lawr gwlad. Ymhelaethwyd am drefn llywio'r Gymdeithas. Roedd 34 o gyfarwyddwyr wedi eu hethol yn y flwyddyn gyntaf. Roeddynt i'w dewis mewn cyfarfod blynyddol a oedd i'w gynnull ym Mai neu Fehefin, a'r cyfarwyddwyr i gyfarfod yn fisol yn ystod y flwyddyn wrth oruchwylio rhaglen y Gymdeithas. Dywedwyd mai Ynysoedd Môr y De fyddai'r maes cenhadol cyntaf. Penodwyd pwyllgor i gyfweld gwirfoddolwyr a fyddai'n cynnig eu hunain i'r gwaith a manylwyd pa gymhwysterau a ddisgwylid ynddynt:

> Cymmeradwyir rhai o ddeall da yn y gair, o dduwioldeb diddadl, o dymherau da, ac o brofiad efangylaidd, er na b'ont yn ddysgedigion; etto bwriadir anfon un dysgedig gyda phob anfoniad (*mission*). Byddai crefftwyr â'r cymmwysderau a soniwyd uchod yn dderbyniol, yn enwedig Seiri a Gofaint, fel y byddont yn debyg i wneud lles natturiol a chrefyddol i'r trigolion lle'r elont.[37]

[31] *CyA*, t. 70.
[32] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 38.
[33] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 2.
[34] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 3.
[35] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 3.
[36] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 3.
[37] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, tt. 8-9.

Cafwyd adroddiad o gyfarfod blynyddol cyntaf y Gymdeithas yn 1796. Ymhlith y pregethwyr roedd David Jones Llan-gan a gododd ei destun yn Barnwyr 7:2. Roedd yn fater llawenydd bod y gronfa ariannol wedi cynyddu i £10,000. Cyfeiriwyd at y llong *Duff* a brynwyd ar gyfer y gwaith, a bod gŵr o gymeriad, sef James Wilson, wedi ei benodi yn gapten. Rhoes grynodeb o'r cyfarfod neilltuo ar 28 Gorffennaf 1796 pan draddododd y Dr Edward Williams y siars. Cynhwyswyd rhan o lythyr maith a oedd yn cyflwyno cyngor y cyfarwyddwyr i'r cenhadon, ac yn eu siarsio drachefn i fod yn ffyddlon i'w galwad ac i ymnerthu yn Nuw. Cafwyd hanes yr oedfa weddi a'r gwasanaeth cymun olaf yn Haberdashers Hall cyn i'r cenhadon hwylio ymaith i fonllefau'r dorf a oedd wedi ymgynnull i ddymuno'n dda iddynt. Rhoddwyd manylion o'r rheolau roedd y cenhadon i'w cadw ar y fordaith sef addoli, pregethu, dysgu iaith Tahiti, a gwrando ar brofiadau cenhadon eraill fel David Brainerd a chenhadon Morafaidd yng ngogledd America.

Cynhwysir wedyn gyfieithiadau o ddau lythyr a oedd wedi eu danfon at gyfarwyddwyr y Gymdeithas gan ddau o'r cenhadon a oedd wedi glanio yn Rio de Janeiro. Bu'r fordaith, meddent, yn ddymunol tu hwnt, yr hin yn deg, yn rhydd o wyntoedd cryfion, gyda chymylau i'w cysgodi rhag yr heulwen crasboeth tra eu bod yn croesi'r cyhydedd am Frasil. Adroddwyd fel roedd pawb yn ymdoddi'n heddychol yng nghymdeiths ei gilydd ac yn gytûn wrth ymroi i'w goruchwylion dyddiol. Ceir wedyn grynodeb o gyfarfod blynyddol Mai 1797, yn dweud fel roedd y Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth, a bod bwrdd y cyfarwyddwyr wedi cynyddu i 100 mewn rhif. Yna ceir adroddiadau am waith cymdeithasau cenhadol eraill megis Cymdeithas Genhadol Glasgow a oedd wedi danfon dau genhadwr i Sierra Leone; llawenhaed ym modolaeth Cymdeithas Genhadol Efrog Newydd, ac o glywed am waith William Carey dan nawdd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr yn trosi'r Testament Newydd i iaith Bengal. Cymaint oedd yr ysbryd cydymdrechol fel y bu i gymdeithasau cenhadol Llundain, Glasgow a Chaeredin yn Hydref 1797 ddanfon chwech o genhadon, dau bob un, i weithio ar y cyd yn Sierra Leone. Erbyn Mai 1797 gallai'r Gymdeithas ddatgan iddi glirio'i chostau a bod ganddi £4,000 dros ben. Ceir cyfieithiad hefyd o lythyr gan y Capten Wilson yn adrodd am y derbyniad gwresog a gafodd y cenhadon gan frodorion Ynysoedd Môr y De. Adroddir am ddychweliad y *Duff* a gyrhaeddodd Llundain ar 11 Gorffennaf 1798, gan roi'r argraff fod y fordaith wedi bod yn gwbl lwyddiannus, ac yn annog y Cymry i gefnogi'r fenter: 'Felly, fy Mrodyr, yr hen *Fryttaniaid*, gwelwn fod ein Duw yn gwneuthur pethau mawrion, a'i Bobl trwy'r byd yn deffroi! Duw'n gwaredo ni rhag cysgu'.[38]

Mae'n anodd mesur sut ymateb gafwyd i ymddangosiad *Y Dydd yn Gwawrio*. Ar 30 Mawrth 1799, anfonodd Dr George Lewis air i'r *Trysorfa Ysprydol* yn datgan: 'Y mae mewn amrywiol fannau wedi bod yn foddion i gynhyrfu yr eglwysi i weddïo am lwyddiant ar y gwaith. Mewn rhai mannau y mae Casgliadau wedi eu gwneuthur; ac yr ydys yn hyderu na bydd un eglwys yn fodlon i beidio cyfrannu at y fath achos'.[39] Dengys y sylw hwn bod gweinidogion Calfinaidd o blith y gwahanol enwadau yn cydweithio i hyrwyddo'r Gymdeithas Genhadol. Roedd Morgan Jones wedi cyflwyno adroddiad tra ffafriol am ddychweliad y *Duff* a glaniad y cenadon cyntaf yn Ynysoedd Môr y De, ond gwyddom bellach mai darlun unochrog, ymhell oddi wrth y gwir a gyflwynwyd. Nid oedd unrhyw fwriad i gamwarwain

[38] Jones, *Y Dydd yn Gwawrio*, tt. 37-8.
[39] *Trysorfa Ysprydol*, 16 Ebrill 1799, 38-9.

wrth adrodd am arwriaeth y fordaith gyntaf, ond gwyddom, wedi i'r *Duff* droi am adref, mai gwynebu trafferthion enbyd a wnaed yn Nhahiti a'r ynysoedd eraill.[40] Yn ôl Ian M. Randall:

> Over the succeeding years there was a series of setbacks and the first phase of the enterprise in Tahiti ended, as Horne put it, in 'blank and absolute failure.' If anything the situation was more disastrous on the island of Tonga. The *Duff* left nine men there, of whom three were killed - the first martyrs of the LMS - and one abandoned Christianity to indulge in what was described as 'a life of immorality'. The remaining five became destitute. It was plainfully evident that resources were being wasted.[41]

Yng Nghymanfa Bethel, Trewyddel, Mai 1799, 'Cytunwyd, i fod yn fraint, ac yn ddyledswdd, ar yr eglwysi yn gyffredinol, i roddi a chyfranu, fel y gallont gynorthwyo yr Achos da o ddanfon a lledu yr Efengyl yn mhlith y paganiaid yn *Ynysoedd Môr y Deheu*'.[42] Ond ceir yr argraff mai digon araf oedd yr ymateb ymhlith eglwysi'r de-orllewin yn ystod y blynyddoedd dilynol. A fyddent wedi clywed am fethiannau'r genhadaeth gyntaf, a'u bod felly yn gyndyn i gyfrannu? Serch hynny roedd y gwaith yn mynd rhagddo. Etholwyd David Charles Caerfyrddin yn aelod o fwrdd y cyfarwyddwyr yn 1799. Ymwelodd Rowland Hill, cyfaill Charles ac un o brif arweinwyr y mudiad yn Lloegr, â Chaerfyrddin yn 1800 lle cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau. Bernir mai Morgan Jones oedd y cyntaf o blith yr Annibywnyr yng Nghymru i'w ethol yn un o gyfarwyddwyr y Gymdeithas. Enwir 'Mr David Charles, Carmarthen; Rev. Thomas Charles, Bala; Rev. Morgan Jones, Esgurgraig, Cardiganshire; Mr. Benjamin Jones, Haverford West'[43] ar restr y cyfarwyddwyr ar gyfer 1800. (Wedi priodi, yn Esgair-grug yng Ngheredigion y trigai Morgan Jones ar y pryd.) Roedd Benjamin Jones, gweinidog y Tabernacl Hwlffordd wedi ei ethol yn 1799, ond gyda'r Methodistiaid Calfinaidd roedd ei deyrngarwch ef y pryd hwnnw. Ychydig o ffeithiau sydd ar gael am weithgarwch cynnar y Gymdeithas yng Nghymru ymhlith yr Annibynwyr. Yng Nghymanfa Abertawe, Mehefin 1806, pasiwyd i gyhoeddi 'traethawd byr neu *Magazine* Efengylaidd, pris chwe' cheiniog, ddyfod allan yn chwarterol dan olygyddiaeth y Parchedigion, D. Peter, Caerfyrddin, D. Davies, Llanybri, M. Jones, Trelech, W. Griffiths, Glandwr, J. Davies, Bethlehem a J. Lloyd, Henllan'.[44] Os cylchgrawn yn adrodd am y gwaith cenhadol ydoedd, fel y tybia E. Lewis Evans, ni wyddom bellach p'un ai a welodd olau dydd ai peidio.[45]

*David Peter*

Roedd David Peter erbyn hyn wedi ymuno'n frwdfrydig yn y gwaith o hyrwyddo'r genhadaeth dramor. Roeddd ganddo gydymdeimlad mawr â'r 'Gobaith Piwritanaidd', fel y gwelir yn ei bregeth, eto gyda'r teitl *Y Dydd yn Gwawrio,* a draddododd yn agoriad capel Bwlchnewydd ar 25 Awst 1809, ac yn Heol Awst y Sul canlynol.[46] Y testun oedd Eseia 21:11: 'Y gwyliedydd, beth am y nos?' Disgrifiwyd y tywyllwch yn nhermau chwech o wahanol nosau: y nos baganaidd yn dilyn cwymp Adda; y nos Iddewig hyd at ddyfodiad Crist; y nos babaidd, a'r Pab

---

[40] gw. Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, tt. 57-9.
[41] Ian M. Randall, 'Nonconformists and Overseas Mission' yn Robert Pope (gol.), *T & T Clark Companion to Nonconformity* (London: BloomsburyT & T Clark, 2013), tt. 381-406 [386].
[42] *CyA*, t. 78.
[43] *LMS Reports*, 1800.
[44] *CyA*, t. 142.
[45] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, tt. 38-9.
[46] David Peter, *Y Dydd yn Gwawrio, neu bregeth ar agoriad capel Bwlch-newydd* (Caerfyrddin: J. Evans, 1809).

ei hun, erbyn yr oesoedd canol, yn ymgorfforiad o'r Anghrist; y nos Fahometanaidd, rhwng cyfodiad y Proffwyd yn y chweched ganrif a'i ddylanwad hyd at y presennol yng ngwledydd y dwyrain; y nos atheistaidd, a fynegwyd yn Ffrainc adeg y Chwyldro; ac yn olaf nos pechod yn gyffredinol. Gydag amrywiaeth helaeth o gyfeiriadau o'r Hen Destament, yn arbennig Lyfr Daniel, a rhannau o'r Testament Newydd yn arbennig Lyfr y Datguddiad, soniodd am gyflawni'r holl broffwydoliaethau: eilunaddoliad yn darfod; yr Iddewon yn dychwelyd i'r Wlad Sanctaidd; y babaeth yn syrthio; Mohametaniaeth yn cael ei threchu; atheistiaeth yn darfod a heddwch byd-eang yn gwawrio, a hynny ar fyrder: 'Er fod llawer o wledydd heb erioed glywed sain yr efengyl, y mae yr amser yn neshau, pan bydd i'r efengyl hon am y deyrnas, gael ei phregethu trwy'r holl fyd, er tystiolaeth i'r holl Genhedloedd'.[47] A dyddiau dedwydd fydd amser y cyflawniad, dyddiau wedi eu nodweddu gan gymod a heddwch a gorfoledd mawr, gyda phawb yn moliannu Duw yng ngwawl goleuni Crist yr Oen.

Roedd am y mwyaf o ddyfalu cywrain ym mhregeth Peter, ond nid ymddengys bod neb yn anfodlon ar hyn. Datganodd y byddai diwedd ar Babyddiaeth 1260 o flynyddoedd wedi 606 Oes Crist, sef y flwyddyn y rhoddwyd saint y goruchaf Dduw dan awdurdod y Pab. Fe fyddai Pabyddiaeth felly yn dod i ben yn 1866. Byddai terfyn hefyd ar dywyllwch Mohametaniaeth yr un flwyddyn. 1866 hefyd fyddai blwyddyn cychwyn adferiad yr Iddewon, a byddai'n cyd-redeg â'r amser pan fyddai'r brenin atheistaidd yn dechrau ar ei daith i wlad Canaan, lle fyddai yn cyfarfod â'i ddiwedd. Yn ystod adferiad yr Iddewon byddai cyfnod o 75 o flynyddoedd na welwyd ei fath yn hanes dyn ar y ddaear, ac wedi'r dyddiau tywyll hynny, byddai'r mil blynyddoedd yn gwawrio, sef yn 1941: 'O ddedwydd amser, pan y b'o Satan wedi ei rwymo dros fil o flynyddoedd; a phan na b'o un annuwiol ar y ddaear'.[48] Er mor annhebygol yr ymddengys hyn i ni, roedd dablygiadau ar waith a oedd yn peri i gredinwyr selog ddwys-ystyried, er enghraifft, lwyddiant anarferol mewn cenhadu gartref: 'Y mae lleoedd addoliad yn cynnyddu, nifer pregethwyr yn amlhau, a gweddiwyr yn lluosogi';[49] y diwygiadau mynych; y cynnydd graddol mewn rhyddid gwladol a chrefyddol gydag Ymneilltuwyr yn cael rhyddid i addoli Duw yn ôl eu dymuniad a ble y mynnont; y diwydrwydd a welwyd yng ngwaith yr Ysgolion Sul yn 'addysgu plant i ddarllen gair Duw, a deall egwyddorion y grefydd grist'nogol, yn ngyd a'r awydd sydd mewn plant i gael eu hyfforddi mewn gwybodaeth o'r pethau a berthynant i'w heddwch hwynt'.[50] Clôdd ei bregeth trwy apelio ar ei wrandawyr i brysuro'r amser pan fyddai'r dydd yn gwawrio, a hynny trwy gefnogi'r gwaith yn ariannol a gweddïo drosto. Roedd emyn yn ymwneud â phwnc 'y dydd yn gwawrio' ar ddiwedd y bregeth, ac y mae'n eithaf posibl mai Peter ei hun oedd ei awdur. Er cydnabod cyfraniad Peter i fyd addysg, mewn sicrhau hawliau sifil i Ymneilltuwur a'i waith bugeiliol yn eglwys Heol Awst, nid y lleiaf o'i gymwynasau oedd ei gefnogaeth i'r gwaith cenhadol. Yn ôl E. Lewis Evans, 'bu ef ynglŷn â phob digwyddiad cenhadol o bwys am y chwarter canrif olaf o'i oes, o un pen i'r llall i Gymru'.[51]

[47] Peter, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 16.
[48] Peter, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 20.
[49] Peter, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 22.
[50] Peter, *Y Dydd yn Gwawrio*, t. 23.
[51] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, t. 183.

## 3. 1812-20

Ag eithrio un cyfeiriad at lwyddiant crefydd yn yr Amerig yn llythyr cymanfa Pen-maen, Mynwy yn 1802, nid oes fawr o gyfeiriadau yn llythyrau'r cymanfaoedd at y genhadaeth tan 1812. Yng Nghymanfa Ffaldybrenin, Sir Gaerfyrddin 3 a 4 Mehefin y flwyddyn honno:

> Cytunwyd, i gadw cyfarfodydd yn yr holl eglwysi dydd Nadolig nesaf, ac i'r gweinidogion i bregethu ar yr 'Angenrheidrwydd i anfon Cenhadau i bregethu yr Efengyl mewn gwledydd paganaidd', ac i bob eglwys wneud casgliad, ar y dydd hwnw, tuag at gynnorthwyo y Gymdeithas yn Llundain, yr hon sydd yn anfon pregethwyr i blith y paganiaid. A bydd i'r Parch. D. Peter, Caerfyrddin, (yr hwn sydd wedi ei osod yn un o reolwyr y Gymdeithas Genhadol, dros y flwyddyn hon) anfon y casgliadau i Lundain. Diweddwyd y gyfeillach trwy weddi gan y Parch. M. Jones, Trelech.[52]

Yn 1812 etholwyd Peter yn aelod o fwrdd cyfarwyddwyr y Gymdeithas Genhadol.[53] Yng Nghymanfa Ffaldybrenin, roedd Morgan Jones wedi pregethu ar Ioan 8:24 ar y pwys o gael iawn syniadau ar berson Crist, David Peter ar 2 Pedr 1:4, a David Davies Abertawe ar Exodus 32:26 'when a collection was made for the Missionary Society after a discourse delivered on the subject by Mr. Davies'.[54] Yn y gymanfa dde-ddwyreiniol yng Nhroedrhiwdalar, 1 a 2 Gorffennaf 1812, pregethodd y Dr George Lewis Wrecsam ar Colosiaid 3:1, David Peter yn Saesneg ar Galatiaid 5:1 a David Davies ar 2 Corinthiaid 10:5, pregeth genhadol oedd hon a dywedir i gasgliad gael ei wneud i'r Gymdeithas Genhadol.[55] Yn adroddiadau blynyddol y Gymdeithas am 1812 cafwyd y cofnod: 'Glamorgan Assosiacion, by Rev. D. Davies £5 0*s* 7*d*.'[56] Roedd y gweinidogion hefyd yn hyrwyddo yr achosion Cymraeg yn Llundain, gan drefnu casgliadau i helpu clirio dyledion yno.[57] Treuliai rhai ohonynt gyfnodau yn y brifddinas, a thra eu bod yno manteisio i gyfarfod ag arweinwyr y Gymdeithas Genhadol. Yn agoriad Capel y Boro yn Little Guildford Street, Southwark, pregethodd Daniel Jones Crug-y-bar a David Davies yn Gymraeg a Mathew Wilkes yn Saesneg, a thrwy'r cysylltiadau hyn cafodd Davies a Jones eu lluniau yn yr *Evangelical Magazine*.

> Yr oedd Mathew Wilkes yn pregethu yng nghyfarfodydd agor Eglwys y Boro yn 1807, a mynnodd yntau i Forgan Jones gymryd rhan ar y llwyfan cenhadol pan gyflwynwyd tri Hottentot i sylw'r cyfarfod. Am hynny, ceir ei lun yn yr *Evangelical Magazine* am Ebrill 1808.[58]

Roedd llun o Davies wedi ymddangos yn rhifyn Ebrill 1806 o'r cylchgrawn eisoes. Rhai blynyddoedd yn ddiweddarach, yng Nghymanfa Cwmllynfell, Ebrill 1813, dywedir bod Davies, y tro hwn eto, wedi traddodi anerchiad grymus ar y genhadaeth ac wedi'r anerchiad i gasgliad gael ei wneud at waith y Gymdeithas.[59] Yn yr adroddiad ariannol am 1814 y

---

[52] *CyA*, t. 211.
[53] *LMS Reports*, 1812.
[54] *Evangelical Magazine* (August 1812), 321; gw. hefyd *CyA*, t. 212.
[55] *Evangelical Magazine* (August 1812), 323, gw. hefyd *CyA*, t. 213.
[56] *LMS Reports*, 1812.
[57] *CyA*, t. 142.
[58] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol* , t. 38; am gyfarfod agoriadol y Boro gw. *CyA*, t. 142; hefyd *Evangelical Magazine* (September 1806), 430.
[59] *CyA*, t. 231.

cofnodwyd y cyfraniad sef £5 5*s* 6*d* o 'Glamorganshire, Collection at Cwmllynfell by Rev. David Davies'.[60]

Cyn hynny ar y Sul 25 Ionawr 1813 roedd David Peter wedi neilltuo'r dydd gartref yn Heol Awst ar gyfer hyrwyddo'r genhadaeth. Pregethodd yn y bore oddi ar Actau 16:9 yn pledio'r angen am yr ymdrechion cenhadol ymhlith y paganiaid. Yn y prynhawn pregethodd ar Rhufeiniaid 1:15 gan egluro fel y dylai pob gwir Gristion ddymuno gweld eu cyd-greaduriaid yn profi tröedigaeth. Trueni'r sefyllfa, fodd bynnag, oedd nad oedd ymdrechion caredigion Crist i ledaenu'r efengyl yn cyfateb i fawredd y gwaith. Wedi argraffu ar ei wrandawyr yr ymdeimlad o wasanaeth, casglwyd £27 at waith y Gymdeithas Genhadol.[61] Yn y gwanwyn teithiodd i Lundain gan bregethu yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas. Pwnc ei bregeth yn Surrey Chapel fore Mercher 12 Mai 1813 oedd 'Universal Diffusion of the Gospel'. Cododd ei destun yn Llyfr y Salmau: 'All the ends of the world shall remember and turn unto thee Lord; and all the kindreds of the nations shall worship before thee. For the kingdom is the Lord's; as he is the governor among the nations' (Psalm 22: 27-8).[62] Agorodd trwy gyfeirio at y comisiwn a roes Iesu i'w ddisgyblion fynd i'r holl fyd a phregethu'r efengyl i bob creadur, gan wybod eu bod wedi eu donio i'r gwaith wedi i'r Ysbryd Glân gael ei dywallt arnynt mewn modd neilltuol ar ddydd y Pentecost. A dyna mewn gwirionedd oedd byrdwn ei bregeth ag iddi ddau ben sef: 1. Addewidion a 2. Sicrwydd cyflawniad yr addewidion. Pwysleisiodd bod amser gwireddu'r addewidion gerllaw: 'But blessed be God, gloomy as the prospect may be, though darkness covereth the earth, and gross darkness the people, a period will arrive when all the ends of the world shall remember and turn to the Lord.'[63] Roedd yn bregeth llawn cyfeiriadau hanesyddol; roedd yr eglwys yn gynnar yn ei hanes wedi'i gwasgaru oherwydd erledigaeth yr Iddewon, ond trwy oruwchlywodraeth Duw wedi ymledaenu ar draws y byd; iddi ddioddef dan law yr Ymerodraeth Rufeinig ac wedi hynny ddioddef yn wyneb llygredd yr Eglwys Babyddol a chyfodiad a thwf Mwslemiaeth. Serch hyn roedd yn bregeth llawn gobaith mewn perthynas â lledaeniad byd-eang yr efengyl, a'i hoptimistiaeth yn tarddu o argyhoeddiad y 'Gobaith Piwritanaidd', er na chynhwysodd y tro hwn y dyfaliadau apocalyptaidd cywrain yn null ei bregeth gynharach *Y Dydd yn Gwario* (1809). Diben y weinidogaeth Gristnogol oedd uno pobl mewn ffydd, gobaith a chariad a'u paratoi ar gyfer perthyn i'r gynulleidfa fawr a fyddai'n ymddangos gerbron gorseddfainc Crist adeg yr ail-ddyfodiad. I wireddu'r bwriad roedd Duw wedi cynysgaeddu ei eglwys â doniau a galluoedd addas i'r gwaith, i wrthwynebu drygioni ac i ddarostwng pob meddwl i ufudd-dod Crist. Ond i wireddu'r bwriad byddai'n rhaid i bellafoedd y ddaear glywed yr efengyl ac i'r holl genhedloedd droi at yr Arglwydd. Credai y byddai'r Iddewon, y Pabyddion a'r Mwslemiaid yn dod i weld cyfeiliorni eu ffyrdd, cydnabod cyfeiliorni eu ffyrdd a derbyn Crist fel y gwir broffwyd:

> In short, sinners of all nations shall remember their past erroneous conduct, and humble themselves in dust and ashes before their Maker. Perceiving the infinite love of God in sending his Son into the world to die for their sins; the length, the breadth, the depth and height of this love shall fill them with the greatest amazement.[64]

---

[60] *LMS Reports*, 1814.
[61] C*armarthen Journal*, 30 Ionawr, 1813.
[62] *LMS Reports* 1813, t. 41-54; hefyd *Missionary Sermons* 1813, Volume 8, tt. 41-54.
[63] *LMS Reports*, 1813, t. 45.
[64] *LMS Reports*, 1813, t. 47.

Yn unol ag addewidion yr Ysgrythurau, byddai hyn yn ffrwyth ymdrechion y cymdeithasau cenhadol a gwaith y Feibl Gymdeithas. Credai y byddai'r grymusterau a gododd trwy'r canrifoedd i geisio dinistrio'r eglwys Gristnogol yn cael eu trechu am fod y sylfaen yn anorchfygol: 'upon this rock, said Christ I will build my Church, and the gates of hell shall not prevail against it'.[65] Wedi darostwng y balch byddai'r efengyl yn cario'r dydd ar rymoedd ymerodrol a chyfeiliorni Pabyddiaeth a Mohametaniaeth:

> Christ having died that he might gather together in one the children of God that are scattered abroad, will not cease to reign till all the glorious purpose of his incarnation, death, resurrection, and ascension be fully accomplished. He shall see his seed, he shall prolong his days, and the pleasure of the Lord shall prosper in his hand.[66]

Ond os oedd gwaith yr Arglwydd i lwyddo, roedd rhaid i'r eglwys ddeffro ac ymateb i gomisiwn Iesu. Atgoffodd Peter fod yr allwedd i hyn yn nwylo'r Cristnogion eu hunain: 'We possess what by the blessing of God, would be the means of raising from their present state of moral degradation, to a state of present and everlasting felicity'.[67] Holl fyrdwn ei bregeth oedd annog y ffyddloniaid i gefnogi ymdrechion y Gymdeithas Genhadol, a gorffennodd gydag apêl i bob un, cyfoethog a thlawd, roi heibio difaterwch a hunan-fodlonrwydd, i feddwl o ddifrif am gyflwr pobloedd yn marw heb wybodaeth am efengyl Iesu Grist, ac felly ymegnïo o blaid y dasg fawr. Mae'n rhaid fod y bregeth wedi ennyn cryn frwdfrydedd oherwydd ddiwedd Gorffennaf ymwelodd Rowland Hill â Chaerfyrddin drachefn gan bregethu i gynulleidfa fawr yng Nghapel Heol y Dŵr.[68]

Yng Nghymanfa'r Groes-wen, Morgannwg, 12 a 13 Ebrill, 1814, cytunwyd yn unfrydol ar gynnig David Davies i gynnal cyfarfodydd cenhadol yn Abertawe y mis Awst dilynol. 'Datganodd y gweinidogion ddymuniad gwresog ar i Gristnogion efengylaidd o bob enwad i ymuno â hwynt yn y gorchwyl gogoneddus hwn, ac am beidio cynnal cyfarfodydd eraill ar y dyddiau hyn i rwystro ymgyrchiad pobl yno'.[69] Roedd y cyfarfodydd i fod ar gynllun Cyfarfod Cenhadol Llundain sef yn anenwadol. Fe'u cynhaliwyd ar 2-4 o Awst, a hyd hynny fe'u gwelwyd fel penllanw y gweithgarwch cenhadol yn y De.[70] Dyma'r pryd sefydlwyd Cangen Gynorthwyol (*Auxiliary*) Deheudir Cymru o'r Gymdeithas Genhadol gyda David Peter a David Charles yn gyd-ysgrifenyddion iddi. Honnir bod dros 5,000 wedi mynychu'r cyfarfodydd pregethu: 'Gwelwyd eglwysi o bob enwad yn agor eu drysau fel ei gilydd, ac yr oedd yr Eglwys Esgobol ar flaen y llu'.[71] Rhoddwyd lle amlwg i Samuel Tracy, ysgrifennydd cartref y Gymdeithas, i Mathew Wilkes o Lundain, William Thorp o Fryste, a chyda hwythau Davies, Morgan Jones, David Thomas Pen-maen, Thomas Luke Hwlffordd a Griffith Hughes y Groes-wen. Trwy law Tracey a Wilkes cyfranwyd tros £300 at gronfa'r Gymdeithas.

Yn sgil sefydlu Cymdeithas Genhadol Gynorthwyol Deheudir Cymru, yn rhifyn Hydref 1814 o'r *Evangelical Magazine and Missionary Cronicle* ceir rhestr helaeth o'r eglwysi a'u gweinidogion o dde Cymru a'u cyfraniadau at yr achos, ac yn eu plith David Davies, David

---

[65] *LMS Reports*, 1813, t. 50.
[66] *LMS Reports*, 1813, t. 52.
[67] *LMS Reports*, 1813, t. 54.
[68] *Carmarthen Journal*, 30 Gorffennaf 1813.
[69] *CyA*, t. 245.
[70] *Evangelical Magazine* (November 1814), 450; *Carmarthen Journal*, 12 Awst 1814.
[71] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, t. 39

Evans Mynydd-bach, Henry George Brynberian, John Davies Allt-wen, Morgan Jones, Thomas Luke, Thomas Phillips Neuadd-lwyd a David Peter. [72]

Yn y cyfnod hwn roedd David Peter hefyd â'i fryd ar gychwyn cenhadaeth i Lydaw. Wedi'r cyfarfodydd yn Abertawe clywodd Samuel Tracy a Mathew Wilkes bod Davies a John Elias wedi mynegi dymuniad am fynd i Lydaw ar ran y Gymdeithas Genhadol. Bwriadau y ddau gyd-deithio, ond dyfarnodd y Bwrdd mai un ohonynt ddylai fynd:

> A wish was expressed for the Society to go into Brittany in France where the same language is spoken as the Welsh to promote the interest of Evangelical religion. Resolved that one of the Welsh ministers mentioned be allowed at the expence of this Society to proceed to Britanny to preach and otherwise promote the interest of Religion in that Country and Mess[rs] Waugh, Burder & also be a Committee to draw up instructions for this purpose.[73]

Fis yn ddiweddarach roedd Peter mewn gohebiaeth â Llundain ynglŷn â'r bwriad.[74] Cafwyd adroddiad am y dymuniad hefyd yn yr *Evangelical Magazine*:

> It having been ascertained by some of the Welsh Ministers, in conversing with some of the French prisoners, that the language spoken by the Bas Bretons, in Brittany, is nearly the same as that spoken by the ancient Britons, Mr. Peter, the president of the Carmarthen College, has offered to visit that part of France, with a view of commencing a Mission, to which it is expected some of the Students now at Carmarthen, will willingly devote themselves, the Trustees of that College having kindly consented to their exercising their ministry in any part of the world where God may incline their hearts, and open the door in his providence.[75]

Ond ni ddaeth dim o'r cynllun hwn.

Wedi cyfarfodydd Abertawe, fel y nodwyd, teithiodd Tracey a Wilkes i'r gorllewin:

> Messrs. Wilkes, and Tracy, proceeded to Carmarthen and Haverfordwest, where they preached, and made handsome collections. Mr. Tracy afterwards went through the Counties of Pembroke, Cardigan and Carmarthen, forming Branch Societies, in which he was kindly assisted by some of the brethren who accompanied him from place to place, to interpret in Welsh, for the benefit of those who could not understand English. In the whole upwards of £500 were received.[76]

---

[72] *Evangelical Magazine and Missionary Chronicle* (October 1814), 411-2

[73] Cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr 29 Awst 1814, tt. 88-9, CWM Home Board Minutes Box 5/6 1809-1815, Casgliad Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) yn Ysgol Gwyddorau Affricanaidd a Dwyreiniol (SOAS), Prifysgol Llundain.

[74] Cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr, t. 101, CWM Home Board Minutes Box 5/6 1809-1815.

[75] *Evangelical Magazine* (November 1814), 450-1.

[76] *Evangelical Magazine* (November 1814), 450; gw. hefyd Cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr 29 Awst 1814, t. 88, CWM Home Board Minutes Box 5/6 1809-15.

Yn yr adroddiad cyfeiriwyd hefyd at fyfyriwr a oedd wedi cwblhau ei dymor yn Academi Caerfyrddin, sef John Evans, a ddymunai gyflwyno ei hun i'r maes.[77] Yng nghofnodion cyfarfod Pwyllgor Arholi'r Gymdeithas yn Llundain 29 Awst 1814, dywedir fod Evans, mewn cydweithrediad â David Peter, eisoes wedi ei arholi a'i gymeradwyo gan is-bwyllgor yng nghartref y Parchedig Kemp yn Abertawe. Yn unol â chydsyniad John Evans, argymhellwyd iddo gael ei ddanfon i Lattakoo lle byddai angen iddo lunio gramadeg ar gyfer yr iaith Booshuana ynghyd â geiriadur, cyn mynd ati i gyfieithi'r Ysgrythurau i'r iaith honno. Cyn mynd i Affrica cytunwyd ei ddanfon i'r sefydliad cenhadol yn Gosport am rai wythnosau tan y byddai cwch ar gael i'w gludo i Benrhyn y Gobaith Da.[78] Yn ôl cofnodion 14 Hydref 1814, caed gorchymyn i Evans, yng nghwmni Robert Hamilton, fynd i dref Gricqua cyn mynd ymlaen i Lattakoo at Mr a Mrs Janz, gŵr â'i wraig frodorol a oedd yn medru'r iaith.[79]

Yng nghyfnod Peter fel pennaeth, bu Academi Caerfyrddin yn hael ei chefnogaeth a'i nawdd i fyfyrwyr a fynnent gysegru eu bywydau i'r maes cenhadol. Yn 1814 gwnaeth y Bwrdd sylw arbennig o'r coleg a chyfraniad Peter:

> The trustees of the College at Carmarthen having consented in the most handsome manner to permit any student under their Patronage to become a Missionary & exercise his Ministry in whatever part of the world he may think proper without requiring renumeration from our Funds resolved that honorable mention be made of this liberality to the Directors & upon our Minutes. Mr Peter the Tutor of Mr Evans, having intimated that it might in his opinion be highly gratifying to the Welsh Ministers and Churches and likely to promote the Interest of the Missionary Society in the new formed South Wales Auxiliary Missionary Society, if Mr Evans were remitted back to them for ordination. It was resolved that his ordination should take place in that country accordingly.[80]

Gwelir felly mai i David Peter, i raddau helaeth, mae'r clod bod y cenhadon o Gymru wedi cael ei neilltuo a'u hordeinio yn eu cynefin.

Ar 7 Awst 1814 yn ystod taith Tracy a Wilkes i'r gorllewin, cynhaliwyd Sul cenhadol yng nghapel Heol Awst. Pregethodd Peter yn Gymraeg yn oedfa'r bore ar Salm 19:10 a Wilkes yn Saesneg ar 1 Pedr 1:19 o'r cymal 'gwerthfawr waed Crist'. Yn y prynhawn pregethodd Tracy ar Datguddiad 1:5-6 ac eto yn yr hwyr ar Haggai 2:7. Traddododd Wilkes hefyd anerchiad addas a chloi mewn gweddi. Gwnaed casgliadau ar ddiwedd pob oedfa, ac er gwaethed y tywydd garw llwyddwyd i gasglu tros £32 tuag at yr achos. Ar y bore Llun cyfarfu Wilkes a Tracy â ieuenctid y gynulleidfa gan ffurfio *Juvenile Auxiliary Missionary Society* i bawb a oedd yn barod i danysgrifio ceiniog yr wythnos. Cymaint oedd yr ymateb fel y cafwyd tros 300 o enwau. Ac roedd cymdeithasau tebyg i'w sefydlu ymhlith cynulleidfaoedd eraill yn

---

[77] *Evangelical Magazine* (November 1814), 450; gw. hefyd Cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr 15 Awst 1814, t. 82 a 29 Awst 1814 , tt. 85- 6 CWM Home Board Minutes Box 5/6 1809-15.
[78] *Minutes of the Committee of Examination of the Missionary Society*, 29 Awst 1814, tt. 281-3 yn Box Committee Minutes Candidates (Examination), Book 1 May 27 1796 - June 10 1816, Casgliad Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) yn Ysgol Gwyddorau Affricanaidd a Dwyreiniol (SOAS), Prifysgol Llundain.
[79] *Minutes of the Committee of Examination of the Missionary Society*, 14 Hydref 1814, tt. 300-2.
[80] *Minutes of the Committee of Examination of the Missionary Society*, 29 Awst 1814, tt. 284-5.

y dref ac yn y gymdogaeth.[81] Fel y gwelir yn adroddiadau'r *Cronicl Cenhadol* roedd cymdeithasau ieuenctid brwdfrydig a gweithgar yn eglwysi gofalaeth Morgan Jones hefyd.

Am y waith gyntaf, cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cangen Gynorthwyol Deheudir Cymru o'r Gymdeithas ar 12, 13, 14 Medi 1815 yng Nghaerfyrddin. Cyhoeddwyd cylchlythyr yn y *Carmarthen Journal* a luniwyd gan Peter.[82]

> Daeth Samuel Tracy i Gymru yn bur hyderus yn awr. Rhoed iddo'r anrhydedd o agor yr ŵyl trwy dywys gweddïau'r oedfa gyntaf. Ar ei ôl ef pregethwyd gan Thomas Luke, Abertawe. Gweledigaeth Paul yn Nhroas (Act 16:9) oedd ei bwnc, a phrofwyd y bore hwnnw fod y llais yn dal i alw ... Cynhaliwyd cyfarfod y prynhawn yn Eglwys Llanllwch, ryw ddwy filltir y tu allan i ffin y Dref.[83]

Bu peth aniddigrwydd o gyfeiriad Esgob Tyddewi i'r cyfarfodydd gynhaliwyd yn eglwysi San Pedr a Llanllwch, a mynegwyd hynny yn y papur lleol:

> We have authority to say that the sermons which were preached at St Peter's and Llanllwch, by Ministers of the Establishment in the absence of the Bishop were without his persuasion and contrary to his approbation.[84]

Fel yng nghyfarfodydd Abertawe, cynhaliwyd cyfarfodydd pregethu niferus gydag enwau Morgan Jones, David Davies, Benjamin Evans Dre-wen, Henry George Brynberian, James Griffiths Tyddewi a William Williams o'r Wern ymhlith y pregethwyr. Yn goron ar y cyfan, fore dydd Iau yng nghyntedd Heol Awst, gweinyddwyd oedfa gymun i 'upwards of a thousand Christians of various denominations'.[85] Ac fel y bu David Davies wrth y llyw yn Abertawe yn 1814, David Peter a ysgwyddodd y trefniadau yng Nghaerfyrddin, ac roedd y gwaith yn mynd o nerth i nerth. Casglwyd y tro hyn eto yn agos i £500 tuag at gronfa'r Gymdeithas gyda'r addewidion yn ffafriol am ragor i ddilyn. Yn rhinwedd ei swydd fel ysgrifennydd, Peter a fyddai'n paratoi adroddiadau i'r papur lleol gan eu cyfieithu yn ôl y galw.[86] Yn ogystal ag ysgwyddo llawer o waith gweinyddol, nid oedd pall ar ei gyfraniad cyhoeddus yn annerch a phregethu ledled y wlad. Teithiodd i Lundain yn 1821 gan bregethu yn Gymraeg yn Surrey Chapel. Roedd hyn wythnos ar ôl cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas, ac yn ôl cyhoeddiad yn *Y Cronicl Cenadol*, pregethodd yng nghwmni John Elias ar Ddydd Mawrth, 15 Mai.[87] Cyfrannodd hefyd 'at roddi Dysgeidiaeth i'r Benywod brodorol yn India'.[88] Roedd ef a Morgan Jones yn gefnogol i Gymdeithas Pregethu Teithiol Swydd Benfro a oedd yn cynnal David Phillips, cenhadwr i'r parthau Saesneg yn ne'r sir, ac yn cyfrannu at ei gynnal.[89]

Bu llwyddiant Cangen Gynorthwyol Deheudir Cymru o'r Gymdeithas yn ysgogiad i sefydlu cangen gyffelyb yng ngogledd Cymru a gwnaed penderfyniad i'r perwyl yng

[81] *Carmarthen Journal*, 12 Awst 1814.
[82] *Carmarthen Journal*, 1 Medi 1815.
[83] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, t. 41.
[84] *Carmarthen Journal*, 22 Medi 1815.
[85] *Evangelical Magazine* (October 1815), 430; gw. hefyd *Carmarthen Journal*, 15 Medi 1815.
[86] *Carmarthen Journal*, 17 Hydref 1817; 4 Medi 1818; 6 Awst 1819; 8 Medi 1820.
[87] *Y Cronicl Cenadol* (Ebrill 1821), 480
[88] *Y Cronicl Cenadol* (Chwefror 1822), 598.
[89] *Y Cronicl Cenadol* (Mawrth 1822), 607-9.

nghymanfa Treffynnon 25 Hydref 1815.[90] Yn y gymanfa mynegwyd dymuniad i'r Dr George Lewis (brodor o Dre-lech), Pennaeth Academi yr Annibynwyr yn Wrecsam ar y pryd, i fod yn ysgrifennydd i'r gwaith a phwysleisiwyd bod y cyfarfod blynyddol i fod yn gydenwadol yr un fath â'r cyfarfodydd cenhadol yn Llundain a Bryste, gan ddilyn, mae'n amlwg, y patrwm a osodwyd yn Abertawe a Chaerfyrddin. Yn Hydref 1815 derbyniodd George Lewis alwad o Lanfyllin a symudwyd yr Academi hefyd i'r dref. 'Cadwyd y cyfarfod cenhadol cyntaf yn Llanfyllin, Awst yr 21, 22, a'r 23, 1816. Yr oedd lluaws mawr o weinidogion o Gymru a Lloegr yn bresenol. Traddodwyd areithiau grymus. Casglwyd cydrhwng yr holl gyfarfodydd £251 19*s* 9*c.*'[91] Roedd gwŷr blaenllaw y mudiad cenhadol yn Lloegr yno yn cynnwys Alexander Waugh, Llundain, John Angell James, Carrs Lane Birmingham a John Reynolds Caer, ac ymhlith pregethwyr blaenllaw yr Annibynwyr o'r de, roedd David Peter, Morgan Jones, Thomas Phillips Neuadd-lwyd, a John Davies o'r Alltwen. Rhoddwyd lle anrhydeddus i David Griffiths Gwynfe yn y cyfarfodydd. Roedd ef ar y pryd yn fyfyriwr yn yr Academi Annibynnol yn y gogledd o dan George Lewis yn paratoi ei hun ar gyfer y maes cenhadol.[92]

Rhwng 1814 ac 1837 codwyd saith cenhadwr o eglwysi'r de-orllewin. Roedd David Peter yn adnabod y saith a thrwy ei weinidogaeth yn Heol Awst wedi bod â chysylltiad agos a thri ohonynt sef John Evans, William Beynon a Thomas Joseph.[93] Ordeiniwyd John Evans yn Heol Awst ar 8 Rhagfyr 1814 gyda Peter, ei weinidog, yn traddodi'r siars. Roedd David Jones, Neuadd-lwyd wedi mynychu cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Genhadol yng Nghaerfyrddin yn 1815 a bu'r cyfarfodydd a chlywed am benderfyniad John Evans yn ysbrydoliaeth iddo i gyflwyno ei hun i'r maes cenhadol, a symbylwyd Thomas Bevan hefyd gan benderfyniadau y ddau.[94] Bu Peter â rhan amlwg yn neilltuad pedwar o'r cenhadon trwy bregethu yn eu cyfarfodydd ordeinio. Pregethodd yng nghyfarfod neilltuo David Griffiths, 27 Gorffennaf 1820. Roedd clywed John Evans yn ateb y cwestiynau yn ei gwrdd ordeinio yng Nghaerfyrddin a gwrando ar bregeth Peter wedi dylanwadu yn fawr ar feddwl Griffiths, ac wedi bod yn ysgogiad iddo fynd yn genhadwr, cyn yr anfonwyd ef i Madagascar.[95] Pregethodd Peter hefyd adeg ordeinio William Beynon, 31 Mawrth 1825 a anfonwyd i'r India, ac adeg ordeinio David Johns, 16 Chwefror 1826, a aeth i Madagascar.[96] Bu llaw gan Peter mewn arholi David Jones ar ran bwrdd y cyfarwyddwyr:

> Mr Tracy reported from a Committee of Ministers consisting of Mess'rs Peter, Phillips, Luke and Raban of Bristol who had met at Carmarthen to examine David Jones who had been a student for two years under the Tuition of the Rev. Mr. Phillips of Neuaddllyd (*sic*) who had unanimously agreed to recommend Mr Jones as a Missionary under the Patronage of the Society. Agreed to recommend Mr Jones to the

[90] *CyA*, t. 271.
[91] *CyA*, t. 271.
[92] Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol,* tt. 43-4.
[93] Noel Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd, 1725-1841', Traethawd MA Prifysgol Cymru, Bangor, 1973, t. 235; gw. G. Penar Griffith, *Cenadon Cymreig* (Caerdydd: Gwaith Argraffu Deheudir Cymru, 1897) am nodiadau ar y saith cenhadwr.
[94] Thomas Phillips, *Hanes am Urddiad Thomas Bevan a David Jones yn Neuaddlwyd Sir Aberteifi Awst 20fed a'r 21ain, 1817* (Caerfyrddin: J. Evans, 1818), tt. 9, 15.
[95] Candidates Papers 1796-1899, Bocs 6, archif yr LMS yng ngasgliad Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang, Ysgol Gwyddorau Affricanaidd a Dwyreiniol (SOAS), Prifysgol Llundain.
[96] W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev David Peter* (London, Longman, Brown Green and Longman, 1846), tt. 135-8.

> acceptance of the Directors to be sent for six months to Carmarthen until there may be an opening for him at Gosport.[97]

Yng nghofnodion pwyllgor arholi'r Gymdeithas, 8 Ionawr 1816, nodwyd: 'Mr David Jones a Student of Neuaddlwyd in Cardiganshire whom was accepted by the Directors in October it was agreed should be written to and that it should be proposed for him to go immediately to Africa'.[98] Ar gais gweinidogion yng Nghymru i gyfarwyddwyr y Gymdeithas yn Llundain ordeiniwyd Jones yn ei eglwys gartref yn Neuadd-lwyd i'r diben o fod 'a means of giving publicity to the Missionary cause, and enkindling a Missionary flame through the Principality'.[99]

Bu gan Peter law yn y gwaith o gymeradwyo Thomas Bevan hefyd. Wrth gyflwyno ei hun i'r gwaith cenhadol cafodd Bevan ei holi gan gyfarwyddwyr y Gymdeithas yn ystod cyfarfodydd y gymanfa dde-orllewinol yn Nhal-y-bont, Sir Aberteifi ar 5 a 6 Mehefin 1816.[100] Mewn llythyr at y Gymdeithas yn llawysgrif Peter a ddanfonwyd o Dal-y-bont ar 6 Mehefin, a'i lofnodi gan John Roberts Llanbryn-mair, George Lewis ac yntau, meddid:

> We the undersigned had an opportunity at our Annual Assembly at this place to converse with Mr. Thomas Bevan who now offers himself as a candidate for Missionary Labours among the Heathen; and beg leave to testify our approbation of his Religious Opinions, Christian Experiences, his views in devoting himself to the work of the Ministry in general, and to Missionary Labours in particular, and of his conduct as a Christian. And as he has made considerable progress in the Greek & Latin Languages, we are of the opinion that a year or two at the Missionary Seminary would qualify him for important services in the Missionary Cause.[101]

Bu'r geirda hwn yn brawf digonol yng ngholwg y bwrdd iddo gael ei dderbyn fel ymgeisydd addas ar gyfer bod yn genhadwr ac i'w ddanfon i'r coleg yn Gosport.[102]

*William Beynon*

Fel enghraifft o ymwneud Peter â chodi dynion ifainc i'r genhadaeth, a'r hyn a ddisgwylid mewn darpar-genhadwr da, mae'n werth nodi hanes William Beynon. Dyma lythyr cymeradwyaeth ei weinidog:

[97] *Minutes of the Committee of Examination of the Missionary Society London*, 1815, Cofnod 11 Hydref 1815, tt. 400-1 yn Committee Minutes Candidates (Examination), llyfr 1, May 1796-June 1816, archif yr LMS.
[98] *Minutes of the Committee of Examination*, 8 January 1816, tt. 417-8.
[99] *Minutes of the Committee of Examination*, 8 April 1816, tt 444-5; gw. y llythyr yn Candidates Papers 1796-1899, Bocs 9, Archif yr LMS.
[100] Phillips, *Hanes am Urddiad Thomas Bevan a David Jones yn Neuaddlwyd*, t. 17.
[101] Candidates Papers 1796-1899, Bocs 1, archif yr LMS.
[102] Committee Minutes Candidates (Examination), Book 2, June 1816-July1819, 8 July 1816, t. 10.

Carmarthen June $10^{th}$ 1824

My Dear Sir,

Mr $W^m$ Beynon who wrote the enclosed letter is a Member of the Church under my care; and a student at the Carmarthen College. He is a pious young man of good parts and excellent character and I have employed him for the two last years as Usher in my Grammar School. He can teach the Greek Testament and Horace and has made considerable progress in Hebrew, Mathematics, Natural and Exper. Philosophy, Church History, &c. He will finish his regular course of studies at our college next week, and will be at liberty to go wherever providence may lead him. He has told me for more than twelve month back that he felt inclined to devote himself for missionary labours amongst the heathen, and we have conversed often on the subject since. I find him full of determination to become a missionary; and from what I know of his talents and temper, I have every reason to hope that with the blessing of God he will be useful in that important calling. I know nothing of him but what is good and therefore hope that he will meet with every encouragement from the Directors in this important business. $W^m$ Beynon would prefer going to the East and I should be sorry that so promising a young man, who may be useful as a Translator should be appointed to a less important station. Should the Directors approve of $W^m$ Beynon it would be desirable that he should have a few Missionary Lectures at Gosport.

Your answer as soon as possible will oblige.

Dear Sir,

Your friend and brother

David Peter[103]

Yn ei lythyr cais i'r cyfarwyddwyr, rhoes Beynon hanes ei gefndir a'i brofiad Cristnogol, gan amlinellu hanes ei dröedigaeth a'r hyn a'i cymhellodd i gyflwyno ei hun i'r maes cenhadol. Roedd wedi cael ei godi ar aelwyd grefyddol gyda'r teulu yn addoli yn Heol Awst. Wynebodd gyfnod o wrthryfela yn erbyn crefydd yn ei arddegau, a bu'n annuwiol ei ymarweddiad am gyfnod, eithr daeth dan deimlad o euogrwydd a chywilydd. Pan ymwelodd Peter â'i dad, a oedd yn wael ar y pryd, siaradodd ag ef (y mab) a'i gymhell i gysegru ei fywyd i Dduw: 'He remonstrated with one upon the reasonableness of devoting my self publicly to God. I rejoiced that such opportunity had offered itself. I did not confer with flesh and blood, but expressed the sentiments of my heart. And Sunday the $2^{nd}$ of August 1818 (a day which shall ever be held in remembrance by me) was the day on which I publicly dedicated my self to God and his church'.[104]

Cyn i gais Beynon gael ei dderbyn, bu mwy nag un ohebiaeth rhwng y bwrdd arholi a David Peter yn ei gylch. Pan drafodwyd cais Beynon gan y bwrdd, gyda llythyr cymeradwyaeth Peter, gwnaed y sylw: 'Resolved that the printed queries be forwarded to him'.[105] Beth oedd y cwestiynu? Wythnos yn ddiweddarach pan oedd Beynon yn Llundain ar gyfer ei arholi, penderfynwyd y dylai gael arholiad mwy trylwyr ymhen pythefnos: 'Resolved that Mr Beynon meet the Committee for the Learned Examination on Monday August $9^{th}$ and in the meantime prepare an Essay on "What are the considerations which have induced you to devote yourself

[103] Candidates Papers, 1796-1899, Box 1 Archif LMS.
[104] Candidates Papers, 1796-1899, Box 1 Archif LMS.
[105] *Missionary Society Committee of Examination 1824*, Committee Minutes Candidates (Examination), Box 2, Book 5 January 1824-September 1826, 21 June 1824, t. 58.

to the Christian Ministry?"'[106] Roedd pwyslais helaeth wedi ei roi o'r cychwyn ar brofi galwad yr ymgeiswyr. Wedi darllen traethawd Beynon rhoddwyd ystyriaeth bellach i lythyr a dderbyniwyd eisoes gan Peter:

Carmarthen, Aug 4, 1824.

My Dear Sir,

As Mr Wm Beynon is now in London, and likely to be approved by the Directors of the London Missionary Society, I beg leave to suggest a few thoughts on the subject, before the place of his destination is finally fixed. He is a young man of good understanding, amiable temper, and excellent morals; and has acquired a considerable knowledge of the Classics, Mathematics, Philosophy &c. Hence he is better qualified for a respectable missionary station. A Mechanic will be useful as he is in the wilds of Africa, and many other parts of the world, where his literary acquirements can be but of little service. Though the young man is so devoted to missionary labours, that he would willingly go to the most uncivilized part of the Globe for the sake of Christ and his cause, yet he would prefer a Station where he could be useful as a Scholar, and I think it would be in the interest of the Directors to appoint him to such a Station. As to myself I must confess that I should be glad to find that he is appointed to some useful Station in the East. And with the blessing of God I have no doubt of his becoming an useful & shining character. The Directors will pardon the liberty I take, but I feel an interest in the affair, and hope that they will not overlook what I have suggested.

I am<br>
Dr Sir,<br>
Yours respectfully,<br>
David Peter.[107]

Canlyniad y cyfarfod oedd hyn:

> Resolved that Mr William Beynon from the Church of Christ under the pastoral care of the Rev$^{d}$ D. Peter, Carmarthen be recommended to the Board as a Missionary Student. That he go down to Gosport at the opening of the next session for six months - and that in consideration of his acquirements, having finished his course of education at the Carmarthen College to be appointed to some station in India.[108]

Ni edrychodd y bwrdd heibio i gais Peter, ac mae'n amlwg i'w eiriolaeth ar ran y dyn ifanc dycio, oherwydd cafodd ei ddanfon i Belgaum, ar waelod rhandir Bombay yn yr India, lle y llafuriodd gyda llwyddiant mawr am nifer o flynyddoedd.[109]

---

[106] *Missionary Society Committee of Examination 1824*, Committee Minutes Candidates (Examination), Box 2, Book 5 January 1824-September 1826, July 26 1824, t. 66.
[107] Candidates Papers 1796-1899, Bocs 1, archif yr LMS.
[108] *Missionary Society Committee of Examination 1824*, Committee Minutes Candidates (Examination), Box 2, Book 5 January 1824-September 1826, 9 August 1824, t. 68.
[109] Am Beynon (1801-78), gw. M. Islwyn Lake, 'Y Dechreuadau' yn Ioan Wyn Gruffydd (gol.) *Cluded Moroedd Cofio Dwy Ganrif o Genhadaeth 1795-1995* (Abertawe: Gwasg John Penri, 1995), tt. 9-54 [17]; Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, t. 121.

Diddorol hefyd yw cyffes ffydd Beynon, a oedd yn unol â'r ddysgeidiaeth a ddysgwyd yn eglwys Heol Awst ac sy'n dangos yr argyhoeddiadau athrawiaethol a oedd yn gymeradwy gan y bwrdd:

> The truths which I believe and which I think are consistent with reason and divine revelation are: that there is a God 'This all nature cry aloud' that he is infinite in power in wisdom and goodness. That he is a spirit, independent and unrivalled in his attributes possessing all things that are amiable, and that all his perfections are absolute and essential to his nature. I believe the Old and New Testaments to be given by the inspiration of God, and that they contain all things that are necessary for our faith and practices. I believe that therein it is revealed, that in the Godhead there are three persons, Father, Son and Spirit, One in substance, in design and operation. This is a truth which I cannot comprehend, yet I believe it is clearly revealed in scripture. I believe that God created all things visible and invisible in six days and that he created man after his own image, that he made a covenant with him which he called the covenant of works and according to the stipulations of the covenant, obedience would secure him eternal life, but disobedience immediate death; man as a free agent was left to himself and being the head and representative of mankind, by his disobedience involved himself and his race in him. I believe that God from eternity foreseeing the fall of man; covenanted with his Son, which covenant is called the covenant of grace, the stipulation of which were that the Son of God should take our nature upon him (as he did in the fulness of time) and that by his death and obedience he should answere the demands of divine justice and make the law honourable that mercy might have compassion upon the ruined race of Adam, and as a reward for his work a great multitude of the human race were given him from every nation under heaven. I believe that though the grace of the gospel is freely offered to all, yet God ascending to his eternal purposes by the enlivening and regenerating influences of his spirit disposes some willing to devote themselves to him. I believe that all those who experience the effectual and saving influences of the spirit of God shall never relapse to their natural state, but in the strength of God they shall persevere and ultimately appear a church without spot or wrinkle. I believe that God has instituted his church two sacraments, baptism, and the Lord's Supper, the former our initiatory rite to the church of God and a zeal of the covenant of grace, and to be administered to the infants of believers; the other to be used in the church of God to commemorate the death of Christ, and to prepare our souls for communion with God. Lastly,
> I believe in the resurrection of the dead; the universal judgment; and a future state of retribution, when the godly shall enjoy life everlasting, but the ungodly eternal condemnation.
>
> Carmarthen May 27th 1824.
> To the directors of the London Missionary Society
> From William Beynon, Student, Carmarthen College.[110]

Er gwaethaf uniongrededd drindodaidd sylfaenol y datganiad, a'i ymlyniad wrth y Ddiwinyddiaeth Ffederal neu Ddiwinyddiaeth y Cyfamodau, yr hyn sy'n drawiadol amdano yw ei natur gymedrol. Mae pwyslais mawr ar resymoldeb y ffydd Gristnogol, heb unrhyw gyfeiriad at gwestiynau dadleuol fel etholedigaeth neu ragarfaeth. Yn wahanol i Morgan Jones a David Davies a oedd, os rhywbeth, yn Uchel-Galfinaidd eu cred, mynnai Peter osgoi eithafion

[110] Candidates Papers 1796-1899 Box 1, Archif LMS.

a chadw at wirioneddau canolog y ffydd efengylaidd, ac mae’n amlwg fod hynny’n wir hefyd am William Beynon, ei ddisgybl.

*Peter a’r Cronicl Cenhadol*

Un o gymwynasau pellach David Peter ynghlwm â’r genhadaeth oedd ei waith fel un o brif olygyddion y *Cronicl Cenhadol*. Ymddangosodd 72 o rifynau o’r cyfnodolyn misol rhwng dechrau 1818 a diwedd 1823. Meddai, yn y rhifyn cyntaf:

> Ni bu, er yr oes apostolaidd, y fath ymdrechiadau, gan bob plaid o Gristnogion, i daenu efengyl Iesu Grist, ag sydd yn y dyddiau hyn. Ac oddiwrth y llwyddiant ag y mae yr efengyl yn gael yn mhlith paganiaid, gellir barnu fod yr amser yn nesâu, pan bo i'r ddaear gael ei llenwi o wybodaeth yr Arglwydd, megis y mae y dyfroedd yn toi y môr.[111]

Gyda bod hynny’n wir, roedd yr amser yn addas i gael cylchgrawn Cymraeg ar batrwm y *Missionary Chronicle* er mwyn hybu a hyrwyddo’r diddordeb cenhadol ymhlith y Cymry: ‘Heblaw hanes y Cenhadau mewn gwledydd tramor, bydd y Cronicl ar brydiau yn cynnwys hanes Cyfarfodydd, &c. Cenhadol cartrefol y’mhlith pob enw’.[112] Er mwyn dangos natur gyd-enwadol y cyhoeddiad, fe’i golygodd ar y cyd a’r Methodistiad David Charles, John Evans Llwynffortun ac Arthur Evans Cynwyl.

Fel prawf o ymateb yr eglwysi ledled Cymru, croniclwyd adroddiadau ariannol o gasgliadau y Cymdeithasau Cenhadol Cynorthwyol, gyda chyfeiriadau lu at lafur a chasgliadau David Peter yn nhref Caerfyrddin, a chasgliadau Morgan Jones yng nghylch Tre-lech. Yn y rhifyn cyntaf o’r *Cronicl Cenhadol* rhoddwyd sylw i urddo David Jones a Thomas Bevan yn Neuadd-lwyd yn 1817, lle cofnodir i Morgan Jones draethu araith briodol ar bwnc y genhadaeth, ac i Thomas Phillips draddodi pregeth siars i’r ddau a’u hannog i fod yn ffyddlon dros Grist. Wedi cyffro’r urddo, gellir ond dychmygu’r tristwch a’r galar yng nghalonnau’r Cymry wrth iddynt ddarllen am dreialon cenhadon cyntaf Madagascar ac am brofedigaethau David Jones a Thomas Bevan a’u teuluoedd adeg cychwyn eu cenhadaeth ar yr ynys ddiwedd 1818 a dechrau 1819.[113]

## 4. 1820 ymlaen

Erbyn ail ddegawd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd arian trwy gasgliadau eglwysi yng Nghymru yn llifo i mewn i goffráu’r Gymdeithas Genhadol, a gwelir cyfeiriadau lu at ymdrechion David Peter, Morgan Jones a David Davies o blaid y gwaith. Bu Davies farw ar 26 Rhagfyr 1816 yng nganol ei flynyddoedd, ac am dair blynedd olaf ei oes bu’n un gyfarwyddwyr Cymreig y Gymdeithas. Bwriadodd ffurfio cymdeithas gynorthwyol (*auxiliary*) arall yn ne Cymru yn ystod haf 1816 a mynegai ddymuniad i Mr Tracy, ysgrifennydd cartref y Gymdeithas, fynychu y cyfarfod lawnsio.[114] (Cafodd hyn ei gofnodi yn rhyfedd iawn yng

---

[111] *Cronicl Cenhadol*, 1 (Ionawr 1818), 1.
[112] *Cronicl Cenhadol*, 1 (Ionawr 1818), 1.
[113] *Cronicl Cenhadol*, 2 (Medi 1819), 247.
[114] Committee Minutes Candidates (Examination) Book 2, June 1816-July 1819, 8 July 1816, t. 8.

nghofnodion pwyllgor arholi ymgeiswyr.) Byddai Ebenezer, Abertawe, yr eglwys y bu iddo ei chorffori, yn eithriadol gefnogol i'r Gymdeithas, gan ddal i gyfrannu cannoedd o bunoedd bob degawd tan ganmlwyddiant yr achos Annibynnol yn 1904. Yn ystod ei oes teithiodd Davies ar hyd a lled y wlad yn areithio dros yr achos cenhadol, a dywedir mai wrth ei wrando yn traddodi araith genhadol y cyffrowyd meddwl David Griffiths y waith gyntaf i'w ysgogi i fod yn genhadwr.[115] Lluniodd Davies hefyd nifer o emynau cenhadol eu pwyslais ac y mae o hyd ganu ar ei emyn cenhadol enwocaf:

Llama, Arglwydd, dros y bryniau,
doed y dyddiau pur i ben
pan fo Seion drwy fawr lwyddiant
yn ben moliant is y nen:
enw'r Iesu gaffo'i barchu
a'i ddyrchafu drwy bob gwlad;
miloedd ddelo i gofleidio
iachawdwriaeth yn y gwaed.[116]

Er gwaethaf y bwrlwm dechreuol, dros dro y parhaodd y brwdfrydedd ac erbyn ail chwarter y ganrif ymddengys mai dim ond ychydig o blith eglwysi'r de-orllewin oedd yn cefnogi'n ariannol waith mudiad y genhadaeth. Yng Nghwrdd Chwarter Carmel, 5 a 6 Awst 1835 mynegwyd gofid fod eglwysi Cyfundeb Sir Gaerfyrddin wedi bod yn ddiffygiol yn eu hymateb a bod angen iddynt wneud mwy o ymdrech 'o blaid yr achos Cenhadol, a bod y gweinidogion gwyddfodol yn addaw ymdrechu cynneu ysbryd Cenhadol trwy yr eglwysi sydd dan eu gofal'.[117] Yr un oedd y pryder am ymdrechion tila eglwysi'r cyfundeb o blaid Cymdeithas y Beibl, ac anogwyd gweinidogion a chynulleidfaoedd i wneud yr hyn a allent er mwyn hyrwyddo'r achos.[118]

Yn gynharach yn 1833 apeliodd Peter i eglwysi'r sir mewn anerchiad ysgrifenedig, ac oddi wrth ei ysbryd cwynfanus, roedd hi'n amlwg bellach bod difrawder a difaterwch yn ffaith:

> Y mae y sîr hon, efallai, yn fyrach ei chyfraniadau at y gwaith pwysig hwn, nâ siroedd ereill Cymru; o'r hyn lleiaf, y mae llai ei hymdrech nag y dylai fod. O, frodyr, ymegniwn, ac na thaflwn y fraint hon o'n ddwylaw, a gadael i ereill yn ein hymyl i'w mwynhau; oblegid yn wir y mae'n *fraint fawr* i gael gwneuthur rhywbeth dros Grist, yr hwn a roddodd ei *fywyd* i lawr, fel y byddai i ni gael byw.[119]

Roedd Peter a James Phillips fel ysgrifenyddion lleol yn awyddus i galonogi'r eglwysi a oedd yn cyfrannu'n ffyddlon, ond i godi cywilydd ar yr eglwysi a oedd yn llacio: 'Nis gellir danfon Efengyl i Baganiaid heb draul fawr; ac i ba le yr edrychir am gynhorthwy i'w danfon, ond at y

---

[115] *HEAC*, II, t. 50.
[116] Emyn rhif 28 yn *Caneuon Ffydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2001); gw. sylwadau Delyth G. Morgans, *Cydymaith Caneuon Ffydd* (Aberystwyth: Pwyllgor y Llyfr Emynau Cydenwadol, 2006), tt. 37, 94-5 a 485.
[117] *Y Diwygiwr*, 1 (Medi 1835), 56.
[118] *Y Diwygiwr*, 1 (Medi 1835), 56.
[119] David Peter a James Phillips, *Anerchiad caredig at eglwysi Cynnulleidfaol Swydd Gaerfyrddin, o blaid y Gymdeithas Genhadol* (W. Evans: Caerfyrddin, 1833), tt. 6 -7.

rhai a broffesant gariad at Geidwad y byd'.[120] Yn ysbryd y neges i saith eglwys Llyfr y Datguddiad, siarsiasant yr eglwysi i ymysgwyd i'w cyfrifoldeb:

> Y mae yn bryd i ni ddeffrôi o gysgu, a bod yn fwy bywiog gyda gwaith ein Harglwydd rhag iddo gymmeryd y ganhwyllbren o'n plith, a'i rhoi i genedl a ddygo ffrwyth. Erfynir yn daer ar bob Eglwys i wneuthur a allo at yr achos clodwiw hwn; ac i ddanfon eu casgliadau i'r Cyfarfod Blynyddol, a gynnelir yn Nghaerfyrddin yn mis Hydref. Bwriedir, yn nechrau y flwyddyn nesaf, argraffu cofrestr o holl dai cyfarfodydd y sîr, a berthynant i'r Ymneillduwyr Cynnulleidfaol, ynghyd ag enwau Gweinidogion perthynol pob lle. Hyderir na bydd un lle heb gasgliad ar ei ol; ac os bydd, ca'r byd weled pwy yw y segurwyr.[121]

O gofio am y brwdfrydedd mawr a'r momentwm a gafwyd yng nghyfarfodydd Abertawe, Caerfyrddin a Llanfyllin ac yn oedfaon neilltuo cenhadon cyntaf y de-orllewin, mae'n siŵr bod y dirywiad uchod wedi peri siom. Pan bregethodd Morgan Jones yng nghyfarfodydd neilltuo David Jones a Thomas Bevan yn 1817, 'yr oedd yn bresennol hanner cant o bregethwyr, ac yn agos i bum mil o wrandawyr, a mwy na hynny, yr oedd Duw Israel gyda ni.'[122] A chan gredu bod y 'Gobaith Piwritanaidd' ar wawrio ac amseroedd gogoneddus ar ddyfod, pan yn ymweld â chyfarfod cenhadol Llanfyllin yn 1818 mentrodd yr Annibynnwr Seisnig enwog David Bogue 'awgrymu mai yng Nghymru, efallai, y byddai gwawr y mil blynyddoedd'.[123] Cyfnod o fwrlwm ac optimistiaeth oedd y blynyddoedd cyntaf nad oedd yn brin o arwriaeth ar ran y cenhadon ifainc beth bynnag, ond o gofio'r gofidiau a threialon a ddilynodd, gellir deall pam y pylodd beth o'r brwdfrydedd. Ni pharhaodd y cydweithio trawsenwadol ac ni wireddwyd disgwyliadau eschatolegol y 'Gobaith Piwritanaidd'. Ac eto:

> Bu canlyniadau pellgyrhaeddol i ddeffroad cenhadol y 1790au oherwydd, er na welwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg y Milflwyddiant y credai Williams Pantycelyn a Thomas Charles ei fod gerllaw, gwelwyd Cristnogaeth Brotestannaidd yn lledu o'r gogledd ac yn cylchynu'r byd. Mewn geiriau eraill, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif trowyd y ffydd Gristnogol yn ffydd fyd-eang ei deiliaid a'i dylanwad, gan achosi newid sylfaenol a syfrdanol i fap crefyddol y byd.[124]

A chyda Methodistiaid blaengar fel Williams Pantycelyn a Thomas Charles, ni ellir diystyru rhan a chyfraniad Annibynwyr fel Morgan Jones, David Davies ac yn sicr David Peter yn hanes lledaeniad byd-eang yr efengyl.

## 5. Crynhoi

Wrth adrodd am dwf a lledaeniad Anhydffurfiaeth, egyr Michael Watts ei gyfrol *The Expansion of Evangelical Nonconformity 1791-1859* gyda phennod yn crynhoi ymdrechion yr

[120] Peter a Phillips, *Anerchiad*, t. 6.
[121] Peter a Phillips, *Anerchiad*, t. 8.
[122] Dyfynnwyd yn Evans, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol*, t. 66.
[123] *Seren Gomer*, 21 Hydref 1818, dyfynnwyd gan Noel Gibbard, *Cymwynaswyr Madagascar 1818-1920* (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion, 1999), t. 20.
[124] James, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', tt. 98-9.

Ymneilltuwyr i hyrwyddo'r genhadaeth dramor.[125] Er pwysiced cyfraniad Davies, Jones a Peter i'r genhadaeth gartref, rhaid cofio hefyd am eu gwaith mawr yn hyrwyddo'r genhadaeth dramor ymhlith eu cydwladwyr trwy gyfrwng Cymdeithas Genhadol Llundain. Ynghyd â'r Dr Edward Williams ymhlith Annibynwyr Lloegr a Thomas Charles ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, tri gwrthrych y traethawd hwn oedd arloeswyr yr achos cenhadol ymhlith yr Annibynwyr Cymreig. Rhannent yn frwdfrydig weledigaeth y 'Gobaith Piwritanaidd', ac fel Ôl-filflwyddwyr o ran eu diwinyddiaeth, hyrwyddent genhadaeth fyd-eang yr eglwys er mwyn ymbaratoi ar gyfer buddugoliaeth derfynol yr Arglwydd Iesu Crist. Os oedd hyn i ddigwydd, roedd galw ar i aelodau'r eglwysi i ddyblu eu hymdrechion o ran llafur corfforol ac o ran cyfrannu arian at y gwaith. Gyda sefydlu canghennau cynorthwyol (*Auxiliaries*) yn y bröydd a chymdeithasau cenhadol yn eglwysi eu gofal, nid oedd pall ar eu hymdrechion yn codi arian, yn apelio am wirfoddolwyr i gyflwyno eu hunain i'r maes, ac ar bob nos Lun gyntaf yn y mis, byddent yn cynnal cyfarfodydd gweddi lle adroddid hanesion am y genhadaeth dramor ac eiriol tros y gwaith. Bu'r tri yn eu tro yn Gyfarwyddwyr tros Gymru ac yn atebol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn Llundain. Roedd David Peter yn arbennig bwysig wrth gymeradwyo ymgeiswyr i'r Bwrdd, wrth ddadlau eu hachos mewn gohebiaeth a thrwy gyfweld ac arholi darpar ymgeiswyr cymwys, cyn iddynt gael eu derbyn i lafurio dramor dan nawdd y Gymdeithas Genhadol. Rhwng popeth roedd y tri yn allweddol yn y gwaith, ac mae eu cyfraniad yn haeddu cael ei gofnodi a'i fawrygu yn y traethawd hwn.

125 Michael R. Watts, *The Dissenters Volume II: The Expansion of Evangelical Nonconformity 1791-1859* (Oxford: Clarendon Press, 1995), tt. 5-22; gw. hefyd Randall, 'Nonconformists and Overseas Mission', tt. 381-406.

## Pennod 7

## Annibynwyr y de-orllewin: gweinidogaeth a threfn eglwysig

### 1. Y gyfundrefn Annibynnol

*Ordeinio gweinidogion*

Ymhlith yr Hen Ymneilltuwyr, roedd 'Annibyniaeth' a 'Phresbyteriaeth' yn ddau ogwydd dipyn yn wahanol oddi mewn i'r un mudiad. Eto, yn ystod y ddeunawfed ganrif 'nid oedd trefniadaeth enwadol i rannu'r naill blaid oddi wrth y llall ac nid oeddynt hwy eu hunain yn poeni fawr am gysondeb wrth ddefnyddio'r enwau'.[126] Yn hanesyddol, yn y drefn gynulleidfaol y gweinidogion ym mhresenoldeb y gynulleidfa leol a fyddai'n ordeinio, ac ym mlynyddoedd cynnar yr Hen Ymneilltuwr roedd y sawl a ordeiniwyd fel arfer yn aelod yn yr eglwys, a dewiswyd gan amlaf berson oedd yn dal swydd yn yr eglwys.[127] Byddai gweinidogion eglwysi eraill yn bresennol er mwyn dymuno bendith ar yr ordeinio, ond y gynulleidfa ei hun a fyddai'n galw a sefydlu gweinidog newydd, ac yn ei henw hi yn unig y câi'r llywydd weithredu. Yn ôl Matthias Maurice, byddai'r gynulleidfa yn codi tra darllenai'r llywydd y gyffes ffydd a chyfamod yr eglwys, ac wedi anerchiad byr yn egluro ystyr yr ordeinio, byddai'n gofyn i'r gynulleidfa gadarnhau'r alwad trwy godi llaw ac yna y darpar weinidog yn ateb yr alwad yn gadarnhaol. Cenid Salm a derbyniwyd llongyfarchion yr ymwelwyr dieithr ynghyd ag arwyddo'r alwad fel tystion i'r ordeinio. Beth bynnag am eu presenoldeb yn y cyfarfod, roedd y pwyslais ar awdurdod y gynulleidfa ei hun.[128]

James Owen oedd un o dadau'r traddodiad henaduriaethol neu bresbyteraidd ymhlith yr Annibynwyr, ac iddo ef 'wrth "ordeinio" golygaf neilltuo pobl trwy arddodiad dwylo i swydd santaidd y weinidogaeth'.[129] Yn y traddodiad hwn, er y byddai hawl gan gynulleidfa i ethol gweinidog, eto henaduriaid – sef gweinidogion – a fyddai'n ordeinio, am na feddai cynulleidfa hawl i weithredu ar ei phen ei hun.[130] Ond yr oedd y ddau draddodiad, y Cynulleidfaol a'r Presbyteraidd, yn aml iawn yn plethu i'w gilydd oddi fewn i ffiniau yr un mudiad. 'Parhaodd y ddau draddodiad ochr-yn-ochr â'i gilydd yn yr eglwysi Annibynnol ac y mae'n amlwg nad oedd yr amrywiaeth yn poeni fawr ar bobl'.[131] Pan ordeiniwyd Llywelyn Bevan yn henuriad athrawiaethol yng Ngelli-onnen, 17 Tachwedd 1697, un o'r gweinidogion arddododd ei ddwylo arno yn y dull Presbyteraidd oedd Lewis Davies, er bod Davies yntau wedi'i ordeinio, yn y Mynydd-bach bedair blynedd ynghynt, yn y dull Cynulleidfaol.[132]

---

[126] R. Tudur Jones, 'Yr Hen Ymneilltuwyr, 1700-1740' yn Gomer M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru Cyfrol 1 Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1973), tt. 13-42 [15].
[127] Mathias Maurice, *Yr Athrawiaeth y sydd yn ôl Duwioldeb. Gwedi ei Seilio ar Sanctaidd Scrythurau'r Gwirionedd; ac yn gyttunol a rhan Athrawiaethol Erthyglau Chyfaddefiadau Protestanaidd Lloeger* (Llundain, 1711), t. 350; gw. *HAC,* tt. 117-8.
[128] Mathias Maurice, cyf. Benjamin Evans, *Crefydd gymdeithasol wedi ei darlunio mewn hanes o sefydliad cyntaf Crist'nogaeth yn Ninas Caerludd* (Caerfyrddin: Ioan Evans, 1797), tt. 141-7.
[129] *HAC*, tt. 118-9, gan ddyfynu James Owen, *A Plea for Scripture Ordination*, (1694), t. 9.
[130] *HAC*, t. 119; a Owen, *A Plea for Scripture Ordination*, tt. 79-80.
[131] *HAC*, t. 119.
[132] *HAC*, t., t. 119; gw. Llyfr Eglwys Mynydd-bach, *f.* 163.

Yng nghyfundrefn Annibynnol y cyfnod, er mwyn arddel perthynas ar draws yr eglwysi, rhoddwyd cryn bwysigrwydd ar fynychu cyfarfodydd ordeinio: 'Y ddwy ddolen oedd yn cysylltu yr hen weinidogion â'i gilydd, a thrwyddynt hwy yr eglwysi, oedd urddiad gweinidogion a'r gymanfa flynyddol'.[133] I weinidog gael ei gydnabod a'i dderbyn i frawdoliaeth y gweinidogion, y disgwyliad oedd i weinidogion fod yn bresennol ac yn cymryd rhan ar ddiwrnod ei ordeinio. Yn achos y New Inn, Sir Fynwy, bu cryn amharodrwydd i gydnabod Morgan John Lewis yn gyflawn weinidog gan na ddigwyddodd hyn pan urddwyd ef yno gan bobl yr eglwys.[134] Nid oes cofnod ar gael bellach o gyfarfod ordeinio David Davies yn Nhre-fach yn 1790, ond dyma a ddigwyddodd yn achos ordeinio Morgan Jones yn Nhre-lech ar 13 Mawrth 1790:

> Gweinyddwyd ar yr achlysur gan Meistri T. Thomas, Pentretygwyn; J. Griffith, Glandwr: B. Evans, Drewen; T. Davies, Pantteg; R. Morgan, Henllan; D. Peter, Caerfyrddin; I. Price, Llanwrtyd; S. Lloyd, Brynberian: P. Morris, Tynygwndwn; W. Gibbon, Neuaddlwyd; D. Davies, Abertawy; J. Davies, Alltwen, ac eraill.[135]

Gwelir bod cynrychiolaeth gref o weinidogion o gylch eang wedi dod ynghyd at yr achlysur. Yn achos David Peter yn Heol Awst, agorwyd trwy weddi yn Gymraeg gan Griffith Griffith, offrymwyd gweddi Saesneg gan John Griffith y Fenni; traddodwyd pregeth Gymraeg gan Evan Davies Llanedi; holwyd y gofyniadau yn Saesneg gan William Howell Abertawe; offrymwyd gweddi'r urddo yn Gymraeg gan David Davies Llwyn, a thraddodwyd y siars yn Saesneg gan Benjamin Evans Dre-wen. Cafodd y dystysgrif ordeinio ei llofnodi gan 25 o weinidogion.[136] Roedd y cronicl o enwau'r gweinidogion yn dangos pwysigrwydd y berthynas â chymdeithas y gweinidogion yn y cyfnod.

*Annibyniaeth a Chynulleidfaoliaeth*

Erbyn y ddeunawfed ganrif, y ffurflywodraeth eglwysig a fabwysiadwyd gan yr eglwysi oedd yr un gynulleidfaol. Yn ôl hon, roedd sofraniaeth, llywodraeth ac awdurdod yr eglwys, dan awdurdod Crist, yn gorwedd gyda'r gynulleidfa unigol a lleol, ac nid dan awdurdod corff o weinidogion a henuraid fel y drefn bresbyteraidd: 'Tardd y drefn eglwysig hon yn syth, yn uniongyrchol ac yn unig oddi wrth Iesu Grist; efe ei hun yw ei hawdur, ei chynllunydd a'i chychwynnydd'.[137] Yn ôl yr argyhoeddiad hwn, roedd Crist wedi ymddiried y gwaith hwn i'w apostolion a'u bod hwy wedi 'eu harwain a'u hysbrydoli i roi ffurf i'r eglwys sydd ym mhob peth yn gymeradwy gan eu Harglwydd'.[138] 'Dyma'r drefn oedd yn diogelu lle Crist yn yr eglwys leol, ac ar yr un pryd yn rhoi lle i berthynas ymgynghorol rhwng yr eglwysi'.[139]

---

[133] John Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy* (Dolgellau: William Hughes, 1888), t. 117.
[134] *HEAC,* II, t. 375; gw. R. Tudur Jones, 'Yr Eglwys a'r Eglwysi: Trefniadaeth Ryng-Eglwysig yr Annibynwyr, c. 1639-1850', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 51-90 [71].
[135] *HAEC,* III. t. 396.
[136] W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green and Longmans, 1846), tt. 12, 28.
[137] R. Tudur Jones, *Yr Eglwys - Cymdeithas Iesu Grist* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1962), t. 6, gan ddyfynnu John Owen, *An Inquiry into the Original, Nature, Instititian, Power, Order, and Communion of Evangelical Churches* (1681).
[138] Jones, *Yr Eglwys - Cymdeithas Iesu Grist,* t. 6.
[139] Noel Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd, 1725-1841', Traethawd MA Prifysgol Cymru, Bangor, 1973, tt. 73-4.

Annibyniaeth a Chynulleidfaoliaeth felly oedd y drefn a dderbyniwyd, dau enw ar yr un egwyddor dim ond bod y gyntaf yn nacaol a'r olaf yn gadarnhaol:

> 'Annibyniaeth' ydyw gwadu bod yr eglwys yn dibynnu ar Esgob, Brenin neu Wladwriaeth, Cyngor, Sasiwn, Undeb, Senedd neu Gynhadledd, neu yn ddarostyngedig i awdurdod yr un ohonynt. Dengys Cynulleidfaoliaeth ar y llaw arall mai'r Eglwys neu'r Gynulleidfa ... yw'r awdurdod ysbrydol, ac mai yn eu haelodau hi, wedi ymgynnull at ei gilydd ac erfyn am Bresenoldeb Crist yn y canol, y gorwedd y llywodraeth, ac nid mewn unrhyw awdurdod o'r tu allan iddynt.[140]

Er mai hen achos Presbyteraidd oedd Heol Awst, erbyn dyddiau Peter daliai yr Annibynwyr yn ddiwyro at yr egwyddor gynulleidfaol, ac ailadroddwyd yr egwyddor droeon ar hyd y blynyddoedd. 'Y gymanfa' (fel y gwelir isod) oedd cydgyfarfod gweinidogion a chynrychiolwyr yr eglwysi mewn ardal arbennig, a 'llythyr y gymanfa' oedd yr adroddiad a darddodd o'r cyfarfodydd hynny. Yn llythyr cymanfaoedd Pencader a'r Groes-wen, 1803, wedi ymhelaethu am yr eglwys gyfrin ac anweledig, sonnir am yr eglwys leol a gweledig:

> Mae'r gair eglwys yn arwyddo, cynnulleidfa neillduol o gredinwyr gweledig, ynghyd a'i henuriaid a'i diaconiaid, yn ymgynnull ynghyd yn gyson mewn un lle, wedi ymddidoli oddi wrth y byd, mewn ufudd-dod i alwad yr efengyl, yn credu yng Nghrist fel ei Hiachawdwr, ymostwng iddo fel ei Harglwydd; yn cyttuno yn wirfoddol a'u gilydd, i fod yn gyfrannog o'r breintiau, cyflawni'r dyledswyddau, gan gymmeryd yr ysgrythurau yr unig reol o'u ffydd a'u hymarferiad: dyma'r eglwys weledig a neilltuol, am yr hon yn sonir yn aml yn y Testament newydd, megis yr eglwys yn Jerusalem, Antioch, &c., ... Mae yr eglwys hon yn gorph cyfanedd, a chyflawn awdurdod o ddisgyblaeth ynddi ei hun, heb un pen na pherchen, ond Crist ei hun, Eph. i. 22, 23.[141]

Yn llythyr cymanfaoedd Llan-y-bri, Bethesda a'r Fenni, 1808, mewn perthynas i Annibyniaeth datganwyd:

> a chennym y *sel* hon wrth ein gweinidogaeth, nid ydym yn gofalu nac yn prisio dim fod y Pab ac eraill yn dadleu yn nghylch cyfreithlondeb ein hordeiniad a'n gwaith, ac mewn perthynas i'ch ffurfiad a'ch trefn chwithau fel corpholaethau eglwysig, yr ydym yn credu eich bod wedi eich goruwch adeiladu ar sail yr Apostolion, a'ch bod wedi eich ffurfio yn ol trefn y Testament newydd a'ch bod yn eglwysi ysgrythurol.[142]

Yn llythyr cymanfanfaoedd Aberteifi a Thalgarth, 1836, cadarnhawyd drachefn yr un egwyddor:

> Yn sylfaenedig ar y brif egwyddor hon, y mae y rhai canlynol yn hanfodol i iawn drefniad yr eglwysi:
>
> 1. Mae Iesu Grist yw unig Ben a Deddf-roddwr ei Eglwys; ac mai ymroddiad gwirfoddol dynion iddo Ef, ac i'w gilydd fel Cymdeithas, i ddybenion crefyddol, a gyfansodda Eglwys, yn ol iaith eglur y Testament Newydd.

[140] Joseph Jones, 'Y Gyfundrefn Annibynnol', yn J. E. Lloyd (gol.), *Hanes ac Egwyddorion yr Annibynwyr Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), tt. 181-91 [183-4].
[141] *CyA*, t. 113.
[142] *CyA*, t. 155.

> 2. Fod pob Cymdeithas a sylfaenir felly, yn Eglwys gyflawn, yn anymddibynol ar unrhyw awdurdod o'r tuallan iddi ei hun, ac yn meddu cyflawn hawl i drefnu ei holl achosion ei hun, a dewis ei swyddogion ei hun, heb fod yn gyfrfol i neb ar y ddaear.
>
> 3. Fod pob Eglwys felly, o angenrheidrwydd, yn gydradd mewn hawl, awdurdod, a braint; heb un arglwyddiaeth gan y naill dros y llall. Dyma yr egwyddorion a arddelwir genych chwi a ninnau, fel rhai hanfodol i iawn drefniad eglwysig; wrth ba rai yr ewyllysiem lynu yn ddiysgog, a byw dan eu heffeithiau priodol: gan gwbl gredu eu bod o'r tuedd cryfaf i feithrin gwir grefydd yn bersonol, - i gynnal purdeb athrawiaethol, a symledd ymarferol yn yr eglwysi; i ddwyn yn mlaen wir undeb eglwysig; ac i hwylysu adferiadau a diwygiadau crefyddol, yn ein plith.[143]

Gellir meddwl bod yr Annibynwyr wedi pwysleisio'r egwyddor o hunanreaolaeth yn helaeth am iddynt ddod i ddefnyddio'r termau 'Anymddibynwyr' ac 'Anymddibyniaeth' i ddisgrifio ei hunain yn hytrach na'r term 'Cynulleidfaolwyr'. Felly y gwelai Capel-y-Graig, Tre-lech ei hunan, a thebyg iawn ei changhennau yr un modd, oherwydd pan y bu farw John Davies Plasparcau-isaf yn 1837, un a fu'n aelod yng Nghapel-y-Graig ac yn un o sylfaenwyr yr achos yn Ffynnon-bedr, coffawyd ef yn *Y Diwygiwr* fel 'aelod hardd a defnyddiol gyda'r Anymddibynwyr yn Nhrelech, ac wedi hynny yn Ffynnonbedr am 45ain i 46ain o flynyddoedd'.[144] Yng Nghymru pan ffurfiwyd undeb rhwng eglwysi'r Annibynwyr yn 1871, yr enw a fabwysiadwyd oedd Undeb yr Annibynwyr Cymreig. Mor gynnar â 1833 roedd Annibynwyr Lloegr, gan bwysleisio yr egwyddor gynulledfaol wedi galw ei hundeb yn *The Congregational Union*. Wrth bwysleisio hyn, erbyn 1872, roedd yr Annibynwyr wedi pellháu oddi wrth yr elfen bresbyteraidd yn eu hanes.

*Cymanfaoedd yr Annibynwyr*

Tarddu o gyfarfodydd cynnar y gweinidogion a wnaeth cymanfaoedd yr Annibynwyr. Oherwydd yr anfodlonrwydd gyda'r gogwyddiadau Arminaidd ynghlwm â chyfarfodydd blynyddol Academi Caerfyrddin, aeth y gweinidogion Calfinaidd ati i sefydlu cymanfa newydd, er bod cynulliadau cymysg o Bresbyteriaid Arminaidd ac Annibynwyr wedi parhau i gyfarfod. Cynhaliwyd y gymanfa gyntaf ym Mrynberian, Sir Benfro, ym Mehefin 1778 gyda Lewis Rees Mynydd-bach yn llywydd. Pregethu a hawliodd brif sylw'r gymanfa o'r cychwyn. Traddodwyd dwy bregeth ym Mrynberian, un gan gan Lewis Rees a'r llall gan Rees Harries Pwllheli, gyda deunaw o weinidogion yn bresennol. Nid yw adroddiadau 1779 hyd 1787 wedi goroesi, ond erbyn cymanfa Llanbryn-mair ym Mis Mai, 1788, roedd y gweithgareddau yn ymestyn tros ddeuddydd ac yn denu pregethwyr o'r gogledd ac o'r de. Ymhlith y pregethau traddododd Owen Davies Tre-lech ar 'ddyledswydd gweinidogion a phobl', Thomas Bowen Maes-yr-onnen, y 'bregeth athrawiaethol', a Dr Edward Williams Croesoswallt yn traethu yn Saesneg.[145] A'r un patrwm gafwyd o flwyddyn i flwyddyn. Treuliai'r gweinidogion amser yn trafod llythyr y gymanfa. Deuent ag adroddiadau am y sefyllfa yn eglwysi eu gofal, a mynych iawn cafwyd y sylw: 'Mae crefydd yn llwyddo yn ein plith, a llawer wedi eu chwanegi at yr

[143] *CyA*, tt. 498-9.
[144] *Y Diwygiwr* 2 (Mai 1837), 152.
[145] *CyA*, t. 21.

eglwysi y flwyddyn hon'.[146] Ond yn anffodus ni cheir ystadegau'r niferoedd a fedyddiwyd, derbyniwyd, diarddelwyd ac a fu farw fel ag a argraffwyd yn llythyrau cymanfoedd y Bedyddwyr. Yn achlysurol pasiwyd penderfyniadau yn galw sylw yr eglwysi at faterion neilltuol, yn ymwneud â thystiolaeth a lles cyffredinol yr eglwysi a'u cenhadaeth, ond gochelwyd rhag ymyrryd ym materion mewnol yr eglwysi yn unigol.

Yn ogystal â nodi'r angen i warchod athrawiaeth bur, egwyddorion Annibyniaeth a hyrwyddo'r genhadaeth dramor, roedd llythyrau'r cymanfaoedd yn llawn o gynghorion moesol ac ymarferol yn seiliedig ar yr Ysgrythurau, ac anogwyd yr eglwysi yn gyson ar amrywiaeth o bynciau fel ymarfer cariad brawdol;[147] gwarchod undeb ymhlith y saint;[148] ymarfer gweddi, darllen a myfyrio'r Gair yn gyson;[149] ymarweddu yn addas i'r efengyl gan gofio

> nad yw athrawiaeth gras, mewn un mesur, yn eich tueddi i fyw yn benrhydd; eithr i fod cariad Crist yn eich cymmell chwi i ymwadu â phob annuwioldeb, ac i fyw yn sanctaidd, yn dduwiol, ac yn gyfiawn yn y byd sydd yr awr hon.[150]

Anogwyd yr aelodau i fod yn deyrngar i'w gweinidogion,[151] ac i fod yn ffyddlon i fynychu'r addoliad cyhoeddus.[152] Roedd angen cofio mai crefydd genhadol oedd Cristnogaeth gyda'r nod o ennill dilynwyr newydd i Grist. Roedd angen i'r aelodau fod yn esiamplau da a fyddent yn byw eu bywydau yn deilwng o'r efengyl. Erbyn diwedd y ganrif roedd yr eglwysi yn llwyddo'n rhyfeddol gan ddenu lluoedd i geisio aelodaeth, ac fel y deallodd David Peter yn burion, roedd angen bod yn dra gofalus, gwyliadwrus a disgybledig wrth dderbyn aelodau newydd. Byddai'r ddisbyblaeth a fyddai'n angenrheidiol wrth ymrwymo i fywyd eglwysig yn hawlio cryn ymroddiad ac ymrwymiad ar eu rhan. Er mwyn sicrhau yr ymroddiad a'r ffyddlondeb hwn rhoddwyd cryn sylw i amodau'r cyfamod eglwys.

*Y cyfamod eglwys*

Roedd yn draddodiad ymhlith yr Annibynwyr i bwysleisio'r angen i fod yn ffyddlon i'r cyfamod eglwys.[153] Esiampl dda o gyfamod eglwys yn y cyfnod, er ei meithder, yw un eglwys Mynydd-bach, Abertawe.[154] Gan amlaf adroddwyd y cyfamod, un mwy cynnil nag un Mynydd-bach, ar adeg corffoli eglwys. Byddai'r eglwysi a'u haelodau yn adnewyddu eu cyfamod yn rheolaidd, yn arbennig adeg urddo gweinidog newydd. Ar 8 Rhagfyr 1822 wrth gorffoli eglwys Ty'n-y-coed, Llanegwad, cydsyniodd y darpar-aelodau â chyffes ffydd ac yna ymrwymo mewn cyfamod eglwysig â'i gilydd.

> Since we devoutly hope, that God has called us by his grace, we feel an obligation to devote ourselves, in public manner, to God, and his service; and as we prefer to be

[146] *CyA*, t. 36.
[147] *CyA*, t. 29 a tt. 219-22.
[148] *CyA*, t. 18.
[149] *CyA*, t. 30 a tt. 50-1.
[150] *CyA*, t. 30.
[151] *CyA*, tt. 19, 39 a 258.
[152] *CyA*, tt. 44-5.
[153] gw. L. Wynford Thomas, 'Mathias Maurice (1648-1738) a'i Eglwysoleg', traethawd PhD Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2011, tt. 66-73.
[154] *HEAC*, II, t. 4-8.

embodied into a Church, rather than to unite with any other Church, we hope that ministers and Churches will recognize us as such.

> We, now , in the most deliberate, and public manner, dedicate oureselves to God in church fellowship and communion, according to the rule of his revealed word. We are also determined, and we vow, that by divine aid, we will be stedfast in the faith, 'walk in all the commandments and ordinances of the Lord,' hear his word, trust in his promises, and to serve him and each other according to the laws and institutions of his house.

> Our purpose and aim in all this are, the glory of God, and our own edification, the increase of the kingdom of Christ, and the good of all mankind; and we earnestly pray that our depencence may be placed on the directions and aid of the Spirit of God.[155]

Datblygodd y cyfamod eglwys yn 'offeryn i glymu'r aelodau wrth ei gilydd nid yn unig trwy ei ffydd yn Nuw a'u hufudd-dod i Grist ac i'r Beibl ond trwy wneud y cyfamod yn offeryn hanner-cyfreithiol yn mynd i fanylion ynghylch ymddygiad a moes'.[156] Ceir cyfeiriadau fyrdd yn llythyrau'r gymanfa yn rhybuddio aelodau i beidio ag esgeuluso'u cyd-gynulliad ac i ofalu bod yn ffyddlon i'w cyfamod eglwys. Neilltuwyd llythyr cymanfa Ffynnon-bedr, 1, 2 a 3 Mehefin, 1814 i drafod natur a phwrpas y cyfamod eglwys, a thanlinellwyd

> mai y rhai sydd yn cadw at eu cyfamod, ac yn cyfrinachu fwyaf â'u gilydd yn mhethau Duw, yw y rhai sydd yn caru Duw, ei achos, a'i bobl fwyaf; a'r rhai dieithriaf i'r moddion, yw y rhai mwyaf oer yn eu cariad at yr Arglwydd, lleiaf eu sel dros ei enw a'i achos, ac oeraf yn eu cariad at eu gilydd.[157]

Byddai anffyddlondeb i'r cyfamod yn gwneud cam â'r ieuenctid ac eraill:

> Pa fodd y disgwyliwn ni ein plant, ein gwasanaeth ddynion, a'n cymydogion, i hoffi ein crefydd, os ydym ni yn oer a difraw yn ei chylch? Oni farnant hwy nad yw ein crefydd ynddi ei hun, ac yn ein golwg, o ddim gwerth?[158]

Roedd y gweinidogion mae'n amlwg yn defnyddio'r cymanfaoedd, trwy eu pregethau a'u llythyr blynyddol, fel cyfryngau i annog aelodau ac eglwysi yn eu tystiolaeth. Sut felly roedd yr eglwysi yn mynd o gwmpas y gwaith o hyfforddi eu haelodau a'u meithrin yn y bywyd Cristnogol? Ymdrinir â'r ateb yn rhannol wrth drafod gwaith a chyfraniad yr Ysgol Sul, y gwaith o gateceisio'r aelodau (y gymanfa bwnc yn hanes gweinidogaeth Morgan Jones) a'r sylw a roddwydd wrth baratoi a derbyn aelodau newydd.

---

155 Lewis, *Memoir* tt. 142-3; *HAC*, tt. 141-3.
156 *HAC*, t. 108.
157 *CyA*, t. 240.
158 *CyA*, t. 241.

## 2. Hyfforddi aelodau

*Yr Ysgol Sul a'r gymanfa bwnc*

Yn adroddiadau a llythyrau'r cymanfaoedd ceir sôn am yr angen i hyrwyddo yr Ysgol Sul. Cysylltir dechreuadau'r Ysgolion Sul yn bennaf â chwarter olaf y ddeunawfed ganrif, er bod enghreifftiau cynharach o ysgolion yn cael eu cynnal fel yn eglwys Mynydd-bach, Abertawe yng nghyfnod Lewis Davies ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg.[159] 'Dechreuid y gwaith ynddi trwy ddarllen a gweddïo, yna ceid adrodd pregeth a dysgu darllen. Gorffennid gyda mawl a gweddi. Ei phrif lyfr pwnc oedd Catecism Byraf Cymanfa Westminster ond defnyddid *Catechism Mr. Perkins* hefyd'.[160] Roedd enghreifftiau cynnar o ysgolion cyffelyb yn Chwarelau Bach (Castell-nedd), Abertawe, Llanedi, o dan ofal Stephen Hughes, ac yn y Cilgwyn.[161] Ond yng Nghymru y gwir arloeswr oedd Thomas Charles, ymhlith Methodistiaid y gogledd o 1785 ymlaen.[162] Roedd yn ddilyniant ac yn ddatblygiad o waith ysgolion cylchynol Griffith Jones Llanddowror. Ar gyfaddefiad Charles: 'Y Dydd-ysgolion cylchdeithiol oeddynt brif foddion cychwyniad yr Ysgolion Sabbathol; canys heb y blaenaf nis gallesid cael athrawon i'r olaf.'[163] Yn fuan wedi i Charles gychwyn ar y gwaith, bu cefnogaeth Dr Edward Williams yn gymorth nid bychan i gymeradwyo'r gwaith i'r Annibynwyr. Lledodd y gwaith i'r de ac yn siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin, 'llwyddwyd i'w hasio'n hapus ddigon â hen draddodiad cateceisio'r Ymneilltuwyr'.[164]

Yn Sir Gaerfyrddin yng nghyfnod Morgan Jones, ac yn nhalgych ei ofalaeth datblygodd mudiad yr Ysgol Sul i fod yn gyfrwng cenhadol pwysig. Ym Mlaen-y-coed y sefydlwyd yr Ysgol Sul gyntaf yn y cylch, a'r enwau cynharaf a gysylltir â'r gwaith yno yw Dafydd Bowen Brynchwith a Daniel Davies Brynceirch. Bernir i'r achos gael ei sefydlu ym Mlaen-y-coed yn 1801. Fe fu nifer o Fethodistiaid ar un adeg yn addoli mewn ysgubor yn y pentref, ond wedi i'r Annibynwyr gynyddu yn y lle gadawsant yr hen ysgubor a dychwelyd i Gynwyl Elfed. Wedi iddynt adael y maes, gwelodd yr Annibynwyr yn dda i ddefnyddio'r ysgubor fel man ymgynnull, eto parhawyd i gyfarfod mewn anedd-dai lle pregethai Morgan Jones ar ei ymweliadau. Un o'r anedd-dai hyn oedd Tŷ-cefn, sef bwthyn tua milltir i'r gogledd o Flaen-y-coed. Cynhelid hefyd ysgol nos yn y bwthyn ac 'yno y dechreuodd llawer ... ddysgu darllen gyntaf erioed; ac yno hefyd y dechreuasant gael blâs ar esbonio gair Duw'.[165] O'r ysgol fechan yn Tŷ-cefn y tarddodd Ysgol Sul Blaen-y-coed a sefydlwyd yn 1805 eto gan Dafydd Bowen a Daniel Davies a hynny yn yr ysgubor yng nghanol y pentref lle cynullai'r aelodau ym mlynyddoedd cyntaf yr achos. Ac yma y cychwynnwyd yr arfer o adrodd 'y Pwnc':

> Tybir mai hon oedd yr Ysgol Sabothol gyntaf trwy'r holl wlad i adrodd 'Pwnc' ac mai dylanwad hon fu'n gyfrifol i gychwyn mudiad addysgol yn Nhre-lech a Chapel Iwan ac

---

[159] John Davies, *Y Lloffyn Addfed Dechreuad a Chynydd Ymneillduaeth yn Abertawy a'r Cylch, Ail Argraffiad,* M. G. Dawkins (gol.), (Treforys: Jones a'i Fab, 1914), tt. 34-6; *HAC*, t. 125.
[160] *HAC,* t. 125.
[161] *HAC,* t. 125; T. Eirug Davies, 'Philip Pugh a'i Ragflaenwyr yng Nghanolbarth Sir Aberteifi', *Y Cofiadur*, 14 (1937), 3-36 [18].
[162] Gw. Huw J. Hughes, *Coleg y Werin: Hanes yr Ysgol Sul yng Nghymru, 1780-1851* (Chwilog: Cyhoeddiadau'r Gair, 2013).
[163] *CyA*, t. 307 yn seiliedig ar lythyr Thomas Charles i'r *Evangelical Magazine*, 4 Ionawr, 1814.
[164] *HAC,* t. 196.
[165] Stephen Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed* (Pencader: D. Jones, 1901), t. 9.

amryw fannau eraill. Os felly, gwir yr honiad i ddylanwad Ysgol Fach Tŷ Cefn gerdded ymhell. Yn y flwyddyn 1818 yn ystod gweinidogaeth y Parchedig Morgan Jones y dechreuodd yr arfer o holi ac ateb a hynny ym mhresenoldeb cynulleidfa. Ym Mlaenycoed y gwnaed hyn gyntaf ond ymdaenodd yr arferiad yn fuan dros y wlad.[166]

Lledodd y diddordeb yn yr arfer, ac wedi i aelodau'r Ysgol Sul ym Mlaen-y-coed fynd o amgylch yr eglwysi yn adrodd y Pwnc gwelwyd yn dda i'w hefelychu ac yn sgil hynny sefydlu Ysgolion Sul. Gwnaed defnydd helaeth ar y cychwyn o *Holwyddoreg Athrawiaethol ac Ymarferol* George Lewis. Bu hyn yn gymaint llwyddiant fel yr aed ati i drefnu bod yr Ysgolion Sul yn ymuno i gynnal cymanfaoedd ysgolion. Cynhaliwyd y gymanfa ysgolion gyntaf ym Mwlchnewydd pan unodd ysgolion Bwlchnewydd, Ffynnon-bedr, Blaen-y-coed, Pant-teg a Hermon â'i gilydd yn y fenter newydd. (Ni wyddis ym mha flwyddyn). Byddai plant ac ieuenctid yn adrodd pennod ar gychwyn y gymanfa, a hwythau wedi ei dysgu ar eu cof, ond yr hyn a barodd i holi'r Pwnc fod yn gyfrwng pwerus a phoblogaidd oedd natur wreiddiol y pregethwyr a fyddai'n eu harwain: 'Byddai dull gwreiddiol ac ysbryd cynes yr holwr yn fynych iawn yn gosod y Gymanfa ar dân, felly yr oedd gwaith yr Ysgolion Sul yn ychwanegiad at gryfder a dylanwad yr eglwys'.[167] Yn ogystal â Morgan Jones, cafodd pregethwyr poblogaidd ac adnabyddus gyfle i holi ysgolion, yn eu plith Samuel Griffiths Horeb, James Phillips Bethlehem San Clêr, a Benjamin Evans Dre-wen.

Erbyn 1835, blwyddyn marw Morgan Jones, troes yr holi a'r cateceisio ynghyd â'r gymanfa bwnc ei hun yn arf genhadol bwerus. Cafodd newydd-deb y trafod cyhoeddus groeso brwd gan aelodau'r eglwysi a chyfoethogodd eu bywydau wrth ychwanegu at ddulliau addysgol Hen Ymneilltuwyr y ddeunawfed ganrif. Dysgu adnodau o'r Ysgrythur a holwyddoreg ar eu cof fyddai'r plant, a llefaru yr hyn roeddynt wedi ei ddysgu yn y gymanfa. Wedi i'r plant fynd drwy eu gwaith byddai'r oedolion yn cyd-adrodd neu lafarganu pennod o'r Ysgrythur, ac yna'n cael eu holi ar y bennod honno. Byddai mwy o ryddid i drafodaeth rydd yn eu hymatebion, wrth iddynt gael eu holi gan Morgan Jones neu weinidog gwadd. O gofio'r cynnydd aruthrol a gafwyd yn aelodaeth gofalaeth Morgan Jones yn ystod ei weinidogaeth, gellir gweld y gymanfa bwnc fel un cyfrwng a gyfrannodd at droi Ymneilltuaeth yn fynegiant poblogaidd ac yn rhan o ddiwylliant gwerin canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn hanes datblygiad yr Ysgol Sul, yn seiliedig ar dystiolaeth Thomas Charles mewn llythyr i'r *Evangelical Magazine* yn Ebrill 1809, dywedwyd

> fod nifer yr ysgolion yn Neheudir Cymru wedi lluosogi yn fawr, ac fod y cynnydd i ddarllen tu hwnt i ddim a welodd erioed - fod ysbryd dysgu wedi ymwasgar gyda chyflymdra yn mhlith plant a phobl ieuainc manau poblog - fod moesau y trigolion wedi dirfawr wella, fod llai o halogi Sabbathau, cyfarfod mewn chwareyddiaethau, ac ymgyrchu i dararndai.[168]

---

[166] Elsbeth Page, *Hanes Eglwys yr Annibynwyr Blaenycoed* (Aberteifi: E. L. Jones a'r Fab, 2001), t. 16.
[167] Thomas, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed*, t. 11.
[168] *CyA*, t. 306; am ddisgrifiad o gymanfa Ysgolion Sul gw. John Morgan Jones a William Morgan, *Y Tadau Methodistaidd: eu Llafur a'u Llwyddiant gyda Gwaith yr Efengyl*, Cyfrol 2 (Abertawe: Lewis Evans, 1897), t. 198.

Yn y de, yn ôl cofnod gan T.R. o Dre-fîn ‘cynnaliwyd y flwyddyn ddiwethaf (1808) wyth ohonynt. Tair yn swydd Pembro, tair yn swydd Ceredigion a dwy yn swydd Caerfyrddin; a miloedd o bobl yn nghyd yn mhob un ohonynt’.[169] Yn ôl R. Tudur Jones, yn yr Ysgol Sul ‘[t]rwythid y disgyblion mewn diwinyddiaeth a dysgeidiaeth foesegol. Ac yr oedd ganddynt o ganlyniad ffrâm gadarn i’w helpu i esbonio’r Beibl ac i’w gymhwyso’n ddiriaethol at wahanol gwestiynau eu bywyd a’u cymdeithas’.[170] Ac wedi misoedd o baratoi ar gyfer y gymanfa ysgolion, nid yw’n rhyfedd bod Y *Tadau Methodistaidd* yn datgan ‘trwy bob ardal yn y Dywysogaeth yr oedd diwrnod “adrodd y pwnc” yn ddydd o uchel wyl; edrychid yn mlaen tuag ato am fisoedd yn mlaen llaw’.[171] Dywed Huw John Hughes mai ‘amrywiad ar y Gymanfa Ysgolion oedd y Gymanfa Bwnc a ddatblygodd yn ddiweddarach yn y De-Orllewin dan arweiniad Samuel Griffiths (1783-1860), gweinidog gyda’r Annibynwyr, Horeb, Ceredigion’.[172] Codwyd Griffiths i’r weinidogaeth yn Llwyn-yr-hwrdd, ac roedd yn un o gofianwyr Morgan Jones. Roedd yn un o’r gweinidogion a ddatblygodd arbenigedd yn y grefft o holi’r ysgol:

> Ef yn anad neb arall a greodd draddodiad y ‘Gymanfa Bwnc’. Am dros ddeugain mlynedd cyflenwodd Ysgolion Sul ei ardal â ‘llyfrynnau pwnc’ - casgliadau o gwestiynau ac atebion i’w dysgu ar dafod leferydd. Ac o’r defnyddiau hyn y cyhoeddodd ei naw catecism - pump ohonynt ar y deg gorchymyn gyda'r teitl *Rhodfeydd Paradwys*.[173]

Ar ôl marwolaeth Thomas Charles, yn dilyn y cynnydd cynnar, bu peth llaesu dwylo ynghylch gwaith yr Ysgol Sul, a dyna sy’n gyfrifol bod cymaint o bwyslais ar ei hyrwyddo drachefn yn llythyrau’r gymanfa o 1818 i 1820. Neilltuwyd llythyr cymanfa Dinbych, Hydref 1818, yn gyfan gwbl i danlinellu ‘YR ANGENRHEIDRWYDD O GYD-YMDRECHIAD MWY DEFFROUS NAG SYDD WEDI BOD O BLAID YR YSGOL SABBATHOL’. Cadarnhawyd pwysigrwydd sefydliad yr Ysgol Sul fel offeryn cenhadol trwy danlinellu nad ei phennaf ddiben oedd dysgu darllen y Gair yn unig, na dysgu moesau da i’r plant, ond ‘bod yn offerynol yn llaw Duw *er tragwyddol iechydwriaeth eneidiau y plant* ... sef *achub eneidiau.*’[174] Atodwyd ysgrif ar ‘Yr Ysgol Sabbathol’ yn amlinellu hanes a bwriadau Thomas Charles yn sefydlu’r Ysgolion Sul yn 1785. Ar ei ddiwedd caed y sylw: ‘Wedi marwolaeth Mr Charles, mae yn debyg i’r ysgolion laesu a lleihau ychydig ... Tybiem mai i gyffroi y bobl at eu gwaith yn y cyfeiriad hwn yr ysgrifenwyd llythyr cymanfa Dinbych’.[175] Yng nghymanfa Maenclochog, Mehefin 1819, atgyfnerthwyd neges llythyr Dinbych gyda’r gweinidogion yn rhoi sylw i bwysigrwydd

> defnyddioldeb yr Ysgol Sabbathol i hyfforddi yr anllythrenog i ddarllen y gair, ac fel moddion, dan fendith, i wella moesau ieuenctyd a’u dwyn i adnabod y gwirionedd; a

[169] *Trysorfa* (Mawrth 1809), t. 43; Hughes, *Coleg y Werin*, tt. 84-5.
[170] *HAC,* t. 196; Hughes, *Coleg y Werin*, tt. 85-6 am ddisgrifiad o’r pynciau yr holwyd y plant ynddynt yn y cymanfaoedd.
[171] Jones a Morgan, *Y Tadau Methodistaidd*, Cyfrol 2, t. 198.
[172] Hughes, *Coleg y Werin*, tt. 86-7.
[173] *HAC,* t. 197; gw. E. Pan Jones, *Cofiant ... Samuel Griffiths* (Corwen, *d.d.*), Pennod VII.
[174] *CyA*, t. 298.
[175] *CyA*, t. 307.

> chytunwyd i annog yr eglwysi i fod yn ffyddlon a llafurus yn y gorchwyl clodfawr hwn, ac i nodi yn y gymanfa nesaf y rhai esgeulus.[176]

Diddorol yw'r sylw bod gan y gymanfa bellach awdurdod i alw i gyfrif yr eglwysi hynny a oedd yn esgeulus yn y gwaith. Yng nghymanfa Aberteifi, Mehefin 1820, pwyswyd ar yr eglwysi 'i barhau gyda'r gorchwyl yn ddiwyd ac yn egniol' a barnwyd yn addas

> i gynghori yr ysgolfeistriaid i ymdrechu, hyd eithaf eu gallu, i drefnu amseroedd yr ysgolion, fel na byddont yn rhwystr iddynt hwy na'r plant i wrando pregethiad y gair, yn gyffredinol, ac *yn neillduol yn y lleoedd y perthynant iddynt*. Yr ydym yn ystyried *pregethu* y gair o fawr bwys fel y moddion pennaf o osodiad Duw, i ddwyn eneidiau at y Gwaredwr, ac i adeiladu yr eglwys.[177]

*Y defnydd o gatecism*

Roedd cynnal Ysgol Sul a chymanfa bwnc yn ddatblygiadadau newydd, ond nid felly y defnydd o gatecism fel cyfrwng addysgol pwysig ym mywyd yr eglwysi. Byth oddi ar 1647, pan gafodd *Y Catecism Hiraf* a *Chatecism Byrraf* Cymanfa Westminster eu cyflwyno i'r Senedd, gwnaeth yr Ymneilltuwyr ddefnydd helaeth o'r *Catecism Byrraf* yn arbennig er mwyn trwytho eu haelodau ym mhrif egwyddorion y ddealltwriaeth Brotestannaidd o'r ffydd.[178]

O fod wedi treulio pedair mlynedd yn Athrofa Glandŵr fe fyddai Morgan Jones wedi ei ddylanwadu yn helaeth drwy waith addysgol a phwyslais gweinidogaeth John Griffiths yno. Rhoddodd gryn fri ar gateceisio gan ddod yn enwog yn ei ddydd fel cateceisiwr.

> Catecism byraf y gymanfa oedd y llyfr a ddefnyddid ganddo i egwyddori ei bobl mewn gwybodaeth grefyddol. Cadwai gyfarfodydd egwyddori yn gyson yn mhob un o'r lleoedd oedd dan ei ofal, a thrwy ei fedr a'i lafur dibaid gwnaeth bobl ei ofal mor wybodus mewn duwinyddiaeth, os nad yn fwy felly, ag unrhyw bobl yn y wlad.[179]

Cyhoeddodd Griffiths fwy nag un argraffiad o *Gatecism Byrraf* Wesminster, ac yn ei ddefnydd o'r wasg cyhoeddodd argraffiad diwygiedig o gyfieithiad Mathias Maurice o waith Dr John Owen *Byr hyfforddiad yn addoliad Duw, a dysgyblaeth eglwysi y Testament Newydd*. 'Cyfieithodd hefyd lyfr o'r enw *Ystafell Gyfaill, neu gyfarwyddyd i ddynion difrifol yn y ddyledswydd bwysig o hunanymholiad, i'r dyben i'w osod i fyny yn nirgel ystafell y cristion, mewn trefn i'w adgofio a'i gynorthwyo yn y gwaith*'.[180] Rhoddai Morgan Jones hefyd gryn bwyslais ar gateceisio. Holwyddoreg oedd ei lyfr *Athrawiaeth y Ddau Gyfammod mewn Cwestiynau ac Attebion er Hyfforddiad y'Mhellach i Blant yr Ysgolion Sabbathawl*.[181] Cyflwynodd y llyfr i ieuenctid Ysgolion Sul Tre-lech, Capel Iwan, Blaen-y-coed, Llwyn-yr-hwrdd a Ffynnon-bedr. Yn ei ragair, dengys beth oedd ei gymhellion dros gyhoeddi'r llyfr a

---

[176] *CyA*, t. 309.
[177] *CyA*, tt. 320-1.
[178] Gw. D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales, Vol. 1, From Reformation to Revival* (Cardiff: University of Wales Press, 2018), tt. 216-31.
[179] *HEAC*, III, tt. 44-5.
[180] *HEAC*, III, t. 51.
[181] Morgan Jones, *Athrawiaeth y Ddau Gyfammod mewn Cwestiynau ac Attebion er Hyfforddiad Y'mhellach i Blant yr Ysgolion Sabbathawl* (Caerfyrddin: John Evans, 1812), t. 1.

pha awduron y bu'n pwyso arnynt. Roedd yn ymwybodol o'r syched ysbrydol yng nghalonnau ieuenctid yr eglwysi ac yn awyddus iawn i'w tywys i ddealltwriaeth gywir o wirionedd yr Efengyl. Roedd yn amlwg bod yr ieuenctid eisoes wedi dangos parodrwydd i gael eu hyfforddi trwy gyfrwng holwyddoreg neu gatecism. Y mae hefyd yn cyfeirio at yr hyn a ystyrid yn un o hanfodion y ffydd oddi ar gyfnod y Piwritaniaid cynnar, sef yr angen am brofi'r ailenedigaeth er cynysgaeddu y Cristion â dirnadaeth gywir o'r ffydd a phrofi nerth yr Ysbryd Glân yn y galon.

*Ieuengctid Annwyl,*

> Ar ddymuniad llawer ohonoch, y'nghyd â'ch dysgawdwyr, y cesglais ac y trefnais y gwirioneddau canlynol. Ystyriais, er eich mwyn, yr hyn a ddywedodd yr awdwyr gorau ar y pwngc: sef, Turretinus, Boston, Brown, Buck, a Vavasor Powel, gan chwennychu'n fawr i chwi gael ymborth iachus, a'ch iawn sylfaenu yn yr athrawiaeth sydd yn ôl duwioldeb. Mawr yw'r hyfrydwch meddwl wyf wedi ei brofi wrth sylwi ar eich awyddfryd a'ch hymdrech i ddysgu'r egwydorion, &c. A'ch dull trefnus o'u hatteb, y'ngyd â'ch hattebion cywir a deallus i'r pethau a ofynid i chwi er profi eich gwybodaeth. Rhodded yr Arglwydd, o'i drugaredd a'i râs, ei Ysbryd i'ch hadgenhedlu i obaith bywiol; fel y profoch effeithiau dwyfol y gwirioneddau yn eich calonau, yn eich dwyn hefyd i weddio a chanu yn yr Ysbryd, i ymroddi i'r Arglwydd ac i'w bobl, i'ch gwneud yn dystion gwybodus, cedyrn a diysgog, dros y gwir, dros sancteiddrwydd, dros brofiad cywir, a thros achos Duw yn *eich* dydd, ac o'r diwedd eich gwneud yn aeddfed i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd Iesu Grist; yr hyn yw dymuniad a gweddi eich ewyllysiwr da yn y pethau gorau,

*M. JONES.*

*GARREGWEN,*
Ionawr 8fed, 1812.[182]

Llyfr ar ffurff holiadur oedd *Athrawiaeth y Ddau Gyfamod*, wedi ei ddosrannu yn wyth o benodau. Mae'r cwestiynau yn fyr ac yn uniongyrchol, ond mae'r atebion, gan amlaf yn feithach o lawer, ac weithau yn rhanu'n is-adrannau gyda chyfeiriad at adnodau beiblaidd yn cadarnhau yr atebion. Roedd manylu am y ffydd Gristnogol yn nhermau 'Athrawiaeth y Cyfamodau' wedi bod yn boblogaidd oddi ar bedwardegau yr ail ganrif ar bymtheg.[183] 'Cyfamod Duw â Dyn' oedd pwnc seithfed bennod Cyffes Ffydd Cymanfa Westminster. Wedi'r Diwygiad Protestannaidd daeth yn ffasiynol i adeiladu cyfundrefn o ddiwinyddiaeth ar sail y syniad o Dduw yn gwneud cyfamod â dyn. Gwnaeth yr Ysgol Sul gryn ddefnydd o'r catecism fel y nodwyd eisoes.[184] 'Yr oedd pob enwad yn gyfarwydd â hwn, ond yr oedd yn bosibl ei ddefnyddio yn fwy helaeth yn awr. Catecism Phillips a ddefnyddid yn Heol Awst'.[185] Cyfeiriad yw hwn at waith Thomas Phillips Neuadd-lwyd.[186] Dywedwyd fod gwraig James Griffiths Tyddewi bob amser yn cynorthwyo ei gŵr yn yr ysgol deuluaidd a gedwid yn eu cartref ar Nos Lun dros y gaeaf gan drwytho'r ieuenctid yng nghynnwys y catecismau:

182 Jones, *Athrawiaeth y Ddau Gyfamod*, t. 2.
183 R. Tudur Jones, 'Athrawiaeth y Cyfamodau', yn Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd*, tt. 9-16.
184 Gw. *Y Diwygiwr*, Ionawr 1837; Mai, Medi, Tachwedd 1839; Ebrill, Awst, Medi 1840; Ebrill, Gorffennaf, Awst 1841.
185 Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 292.
186 LlGC, Casgliad Heol Awst, 7.

> Dysgodd Gatecism y Gymanfa, eiddo y Dr. Lewis, ynghyd â'r holl adnodau y cyfeiria efe atynt; eiddo Mr. Phillips, Neuaddlwyd, eiddo Mr. Everett, Dinbych; ynghyd â'r rhai bychain eraill.[187]

Enghraifft diweddarach o un o'r catecismau bychan oedd *Drws y Ty* gan Simon Evans Hebron, mab yng nghyfraith a chofiannydd James Griffiths. Bwriadwyd iddo 'fod yn help i wreiddio a seilio miloedd o bobl ieuainc ein cynulleidfaoedd yn egwyddorion blaenaf ein crefydd bur'.[188]

### 3. Natur a threfnlywodraeth eglwysig

*Y patrymau clasurol*

Mewn perthynas â natur a threfnlywodraethol yr eglwysi Annibynnol, y Piwritan John Owen oedd y prif ddylanwad ar Gymru a hynny trwy law Mathias Maurice.[189] Cyfeiriwyd at ddylanwad Owen yn llythyr cymanfaoedd Aberteifi a Thalgarth, 1836.[190] Roedd Maurice yn Gynulleidfaolwr selog, ac yn ogystal â chyfieithu gweithiau Owen, trosodd i'r Gymraeg waith Isaac Chauncy sef *Yr Athrawiaeth y Sydd yn ol Duwioldeb* (1711). Un o hoff bynciau Chauncy oedd trefnlywodraeth eglwysig, a bu cryn ddefnydd ar ei gyfrol *Divine Institution of Congregational Churches* yn Henllan Amgoed adeg yr helyntion yno yng nghyfnod Maurice.[191] Ond pwysicach na gweithiau Owen a Chauncy oedd gwaith gwreiddiol Maurice *Social Religion Exemplified in Account of the First Settlement of Christianity in the City of Caerludd* (1738-40), sef llyfr ar natur a threfniadaeth eglwys. Roedd Dr Edward Williams wedi cyhoeddi talfyriad ohono yn 1786 ac yn 1797 cyfieithwyd rhannau helaeth ohono i'r Gymraeg gan Benjamin Evans Dre-wen dan y teitl *Crefydd Gymdeithasol*.[192] Cafodd y gyfrol ddylanwad helaeth yn ne-orllewin Cymru. Erbyn ail hanner y ganrif nesaf, gan fod y gyfrol allan o brint, bwriodd David Gravell Pen-y-graig ati i gyhoeddi ei argraffiad yntau a ymddangosodd yn 1865.[193] Erbyn hynny roedd Thomas Nicholas Caerfyrddin wedi cyhoeddi argraffiad Saesneg[194] ac Evan Evans Nant-y-glo wedi cyhoeddi ei argraffiad yntau yn Gymraeg.[195] Dengys yr holl argraffiadau bwysigrwydd y gyfrol yn y cyfnod. Roedd Gravell, henuriad yn yr eglwys ym Mhen-y-graig, wedi darllen argraffiad Benjamin Evans pan yn ddeunaw oed, ac

---

[187] Simon Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths Tyddewi* (Llanelli: Rees a Williams, 1860), t. 42.
[188] Simon Evans, *Drws y Ty neu Lawlyfr i Ymgeiswyr am Aelodaeth Eglwysig*, 4ydd arg. (Dolgellau: W. Hughes, 1881), t. 6.
[189] Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 74; Jones, *Yr Eglwys - Cymdeithas Iesu Grist*, tt. 11-14.
[190] *CyA*, t. 502.
[191] Jones, *Yr Eglwys - Cymdeithas Iesu Grist*, t. 3; Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, tt. 324-8.
[192] Mathias Maurice, cyf. Benjamin Evans, *Crefydd gymdeithasol wedi ei darlunio mewn hanes o sefydliad cyntaf Crist'nogaeth yn Ninas Caerludd* (Caerfyrddin: Ioan Evans, 1797); Jones, *Yr Eglwys - Cymdeithas Iesu Grist*, tt.3-4.
[193] David Gravell (gol.), Mathias Maurice, *Crefydd Gymdeithasol neu Gydymaith y Cristion yn cael ei ddarlunio ar ddull Hanes sefydliad Cristionogaeth yn Ninas Caerludd* (Caerfyrddin: William Thomas, 1865).
[194] Thomas Nicholas (gol.), Mathias Maurice, *Social Religion Exemplified in an Account of the First Settlement of Christianity in the City of Caerludd,* Seventh Edition (London: Ward & Co, 1860).
[195] Evan Evans (gol.), Mathias Maurice, *Crefydd Gymdeithasol yn cael ei hegluro ar ddull hanes sefydliad cyntaf Cristionogaeth yn ninas Caerludd* (Aberdar: W. Lloyd, 1862).

wedi ei gyfareddu gan ei gynnwys. Trwy'r argraffiadau hyn parhawyd traddodiad Maurice: 'Yr eglwys leol yn uned gyflawn; cyfathrach ymgynghorol rhwng yr eglwysi; y weinidogaeth ddwyblyg, o esgobion a diaconiaid, a rhaniad yr esgobion yn henuriaid llywodraethol ac athrawiaethol'.[196] Ac felly yn nhraddodiad gweinidogaeth pedwar-plyg y patrwm a gyflwynwyd ar gyfer yr eglwys yng Ngenefa gan John Calfin, ac a ddilynwyd gan Maurice, roedd llywodraeth yr eglwys i fod yng ngofal gweinidog neu fugail yn cael ei gynorthwyo gan henuriad/iaid athrawiaethol, henuriaid llywodraethol a chan ddiaconiaid. Yn ôl Maurice cyfrifoldeb pennaf y gweinidog oedd porthi'r praidd trwy bregethu'r gwirionedd a'i amddiffyn yn wyneb ymosodiadau. Trwy fod wedi ei drwytho yn y wir ffydd, disgwylid iddo warchod athrawiaeth iach a gwrthwynebu syniadau cyfeiliornus. Roedd y gweinidogion i fod yn

> men of clear, sound knowledge of the entire doctrine of the Gospel, filled with love thereunto, having an aversion to *novel* opinions and bold conjectures; they should be men of learning and ability of mind, to appear in the defence and confirmation of the Gospel.[197]

Y gweinidog hefyd oedd i weinyddu sacrament Swper yr Arglwydd. Roedd yr henuriaid athrawiaethol i gynorthwyo trwy rannu yn y gwaith o addysgu a phregethu yn gynorthwyol. Cydnebydd Maurice nad pob eglwys oedd â henuriad athrawiaethol ynghyd â gweinidog. Roedd gwaith henuriaid llywodraethol yn angenrheidiol i oruchwylio bywyd yr aelodau a'u gwaith, gan fod yn fwy bugeiliol eu pwyslais. Roeddent i wylio cerddediad ac ymddygiad aelodau'r eglwys, gan fod yn esiamplau i weddill y praidd a'u hannog i ymarfer eu cyfrifoldebau, eu calonogi, a'u cywiro a cheryddu yn ôl yr angen:

> to watch against all appearances of differences and divisions among the people under their care ... to stir up all the members of the church to the special duties that may lie upon them severally, according to their different talents. The rich, the poor, the old, the young, those in peace, or those in trouble, to see that every relation be filled up with the proper duties thereof; and that every spiritual gift be called unto, and put upon, its proper exercise.[198]

Roeddent hefyd i ymweld â'r cleifion a'u cynorthwyo yn ôl eu gallu. Gwaith diaconiad oedd gofalu am dlodion yr eglwys gan ddwyn eu hangenion i sylw'r aelodau, annog yr aelodau i gyfrannu rhoddion er eu lles, ac yna ddosbarthu cymorth iddynt. Wrth wneud hyn yr oeddent yn dilyn esiampl Crist: 'The deacons should look upon it as a special part of their glory that they are called to represent and show forth the care, love, tenderness, and compassion of Christ'.[199] Roeddent hefyd i baratoi bwrdd y Cymun, a chan mai eu swyddogaeth yn ôl eu galwad oedd gwasanaethu byrddau, hwy oedd yn gyfrifol am gasgliadau'r eglwys a gofalu am gydnabod y gweinidog yn ariannol, 'because their proper business is to *serve tables*; therefore, to the table of the poor, persons have added the table of the Lord, and the minister's table; and for ought I know, justly enough'.[200]

---

[196] Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 74.
[197] Nicholas (gol.), Maurice, *Social Religion Exemplified*, t. 87.
[198] Maurice, *Social Religion Exemplified*, t. 97.
[199] Maurice, *Social Religion Exemplified*, t. 105.
[200] Maurice, *Social Religion Exemplified*, t. 105.

Yn 1802 cyfieithodd David Peter gatecism Samuel Palmer sef *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd.*[201] Ar ddiwedd llythyr cymanfa Merthyr Tudful, Mehefin 1798, ceir y nodyn hwn: 'Barnasom fod yn angenrheidiol i argraphu Catecism Palmer, gan obeithio y bydd o fawr Fendith i'r eglwysi ... Fe'i cyhoeddir yn fuan yn Abertawe'.[202] Ond yng Nghaerfyrddin y cyhoeddwyd ef yn 1803. Catecism ydoedd yn egluro hanfod egwyddorion yr Ymneilltuwyr ar bwnc natur eglwys mewn gwrthgyferbyniad i'r hyn a gafwyd yn yr Eglwys Sefydledig. Diffiniwyd yr eglwys fel

> Cynulleidfa, neu gymdeithas ewyllysgar o Gristnogion, y rhai ydynt yn gyffredin yn cyfarfod ynghyd yn yr un lle, i arfer ag ordinhadau'r efengyl, yn ol eu barn a'u cydwybod eu hun, ac mewn ufudd-dod i ewyllys Iesu Grist, i awdurdod pa un yn unig y maent yn ddarostyngedig.[203]

Roedd hefyd yn ymhelaethu ar alwad gweinidogion, mewn cymhariaeth â galwad offeiriad Eglwys Loegr, ffurf addoliad a defodau a seremonïau eglwysig, ac yn cynnwys pwyntiau yn unig ar drefn eglwysig a disgyblaeth eglwysig. Gwelir dylanwad catecism Palmer ar y *Catecism Eglwysig* o waith George Lewis Llanuwchllyn.[204] Roedd Lewis wedi darllen Catecism Palmer pan oedd yn ieuanc.[205] Fel gweinidog roedd yn hoff iawn o ddefnyddio *Catecism Byrraf y Gymanfa* (Westminster) i hyfforddi ieuenctid yn hanfodion y ffydd, ond gan nad oedd y catecism hwnnw yn delio â mater llywodraeth eglwysig, cydnabu mai bwriad y catecism a gyfieithodd oedd hyfforddi proffeswyr ieuainc yn yr hyn a berthynai i lywodraeth Crist yn ei eglwysi, a hyderodd y byddai ei grynhoad yn 'offerynnol i ddwyn llaweroedd o ddarllenwyr i gael meddyliau mwy cywir mewn perthynas i eglwysi'r Testament Newydd, na'r golygiadau oedd ganddynt gynt'.[206] Fel catecism mae *Catecism Eglwysig* Lewis yn rhagori ar *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd* Palmer/Peter ac yn ymhelaethu fwy ar fater llywodraeth eglwysig a disgyblaeth eglwysig, ond eto heb orfanylu. I Lewis, swyddogion yr eglwysi oedd esgobion a diaconiaid. Esgobion iddo oedd yr henuriaid, a'u swyddogaeth oedd bugeilio'r gynulleidfa gan ei llywodraethu a gweini pob ordinhad efengylaidd, tra mai gwaith y diaconiaid oedd ymdrin ag achosion allanol yr eglwys.[207]

Llyfr arall o bwys yn eglwysi'r de-orllewin oedd *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd* (1811) o waith James Griffiths Tyddewi.[208] Bu Griffiths yn ddisgybl yn ysgol ramadeg Caerfyrddin dan law Timothy Davis Castellhywel, yntau'n is-feistr yno i David Peter, ac yna yn fyfyriwr i Peter yn Academi Caerfyrddin ac yn arfer addoli yn Heol Awst.[209] Erbyn hynny yn weinidog ym Machynlleth, dywedodd mai'r hyn a'i cymhellodd i gyhoeddi'r gwaith oedd

---

[201] David Peter (gol.) yn Samuel Palmer, *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd: gwedi ei fwriadu i addysgu a chadarnhau Pobl Ieuainc yn mhlith yr Ymneillduwyr yn Egwyddorion Anghydffurfiaeth* (Caerfyrddin: J. Evans, 1803).
[202] *CyA*, t. 76.
[203] Peter (gol.) Palmer, *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd*, t. 16.
[204] George Lewis, *Catecism Eglwysig neu Hyfforddiad Ysgrythurol mewn perthynas i Natur eglwys efangylaidd, ei Hawdurdod a'i rhagor-freintiau, ei swyddogion, ei disgyblaeth, &c, &c.* (Treffynnon: Edward Carnes, 1805).
[205] *HEAC*, I, t. 386.
[206] Lewis, *Catecism Eglwysig*, t. 2.
[207] Lewis, *Catecism Eglwysig*, tt. 7-8.
[208] James Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd yn cynnwys Golwg fer ar natur yr Eglwys yn nghyd a'r Swyddogion, ei Hordinhadau, ei Llywodraeth, & c. mewn ffordd o ymddyddan rhwng Presbuteros a Juvenis* (Caerfyrddin: J. Evans, 1811).
[209] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, tt. 11-2.

‘deall fod egwyddorion Ymneillduaeth, ac yn enwedig dull a threfn yr eglwysi cynulleidfaol, yn bethau ag oedd y wlad yn gyffredinol, ac yn neillduol yn y Gogledd, lle yr oeddwn bryd hyn, yn anwybodus iawn ohonynt’.[210] ‘Cafodd y llyfryn hwn’, meddai ‘gymeradwyaeth llawer uwch, a mwy cyffredinol nag oeddwn yn ddysgwyl’.[211] Ceir mwy o fanylu ar natur a llywodraeth eglwysig yn y gwaith hwn nag a gafwyd yng ngatecismau Palmer/Peter a Lewis. Yng ngolwg Griffiths roedd yn yr eglwysi ddau fath o swyddogion sef henuriaid a diaconiaid. Eglurodd bod term henuriaid yn y Testament Newydd yn ymddangos dan amrywiol enwau yn cynnwys esgobion a bugeiliaid. Roedd dau fath o henuriaid, ‘sef “y rhai sydd yn poeni yn y gair a’r athrawiaeth” a’r rhai “sydd yn llywodraethu”, gw. 1 Timotheus 5:17.’[212] Ymhelaetha ynghylch swyddi gweinidogion, henuriaid a diaconiaid:

> Ystyr y gair esgob, yw *golygwr*, neu *edrychwr dros*; i ddangos eu bod i edrych dros, ac i fwrw golwg ar yr eglwys ... Gelwir hwynt yn fugeiliaid ac yn athrawon i ddangos fod iddynt ddysgu, ac i arwain, ac i borthi’r praidd. Gelwir hwynt yn weinidogion (neu weision) i ddangos, mai i weini yn mhethau Duw, i’r eglwys, y maent, ac nid i draws arglwyddiaethu arnynt.
>
> Gwaith henuriaid yn gyffredinol, yw bugeilio eglwys Dduw. Y mae ‘y rhai sydd yn poeni yn y gair a’r athrawiaeth’ y rhai a elwir yn gyffredin, yn henuriaid athrawiaethol, i ymroddi yn bennaf i bregethu’r gair, a gweinyddu’r ordinhadau, yn gyhoeddus; a’r ‘rhai sydd yn *llywodraethu*’, y rhai a elwir yn gyffredin yn henuriaid llywodraethol, i fwrw golwg yn bennaf ar yr eglwys, i ddarostwng cynhenau, ac i rybuddio a chynghori yn *ddirgelaidd*.
>
> Ystyr diacon yw *gweinidog* neu *was*. I wasanaethu byrddau y neilltuwyd hwy ar y cyntaf. Bwrdd y tlodion mae’n debyg, oedd mewn golwg yn benaf, ond hwyrach mai nid anmhriodol yw iddynt ofalu hefyd am fwrdd yr Arglwydd; ac am fwrdd y cyfryw a fyddo yn rhoddi ei amser i weinidogaethu i’r eglwys.[213]

Gwelir bod dylanwad *Crefydd Gymdeithasol* Maurice yn amlwg ar waith Griffiths.

Roedd llythyr cymanfaoedd Pencader a’r Groes-wen yn 1803 yn cadarnhau’r drefn o gael henuriaid a diaconiaid gan gydnabod bod ‘ffurf berffaith pob cynulleidfa grist’nogol yn galw am amryw henuriaid’.[214] Cyfeiria’r llythyr at eu gwaith yn llywodraethu ac at yr angen i sicrhau disgyblaeth yn yr eglwys. Ond o dipyn i beth yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, symleiddiwyd y drefn, cadwyd at y gwahaniaeth rhwng ‘esgobion a diaconiaid a suddo rhannau o waith yr henuriaid yn nyletswyddau’r gweinidog a’u gweddill yn nyletswyddai’r diaconiaid’.[215]

Er bod yr Annibynwyr mewn mannau eraill wedi gwneud i ffwrdd ag urdd yr henuriaid o tua canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, roedd gan eglwysi’r de-orllewin yn ystod cyfnod Morgan Jones, David Davies a David Peter henuriaid i gynorthwyo’r gweinidogion.[216]

---

210 Evans, *Cofiant James Griffiths*, t. 15.
211 Evans, *Cofiant James Griffiths*, t. 15.
212 Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, t. 9.
213 Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, tt. 9-10.
214 *CyA*, tt. 114-5.
215 *HAC*, t. 122.
216 *HAC*, t. 183; Lewis, *Memoir*, tt. 46-50; gw. W. James, *Canmlwyddiant Eglwys Ebenezer Abertawe* (Abertawe: E & J Griffiths, 1904), t. 7.

Yn Heol Awst, y gweinidog a fyddai'n awgrymu enwau yr henuriaid a'r diaconiaid i'r gynulleidfa, 'in the choice of whom, the minister's discrimination was pre-eminently exercised'.[217] Gair y gweinidog oedd i gyfrif, gyda'r gweinidog a'r swyddogion yn weddol rhydd i wneud y gwaith heb ymgyngori â'r gynulleidfa, ond mewn materion go bwysig ac ymarferol megis cyfraniadau ariannol yr eglwys.[218] Mewn cwrdd eglwys ar 17 Mawrth 1818 cynigiodd Peter enwau rhywrai i swyddi henuriaid a diaconiaid. Manylodd trwy ddyfyniadau o'r Ysgrythurau ynghylch eu swyddogaethau, a'u hannog at y gwaith.[219] Yn ôl y gweinidog, roedd tri math o swyddogion yn yr eglwys sef gweinidog, henuriaid a diaconiaid, a dylai'r tri math gael eu dewis yn ofalus. Dylent fod yn ddynion – ac am wrywod mae'n sôn – duwiol, a'u gwragedd yr un modd; dylent fod yn ddeallus a'u cynysgaeddu â doniau amlwg; dylai eu hymarweddiad naturiol fod yn dda; na ddylent fod yn esgeulus mewn perthynas â thŷ ac ordeiniadau Duw; a dylent fod yn hael eu hymddygiad ac yn gyfforddus eu hamgylchiadau. Ystyr y term 'esgob' yw 'un sy'n goruchwylio', ac felly gweinidogion i Peter oedd yr henuriaid a'r esgobion:

> As overseers, they are called bishops ... as those who watch over and feed the flock, they are called pastors; as being employed in teaching and instructing the Church, they are called teachers; as those who govern the Church, under Christ our common head, they are called elders.[220]

Cydnabyddai fod yna ddau fath o henuriaid, henuriaid athrawiaethol a henuriaid llywodraethol, ond mai y gweinidog gan amlaf mewn eglwys oedd yr henuriad athrawiaethol. Eto, ychydig, meddai, oedd yr eglwysi yn ei gyfnod heb weinidog a henuriad athrawiaethol. Yn hanes eraill: 'Some Churches, also whose number is small, have no deacons, the minister himself officiates as deacon; but in large Churches this is not only impracticable, but laborious for the minister. See Acts vi: 1-6'.[221] Yn achos henuriaid llywodraethol a diaconiaid, mae'n amlwg ei fod yn dilyn arweiniad Mathias Maurice yn ei *Crefydd Gymdeithasol* ar drefnlywodraeth yr eglwys.[222]

Roedd y safon a hawliai Peter yn anarferol o uchel, ac ychydig iawn o eglwysi a oedd yn medru dilyn y patrwm hwn yn gyflawn. Yn ôl awduron *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*:

> Ystyrid Eglwys Heol Awst yn nyddiau Mr Peter yr Eglwys fwyaf pendefigol yn yr enwad. Yr oedd yn gwbl annibynnol ar bob eglwys arall, ond carid ei llywodraeth fewnol yn mlaen agos yn gwbl gan y gweinidog a'r diaconiaid, ond gwneid hynny yn y fath fodd fel nad oedd neb o'r aelodau yn teimlo eu bod hwy yn cael eu hysbeilio o'u hawliau teg a chyfreithlawn.[223]

Felly 'er mai Eglwys hollol Annibynnol ei barn a'i chredo oedd Heol Awst yn nyddiau David Peter, yr oedd ei ffurflywodraeth o hyd yn Bresbyteraidd. Nis gellid osgoi hynny, oblegid yr

---

[217] Lewis, *Memoir*, t. 46.
[218] Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 76; Lewis, *Memoir*, t. 46; LlGC, Casgliad Heol Awst, 4.
[219] Lewis, *Memoir*, tt. 47-50.
[220] Lewis, *Memoir*, t. 48.
[221] Lewis, *Memoir*, t. 48.
[222] Lewis, *Memoir*, tt. 48-9.
[223] *HEAC,* III, t. 431; hefyd J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst* (Caerfyrddin: W. M. Evans a'i Fab, 1926), t. 52.

oedd y gweithredoedd yn trosgwyddo'r holl awdurdod i ddwylo'r Gweinidog a'r Ymddiriedolwyr'.[224] Fel enghraifft o awdurdod y gweinidog, roedd hawl cyfreithiol ganddo i fenthyg ystafelloedd yr ysgoldy i'r Bwrdd Presbyteraidd at ddefnydd yr Academi. Ac wedi ymddeoliad Peter fel pennaeth, bu peth anghydfod ynghylch y mater. Pan urddwyd John Breese yn gyd-weinidog â Peter yn 1835 roedd diaconiaid a henuriaid ymhlith swyddogion yr eglwys. 'Wrth drosglwyddo *Cofrestrau'r Bedyddiadau* drosodd i'r llywodraeth, yn 1837, gwneir hynny yn enw'r Gweinidog, dau Henadur a nifer o Ddiaconiaid'.[225] Eto,

> Cynulleidfaol oedd trefn yr eglwysi yng Nghymru, er mai'r term Annibynnol a ddefnyddid. Yn y traddodiad hwn byddai dylanwad Presbyteriaeth i'w deimlo, weithiau'n drwm, a phryd arall heb fod mor drwm. Nid oedd y Bresbyteriaeth glasurol yn amlwg yn y wlad, ond profwyd y dylanwad o fewn yr eglwys leol yn bennaf, ac nid ym mherthynas yr eglwysi â'i gilydd.[226]

Yn fuan ar ôl dyddiau Peter, aeth yr eglwysi ati i wneud i ffwrdd â threfn yr henuriaid, ac er i hyn beri peth anesmwythyd mewn mannau eraill,[227] arwydd o awdurdod unigryw David Peter ynghyd ag olion yr etifeddiaeth Bresbyteraidd a barodd i bethau aros felly yn Heol Awst gyhyd.

*Derbyn aelodau*

Oddi ar gyfnod yr Hen Ymneilltuwyr, bu'r Annibynwyr yn ofalus iawn wrth baratoi ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth eglwysig. Er mwyn bodloni'r cwrdd eglwys, roedd disgwyl y byddai gan yr ymgeiswyr wybodaeth eang o athrawiaethau sylfaenol y ffydd Gristnogol, a chydsyniad â hwy, ynghyd â bod eu hymarweddiad o ran buchedd yn gymeradwy. 'Pan nad oedd ymgeisydd yn dod i fyny â'r safon, nid oedd yn beth dieithr o gwbl i ohirio ei achos a'i gateceisio ymhellach.'[228] Yng ngeiriau Noel Gibbard: 'Yr oedd yn rhaid i'r eglwys gynnull, ymneilltuo oddi wrth y byd, oddi wrth pob eglwys anysgrythurol; diogelu'r pwyslais ar gymdeithasu; diogelu rhyddid, a phrofi eu bod yn saint gweledig'.[229] Ceir enghraifft o'r gofal hwn pan gafodd David Gravell ei dderbyn yn aelod yn Pen-y-Graig. Yn ôl ei gofianydd John Davies Cwmaman: 'Yr oedd gofal dwys gan yr eglwys y pryd hwnw i egwyddori dychweledigion ym mhynciau y ffydd, ac i weini disgyblaeth ar yr afreolus'.[230] Ymgais i drwytho plant ac ieuenctid yr eglwys yn egwyddorion y ffydd oedd y derbyniad a roddodd Pen-y-graig i waith Samuel Griffiths oedd wedi sefydlu ysgolion pwnc yno.[231] Roedd hyn oll yn unol â delfryd Matthias Maurice:

> Y neb a gynigiai ei hun, a holid yn gyffredin gan yr henuriaid, ac os gwelent anogaeth, hysbysent i'r eglwys fod y cyfryw yn chwennych cymundeb gyda hwynt fel aelod; ar hyn anfonai yr eglwys un neu ddau yn ei henw, i ymddiddan â'r cyfryw am

---

[224] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, tt. 54-5.
[225] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t. 55.
[226] Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 74.
[227] Trafodir yr helyntion yn *HAC*, tt. 183-4.
[228] *HAC*, t. 109; gw. *Y Cofiadur*, 17 (1947), tt. 3-50, am hanes Capel Isaac a'r *Cofiadur*, 23 (1953) , tt. 19-70 am hanes Pant-teg.
[229] Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 79; Gravell (gol.) Maurice, *Y Grefydd Gymdeithasol* (1865), t. 79.
[230] Gravell (gol.), Maurice, *Y Grefydd Gymdeithasol* (1865), t. xi.
[231] Gravell (gol.), Maurice, *Y Grefydd Gymdeithasol* (1865), t. ix.

> ei wybodaeth, ei grediniaeth, a'i brofiad, i weddio gydag ef, i'w ddysgu, i'w annog, ac i ymholi ynghylch ei ymarweddiad, yn enwedig oddiar amser cyntaf ei ofal am ei enaid, a mynegent y cwbl i'r eglwys.[232]

Roedd David Peter yr un mor ofalus wrth dderbyn aelodau yn Heol Awst.[233] Wedi cyfnod o ymdrwytho, yn y cwrdd paratoad cyhoeddus, holai hwy ar bynciau athrawiaethol ynghylch Duw a'i briodoleddau, dyn a'i gyflwr, Iesu Grist, ei waith a'i swyddi, a hefyd eu dealltwriaeth bersonol ynghylch eu hiachawdwriaeth, ac am arwyddocad y bedydd a Swper yr Arglwydd. Gofynnai wedyn am gydsyniad aelodau'r eglwys i'w derbyn ac yna eu hannog i fod yn bresennol ar gyfer y Sul canlynol. Cyn defod y derbyn ar y Sul hwnnw, a hwnnw'n Sul cymundeb, byddai Peter yn eu hannerch ar arwyddocâd y cam roeddent yn ei gymryd a'r cyfrifoldebau a oedd ynghlwm ag ef. Byddai'n eu hatgoffa am addewidion Duw i'w bobl, eu hannog i fod yn ffyddlon i Iesu Grist, ac i wynebu goblygiadau eu cyfamod. Yn ogystal â'u hymarweddiad ysbrydol, galwai arnynt i helpu cynnal yr achos trwy ymbresenoli a chyfrannu'n ariannol. Pe'u goddiweddid gan bechod difrifol a oedd yn hawlio sylw cyhoeddus, byddai gofyn iddynt ymostwng i drefn disgyblaeth, a phe baent yn symud i ffwrdd, eu bod i hysbysu'r eglwys o'u bwriad er mwyn iddynt gael llythyr i drosgwlyddo eu haelodaeth i fan arall. Ceir yng nghofiant James Griffiths arweiniad ar gyfer ac esiampl o eiriad o lythyr gollyngdod pan fyddai aelod yn symud neu'n gadael i ffurfio eglwys newydd.[234] Wedi eu siarsio ynghylch eu haddunedau gofynnai Peter:

> Do you promise, by divine assistance, to do these things? On your vowing to do so, I give you, as the servant of Christ, and the minister of this Church, the right hand of fellowship, as a token of your reception as members of this Church, to partake of all its Christian privileges.[235]

Yna wedi canu emyn cyflwynai Peter hwy i Dduw mewn gweddi. Roedd yn hynod yn ei anogaethau a'i ofal dros ddychweledigion ieuainc.

O gofio bod James Griffiths wedi bod yn drwm dan ddylanwad gweinidog Heol Awst, wedi ei ordeinio ym Machynlleth, gwelir yr un diwydrwydd a gofal gochelgar wrth dderbyn aelodau newydd i'r eglwys dan ei ofal yntau:

> Cytunnasom fel eglwys i beidio derbyn neb i'r eglwys, ond y cyfryw fyddent yn hollol adnabyddus, a'u cymeriadau uwchlaw amheuaeth, heb iddynt fod am rai misoedd yn y gyfrinach, i gael ymddyddan â hwynt ac ymofyn yn eu cylch. Effeithiodd hyn yn dda, ac ni chawsom lawer o ofid oddiwrthynt.[236]

Yn ôl R. Tudur Jones, 'mae'n siwr nad oedd pob gweinidog yn holi darpar-aelodau am natur eu credo â'r un manyldeb â David Peter yn Heol Awst',[237] ond eto dyna fyddai'r ddelfryd,

---

[232] Gravell (gol.), Maurice, *Y Grefydd Gymdeithasol* (1865), t. 76.
[233] Lewis, *Memoir*, tt. 42-5.
[234] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths,* tt. 77-8.
[235] Lewis, *Memoir,* t. 45.
[236] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths,* t. 34.
[237] *HAC*, t. 192; Lewis, *Memoir*, tt. 42-3.

ac y byddai eglwysi'r de-orllewin yn gwybod hynny. Yn eu plith roedd arferion yr Hen Ymneillduwyr yn parhau i ddylanwadu oherwydd 'o fewn y Sir yr oedd Morgan Jones, Tre-lech, yn fwy manwl hyd yn oed na gweinidog Heol Awst, ac yr oedd ei bamffled ef ar gael i eglwysi'r Sir'.[238] Teitl gwaith Jones yw *HOLIADAU a ofynir i'r rhai a dderbynir yn Aelodau i Eglwys Gynulleidfaol ac a Attebir Ganddynt ar eu Derbyniad* (1815). Dywed ei gofianydd D. Gorllwyn Williams fod John Griffiths Glandŵr wedi dylanwadau yn helaeth ar Morgan Jones gyda golwg ar ei holiadur, fel yn y defnydd a wnâi o holwyddoregau wrth hyfforddi plant a phobl ifanc. A pharhawyd i wneud defnydd o'r catecism am flynyddoedd lawer: 'Bu ymgeiswyr am aelodaeth drwy yr holl gylch dan reidrwydd meistroli "Holiadur" Morgan Jones cyn y caent eu derbyn i'r eglwys am faith flynyddoedd ar ol ei ddydd ef'.[239]

*Disgyblaeth eglwysig*

Wrth gael ei dderbyn i gyflawn aelodaeth, mynnai David Peter gydsyniad yr aelod newydd ar fater disgyblaeth: 'If you should be overtaken with a fault, or by any sin, it will be your duty to receive reproof, admonition, and advice, from your brethren in the spirit of love'.[240] Yn *Catecism Eglwysig* Dr George Lewis, mewn ymateb i'r cwestiwn 'Pa ddisgyblaeth a ddylai gael ei chynnal mewn eglwysi crist'nogol?' cafwyd yr ateb: 'Y mae'n ofynnol i eglwysi Crist'nogol er anrhydedd Crist, a'u lles eu hunain, i wylio dros eu haelodau, i rybuddio'r afreolus, gan ymdrechu mewn modd tirion i'w hadferu, ac i fwrw y gwaradwyddus a'r anniwigiadwy allan o'u cymmundeb'.[241] Fel roedd cryn gydweld ar faterion trefnlywodraeth eglwysig a mater derbyn i aelodaeth, roedd cryn gonsensws hefyd ar fater disgyblaeth. Ac unwaith eto y llyfr mwyaf dylanwadol oedd *Crefydd Gymdeithasol*. Materion digon anodd i ddelio â ydyw'r rheini sy'n galw am ymarfer disgyblaeth ym mywyd eglwys. Nid annisgwyl felly oedd gweld cyndynrwydd yn hanes rhai eglwysi a gweinidogion wrth iddynt ddelio â materion felly, neu eu hosgoi. Dyfynnodd Benjamin Evans sylw'r Dr Edward Williams yn ei argraffiad o'r gwaith. Gobeithiai Williams y byddai'r gyfrol yn cynnig i weinidogion ieuainc 'lawer awgrym fantaisiol tuag at weini eu swydd, a chyfarwyddyd i'w pobl mewn rhan hanfodol o wybodaeth Grist'nogol, a esgeulisir yn ormod, fel *Disgyblaeth eglwysig*.'[242] Cydnebydd Evans iddo gyfieithu cyfrol Maurice 'er mantais ysbrydol y Cymry, a'u cynnydd mewn deall o ddull a nattur eglwys Crist, a'i dwyfol ddisgyblaeth yn ol ffurf a threfn y Testament newydd a'r prif Grist'nogion'.[243] Roedd gan Maurice ddwy bennod llawn manylder, ar batrwm deialogau, a oedd yn enghreifftio fel y byddai'r eglwys ddelfrydol (a dychmygol) yng Nghaerludd yn delio â'r materion hyn. Mae'n amlwg fod cyfrol Maurice wedi dylanwadu yn helaeth ar James Griffiths wrth iddo lunio ei gyfrol *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd* gan iddo fabwysiadu arddull Maurice o ysgrifennu mewn ymgom. Yng ngwaith Griffiths ceir deialog rhwng *Juvenis*, sef dyn ifanc, a *Presbuteros*, sef hynafgwr, yn trafod dysgeidiaeth y Testament Newydd ar natur a chyfansoddiad yr eglwys. Ar ddiwedd *Cofiant y Parch. James*

---

238 Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd', t. 81.
239 D. G. Williams, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech', yn L .D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol,* Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 149-96 [189].
240 Lewis, *Memoir,* t. 45.
241 George Lewis, *Catecism Eglwysig,* tt. 14-5.
242 Evans, 'Anerchiad', (gol.), Maurice, *Crefydd Gymdeithasol* (1797).
243 Evans, 'Anerchiad', (gol.), Maurice, *Crefydd Gymdeithasol* (1797).

*Griffiths* ceir pennod gynhwysfawr ar faterion yn ymwneud â disgyblaeth eglwysig, ac yn delio gyda'r un pwnc ysgrifennodd Griffiths gyfres i'r *Diwygiwr.*[244]

Yn ôl Griffiths ymddygiad afreolaidd, pechadurus a niweidiol wedi cael tramgwydd yw ei gadw yn ddirgel neu ymddieithrio o'r eglwys, ac aros allan ein hunain o'i chymundeb , 'fel hyn mae *pryf* o anghariad yn *bwyta cryfder*, ac yn sychu ysbryd llawer'.[245] Yn llythyron cymanfaoedd yr Annibynwyr pwysleisiwyd 'Ni all un gymdeithas, gyd â phriodoldeb, gael ei galw yn eglwys Crist, os byddant yn esgeuluso disgyblaeth'.[246] Dysgid bod angen i'r eglwysi fod ar eu gwyliadwriath yn barhaus wrth frwydro yn erbyn drygioni: 'Nid oes un Eglwys yn ymddwyn yn ei lle, os na bydd yn gwylio ar ymarweddiad ei haelodau'.[247] Roedd disgwyl i aelodau eglwysig fyw bywydau sanctaidd gyda'u hymarweddiad yn gydnaws â'u proffes:

> Peth anghyson yw proffesu ein bod yn gyfeillion i'r achos ag sydd yn annelu at ladd pechod, a byw mewn anwiredd ac aflendid. Os ydym dros weled *celwydd, meddwdod, godineb, cybydd-dod, afradlonrwydd*, a phob pechod arall yn colli'r dydd, ac yn cael eu distrywio gan arfau yr efengyl, y mae yn rhaid i ni wylio rhag bod yn euog ein hunain o'r pechodau hyn.[248]

Mewn achos o dramgwydd, yr adnodau y trowyd atynt am arweiniad gan amlaf oedd Matthew 18:15-17.[249] Disgwylid i'r sawl a dramgwyddid fynd at y sawl a'i tramgwyddodd, iddynt drafod y mater yn ystyriol, ac os cyfaddefid bai dylai'r tramgwyddwr ymddiheurio yn edifeiriol i'r un a ddioddefodd gam. Wedi i'r cymeriadau *Egwan* a *Hyderus* weithredu fel hyn cafwyd diwedd cymodlon i'r anghydfod.[250] Pe na cheid ymostyngiad i gyfaddef bai, wedi ymarfer llawer o dynerwch a phwyll, a gweddïo am fod mewn tymer addas, y cam nesaf oedd galw tystion i wrando'r gŵyn a thrafod y sefyllfa o'r ddwy ochr: 'Yr ydych yn cofio y rheol, "Cymmer gydâ thi etto un neu ddau" &c. Mae yn debyg mai un neu ddau o henuriaid fyddai yn fwyaf cymmwys i'w cymmeryd. Ac yna os na wrendy ar y rhai hyny chwaith, "dywaid wrth yr eglwys"'.[251] Pe na cheid datrysiad wedyn, y cam nesaf oedd gwahardd yr euog dros dro rhag nesáu at fwrdd y cymun 'nes cael arfer moddion ymhellach at eu hynnill; ac os para yn gyndyn hyd y diwedd a wnânt, nid oes gan yr eglwys ond cilio oddi wrthynt, a thori pob perthynas â hwynt'.[252] Yn enghraifft yr anghydfod rhwng *Diniwed* a *Diwall*, roedd *Diwall* wedi twyllo *Diniwed*, ac yn euog o weithredu yng anghyfiawn ac o goleddu cybydd-dod, ond er ei geryddu a'i alw i edifeirwch, parhau yn gyndyn yr oedd *Diwall*, a'r pen draw oedd iddo gael ei ddiarddel gyda phob aelod yn codi llaw mewn cydsyniad â'r ddedfryd.[253]

---

[244] James Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd yn cynnwys golwg fer ar natur yr Eglwys yn nghyd a'r ymddyddan rhwn Presbuteros a Juvenis*; 'Dysgyblaeth Eglwysig'yn Evans *Cofiant y Parch. James Griffiths*, tt. 69-77; a hefyd ar bwnc 'Dysgyblaeth Eglwysig' yn y *Y Diwygiwr*, (Hydref, 1841), 294-8, Tachwedd, 326-30, Rhagfyr, 349-55.
[245] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*,, t. 31.
[246] *CyA*, t. 116.
[247] *CyA*, t. 399.
[248] *CyA*, tt. 399-400.
[249] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd,* tt. 31-33; *CyA*, t. 116.
[250] Nicholas (gol.), Maurice, *Social Religion Exemplified*, tt. 209-10.
[251] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, t. 32.
[252] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, t. 33.
[253] Nicholas (gol.), Maurice, *Social Religion Exemplified*, tt. 221-8.

Ceir ymhelaethu pellach ar y pwnc yn ymdriniaeth Griffiths ar *Dysgyblaeth Eglwysig* sydd yn ei gofiant. Mae dwy ran i'r ymdriniaeth, y rhan gyntaf yn ymdrin â Galatiaid 6:1 sy'n mynnu mai diben proses disgyblu oedd 'adgyweirio', sef cael y troseddwr i ymadael â'i fai, i ddiwygio, a'i adfer i gymdeithas yr eglwys, a bod angen 'adgyweirio mewn ysbryd addfwyn' - nid yn sarrug, chwerw ac anfaddfeuol'.[254] Roedd Griffiths wedi llafurio i berswadio yr eglwysi i adgyweirio'r sawl oedd ar fai cyn eu diarddel. Datgana ei anfodlonrwydd gyda thuedd rhai egwysi i ddiarddel 'yn ddioed am rai troseddau, heb arfer neb moddion, yn gyntaf tuag at adgyweirio y troseddwr'.[255] Roedd gweithredu felly, meddai, wedi bod yn gyfrifol am yrru rhai troseddwyr i wrthgiliad pellach ac yn achlysur i greu rhwygiadau mewn eglwysi. Roedd ail ran ei draethawd yn ymdrin ag 1 Corinthiaid 5:13 pan fyddai'r troseddwr yn parhau yn gyndyn yn ei fai. Yn achos yr aelod gwrthnysig, dyletswydd yr eglwys oedd ei fwrw ymaith o'r gymdeithas. Pe nas gwneid byddai 'ei oddefiad yn yr eglwys yn tueddu yn fawr i'w drygu. Y mae yn ei llygru – y mae yn ei gwanhau – ac y mae yn tynu gwg Duw arni.'.[256] Ond y gobaith oedd mai gweithred lesol yn y pen draw fyddai'r disgyblu:

> Ymaith ag ef. Hyn yw y moddion tebygaf yn awr i wneuthur lles i'r troseddwr. Lles y troseddwr sydd i fod yn un prif ddiben dysgyblaeth o bob gradd - nid dial arno, ac y mae o bwys mawr i fod hyn yn cael ei ddangos. Y mae yr eglwys wrth fwrw y drygionus o'u plith yn rhoddi dangosiad ffyddlon iddo o ben draw y llwybr y mae ef arno.[257]

Anelu at achubiaeth sef cadwedigaeth eneidiau oedd y nod a gwaredu rhag damnedigaeth. Roedd y gobaith hwn yn amlwg yng ngwaith Maurice. Wedi i *Diwall* gael ei ddiarddel, tanlinellwyd:

> This they unanimously did; and thereupon Dewi (y gweinidog) declared him actually cut off, and prayed, with many tears, for a blessing upon that awful ordinance Christ had called them to go through, greatly desiring of God that it might be for the subduing of his sin he was so cut off, that his spirit might be saved in the day of the Lord Jesus.[258]

Wrth arwain yr eglwys yn Heol Awst, awydd Peter oedd ceisio gogoniant Duw a diogelu enw da y gymdeithas Gristnogol.[259] Cymdeithas gysegredig oedd yr eglwys a'i haelodau yn proffesu ffydd yng Nghrist fel Gwaredwr ac yn ceisio byw yn unol â'i ewyllys. Er mwyn dathlu arwyddocad ei farwolaeth, deuent ynghyd i dorri bara ac yfed gwin, ac yn ei olwg roedd y sawl a fyddai'n euog o anfoesoldeb cywilyddus yn dangos nad oeddent yn ddidwyll yn eu proffes, ac na ddylid caniatáu iddynt nesau at fwrdd yr Arglwydd, hyd nes y profent eu didwylledd mewn edifeirwch a bywydau diwygiedig. Credai bod eglwysi Crist o'u dyddiau cynharaf wedi ymarfer disgyblaeth ar sail yr Ysgrythurau, yn arbennig yn ôl 1 Corinthiaid 5:3-7, 9-13; 2 Thesaloniaid 3:6-14 ac 1 Timotheus 1:20. Roedd o'r farn ei fod yn ddianrhydedd i enw Duw a

[254] Griffiths, 'Dysgyblaeth Eglwysig' yn Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t. 72;
[255] Griffiths, 'Dysgyblaeth Eglwysig' yn Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t. 75.
[256] Griffiths, 'Dysgyblaeth Eglwysig' yn Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t. 73.
[257] Griffiths, 'Dysgyblaeth Eglwysig' yn Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths*, t.74.
[258] Nicholas (gol.), Maurice, *Social Religion Exemplified*, t. 228.
[259] Lewis, *Memoir*, tt. 51-3.

chrefydd i'r rhai oedd yn euog o anfoeslodeb difrifol (*gross immorality*) gael eu henwi ymhlith Cristnogion. Dyma ffurf y geiriau a ddefnyddid mewn achosion o'r math:

> Whereas, Mr. D_____ has been guilty of gross immorality, and has given us and the inhabitants at large, reason to believe that he is guilty of _____; I do, in the name of the Lord Jesus Christ, the great Head of the Church, deliver him to the world, where we found him; and openly disclaim every connexion with him, as a member of this society; till we discover the sincerety of his repentance, by the reformation of his life.[260]

Cyplysai James Griffiths 'fwrw ymaith y drygionus' yn 1 Corinthiaid 5:13 gyda'r cymal 'traddodi'r cyfryw un i Satan' yn 1 Corinthiaid 5:5 ond nid oedd Maurice o'r farn y dylid traddodi neb i Satan, ac nid wnaed felly wrth ddiarddel *Diwall*: 'Because Christ has not committed that power to any church. Nor does that expression, where it is used in Scripture, denote exocommunication only, but something extraordinary, perhaps not known since that day'.[261]

Os gwaharddai Peter gyfeillachu gydag aelodau ddiarddelwyd o'r eglwys, roedd eraill o'r farn y dylid parhau i fyned ar eu hôl yn y gobaith y gellid eu hennill drachefn. Roedd llythyr cymanfa Peniel, Sir Gaerfyrddin, yn 1821, o'r farn 'mai peth angharedig yw peidio myned at y rhai a dorir allan o'r eglwys, i edrych a ellir eu dwyn atynt eu hunain. Pe elai y brodyr atynt yn ysbryd Crist, tebygol yw y llwyddent i ddychwelyd llawer o honynt yn fuan'.[262]

*Y sacramentau*

Yn nhraddodiad y Diwygiad Protestannaidd, arddelai yr Annibynwyr ddau sacrament sef bedydd a Swper yr Arglwydd. Meddai Peter ar ddydd ei ordeinio: 'I believe, that the Lord Jesus Christ has established two ordinances in his Church, which are to be observed to the end of the world: baptism, and the Lord's supper; the symbols wherof are water, in the one, and bread and wine, in the other'.[263]

*a. Bedydd*

Yn wahanol i'r Bedyddwyr a arferent fedydd crediniol trwy drochiad ar sail cyffes bersonol o ffydd, arddelai yr Annibynwyr fedydd babanod trwy daenellu. Fel ordinhad ddechreuol yn nodi mynediad i gymdeithas yr eglwys yr ystyriwyd bedydd, a dysgai'r Annibynwyr ei bod yn cyfateb i ddefod enwaediad yng nghyfnod yr Hen Destament. Fel yr enwaediwyd babanod yn nyddiau'r hen oruchwyliaeth, roedd plant i gredinwyr i'w bedyddio yng ngoruchwyliaeth y Testament Newydd.[264] Ar sail addewidion cyfamodol Duw i'w bobl y seiliwyd athrawiaeth bedydd babanod, yn arbennig yng nghysgod yr addewid ar Ddydd y Pentecost 'oherwydd i

---

[260] Lewis, *Memoir*, t. 53
[261] Nicholas (gol.), Maurice, *Social Religion Exemplified*, t. 228.
[262] *CyA*, t. 328
[263] Lewis, *Memoir*, t. 23.
[264] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, t. 19.

chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant' (Actau 2:39). Yn ôl Matthias Maurice: 'Ni ddarllenais am un o gyfamodau Duw a'i bobl neu ei addewidion iddynt heb fod plant yn gynwysedig'.[265] Yng Nghymru roedd James Owen wedi amlinellu'r dadleuon o blaid bedyddio babanod yn ei *Bedydd Plant o'r Nefoedd, neu Draethawd am Natur a Diben Bedydd*, cyfrol a luniwyd yng nghysgod y ddadl fawr ar fedydd gafwyd rhwng y Bedyddwyr a'r Annibynwyr ym Mhen-lan gerllaw y Frenni Fawr yn Sir Benfro yn 1692.[266] Fel na ellid meddwl am Abraham, tad y genedl, ar wahân i'w blant, felly roedd galwad Duw yn cael ei chadarnhau trwy gydunoliaeth neu *solidarity* y teulu: 'Gwnaeth Duw y Cyfammod gras hwn âg Abraham ac a'i hâd, neu ei blant'.[267] Gwyddai yr Iddewon eu bod yn blant yr addewid a bod yr addewid hefyd i'w plant a'u disgynyddion, a dadl Owen oedd bod yr addewid o fendithion Duw i'w bobl i barhau o dan drefn y cyfamod newydd: 'Ffordd Duw o ddechreuad y byd oedd derbyn teuluoedd cyfain i'w gyfammod, yr oedd y plant yn cael eu derbyn i mewn gydâ eu rhieni, a felly mae'n parhau.'[268] A chan farnu, ar sail y cyfamod newydd, bod tystiolaeth y Testament Newydd o blaid derbyn a bedyddio plant, ynghyd â'r arfer yn yr eglwys o'r cyfnod cynharaf yn ei hanes dyma'r dehongliad a oedd yn dderbyniol i'r Annibynwyr.

Ond i'r bedydd i fod yn ddilys, byddai gofyn i'r cymhellion a'r cais i fedyddio plant gan rieni i fod yn ddiffuant ac yn bur. Rhestrodd James Griffiths rai o'r cymhellion annheilwng gan rieni wrth iddynt ddod â'u plant i gael eu bedyddio yn yr eglwysi plwyf, sef er mwyn rhoi enw ar blentyn, er mwyn cael gwell cyfle i gael swydd wedi tyfu'n oedolyn, ac er mwyn cael hawl i gael bedd yn y fynwent. Nid felly ymhlith yr Ymneilltuwyr. Roedd angen cymhellion crefyddol tros fedyddio, gyda'r dŵr yn arwydd o lanhad oddi wrth bechod ynghyd ag addewid am yr Ysbryd Glân, 'yr hyn a elwir yn y gair yn *olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân*'.[269] Wrth fedyddio plant proffesid disgwyliad 'am fendithion y cyfammod newydd i'r enaid, yn ol addewid Duw yn y cyfammod i'w bobl a'u had'.[270] Nid oedd hyn yn gyfystyr â bod yr ail-enedigaeth yn digwydd yn yr act o fedyddio ond bod rhieni, wrth fedyddio'u plant, yn ymwybodol o'u rhwymau i'w meithrin yn y ffydd ynghyd â'r disgwyliad y deuent i gredu drostynt eu hunain wedi iddynt ddod i oed. Gan nad oedd iddo sail Ysgrythurol, ymwrthodai yr Annibynwyr â'r arfer o gael rhieni bedydd a chredent mai olion Pabyddiaeth oedd gwneud arwydd y groes ar dalcen y bedyddiedig.[271] Bu'r feirniadaeth hon yn gyffredin ers dyddiau'r Piwritaniaid yn yr ail ganrif ar bymtheg fel y gwelwyd yn ymosodiadau Vavasor Powell ar arferion Eglwys Loegr a'r feirniadaeth gignoeth leisiodd yn ei *Common Prayer-book No Divine Service, or XXVIII reasons against ... Imposing any Human Liturgies* (1661).[272] Eto, roedd anghydweld ymhlith gweinidogion yr Ymneilltuwyr ar gwestiwn pa blant ddylid eu bedyddio, ai dim ond had yr eglwys neu a oedd yn briodol i fedyddio plant teuluoedd nad oedd yn aelodau eglwysig? Yng ngolwg David Peter, dylid

[265] Gravell (gol.), Maurice, *Crefydd Gymdeithasol*, t. 56 a Phennod 8.
[266] Gw. Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival,* tt. 338-41.
[267] James Owen, *Bedydd Plant o'r Nefoedd, neu Draethawd am Natur a Diben Bedydd* (Llundain: F. Collins, 1693), t. 40.
[268] Owen, *Bedydd Plant o'r Nefoedd*, t. 134.
[269] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd,* t. 21.
[270] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, tt. 21-2.
[271] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, tt. 20-4.
[272] Gw. Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, t. 198.

cyfyngu'r bedydd i blant credinwyr, neu'r credinwyr hynny na chawsant eu bedyddio o'r blaen: 'I believe, that baptism is to be administered to the infants of believing parents, as well as to adult persons who have not been baptised before'.[273] Roedd Catecism Byrraf Cymanfa Westminster yn ddiamwys ar y cwestiwn:

> *' I bwy y mae Bedydd i'w weinyddu?*
>
> Nid yw Bedydd i'w weinyddu i unrhyw un sydd y tu allan i'r eglwys weledig nes iddynt broffesu eu ffydd yng Nghrist ac ufudd-dod iddo: ond dylid bedyddio plant aelodau yr eglwys weledig'.[274]

Felly hefyd y credai Morgan Jones:

> *'Pwy a ddylai gael eu bedyddio?*
>
> (i) Rhai na fedyddiwyd yn eu babandod a ddylent gael eu bedyddio ar eu proffes o'u ffydd a'u hedifirwch.
>
> (ii) Plant y rhai oll sydd yn proffessu y grefydd Gristianogol'.[275]

Roedd y cwestiwn yn codi ymhle y dylid gweinyddu'r bedydd, ai yn y cartref neu yn y tŷ cwrdd? 'Ystyriai Mathias Maurice fedydd yn ordinhad Gristnogol ond nid yn ordinhad eglwysig ... Gan nad edrychid ar fedydd fel ordinhad eglwysig, fel y Cymundeb, yn y cartref y gweinyddid ef fynychaf. Dyna batrwm Maurice yn *Crefydd Cymdeithasol*'.[276] A dyna oedd yr arfer ymhlith yr Annibynwyr. Yn Llyfr Eglwys Capel Isaac, o'r 25 bedydd a groniclir rhwng Hydref 1735 a Gorffennaf 1741 tri yn unig a weinyddwyd yn y capel, ac arferiad John Harries oedd mynd â rhai o aelodau'r eglwys gydag ef i gartref y bedyddiedig.[277] Yn achos Morgan Jones, mae'n amlwg mai yn y cartref bron yn ddieithriad y byddai'n bedyddio babanod. Wrth gofnodi bedydd yn ei gofrestr arfer Jones wrth nodi enw y plentyn a fedyddiwyd oedd enwi plwyf y baban a'r rhieni. Oddi wrth gofrestr bedydd Morgan Jones, yn nosbarthiad bedyddiadau lleol Morgan ac Evan Jones rhwng 1820 a 1837, ym mhlwyf Tre-lech a'r Betws yn unig roedd 553 o fabanod a aned yn y plwyf wedi eu bedyddio gan weinidogion Capel-y-Graig, tra mai 177 a fedyddiwyd yn eglwys y plwyf. Roedd hyn heb sôn am yr oll a fedyddiwyd yn y plwyfi amgylchynol i Dre-lech, a dengys gryfder y dystiolaeth Annibynnol mewn cymhariaeth i ymlyniad y plwyfolion wrth Eglwys Loegr yn ystod blynyddoedd gweinidogaeth Morgan Jones yn y cylch. Yn 1829 bedyddiodd y ddau 130 ym mhlwyf Tre-lech a'r Betws.[278]

---

[273] Lewis, *Memoir*, t. 23; gw.uchod Cyffes Ffydd William Beynon, Pennod 6 t. 134.
[274] *Cymanfa Westminster Y Catecism Byrraf mewn Cymraeg Cyfoes*, cyf. Euros Wyn Jones (Llangefni: O. Jones, 2002), t. 26.
[275] Morgan Jones, *HOLIADAU a ofynir i'r rhai a dderbynir yn Aelodau i Eglwys Gynulleidfaol ac a Attebir Ganddynt ar eu derbyniad* (Caerfyrddin: J. Evans, 1815), t. 6.
[276] *HAC*, t. 117.
[277] E. D. Jones, 'Llyfr Eglwys Mynydd-bach', *Y Cofiadur*, 17(1947), 3-50 [25-7].
[278] Muriel Bowen Evans (gol.), *Capel-y-Graig Tre-lech 1703-2003* (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2003), tt. 20-1.

*b. Swper yr Arglwydd*

Wrth gyffesu'i ffydd ar ddydd ei ordeinio meddai Peter:

> I believe ... that the Lord's supper is appointed as a confirming, strengthening, and comforting sacrament to the faithful communicant; being intended as a solemn commemoration of the death of Christ, a seal of the benefits purchased thereby, and a token of our relation to each other, as brethren in him'.[279]

Bu yna gryn bwyso ymhlith yr Annibynwyr ar gyfrol Thomas Baddy, gweinidog eglwys Lôn Swan, Dinbych, *Pasc y Christion* (1703) (cyfieithiad o'r gyfrol boblogaidd Saesneg gan Thomas Doolittle *Treatise Concerning the Lord's Supper* (1667)) a oedd yn cynnig arweiniad defosiynol i aelodau eglwysig ynghylch paratoi ar gyfer cymuno. Wrth bwysleisio mai sacrament eglwysig oedd Swper yr Arglwydd yn dynodi undeb ysbrydol y credadun â Christ ynghyd â'i berthynas â'i gydaelodau yn yr eglwys, gellir dweud yn sicr fod Peter yn cadarnhau yr hyn a bwysleisiwyd gan Baddy ac yn nealltwriaeth yr Ymneilltuwyr o'r cymundeb, sef, mai ordinhad ydoedd wedi ei fwriadu gan Dduw i fod yn foddion gras, i borthi ffydd y Cristion ac nid peri i ffydd gael ei geni: 'oblegid rhaid i droedigaeth fyned o flaen cyfrannu o'r ordinhad sanctaidd hon, yr hon a osodwyd gan Dduw nid i gynhedlu ond i gynyddu gras'.[280] Meddai D. Densil Morgan wrth drafod y pwynt hwn: 'The Lord's Supper in the Dissenting tradition was not a converting ordinance, rather it was for those who had already repented of their sins and come to Christ'.[281]

Yn ôl James Griffiths wrth weini'r cymun, ni ddylid penlinio wrth dderbyn yr elfennau am fod hyn yn deillio o'r gred Babyddol o bresenoldeb corfforol Crist yn y sacrament.[282] Ymwrthodai Protestaniaid yn llwyr ag athrawiaeth Eglwys Rhufain am draws-sylweddiad. Ond, fel y tanlinellwyd yn *Pasc y Christion*, pwysleisiwyd bod angen nesáu at y bwrdd yn ofalus ac mewn ysbryd priodol:

> Pan y byddom yn cyfranogi o swper yr Arglwydd, gweddai i ni wneuthur hyny gyda'r ystyriaeth a'r parch mwyaf. Yn ol dwys hunan-ymholi, dylem nesáu at Dduw yn yr ordinhad hon â'n calonau'n llawn o alar a chywilydd efangylaidd o blegid ein ffieidd-dra, a'n *truenusrwydd* gerbron Duw, ac yn llwyr-fwriadu ymwrthod â phechod. Dylem hefyd fod yn gariadlon ein hysbryd tuag at ereill; a chydâ diolchgarwch diragrith, a llawenydd sanctaidd, yngwyneb trefn iachawdwriaeth ymroddi, yn ffyddiog i Dduw ac i'w achos.[283]

Prif ddiben gweinyddu'r cymun oedd dwyn i gof ddioddefaint a marwolaeth Crist, ystyried arwyddocâd aberthol ei farw a'i esiampl addfwyn wrth ddioddef, ac roedd yr ordinhad hefyd wedi ei bwriadu 'i fod yn arwydd gweledig o'n cyfamod â Duw, a'n cymundeb â'n gilydd, ac

---

[279] Lewis, *Memoir*, tt. 23-4.
[280] *Pasc y Christion, neu Wledd yr Efengyl, wedi ei chyhoeddi mewn traethawd ynghylch Swpper yr Arglwydd ... gan Thomas Doolittle, wedi ei Gymreigio gan T[homas] B[addy]* (Llundain: n.p., 1703). t. 16.
[281] Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, t. 320.
[282] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, tt. 25-7.
[283] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, t. 28.

yn flaenbrawf o'r wledd dragwyddol yr ochr draw'.[284] Yn fwy na dim ond bod yn gyfrwng i gofio am ddioddefaint Crist, bwriadwyd y sacrament yn ôl Thomas Baddy i fod yn foddion tan fendith yr Ysbryd Glân i selio yng nghalon y Cristion y bendithion a enillwyd ar ei ran gan Grist, ac yn fodd iddo ymlonyddu a phorthi ar y cariad hwnnw: 'onid ymma y mae Duw yn dra-helaeth yn ei dywallt ei hun allan i galonnau ei bobl?'[285]

> Mae'r sacrament hwn yn arwydd i ddwyn ar gof ddioddefaint ein Harglwydd, lle y mynne efe dystiolaeth i'ch cydwybod, a'ch sicrhau chwi ei fod efe wedi marw trosoch; mae'n eglurhad o'i gariad, lle y mynne i chwi yn siccr wybod ei fod efe yn eich caru; mae'r sacrament yn ysbysrwydd blaen-llaw o'ch gwynfyd tragwyddol sydd i ddyfod, lle mynne efe i'ch sicrhau y byddech yn ddiameu yn gyfranogion o hono.[286]

Wrth feddwl am gyd-gymuno, roedd cyfeiriadau cyffelyb at gynhesrwydd y gymdeithas a'r angen i'r aelodau fod yn gariadus tuag at ei gilydd yn llythyr cymanfa Ffynnon-bedr, Sir Gaerfyrddin, 1814:

> Yn y gorchwyl hwn yr ydych yn fwyaf ar wahan oddiwrth y byd, a thebycaf i deulu y nef. Holwch eich hunain - sefydlwch eich meddwl ar yr hwn o gariad atoch a fu farw yn eich lle – bwriwch ymaith bob tymher anaddas - na adewch i rwystrau bychain eich atal rhag eich braint.[287]

Fel y datganodd ar ddydd ei ordeinio, credai Peter, yn gydnaws â dealltwriaeth ei gyd-Ymneilltuwyr, bod Swper yr Arglwydd wedi ei fwriadu fel sacrament i gadarnhau, cryfhau a chysuro cymunwyr ffyddlon yn eu cred, a hynny trwy eu hatgoffa o'r buddiannau sy'n eiddo iddynt trwy farwolaeth Crist, a bod y sawl sy'n cyd-gymuno yn arwyddo eu hundeb fel brodyr a chwiorydd yn y ffydd ynghyd â'u hymlyniad i Iesu Grist. Gan mai i hyn y sefydlwyd yr ordinhad, roedd yn amlwg, meddai, y dylid nesáu at y bwrdd yn ddwys a chydag ystyriaeth ddifrifol ac na ddylid caniatáu i'r sawl oedd yn euog o bechodau ysgeler i gymuno hyd nes eu bod yn dangos didwylledd eu hedifeirwch trwy ddiwygio eu bywydau. O gofio didwylledd proffes y Cristion, roedd rhaid gwahardd rhai annheilwng eu hymddygiad rhag cymuno tan eu bod yn dangos arwyddion digonol o'u hedifeirwch: 'By this means they may perhaps, be reformed, the honour of religion secured, and the friendly communion of Christians here be promoted'.[288] Roedd hyn yn gydnaws â phwyslais Mathias Maurice. Fel enghraifft o drawsnewid posibl, wedi tymor o'i wahardd rhag cymuno, diweddglo llawen a gafwyd yn hanes *Meddwyn*. Wedi dangos prawf o'i edifeirwch trwy ddiwygio'i ymddygiad a rhoi heibio ei arfer gwael o ddiota, cafodd gymuno  drachefn.[289]

---

[284] Griffiths, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd*, t. 28.
[285] Baddy, *Pasc y Christion*, t. 42.
[286] Baddy, *Pasc y Christion*, t. 29.
[287] *CyA*, t. 239
[288] Lewis, *Memoir*, t. 52.
[289] Nicholas (gol.) Maurice, *Social Religion Exemplified*, tt. 229-57.

## 4. Eglwysi'r de-orllewin a materion gwladwriaethol

O ran digwyddiadau gwleidyddol y cyfnod a'r hinsawdd yn gymdeithasol, ymddengys mai blynyddoedd digon pryderus fu blynyddoedd olaf y ddeunawfed ganrif i'r Ymneilltuwyr yn Lloegr, ac yn arbennig yng Nghymru. Yn llythyr cymanfa'r Bala, 29 a 30 Mai 1793 datganwyd:

> Yr ydym yn byw mewn amseroedd enbyd; ac y mae llaweroedd yn eu hanwybodaeth, a'u sêl dros ddynol draddodiadau, yn cyhoeddi mai'r *Dissenters* sydd yn aflonyddu'r byd, a'u bod yn elynion i'r Brenin a'r Llywodraeth ... O frodyr, yr ydym yn attolwg arnoch, trwy eich ymddygiadau efangylaidd tu ag Dduw a dynion, i ddangos i bawb nad yw y grefydd y'm ni'n broffesu yn niweidiol i wlad nac i Eglwys, i Frenin na Deiliaid. Hyd y mae ynoch, dilynwch heddwch â phawb, gan ystyried mai deiliaid Crist ydych, yr hwn a elwir Tywysog heddwch.[290]

I Ymneilltuwyr selog mae agwedd ymostyngol o'r fath i'r llywodraeth ac i Eglwys Loegr ar ran yr Annibynwyr yn ymddangos yn anghyson â'r traddodiad radicalaidd. Gwêl rhai haneswyr safbwynt ymostyngol o'r fath yn wendid nad oedd yn gyson â pharodrwydd y tadau Piwritanaidd i herio awdurdodau a gweithredu'n wleidyddol fentrus:

> Byth er dyddiau John Calfin ei hun yng Ngenefa bu'r athrawiaeth Galfinaidd yn ideoleg greadigol ei dylanwad ar wleidyddiaeth a bywyd cymdeithasol. Mewn hanner dwsin o wledydd bu'n rhagredegydd chwyldroadau a'u tuedd i brysuro'r symudiad i gyfer democratiaeth lawnach. At ei gilydd, ar ochr chwyldro y bu Calfiniaeth yn hanes gwledydd y Gorllewin.[291]

Ymddengys bod yr Ymneilltuwyr yn barod iawn i ymostwng i'r brenin ac i lywodraeth y dydd ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, ond ni ddylid darllen argyhoeddiadau a beirniadaeth cyfnodau gwahanol i mewn i sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol y cyfnod. Rhaid gweld datganiad llythyr cymanfa'r Bala yng nghyd-destun y cyfnod, a cheir eglurhad am y datganiad wedi ei gynnwys, yn ddiweddarach mae'n wir, i'r llythyr a gyhoeddwyd ac a ddosbarthwyd.[292] Eglurwyd mai yn 1781 y daeth y rhyfel rhwng Prydain ag America i ben gyda'r Americaniad yn ennill eu hannibyniaeth yn 1783. Wedi hynny bu llywodraeth Prydain yn amhoblogaidd iawn yn y wlad, ac ymhen ychydig torrodd y Chwyldro Ffrengig allan yn 1789 pryd y dymchwelwyd llywodraeth Ffrainc gan weriniaethwyr. Gwelwyd hyn gan lawer yn fygythiad i sefydlogrwydd a diogelwch y gwledydd cylchynol i Ffrainc.[293] Ar y chwith yn wleidyddol roedd cydymdeimlad ag achos y gweriniaethwyr. 'Amlygodd plaid gref, a elwid yr *ultra-Whigs*, yn cael eu harwain gan Fox, gydymdeimlad mawr â'r gwerinwyr a'u hegwyddorion gwladol, ac edrychent gyda boddhad ar lwyddiant gweriniaeth Ffrainc'.[294] Roedd hyn yn gwbl groes i farn Toriaid yn y wlad a oedd yn wrthwynebus iawn i'r Chwyldro. A chan fod si ar led

---

290 *CyA*, t. 38.
291 *HAC*, t. 164.
292 *CyA*, tt. 40-1.
293 Am yr ymateb yng Nghymru gw. Marion Löffler, *Welsh Responses to the French Revolution: Press and Public Discourse 1789–1802* (Cardiff: University of Wales Press, 2012), 'Introduction', tt. 1-71; cf. Hywel M. Davies, 'Loyalism in Wales, 1792-3', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 20/4 (2001), 687-716; cyfeirir at lythyr cymanfa'r Bala a'i arwyddocâd ar tt. 707-8.
294 *CyA*, t. 40.

fod yr Ymneilltuwyr yn gefnogol i blaid Fox, 'defnyddiodd y Toriaid Eglwysaidd a holl elynion Ymneillduaeth y chwedl er niweidio yr Ymneilltuwyr, trwy osod allan mai gwerinwyr oeddynt oll o egwyddor.'[295] Cyhuddid yr Ymneilltuwyr o gefnogi gwrthryfel y Gwyddelod yn erbyn y llywodraeth, ac o fod yn Jacobiniaid: 'Gwaethygodd hyn gymeriad yr Ymneillduwyr yn fawr yn ngolwg y blaid Eglwysaidd, ac edrychai yr olaf ar y blaenaf gyda llygad drwgdybus, a chyda theimlad parod i ddial pe caent ddigon o esgus i hynny'.[296] Ond roedd ffactorau eraill i gyfrif am y datganiad wnaed yng nghymanfa'r Bala. Byth oddi ar yr Adferiad yn yr ail ganrif ar bymtheg, wynebodd yr Ymneilltuwyr ar amseroedd blin iawn yn eu hanes. Wynebent flynyddoedd o erlid chwerw, gyda'r llywodraeth a'r Eglwys yn dial ar weithredu eithafol y radicaliaid Piwritanaidd a geisiodd ddisodli grym Eglwys Loegr wedi'r Rhyfel Cartref a blynyddoedd y Werinlywodraeth pan weithredodd Oliver Cromwell fel yr Arglwydd Amddiffynnwr. Ganrif a rhagor yn ddiweddarach nid oedd Eglwyswyr selog wedi anghofio am weithred ysgeler y radicaliad Piwritanaidd yn dienyddio Brenin Lloegr, Siarl I, yn 1649 ac fel y diswyddwyd bron i drichant o offeiriad Eglwys Loegr a farnwyd yn anghymwys a hynny yng nghysgod pasio a gweithredu gofynion Deddf y Taenu (1650).[297] Esgorodd y diswyddo gan gomisiynwyr y ddeddf ar ansefydlogrwydd ym mywyd cymaint o blwyfi:

> Due to lack of numbers, it was much more expedient for the commissioners to send out itinerant preachers than settled ministers, the result being that parish churches were closed often for months on end while congregations made do with occasional visits from roving evangelists.[298]
>
> One of the great criticisms levelled at the radical Welsh Puritans was their immoderate zeal to uproot the parish-based ministry and replace it with an itinerant system of unlettered preachers.[299]

Wedi'r Adferiad bu'r llywodraeth a'r sefydliad eglwysig yn dial ar yr Ymneilltuwyr am geisio disodli'r drefn gymdeithasol, a'u herlid a'u cosbi'n llym, ac er i Ddeddf Goddefiad 1689 ganiatáu i'r Ymneilltuwyr fesur o ryddid i addoli yn ôl eu cydwybod, nid oedd y cof am annrhefn y 1650au byth ymhell o dan yr wyneb. Drwgdybid yr Ymneilltuwyr yn ddirfawr o hyd. Wedi dyddiau William Erbury, Vavasor Powell a Walter Cradoc, bu eu holynwyr ymhlith yr Ymneilltuwyr yng Nghymru yn fwy cymedrol, gwellodd y berthynas rhyngddynt ag awdurdodau Eglwys Loegr, ac ar wahân i olygiadau ar drefn a natur eglwys, rhannent yn fynych ddiwinyddiaeth gyffredin gan fod yn fwy parod drachefn i gydweithio â rhaglenni i feithrin y bywyd ysbrydol trwy gyhoeddi Beiblau a llyfrau defosiynol, ac i hyrwyddo cynlluniau addysgol. Bu cydweithio ym mherthynas gweinidogion ac offeiriad yn ystod blynyddoedd y Diwygiad Efengylaidd ac erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, roedd yr Ymneilltuwyr yn sicr am bellháu oddi wrth unrhyw ensyniad o fod yn wrthryfelwyr a oedd am weld dymchwel y drefn wleidyddol yn y wlad, a hefyd oddi wrth cyhuddiad o deyrnfradwriaeth

---

295 *CyA*, t. 40.
296 *CyA*, t. 40.
297 Am ddatblygiad Ymneilltuaeth Gymreig yn dilyn hyn, gw. Eryn M. White, 'From ejectment to toleration in Wales, 1662-89' yn Alan P. F. Sell (gol.), *The Great Ejectment of 1662* (Eugene, Oregon: Pickwick Publications, 2012), tt. 125-82.
298 Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, t. 127.
299 Morgan, *Theologia Cambrensis:1, From Reformation to Revival*, t. 90.

megis y dienyddio a gafwyd yn Ffrainc ar ddechrau y Chwyldro Ffrengig. Yn sicr, nid oeddent am barhau i gael eu gweld fel rhai a fyddai wedi annog dienyddiad Siarl I, na chwaith am weld drachefn gyfnod o erledigaeth blin yn eu hanes, fel a ddigwyddodd rhwng 1662 a 1689.

Ond y gwir amdani oedd bod rhai Eglwyswyr, Uchel Eglwyswyr selog, ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn elyniaethus tuag at Ymneilltuwyr gan fod yn euog o'u camdrin a'u herlid. Rhaid cofio mai dim ond mesur o ryddid crefyddol trwy Ddeddf Goddefiad 1689 gafodd yr Ymneilltuwr:

> Er bod caniatâd i'r Presbyteriaid, y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Crynwyr gydaddoli, ni chaniatawyd iddynt ddal swyddi'r wlad, oni fyddent yn barod i gymuno yn Eglwys Loegr. Gorfodwyd hwy hefyd i dalu'r degwm a threthi'r Eglwys. Ac ni chaent fyned i'r Prifysgolion, na hawl i briodi, heb barodrwydd ar eu rhan i dderbyn gwasanaeth priodas Eglwys Loegr.[300]

A chyda'u hamddifadu o freintiau dinasyddiaeth lawn gweithredwyd tuag atynt yn faleisus a llawn casineb.[301] Cofiai David Peter pan yn fachgen ysgol yn Aberystwyth am bregethwr Ymneilltuol wrth bregethu yn yr awyr agored yn cael ei bledu â phridd.[302] A dwysau wnaeth yr erlid ar yr Ymneilltuwyr o ganlyniad i'r sefyllfa wleidyddol yn Ffrainc:

> Bu'r Chwyldro Ffrengig yn gyfrwng i galedu calon awdurdodau Prydain, ac aeth yr erlid yn fwy trahaus a'r dioddef yn fwy blin. Cynffonwyr y llywodraeth oedd yr uchelwyr a'r offeiriaid - teulu y wenwisg - ac o'u hachos hwy llethwyd rhyddid, a chynhyrfwyd gwerin anwybodus i gyflawni gweithredoedd ysgeler ar eiddo a chymeriad dynion rhyddfrydig eu hysbryd.[303]

Roedd rhai Ymneilltuwyr yng Nghymru, gweinidogion ar yr adain chwith yn ddiwinyddol, yn bennaf ymhlith yr Arminiaid radicalaidd, na chelai'r ffaith eu bod yn gefnogol i'r Chwyldro Ffrengig, a'u bod yn frwd o blaid ei egwyddorion gyda'i arwyddeiriau 'rhyddid, cydraddoldeb a brawdgarwch'.[304] Ofnai'r llywodraeth y byddai'r chwyldro yno yn ymledu, yn cydio ym Mhrydain, ac yn bygwth sefydlogrwydd y wlad, ac o ganlyniad bu'r awdurdodau'n 'benderfynol o ddifa pob arwydd o wrthwynebiad i'r wladwriaeth a'i holl sefydliadau, ac aethpwyd ati i ddiffodd pob flach o anfodlonrwydd â'r drefn sefydledig'.[305] Roedd trwch yr Ymneilltuwyr Cymraeg ar y cyfan o blaid y drefn wleidyddol ym Mhrydain ac yn gefnogol i'r *status quo*. Ond, mae'n rhaid bod y wlad yn ddrwgdybus o'r Ymneilltuwyr, a'u bod hwythau yn ofnus am eu sefyllfa a sefyllfa'r wlad, oherwydd ar 25 Awst 1803 yn ganlynol i rybudd cyhoeddus, ac er mwyn pledio eu teyrgarwch i'r Goron, cyfarfu'r Presbyteriaid, yr Annibynwyr

---

[300] Dewi Eirug Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1975), t. 105.
[301] Gw. *HAC*, tt. 165-7 am enghreifftiau o ymosodiadau ar yr Ymneilltuwyr yn y cyfnod.
[302] Lewis, *Memoir*, t. 2.
[303] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 108.
[304] Löffler, *Welsh Responses to the French Revolution: Press and Public Discourse 1789–1802*, tt. 40-1, 43-5.
[305] John Gwynfor Jones, ' "Pontio Dwy Genhedlaeth": Methodistiaeth Galfinaidd Cymru *c*. 1791-1820' yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3, Y Twf a'r Cadarnhau, c.1811-1914* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011), t. 13.

a’r Bedyddwyr yng Nghapel Heol Awst i drafod sefyllfa y rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc. Peter oedd yn cadeirio ac yn annerch. Yn ôl hanesydd Heol Awst,

> traddododd anerchiad rhyfedd, ar lawer ystyr. Canmolodd deulu Hanover i’r cymylau ... ‘Ni ymladdodd neb pobl yn fwy gwrol dros eu gwlad, na’n hynafiaid. Profwn ein bod ni yn deilwng o fod yn feibion iddynt: ac na chaffed hanes y wlad hon byth goffau, fod diffyg gwroldeb yn hiliogaeth yr hen Frutaniaid - yn nydd y frwydr’.[306]

Roedd yr anerchiad a’r penderfyniadau a wnaed yn adlewyrchu teimladau gwladgarol yr Ymneilltuwyr ar ddechrau’r rhyfel rhwng Prydain a Ffrainc. A chariodd y penderfyniadau isod yn unfrydol:

> Cyttunwyd o unfryd: ‘Ei bod yn ddyledswydd arnom ar yr amser pwysfawr hwn, pan mae ein bod fel cenedl rydd ac annibynol mewn perygl, i gyhoeddi yn y modd mwyaf amlwg, Ein bod yn ddiysgog yn ein hymlyniad wrth y Brenin presennol, a dilyniad olynol y goron yn ei deulu ef, fel ag y sefydlwyd trwy’r gyfraith. Fod gennym y parch a’r anrhydedd mwyaf i’r dull rhagorol hynny o lywodraeth, trwy Frenin, Arglwyddi, a Chyffredin, ac sydd wedi cael eu sefydlu er ys amser dros ben côf yn y wlad hon. Ein bod yn ffieiddio pob ymddygiad terfysglyd ag f’o yn tueddu i ddymchwelyd ein llywodraeth ragorol hon, a’n difuddio o’r gwerthfawr fendithion gwladol, a rhagorfreintiau crefyddol ag ydym yn fwynhau o tano. Y bydd i ni ymdrechu, hyd eithaf ein gallu, i helaethu parch i’r cyfreithiau, a heddwch a threfn dda mewn cymdeithas. Fel ag yr ydym eisioes wedi annog aelodau ein cyn’lleidfaoedd neillduol, i gofrestru eu hunain yn Wirfoddwyr, er amddiffyniad y wlad; y bydd i ni barhau ein hymdrechion eithaf i wrthwynebu pob ymosodiad a ddichon gelyn ëon wneuthur ar ein gwlad; a sefyll yn gadarn er amddiffyniad ein Brenin, ein rhydd-did, a’n crefydd. Y bydd i ni yn ein hamrywiol leoedd trigianol, gyd â ein cyn’lleidfaoedd, gyfarfod mor fynych ag y b’o yn gyfleus, i’r diben i ymostwng gerbron Duw am ein pechodau personol a gwladol, ac i ymbil ei bardwn a’i ymddiffyniad; ac iddo weled bod yn dda barhau yn y wlad hon hyd y genhedlaeth ddiwethaf, y breintiau gwerthfawr ag y’m ni yn fwynhau’. Cyttunwyd i’r Bwriadau uchod gael eu nhodi gan y Cadeirwr, yn enw yr holl Weinidogion presennol, a’u danfon i’w gosod yn yr Argraphiadau cyhoeddus; ac i fod Cyfarchiad neu Araith y Cadeirwr, ar agoriad y Cyfarfod, i gael ei chyhoeddi.
>
> DAVID PETER, Cadeirwr.[307]

O gofio bod David Peter ar y pryd yn brifathro Academi Caerfyrddin, sefydliad a oedd yn nodedig am ei eangfrydedd a’i ryddfrydigrwydd, mae naws ymgreiniol y penderfyniad yn ein taro’n syn. Wedi’r cyfan, ‘bu’r academïau Ymneilltuol yn fagwrfa i’r syniadau radical, chwyldroadol ac yn gyfrwng i greu ysbryd o anesmwythyd, yn grefyddol a gwleidyddol’.[308] Ond rhaid cofio’r gofid gwirioneddol a’r cyd-destun hanesyddol ar y pryd. Gyda’r cyflyru a oedd yn digwydd yn y wlad o gyfeiriad yr awdurdod gwladol, a’r alwad i wrthsefyll pob bygythiad i’w sefydlogrwydd, roedd perygl gwirioneddol y byddai rhai yn gweld hynny fel cyfle i ymosod ac i ddial ar Ymneilltuwyr. Bu ymosodiad ffyrnig o du yr Eglwys a’r Goron ar

---

[306] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, tt. 44-5.
[307] *CyA*, tt. 120-1.
[308] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 105.

Ymneilltuwyr Sir Benfro yng nghysgod ymosodiad y Ffrancwyr yn Abergwaun yn Chwefror 1797.[309] Roedd teimladau gwrth-Ymneilltuol mae'n amlwg yn parhau yn gryf yn y tir, a'r atgof am wrthryfel torri pen y brenin wedi ei hail gynnau. Yn 1803 roedd yr Ymneilltuwyr am ddangos yn eglur eu bod am bellháu oddi wrth unrhyw gyhuddiad eu bod yn annheyrngar i'r llywodraeth gyfredol, a'u bod am warchod heddwch y wlad.

Bwriadau digon anghonfensiynnol i'r hyn a dybiwyd oedd yn ysbryd a thraddodiad yr Annibynwyr oedd penderfyniadau cymanfa'r Bala 1793 a chyfarfod Caerfyrddin 1803, ac os 'rhywbeth tros dro oedd y dawelyddiaeth annaturiol hon', yn ôl R. Tudur Jones, er hynny byddai naws y diwygiadau a'r Diwygiad Efengylaidd 'yn ail-gynhesu'r Annibynwyr i gydio o'r newydd yn eu hen draddodiad gwleidyddol'.[310] Yn sicr ni ellir cyhuddo'r Annibynwyr o arddel y dawelyddiaeth dra ymgreiniol hon i'r un graddau â'r Methodistiaid Calfinaidd. A hwythau yn ddeiliaid yr Eglwys Sefydledig (tan 1811, beth bynnag), roedd y Methodistiaid yn nodedig am fod yn geidwadwyr na fynnent ymhél â gwleidyddiaeth fel y cyfryw, ac yn datgan yn rheolaidd eu bod yn deyrngar i'r Goron ac i'r wladwriaeth.[311] Gwelwyd ethos yr Annibynwyr i ymhél â gwleidyddiaeth ac ymyrryd mewn penderfyniadau gwleidyddol yn eu brwydriadau dros ennill mwy o ryddid a hawliau sifil i'r Ymneilltuwur yn y cyfnod. Gyda'r fuddugoliaeth a enillwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi yn 1811 pan daflwyd allan fesur gan yr Arglwydd Sidmouth a geisiai gwtogi ar hawliau'r Deddf Goddefiad trwy gyfyngu ar hawliau pregethwyr teithiol, arfogwyd yr Ymneilltuwyr trwy'r wlad i frwydro tros hawliau teg yn grefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol. Yng nghymanfa Glandŵr, Sir Benfro, Mehefin 5 a 6 1811,

> cytunwyd i gadw yn yr eglwysi, y 3 o Orphenaf, yn ddydd o ddiolchgarwch, am ymddangosiad diweddar Rhagluniaeth, o blaid ein rhyddid, fel Ymneilltuwyr Protestanaidd, a bod casgliadau i gael eu gwneuthur yn ein hamryw gynulleidfaoedd tuag at y draul sydd wedi myned ar ein cyfeillion yn Llundain, yn ymddiffyniad yr achos cyffredinol.[312]

Fodd bynnag, yn ôl un hanesydd Annibynnol:

> Eithr, nid oedd yr Ymneillduwyr yn rhoddi eu hunain i fyny i gysgu ar ol ennill y fath fuddugoliaeth ardderchog, canys rhoddasai hyn galondid iddynt i weithredu yn mhellach i gyfarfod âg amgylchiadau allent godi yn y dyfodol. Y dydd ar ol gwrthod ail ddarlleniad ysgrif *Arglwydd Sidmouth*, anfonasant gylch-lythyr at y gweinidogion yn y wlad, i'w hysbysu o'r modd y bu, ac i'w hysbysu o sefydliad cymdeithas i amddiffyn iawnderau yr Ymneillwyr Protestanaidd o bob enwad. Appelient hefyd am

[309] gw. Löffler, *Welsh Responses to the French Revolution: Press and Public Discourse 1789–1802*, tt. 16-18; cf [William Richards] *Cwyn y Cystuddiedig, a griddfan y carcharogion di-euog, neu ychydig o hanes dioddefiadau diweddar Thomas John a Samuel Griffiths* (Caerfyrddin: Ioan Evans, 1798), ynghyd â'r rhagymadrodd yng ngolygiad Marion Löffler a Bethan Jenkins, *Wales and the French Revolution: Political Pamphlets and Sermons from Wales, 1790-1806* (Cardiff: University of Wales Press, 2014), tt. 234-93.
[310] *HAC*, t. 168.
[311] Gw. J. G. Jones, ' "Pontio Dwy Genhedlaeth": Methodistiaeth Galfinaidd Cymru *c*. 1791-1820', tt. 13-26.
[312] *CyA*, tt. 191-2.

gymhorth arianol gyferbyn â'r treuliau oedd wedi myned allan, yn gystal ag i gyfarfod â threuliau dyfodol y Gymdeithas newydd.[313]

Yng Nghymru a Lloegr ar y pryd roedd eglwysi Y Graig Tre-lech a Heol Awst trwy law eu gweinidogion ymhlith y rhai a gyfrannodd at yr achos.[314] Yng Ngorffennaf 1812 pasiwyd *An Act to repeal certain Acts, and amend other Acts relating to Religious Worship and Assemblies* yn diwygio ar rai o gyfyngiadau deddfau'r Prawf a'r Corfforaethau.[315] Yng Nghymanfa Pen-y-graig, Caerfyrddin, Mehefin 4 a 5 1834, apeliwyd drachefn ar i'r eglwysi gyfrannu'n ariannol tuag at yr United Committee yn Llundain a oedd yn gweithredu ar ran yr Ymneilltuwyr i ddiwygio y cyfriethiau a oedd yn ffafrio Eglwys Loegr ac yn amddifadu Ymneilltuwyr o'u hawliau.[316] Roedd y cyfeillion yn Llundain yn ymgyrchu i gael rhyddid i briodi yn y capeli, yn protestio oherwydd y golled am na châi Ymneilltuwyr fynediad i golegau Caergrawnt a Rhydychen, ac am na dderbynid tystiolaeth cofrestrau bedydd y capeli fel prawf dilys o enwau ac oedran eu plant megis y derbyniwyd cofrestrau Eglwys Loegr, a hefyd yn annerch yr annhegwch bod aelodau y capeli yn gorfod talu'r dreth eglwys.

A chyda'r cynnydd yn eu rhengoedd, roedd yr Annibynwyr a'r Ymneilltuwyr yn gyffredinol, trwy gydweithio mewn ymdrechion cyfundrefnol yng Nghymru a Lloegr, yn prysur ddod yn rym crefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol a fyddai'n llwyddo i ddileu llawer o'r anghyfiawnderau a ddioddefwyd oddi ar law Eglwys Loegr a'r sefydliad gwladol gyhyd. Wrth grisialu bendithion y Diwygiad Efengylaidd yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid rhyfedd fod R. Tudur Jones wedi disgrifio'r datblygiadau hyn fel 'chwyldro mawr yn hanes crefydd yng Nghymru'.[317] Wrth gydweithio ar lefel eglwysig ymhlith yr Annibynwyr, ac yn rymusach yn gyd-enwadol, er mwyn ennill gwelliannau crefyddol a sifil, chwaraeodd David Peter a gweinidogion de-orllewin Cymru eu rhan yn y chwyldro hwnnw.

## 5. Crynhoi

Yn unol â'r datguddiad yn y Testament Newydd, fel y deallai'r Annibynwyr ef, trefn er hyrwyddo a gwarchod sofraniaeth y gynulleidfa leol oedd y gyfundrefn Annibynnol a chredent fod gan yr eglwys leol ryddid i drefnu ei bywyd mewnol, dan arglwyddiaeth Crist, heb unrhyw ymyrraeth o'r tu allan. Yn gyson ag egwyddor greiddiol Protestaniaeth, cydnabu'r Annibynwyr yr Ysgrythurau fel eu prif awdurdod ym materion ffydd ac ymarweddiad, a chan fod yn atebol i Grist, pen yr Eglwys, ceisient ymostwng i'w harweiniad. Dengys cyfrol Mathias Maurice *Crefydd Gymdeithasol* gymaint oedd eu hymgais i wneud popeth yn ôl cyfarwyddiadau manylaf y Testament Newydd. Cadwodd y gyfrol ei phoblogrwydd ar hyd y ddeunawfed ac i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ddylanwadu'n helaeth ar natur a threfniadaeth yr eglwysi Annibynnol, yn arbennig mewn perthynas â phatrwm gweinidogaeth a threfniadau

[313] *CyA*, t. 204.
[314] *CyA*, tt. 204-5.
[315] gw. R. Tudur Jones, *Congregationalism in England 1662-1962* (London: Independent Press, 1962), t. 186.
[316] *CyA*, tt. 473-4.
[317] *HAC*, t. 169.

hyfforddi a bugeilio'r aelodau. Er gwaethaf y pwyslais mawr ar sofraniaeth y gynulleidfa leol, nid cymdeithasau ynysig oedd yr eglwysi am iddynt fynnu arddel ei gilydd, ymelwa ar ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd fel cyd-aelodau o Gorff Crist. Digwyddodd hyn yn bennaf ar y dechrau trwy weithgarwch y cyfarfodydd gweinidogion lle deuid ynghyd i bregethu a chydgynghori, a wedi hynny mewn cymanfaoedd taleithiol ac yn ddiweddarach trwy'r cyfundebau sirol. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg esgorodd hyn ar y patrwm sefydlog a gynhwysai'r cyfarfodydd chwarterol yn ogystal. Cyfrannodd yr Ysgolion Sul yn fawr at adeiladau tystiolaeth yr eglwysi. Aed â'r cydweithio hyn ymhellach, ac erbyn 1872 sefydlwyd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Ond a hwythau'n rhannu'r un ffydd a threfn (ac fel y dengys y bennod hon), cafwyd parodrwydd mawr ymhell cyn hynny i gydweithio er lles achos yr efengyl. Yn ogystal â hynny, pan oedd egwyddorion gwladwriaethol yn y fantol, byddent yn cydymdrechu ag Ymneilltuwyr o draddodiadau enwadol eraill. Chwaraeodd yr Annibynwyr eu rhan gyflawn yn yr undeb hwnnw a ddaeth i nodweddu'r 'Gymru Ymneilltuol' maes o law.

## Pennod 8

## Annibynwyr y de-orllewin ac Academi Caerfyrddin

### 1. Penodiad David Peter a blynyddoedd cynnar ei lywyddiaeth

Byth oddi ar dymor llywyddiaeth Thomas Perrot rhwng 1719-33, wynebodd Academi Caerfyrddin gyfnodau digon helbulus ac ansefydlog.[1] Roedd hyn oherwydd ymrafaelion diwinyddol y cyfnod, yr ymgiprys rhwng gweinidogion ac athrawon a oedd yn cofleidio safbwyntiau diwinyddol gwahanol, y berthynas (anhapus yn aml) rhwng y ddau Fwrdd a fu'n noddi'r sefydliad sef y Bwrdd Presbyteraidd a'r Bwrdd Cynulleidfaol, ac oherwydd ymddygiad anystywallt llawer o'r myfyrwyr ac analluedd rhai o'r athrawon i'w rheoli. Oherwydd y trafferthion hyn bu'r Academi ar grwydr droeon, ond, wedi iddi fod yn Abertawe rhwng 1784 a 1795, fe'i hail-leolwyd yng Nghaerfyrddin drachefn, gan benodi David Peter yn llywydd. Gyda hynny dychwelodd mesur helaeth o sefydlogrwydd iddi. Yn wir, yng Nghaerfyrddin y bu hi wedyn tan iddi ymuno â'r Coleg Coffa, Abertawe, yn 1963.[2]

Roedd David Peter, fel y gwelwyd eisoes, wedi bod yn fyfyriwr yn yr Academi, ac wedi marwolaeth yr is-athro Thomas Lloyd yn 1789, cafodd ei benodi yn diwtor-fyfyriwr, gyda chyfrifoldeb arbennig i ddysgu'r Clasuron a Mathemateg: 'Mr Peter, one of the Senior students at the Academy Swansea be appointed Assistant Tutor at the academy till next Christmas'.[3] Achosodd ei benodiad anghydfod a bu rhaid diarddel tri myfyriwr am dynnu'n groes i benderfyniad y Bwrdd: 'At the motion of Mr Jennings, resolved unanimously that Messeurs Phillip Davies, William Edwards and William Evans, who refuse to attend the lectures of David Peter ... be expelled from the Academy'.[4] Cafodd dau ohonynt eu derbyn yn ôl yn ddiweddarach. Dymuniad y Bwrdd yn Rhagfyr 1789 oedd i Peter, tra'n parhau â'i astudiaethau, weithredu fel tiwtor-cynorthwyol tan yr haf dilynol.[5] Yn ôl adroddiad y llywydd, William Howell, ar 3 Mai 1790 roedd naw o fyfyrwyr yn cynnwys Peter ar lyfrau'r Academi. Mae'n amlwg fod gwaith Peter fel tiwtor-cynorthwyol yn plesio oherwydd, erbyn yr haf, penodwyd i gytundeb parhaol ar gyflog o £40 y flwyddyn ynghyd â'i ddigolledu am £20 am ei wasanaeth yn ystod y flwyddyn gynt.[6] Yn Rhagfyr 1791 derbyniodd Peter alwad i fod yn weinidog eglwys Heol Awst, ac wedi gwasanaethu yn yr Academi am chwe mis pellach, cafodd ei ryddhau o'i gyfrifoldebau y Sulgwyn dilynol. Fe'i hordeiniwyd ar 8 Mehefin 1792.

Â Peter bellach wedi ymadael er mwyn ymroi'n llawn i'w faes newydd yn Heol Awst, penodwyd John Jones, myfyriwr yng Ngholeg Hackney, fel athro-cynorthwyol yn ei le, ond

---

[1] Am yr academi gw. Geraint Dyfnallt Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), tt. 15-74. Dewi Eirug Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1976), a Noel Gibbard, 'Carmarthen Academy, c. 1743-84', yn https://www.qmul.ac.uk/sed/religionandliterature/dissenting-academies/dissenting-academies-online/

[2] Gw. Noel Gibbard ac Isabel Rivers, 'Carmarthen Academy, later Presbyterian College, Carmarthen (1795-1963)', yn https://www.qmul.ac.uk/sed/religionandliterature/dissenting-academies/dissenting-academies-online/

[3] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd 5 Hydref 1789; W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green, and Longmans, 1846), t. 10.

[4] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Hydref 1789.

[5] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Rhagfyr 1789.

[6] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Mehefin 1790.

buan y sylweddolwyd na allai ef a William Howell, y llywydd, gydymddwyn, ac fe'i hymddiswyddwyd. Gymaint oedd yr anghydfod nes i'r Bwrdd Presbyteraidd yng ngwanwyn 1795 benderfynu cau'r sefydliad yn y gobaith o'i ail-agor maes o law. Erbyn yr hydref roedd trafodaethau brwd dros weld yr Academi yn ail-agor pe llwyddid i ddod o hyd i ddau diwtor cymwys. Gwelwyd manteision sicr dros leoli yr Academi yng Nghaerfyrddin drachefn:

> Carmarthen is more central than Swansea. It is more immediately connected with those parts of country whence students have been usually obtained; where their friends might supply them with the means of subsistence; and where they might officiate, when they began to preach, without interfering with their academical studies. Lodgings and board are ... cheaper at Carmarthen than at Swansea. ... Carmarthen is the place to which the Ministers in Wales are unanimously attached; where they hold their Annual Assembly, and with which they have more easy and frequent intercourse than they have with Swansea. Carmarthen ... offering fewer temptations ... thought more eligible than Swansea.[7]

Ac wrth gwrs, rheswm arall dros adleoli i Gaerfyrddin oedd presenoldeb David Peter yn y dref:

> They found upon inquiry that he is much accepted both in the town and neighbouring country; that he made considerable additions to the congregation; and that by being in the habit of keeping School he is fit for undertaking the instruction of students in the Academy.[8]

Wedi cynnal trafodaethau gyda Peter, deallwyd y byddai yn fwy na pharod i ymgymryd â'r gwaith ar y cyd â'i weinidogaeth yn Heol Awst. Cafwyd bod David Davies, gweinidog Annibynnol Llan-y-bri, yn fodlon ymgymryd â bod yn athro-cynorthwyol. O gofio'r helyntion gynt, mae'n anodd deall sut y credent y byddai llai o demtasiynnau i hudo'r myfyrwyr yng Nhaerfyrddin nag yn Abertawe. Ond roedd y symudiad yn ddadlennol ar fwy nag un cyfrif. Yn y gorffennol beirniadwyd penderfyniadau'r Bwrdd am hawliau'r Gymraeg. Sais o Sir Amwythig oedd Robert Gentleman, y llywydd rhwng 1779-84 tra bu'r Academi yn Rhyd-y-gors. Wedi marwolaeth ddisymwth Solomon Harries, a fu'n llywydd am gwta flwyddyn yn Abertawe rhwng 1784-85, ymdrechodd y Bwrdd i ddod o hyd i lywydd academaidd cymwys a Chymraeg ei iaith o blith y gweinidogion, ond heb lwyddo:

> That your committee after having failed in their endeavour to procure a Welsh minister to superintend your Academy in Wales are of the opinion you should have recourse to your former plan of having an English presiding Tutor with a Welsh minister for his assistant.[9]

Canlyniad hyn oedd penodi William Howell, brodor o Wlad yr Haf a gweinidog Ariaidd Abertawe, yn llywydd a Thomas Lloyd, myfyriwr yn yr academi ar y pryd, yn is-athro. Ond yn 1795, pan aed ati i ailsefydlu yng Nghaerfyrddin, penodwyd Cymry Cymraeg i'r ddwy swydd. Dywedwyd am Peter a Davies:

---

[7] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Hydref 1795.
[8] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Hydref 1795.
[9] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Mawrth 1786.

> They are both young men of good attributes, they understood the Welsh language and were capable of officiating in it, which the committee thought on various accounts a circumstance of considerable moment. They are acceptable and useful preachers, and they are universally esteemed and respected in their country.[10]

Roedd y parodrwydd hwn i gydnabod gwerth y Gymraeg yn fodd i ennill mwy o gefnogaeth iddi yn ystod llywyddiaeth David Peter. Awydd y Bwrdd, felly, oedd 'to re-establish the Welsh Academy in such a place and under such a tutor as shall be most likely to make the Institution respectable and useful'.[11] Peth arall sydd yn annisgwyl o gofio am draddodiad rhyddfrydig yr Academi oedd bod y ddau athro newydd yn Galfiniaid o ran cred, ond fel yr ysgrifennodd R. T. Jenkins, 'the Presbyterian Board, to do it justice, had never been intolerant, and now raised no objection to Peter's presiding over an institution of decidedly unothodox traditions'.[12] Yn ddiddorol iawn, amheuai Jenkins bod llywydd y Bwrdd Presbyteraidd sef y Dr Abraham Rees (Ariad o ran ei olygiadau er yn fab i'r hen Galfin diledryw Lewis Rees), yn hwyrfrydig i weld Undodwr proffesedig yn cael ei benodi'n llywydd ac mai gwell ganddo weld Calfin cymedrol wrth y llyw:

> Steady going old-school Arians on the Board, such as Dr Abraham Rees, F.R.S., the encyclopaedist, were alarmed at the progress of the new Unitarianism of Lindsey and Priestley, which to them seemed as bad an example of 'enthusiasm' as Methodism itself. Perhaps, indeed, David Peter and his colleague owed their appointment to a feeling that a 'dry' infra-Calvinism and a 'sober' Arianism had more in common with each other than with their respective militant wings.[13]

Felly, yn wahanol i benodiadau'r blynyddoedd blaenorol, torrwyd tir newydd wrth gynnig swydd y llywydd i ddiwinydd uniongred. A dim tan 1835, pan benodwyd David Lloyd yn olynydd i Peter, yr ailgydiodd y Bwrdd Presbyteraidd yn y drefn o gael Ariad (neu erbyn hynny yn Undodwr trwyadl) yn bennaeth arni, 'ac ar wahân i un eithriad, parhaodd yr arferiad yn ddi-dor ar hyd y blynyddoedd'.[14] Rhaid cofio hefyd mai eglwysi Calfinaidd a brofodd o'r ymchwydd cenhadol rhyfeddol a nodweddodd y blynyddoedd hyn, tra bo'r eglwysi Arminaidd, Ariaidd ac anuniongred wedi aros yn eu hunfan ac efallai bod a wnelo hynny rywfaint â'r penodiadau. Er yn uniongred ei farn, nid oedd Peter erioed wedi cynhesu at enthiwsiastiaeth o unrhyw fath.

Agorwyd yr Academi yng Nghaerfyrddin ar 7 a 8 Chwefror 1796, ac yn ei anerchiad rhannodd y llywydd newydd ei weledigaeth ynghylch yr hyn a oedd yn angenrheidiol i wneud gweinidog da.[15] Pwysleisiodd yr angen i weinidog fod wedi ymdeimlo â galwad arbennig ('a peculiar calling') i'r gwaith. Dylai weld eu hun fel llysgennad i Dduw ac yn ymwybodol o bwysigrwydd yr hyn a ymddiriedwyd iddo sef tynged eneidiau tragwyddol,

---

[10] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Hydref 1795.
[11] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 4 Mai 1795.
[12] R.T. Jenkins, 'Nonconformity after 1715', yn J.E.Lloyd (ed.), *A History of Carmarthenshire*, Vol. 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt. 195-263 [241].
[13] Jenkins, 'Nonconformity after 1715', t. 241.
[14] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 83.
[15] Lewis, *Memoir*, tt. 59-74.

> those most noble and divine substances, which have proceeded from God, and which are capable of being united to him forever. But which are, at the same time, in danger of being ever separated from him.[16]

Ennill eneidiau i Grist, goruchwylio eglwys Dduw a phorthi ei haelodau ydyw pennaf waith gweinidog, ac wrth gyflawni'r gwaith byddai'n rhaid brwydro yn erbyn llu o rwystredigaethau. Nid gwaith hawdd mohono. Mewn byd gwrthnysig yn gorwedd dan gondemniad y farn, byddai angen dawn i berswadio gwrandawyr o'u perygl a'u deffro i weld y gwirionedd:

> If the watchmen be not faithful, and give not a timely warning, the sword will readily come, and the people be taken away in their sins; and if the negligence of a minister doth hazard the souls of others, it must certainly ruin his own.[17]

Rhybuddiodd Peter ei fyfyrwyr fod cymaint yn dibynnu arnynt, ac i gyflawni'r gwaith manylodd am y cymwysterau angenrheidiol yn nhermau 'parts, piety, and learning'.[18] Yn gyntaf, roedd angen i weinidog feddu ar alluoedd meddyliol cryf gan fedru dirnad ffeithiau yn gyflym ac ynghyd â hynny ddychymyg bywiog: 'A lively, strong imagination, and a sensibility of heart which will make him enter into all the sentiments he utters'.[19]

> Before a man can be a distinguished preacher, he must be a logician in clearly distinguishing things; a philosopher in wisdom; a poet in the choice of his words; a lawyer in respect of memory; a tragedian in voice, and the best actor in gesture.[20]

Yn ail, roedd angen i weinidog fod wedi'i ei gysegru'i hun i'w alwad: 'What can they [viz unsanctified preachers] say to their hearers, of guilt and misery, which will not aggravate their own, and tell against their souls'.[21] 'A graceless inexperienced preacher, is one of the most unhappy creatures upon earth.'[22] Rhybuddiodd y gwŷr ifainc i chwilio eu calonnau i sicrhau eu bod yn brofiadol o wir dduwioldeb:

> Have you experienced the love of God, shed abroad in your hearts; and can you say that your fellowship is with the Father, and with his Son, Jesus Christ? This is a matter of the last importance, and you should never rest till you have a comfortable assurance, and a solid hope, that you are born of God.[23]

Gofynnai sut y gallai pregethwr alw pechaduriaid i edifeirwch os nad oedd wedi edifarhau ei hun. Yn drydydd, pwysleisiodd yr angen am ddysg ('learning'):

> The want of taste for study, and an indolent soul, will not serve to make an able divine. No, before a man can be an able divine, he should be trained up in the knowledge of languages, arts, history, philosophy, and many of other sciences.[24]

---

[16] Lewis, *Memoir*, t. 63.
[17] Lewis, *Memoir*, t. 66.
[18] Lewis, *Memoir*, t. 67.
[19] Lewis, *Memoir*, t. 67.
[20] Lewis, *Memoir*, t. 68.
[21] Lewis, *Memoir*, t. 69.
[22] Lewis, *Memoir*, t. 69.
[23] Lewis, *Memoir*, t. 70.
[24] Lewis, *Memoir*, tt. 71-2.

Ni allai orbwysleisio'r angen i weinidogion ddarllen yn eang er mwyn helaethu eu diwylliant cyffredinol a'u gwybodaeth: 'In order to gain competent knowledge, a variety of books must be read, on various subjects, and well digested. Experience will teach you, that men will not become learned and wise, or useful, without hard study and unreserved diligence'.[25] Wrth gloi, atgoffodd ei wrandawyr am eu cyfrifoldeb i wneud yn fawr o'u cyfle tra eu bod yno. Roedd yn mawr obeithio y byddai'r myfyrwyr yn ymdaflyd i astudio'n ddyfal yn y gwahanol ganghennau dysg y byddai'u cwrs yn ei gynnig iddynt.

Wedi i'r Academi ddychwelyd i Gaerfyrddin, bu cryn drawsnewid ym marn y Bwrdd Presbyteraidd amdani. Yn dilyn ymweliad gan ddirprwyaeth ar ran y Bwrdd yng Ngorffennaf 1798, cydnabuwyd nad oedd unrhyw ddiffyg amlwg, ac wedi holi deugain o weinidogion lleol yn ystod y cyfarfod blynyddol, cofnodwyd bod yr Academi yn gwneud camau breision i ennill cefnogaeth eglwysi y siroedd gorllewinol: 'It gave them great satisfaction to find that the Academy served to unite persons of various description with regards to religious opinion and that it *now* engages the best wishes of many, who in *former times* were not much disposed to encourage it'.[26] Ond nid oedd unfrydedd llwyr ymhlith y gweinidogion ychwaith:

> A small party, comprehending not more than 5 o 6 persons of very contracted notions and enthusiastic dispositions alienated themselves from the assembly, and attempted very much to the dissatisfaction of the Ministers in general, to produce and maintain a separation. But there is reason to hope, that the efforts of this party, which are very generally reprobated will prove ineffectual, and that a degree of unanimity will prevail in the County, which has not been known for many years.[27]

Ai cyfeiriad sydd yma at ddyrnaid o weinidogion Uchel Galfinaidd? Erbyn troad y ganrif roedd Uchel Galfiniaeth yn dechrau colli tir yn y wlad a'r gweinidogion a oedd yn ei chofleidio yn prinhau. Pan ymwelodd y dirprwywyr â'r ystafell ddosbarth meddent: 'The several classes were examined by the Tutors in the Latin, Greek and Hebrew languages, and in various branches of the Mathematics, as well as in Theology, and acquitted themselves to the satisfaction of all that were present'.[28] Canmolwyd yr athrawon hefyd: 'The Tutors seemed to have taken pains in their respective departments, and the students in general manifested talents and application.'[29] Mewn gwirionedd roedd canmoliaeth i'r sefydliad ar bob llaw:

> The report of the Tutors, of the neighbouring Ministers and other persons resident in the town of Carmarthen, with regard to the conduct of the students, was very satisfactory; and your Committee thought themselves warranted in concluding, that the purposes of the Institute were likely to be fully accomplished.[30]

Roedd hyn yn dipyn o ganmoliaeth wedi cymaint o ansefydlogrwydd yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

[25] Lewis, *Memoir*, t. 74.
[26] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Hydref 1798.
[27] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Hydref 1798.
[28] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Hydref 1798.
[29] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Hydref 1798.
[30] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Hydref 1798.

Yn ôl tystiolaeth cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, daeth hi'n amlwg erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Academi, yn athrawon a myfyrwyr, wedi gwella'n sylweddol. Prawf o hynny oedd y cymorth hael a estynnwyd i'r myfyrwyr a'r athrawon wedi methiant cynhaeaf 1800. Gwnaed hyn mewn ymateb i betisiwn dyddiedig 27 Awst gan ddeuddeg o'r myfyrwyr yn erfyn am gymorth ariannol. Achos eu dolef oedd nad oedd eu rhieni yn medru eu cynorthwyo am y tro. Oherwydd y cynhaeaf gwael a chwyddiant ym mhrisiau bwyd yn ystod y rhyfel â Ffrainc, aeth yn wasgfa arnynt. Ymatebodd y Bwrdd trwy anfon £36 i'w rannu rhyngddynt.[31] Roedd y blynyddoedd dilynol yn galed ac yn ystod gaeaf 1802 ymatebodd y Bwrdd yn hael yn dilyn cais pellach am gymorth: 'A Petition was presented to the Board from the Tutor at Carmarthen requesting an increase of salary - Agreed that the salary of each Tutor be augmented £20 a year.'[32] Ar y pryd roedd un-ar-ddeg o fyfyrwyr tan eu gofal. Wedi blynyddoedd o gyni, oherwydd rhoi'r flaenoriaeth i gynorthwyo Academi Caerfyrddin, penderfynodd y Bwrdd yn 1806 nad allent am y tro estyn cymorth ariannol i fyfyrwyr academïau eraill a noddwyd ganddynt.[33] Roedd yr haelioni hwn yn syndod o gofio bod y Bwrdd cyn hyn wedi gorfod gwahardd y myfyrwyr rhag mynychu'r theatr yn y dref.[34] Y tebyg yw eu bod wedi ufuddhau i'r gwaharddiad, oherwydd eu bod yn sylweddoli, gan eu bod mor gyfyng arnynt, nad allent dalu am fynychu'r theatr a chwyno yr un pryd am brinder adnoddau!

Yn ystod llywyddiaeth Peter daeth ymweliad goruchwylwyr y Bwrdd bob tair blynedd ynghyd â'u harfer o fynychu cyfarfod y gweinidogion yn achlysur o bwys.[35] Yno y byddai'r myfyrwyr yn cael cyfle i wrando ar bregethwyr gorau y pulpud Annibynnol, megis Michael Jones Llanuwchllyn, John Roberts Llanbryn-mair, Caleb Morris Llundain a Thomas Jones Amlwch. Yn y prynhawniau byddai cyfle i wrando ar y pregethwyr yn trafod ac yn dadlau fel y gallai'r myfyrwyr bwyso a mesur gwahanol safbwyntiau diwinyddol.[36] Byddai'r mesur a'r pwyso hwn er mwyn meithrin annibyniaeth barn yn rhan bwysig o gynhysgaeth yr Academi a'i hetifeddiaeth i'r traddodiad Cynulleidfaol.

## 2. David Peter a'r traddodiad rhyddfrydig

Un o nodweddion amlwg Academi Caerfyrddin oedd 'y rhyddid a ganiateid i'r myfyrwyr goleddu safbwyntiau gwahanol, heb ymryrraeth o du'r awdurdodau'.[37] Yn ôl adroddiad 1820, yn ogystal â chanmol y safonau addysgol roedd goruchwylwyr y Bwrdd yn werthfawrogol o'r ysbryd heddychlon, brawdgarol a fodolai yno: 'Your committee have the pleasure to inform the Board that the greatest harmony subsists between the two Tutors, and that the conduct of the students is without a single exception, not only irreproachable but exemplary'.[38] Roedd gan y myfyrwyr rychwant eang o safbwyntiau a hyn yn cyfrannu at werth eu haddysg: 'Among the

[31] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1800.
[32] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 1 Rhagfyr 1802.
[33] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 3 Mawrth, 1806; Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 137.
[34] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Ebrill 1800; Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, tt. 60-1.
[35] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd 2 Hydref 1820 a 2 Hydref 1826; Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, tt. 95-6 a 138-9.
[36] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, tt. 63-4.
[37] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 95.
[38] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1820.

students there are as we may naturally imagine young persons of different *persuasions* and different religious sentiments, but as *they enjoy unrestrained liberty to judge for themselves, nothing like a party spirit seems to prevail among them'*.[39] Yn ôl Geraint Dyfnallt Owen roedd hyn yn ffrwyth uniongyrchol gweledigaeth ryddfrydig David Peter am addysg:

> Ni fynnai lyffetheirio ei fyfyrwyr i unrhyw athrawiaeth arbennig, eithr eu calonogi ym mhob modd i chwilio am y gwirionedd trwy ddarllen yn eang ac arfer eu pwyll a'u rheswm wrth ddadansoddi problemau crefyddol. Yr oedd perffaith ryddid i unrhyw efrydydd ymwadu ag athrawiaethau uniongred a chydnabyddedig os oedd ganddo argyhoeddiadau ar y mater. Diolch i'r rhyddid meddwl hwn, medrodd y myfyrwyr fabwysiadu ysbryd goddefgar a gweledigaeth lydan cyn dechrau ar y weinidogaeth.[40]

Gyda bod ymweliad cynrychiolwyr y Bwrdd yn cydredeg â chyfarfod blynyddol y gweinidogion, roedd hyn yn gyfrwng i feithrin cytgord a chyfeillgarwch rhwng y Presbyteriaid a'r Annibynwyr:

> These meetings have also secured in a very eminent degree to allay the fierce spirit of bigotry which was once prevalent among the Dissenting Ministers of Wales and to promote among them a harmony and mutual goodwill more consonant both with the gospel of love which they proffes to teach and recommend.[41]

Tynnwyd sylw at yr ysbryd rhyddfrydig hwn yng nghofiant W. T. Lewis i Peter:

> The avowed principles, on which the Presbyterian college at Carmarthen is established, are widely different from any other college in England or Wales. In other theological institutions, fixed and definite views of doctrinal subjects, whether the doctrines are deemed orthodox or heterodox, are required to be avowed, and conscientiously believed. But no avowal of sentiments, on biblical truth, is required of any candidate for admission into this school of prophets. High moral character, good mental abilities, and some degree of proficiency in Latin and Greek, and the higher departments of arithmetic, are the necessary requisites to gain admission.[42]

Yn Academi y Fenni roedd disgwyl i bob myfyriwr ddatgan 'ei gyffes ffydd a'i brofiad crefyddol wrth y Bwrdd Annibynnol cyn cael ei dderbyn i'r Athrofa, a gofalai'r Bwrdd na ddeuai cyfle na phrofedigaeth iddo droi ei gefn arnynt yn ystod ei rawg academig.'[43] Yng Nghaerfyrddin ar y llaw arall, roedd gwahanol farnau wedi bodoli rhwng y tiwtoriaid ar faterion diwinyddol ar hyd yr amser, a'r myfyrwyr yr un modd. Er bod rhyddid perffaith i bawb dderbyn safbwyntiau diwinyddol amrywiol, serch ei Galfiniaeth bersonol, ni allai Peter oddef penboethni crefyddol na chulni mewn materion cred: 'Study moderation in all things. Extremes are always dangerous, often pernicious ... Truth, wisdom, health, and virtue are always to be found in the mean, between two extremes'.[44] Wrth astudio'r Ysgrythur dylid gwacáu'r meddwl o bob rhagfarn (meddai) a phwyso a mesur yn ofalus cyn derbyn unrhyw ddadl, gan fod yn

[39] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1820.
[40] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 65.
[41] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826.
[42] Lewis, *Memoir*, t. 80.
[43] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 65.
[44] Lewis, *Memoir*, t. 78.

barod i anwesu'r gwir lle bynnag y'i ceid. Roedd angen gwylio rhag culni ('bigotry') a oedd yn arwydd o anwybodaeth a rhagfarn, a gwylio hefyd rhag difaterwch a oedd yn symtom o feddwl anwadal. Roedd angen bod yn rhydd oddi wrth benboethni ar y naill law, ac oddi wrth yr hyn a oedd yn groes iddo, sef ffurfioldeb oer ar y llaw arall.[45]

### 3. Ymlediad Undodiaeth a'i oblygiadau

Er bod traddodiad rhyddfrydig yn perthyn i Academi Caerfyrddin, nid tasg hawdd oedd cadw'r ddysgl yn wastad rhwng y gwahanol garfannau na gwrthsefyll beirniadaeth ar y naill law gan yr adain dde nac ychwaith gan selogion o'r adain chwith. Os Arminiaeth ac Ariaeth a heriodd y ddealltwriaeth uniongred o'r ffydd Gristnogol yn ystod y ddeunawfed ganrif, y sialens erbyn ei diwedd oedd ymlediad Undodiaeth. Yn ei astudiaeth o hanes diwinyddiaeth yng Nghymru, mae Gwili Jenkins wedi amlinellu fel y cydiodd y daliadau Undodaidd newydd ymhlith Arminiaid y de-orllewin trwy weithiau Joseph Priestley (1733 - 1804), Theophilus Lindsey (1723 - 1808) a Thomas Belsham (1750 - 1829) ymhlith eraill, wedi iddynt eisoes ennill tir yn Lloegr. Hyd yn oed 'yr ochr draw i Fôr Iwerydd, ymdaenai Undodiaeth yn Lloegr Newydd a mannau eraill, fel gwrthweithiad yn erbyn Calfiniaeth Uchel, ac fel prawf nad yw Calfiniaeth, mwy nag Arminiaeth, yn rhagfur cadarn yn erbyn y ffordd a elwir yn heresi o addoli'r Un Duw yn unig'.[46] Cafodd y ddysgeidiaeth Undodaidd ddylanwad helaeth ymysg y Presbyteriaid a oedd eisoes wedi coleddu Ariaeth,[47] ymhlith Bedyddwyr rhyddfrydig,[48] a thrwy ddylanwad pobl fel Thomas Evans (*Tomos Glyn Cothi*), Charles Lloyd a David Jones (*The Welsh Freeholder*). Oherwydd apêl y syniadaeth newydd, nid oedd hi'n syndod fod yr Ymneilltuwyr Calfinaidd yn bryderus. Roedd hen gynulleidfaoedd Presbyteraidd Ceredigion, a oedd eisoes wedi troi yn Ariaidd, yn prysur fynd gam ymhellach wrth ddilyn daliadau naturolaidd Charles Lloyd.[49] Arweiniodd y dadlau yng nghynulleidfaoedd Ceredigion i'r rhwyg gafwyd ymhlith y Bedyddwyr yng Nghymanfa Meidrim yn 1799 pan ddiarddelwyd y garfan Arminaidd ac i 22 o eglwysi ymuno â'r Bedyddwyr Cyffredinol.[50] Roedd penderfyniadau llosg yn cael eu pasio yng nghymanfaoedd yr Annibynwyr yn y cyfnod, gyda'r llythyron yn llawn anogaethau ar i'r eglwysi drwytho'u haelodau mewn athrawiaeth bur.[51]

---

[45] Lewis, *Memoir,* tt. 78-9; Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 96.
[46] J. Gwili Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist Crist: Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist yn ei phertyhnas â Chymru* (Liverpool: Gwasg y Brython, 1931), t.307; cf. E. Brooks Holifield, *Theology in America: Christian Thought from the Age of the Puritans to the Civil War* (New Haven: Yale University Press, 2003), tt. 197-233; Maurice Wiles, *Archetypal Heresy: Arianism through the Centuries* (Oxford: Clarendon Press, 1996), tt. 157-64.
[47] Gw. C. G. Bolam et al, *The English Presbyterians: from Elizabethan Puritanism to Modern Unitarianism* (London: George Allen & Unwin, 1967), tt. 235-51; Michael R. Watts, *The Dissenters: From the Reformation to the French Revolution* (Oxford: Clarendon Press, 1978), tt. 471-8.
[48] T. Oswald Williams, *Undodiaeth a Rhyddid Meddwl* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1962), tt. 169-225.
[49] D. Elwyn Davies, *Y Smotiau Duon: Braslun o Hanes y Traddodiad Rhyddfrydol ac Undodiaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1980), tt. 58-63; D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales: 2. The Long Nineteenth Century, 1760-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2021), tt. 146-50.
[50] R. T. Jenkins, 'Briwsion yn hanes y Bedyddwyr Cyffredinol Cymreig', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (1931), 31-42; D. Elwyn Davies *Cewri'r Ffydd: Bywgraffiadur y Mudiad Undodaidd yng Nghymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1999), t. 66; Morgan, *Theologia Cambrensis: 2. The Long Nineteenth Century,* tt.111-17.
[51] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth,* tt. 70-3.

Creodd hyn i Peter, a oedd yn Galfin o ran ei broffes tra ar yr un pryd yn brifathro ar goleg eang ei ddaliadau, gryn benbleth. Roedd wedi ymdrechu i sicrhau bod yr Academi yn gymeradwy gan yr uniongred a'r rhyddfrydol fel ei gilydd, ac yn anorfod bu ganddo feirniaid o'r ddwy ochr. Yn ychwanegol i'w feirnaid Undodaidd - meddai Iolo Morganwg: 'Whilst Peters (*sic*) remains at the head of the academy, nothing … will emerge out of that cave of superstition and ignorance'[52] - roedd rhai o'r Uchel Galfiniaid yn llym eu barn: 'Jno. Davies, Alltwen, Bowen of Neath, Davies of Mynyddbach and others of the same stamp ... take the liberty privately of calling all the ministers who will not join them in subscribing Creeds etc, Socinians'.[53] Byddai hen Galfiniaid y de-orllewin yn rhybuddio'u haelodau nid yn unig o beryglon heresïau ond yn bygwth diarddel pwy bynnag a fyddai'n gwrando ar weinidogion cymedrol eu syniadau. Roedd David Peter a David Davies, y tiwtoriaid, wedi gwneud eu gorau i gymodi rhwng y pleidiau:

> We have always done all in our power to keep in with both parties by frequenting public meetings, and paying occasional visits with a view of uniting them all in harmony and love, as well as to promote the usefulness of the Institution (since its removal to Carmarthen) and render it popular among the Orthodox and Heterodox, but such is the bigotry of some among every party that we were looked upon with a suspicious eye.[54]

Polisi rhyddfrydig amhartïol oedd polisi Academi Caerfyrddin ac roedd y carfannau uniongred ac anuniongred ond yn rhy barod i ddrwgdybio'r sefydliad a'i diwtoriaid. Gan gymaint yr atgasedd yn y tir, bu'n anodd iddynt gadw tir niwtral a pharhau i dderbyn ymgeiswyr o bob safbwynt diwinyddol. Cyn ymgynghori â'r Bwrdd yn Llundain, daethant i'r casgliad mai gwell oedd peidio â derbyn Undodiaid proffesedig am y tro: 'At the present crisis we think it imprudent to admit Socinians to the Academy, for it will certainly injure the Institution, and the interest at large in the Principality'.[55] (Enw arall ar Undodiaid oedd Sosiniaid, yn ôl syniadaeth yr Eidalwr Fausto Sozzini (1539-1604)).[56] Roedd yr wybodaeth fod y syniadaeth flaengar yn ennill tir ymhlith Presbyteriaid y brifddinas ond yn dwysáu eu pryder, ond gwyddent hefyd fod ysgrifennydd y Bwrdd, y Dr Abraham Rees, er yn Ariad, yn awyddus i weld yr Academi yn gymeradwy gan drwch eglwysi Ymneilltuol y de-orllewin. Ni chafwyd ateb, fodd bynnag, y naill ffordd na'r llall. Yn eu gohebiaeth â Rees dyddiedig 25 Chwefror 1801 roeddent yn dal i apelio am ateb i'r llythyr a anfonwyd y Tachwedd blaenorol.[57] A dyna pan gododd gryn anghydfod yn sgil gwrthod lle i'r Undodwr Henry Davies.

*Helynt Henry Davies*

Myfyriwr yn yr ysgol ramadeg oedd Davies ac yn adnabod Peter yn dda, a chymaint oedd ei siom o gael ei wrthod fel ymgeisydd yn yr Academi nes iddo gysylltu â'r Bwrdd yn Llundain.

---

[52] Llythyr at Taliesin ab Iolo, 26 Gorffennaf 1814, Geraint H. Jenkins et al (goln), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, Vol. 3 (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 27
[53] D. Davies a D. Peter at Dr Abraham Rees, 27 Tachwedd 1800, 'Correspondence from Tutors at Carmarthen, 1800 – 1829', Llyfyrgell Dr. Williams, Llundain.
[54] D. Davies a D. Peter at Dr Abraham Rees, 27 Tachwedd 1800.
[55] D. Davies a D. Peter at Dr Abraham Rees, 27 Tachwedd 1800.
[56] Gw. Wiles, *Archetypal Heresy*, t. 67; Williams, *Undodiaeth a Rhyddid Meddwl*, tt. 71-6.
[57] D. Davies a D. Peter at Dr Abraham Rees, 25 Chwefror 1801.

Mewn adroddiad manwl, cyhuddodd y prifathro o fod yn rhagfarnllyd tuag ato ar gyfrif ei ddaliadau Sosinaidd:

> About the 11th Oct, 1800, when the pupils in the Grammar School were dismissed ... Mr. Peter ... asked me, Did I believe that Christ was a mere man. I answered that I believed he was a man. Consequently, continued he, you deny the atonement and other things. I replied, I do not believe the atonement. He then told me, 'I do not wish to deceive you - the Board will not, for the future, admit Socinians into the Academy'.[58]

Ysgrifennodd drannoeth at gyfaill a oedd yn fyfyriwr yn Academi Timothy Kenrick yn Exter, yn holi a fyddai'n debygol bod lle iddo yno, ond yn y cyfamser daeth â'i dad at Peter er mwyn dadlau ei achos: 'Upon the road he told me, "Your blood shall not be on my head. I will give you some assistance to support you in the Exeter Academy, if you can gain admittance".[59] Dyma, yn ôl Davies, a ddigwyddodd nesaf:

> Both of us waited upon Mr. Peter together. In the course of conversation, he told my father, when I was present, that the Unitarians are very unsuccesful in England; many of them became rank Deists and some Atheists; that young men of the Unitarian persuasion seldom ever do well; that he would not advise me to pursue my studies with a view to the ministry; and that I could not be admitted into the Carmarthen Academy, as it was the determination of the Board not to admit Unitarians for the future - but that if any should become Unitarians, after admission, they were to be tolerated. Ever since this interview with Mr. Peter, my father refuses to promise me any assistance.[60]

Daeth y mater i sylw gweinidogion Undodaidd oedd ond yn rhy barod i gondemnio Peter am iddo gymeryd yn erbyn Davies ar gyfrif ei safbwynt diwinyddol. Cymaint oedd yr atgasedd yn ei erbyn fel y bu rhaid iddo ysgrifennu llythyr maith at y Dr Abraham Rees a'r Bwrdd Presbyteraidd yn egluro ei benderfyniad: 'I shall in the most fair and candid manner give you a true and undisguised statement of the whole affair from first to last'.[61] Yn ôl y llythyr nid oedd Davies wedi bod yn gwbl onest wrth osod ei achos ger bron, a bod mwy yn y fantol nag oedd apologia'r ymgeisydd wedi datgelu.

Roedd Henry Davies (1782-1848), Eglwyswr o ran ei gefndir yn ôl Peter yn ei lythyr, wedi ei dderbyn i'r ysgol ramadeg yng Ngorffennaf 1790 (yn ôl gohebiaeth Peter), ond wedi bod yn yr ysgol am rai misoedd troes yn Anghydffurfiwr, a diwedd y flwyddyn, ym mis Rhagfyr, fe'i derbyniwyd yn aelod yn eglwys Heol Awst. Calfin cymedrol ydoedd ar y pryd. Bu cryn ymgiprys rhwng y Bedyddwyr Cyffredinol neu Arminaidd a'r Bedyddwyr Neilltuol (Calfinaidd) yn nhref Caerfyrddin ym mis Mawrth 1799,[62] ac wedi iddo gydsynio â'r Bedyddwyr Cyffredinol, cofleidiodd y gred Undodaidd. Erbyn canol haf 1799 mynegodd ei ddymuniad i ymbaratoi ar gyfer y weinidogaeth ymhlith yr Ymneilltuwyr Protestannaidd a dymunodd gael lle yn yr Academi ar gyfer canol haf 1801. Er y newid yn ei olygiadau,

[58] R. J. Jones, *Unitarian Students 1796 - 1901* (Aberdare: Jenkin Howell, 1901), tt. 102-3 [102]
[59] Jones, *Unitarian Students 1796 – 1901*, t. 103.
[60] Jones, *Unitarian Students 1796 – 1901*, t. 103.
[61] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800, 'Correspondence from Tutors at Carmarthen, 1800 – 1829'.
[62] Am yr helynt gw. Desmond Davies, *Pobl y Porth Tywyll: Hanes a thystiolaeth Eglwys y Tabernacl, Caerfyrddin 1650-1968* (Caerfyrddin: Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion, 2012), pp, 27-41.

addawodd Peter y byddai'n barod i'w gefnogi pan ddeuai'r amser, cyhyd â'i fod yn y cyfamser yn ymddwyn yn dda. Ond nid felly y bu: 'Soon after this I observed a change in his conduct for the worse, especially at a place of worship'.[63] Yng Ngorffennaf 1800 ymunodd David Rowlands o Bencader â'r ysgol ramadeg gyda'r bwriad o gael ei dderbyn i'r Academi. Roedd yn Galfin digyfaddawd. Cynhelid cwrdd gweddi pob nos Iau yng nghapel Heol Awst, gyda'r myfyrwyr a'r ysgolheigion yn cymryd eu tro i weddïo o flaen y bregeth. Ym mis Hydref, pan ddaeth tro Davies i weddïo, cerddodd Rowlands allan a dychwelodd wedi i'w gyd-ysgolor orffen gweddïo. Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, pan oedd Rowlands yn holi am bosibilrwydd derbyn nawdd y Bwrdd i'w gynnal, gofynnwyd iddo egluro ei ymddygiad yn y cwrdd gweddi. Ymddiheuriodd am wneud fel y gwnaeth ond soniodd am y dadlau tanbaid a fu rhyngddo â Davies ar amryw bynciau. Cymaint oedd cyfeiliorni athrawiaethol Davies yn ei olwg fel na allai o ran cydwybod ymuno ag ef mewn gweddi. Yn ogystal â bod yn Undodwr o ran ei broffes, roedd Davies, meddai Rowlands, yn credu bellach bod y byd yn dragwyddol. Ni allai Peter goelio hyn a thybiodd mai rhagfarn Galfinaidd Rowlands oedd wrth wraidd yr haeriad. Ceryddodd Rowlands a'i annog i feithrin ysbryd goddefgar, i feddwl y gorau o'i gyd-ddisgyblion beth bynnag oedd eu barn 'and not to be of such a narrow bigotted spirit'.[64] Fe'i hatgoffodd fod yr Academi wedi ei sefydlu ar egwyddorion rhyddfrydig, bod lle yn Academi Caerfyrddin i amrywiaeth safbwyntiau ond bod dim lle yno ar gyfer eithafwyr ('bigots') boed yn Galfinaidd neu'n Undodaidd, os oeddent yn cweryla'n barhaus gan aflonyddu ar fywyd yr ysgol, y gynulleidfa a'r gymdogaeth.

Trannoeth cythruddwyd Peter pan dderbyniodd lythyr haerllug gan Rowlands yn ei gyhuddo o beidio â bod yn ddidwyll ('sincere') ac yntau'n uniongred ac yn pregethu duwdod Crist a natur iawnol ei aberth ac eto'r un pryd yn derbyn Sosiniaid i eistedd gydag ef wrth fwrdd y Cymun. Gwadodd Rowlands yn y llythyr y cyhuddiad ei fod yn benboeth ac yn gul; y cwbl a wnâi oedd glynu wrth ei argyhoeddiadau cydwybodol. Addawodd, fodd bynnag, pe câi ei dderbyn i'r Academi, yr ymdrechai i gadw at y rheolau ac i ymddwyn yn heddychlon.

Yn sgil hyn cyfarfu Peter â Davies a Rowlands i fynd i waelod y mater. Gresynodd fod Rowlands wedi ei herio trwy'r llythyr a'i rybuddio ynghylch a 'narrow bigotted & spitefull temper'. Yna dywedodd wrtho y byddai'n rhaid iddo adael yr ysgol ar ddiwedd y tymor. Ei amcan (meddai wrth Abraham Rees wrth adrodd am yr helynt) oedd gwarchod heddwch oddi mewn i'r sefydliad, 'that I in conjuncion with the Board was determined to discourage every person (be their sentiments what they may) of such a narrow spirit as he had discovered'.[65] Yna gofynnodd i Rowlands ailadrodd yr hyn roedd Davies wedi ei ddweud yn eu dadleuon, a mynnodd eto fod ei gyd-ysgolor yn credu bod y byd yn dragwyddol a llawer o bethau gwrthun eraill na fedrai eu dwyn i gof ar y pryd. Er dychryn i Peter, nid oedd Davies yn gwadu hyn. Petai'r wybodaeth yn cyrraedd clustiau'r werin fod Deistiaeth ac Atheistaeth yn cael eu caniatáu yn ei eglwys byddai'n niwedidio ei gymeriad fel gweinidog ac achos crefydd yn ei eglwys. Gyda hynny holodd Davies ymhellach ynghylch ei farn am dduwdod Crist ac arwyddocâd ei aberth, a'r ateb a gafodd oedd 'his atonement was nothing at all'. Yna adroddodd Peter:

---

[63] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[64] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[65] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.

> I told him that as he was so rigid and bigotted a Socinian, and so industrious in propagating his sentiments and uttering what ever came uppermost in his mind, I considered him as a very dangerous young man, and that I could not think of recomending him to the Board next midsummer according to my promise in 1799, as I saw nothing could be expected from him but vexation & trouble, and besides that the Board did not wish to admitt Socinians - meaning such as were forward in declaring their attachment to Socinian principles, and thus leading the Tutors to apprehend that they would be troublesome in the course of their studies.[66]

Prif bwynt Peter wrth adrodd am yr helynt oedd sicrhau aelodau'r Bwrdd fod mwy na mater o athrawiaeth yn y fantol, ond bod cwestiwn ymddygiad a disgyblaeth yn oblygedig hefyd: 'Had he the least spark of honour or honesty he would have mentioned it in the statement which the Board has had of the matter, which was dictated by him'.[67] Pwysleisiodd eto fod pob rhyddid i Undodiaid fynychu'r Academi a'i fod wedi addo yn flaenorol gymeradwyo Davies gan wybod yn iawn mai Sosiniad ydoedd:

> My sole authority for telling the two young men what I did was the advice given me by the Committee for reestablishing the Welsh Academy in 1795, not to pay the least restraint on the liberties of the young men but to let every one have the full liberty of judging for himself, but at the same time to be very cautious not to recommend any young man for admission who was forward & pragmatical in declaring his attachment to either extreme.[68]

Nid eu safbwyntiau diwinyddol oedd wrth wraidd amharodrwydd Peter i adael i'r ddau ddyn ifanc fynediad i'r Academi, ond eu cyndynrwydd a'u heithafiaeth. Ychwanegodd na fyddai'n rhaid i Davies adael yr ysgol ramadeg, ac er na allai bellach ei dderbyn i'r Academi byddai'n fodlon llunio geirda iddo fynd i academi arall, fwy cydnaws â'i ddaliadau. 'This', meddai Peter i gloi,

> is a true and impartial account of all that passed between me and H. Davies the rigid Socinian, if not a Deist, and D. Rowlands the rigid Calvinist if not an Antinominian at the Grammar School. And I am perfectly satisfied in my own mind that I did what was my duty to do as a Christian Minister and Tutor.[69]

Yn y cyfamser roedd David Davis ieuaf, gweinidog Undodaidd Castell-nedd a mab yr hen ysgolfeistr Ariaidd o Gastellhywel, wedi ysgrifennu at y Bwrdd o blaid Henry Davies a chyhuddo Peter o ragfarn ac anoddefgarwch. Eto, ni allai Peter lai na'i amddiffyn i hun:

> The statement to the Board was a very partial if not an invidious one. D. Davis never told you that I dealt with D.R. in the very same manner as I did with H.D. and for the same reason. He no doubt artfully & designed concealed the cause of my telling H.D. what I did.[70]

---

[66] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[67] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[68] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[69] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[70] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.

Pe byddai wedi gwrthod Henry Davies ar gyfrif ei Undodiaeth yn unig, ni fyddai wedi addo cadw lle iddo yn y lle cyntaf, a byddai wedi gwrthod derbyn Sosiniad arall a oedd yn yr ysgol ramadeg yn disgwyl cael ei dderbyn i'r Academi, ond ni wnaeth felly. Sicrhaodd Dr Rees petai'n holi'r myfyrwyr, y câi wybod fod perffaith ryddid iddynt arddel pa safbwynt diwinyddol a fynnent, ond iddynt barchu rheolau'r sefydliad. Yn wir, cafodd ei gollfarnu'n aml o fod yn rhy gydymdeimladol â'r myfyrwyr Undodaidd: 'I have forfeited the friendship of the major part of the rigid Calvinists in this part of the country'.[71] Bron i rwyg ddigwydd yn ei eglwys ei hun am iddo ganiatáu i Sosiniaid ddod at Fwrdd yr Arglwydd, a dim ond trwy bwyll ac ymresymu y llwyddodd i gyfannu barn. Petai'r Bwrdd yn anfodlon arno mewn unrhyw fodd, meddai, byddai'n gwbl fodlon sefyll i lawr o'r llywyddiaeth. Ei unig amcan oedd gwarchod heddwch a threfn.

Nid dyna ddiwedd helynt Henry Davies,[72] ond wrth sefyll ei dir yn nannedd beirniadaeth lem gan Uchel-Galfinaid cyndyn ar y naill law ac Undodiaid penboeth ar y llall, enillodd David Peter barch a dangos drylwyred oedd ei ymroddiad i egwyddor rhyddid barn. Roedd hyn yn wir yn achos cythrwfl arall a oedd ynghlwm ag enw'r dyn hwnnw a alwodd R. T. Jenkins yn 'granc',[73] sef Charles Lloyd.

*Ensyniadau Charles Lloyd*

Tybir mai yn 1813 y cyhoeddodd Charles Lloyd, mab David Lloyd, cyn-weinidog yr eglwys Arminaidd-Ariaidd yn Llwynrhydowen, ei hunangofiant o dan y teitl *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*.[74] Mae'n hunangofiant rhyfedd. Fe'i cyhoeddodd yn ddi-enw ac wrth ysgrifennu am helyntion ei fywyd nid enwodd neb y bu'n ymwneud â hwy. Yn ôl D. Elwyn Davies, gwnaeth hynny 'er mwyn bod yn ffraeth a pheidio celu'r gwirionedd am ddim'.[75] Mae ei sylwadau miniog ar bob tudalen bron, yn bradychu'r cymeriad cecrus ac ymrysongar a feddai. Yn ôl yr hanesydd Undodaidd George Eyre Evans (ar sail sylwadau ei dad yn 1889), roedd Lloyd yn 'man of wonderful ability, bad temper, jealous to a degree, and always in hot water of his own boiling ... he had the knack of quarrelling with everybody, and kicking his own hat!'[76] Yn *Particulars* ysgrifennodd am ei gyfnod yn yr academi yn Abertawe. Un o'i gydfyfyrwyr yno oedd Lewis Lloyd a droes yn fanciwr gan ddod maes o law yn filiwnydd. Roedd David Peter hefyd yn gydfyfyriwr iddo ar y pryd, ond yr unig un o'i gyfoeswyr y soniodd amdano, heb ei enwi, oedd Lewis Lloyd:

> Of all the students of these two years (1785-7), I recollect not more than one who has done the least credit to the institution, and that one has devoted his fine talents long ago to the service of mammon. The rest have either forfeited all claim to esteem, for want of good morals, or are now dragging on a miserable existence in the humblest stations among their brethren.[77]

[71] D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800.
[72] Am oblygiadau'r helynt, gweler yr Atodiad, tt. 220-2.
[73] R. T. Jenkins, 'Er ei holl allu, nid yw "cranc" yn enw anaddas i'w daro arno ... dyn anhydrin, afrywiog ei dymer, chwerw ei araith a'i ysgrifen', s.n. 'Lloyd, Charles (1766-1829)', *Bywg*, t. 543.
[74] *Particulars of the Life of a Dissenting Minister* (London: J. Adlard, *d.d.*), ailargraffwyd yn 1911 dan olygydiaeth G. Eyre Evans.
[75] Davies, *Cewri'r Ffydd*, t. 88.
[76] George Eyre Evans (ed.), *Lloyd Letters 1754 -1796* (Aberystwyth: William Jones, 1908), t. xxx.
[77] Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*, t. 59.

Does dim amheuaeth mai eiddigedd oedd wrth wraidd y sylw chwerw hwn. Yn ôl Dewi Eirug Davies, awydd Lloyd oedd cael ei benodi yn brifathro Academi Caerfyrddin ei hun: 'Y mae'n weddol amlwg fod apwyntiad David Peter, fel llywydd yr academi wedi codi gwrychyn Lloyd, a dyma oedd i gyfrif am ei ymddygiad trahaus'.[78] Roedd Walter J. Evans, yntau'n Undodwr ac yn gyn-brifathro'r Academi, yn gytûn yn ei farn. Ac am y feirniadaeth a anelwyd at Peter meddai, 'the ferocity of which there is nothing to excuse'.[79]

Wrth ymdrin â helynt Henry Davies (eto heb ei enwi), y teitl a roes i'w bennod yn yr hunangofiant oedd 'Rescue of young candidates for the ministry from the effects of intolerance'. Dyma Lloyd yn 1813 yn agor eto hen graith ac yn ychwanegu ato trwy lythyr, di-enw eto, yn y *Monthly Magazine* yn edliw Academi Caerfyrddin am ei beiau.[80] Gwnaeth yr un peth ymhen y flwyddyn gydag ysgrif yn y *Monthly Repository* dan yr enw 'A REJECTED CANDIDATE'. Lluniwyd hwn dan gochl myfyriwr a wrthodwyd am heresi gan 'a Dissenting Academy, which has always *very prudently* professed liberality, but which has sometimes manifested a strange hankering to practice intolerance'.[81] Gan fod y feirniadaeth ar David Peter gan y 'Rejected Candidate' mor gignoeth a'r ysbryd mor gecrus, mae'n deg maentumio mai Lloyd oedd ei awdur. Er dirfawr syndod iddo, mae'n siŵr, roedd llythyrwr a gyfeiriodd ato'i hun fel 'A SUCCESFUL CANDIDATE THOUGH A UNITARIAN',[82] eisoes wedi ymateb iddo gan achub cam y prifathro. 'I perfectly recollect the circumstances of the rejection of the young man mentioned', meddai. 'It is now nearly fifteen years ago. I was at the time in the same school, and of the same class with him'.[83] Cofiai yn dda am y dadleuon athrawiaethol bywiog ymhlith bechgyn ifanc y dosbarth gramadeg, a bod un ohonynt – Henry Davies – nid yn unig wedi troi oddi wrth Galfiniaeth at Undodiaeth, ond iddo fod yn selog hyd at eithafiaeth wrth arddel ei gred newydd:

> The young man in question had been for a long while one of the fiercest champions of orthodoxy, but on a sudden he changed sides, and began to redicule the opinions which, but a little before, he had considered as sacred, and to sneer at the weakness of his former friends and associates.[84]

A chyda bod Davies wedi newid ei olygiadau, ni welai fai ar y prifathro am wrthod lle iddo yn yr Academi. Gwrthododd yn llwyr y cyhuddiad fod Peter yn rhagfarnllyd yn erbyn y myfyrwyr Undodaidd, a mynnodd iddo fod yn gwbl ddiduedd a theg, yn wir yn gyfeillgar gyda phob myfyriwr beth bynnag oedd ei argyhoeddiadau athrawiaethol:

> The charge of intolerance and illiberality made on the tutor, is as false as it is malicious and designing. There are many who, like myself, can bear testimony to his forbearance under the many insults designedly offered him by the young men who professed Unitarianism, then under his care; and to the liberal manner he treated them, notwithstanding their opposite sentiments. Indeed he seemed always to treat them with

[78] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 97.
[79] Walter J. Evans, 'Carmarthen College 13: David Peter', *Yr Ymofynydd*, Cyfres Newydd 5 (Mai 1901), 99-102 [100].
[80] *Monthly Magazine,* rhan i (Mehefin 1813), 411-2.
[81] *Monthly Repository* (Awst 1814), 465-6.
[82] *Monthly Magazine,* rhan ii (Medi 1813), 119-20.
[83] *Monthly Magazine,* rhan ii (Medi 1813), 119.
[84] *Monthly Magazine,* rhan ii (Medi 1813), 119.

> more respect and attention than those whose opinions were congenial to his own, and many Unitarian ministers, who were once his pupils, I know are indebted to his individual assistance for their ability to pursue their studies at the college. *Half the students, at the time* I was there *were professedly Unitarians*; these were admitted to his communion table; these were often hospitably entertained at his table; and always welcomed at his house. Are these proof of intolerance, and bigotry? ... Your correspondent and his supporters ought to blush for their injustice in endeavouring to blacken the character of one whose moral worth, usefulness, and integrity, place him beyond the reach of their malignity.[85]

Yn ei ddig ymatebodd Lloyd, ond gwrthododd y *Monthly Magazine* gyhoeddi ei apologia, a bu'n rhaid aros blwyddyn nes i'r ymateb ymddangos, ac ar dudalennau'r *Monthly Repository* y bu hynny. Ynddo apeliodd y 'Rejected Candidate' ar y 'Successful Candidate': 'I must beg leave to assure him, that the narrative of my rejection, detailed in the *Monthly Magazine* is STRICTLY TRUE'.[86] Wrth geisio ei amddiffyn ei hun, roedd yn wawdlyd yn ei feirniadaeth o'r 'Respectable Tutor', sef David Peter. Heriodd y 'Successful Candidate' i wyntyllu ymhellach yr holl dystiolaeth a oedd ar gael er mwyn datrys yr ymryson yn derfynol, ond ysywaeth ni bu llythyru pellach rhyngddynt. Gwnaeth dystiolaeth y 'Successful Candidate' lawer i droi y fantol o blaid David Peter mewn perthynas â'r anghydfod. Yn ôl Walter J. Evans:

> It seems highly probable that when the tutor declined to recommend for admission the young convert on whose case Dr. Lloyd chiefly dwells ... he did so not because the candidate was a Unitarian, but because he had personally affronted him and was likely to disturb the College peace.[87]

Yn ôl ei *Particulars* gwyddai Lloyd (er nad yw'n eu henwi) am yr ymgynghori a fu rhwng Peter ac Abraham Rees ar y mater. Clywsai am ymyrraeth David Davis Castell-nedd, a'r haeriad fod Peter wedi gweithredu ar awdurdod y Bwrdd Presbyteraidd a'i ysgrifennydd, y Dr Abraham Rees: 'The tutor pleaded the sanction of the visitor',[88] er nad oedd Rees yn ddiweddarach yn barod i gydnabod hynny: 'The disgrace of this transaction was shuffled from the tutor to the visitor, and from the visitor to the tutor, both of whome I consider equally culpable'.[89] Aeth rhagddo i gyhuddo David Peter a David Davies, y ddau diwtor, o wrthod derbyn dau fyfyriwr arall y sesiwn canlynol am yr union reswm, sef am eu bod yn Undodiaid; roeddent 'of unquestionable learning', meddai, '[but were rejected] on similar grounds'.[90] Roedd Peter, meddai, yn honni iddo gael ei gyfarwyddo i wrthod ymgeiswyr o berswad Undodaidd, ond i beidio â diarddel neb a fyddai wedi cofleidio Undodiaeth tra eu bod yn y coleg. Haerodd Lloyd nad oedd polisi o'r fath erioed wedi derbyn sêl bendith y Bwrdd. Ynghylch gwrthodiad dau ymgeisydd yn 1802 meddai:

> The *two* tutors were openly implicated in *this* year's business, which I have traced to a high authority, while an equally high authority has declared that it was

[85] *Monthly Magazine,* rhan ii, (Medi 1813), 119.
[86] *Monthly Repository* (Awst 1814), 466.
[87] Evans, 'Carmarthen College 13: David Peter', 102.
[88] Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*, t. 147.
[89] Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*, t. 147.
[90] Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*, t. 147.

> ‘uncountenanced by the directors of the Institution and originated in *self-assumed* power.’[91]

A chan mai Peter oedd y prifathro, doedd dim ameuaeth (yn nhyb Lloyd) mai ei Galfiniaeth anoddefgar oedd yn gyfrifol am y cam gafodd y myfyrwyr: ‘Such effects are produced by a zeal for orthodoxy, and a desire of having the *reputation* of orthodoxy’.[92]

Wedi rhoi sylw helaeth i dystiolaeth Charles Lloyd yn ei *Particulars* ac i’r dogfennau a gasglwyd gan R. J. Jones yn ei *Unitarian Students 1796-1901*, heb weld hwyrach y gohebu a fu yn y *Monthly Magazine* a’r *Monthly Repository* na gwybod am ddatganiad Peter i’r Bwrdd, y casgliad y daeth Gwili Jenkins iddo oedd:

> Ymddengys yn weddol eglur, pa beth bynnag a ddywedir o blaid ei degwch, nad oedd yn dymuno derbyn Undodiaid i’r Coleg ... Gormod treth ar ei natur oedd agor drws y Coleg i Undodiaid, ond yn ddi-ddadl fe groesodd derfynau’r awdurdod a berthynai i’w swydd.[93]

Ond a oedd y dyfarniad hwn yn deg? Barn dra gwahanol oedd gan Walter J. Evans wrth drafod yr ohebiaeth rhwng y cymwynaswr Undodaidd y Dr Daniel Jones a John James, gweinidog Undodaidd y Gelli-onnen, Morgannwg, mewn dwy ysgrif dan y teitl ‘Dr Daniel Jones’s Fund’ yn y cylchgrawn *Antiquarian Notes*. Roedd Jones a James wedi bod yn gyd-ddisgyblion yn ysgol David Davis Castellhywel a thybiodd Charles Lloyd mai oherwydd eu daliadau Undodaidd y gwrthododd David Peter ganiatáu iddynt le yn Academi Caerfyrddin yn 1802. Aeth Jones ymlaen i Academi Caerefrog, ac yn hytrach na dilyn gyrfa fel gweinidog, bu’n diwtor i deulu cefnog mewn amryw fannau yn Lloegr gan briodi’n dda ac etifeddu cryn ffortiwn yn sgil hynny.[94] Ac yntau wedi bod allan o Gymru am ddegawdau, cystylltodd â’i hen gydnabod John James yng Ngorffennaf 1847, a’i hysbysu o’i awydd i adael cymunrodd, peth i Academi Caerfyrddin a pheth i’w hen goleg yng Nghaerefrog. Diymateb braidd oedd James, ac wedi ail-gysylltu sawl blwyddyn yn ddiweddarach, y tro hwn daeth negyddiaeth James i’r golwg mewn ffordd bendant iawn. ‘*The Caermarthen Academy’,* meddai, *‘ has long ceased to be as useful to the cause of truth among the Unitarians as it was when we were both refused admittance, on account of our supposed heretical Unitarian sentiments*’.[95] Ymddengys mai’r hyn a oedd wrth wraidd tawedogrwydd cychwynnol James a’i negyddiaeth ddiweddarach oedd hen gynllun, ar y cyd â David Davis Castell-nedd, i sefydlu academi drwyadl Undodaidd ym Morgannwg, ac yntau’n bennaeth arni:[96]

> *You may remember that about 39 years ago the late Mr. Davis of Neath, the son of our old master, D. Davies of Castell Howel, proposed in conjunction with me, to educate 3 or 4 young men for the ministry in Wales; and for that purpose our late freind D. J. Rees promised to pay £25 per an., but the proposal was not carried into effect, though*

---

[91] Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*, t. 148.
[92] Lloyd, *Particulars of the Life of a Dissenting Minister*, t. 147.
[93] Jenkins, *Hanfod Duw a Pherson Crist*, tt. 316-7 a 323.
[94] Am y wybodaeth fywgraffiadol, gw. Walter J. Evans, ‘Dr Daniel Jones’ Fund’, *Antiquarian Notes,* 4/36 (1906), 3-15; 4/37 (1906), 17-27.
[95] John James at Daniel Jones, i Gorffennaf 1853, Walter J. Evans, ‘Dr Daniel Jones’ Fund:1’, *Antiquarian Notes,* 4/36 (1906), 3-15 [8].
[96] Am hyn gw. ‘T. T’, ‘John James Gelli-onnen’, *Yr Ymofynydd,* Cyfres Newydd 47 (Tachwedd 1891), 241-7.

> *it had some influence in removing me to Glamorganshire. Unless something of that kind take place ere long, the Welsh Unitarian congregations will be left without ministers*.[97]

'*The great desideratum of the Welsh Unitarians now*', meddai, '*appears ... to be an institution for educating 2 young men annually for the ministry in Wales, since the Caermarthen College seems to have ceased to be of any benefit to Welch Unitarianism'*.[98]

I dorri'r stori yn fyr, bu farw'r Dr Jones yn 1858 ac ni ddaeth dim o'i gyfoeth i goffrau Academi Caerfyrddin, ac edliwodd James y ffaith mai rhagfarn wrth-Undodaidd David Peter a fu wrth wraidd eu gwrthodiad i'r sefydliad gymaint o flynyddoedd ynghynt:

> *In expressing your obligation to the Manchester College* [symudodd Academi Caerfrog i Fanceinion yn 1840], *you necessarily brought to my mind the circumstancees of our admittance to the Caermarthen College being refused on account of our suspected Unitarianism; and it appears to me that your donation would be best applied to the support of young men in our then condition*.[99]

Yn ei ymdriniaeth fanwl â'r ohebiaeth rhwng Daniel Jones a John James, dangosodd Walter J. Evans, a fu yntau'n brifathro Academi Caerfyrddin rhwng 1888 a 1920, bod sylwadau James yn fwriadol yn adlewyrchu'n wael ar diwtoriaid yr Academi. Haerodd James iddo yntau a Jones gael eu gwrthod ar gyfrif eu '*suppossed* heretical Unitarian sentiments' a'u '*suspected* Unitarianism', geiriau a oedd yn awgrymu nad oedd eu hanuniongredd yn wybodaeth gyffredinol, ac nad ar sail hynny y cawsant eu gwrthod, 'otherwise Mr. James would not have said *suppossed* or *suspected*'.[100] Yn ôl Walter Evans, dyfalu roedd James ynghylch achos eu gwrthodiad. Yng nghysgod yr anghydfod ynghylch achos gwrthodiad Henry Davies, barnodd Evans y byddai Peter wedi bod yn rhyfeddol o ffôl petai ganddo bolisi o wrthod lle i Undodiaid. Yn wir, 'That Unitarians *qua* Unitarians were deliberately excluded at a time when "half the students ... were proffessedly Unitarians" [geiriau yr ymgeisydd llwyddiannus er yn Undodwr yn y *Monthly Magazine* (1813), 119] is well nigh incredible'.[101] A does dim amheuaeth fod dadl Evans yn argyhoeddi:

> Now, it is not likely, on the face of it, after the hubbub that had been made in 1801 over the case of Henry Davies, and the repudiation by the Board of any anti-Unitarian policy, that Mr. Peter would have wantonly repeated the high-handed action attributed to him by his detractors.The utmost that can be said of him with certainty is that for the two vacancies at the College at Midsummer, 1802 - in preference to other candidates, including John James and Daniel Jones, the pupils of his persecutor, Dr Charles Lloyd - he recommended, perhaps in redemption of a half promise, two capable men who had been prepared under his own eye at the College school, viz., D. P. Davies (his nephew), the future historian of Derbyshire, and James Griffiths, for long years an honoured minister in Pembrokeshire.[102]

---

[97] James at Jones, 8 Gorffennaf 1853, yn Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:1', 11-2.
[98] James at Jones, 18 Gorffennaf 1853, yn Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:1', 12.
[99] James at Jones, 27 Hydref 1853, yn Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:1', 14.
[100] Walter J. Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:2', *Antiquarian Notes,* 4/37 (1906), 17-27 [20].
[101] Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:2', 21.
[102] Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:2', 20-1.

Dyna ddau fyfriwr addawol a dweud y lleiaf. Ac fel y prifathro, roedd gan Peter hawl i argymell i'r Bwrdd y myfyrwyr y gwelai ef yn dda i'w derbyn. Yn ôl y rhestr o ddeuddeg myfyriwr a oedd yn yr Academi ar gyfer tymor 1802-3 roedd dros eu hanner yn Undodiad proffesedig.[103] Ar ben hynny, nid awgrymodd Daniel Jones yn unman yn yr ohebiaeth iddo gael ei wrthod ar dir 'suppossed heretical Unitarian sentiments' neu 'suspected Unitarianism'. Yn ei lythyr at James, 1 Mehefin 1854, cyfeiria yn syml at ei 'rejected admission' i'r Academi, heb ddal unrhyw falais na dig.[104]

Beth bynnag am farn wenwynig Charles Lloyd, drwgdeimlad John James a chasgliad negyddol R. J. Jones a ddilynwyd gan J. Gwili Jenkins, ac ymddengys fod T. Oswald Williams wrth gloi ei bennod ar 'Addysg a Choleg Caerfyrddin' yn cydsynied â'r farn honno.[105] Ond gellir dweud bod Walter J. Evans wedi llwyddo (fel y gwnaeth Dewi Eirug Davies yn ddiweddarach) i achub cam David Peter: 'On the whole, my observation in the *Ymofynydd* for 1901 stand good,[106] and are not to be invalidated by the random assertions to which R. J. J. has given currency in his *Unitarian Students*'.[107] Er gwaethaf y barnu a fu arno a'r ymgais i bardduo ei gymeriad, cadwodd Peter ymddiriedaeth y Bwrdd Presbyteraidd a bu'n uchel ei barch yng ngolwg sbectrwm eang o weinidogion, uniongred ac anuniongred fel ei gilydd, ar hyd ei yrfa faith.

## 4. Yr addysg a gyfrennid yng nghyfnod Peter

Roedd safonau addysg yn yr academïau Ymneilltuol erioed wedi amcanu at fod yn uchelgeisiol iawn. Bernir bod safon addysg yr academïau wedi bod cystal os nad yn uwch na safon addysg yn y prifysgolion.[108] Trwy gydol cyfnod llywyddiaeth Peter roedd bywyd yr Academi wedi rhedeg yn llyfn, ac wrth arolygu'r addysg yn flynyddol byddai'r Bwrdd Presbyteraidd yn gwerthfawrogi ei arweiniad yn wresog. Nid oedd hyn yn fwy nag yn sgil ymweliad cynrychiolwyr y Bwrdd â'r Academi ym Mehefin 1826. Cynhaliwyd y cyfarfod blynddol y flwyddyn honno yn Neuadd y Dref, gan mai yno, dros dro, yr addolai eglwys Heol Awst tra roedd y gwaith o adeiladu addoldy newydd yn mynd yn ei flaen. Hwyluswyd y symudiad hwn yn dilyn priodas Peter â Charlotte Nott, chwaer y Cadfridog, Major General Sir William Nott, gŵr tra phwysig ym mywyd y dref. Roedd y briodas hon, ynghyd â'r ffaith fod nifer cynyddol o fasnachwyr a chynghorwyr y dref bellach yn aelodau yn Heol Awst, yn dangos fel roedd statws Peter a'i eglwys wedi codi. Prin y byddai Ymneilltuwyr wedi cael cynnal eu cyfarfodydd yn Neuadd y Dref hanner can mlynedd ynghynt, ond erbyn hyn roedd yna ymdeimlad ym Mwrdeistref Caerfyrddin fod yr Ymneilltuwyr 'wedi cyrraedd'.[109]

---

[103] Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:2', 21.
[104] Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:2', 21-2.
[105] Williams, *Undodiaeth a Rhyddid Meddwl*, t. 295.
[106] Gw. Evans, 'Carmarthen College 13: David Peter' yn ***Yr** Ymofynydd*, Mai 1901, Rhif 5, 99-102.
[107] Evans, 'Dr Daniel Jones' Fund:2', t. 22.
[108] Gweler y wefan *Dissenting Academies Online: Database and Encyclopaedia*, Dr Williams's Centre for Dissenting Studies, https://www.qmul.ac.uk/sed/religionandliterature/dissenting-academies/dissenting-academies-online/. Cf. H. McLachlan, *English Education Under The Test Acts* (Manchester: Manchester University Press, 1931), tt. 16-7.
[109] Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 64.

Wedi treulio amser yng ngwmni'r gweinidogion ar y dydd Iau yn y cyrddau pregethu, treuliodd ymwelwyr y Bwrdd ddeuddydd yn arholi'r myfyrwyr mewn ystod eang o bynciau. Ar y dydd Gwener arholwyd y dosbathiadau iau mewn Geometreg a rheolau cyntaf Algebra a'r myfyrwyr hŷn yn 'Equations', 'Conic Sections' a 'Trigonometry'. O ran yr ieithoedd, arholwyd y myfyrwyr iau yn netholion o Fersil  a Livy, a'r myfyrwyr hŷn yn Horas, yna, ag eithrio myfyrwyr y flwyddyn gyntaf, arholwyd y gweddill mewn Hebraeg. Erbyn y prynhawn arholwyd y myfyrwyr iau mewn Rhesymeg a'r myfyrwyr hŷn mewn Diwinyddiaeth a Hanes yr Eglwys. Parhawyd ar fore Sadwrn, gan dreulio cryn amser yn arholi yng Ngroeg y Testament Newydd ac yn Homer, yn cael eu dilyn gan brofion mewn Athroniaeth Naturiol, Hynafiaethau Iddewig a 'Belles Lettres'. Cwblhawyd yr arholi gydag un o'r myfyrwyr hŷn yn traddodi pregeth Saesneg er mwyn enghreifftio gallu'r Academi i drwytho'r myfyrwyr yn yr iaith honno. Diweddwyd gydag anerchiad gan y dirprwywyr yn cynghori'r myfyrwyr i fod yn ddyfal yn eu hastudiaethau a'u hannog i ymddwyn yn briodol gan gofio natur gysegredig yr alwedigaeth roeddent yn hyfforddi ar ei chyfer.[110] Doedd dim amheuaeth fod yr ymwelwyr wedi'u plesio yng nghyflawniadau y tiwtoriaid a'r myfyrwyr yr un modd. Am y staff: 'They had abundant reason to be convinced that the tutors had fullfilled their arduous duties with ability, fidelity and zeal'.[111] Credent hefyd bod y myfywywr yn ddiwyd ac yn gydwybodol ac roedd y ganmoliaeth iddynt yn eithradol:

> Not a single complaint was refered against any student for the least impropriety of conduct since his admission into the Academy. They received from the tutors the most unreserved assurances of the strict and exemplary demeanour of all the young men under their care.[112]

Roedd gair da hefyd i ymddygiad y myfyrwyr ac i'w moesau da gan drigolion y dref. Dychwelodd y dirprwywyr yn gwbl fodlon nad oedd ymdrechion y Bwrdd Presbyteraidd o blaid gweinidogaeth oleuedig yng Nghymru yn ofer. Roedd cryn fodlonrwydd yn y ffaith mai un o gryfderau'r Academi oedd yr egwyddorion rhyddfrydig a ymarferid yno:

> It seems to be the general opinion that a greater part of the benefit produced by the Academy at Carmarthen is to be ascribed to the liberal principles in which it is conducted, to its imposing no test, no subscription to articles of faith; permitting and encouraging the utmost freedom of inquiry; and placing no restrictions on the open avowal of the honest convictions of  the students, whatever theological sentiments they may profess, beyond what may be demanded by the respect and decorum, in reference to language and manner, which are due to all important subject of religion.[113]

Roedd i awyrgylch rhyddfrydig y coleg gyda'r gwahaniaeth farnau ymhlith y myfyrwyr ei werth: 'The students here are early habituated to cultivate and to exercise towards one another a spirit of mutual candour and forbearance'.[114]

---

[110] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826; am gwricwlwm yr academïau Cymreig yn gyffredinol, gw. R. Tudur Jones, 'Diwylliant colegau Ymneilltuol y bedwaredd ganrif ar bymtheg', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol 5* (Dinbych: Gwasg Gee, 1970), tt. 112-49.
[111] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826
[112] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826
[113] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826
[114] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826

Ond nid oedd unrhyw orffwys ar rwyfau i fod chwaith. Roedd angen ystyried rhai gwelliannau megis sut i godi cymwysterau mynediad, ambell i beth ynghylch y cwricwlwm, a natur yr arholiadau. Roedd angen hefyd i wella'r llyfyrgell, a neilluwyd £10 ar gyfer trwsio hen lyfrau a phrynu rhai newydd.[115] Yn Chwefror 1827 penderfynwyd bod angen i bob ymgeisydd gael dau lythyr cymeradwyaeth oddi wrth weinidogion Ymneilltuol a oedd wedi derbyn addysg athrofa eu hunain, yn tystio i gymeriad dilychwyn yr ymgeisydd ac i'w ymroddiad i'r weinidogaeth; bod angen prawf eu bod wedi astudio Saesneg ac yn deall rheolau ei gramadeg, eu bod yn medru darllen Fersil yn ddeallus mewn Lladin, a'r Testament Newydd yn y Roeg ac nad oedd neb i'w derbyn dan bymtheg oed, na thros 25 oed.[116] Roedd y drefn o arholi'r myfyrwyr yn parhau, gyda thri gweinidog yn gyfrifol am yr arholi blynyddol rhwng ymweliadau y dirprwywyr swyddogol bob tair blynedd. Yn ychwanegol at y rheolau hyn, datganodd y Bwrdd na ddylai pregethu ar y Sul fod yn esgus i fyfyrwyr esgeuluso'u gwersi ar y Llun.[117] Rhag rhoi'r argraff bod y Bwrdd yn llawdrwm, fe'u hysbyswyd bod y goreuon ymhlith y myfyrwyr, pob tair blynedd, i dderbyn £10 rhyngddynt, a bod dwy gini i'w roi i'r myfyriwr a ofalai, yn ei flwyddyn olaf, am y llyfyrgell. Gan fod y cymwysterau mynediad yn uwch nag yn y gorffennol, ar gyngor y Bwrdd, awgrymwyd bod yr athrawon yn paratoi cynllun gwaith mwy boddhaol. Erbyn 1828 roedd cwricwlwn newydd wedi ei gyflwyno:

*Tiwtor Diwinyddiaeth*
*Blwyddyn Gyntaf*
Rhesymeg, Hebraeg.
*Ail Flwyddyn*
Hebraeg, Diwinyddiaeth.
*Trydedd Flwyddyn*
Hebraeg a Chaldaeg, Diwinyddiaeth, Beirniadaeth Feiblaidd, Hynafiaethau Iddewig,
Hanes yr Eglwys, Darlithoedd ar Bregethu ac Athroniaeth Naturiol.
*Pedwaredd Flwyddyn*
Hebraeg a Chaldaeg - Diwinyddiaeth, yn ddilyniant o'r flwyddyn flaenorol.

*Tiwtor y Clasuron*
*Blwyddyn Gyntaf*
Esboniadau Cesar, Sallust, Fergil, Aenid; Horas - Odes; Groeg y Testament Newydd,
Xenephon, Geometreg, Algebra mor belled a'r equations.
*Ail Flwyddyn*
Sallust, Livy, Virgil - Georgics; Horas - Epistolau a'r *Satires*, Groeg y Testament Newydd,
Deialogau Lucian, Homer - *Iliad*, Llyfr 1-6. Universal Grammar, 'Belles Lettres',
Daearyddiaeth Hynafol a Modern, Hanes, Conic Sections, Algebra.
*Trydedd Flwyddyn*
Cicero, Juvenal, Groeg y Testament Newydd, Dalzell's *Collectanea*.
*Pedwaredd Flwyddyn*
Cicero *de officiis*, Tacitus, Terence, Dalzell (parhad), Septuagint,
Parhad y darlithoed nad oedd yn Glasuron.

[115] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 2 Hydref 1826
[116] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Chwefror 1827.
[117] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 3 Rhagfyr 1827.

I gydredeg â'r cwricwlwm roedd myfyrwyr y flwyddyn gyntaf i gael copi o ddarlithoedd Doddridge. [118]

Gwelir oddi wrth y cwricwlwm newydd fod y myfyrwyr yn cael eu hyfforddi mewn amrywiaeth eang o bynciau. Nid oedd cael addysg mewn amrediad eang o bynciau yn anghyson â gweledigaeth Peter ynghylch natur y weinidogaeth. Wrth annerch y myfyrwyr ar ddechrau sesiwn 1796, tanlinellodd mai camgymeriad oedd tybio mai astudio Diwinyddiaeth yn unig oedd gorchwyl darpar weinidog: 'In order to be a divine, a person must be a classic, a mathematician, a philosopher, an astronomer, a historian, as well as a diligent pious Christian'.[119] Gobeithiai y byddai'r myfyrwyr yn ymwybodol o'r angen i gymhwyso eu hunain yn y gwahanol ganghennau o ddysg ac y byddent, erbyn diwedd eu cwrs, yn medru darllen y Beibl ynghyd â llawer awdur clasurol yn yr ieithoedd gwreiddiol.[120] Am y pynciau eraill, roedd Mathemateg yn angenrheidiol i'w datblygiad ac i'w ffyniant i'r dyfodol:

> Of all the sciences, which subserve to call forth the spirit of enterprise and enquiry, there is none more eminently useful than mathematics. By an early attachment to these studies, we acquire a habit of reasoning, and an elevation of thought, which fix the mind, and prepare it for every other pursuit.[121]

Credai hefyd bod Athroniaeth Naturiol yn perffeithio rheswm dyn ac yn prydferthu'r meddwl â syniadau defnyddiol, gan ei alluogi i wyrdroi dadleuon ffals a honiadau peryglus anghrediniaeth.[122] O'r flwyddyn gyntaf, roedd angen i'r myfyrwyr dalu sylw i egwyddorion Rhesymeg, 'an art, of which no reasonable being, possessing the privilege and opportunity of acquiring it, ought to be ignorant, especially those, who are trained up for the ministry'.[123] Roedd angen ymgyfarwyddo â Hanes: 'History has always been considered the light of ages, the depository of events, the faithful evidence of truth, the source of prudence and good counsel, and the rule of conduct and manner'.[124] Heb ddeall teithi'r gorffennol, aros yn blentyn fyddai dyn gan fod yn ddieithr i'r hyn sy'n digwydd yn y byd. Ac er mwyn bod yn hanesydd da roedd angen hefyd astudio Daearyddiaeth ac Amseryddiaeth: 'It will be but an imperfect acquisition, to know that such events have happened, except you know also when and where, they have transpired'.[125] Mynnodd Peter y dylai'r holl bynciau hyn fod yn llawforynion i astudio'r Ysgrythurau, ac yn help i weinidog gyfansoddi pregethau a'u traethu'n gelfydd. A chan fod eu gwaith yn fawr a'r amser yn brin, anogodd y myfyrwyr i beidio â meddwl bod pedair blynedd yn y coleg yn amser hir i fod yn paratoi ar gyfer y weinidogaeth. Fe'u cymhellod i fod yn ddyfal yn eu gwaith, yn enwedig wrth feddwl am y fath amrywiaeth o wybodaeth sydd eu hangen er mwyn bod yn weinidogion anrhydeddus a llwyddiannus.[126]

Er y gellid tybied fod delfrydau Peter yn rhy anymarferol, a bod rhychwant rhy eang o bynciau yn golygu mai crafu'r wyneb a wnâi'r tiwtoriaid; meddai Dewi Eirug Davies:

---

[118] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Mai 1828
[119] Lewis, *Memoir*, t. 76.
[120] Lewis, *Memoir*, t. 76.
[121] Lewis, *Memoir*, t. 77.
[122] Lewis, *Memoir*, t. 77.
[123] Lewis, *Memoir*, t. 78.
[124] Lewis, *Memoir*, t. 78.
[125] Lewis, *Memoir*, t. 78.
[126] Lewis, *Memoir*, t. 75.

> Un feirniadaeth yn erbyn Caerfyrddin oedd fod y pynciau y ceisiwyd ymgodymu â hwy yn rhy niferus, ac o'r herwydd byddai'n anodd gwneud cyfiawnder â phynciau mor amrywiol â Chemeg, y Gwyddorau Naturiol, Astronomi, Almaeneg, Syrieg ac Aramaeg,[127]

Eto, bu rhaid iddo yntau gyfaddef: 'Ond wrth fodio tudalennau Cofnodion y Bwrdd yn ystod llywyddiaeth David Peter a David Lloyd, a chraffu hefyd ar sylwadau'r ddeuddyn hyn, yr argraff a gawn yw nad oedd nifer y pynciau, a siarad yn gyffredinol, yn faen tramgwydd'.[128]

## 5. Ysgolheictod David Peter a'i *Hanes Crefydd yn Nghymru*

O ran Peter ei hun, addysgydd ydoedd a gweinidog yn hytrach nag ysgolhaig creadigol a phraff. Fel dyn ifanc gwnaeth yn fawr o'i hyfforddiant yn yr ieithoedd clasurol o dan David Davis yng Nghastellhywel, a chreodd argraff ar ei athrawon yn Academi Abertawe yn neilltuol yn y Clasuron, Mathemateg a Hanes.[129] Nid oedd dim amheuaeth ym meddwl y Bwrdd Presbyteraidd mai ef y dylid ei benodi'n llywydd Academi Caerfyrddin yn 1795, a dangosodd fod ganddo'r cyneddfau priodol i lywio'r sefydliad am bron i ddeugain mlynedd wedi hynny. Nid ymddengys fod unrhyw gwynion o blith y myfyrwyr am ansawdd ei ddysgu, ond o'i gymharu â, dyweder, y Dr George Lewis yn athrofa'r gogledd ym maes esboniadaeth feiblaidd, neu'r Dr Edward Williams o Academi Rotherham yn natblygiad diwinyddiaeth, prin oedd ei gyfraniad arhosol i fyd dysg.

Prin hefyd oedd ei gynnyrch llenyddol. Yn 1803 cyhoeddwyd ei gyfieithiad o waith Samuel Palmer sef *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd*.[130] Holwyddoreg ydoedd yn egluro hanfodion y ddealltwriaeth Ymneilltuol ynghylch natur a llywodraeth eglwys mewn gwrthgyferbyniad â'r hyn a ddysgai Eglwys Loegr. Fe'i cyhoeddwyd yn sgil twf aruthrol Ymneilltuaeth boblogaidd ac mewn ymateb i'r galw gan gymanfaoedd yr Annibynwyr am ddeunydd hyfforddi yn yr eglwysi a oedd yn cael eu sefydlu ar garlam ledled y wlad. Mae lle i gredu fod y gwreiddiol o eiddo Palmer wedi ysgogi Dr George Lewis i gyhoeddi ei *Catecism Eglwysig* yn 1805.[131] Ag ystyried iddo draethu cannoedd os nad miloedd o bregethau, dim ond dwy (hyd y gwyddom) a gyhoeddodd, sef *Y Dydd yn Gwawrio* (1809), a *Universal Diffusion of the Gospel* (1813), y ddwy ar bwnc a oedd yn agos iawn i'w galon, y genhadaeth dramor. Yn ôl dull llawer o gofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae rhan gyntaf y *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (1846) gan W. H. Lewis wedi ei ysgrifennu ganddo ef ei hun. Mae'n amlwg iddo ragdybio y byddai cyfrol yn tafoli ei fywyd a'i waith yn ymddangos rywbryd yn y dyfodol. Mae'r *Memoir* yn storfa o wybodaeth am ddydiau cynar

---

127 Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, t. 147.
128 Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, tt.147-8.
129 Gweler Pennod 3 uchod, t. 62.
130 David Peter (gol.) Samuel Palmer, *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd: gwedi ei fwriadu i addysgu a chadarnhau Pobl Ieuainc yn mhlith yr Ymneillduwyr yn Egwyddorion Anghydffuriaeth* (Caerfyrddin: J. Evans, 1803).
131 Gweler Pennod 7 uchod, t. 152.

Peter, er na chredai Walter J. Evans ei fod yn waith mawr. Ag eithrio'r llun da o Peter a'r bennod hunangofiannol, 'it is otherwise', meddai, 'a work of little value'.[132]

Heb amheuaeth, ei brif waith llenyddol yw ei gyfrol *Hanes Crefydd yn Nghymru, o'r amser y daeth y Cymry i Ynys Brydain hyd yr amser presennol* a gyhoeddwyd yn 1816.[133] Meddai yn ei ragymadrodd:

> Mae hanes crefydd yn gyffredinol yn ddefnyddiol i helaethu gwybodaeth o bethau perthynol i'n dedwyddwch, i gadarnhau ein ffydd yn athrawiaethau yr efengyl, i helaethu ein cariad at Dduw a dyn, ac i lanw ein calonau â sêl dros y gwirionedd.[134]

Hynny yw, nod ymarferol yn hytrach nag un ysgolheigaidd bur oedd ganddo. Roedd ei gymydog Titus Lewis, gweinidog eglwys Bedyddwyr y Porth Tywyll, wedi cyhoeddi ei *Hanes Wladol a Chrefyddol Prydain Fawr* yn 1810, a'r Methodist Calfinaidd Thomas Jones o Ddinbych wedi rhyddhau ei *Hanes Diwygwyr, Merthyron a Chyffeswyr Eglwys Loegr* ('*Y Merthyrdraith*') yn 1813, a'r ddwy gyfrol yn goleuo hanes crefyddol y genedl ar gyfer darllenwyr eiddgar. Roedd y ddau waith yma'n fwy arhosol eu gwerth na llyfr Peter, gyda'r Bedyddiwr yn canoli ar egwyddor goddefgarwch crefyddol[135] a'r Methodist yn olrhain y llinyn Calfinaidd a redai trwy hanes Cymru.[136] Nod mwy plaen oedd gan Peter, sef adrodd yn syml stori'r ffydd yn Ynys Prydain i ddechrau, yna yng Nghymru, ar gyfer y genhedlaeth newydd a oedd yn codi. Roedd wedi ymroi i'r gorchwyl o'i pharatoi, meddai, ar anogaeth llawer o'i gydwladwyr. Mae'r gwaith ei hun yn gynnyrch hwyr yr adfywiad diwylliannol a'r diddordeb cynyddol ym mhob dim Cymreig a gafwyd yn ystod y ddeunawfed ganrif.[137] Er mor anrhydeddus oedd ei gymhellion, a mor frwd oedd ei ysbryd, a lwyddodd i wireddu ei amcanion sydd gwestiwn. Cynhwysai'r gwaith ugain o benodau, pennod i bob canrif, gyda'r bennod gychwynnol yn mynd yn ôl i'r cyfnod cyn-hanesyddol. Mae hi'n agor trwy adrodd stori Noa wedi'r Dilyw yn llyfr Genesis, gan fynnu mai ei ddisgynyddion ef, wedi i'r iethoedd gael eu cymysgu yn Nhŵr Babel, oedd y Cymry â'u derwyddon:

> Mae'n ddiamheuol mai hiliogaeth Gomer, wŷr Noa, yw y Cymry; ac nid anhebygol yw, mae o Ascanas mab hynaf Gomer y discynasant. Gwedi i'r Cymry drigo yn Thracia nes iddynt fyned yn rhy liosog i fod yn gysurus yno yn hŵy, cawsant eu dosparthu yn llwythau, llawer o ba rai a gymmerasant eu taith tu a'r gorllewin, gan geisio preswylfëydd newyddion a helaethach.[138]

Er mor annhebygol yw'r dyb hon i ni, roedd yn rhan o etifeddiaeth haneswyr Rhamantaidd y ddeunawfed ganrif, ac roedd llawer o rai a ystyrrid yn academaidd barchus ar y pryd, yn ei

---

132 Evans, 'Carmarthen College, 13. David Peter', 102.
133 Am ymdriniaeth fanwl o ffynonellau *Crefydd yn Nghymru* David Peter gw. Morgan, *Theologia Cambrensis: 2. The Long Nineteenth Century,* tt.137-8.
134 David Peter, *Hanes Crefydd yn Nghymru o'r amser y daeth y Cymry i Ynys Brydain, hyd yn amser presennol* (Caerfyrddin: J. Evans, 1816), t. ii.
135 Gw. Davies, *Pobl y Porth Tywyll,* tt. 52-5.
136 Gw. ymriniaeth R. Tudur Jones â'i arwyddocâd yn, 'Y genedl Galfinaidd a'i llên', D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 255-84 [258-60].
137 Gw. Prys Morgan, *The Eighteenth-Century Renaissance* (Llandybie: Christopher Davies, 1981), *passim.*
138 Peter, *Hanes Crefydd yn Nghymru*, tt. 2-3.

choleddu.[139] Nid yn sgil ei farn am hil Gomer a'r Cymry gyda'u derwyddon y collfarnwyd y llyfr gan Iolo Morganwg, ond am ei natur gwmpasog a'i gynhwysion di-drefn: 'A mad-Moll's pitcher into which she put everything which was given her in her begging rambles ... Such ... is poor Peter's Welsh ecclesiastical history'.[140]

Gan mai yn 1816 y cyhoeddwyd y gyfrol, dim ond bras gyffwrdd â chychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a wnaeth Peter yn ei bennod olaf, ond hwyrach fod yr ymadrodd 'bras gyffwrdd' yn ddisgrifiad cywir o'r gyfrol ar ei hyd. Gan gydnabod mai tasg anodd oedd adrodd hanes crefydd y Cymry gydag unrhyw fanylder mewn un gyfrol, mae'r crynhoi, fodd bynnag, yn friwsionllyd ac yn llac. Ei brif ffynonellau wrth adrodd hanes y Diwygiad Protestannaidd yn Lloegr oedd dwy gyfrol Gilbert Burnett *History of the Reformation of the Church of England* (1679-81) tra mai cyfrolau Daniel Neal *A History of the Puritans* (1732-8) oedd yr ysbrydoliaeth iddo wrth adrodd hanes Ymneilltuaeth y deyrnas. Mewn pethau penodol Gymraeg a Chymreig, pwysodd yn helaeth ar *Ffydd Ddi-ffuant* (1671) Charles Edwards a chyfrol Joshua Thomas *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry* (1778). Yng ngwrs y gwaith y mae'n cyfeirio at ddatblygiadau diwylliannol ac yn ofalus wrth gofrestru prif feirdd pob cyfnod. Rhydd sylw digon cydradd i'r gwahanol draddodiadau crefyddol ac mae'n gytbwys yn ei adroddiadau, heb ddangos ffafriaeth i'r achos Annibynnol. O ran olrhain hanes yr ymrafaelion athrawiaethol yn ei enwad ei hun, gwta dudalen yn unig a neilltuwyd i'r ymraniad pwysig yn Henllan ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif.[141] Gyda'i ddiddordeb ysol yn y genhadaeth dramor, nid syn yw darllen ei adroddiad optimistig obeithiol amdani yn y bennod clo. Ond at ei gilydd, catalogaidd ac anfeirniadol yw *Hanes Crefydd yn Nghymru* ar ei hyd. Yn hytrach na thafoli'r deunydd yn daclus a thynnu'r casgliadau priodol yn ofalus, pentwr o ffeithiau ydyw yn bennaf, er ei bod yn deg dweud fod yr awdur wedi 'cynnull a thrysori hanesion diddorol'.[142] Y mae, fodd bynnag, yn amddifad o ddawn ysgrifennu lliwgar Theophilus Evans yn ei glasur *Drych y Prif Oesoedd* (1740), ffynhonnell (yn rhyfedd iawn) na ddyfynnodd ohoni. Serch hyn, fe gadwodd y gyfrol ei hapêl. Ailgyhoeddwyd y gwaith yn 1851, ac fe'i defnyddiwyd fel llyfr gosod yn y colegau diwinyddol i mewn i'r ugeinfed ganrif. Eithr fel y dywedwyd, nid mewn llenydda ac ysgolheictod ffurfiol roedd gwir gryfder Peter.

Er gwaethaf y parch dwfn yr enynnodd gan ei fyfyrwyr, gwyddai'r mwyaf craff yn eu plith nad ysgolhaig o'r radd flaenaf oedd eu prifathro ond yn hytrach weithiwr dyfal a chydwybodol â'i gonsyrn tuag atynt yn fawr. Yn ôl James Griffiths:

> Nid wyf yn golygu ei fod ef yn ddyn o alluoedd neillduol o gryfion; ond yr oedd wedi cael manteision da, ac yr oedd yn ddyn hynod o ddiwyd a llafurus, a thrwy hyny yr oedd wedi cyrhaedd gradd o wybodaeth gyffredinol, lawer uwchlaw y cyffredin o'i frodyr yn y weinidogaeth. ... yr oedd fel Athraw yn un diwyd a ffyddlon. Nid oedd un amser yn esgeulus, ac ni oddefai chwaith i neb o'r dynion ieuainc esgeulusо.[143]

[139] Trafodir hyn yn helaeth gan Morgan, *The Eighteenth-Century Renaissance.*
[140] Llythyr at y Dr Thomas Rees, 25 Chwefror 1814, yn Geraint Jenkins et al (goln), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, Vol. 3 (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 246.
[141] Peter, *Hanes Crefydd yn Nghymru*, t. 615.
[142] J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (Caerfyrddin: W.M. Evans a'i Fab, 1926), t. 49.
[143] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths, Tyddewi*, t. 13.

Tra yng Nghaerfyrddin roedd Griffiths wedi eistedd dan weinidogaeth Peter yn Heol Awst ac roedd ganddo feddwl uchel ohono fel pregethwr, ac yn werthfawrogol o'r dylanwad da gafodd ei weinidogaeth ar ei brifiant:

> Yr oedd yn fanteisiol iawn i mi hefyd fel crefyddwr fod dan weinidogaeth Mr Peter ar y Saboth. Yr oedd ei bregethau ef yn gyffredin yn llawn o faterion pwysig, a'r rhai hyny wedi eu trefnu mor gyson, a'u trafod mor eglur, fel yr oedd yn hawdd eu deall a'u cofio, ac y cwbl o duedd ymarferol dda.[144]

Wrth bwyso a mesur cyfraniad David Peter o ran ei alluoedd ac fel pregethwr a gweinidog, tebyg iawn oedd barn Thomas Rees a John Thomas amdano:

> Yr oedd yn Mr. Peter gydgyfarfyddiad o wahanol ragoriaethau a'i gwnai yn un o'r gweinidogion mwyaf defnyddiol a llwyddianus yn ei oes. Nid oedd yn meddu athrylith a doniau hyawdl y fath ag a'i gwnelai yn bregethwr poblogaidd, ac nid oedd tlysni celfyddydol yn ei bregethau ag a swynai ei wrandawyr, na tharawiadau cyffrous i'w brawychu a'u dychryn; ond yr oeddynt yn meddu y fath symledd ac eglurdeb, fel nad oedd yn bosibl i neb a wnai y sylw lleiaf, beidio a'u deall ... Bu trwy ei oes yn ddyn diwyd a llafurus; a gellir priodoli ei lwyddiant yn fwy i'w ffyddlondeb a'i ddyfalbarhad nac i ddysglaerdeb ei dalentau naturiol ... Llwyddodd yn fawr fel gweinidog, ac yr oedd ei ddylanwad bron yn ddiderfyn dros bawb yn yr eglwys.[145]

O ran ei ysgolheictod a'i alluoedd tebyg iawn oedd casgliadau Walter J. Evans am Peter: 'Though he cannot be credited with unusual powers as a scholar or teacher, he attained a considerable reputation, to which his success as a preacher greatly contributed'.[146]

## 6. Cydweithwyr Peter a barn Annibynwyr y de-orllewin amdanynt

Bu Peter yn llywydd Academi Caerfyrddin am ddeugain mlynedd, ac yn y cyfnod maith hynny (ar wahan i'w olynydd David Lloyd) goroesodd bob un o'r sawl a fu'n athrawon cynorthwyol gydag ef yn ystod ei dymor. Yn 1813, ar ddiwedd tymor yr haf, fe ddiswyddwyd David Davies, yr is-athro. Buwyd yn ei amau ar dir cywirdeb mewn moes a meddwl, a diswyddwyd ef oherwydd 'cyhuddiadau (nas profwyd) o anfoesoldeb'.[147] Cydnabyddir bod Peter yn weithiwr diflino, ond ceir awgrym mai un o ddiffygion David Davies oedd ei ddiogi. Mewn cyfres dan y penawd 'Dynion Enwog' yn *Y Diwygiwr* dywedwyd amdano:

> Yr oedd ynddo un diffyg neillduol ag oedd yn gwneuthur ei holl fanteision mewn mesur yn ddiwerth, a hyny oedd ei anweithgarwch. Ni fedrai, debygid, i fod yn llafurus a gweithgar gydag un peth. Yr oedd hyn yn lladd ei ddefnyddioldeb yn mhob man. Yr oedd yn llawer ry esgeulus fel Athraw y Coleg: nid oedd ol meddwl chwaith ar ei bregethau.[148]

---

[144] Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths, Tyddewi*, t. 12.
[145] *HEA*, III, t. 434.
[146] Evans, 'Carmarthen College 13: David Peter', 101.
[147] *Bywg*, t. 104.
[148] 'Dynion Enwog', *Y Diwygiwr*, 20 (Mehefin 1855), 174.

Yn ôl James Griffiths, a fu'n fyfyriwr yn yr Academi rhwng 1802 ac 1806:

> Yr oedd Mr. Davies yn ddyn hoff iawn - yn un o alluoedd cryfion, ac yn ddyn gwybodus - yn ddyn tirion a heddychol, llawn ysbryd caredig. Yr oedd hefyd o ran ei ddeall a'i ddawn fel pregethwr yn hoff; a buasai yn rhagori fel y cyfryw pe buasai yn un diwyd, myfyrgar; ond nid oedd yn gwneud ei ran yn dda fel Athraw y Coleg - yr oedd yn rhy esgeulus.[149]

Roedd Davies yn Galfin cymedrol a dywedir amdano, 'nid oedd yn gallu cydredeg i'r un eithafion ar rai pynciau Calfinaidd ag amryw o'i frodyr, ac yn gochelyd ymdrin â'r cyfryw'.[150] A oedd Peter yn drist o'i golli? 'Ni chodir y llen ar yr helynt yng nghofnodion y Bwrdd, ac ni feddyliodd David Peter am sibrwd gair yn ei gylch yn ei Hanes. Aeth i Lundain yn un swydd i drafod yr achos gyda'r Bwrdd, ac ymrwymo i ofalu am yr holl ddarlithiau hyd oni cheffid is-athro arall'.[151]

Wedi ymadawiad David Davies, yn 1814 penodwyd David Lewis Jones yn is-athro. Roedd yn gyn-fyfyriwr yn yr Academi a chydweinidog â David Davis Castellhywel, ac oddi wrth adroddiad y Dirprwywyr yn 1817, cydnabyddid fod ei wasanaeth yn gaffaeliad i'r coleg ac yn ysbrydoliaeth i'r myfyrwyr.[152] Mewn llythyr oddi wrth y ddau athro i'r Bwrdd yn 1821, meddent: 'All the students continue submisive to their Tutors, diligent in the charge of their duties, and exemplary in the whole of their conduct. ... we have nothing but what is good to report of them'.[153] Ar y pryd roedd chwech o fyfyrwyr ar eu blwyddyn olaf yn astudio 'Divinity, Eules: History, Composition, Hebrew, Greek and Latin. They are all promising young men of talents and likely to be useful'.[154] Yr argraff a geir yw nad oedd y pwysau dysgu yn feichus ac nad oedd amrediad y pynciau mor niferus ag y byddai ymhen rhai blynyddoedd.

Ar 8 Medi 1830, wedi un mlynedd ar bymtheg o wasanaeth, bu farw D. L. Jones, a phenodwyd yn ei le y Parchg John Thomas, San Clêr i ofalu dros dro am y Clasuron, ac ar ôl tymor, yn 1831 penodwyd y Parchg John Palmer o Goleg y Drindod, Dulyn yn athro yn y Clasuron a Mathemateg.[155] Yng nghyfnod Palmer bu cwyno fod Peter yn annog ei fyfyrwyr i ddysgu atebion o'r gwerslyfrau yn llythrennol o'u cof: 'Too much is required from the memory and too little from the judgments and reasoning of the learner'.[156] Ni ystyriai'r arholwyr fod hynny yn faen prawf digonol i farnu ynghylch cyrhaeddiadau'r myfyrwyr. ('Answers thus obtained, it is apparent, could furnish no just criterion by which to judge of the actual attainments and knowledg of the students.') Nid oedd y Bwrdd yn fodlon ar fethod felly ac anogasant Peter i fabwysiadu cynllun mwy effeithiol. Ond bu Palmer yn annoeth wrth leisio cwynion yn ei gefn. Fe'i rhybuddiwyd bod angen trafod y materion hyn gyda'r prifathro cyn eu cyfeirio at y Bwrdd.[157] Bu Palmer hefyd yn annoeth wrth frysio i feirniadu'r Academi am gyrhaeddiadau ac ymddygiad y myfywrwyr, gan awgrymu newidiadau ar gyfer yr arholiadau,

---

149 Simon Evans, *Cofiant y Parch. James Griffiths, Tyddewi* (Llanelli; Rees a Williams, 1860), tt. 12-3.
150 'Dynion Enwog', *Y Diwygiwr*, 20 (Mehefin 1855), 174.
151 Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 62.
152 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1817.
153 Correspondence from Tutors at Carmarthen, Llythyr i Abraham Rees, 29 Tachwedd 1821.
154 Correspondence from Tutors at Carmarthen, Llythyr i Abraham Rees, 29 Tachwedd 1821.
155 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Mai 1831.
156 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 31 Hydref 1831.
157 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 5 Rhagfyr 1831.

rheolaeth yr addysg a materion disgyblaeth.[158] Gwnaeth gais am godiad cyflog, ond fe'i gwrthodwyd.[159] Cymaint fu'r cynnwrf fel i Palmer adael yr Academi yn 1832 gan fynd yn weinidog i Dudley, Swydd Gaerefrog. Derbyniwyd ei ymddiswyddiad yn unfrydol ac ailbenodwyd John Thomas i lenwi'r bwlch dros dro.[160] I olynu Palmer a Thomas, ym Mai 1833, penodwyd David Lloyd yn diwtor yn y Clasuron a Mathemateg, cynfyfyriwr yn yr Academi a oedd wedi graddio'n MA gydag anrhydedd uchel o Brifysgol Glasgow.[161]

## 7. Helyntion y blynyddoedd olaf, 1830-5

Ar y cyfan bu tymor hirfaith David Peter fel llywydd yn gyfnod sefydlog a llwyddiannus gyda'r Bwrdd Presbyteraidd yn gefnogol iawn i'w arweiniad ac yn hael ei gefnogaeth yn ariannol. Ond blynyddoedd digon ansicr fu rhai olaf Peter wrth y llyw. Gyda'i dymor yn amlwg yn dirwyn i ben, roedd y cwestiwn yn codi ynghylch lleoliad yr Academi. Bu'r sefydliad yng Nghaerfyrddin oddi ar 1795-6 am mai yno y trigai Peter. A chyda Peter yn heneiddio a'i iechyd yn dioddef, esgorodd hynny ar fesur o ddiffyg disgyblaeth yn hanes y myfyrwyr a mesur o anrhefn.

*Tensiynau diwinyddol*

Roedd polisi y Bwrdd Presbyteraidd o sicrhau bod yr Academi yn gymeradwy i drwch yr eglwysi yn sicr wedi gweithio, oherwydd, er bod gan yr Annibynwyr academi, a fu yn y Fenni, cyn mudo yn ddiweddarach i'r gogledd, roedd nifer helaeth o blith yr Annibynwyr yn dewis astudio yng Nghaerfyrddin. Eto parodd y ffaith fod cyn lleied o ymgeiswyr o eglwysi Presbyteraidd neu Undodiaid yn ymrestru, o'u cymharu ag Annibynwyr, i rai aelodau o'r Bwrdd gwestiynu'r priodoldeb o wario cymaint ar yr Academi, a bu mwy nag un ymgais i geisio cwtogi'r cyfraniad blynyddol.[162] Bu'n siom gan rai ddeall nad oedd dim eiddo gan y Bwrdd Presbyteraidd yng Nghaerfyrddin gan mai eglwys Heol Awst oedd yn berchen ar yr adeilad, er bod y Bwrdd wedi gwario yn helaeth arno ers pan symudwyd yno yn 1795.[163] Gyda chynnydd efengyliaeth ymhlith Ymneilltuwyr Cymru ar draul yr hen Bresbyteriaeth resymoliaethol, gofynnwyd pam ddylai'r Bwrdd gefnogi safbwyntiau adweithiol? Er mwyn hyrwyddo'r achos Presbyteraidd, pasiwyd yn 1831: 'It is indispensable that no Tutor shall be hereafter appointed who is not of the Presbyterian denomination.'[164] Bu peth trafod hefyd ynghylch symud yr Academi i Lundain ac ymgysylltu â'r Brifysgol newydd yno.[165] Eithr yn wyneb cryfder cynyddol y dystiolaeth Ymneilltuol yng Nghymru boed efengylaidd neu beidio, ac er mwyn ymateb i her y coleg Anglicanaidd newydd yn Llanbedr Pont Steffan,[166] dyfarnodd y Bwrdd o blaid yr Academi a'i chenhadaeth. Dywedwyd yn 1834 y byddai'r nawdd yn dal i ddod tra byddai pedwar neu bump o fyfyrwyr Presbyteraidd ar gael bob blwyddyn i

[158] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 29 Hydref 1832.
[159] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 29 Hydref 1832.
[160] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 18 Rhagfyr 1832.
[161] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Mai 1833.
[162] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Mawrth 1831; 3 Rhagfyr 1832; 12 Chwefror 1833 a 12 Gorffennaf 1833.
[163] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Mawrth 1831.
[164] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Mawrth 1831.
[165] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Mawrth 1831.
[166] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834, cf. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 68.

wasanethu'r eglwysi Presbyteraidd yng Nghymru a Lloegr.[167] Ymhellach, roedd rhai Annibynwyr yn protestio am eu bod yn teimlo'n anesmwyth oherwydd ei fod yn ymddangos y byddai'r addysg i'r dyfodol yn gynyddol os nad yn gyfangwbl yng ngofal tiwtoriaid oedd yn Undodiaid. Yn 1835 ymwelodd dirprwyaeth ar ran y Bwrdd i archwilio'r mater:

> The deputation made various enquiries with a view to ascertain the opinions and wishes of different parties, as to the future management of the Academy. The result is that the orthodox portion of the Welsh Dissenters appear willing to unite with the heterox or either the Independents with the Presbyterians in availing themselves ... of the advantages of the institution provided the theological tutor be a man of orthodox sentiments, but that the Independents would not feel satisfied to commit the entire education of their ministers to either a single Unitarian tutor, or to two tutors holding Unitarian opinions.[168]

Yr hyn sy'n ddadlennol yw nid barn y gweinidogion uniongred oedd yr uchod: 'It must however be observed that the conclusion is founded principally on the representation of the Unitarian party, as the deputation were not able to meet with many well informed persons of orthodox sentiments'.[169]

Yn y diwedd, i ddatrys yr anghydfod, mae'n debyg bod y Bwrdd Presbyteraidd wedi gorfod plygu i ddymuniad yr Annibynwyr. Bu peth sôn am symud yr academi i Abertawe, ond 'the bias of the Welsh ministers is certainly in favour of retaining the institution at Carmarthen'.[170] Nid oedd gweinidog yr eglwys Bresbyteraidd yn Abertawe hyd yn oed, yr Undodiad John Aubrey, yn ffafriol i symud y coleg i'r dref boblog honno a hynny oherwydd yr annuwioldeb a oedd yn gysylltiedig â'r porthladd yno. Yn help i setlo'r mater derbyniodd y Bwrdd lythyr oddi wrth weinidogion cwrdd chwarter yr Annibynwyr yn datgan eu bod yn ffafrio cadw'r Academi yng Nghaerfyrddin, a dyna a gariwyd.[171] Er nad yw'r llythyr wedi goroesi, mae'n bosibl ei fod yn cyfeirio at y ffaith y byddai'r Annibynwyr yn barod i gyfrannu'n ariannol tuag at addysg eu myfyrwyr petai'r Academi yn aros yng Nghaerfyrddin. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach yng nghymanfa'r Annibynwyr yn Neuadd-lwyd 5 a 6 Mehefin 1839 pasiwyd i gyfrannu swm o £10 yn flynyddol i bob myfyriwr a dderbyniai addysg yng Ngaerfyddin. Tanlinellwyd y penderfyniad yng nghofnodion y Bwrdd:

> The ministers of the conference of the Annual Assembly held at Neuaddlwyd Cardiganshire the 5$^{th}$ & 6$^{th}$ of June 1839 beg to express their grateful sense of the kindness of the Presbyterian Board in continuing to support at Carmarthen the College for educating young men for the Christian Ministry, and they readily and cheerfully accede to present proposal of the Board communicated to them through one of their tutors, to contribute £10 annually towards the support of each student connected with them that shall in future be educated in that College.[172]

[167] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Rhagfyr 1834.
[168] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
[169] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
[170] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
[171] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
[172] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Hydref 1839.

Ac nid yn unig ynghylch cwestiwn lleoliad y coleg i'r dyfodol, ond o ran cydbwysedd diwinyddol tiwtoriad y sefydliad, roedd yn amlwg bod gan yr Annibynwyr gryn ddweud yn y mater. Bu trafod am bwy i gael i olynu David Peter, a deallodd y ddirprwyaeth a ymwelodd ar ran y Bwrdd yn 1835 mai manteisiol fyddai bod y tiwtor newydd yn gyfarwydd â'r iaith Gymraeg, a'r consensws cyffredinol oedd mai'r Annibynnwr lleol David Davies Pant-teg y dylai fod. Er bod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth un o ddiaconiaid eglwys Heol Awst, yn cymeradwyo John Breese, sef cydweinidog Peter a'i olynydd yn Heol Awst maes o law, barn y ddirprwyaeth oedd y dylid penodi Davies fel y tiwtor mewn Diwinyddiaeth ar gyflog blynyddol o £100.[173] Nid Undodiad, felly, a fyddai'n olynu David Peter fel athro mewn Diwinyddiaeth**.**[174] Er y byddai David Lloyd, gweinidog Presbyteraidd ac Undodiad, yn cael ei ddyrchafu'n brifathro wedi cyfnod Peter, Davies Pant-teg a fyddai'n gyfrifol am ddysgu Diwinyddiaeth gyda Lloyd yn parhau i fod yn gyfrifol am y Clasuron. Roedd hyn yn groes i arfer y gorffennol, sef, mai'r llywydd a fyddai'n gyfrifol am ddarlithio mewn Diwinyddiaeth.

*Materion disgyblaeth*

Yn gymysg â'r trafodaethau i sicrhau dyfodol yr Academi, bu rhaid i'r Bwrdd ym Mehefin 1835 ymyrryd mewn anghydfod oherwydd ymddygiad afreolaidd y myfyrwyr. Mae'n rhaid fod y ddirprwyaeth a ymwelodd â'r coleg flwyddyn ynghynt wedi synhwyro nad oedd pethau'n foddhaol. Oherwydd salwch David Peter, a oedd yn graddol wella wedi ymosodiad o'r parlys, ni arholwyd y myfyrwyr â'r trylwyredd arferol. Eto, roedd y Bwrdd yn fodlon ar eu perfformiad, a thalasant glod uchel i dalentau rhai ohonynt: 'The students throughout the whole of these trying examinations aquitted themselves generally in a very creditable manner, several of them exhibiting indications of talents of great promise'.[175] Dywedwyd ymhellach:

> The deputation have great pleasure in observing that this interest was produced in no inconsiderable degree by the institution of Mr Lloyd's prizes which were for the first time awarded and distributed on the occasion. Nor ought the deputation to omit mentioning that the use of Mr Peter's spacious Meeting House was granted for the occasion, and that in it all the examinations were conducted in the most public and open manner.[176]

Canmolwyd David Lloyd yn fawr iawn ar gyfrif ei lwyddiant yn y gwaith ac fel roedd ei egni wedi gwneud i fyny am anallu Peter i ddysgu yn foddhaol. Ystyriwyd bod cael canolbwyntio fwy ar y Clasuron am y tro wedi bod yn ennill i'r myfyrwyr:

> by superabundance of industry on the part of Mr David Lloyd, and the defficiencies in the theological department are perhaps the less to be regretted when it is considered that the greater attention of the students to their classical and mathematical studies may perhaps have tended to produce a refinement of taste and accuracy in the use of their reasoning faculties, which may afford no inconsiderable recompense for the want of learning mere strictly metaphysical or theological.[177]

---

[173] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.
[174] William Jones, *Cofiant y Parch. David Davies, diweddar weinidog y Pantteg a Pheniel, Sir Gaerfyrddin* (Abertawy: E, Griffiths, 1867), tt. 24-5
[175] *Christian Reformer* (Gorffennaf 1834), 572-3.
[176] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.
[177] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.

Er bod hyn yn adlewyrchu'n wael ar Peter, roedd hi'n amlwg fod cryfderau Lloyd wedi cael cyfle i ddisgleirio. Canmolwyd ei waith da, er eu bod yn synhwyro bod mawr angen am adfer disgyblaeth ymhlith y myfyrwyr. Yn nhyb y dirprwywyr, ymroddiad a phenderfyniad Lloyd oedd wedi llwyddo i atal yr ysbryd anufudd: 'he has completely succeeded in checking the spirit of insubordination'.[178] Byddai'r ysbryd hwn, ysywaeth, yn gwaethygu yn ystod blwyddyn olaf llywyddiaeth Peter. Eto buwyd yn rasol wrth ymagweddu tuag ato gan dalu teyrnged uchel iawn i'w arweiniad yn sicrhau goddefgarwch ym mherthynas y gwahanol enwadau â'i gilydd. Oherwydd David Peter, meddid,

> the Carmarthen Academy had a very favourable influence in consequence of the open and liberal principles in which it had always been conducted in abating the mutual antipathy and animosity of the different denominations in disposing them to cherish towards one another the true spirit of the Christian Religion.[179]

Credent y byddai'r goddefgarwch a'r ewyllys da hynny, er y gwahaniaethau mewn barn, yn sail i gyfeillgarwch parhaol yn y dyfodol a pharch at ryddid barn: 'To the cultivation and prevalence of this becoming temper the amiable and discreet deportment of the theological tutor during the long period of his connection with the Academy has no doubt very materially contributed'.[180]

Er gwaethaf hyn roedd y sefyllfa yn yr Academi yn gwaethygu. Yng nghofnod y Bwrdd dyddiedig 2 Mawrth 1835 dywedir i lythyr oddi wrth David Lloyd i'r Bwrdd gael ei ddarllen oedd yn achwyn fod pedwar myfyriwr sef John Lewis, David Evans, Thomas Thomas a Thomas Joseph, wedi camymddwyn yn ddifrifol, eu bod wedi ei sarhau ef yn bersonol, a'u bod wedi esgeuluso eu cyfrifoldebau academaidd. Wedi archwilio'r mater, '[we] see no reason to impute the origin of this unfortunate mutiny to any blameable error on the part of Mr Lloyd'.[181] Ag eithrio'r ychydig oedd yn gyhuddgar tuag at Lloyd, roedd pob un o'r lleill wedi tystio'n llwyr i gyrhaeddiadau eu tiwtor. Anghydweld ar faterion diwinyddol oedd yn rhannol gyfrifol am yr anghydfod, a cheryddwyd y pedwar oherwydd eu rhyfyg a'u rhybuddio 'in the most solemn manner to guard against the seductions of pride and obstinacy, and to seriously review the whole of their conduct'.[182] Ond roedd hefyd anghytuno oherwydd bod rhai o'r myfyrwyr yn ymroi i bregethu pryd na ddylent, yn groes i'r rheolau, er bod David Peter ei hun eu hannog i wneud. Edrychwyd heibio i fater y pregethu, ond oherwydd eu hymarweddiad amhriodol, cwtogwyd peth o'u harian nawdd a'u gwahardd rhag pregethu am weddill y tymor. O ymddwyn yn addas o hynny ymlaen, mynychu'u darlithoedd a bod yn ddiargyhoedd yn eu hymwneud â'r sefydliad, ac o dderbyn geirda gan eu tiwtoriaid i brofi'u hedifeirwch, caent ymgeisio am wobrau blynyddol Lloyd Lewis, Rothbury, i wneud i fyny am y golled.[183] Fodd bynnag, parhau yn anufudd a wnaent, a chyn gadael iddynt barhau bu rhaid iddynt ysgrifennu bob un at y Bwrdd yn addo cydymffurfio ac addunedu ynghylch eu bwriadau.[184]

---

178 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.
178 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.
178 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.
179 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834; cf Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr*, t. 70
180 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.
181 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
182 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
183 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
184 Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.

Roedd hi'n amlwg erbyn hyn bod disgyblaeth wedi torri lawr a bod y prifathro yn analluog i gadw trefn. Bu enghreifftiau cyn hyn o fyfyrwyr yn gadael y coleg heb ganiatâd,[185] o ymabsenoli o ddarlithoedd, ac o beidio a throi i fyny ar gyfer arholiadau'r haf.[186] Yn achos un Richard Jones, bu rhaid ei ddiarddel yn llwyr.[187] Cafwyd ymddygiadau amhriodol ymhlith y myfyrwyr hŷn, er bod canmoliaeth i ymarweddiad a datblygiad chwech o'r myfywyr yn eu blwyddyn gyntaf.[188] Prin bod y disgyblu ar y myfyrwyr hŷn wedi cael fawr effaith: 'Since the period of their restoration they have been far from regular in their attendance, and have made no progress whatsoever in their studies. They were in all respect much inferior to the junior divisions'.[189] Yn ôl y ddirprwyaeth o du'r Bwrdd, dylid fod wedi diarddel y drwgweithredwyr yn ddiseremoni: 'The indulgence which has been extended towards them has not answered the purpose for which it was intended. The ignorance of some of them was really lamentable, disgraceful to themselves, and in some manner to the Academy'.[190] Roedd perfformiad y myfyrwyr yn arholiadau haf 1835 wedi gwaethygu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac onibai am ymroddiad David Lloyd byddai pethau wedi bod yn waeth: '[We] are persuaded that if it had not been for his energy and assiduity the situation of the Academy would have been much more deplorable than it is'.[191] Roedd hefyd achwyniad am gyflwr y llyfyrgell: 'The Library was found in a very irregular state owing to the neglect of the Librarian, to the divided responsibility of the Tutors, and the imperfections of the Catalogue ... Many books and some of a valuable description are missing ... and not likely to be recovered'. [192]

Yn ôl y dirprwywr roedd yn amlwg mai David Peter oedd ar fai:

> They concede it their duty to express a decided opinion that Mr Peter is no longer able to discharge the duties of his offfice in a manner at all satisfactory, either by giving the aid of his superior authority as the head of the institution, in preserving discipline or by communicating instruction upon metaphysical and theological subjects, so as to command the attention, excite the industry, and enlarge and inform the understandings of his pupils.[193]

Barnent nad oedd y prifathro yn abl mwyach i ymdopi ag unrhyw gamymddwyn ymhlith y myfyrwyr, a'i fod yn fwy o rwystr i'w gydweithiwr nac o werth: 'His want of judgment and decision must embarass rather than aid the junior tutor'.[194] Gan na ddisgwylient iddo ymddiswyddo o'i wirfodd, awgrymodd y dirprwywyr y dylai'r Bwrdd ofyn iddo'n garedig i ymddeol o'r gwaith. Roedd y llythyr ddanfonwyd ato gan y Dr Thomas Rees, yr ysgrifennydd, ar ran y Bwrdd yn ei ganmol ar gyfrif ei lafur hirfaith a'i gymeriad unplyg, ond bod yr amser wedi dod iddo roi'r gorau i'w ddyletswyddau. Atebodd Peter ar 30 Mai 1835:

---

[185] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 7 Hydref 1833 gan gyfeirio at Thomas Davies a John Thomas.
[186] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 25 Awst 1834, gan gyfeirio at David Davies.
[187] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 8 Rhagfyr 1834.
[188] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
[189] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.
[190] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.
[191] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.
[192] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.
[193] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.
[194] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Ebrill 1835.

My Dear Sir,

I beg to acknowlege the receipt of your letter 27th May. I have to request you will offer my best thanks to the Board for the handsome terms in which they are pleased to speak of my long and laborious services. Next to the approval of my own conscience I shall always esteem the testimony they bear to the faithfullness with which I have discharged my duties. I have now reached that period of life at which I find the infirmities of age pressing upon me, and I therefore have determined to resign my office as Theological Tutor, and beg that it may be understood that I do resign from Midsummer next. During the long course of fourty three years I have discharged the duties of my situation with fidelity and zeal. I earnestly pray that the successor who may be appointed may equal if not exceed me in diligence and in devotion to the best interests of the institution.

I am
My dear Sir
Yours truly
David Peter.[195]

A gyda hynny daeth gyrfa David Peter fel llywydd Academi Caerfyrddin i ben.

## 8. Crynhoi: Cyfraniad Peter i'r Academi a'i etifeddiaeth

Er cydnabod y byddai wedi bod yn well petai Peter wedi ymddeol ynghynt, ni ddylid bychanu dim ar yr hyn a gyflawnodd yn ystod ei oes. Ef a fu'n bennaf gyfrifol am ffyniant Academi Caerfyrddin am bron i ddeugain mlynedd; ac yn ystod twf aruthrol Ymneilltuaeth y de-orllewin rhwng diwedd y ddeunawfed ganrif a thrydedd degawd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, enillodd y sefydliad fri neilltuol ar sail trylwredd ei hyfforddiant, safon ei haddysg ac ehangder ei barn. Os blynyddoedd David Lloyd, ei olynydd, oedd oes aur yr Academi ym marn yr haneswyr,[196] adeiladu a wnaeth ef ar y sylfaen a osodwyd gan ei ragflaenydd. Ac yntau'n Galfinydd efengylaidd o argyhoeddiad personol, cadwodd ymddiriedaeth y Bwrdd Presbyteraidd ac enillodd barch gweinidogion a myfyrwyr o bob lliw athrawiaethol gydol ei dymor. Achubwyd ei gam fwy nag unwaith gan Undodiaid ac aelodau rhyddfrydol y Bwrdd Presbyteraidd pan gyhuddwyd ef yn annheg o ragfarn ac anoddefgarwch. A rhag bod y Calfiniaid hwythau yn cael cam, ar ddiwedd ei dymor, trwy benodiad David Davies Pant-teg i fod yn gydweithiwr i David Lloyd, sicrhawyd bod parhad yng nghydbwysedd athrawiaethol staff y coleg. Yn ystod tymor Peter, atgoffwyd y Bwrdd o hawliau ac anghenion yr eglwysi Cymraeg: 'It is indispensably necessary that while they [sef y myfyrwyr] learn English by diligent study', meddid, 'they should retain the knowledge and ease of their mother tongue, and be able to employ it with all the force, the pathos, and sublimity which are its characteristics'.[197] Ac roedd y sefydliad wedi hen ennill ei blwyf ymhlith gweinidogion yr Annibynwyr. Hyd yn oed wedi i'r academi Annibynnol yn y Drenewydd gau ei ddrysau yn 1838 ac yr agorwyd Coleg Annibynnol Aberhonddu yn 1839, roedd yr Annibynwyr yn ne Cymru yn dal i gefnogi'n frwd yr Academi yng Nghaerfyrddin. Er mai Undodiad oedd David Lloyd, erbyn 1850, yn ystod ei lywyddiaeth ef, roedd pob un o'r myfyrwyr namyn un yn

[195] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 30 Gorffennaf 1835.
[196] Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth*, tt. 144-5; Gibbard a Rivers, 'Carmarthen Academy later Presbyterian College, Carmarthen (1795-1963)'.
[197] Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, 6 Hydref 1834.

Annibynwyr, a Bedyddiwr oedd y llall.[198] Yn ystod tymor llywyddiaeth Peter hyfforddwyd dros 150 o fyfyrwyr a lafuriodd yn y weinidogaeth Gristnogol, 'heblaw llawer a ordeiniwyd o'r Ysgol i'r un gwaith'.[199] Bu'n flaengar yn arloesi ym myd addysg yng Nghaerfyrddin ac yn gymdeithasol roedd Peter yn uchel ei barch. Sicrhaodd trwy ddylanwad y coleg fwy o oddefgarwch ym mherthynas y gwahanol enwadau Ymneilltuol yng Nghymru, a'u cael i gydymdrechu i wrthweithio dylanwad sifig Eglwys Loegr a'r awdurdodau gwladol. Bu'n flaengar yn 1803 yn darbwyllo llywodraeth y dydd nad oedd unrhyw fygythiad o du'r Ymneilltuwyr adeg y Rhyfel â Ffrainc. A bu'n frwd wedyn dros ennill mwy o hawliau sifil a chyfartal i'r Ymneilltuwyr.

[198] Gibbard a Rivers, 'Carmarthen Academy later Presbyterian College, Carmarthen (1795-1963)'.
[199] Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst*, t.49.

## Pennod 9

## Annibynwyr y de-orllewin c. 1790-1837: rhai casgliadau

Wedi tua 1785 cafwyd twf aruthrol yn rhif yr eglwysi Annibynnol, yn arbennig yn ne-orllewin Cymru. Cydredodd y cynnydd â newididau demograffig sylfaenol yn y boblogaeth, newidiadau a oedd yn nodweddu'r Chwyldro Diwydiannol a'r Chwyldro Amaethyddol, nid yn unig yng Nghymru ond y tu hwnt hefyd, ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac i mewn i'r ganrif ddilynol.[1] Mae'r ystyriaethau cefndirol hyn yn bwysig er mwyn deall a dadansoddi natur y newid a fu yn hanes gweinidogaethau David Davies, Morgan Jones a David Peter. Ac nid eithriadau unigryw oedd y tri. Roedd y datblygiadau hyn yn gynrychioliadol o'r hyn oedd yn digwydd yn ehangach, megis yn natur gweinidogaeth rhai o Annibynwyr eraill y de-orllewin: Richard Morgan Henllan, Benjamin Evans Dre-wen, Thomas Phillips Neuadd-lwyd, Rees Powell Gellimanwydd, heb sôn am bregethwyr enwog yr ardaloedd eraill megis John Elias, Christmas Evans a William Williams o'r Wern.

Wedi cynabod y twf yng nghyd-destun datblygiadau economaidd a chymdeithasol y cyfnod ynghyd â'r newid mewn demograffeg, y ffaith yw bod gweinidogaeth Davies, Jones a Peter yn nodi trobwynt hynod arwyddocaol yn natblygiad yr eglwysi Annibynnol. Cynrychiolent ymdeimlad o gynnwrf a newydd-deb nad oedd yn bod o'r blaen. Yn hanesyddol gellir ei weld fel ffrwyth diymwad y Diwygiad Efengylaidd; gweinidogion efengylaidd o'r teip Methodistaidd pendant oedd o leiaf ddau ohonynt, sef Davies a Jones, a'r tri fel ei gilydd yn arddel, i wahanol raddau, y gwirioneddau achubol Calfinaidd. Beth bynnag am ddylanwad yr hen Bresbyteriaeth Ariaidd ac yn ddiweddarach Undodiaeth yn yr ardal, Calfiniaeth a orfu. Efengyleiddiaeth genhadol Galfinaidd a nodweddodd weinidogaeth Davies, Jones a Peter.

### *Gweinidogaeth y tri yn gynnyrch y Diwygiad Efengylaidd*

Er na ddylid meddwl am yr Annibynwyr yn hollol yn nhermau enwad, yng nghyd-destun yr hyn a alwodd yn 'Ddiwygiad Methodistaidd', cydnabu J. E. Lloyd:

> Bu effeithiau'r diwygiad yn arhosol ar yr enwad Anibynnol. Heb golli ei nodweddion mewn athrawiaeth a ffurflywodraeth eglwysig, na'i afael ar draddodiadau'r cyfnod Piwritanaidd, yfodd yn helaeth o'r ysbryd newydd, ac, mewn canlyniad, cynhyddodd yn fawr o ran rhifedi a dylanwad.[2]

Y mae haneswyr wedi ei chael yn ddigon anodd esbonio beth yn union a olygir wrth y Diwygiad Efengylaidd. Yn hanes yr Annibynwyr nid arweiniodd at unrhyw newid sylfaenol o ran politi cynulleidfaoliaeth, ac o blith y rheini a oedd â chydymdeimlad â'r grymusterau diwygiadol, ni olygodd unrhyw newid sylfaenol mewn diwinyddiaeth. Calfiniaid oeddent cyn y Diwygiad ac ar ei ôl. Er gwaethaf y pellhau a ddigwyddodd rhwng yr arweinwyr Annibynnol hynny a gefnogodd Howell Harris yn y 1740au a'r '50 cynnar a phenderfyniad y Methodistiaid

[1] Gw. D. Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), t. 166; John Davies, *Hanes Cymru* (London: Allen Lane, 1990), tt. 306-11; Muriel Bowen Evans (gol.) *Capel-y-Graig Tre-lech 1703-2003* (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2003), tt. 20-1.
[2] John Edward Lloyd, *Trem ar Hanes yr Anibynwyr yn Nghymru* (Caerdydd: Cwmni Cyhoeddiadau Addysgol, 1909), t. 54.

i lynu wrth Eglwys Loegr wedi hynny,[3] cydnabyddir, erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, i effeithiau'r Diwygiad dreiddio i fywyd llawer o eglwysi'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr nes eu trawsnewid yn sylfaenol. 'The transformation of Dissent which set in during the last quarter of the 18th century', meddai R. T. Jenkins, 'was, we can hardly doubt, due to the Methodist Revival'.[4] Digwyddodd y trawsnewid yn hinsawdd y wlad i ddechrau trwy rym pregethu cenhadol y Methodistiaid, ond yn raddol lledodd yr ysfa genhadol i blith llawer o weinidogion yr Hen Ymneilltuwyr maes o law. Cafodd nifer o bregethwyr eu meddiannu â sêl a brwdfrydedd anarferol i ledaenu'r efengyl yn ehangach nag a wnaethant gynt, a'u cynysgaeddu â doniau pregethu eithriadol a oedd yn tynnu'r lluoedd at Grist. Fel y digwyddodd yn hanes Howell Harris a Daniel Rowland,

> Meddiennid hwy oll gan yr un ysbryd, sef awydd byw i achub eneidiau, gydag argyhoeddiad cryf nas gellid gwneud hynny ond trwy bregethu colledigaeth y pechadur, a ffydd yn rhinweddau'r Gwaed yn unig ddihangfa iddo.[5]

Gwelir yr angerdd a'r anian Fethodistaidd ar waith a'r awydd i dywys eneidiau at Grist yng ngwaith Morgan Jones yn difrifoli ysbryd y David Rees ifanc, a'i orfodi i ystyried mater ei enaid a gwneud proffes gyhoeddus o ffydd:

> Pan rhwng pymtheg ac un ar bymtheg oed, yr oedd o dan argyhoeddiad dyfnion o bechod, a gwelodd Duw yn dda i ddeffroi ei enaid yn wirioneddol, a dangos iddo y pwys o geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, i feddwl yn ddwys am yr *un peth angenrheidiol*, ac i ystyried ei ddiwedd yn mlaenaf o bob peth.[6]

Roedd yr ysfa i ddeffroi pechaduriaid ac achub eneidiau yn amlwg yn nhestun pregeth gyntaf David Rees ar ôl ei dröedigaeth, sef 'Pa fodd y dihangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint' (Hebreaid 2:3).[7] Dywedwyd yn gyffredin mai David Davies oedd y pregethwr mawr cyntaf ymysg yr Annibynwyr i ymdebygu i'r teip Methodistaidd, ac meddai John Thomas amdano: 'yn ddiau, ni chafodd yr Annibynwyr cyn ei ddyddiau ef neb cyffelyb iddo'.[8] Ac yn yr un dull dywedwyd am Morgan Jones ei fod 'wedi ei gynysgaethu â dawn neillduol i droi pob ffrwd ymddyddan at bethau crefydd' a'i fod wedi ei fendithio 'â hyawdledd ymadrodd tu hwnt i'r cyffredin'.[9] Roedd gan y gorau o blith y to hwn ddawn i bregethu'n huawdl ac effeithiol, ac oherwydd eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i dorri ar draws ffiniau gwedduster, fe'u cyhuddwyd yn aml o fod yn 'enthiwsiastiad'. Ar ddechrau ei weinidogaeth, roedd gweinidogion mwy ffurfiol eu hosgo yn amheus o Morgan Jones am ei fod yn ymdebygu i'r Methodistiaid. Yn ôl ei gofiannydd, J. J. Beynon:

---

[3] R. T. Jenkins, 'Yr Annibynwyr Cymreig a Hywel Harris', *Y Cofiadur,* 12 (1935), 3-37; Geraint Tudur, *Howell Harris: From Conversion to Separation, 1735-50* (Cardiff: University of Wales Press, 2000), tt. 74-7, 92-118.
[4] R. T. Jenkins, 'Nonconformity after 1715', yn J. E. Lloyd (gol.) *A History of Carmarthenshire,* Vol. 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt 185-263 [231].
[5] Lloyd, *Trem ar Hanes yr Annibynwyr yng Nghymru*, t. 50.
[6] T. Davies, *Bywyd ac Ysgrifeniadau y diweddar Barch. D. Rees, Llanelli* (Llanelli: B. R. Rees, 1871), t. xi.
[7] Davies, *Bywyd ac Ysgrifeniadau y diweddar Barch. D. Rees*, *Llanelli*, t. xiii; am ddylanwad gweinidogaeth Morgan Jones yn Nhre-lech ar ddatblygiad cynnar David Rees gw. Iorwerth Jones, *David Rees y Cynhyrfwr* (Abertawe: Gwasg Tŷ John Penry, 1971), tt.20-1.
[8] Dyfynnwyd gan R. T. Jenkins, 'Yr Annibynwyr a'r Methodistiaid' yn J. E. Lloyd (gol.) *Hanes ac Egwyddorion yr Annibynwyr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), tt. 129-44 [139].
[9] Davies, *Bywyd ac Ysgrifeniadau y diweddar Barch. D. Rees, Llanelli*, t. xi.

> Mr. Jones was not only the means of the revival of religion at home, but also in the neighbouring churches. The old ministers at this time, in South Wales, though many of them were very good men, and sound in the faith, yet had very little life and animation about their ministry, and some of them were much prejudiced against what savoured of methodism.[10]

Disgrifiodd R. T. Jenkins yr anian wresog, ddiwygiadol hon fel 'yr ysbryd newydd' ('*the new spirit'*) a'r 'tân rhyfedd' ('*the strange fire*)',[11] a thynnodd sylw at yr hyn a alwodd Edmund Jones Pont-y-pŵl yn 'the Methodist *way*', a'n hannog i feddwl am y Diwygiad Methodistaidd yn nhermau 'osgo, agwedd, dull, ffordd - pa air bynnag a ddewisoch'.[12] Ac wrth feddwl am y naws hon a'r gorfoleddu yng nghanu'r dychweledigion, creodd hyn ddiwylliant newydd ymhlith yr Ymneilltuwyr:

> Fe drodd Hywel Harris yr Annibynnwr ieuanc William Williams yn Fethodist, ac ni ddychwelodd ef byth i'w hen gorlan. Ond fe wnaeth William Williams fwy o Annibynwyr yn Fethodistiaid nag a freuddwydiodd Harris erioed, a hynny heb iddynt orfod ymadael â'u henwad.[13]

Lledodd y canu a'r gorfoleddu 'dan ddylanwad Methodistiaeth nes dirfawr newid (onid llwyr newid) naws y bywyd crefyddol o fewn i'r enwad Annibynnol'.[14] Roedd David Davies a Morgan Jones ymhlith yr Annibynwyr a gydiodd yn yr arfer ffasiynol o gyfansoddi emynau profiadol er mwyn bywiogi moliant ac addoliad yr eglwysi Annibynnol. Ond yn ogystal â'r canu a'r gorfodleddu, rhaid cofio am rym y pregethu dirfodol a'i allu i ddwysbigo calonnau, i ddryllio ysbrydoedd a thywys eneidiau i fwlch yr argyhoeddiad. Dywedwyd am Jones:

> His whole aim was to win souls to Christ; it was for this he preached, and for this he prayed, faithfully, fervently, and perseveringly ... his labours were remarkably blessed, so much so, that hardly a month passed away for many years, without some evidences of conversion to God through his ministry.[15]

Roedd y cyfarfodydd diwygiadol yn Nhre-lech yn gymysg o orfoleddu ac o'r ymdeimlad ag arswyd colledigaeth a thaer erfyn am drugaredd.[16] Yn ôl R. Tudur Jones, roedd 'berw eneidiol dynion wedi eu gorfodi i ddewis rhwng tynged frawychus a iachawdwriaeth ogoneddus', a gyda hynny daeth 'profiad yn eithriadol bwysig fel tystiolaeth i waith yr Ysbryd'.[17] Yn wahanol i Davies a Jones, ni roddai Peter yr un pwys ar ferw emosiwn crefyddol, ond roedd ei weinidogaeth yn Heol Awst yn drwyadl efengylaidd ei bwyslais ac yn genhadol ei naws. Roedd y tri ohonynt yn gytûn ar bwysigrwydd allweddol pregethu'r efengyl, a'r angen i bechaduriaid gael eu cymodi â Duw:

---

[10] J. J. Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ* (London: J. Snow, Paternoster Row, 1848, t. 76.
[11] Jenkins, 'Nonconformity after 1715', t. 232.
[12] Jenkins, 'Yr Annibynwyr Cymreig a Hywel Harris', 6.
[13] Jenkins, 'Yr Annibynwyr Cymreig a Hywel Harris', 30.
[14] Jenkins, 'Yr Annibynwyr Cymreig a'r Methodistiaid', 129.
[15] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, tt. 25-6.
[16] Samuel Griffiths, *Cofiant y diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836), tt. 20-1.
[17] R. Tudur Jones, 'Dylanwad y Mudiad Methodistaidd ar Ymneilltuaeth Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru*, XLVII/ 3 (1962), 57 a 59.

> Tawelach [meddai Tudur Jones] oedd dawn David Peter. Fel George Lewis bu'n ddisgybl i Dafis Castellhywel a gadawodd y profiad gwerthfawr hwnnw ei ôl arno. Yn 1792 cafodd ei ordeinio yn weinidog Heol Awst, Caerfyrddin, a buan y tyfodd yn eglwys fwyaf yr Annibynwyr. Trwy ei bregethu ymarferol a di-lol, ei waith ysgolheigaidd fel athro a'i gefnogaeth i bob achos da, cerddodd ei ddylanwad yn ddwfn i fywyd crefyddol ei gyfnod.[18]

***Nodweddion y ffydd efengylaidd***

Fel yn achos y Diwygiad Efengylaidd ei hun, gellid diffinio'r term 'efengylaidd' mewn gwahanol ffyrdd, ac ymhlith haneswyr cyfoes daeth dosbarthiad D. W. Bebbington yn ei gyfrol *Evangelicalism in Modern Britain* a gyhoeddwyd gyntaf yn 1989 yn safonol.[19] Dosberthir y nodweddion sy'n gyffredin i'r argyhoeddiad efengylaidd o dan bedwar pennawd: yr angen am dröedigaeth; y pwyslais gweithredol; lle canolog y Beibl; a phwysigrwydd sylfaenol aberth Crist ar y groes: 'Conversionism, activism, biblicism and crucicentrism form the defining attributes of Evangelical religion'.[20] Yn hanes gweinidogaeth Davies, Jones a Peter, nodir amryw enghreifftiau o'r nodweddion hyn o dan bob pen.

*Yr angen am dröedigaeth*

Roedd y ffydd efengylaidd yn rhoi pwyslais sylfaenol ar achubiaeth enaid y pechadur unigol ynghyd â chyfnewidiad yn ei fuchedd. Yn ôl eu cofianwyr cyntaf, roedd y tri gwrthrych dan sylw wedi cael profiadau dwys o dröedigaeth a arweiniodd at ymdeimlad o alwad Duw arnynt i gysegru eu bywydau i waith y weinidogaeth. Yn ôl J. J. Beynon, rhybuddiodd Morgan Jones: 'no man has any right to engage in the work of the christian ministry, before he is a truly converted character himself'.[21] Ac fel y nodwyd eisoes, ei holl ddymuniad oedd ennill eneidiau i Grist a'u gweld yn troi ato dan ei weinidogaeth. Gweledigaeth David Peter adeg agoriad Academi Caerfyrddin yn Chwefror 1796, oedd yr angenrheidrwydd ar i bob gwir bregethwr brofi gras Duw yn y galon. Pa obaith, meddai, oedd i weinidog alw pechaduriaid i edifeirwch os nad oedd wedi cael ei droi ei hun, a heriodd ei fyfyrwyr i chwilio'u calonnau er mwyn gwybod i sicrwydd eu bod wedi eu geni o Dduw: 'All our preaching, and persuading of others, will be but dreaming, and trifling hypocrisy, until the work be effected in ourselves'.[22] O ran Davies, arwydd o'i ddifrifoldeb oedd ei arfer o bwyntio'i fys at unigolion ym mhob cynulleidfa a phwyso arnynt i ddewis Crist drostynt eu hunain. 'A wyt Tomos William', meddai mewn oedfa urddo yn Llanelli yn 1813, 'yn barod i dderbyn y Person bendigedig hwn?' Yn rhyfedd iawn ac yn annisgwyl, wrth ymateb, daeth y Tomos William hwn i lawr o oriel y capel mewn gwewyr, sefyll o flaen y pulpud a dweud: 'Dyma fi, Mr Dafis, wedi dod i dderbyn Iesu Grist;

---

[18] *HAC*, t. 151.
[19] D. W. Bebbington, *Evangelicalism in Modern Britain: A History from the 1730s to the 1980s* (London: Unwin Hyman, 1989), tt. 4-17; am y derbyniad eang a gafodd y thesis, gw. Timothy Larsen, 'The reception given *Evangelicalism in Modern Britain* since 1989', yn Michael A. G. Haykin a Kenneth J. Stewart (goln), *The Emergence of Evangelicalism: Exploring Historical Continuities* (Nottingham: Apollos, 2008), tt. 21-36.
[20] Bebbington, *Evangelicalism in Modern Britain*, t. 4.
[21] Beynon, *The Holy Art of Winning Souls to Christ*, t. 38.
[22] W. H. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of The Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green and Longmans, 1846), t. 70.

a wna ef fy nerbyn i?' Oherwydd taerni'r ymofynnwr, bu rhaid i Davies orffen pregethu er mwyn ei gynorthwyo.[23]

*Diwydrwydd mewn gweithgarwch*

Nid oes prinder enghreifftiau o dan y pen hwn fel sydd eisoes wedi eu crybwyll. Bu galw mawr ar y tri nid yn unig i bregethu ar y Suliau yn eu heglwysi gartref, ond ar deithiau cenhadu yn ystod yr wythnos, yn ogystal ag mewn cymanfaoedd pregethu, cyfarfodydd urddo gweinidogion a chyfarfodydd agor capeli newydd ar hyd eu gyrfaoedd. Byddai Davies yn arbennig ar deithiau pregethu yn fynych, tra bu'r tri ohonynt yn weithgar mewn plannu eglwysi newydd. Buont yn eithriadol frwdfrydig o blaid y genhadaeth dramor, gyda Peter, ar y cyd â David Charles Caerfyrddin, yn ysgrifennydd cangen gynorthwyol de Cymru o'r Gymdeithas Genhadol. Cyfeiriwyd at sêl Jones a Peter dros hyrwyddo gwaith yr Ysgol Sul ac at arweiniad Jones yn arloesi gyda'r gymanfa bwnc. A bu Peter nid yn unig yn flaengar gyda gwaith yr Ysgol Sul ond yn arloesi gydag ysgolion dyddiol er mwyn sicrhau addysg elfennol i blant tref Caerfyrddin. Ef a arweiniodd yr ymdrech i sefydlu ysgol Lancastraidd yn y dref er addysgu plant y tlodion yn 1813.[24] Oddi wrth adroddiadau cyson yn y *Carmarthen Journal* gwelir iddo fod yn hyrwyddo'r ysgolion trwy dderbyn nawdd ariannol i gynorthwyo'r gwaith gan y llywodraeth. Yn 1833 y rhoddwyd grantiau gwladwriaethol at lafur y Gymdeithas Genedlaethol a'r Gymdeithas Frytanaidd a Thramor. Erbyn hynny roedd llawer o Ymneilltuwyr yn credu mai yn nwylo gwirfoddolwyr y dylai addysg fod ac na ddylai'r llywodraeth ymyrryd yn y gwaith roedd llawer o weinidogion ac eglwysi yn ei gynnal. Yn hynny o beth, anghytunai Peter yn sylfaenol â David Rees Llanelli.[25] Fodd bynnag, mawr fu cyfraniad Peter at dwf addysg yng Nhaerfyrddin yn y blynyddoedd yn pontio cyfnod y ddwy gymdeithas wirfoddol uchod ac adeg Deddf Addysg 1870 a ddarparodd addysg elfennol yn orfodol drwy'r wlad.

Yn hanes Peter roedd y gwaith o hyrwyddo addysg elfennol yn ychwanegol i'w waith yn cynnal yr ysgol ramadeg ynghyd â bod yn bennaeth yr Academi. Bu'n bennaeth yr ysgol ramadeg a fu yn ei ofal er cychwyn ei weinidogaeth yn Heol Awst yn 1792; dyma'r ysgol ramadeg roedd ei ragflaenwyr yn Heol Awst wedi ei chynnal yn ddi-dor oddi ar ddyddiau gweinidogaeth William Evans yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif. Bu hefyd yn gofalu am ysgol elusennol yn y dref.[26] Ac roedd hynny ar wahân i gefnogi gwaith yr ysgol Lancastraidd. Y mae amryw o gofiannau gweinidogion, a chyfeiriadau yng nghyfrolau *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru* yn cydnabod dyled gweinidogion i'r ysgol ramadeg dan arweiniad Peter. Bu hefyd yn gefnogwr brwd i waith Cymdeithas y Beibl. Yn ôl tystiolaeth adroddiadau lu yn y *Carmarthen Journal* bu'n arwain yn y gwaith o sefydlu canghennau yn y sir i hyrwyddo gwaith y Gymdeithas a chodi arian, a bu'n gyfrifol am rannu Beiblau a Thestamentau, Cymraeg a Saesneg, yn y dref a thrwy'r sir.[27] Bu Peter a'r eglwys yn Heol Awst hefyd yn weithgar i

[23] John Williams, 'Y Parch. David Davies, Abertawe' yn L. D. Jones (gol.) *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 97-144 [141-2].
[24] *Carmarthen Journal*, 19 Chwefror 1813.
[25] Am farn Rees ar noddi addysg, gw. Jones, *David Rees y Cynhyrfwr*, tt. 264-72.
[26] Noel Gibbard, 'Heol Awst Congregational Church ,1703-1837', *Carmarthenshire Antiquary* 42 (2006) 5-17 [12].
[27] Gw. Noel Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd, 1725-1841', traethawd MA anghoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1973, tt. 238-42.

gynorthwyo ymdrechion dyngarol i leddfu tlodi gan ddarparu glo a blancedi adeg tywydd oer a phecynnau bwyd ar adegau o gynni a phrinder.[28] Nid oedd pall ar ei ymdrechion, a phriodol oedd y clod a genid iddo yn ei farwnad:

Megis blaenor yn y fyddin,
   Dan fanerau'r Brenin Mawr,
Bu flynyddau yn llafurus,
   A llwyddianus ar y llawr;
Amryw gannoedd o aelodau
   A dderbyniwyd yn ei ddydd,
Rhai sy heddyw yn ymdrechgar
   Gyda'r gwaith hyfrytaf sydd.[29]

A bu Morgan Jones hefyd yn weithgar yn hyrwyddo addysg, nid trwy'r Ysgol Sul a'r gymanfa bwnc yn unig nac yn lleol yn unig chwaith. Dywedir iddo ddechrau ysgol ddyddiol mewn ystafell uwchben y stablau a oedd yn eiddo capel Ffynnon-bedr yn 1827.[30] A phan agorwyd Athrofa Neuadd-lwyd yn 1810 yn ysgol i gymhwyso dynion ifanc ar gyfer cael mynediad i'r prif athrofeydd, etholwyd Morgan Jones yn aelod o'r pwyllgor llywodraethol.[31] Mae'n amlwg iddo fod yn weithgar gydag ymrwymiadau addysgol yn osgystal â'i ymrwymiadau bugeiliol ac eglwysig. Ac ar gyfer cyfoethogi addoliad yr eglwysi, enghraifft arall o'u diwydrwydd yng nghanol eu holl ofalon oedd bod Jones a Davies hefyd wedi bod yn brysur yn cyfansoddi emynau.

*Parch at y Beibl fel Gair Duw*

Roedd deiliaid y ffydd efengylaidd yn parchu'r Beibl fel y datguddiad o feddwl ac ewyllys Duw gan ei gydnabod yn ddrych o safon cred a buchedd. Nid bod yna ddamcaniaethu yn y cyfnod ynghylch ei anffaeledigrwydd, eithr fel y cydnabu Bebbington: 'The overriding aim of early Evangelicals was to bring home the message of the Bible and to encourage its devotional use rather than to develop the doctrine of scripture'.[32] Gwelir y parch dwfn oedd gan Peter at y Beibl wrth gael ei holi ar ddydd ei ordeinio, ac yn ei gyffes ffydd. Y Beibl, meddai, oedd rheol ei ffydd a'i fuchedd, ac fel Ymneilltuwr Protestannaidd dywedodd na fedrai gydymffurfio â seremonïau a litwrgi'r Eglwys Wladol oni fyddent yn gyson â llythyren yr Ysgrythur: 'I examine the Scriptures with an unprejudiced mind. I form my sentiments respecting their contents'. Cydnabu ei fod yn credu yn Ysgrythurau'r Hen Destament a'r Newydd 'as the pure and uncorrupted word of God, as dictated by the Holy Spirit', a bod yr Ysgrythurau yn cynnwys pob dim sy'n angenrheidiol i'w wybod, ei gredu ac i'w wneud er mwyn sicrhau iachawdwriaeth.[33] Oddi wrth yr oll sy'n cael ei ddatgan am ei fywyd a'i weinidogaeth yng nghofiant Peter, y parch dwfn hynny at y Beibl fel Gair Duw oedd yn llywodraethu ei gamrau

[28] Gw. Gibbard, 'Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a'r Tri Chwmwd, 1725-1841', t. 243.
[29] James Davies, *Galar gan er coffa y diweddar Barch. David Peter, Gweinidog yr efengyl, ac Athraw yr Athrofa yn Nghaerfyrddin yr hwn a fu farw Mai 4ydd 1837, yn 72 oed* (Caerfyrddin: J. Thomas, 1837), tt. 6-7.
[30] *Cofio'r Parchedig Morgan Jones 1768-1835* (Llwyn-yr-hwrdd: Cymdeithas Cyfeillion Morgan Jones, 1985), t. 9.
[31] *CyA*, tt. 199-200.
[32] Bebbington, *Evangelicalism in Modern Britain,* t. 14.
[33] Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter*, tt. 18-20.

a'r arweiniad a roddai fel gweinidog yr eglwys yn Heol Awst ac athro yn yr Academi. Yng nghofiannau Peter a Jones synhwyrir y parch at y Beibl ym mhwysigrwydd y weithred o gynnal 'yr allor deuluaidd' sef ymarfer defosiwn yn ddyddiol yn y cartref a'r anogaeth i aelodau'r eglwys a'u teuluoedd i wneud yr un modd. I'r diben hynny yn ddiau y paratodd David Davies y Beibl teuluaidd gyda nodiadau ymyl y ddalen.[34] Ac wrth gwrs roedd yr holl sylw a roddwyd i waith yr Ysgol Sul yn anogaeth i'w haelodau i barchu'r Beibl ac i fyw yn ôl ei ddysgeidiaeth. A megis i danlinellu'r parch oedd gan Morgan Jones i'r Beibl, dywedodd Lewis Powell yn ei farwnad:

Pwy bynnag fyddai'n dweyd yn dywyll,
  Jones a ddywedai yn oleu iawn,
Pwy bynnag ddywedai ryw ddych'mygion,
  Y Bibl ddywedai ef yn llawn;
Os âi rhai i dir y tywod,
  Jones a safai gyda'r aur;
Os âi rhai i dir y fagddu,
  Nid âi ef o oleu'r gair.[35]

*Crist y groes*

Roedd y syniad bod Crist wedi marw ar y groes fel cosb Duw yn erbyn pechod yn sylfaenol i'r ffydd efengylaidd, a bod cariad a thrugaredd Duw wedi'u datgelu ynghyd yn aberth yr Iawn yn perthyn i hanfod yr un gred. Ar ddydd ei ordeinio datganodd Peter fod aberth dirprwyol Crist ar y groes yn ganolog i'w ddiwinyddiaeth ac y byddai'n sylfaenol i'w waith fel gweinidog. Dengys ei gyffes ffydd ei fod yn arddel y Ddiwinyddiaeth Ffederal neu Ddiwinyddiaeth y Cyfamodau a fu'n gyfundrefn athrawiaethol boblogaidd gan Galfiniaid oddi ar gyfnod y Piwritaniad.[36] Dysgai'r ddiwinyddiaeth honno fod Duw yn awdur dau gyfamod sef y Cyfamod Gweithredoedd a'r Cyfamod Gras. Yn ôl y Cyfamod Gweithredoedd roedd Adda wedi'i gynhysgaeddu â'r gallu i fyw yn ufudd i orchmynion Duw ac felly i etifeddu ei fendithion. Ond gan i Adda, fel cynrychiolydd y ddynoliaeth, anufuddhau i orchymyn yr Arglwydd, fforffedodd ei berthynas unigryw â Duw, ac yn sgil hynny condemniwyd y ddynolryw oll i ddamnedigaeth. Gan mai ef oedd cynrychiolydd y ddynoliaeth, syrthiodd yr hil oll yn ei anufudd-dod ef. Nid dyna, fodd bynnag, oedd y diwedd. Am fod Duw wedi rhagweld y dynged ofnadwy yn sgil cwymp Adda, yn ei drugaredd ordeiniodd y Cyfamod Gras a'r aberth achubol yng Nghrist. Yng nghyflawnder yr amser byddai i Iesu Grist, Mab Duw ac ail berson y Drindod Sanctaidd, ddod i'r byd, a thrwy ei ufudd-dod wrth ddioddef cosb gyfiawn am bechod dyn, yn agor drws trugaredd i bawb a fyddai'n ei dderbyn fel Gwaredwr ac Arglwydd, a thrwy hynny gael eu cyfiawnhau ger ei fron. Crist, felly, fel cyfryngwr y Cyfamod Gras a fyddai'n eu cymodi drachefn â Duw a thrwy hyn dderbyn maddeuant a bywyd tragwyddol. Yn ôl Peter yn ei gyffes ffydd:

---

[34] David Davies, *Y Bibl Sanctaidd ... gydag Ymyl-Nodau Cyfeiriol ac Eglurhaol, a Chrynodeb o Gynnwysiad pob Llyfr a phob Pennod* (Caerfyrddin: J. Evans, 1817).
[35] Lewis Powell, *Y llwythau mewn dyfnder galar ar ol y diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836), t. 9
[36] R. Tudur Jones, 'Athrawiaeth y Cyfamodau' yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 9-16.

> I believe, that God made Adam, our first parent, in the likeness of his own image, with all powers and faculties that were necessary for the perfection and happiness of his nature. That he had sufficient ability to know and to do the will of God, without the least bias to sin; though, at the same time liable to fall from that state of hapiness; but being left to the freedom of his own will, transgressed, notwithstanding a peremptory command not to eat of the tree of knowledge of good and evil, which God had forbidden, with denunciation of death; and in consequences of which, he, with all his numerous posterity, became subject to pain, sin, and eternal death.
>
> I believe that our first parents were not left in this forlorn condition, but that God, according to his infinite mercy and unerring wisdom, made a covenant of grace, and promised a Saviour, that should bruise the serpent's head ... I believe that God, in the fulness of time, did send his only-begotten Son into the world, to enlighten our darkeness by his precepts and example, to die for our sins, to rise for our justification and to give us a sure hope of glorious immortality.[37]

Yn ôl y ffydd efengylaidd a rannodd Davies, Jones a Peter, gwaith gweinidogion yr efengyl oedd gwahodd pobl i gredu'r newyddion da hyn yn Iesu Grist. Cafwyd enghraifft o'r 'dull newydd, tanllyd, Methodistaidd o bregethu' am y groes,[38] yn nisgrifiad twymgalon a grymus William Davies o bregethu David Davies tra ar ei deithiau yn sir Benfro.[39] Ac yn yr ysbryd hwnnw y canodd ei farwnadydd wrth ei goffáu:

Yn Llangeler bu flynyddau
Yn y weinidogaeth lân,
Yn cyhoeddi'r iechydwriaeth
I achub pentewynion tân,
Dweud wrth bawb yn eglur oleu,
Nad oedd moddion is y nen
All'sai achub pechaduriad
Ond y Crist fu ar y pren.[40]

Ac wrth draethu am y groes y tystiwyd i'r elfen Bentecostaidd a'r bererosiwn ym mhregethu Morgan Jones:

*Teifi* ddu a *Thowy* lydan,
  *Hafren* ddofn groesodd ef,
*Wysg* a *Thawe*, *Taf* ondodid,
  Groeswyd gan hen was y nef,
I fynegi am yr aberth,
  Hefyd am y gwerthfawr wa'd,
Ac i gymhell y tyrfaoedd
  Dd'od i wleddoedd cariad rhad.[41]

---

[37] Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter*, tt. 20-1.
[38] D. Densil Morgan, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), t. 161.
[39] Gw. Pennod 2 uchod t. 30.
[40] Mary Mathews, *Marwnad er Coffadwriaeth am y Parchedig Dafydd Dafis, Gweinidog yr Efengyl yn Ebenezer, Abertawe* (Abertawe: J. Harries, d.d.), t. 1.
[41] Powell, *Y llwythau mewn dyfnder galar*, t. 4.

***Goruchafiaeth Calfiniaeth yn y de-orllewin***

Cydnabyddir bod y Diwygiad Efengylaidd wedi arwain at ddwy ogwydd tra gwahanol i'w gilydd. Ar un llaw cafwyd adwaith yn erbyn y Diwygiad i gyfeiriad rhesymoliaeth, ac ar y llaw arall bu'r Diwygiad yn 'yn foddion i gryfhau gafael Calfiniaeth ar y wlad'.[42] Yn wir o'r 1730au ymlaen, bu tuedd gynyddol ymhlith athrawon a myfyrwyr Academi Caerfyrddin i ymwrthod â'r Galfiniaeth a goleddid gan yr Hen Ymneilltuwyr, a mabwysiadu yn gyntaf Arminiaeth (a roes bwyslais mawr ar rydd ewyllys dyn), wedyn Ariaeth (a amododd athrawiaeth duwdod Crist) ac erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar Undodiaeth gyfan a wadodd dduwdod Crist yn llwyr.

Ond bu'r Diwygiad Efengylaidd yn gyfrwng hefyd i 'sefydlogi eu dychweledigion yn y ddiwinyddiaeth Galfinaidd. Ac aeth Calfiniaeth yn gyfystyr ym meddyliau miloedd o bobl ag ireidd-dra, gwres a hwyl mewn crefydd'.[43] Wrth ystyried apêl crefydd dorfol erbyn oes aur y pregethu poblogaidd, ac yn hanes y diwygiadau crefyddol, byddai hyn yn wir yn hanes y dychweledigion trwy gyfrwng gweinidogaethau a phregethu David Davies a Morgan Jones, er mai Uchel Galfiniaid oedd y ddau. A lareiddiodd David Davies ei Galfiniaeth erbyn diwedd ei oes? Bu cydweithio cynnes rhyngddo â Peter mewn perthynas â chefnogi gwaith y Gymdeithas Genhadol, er mor feirniadol fu Davies o Academi Caerfyrddin ar ddechrau'r ganrif gyda Peter yn bennaeth arni, a hynny am iddo roi lle i fyfyrwyr a ystyriai eu bod yn anuniongred eu diwinyddiaeth.[44] Gwyddom mai Uchel Galfin oedd Morgan Jones yntau, ond er iddo wrthwynebu golygiadau Dr Edward Williams ac Andrew Fuller, hyrwyddwyr 'y Galfiniaeth Fodern' neu'r 'System Newydd', roedd yn ddigon parod erbyn diwedd ei oes i gefnogi gweinidogion iau a oedd yn bleidiol i'r Galfiniaeth Newydd, 'ac yr oedd yn dda ganddo gael eu cyfrif yn frodyr a chydlafurwyr yn yr efengyl'.[45]

Calfin cymedrol ei ddiwinyddiaeth oedd David Peter, ac yn cynrychioli'r duedd a droes yn gonsensws erbyn ail ddegawd y ganrif, sef y Galfiniaeth Newydd. Ac wrth sôn am oruchafiaeth Calfiniaeth yn y de-orllewin ymhlith yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr fel ei gilydd, buddugoliaeth 'y Galfiniaeth Fodern' a olygir.[46] Gwelwyd y newid yn fwyaf amlwg yn natblygiad annisgwyl Heol Awst. A hithau'n hen eglwys Bresbyteraidd ei thraddodiad, yn gymysg o ran cred ac ymlyniad diwinyddol ac yn rhyddfrydig ei naws, trwy ddiddyfnu ei haelodau oddi wrth gysyniadau Arminaidd ac Ariaidd a'u trwytho mewn athrawiaeth uniongred, llwyddodd Peter i ennill yr eglwys drosodd i'r ffydd efengylaidd. Yr un fu camp Benjamin Evans yn y Dre-wen ac eglwysi ei ofal, a gweinidogaeth lewyrchus Thomas Phillips Neuadd-lwyd, ymhlith eraill. Y gweinidogion a dymherodd eu Calfiniaeth â'r ysbryd cenhadol, efengylaidd ac achubol, a lwyddodd yn eu gwaith. Dyma'r gwir yn hanes Davies, Jones a Peter a'r eglwysi tan eu gofal. Camp y Dr Edward Williams, tad 'y Galfiniaeth Fodern', oedd cyfuno athrawiaeth etholedigaeth a'r angen i *bawb* gredu'r efengyl p'un ai eu bod yn ymdeimlo a'u hetholedigaeth ai peidio, ac y dylid defnyddio'r moddion gras a ordeiniodd Duw i'r pwrpas

---

[42] R. Tudur Jones, '"Y Dwym Ias" a'r "Sentars Sychion": Methodistiaeth ac Ymneilltuaeth yn y Ddeunawfed Ganrif', yn Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd*, tt. 153-69 [167].
[43] Jones, ' "Y Dwym Ias" a'r "Sentars Sychion"', t. 167.
[44] Gweler Pennod 8 uchod t. 180.
[45] *HEAC*,. III, t. 402.
[46] Am y 'Galfiniaeth Fodern', gw. W. T. Owen, *Edward Williams, D.D. 1750-1813 His Life, Thought and Influence* (Cardiff: University of Wales Press, 1963), a *HAC*, tt. 171-6.

hwnnw. Gan liniaru athrawiaeth brennaidd yr hen Uchel Galfiniaeth a'i gorbwyslais ar sofraniaeth Duw ac etholedigaeth ddi-amod, rhoes y Galfiniaeth Fodern wedd fwy tyner ar y cysyniad o gadwedigaeth a cholledigaeth trwy bwysleisio'r angen (a'r rhyddid) i bawb edifarhau a dod at Grist. Yng nghysgod y Diwygiad Efengylaidd daeth y Galfiniaeth Newydd yn gydnaws ag ysbryd cenhadol yr oes, a throi'r eglwysi yn fwy mentrus a chenhadol eu hysbryd.

O gymharu â llwyddiant rhyfeddol yr eglwysi uniongred-efengylaidd, bychan oedd twf y Bresbyteriaeth honno a droes yn Ariaeth ac yn Undodiaeth. Adeg cyfrifiad crefyddol 1851, cafwyd mai dim ond 27 o gynulleidfaoedd oedd gan yr Undodiaid yng Nghymru tra bod gan yr Annibynwyr 640 ohonynt.[47] Er iddynt gael eu harwain gan ddynion o allu megis John James, Edward Williams (Iolo Morganwg), Charles a David Lloyd ac eraill, prin y cynyddodd yr eglwysi Undodaidd, tra bod eglwysi Calfinaidd eu hymlyniad wedi llwyddo nid yn unig i ddal eu tir ond i fynd o nerth i nerth. Yn wir trengi gydag amser a wnaeth llawer o'r achosion a oedd wedi ymwrthod ag athrawiaeth uniongred, mabwysiadu Arminiaeth a gwyro'n ddiweddarach at Undodiaeth. Dyna fu hanes eglwysi megis Blaengwrach, mam eglwys neb llai na Lewis Rees; Rhyd-y-parc yn gysylltiedig â'r rhwygo yng Nglandŵr a Thre-lech adeg gweinidogaeth Owen Davies, rhagflaenydd Morgan Jones yn Nghapel-y-graig; Watford yn y dwyrain yn gysylltiedig â David Williams Pwll-y-pant, a hen eglwys fawr ei gorffennol megis Pant-teg, eglwys glannau'r Teifi ymhlith y Bedyddwyr, eglwys a rwygodd wedi cymanfa Meidrim yn 1799 adeg yr ymraniad Arminaidd yno.[48] A rhoes eglwys Capel Iwan, dan weinidogaeth Morgan Jones noddfa i'r Bedyddwyr Calfinaidd a ddaeth allan o Pant-teg gan fenthyg y capel iddynt i addoli tan iddynt sefydlu achos newydd yn Rehoboth gerllaw yn 1808.[49] O gofio'r hanes, prin y gellid gwadu pwysigrwydd y ddealltwriaeth Galfinaidd o'r ffydd Gristnogol wrth olrhain cryfder crefydd y Cymry a'r dystiolaeth Ymneilltuol a Phrotestannaidd yn ne-orllewin Cymru yng nghyfnod Davies, Jones a Peter.

***Gwaddol gweinidogaeth y tri a'u cyfraniad parhaol***

I gloi'r traethawd carwn nodi pedwar peth er cydnabod y gwaddol sylweddol a adawodd David Davies, Morgan Jones a David Peter gan fesur eu cyfraniad arhosol i'r dystiolaeth Annibynnol yn y de-orllewin, yng Nghymru gyfan a'r tu hwnt.

*David Davies ac Ebenezer*

Bu Ebenezer Abertawe a gorfforwyd gan David Davies, yn eglwys gref a llewyrchus. Wrth ymateb i holiadur cyfrifiad crefyddol 1851, adroddodd y gweinidog, Elijah Jacob, fod 550 yng nghynulleidfa'r hwyr ar noswaith y cyfrif, a'r un oedd y cyfartaledd ar hyd y flwyddyn.[50]

---

[47] Michael R. Watts, *The Dissenters, Volume 2, The Expansion of Evangelical Nonconformity* (Oxford: Clarendon Press, 1999), t. 23; am ddatblygiad yr eglwysi hyn gw. D. Elwyn Davies, *Y Smotiau Duon: Braslun o Hanes y Traddodiad Rhyddfrydol ac Undodiaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1980).

[48] R. T. Jenkins, 'Briwsion yn hanes y Bedyddwyr Cyffredinol Cymreig', *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (1931), 31-42.

[49] L. G. Roberts, *Golwg ar Hanes Ardal Capel Iwan* (gol.) Merfyn Morgan (Y Trallwng: Gwasg WGP, 2016), t. 53.

[50] Ieuan Gwynedd Jones a David Williams (goln), *The Religious Census of 1851: A Calendar of the Returns relating to Wales, Vol. 1: South Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1976), tt. 258-9.

Roedd 31 o gapeli yng nghyffiniau Abertawe yn 1851 fedrai eistedd rhyngddynt ddwy ran o dair o'r boblogaeth, ac Ebenezer yn fam-eglwys i gynifer ohonynt. Cynyddodd rhif yr aelodau o 405 yn 1850 i 419 yn 1852,[51] a phan olynwyd Jacob gan Thomas Rees, er bod eglwys a chynulleidfa gref yno yn barod, 'cynyddodd y naill a'r llall yn gyflym'.[52] Roedd 603 o aelodau yn yr eglwys yn 1903.[53] Ar hyd y blynyddoedd bu'r eglwys yn eithriadol yn ei chefnogaeth i waith Cymdeithas Genhadol Llundain, gan ddal i gyfrannu cannoedd o bunoedd bob degawd tan ganmlwyddiant yr achos yn 1904. Yn Ebenezer yr urddwyd Griffith John ar 6 Ebrill 1855 ar gyfer gwasanaethu yn genhadwr i Tseina. Cafodd ei dderbyn yn aelod yno pan yn wyth mlwydd oed a chydnabu ei fod yn fawr ei ddyled i'r eglwys ym mlynyddoedd ei fagwraeth.[54] Mewn llythyr at ysgrifennydd Ebenezer adeg y canmlwyddiant, llongyfarchodd Griffith John yr eglwys yn wresog: 'What blessed memories I have connected with Ebenezer! I am delighted to see what Ebenezer is doing for the Mission. Let me thank you warmly, and thank the church through you'.[55] Cyfunwyd Ebenezer ag Eglwys Henrietta, mewn rhan arall o'r dref yn y 1970au, gan sicrhau olyniaeth i eglwys a fu'n flaenllaw yn y mudiad Annibynnol. Wedi ei sefydlu gan David Davies yn 1804, cododd y cenhadwr mawr Griffith John; yma, bu Thomas Rees yn weinidog yr eglwys rhwng 1862 ac 1885 ac yn Ebenezer y corfforwyd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar nos Iau 12 Hydref 1871.[56] Mae ei lle, felly, yn hanes Annibynia yn ddiogel.[57]

*Morgan Jones a Blaen-y-coed*

Mae'r etifeddiaeth a adawodd Morgan Jones ar ei ôl i'w gweld yn hanes yr emynydd Elfed a godwyd ym Mlaen-y-coed genhedlaeth neu ddwy wedi dyddiau Jones yno. Yn ei gofiant i Howell Elvet Lewis ('Elfed': 1860 - 1953), dyfynnodd yr awdur, Emlyn G. Jenkins, yn helaeth o'r ysgrifau 'Atgofion a Lledgofion' a ymddangosodd yn *Y Dysgedydd* yn 1930. Mae'n amlwg oddi wrth yr hyn a gofnododd Elfed bod ei gefndir crefyddol yn ffrwyth arferion eglwysig a sefydlwyd dan arweiniad Morgan Jones pan weinidogaethai ym Mlaen-y-coed ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd rhieni Elfed, James ac Anna Lewis, 'yn bobl ddefosiynol a'u crefydd yn rym llywodraethol yn eu bywyd'.[58] Dylanwadodd awyrgylch y cartref ac arweiniad ei rieni, fel dylanwad y capel, yn fawr ar feddwl a datblygiad yr Elfed ifanc. Cofiai am ddawn gweddïo ei dad ar yr aelwyd a'i arweiniad yng nghyrddau gweddi yr ieuenctid; a'i fam ar nosweithiau Sul, pan fyddai ei dad yn oedfa'r hwyr, yn adrodd storïau Beiblaidd i'r plant ac yn cynnal addoliad ar yr aelwyd fel a wnaed wrth gadw dyletswydd yr allor deuluaidd pob dydd. Roedd y cyfarfodydd mewn anedd-dai a'r cyrddau gweddi lluosog a sefydlwyd yng nghyfnod Jones mewn bri ym Mlaen-y-coed genedlaethau'n ddiweddarach**.**[59] Cofiai Elfed hefyd am ei dad yn ei annog i ddysgu pennod gyntaf *Y Catecism Byrraf* o waith Dr George

---

[51] Noel Gibbard, *Griffith John, Apostle to Central China* (Bridgend: Bryntirion Press, 1998), t. 26.
[52] John Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy* (Dolgellau: William Hughes, 1888), t. 211.
[53] W. James, *Canmlwyddiant Eglwys Ebenzer, Abertawe* (Abertawe: E & J Griffiths, 1904), t. 11
[54] Gw. Gibbard, *Griffith John, Apostle to Central China*, Pennod 1 'From Swansea to Shanghai: 1831-55', tt. 15-33.
[55] James, *Canmlwyddiant Eglwys Ebenzer, Abertawe*, tt. 11-12.
[56] R. Tudur Jones, *Yr Undeb Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1872-1972* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1975), t. 53; Thomas, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy*, t. 274.
[57] Er yr uno ag eglwys Henrietta, troes yr adeilad yn gartref i Eglwys Efengylaidd Ebenezer.
[58] Emlyn G. Jenkins, *Cofiant Elfed 1860-1953* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1957), t. 28.
[59] Jenkins, *Cofiant Elfed 1860-1953*, tt. 16-7.

Lewis ac y ‘trefnwyd iddo ef, Mary a John, ei chwaer a’i frawd, gydadrodd y bennod yn gyhoeddus yn y Capel’.[60]

Yn ychwanegol i ddylanwad cyfarfodydd rheolaidd y capel a’r gymanfa bregethu awyr agored yn ystod misoedd yr haf, soniodd Elfed am ddylanwad yr Ysgol Sul, lle dysgodd ddarllen ynghyd â dysgu llythrennau’r wyddor wrth ddilyn bys ei dad ar y Beibl gartref. Cofiai am awygylch y cyrddau gweddi, yr oedfa weddi ar nos Fawrth a fyddai’n mynd ar gylchdaith o gwmpas cartrefi’r aelodau, a’r cwrdd gweddi cenhadol ar nos Lun gynta’r mis ac a gynhelid yn rheolaidd yn Cwmcafit. Yno y clywodd hanesion am Madagascar gyntaf, y daeth iddo swyn o’r enw Erromanga ac y cychwynnodd ei ddiddordeb yn y genhadaeth dramor. Roedd y patrwm o gynnal cyfarfodydd gweddi wythnosol mewn anedd-dai yn y capeli yn gyffredin yn y cyfnod. Dyma oedd yn wir am fywyd hen eglwys Pant-teg yn Sir Gaerfyrddin i mewn i’r ugeinfed ganrif. Pan ymatebodd John Thomas Jones Ffosygaseg i alwad Duw arno i fod yn genhadwr yn 1913, a’i ddanfon yn ddiweddarach dan nawdd Cymdeithas Genhadol Llundain i Madagascar, bu’r hyn a ddysgodd gartref yn allweddol. Mawrygodd ddylanwad y ddyletswydd deuluaidd ar yr aelwyd a’r cyrddau gweddi wythnosol yn ffermydd yr aelodau, gofiodd gymryd rhan yn y cwrdd gweddi cenhadol ar nos Lun gynta’r mis ynghyd a’r cyfarfod paratoad a gynhelid yn y capel; bu’r cwbl yn ddylanwad mawr arno wrth iddo gysegru ei fywyd i fod yn weinidog ac yn genhadwr.[61] O ran hanes Elfed, gadawodd ffigurau blaenllaw yn yr eglwys ei ôl arno, megis David Phillips Gilfach Jestyn a fyddai’n ei dywys yn ei law i’r cwrdd gweddi wythnosol, ac a roes iddo, wrth gychwyn yn y weinidogaeth, ei gasgliad personol o gyfrolau y Dr Edward Williams. Ffigwr arall dylanwadol oedd Samuel Bowen Nant-y-castell, darllenwr brwd a oedd yn berchen ar gyfrolau *Y Gwyddoniadur*. Roedd yn nai i’r Parchedig Samuel Bowen a godwyd i’r weinidogaeth ym Mlaen-y-coed yng nghyfnod Morgan Jones, ac a fu’n athro yn Athrofa’r Annibynwyr yn y Drenewydd ac yn Macclesfield wedi hynny. Roedd yn Galfin cymedrol ac yn awdur cyfrol ddylanwadol ar Athrawiaeth yr Iawn.[62] Cefnder i Samuel Bowen Nant-y-castell oedd Taliesyn Jones: ‘Yr oedd Taliesyn Jones yn Galfin go drwyadl, a’i gefnder yn dipyn o rydd-feddyliwr,’[63] a chofiai Elfed amdanynt yn dadlau yn y gymanfa bwnc. Sul pwysig yng nghalendr yr eglwys oedd ‘Y Sul Cwrdd Mowr’:

> Prynhawn y Sul hwnnw bob mis yr arfer oedd ... adrodd ac ateb ‘pwnc’. Cymerid pennod, neu ran o un, i’w thrafod a’i thrin ymhob dosbarth ar ei ben ei hun, yn ystod y tri Sul rhwng dau gymundeb; ac yna ar ben y mis, adroddid y wers, o adnod i adnod, gan bob dosbarth yn ei dro, neu’n unsain gan yr holl Ysgol - neu gymysg o’r ddwy ffurf. Yr oedd hwn i’r Ysgol, ac i’r holl ardal yn Sul mawr bob mis mewn gwirionedd a’r lleill yn arwain ato ac yn gweini arno.[64]

Ac roedd ‘Sul y Cwrdd Mowr’ yn amlwg yn atgyfnerthu’r gymanfa bwnc a oedd gymaint mewn bri ym Mlaen-y-coed a’r ardal. Meddai Emlyn Jenkins:

---

[60] Jenkins, *Cofiant Elfed 1860-1953*, t. 15.
[61] D. Brinley Pugh, *Triawd yr Ynys* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1954), tt. 55-79; am John Thomas Jones (1889-1952) gw. *Bywg.*
[62] *Athrawiaeth yr Iawn, neu Aberth Crist, yn cael ei ystyried yn ei natur a’i angenrheidrwydd* (Aberystwyth: S. Thomas, 1829); am Samuel Bowen (1799-1887), gw. *Bywg*.
[63] Jenkins, *Cofiant Elfed*, t. 36.
[64] Jenkins, *Cofiant Elfed*, t. 32.

> Bu'r Gymanfa Bwnc ... yn llawforwyn effeithiol i gyfarwyddo gwerin mewn gwybodaeth Feiblaidd a'i chymhwyso i fwrw codwm mewn mewn hawl ac ateb, a meithrin medr nid yn unig i feddwl ond hefyd i fynegi y meddwl yn rhesymegol a deallus.[65]

Wrth bwyso a mesur y ffurf a'r patrwm o weithgareddau crefyddol a arferid ym Mlaen-y-coed yn ystod plentyndod Elfed, heb amheuaeth, gwelir eu bod wedi eu sylfaenu adeg gweinidogaeth rymus Morgan Jones yn y cylch, a bu'r patrwm yn weithredol ac yn boblogaidd am genedlaethau ymlaen i'r dyfodol ac i mewn i'r ugeinfed ganrif. Mewn cyfrol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, adroddir fel y parhaodd gymanfa bwnc unol eglwysi Blaen-y-coed, Hermon Cynwyl Elfed a Bryn Iwan yn boblogaidd i mewn i ail hanner yr ugeinfed ganrif a heb fawr newid ar yr arfer er dyddiau gweinidogaeth Morgan Jones.[66]

*David Peter a Heol Awst*

Pan fu farw David Peter yn 1837, Heol Awst oedd yr eglwys fwyaf o ran aelodau a feddai'r Annibynwyr Cymraeg. Yn ogystal â hynny, 'ystyrrid Eglwys Heol Awst yn nyddiau Mr. Peter', meddai John Thomas, 'yr Eglwys fwyaf pendefigol yn yr Enwad'.[67] Y pryd hynny roedd ganddi tros 600 o aelodau. Ym mlynyddoedd ei weinidogaeth y bu'r Ysgol Sul ar ei chryfaf.[68] Erbyn cyfnod ei olynydd John Breese, yr ymdeimlad oedd bod yr Ysgol Sul yn dioddef, o ran bod y niferoedd yn gostwng: 'Dyna oedd anhawster mawr gweinidogaeth Mr. Breese – cadw'r llanw rhag cilio yn ôl'.[69] Erbyn cyfnod Breese wrth gwrs roedd eglwysi Annibynnol wedi eu sefydlu ym Mhontargothi, Abergwili, Cana, Philadelphia, Pen-y-graig a Llangain, ac nid oedd y dylifo i'r dref ac i Heol Awst mor niferus ag y bu yng nghyfnod ei ragflaenydd. Ac eto, 'problem fawr gweinodogaeth Mr. Breese oedd cadw'r gogoniant rhag tywyllu ar etifeddiaeth David Peter'.[70] Roedd y sialens i ddilyn Peter yn enfawr, eto roedd cael camu i etifeddiaeth mor gyfoethog yn fraint fawr, ac mae'n siŵr mai dyna oedd ymdeimlad olynwyr David Davies a Morgan Jones megis olynwyr Peter.

*Academi Bresbyteraidd Caerfyrddin*

Mewn llythyr at yr arweinydd Undodaidd John James ym Medi 1811, cyfeiriodd Iolo Morganwg yn wawdlyd sarhaus at David Peter a'r Academi Bresbyteraidd yng Nghaerfyrddin. Roedd y sefydliad o dan ei lywyddiaeth, meddai, 'wedi ymdywyllu yn erchyll'.[71] Lle bu Undodiaid ifanc ar un adeg yn efrydu yno'n frwd, oherwydd rhagfarn Peter dim ond Calfiniaid a gâi groeso yno mwyach. 'Honnodd Iolo fod "Prifysgol Caerfyrddin" wedi colli ei ffordd, "ac oni ellir sefydlu rhywbeth yn well o lawer na honno, nid oes i ni well gobaith nac i weled y tywyllwch dudew yn ymdaenu dros ein gwlad"'.[72] Yn ystod ei gyfnod fel pennaeth roedd Peter

[65] Jenkins, *Cofiant Elfed*, t. 16.
[66] T. Howell Mudd, *Rhai Ysgubau Allan o Ysgubor y Cof* (Abertawe: Cyhoeddwyd gan yr awdur, 2021), t. 23.
[67] J. Dyfnallt Owen, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (Caerfyrddin: W.M.Evans a'i Fab, 1926). t. 52.
[68] Gw. Lewis, *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter,* t. 154.
[69] Owen, *Hanes Heol Awst*, t. 57.
[70] Owen, *Hanes Heol Awst*, t. 59.
[71] Geraint H. Jenkins, *Y Digymar Iolo Morganwg* (Talybont: Y Lolfa, 2018), t. 164; cf. Geraint H. Jenkins et al (goln), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, Cyfrol 3 (Cardiff: University of Wales Press, 2007), t. 281.
[72] Jenkins, *Y Digymar Iolo Morganwg*, t. 181; Jenkins et al (goln.), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, Cyfrol 3, t. 281.

wedi ei ganmol gan y Bwrdd Presbyteraidd am greu ysbryd brawdol a goddefgar ymhlith y myfyrwyr a'r athrawon fel ei gilydd, beth bynnag oedd eu teyrngarwch ddiwinyddol, ac roedd yr ysbryd brawdol wedi cael dylanwad daionus ar hyd y wlad. Os nad oedd gwir yn y cyhuddiad bod Peter yn gwrthod rhoi lle i Undodiaid ifanc, onid y gwir ydyw mai Iolo oedd yr un rhagfarnllyd? Yn ôl cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd, roedd y noddwyr yn gwbl gefnogol i Peter, ac yn groes i farn ddilornus y bardd, roedd popeth yn tystio i ragoriaeth yr addysg a gyfrennid yn yr Academi. Ag eithrio diwedd cyfnod Peter pan oedd ei iechyd yn dioddef, canmolwyd waith a pherfformiad yr Academi, nodwyd fel roedd disgyblaeth wedi ei hadfer a'i chynnal ac am yr ymateb cadarnhaol i bob awgrym ynghylch gwelliannau i'r cwricilwm a'r addysgu. Cadarnhau tystiolaeth adroddiadau y Bwrdd Presbyteraidd a wnaeth Dewi Eurig Davies yn ei gofnod helaeth am yr addysg a ddarperid yn yr Academi yng nghyfnod Peter.[73] A'r un oedd barn H. McLachlan. Adroddodd fel roedd y pwyllgor a fu'n arholi ar ran y Bwrdd yn 1817 wedi ei blesio yn yr amrediad eang o bynciau a addysgid yno:

> The list of subjects shows that Science was given a large place in the curriculum as in the English Academies, and that Carmarthen did not fall behind these in the number or character of the studies pursued ... The curriculum included 'modern subjects' as well as the classics and divinity, and the standard of education was not inferior to that of most contemporary English Academies.[74]

Serch hynny, nid da lle gellid gwell oedd hi'n barhaus gydol tymor llywyddiaeth Peter. Ystyrir cyfnod David Lloyd, olynydd Peter, fel yr oes aur yn hanes yr Academi, pan ddyfarnwyd iddi'r hawl i ddyfarnu graddau BA Prifysgol Llundain, ond prin y byddai hynny wedi digwydd onibai am y braenaru a ddigwyddodd yn ystod tymor Peter. Os ymgeiswyr o blith yr Annibynwyr oedd mwyafrif y myfyrwyr ym mhlyddoedd olaf llywyddiaeth Peter ac yng nghyfnod Lloyd, rhaid cofio am benderfyniad Annibynwyr y de-orllewin i gynorthwyo'r sefydliad trwy noddi myfyrwyr o'u plith i astudio yno. Calfiniaid cymedrol oedd trwch gweinidogion yr Annibynwyr erbyn canol y ganrif, yn gofalu am eglwysi efengylaidd eu hosgo a oedd wedi elwa yn ddirfawr ar y Diwygiad. Mudiad bychan oedd yr Undodiaid yng Nghymru ar y pryd, ac wedi hynny i mewn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac os diwedd y gân yw'r geiniog, methodd Undodiad Cymru a sefydlu coleg neilltuol iddynt eu hunain a hynny am resymau ariannol, ni waeth beth am freuddwyd Iolo a'i gynlluniau. Parhaodd Academi Caerfyrddin i wasanaethu'r eglwysi Annibynnol trwy gydol y blynyddoedd ac ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif. Roedd cynhysgaeth David Peter a'i gyfoeswyr wedi'i hymdynghedu i barhau.

[73] Dewi Eurig Davies, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1976), tt. 121-60.
[74] H. McLachlan, *English Education Under the Test Acts, being the history of the Nonconformist Academies, 1662-1820* (Manchester: Manchester University Press, 1931), t. 59

*****

Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg daethpwyd i ystyried Cymru fel cenedl o Ymneilltuwyr. 'The Welsh', meddai Thomas Rees yn 1861, 'are now emphatically a nation of Nonconformists'.[75] Os y Methodistiaid Calfinaidd oedd ar y blaen yn ôl cyfrifiad crefyddol 1851, doedd yr Annibynwyr ddim llawer ar eu hôl, ac roedd Sir Gaerfyrddin, cyffiniau Abertawe a Chwm Tawe ymhlith eu cadarnleodd. Roedd y sylfeini ar gyfer llwyddiant mawr Ymneilltuaeth dorfol, boblogaidd Oes Victoria wedi eu gosod i lawr cyn canol y ganrif. Pwrpas yr astudiaeth hon yw dangos nad dibwys oedd cyfraniad David Davies, Morgan Jones a David Peter yn y datblygiad pwysig a chyffroes hwnnw.

[75] Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales* (London: John Snow, 1861), t. 485.

# ATODIAD

**Helynt Henry Davies**

Bu cryn lythyru, fel y gwelwyd, yn sgil gwrthodiad Henry Davies fel myfyriwr yn yr Academi yn 1801. Y gweinidog a wnaeth fwyaf i geisio amddiffyn Henry Davies ac achub ei gam oedd David Davis Castell-nedd, mab David Davis Castell-hywel. Yn 1901 casglwyd llawer o lythyron yn ymweud â gwrthodiad Henry Davies, ynghyd â'i ddatganiad gan R. J. Jones gan eu cyhoeddi dan y teitl 'Contemporay Documents' yn ei *Unitarian Students 1796 - 1901*. Y mae'n gwbl amlwg, wrth fel mae wedi croniclo'r dogfennau, iddo gredu bod bai ar David Peter am wrthod lle i ymgeiswyr Undodaidd yn y coleg. Yn ei hunan-amddiffyniad, roedd y llywydd wedi honni iddo weithredu yn unol â dymuniad y Bwrdd Presbyteraidd oddi ar ail sefydlu yr Academi yng Nghaerfyrddin yn 1795, a chynnal y polisi o beidio derbyn myfyrwyr eithafol, penboeth neu annioddefgar, boed yn Galfiniaid neu'n Sosiniaid, am y byddent yn debygol o aflonyddu ar fywyd yr Academi. Yn ôl dehongliad David Davis, roedd Peter wedi gwrthod lle i Henry Davies ar gyfrif y ffaith ei fod yn Sosin, ac mai dyna, yn ôl a ddeallwyd, oedd arweiniad y Bwrdd Presbyteraidd ar y mater. Ond yn ôl R. J. Jones: 'There was probably no resolution of the Presbyterian Board to that effect, and it is just possible the Principal, the Rev. David Peter, exceeded his instructions.'[1] Credai Jones hyn yn rhannol am iddo ddarllen mewn llythyr teuluol fod ewythr iddo, sef y Parchg John Jones Clettwr, wedi ei wrthod yn yr Academi ar gyfrif ei fod yn Undodiad.[2] Yn natganiad Henry Davies, wedi iddo sôn am Peter yn ei holi ynghylch ei gredoau am Berson Crist a natur yr Iawn, dyfynnod Peter yn dweud: 'I do not wish to deceive you - the Board will not, for the future, admit Socinians into the Academy'.[3] Yn ddiweddarach, yng ngwydd ei dad, mynnodd fod Peter wedi dweud nad oedd yr Undodiaid yn llwyddiannus yn Lloegr a braidd byth yn gwneud yn dda, ac na fedrai Davies gael ei dderbyn i'r Academi 'as it was the determination of the Board not to admit Unitarians for the future - but that if any should become Unitarians, after admission, they were to be tolerated'.[4] Yn ôl R. J. Jones, nid oedd y Bwrdd Presbyteraidd erioed wedi gwneud penderfyniad o'r fath, ac nid oes unrhyw gofnod ysgrifenedig yng Nghofnodion y Bwrdd yn datgan hynny. (Y mae serch hynny, le i feddwl bod Abraham Rees, ysgrifennydd y Bwrdd Presbyteraidd ar y pryd, a David Peter, fel llywydd yr Academi, wedi dod i ddealltwriaeth rhyngddynt a chytuno ar lafar mai gwell fyddai peidio dros dro roi mynediad i Undodiaid). Roedd ffrindiau David Davis Castell-nedd o'r farn mai dyna oedd y sefyllfa. Mewn llythyr at Davis, dyddiedig 27 Ionawr 1801 cyfeiria y Parchg. Samuel Thomas, Frenchay, at 'the *underhanded, disavowed* proceedings of some Arian Drs., for I cannot help thinking that there must have been some grounds given from *above* for the current reports that Unitarianism would be discouraged as much as possible at Carmarthen'.[5] Serch hynny ni allai gredu bod Abraham Rees wedi rhoi awdurdod i Peter i groesholi Henry Davies ynghylch ei gred am Berson Crist a'r Iawn ond mai Peter oedd wedi gweithredu

---

[1] R. J. Jones, *Unitarian Students 1796 - 1901* (Aberdare: Jenkin Howell, 1901), t. 98.
[2] Jones, *Unitarian Students*, t. 98.
[3] Jones, *Unitarian Students*, t. 102.
[4] Jones, *Unitarian Students*, tt. 103.
[5] Jones, *Unitarian Students*, t. 105.

uwchlaw ei awdurdod. Ac yn y llythyr, ymhellach, cyfeiriodd at ymholiad gan Thomas Jarvis, un o athrawon Academi Exeter, lle roedd Henry Davies wedi gwenud ymholiadau ynghylch y posibilrwydd o ymrestru yno: 'It is curious enough that upon Mr Jarvis's making the enquiry at this same Board - the whole Committee denied having made a motion, public or private about discouraging Unitarianism, or having authorized the Tutor to say so'.[6] Er hynny mae lle i amau nad oedd Abraham Rees yn awyddus i weld Undodiaid yn cael mynediad i'r Acdemi yng Nghaerfyrddin. Roedd David Davis Castell-nedd wedi ysgrifennu at y Bwrdd Presbyteraidd yn protestio at y modd roedd David Peter wedi ymagweddu tuag at Henry Davies. Ni chafodd ei lythyr dderbyniad gwresog gan Abraham Rees, ac mewn ymateb i'r llythyr hwnnw ysgrifennodd at David Davis Castell-hywel, y tad, ar 6 Ionawr 1801 yn datgan ei anfodlonrwydd gydag ymyrraeth ei fab yn gwneud cyhuddiadau di-sail am Peter ac felly amdano ef ei hun a'r Bwrdd.[7] Yn y llythyr hwnnw mae'n bosibl bod Abraham Rees wedi bradychu ei ddymuniad parthed mynediad i Undodiaid:

> It was not necessary to raise a hue and cry of persecution against Unitarians as if any of us were disposed to injure young persons of that description; though, for my own part, I scruple not to avow it as my opinion, that it would not be desirable to have the number of bigoted and zealous Socinians increase, any more than Calvinists of that description.[8]

Wedi gweld y llythyr gan ei dad, parhaodd y mab i lythyru ynghylch y mater. Ar 16 Mawrth 1801 fe ysgrifennodd drachefn at Abraham Rees, yn ymwrthod ag awgrymiadau cyhuddgar Rees yn ei gylch. Heb dynnu dim yn ôl, daliodd at ei ddatganiad gwreiddiol i'r Bwrdd ynghylch y modd annheg yr oeddid wedi delio â Henry Davies. Meddai wedyn: 'I have more than once solicited an interview with Mr Peter, but to the surprise of all his friends he refuses to see me'.[9] Mae lle i gredu bod hyn yn wir ar sail yr hyn a ddywedodd David Peter mewn llythyr at Abraham Rees.[10] Roedd David Davis wedi galw yng nghartref Peter, ond ni chafodd groeso ac roedd Peter wedi dweud wrtho nad oedd am ei weld, ac ni fu unrhyw gyfweliad rhyngddynt. Nid oes unrhyw sôn am y Dr Abraham Rees yn ateb llythyr pellach David Davis iddo, a'r tebyg yw na wnaeth. Roedd yn amlwg fod yr amser wedi dod i symud ymlaen. Mewn llythyr cynharach at y Parchg John Rowe, Bryste, 14 Chwefror 1801, datganodd Davis Castell-nedd iddo glywed yn gyfrinachol bod y Dr Abraham Rees wedi ysgrifennu at David Peter yn ei hysbysu fod cadeirydd y Bwrdd wedi cytuno â'i ddatganiad (16 Rhagfyr 1800), ond nad oedd yn bwriadu'i osod gerbron y Bwrdd cyn y cyfarfod blynyddol canlynol.[11] Mewn llythyr pellach at Rowe dyddiedid 14 Mai 1801, soniodd Davis am sgwrs rhyngddo â David Davies, is-diwtor yr Academi. Tra ar ymweliad â Chaerfyrddin adeg y Pasg, bu'r ddau yn trafod y mater tymhestlog, ac wrth ymddiheurio am ymddygiad Peter, credai fod David Davies wedi bradychu natur yr anfodlonrwydd: 'When we have said or done things rashly,

---

[6] Ibid. Jones, *Unitarian Students*, t. 106.
[7] Ibid. Jones, *Unitarian Students*, tt. 100-1.
[8] Ibid., Jones, *Unitarian Students* tt. 100-1.
[9] Ibid., Jones, *Unitarian Students* t. 111.
[10] 'Correspondence from Tutors at Carmarthen', 25 Chwefror 1801.
[11] Jones, *Unitarian Students 1796 - 1901*, t. 108.

what are we to do, but to make the best we can of things, in order to save our credit'.[12] Ac i Davis golygai hynny un peth: 'Those are the expressions as far as I recollect, which evidently imply that Mr. Peter exceeded his authority in saying that no Unitarians were to be admitted thenceforth into the Academy'.[13]

Ond nid dyna ddiwedd ar drafod yr ymryson chwaith. Mewn perthynas â chyhuddo Peter o fod yn annioddefgar tuag at Undodiaid, datganodd Walter J. Evans, 'the imputation of intolerance rests it is believed, on the sole authority of Dr Charles Lloyd, who formulates his charges in *Particulars*, c. XIII., *Mon. Mag*. 1813, pt. i, p. 411, *Mon. Rep*. 1814, p. 465, and another publication referred to in the *Particulars* (p. 148) ... affirming that two candidates were rejected in 1801, and two more in 1802, because they were Unitarians'.[14] Ond rhaid cofio hefyd, fel y gwnaed uchod, am gyhuddiadau David Davis, Castell-nedd wrth iddo ymyrryd fel y gwnaeth er achub cam Henry Davies, ac efallai i bardduo David Peter. Y pedwar ymgeisydd y tybir iddynt gael eu gwrthod ar gyfrif eu daliadau Undodaidd oedd Henry Davies a John Lewis yn 1801, a Daniel Jones a John James yn 1802.[15]

[12] Ibid. Jones, *Unitarian Students*, t. 112

[13] Ibid. Jones, *Unitarian Students*, t. 112.

[14] Walter J. Evans, 'Carmarthen College 13: David Peter', *Yr Ymofynydd*, Cyfres Newydd 5 (Mai 1901), 99-102 [101-2].

[15] Evans, 'Carmarthen College 13: David Peter', t. 102.

**Llyfryddiaeth**

**Llawysgrifau**


**i. Llyfrgell Genedlaethol Cymru**

LlGC, Casgliad Heol Awst, 4.
LlGC, Casgliad Heol Awst, 7.
LlGC MS 404A, pregethau David Davies.
LlGC, ewyllys Morgan Jones.
LlGC, ewyllys David Peter.

**ii. Llyfrgell Dr Williams, Gordon Square, Llundain**

Cofnodion y Bwrdd Cynulleidfaol (Minutes of the Congregational Fund Board), 1776.

Cofnodion y Bwrdd Presbyteraidd (Minutes of the Presbyterian Fund Board) Mawrth 1786; Hydref, Rhagfyr 1789; Mehefin 1790; Mai, Hydref 1795; Hydref 1798; Ebrill, Hydref 1800; Rhagfyr 1802; Mawrth 1806; Hydref 1817; Hydref 1820; Hydref 1826; Chwefror, Rhagfyr 1827; Mai 1828; Mawrth, Mai, Hydref, Rhagfyr 1831; Hydref, Rhagfyr 1832; Chwefror, Mawrth, Mai, Gorffennaf, Hydref 1833; Awst, Hydref, Rhagfyr 1834; Ebrill, Gorffennaf 1835; Hydref 1839

'Correspondence from Carmarthen tutors, 1800-29', yn cynnwys:
D. Davies a D. Peter at Dr Abraham Rees, 27 Tachwedd 1800
D. Peter at Dr Abraham Rees, 16 Rhagfyr 1800
D. Davies a D. Peter at Dr Abraham Rees, 25 Chwefror 1801
At Abraham Rees, 29 Tachwedd 1821

Jeremy MSS, List of Ministers

**iii. Ysgol Gwyddorau Affricannaidd a Dwyreiniol Prifysgol Llundain (SOAS)**

Archifdy LMS/CWM Home Office Extra, Box 2 1800-1839, Folder 1 Jacket A Llythyr 2.

Cofnodion Bwrdd y Cyfarwyddwyr (Minutes of the Board of Directors)
CWM Home Board Minutes Box 5/6 1809-1815.

Cofnodion Pwyllgor yr Arholwyr (Minutes of the Committee of Examination)
Awst – Hydref 1814
Mehefin 1816 – Gorffennaf 1819
Ionawr 1824 – Medi 1826

Papurau Ymgeiswyr (Candidates Papers) 1796-1899
Box 1
Box 6, 1814
Box 9, 1816

*LMS Reports*, 1796.
*LMS Reports,* 1798.

*LMS Reports*, 1800.
*LMS Reports*, 1812.
*LMS Reports*, 1813.
*LMS Reports*, 1814.

### iv. Mewn dwylo preifat

Gweithred Prydles Llwyn-yr-hwrdd, 1 Ionawr 1806.

## Ffynonellau craidd

### i. Cyfrolau

Beynon, J. J., *The Holy Art of Winning Souls to Christ, Exemplified in the Life and Ministry of the Late Rev. Morgan Jones, of Trelech, Carmarthenshire* (London: J. Snow, Paternoster Row, 1848).
Bulmer, J., *Memoirs ... of ... Benjamin Evans* (Haverfordwest: Joseph Potter, 1826).
Davies, David, *Y Bibl Sanctaidd ... gydag Ymyl-Nodau Cyfeiriol ac Eglurhaol a Chrynodeb o Gynnwysedd pob Llyfr a phob Pennod* (Caerfyrddin: J. Evans, 1817).
Davies, Daniel, *Hanes Bywyd y Parch. John Griffiths, o Landwr; ynghyd ag eiddo y Parch. W. Griffiths, ei Fab o'r Un Lle* (Caerfyrddin: Swyddfa Seren Gomer, J. Evans, 1826).
Davies, James, *Galar gan er coffa am y diweddar Barch. David Peter, Gweinidog yr efengyl, ac Athraw yr Athrofa yn Nghaerfyrddin yr hwn a fu farw Mai 4ydd 1837, yn 72 oed.* (Caerfyrddin: J. Thomas, 1837).
Davies, Samuel, *Pregeth ar yr Agyfodiad Cyffredinol oddiwrth ioan V. 28,29 ... wedi ei chyfieithu i'r Cymraeg gan y Parch M. Jones* (Caerfyrddin: Ioan Daniel, d.d.).
Evans, George Eyre (ed.), *Lloyd Letters 1754 -1796* (Aberystwyth: William Jones, 1908).
Evans, Simon, *Cofiant y Parch. James Griffiths, Tyddewi* (Llanelli: Rees a Williams, 1860).
Evans, Simon, *Drws y Ty neu Lawlyfr i Ymgeiswyr am Aelodaeth Eglwysig*, 4ydd arg. (Dolgellau: W. Hughes, 1881).
Griffiths, James, *Trefn yr Eglwys dan y Testament Newydd yn cynnwys Golwg fer ar natur yr Eglwys yn nghyd a'r Swyddogion, ei Hordinhadau, ei Llywodraeth, & c. mewn ffordd o ymddyddan rhwng Presbuteros a Juvenis* (Caerfyrddin: J. Evans, 1811).
Griffiths, Samuel, *Pregeth Angladd a bregethwyd yn Trelech, Chwef. 14, 1836, ar yr achlysur o farwolaeth y Parch. M. Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836).
Griffiths, Samuel, *Cofiant y diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836).
Jones, Morgan, *Y Dydd yn Gwawrio, neu Hanes Dechreuad, Cynnydd a Llwyddiant y Gyfeillach Fawr yn Llundain* (Caerfyrddin: I. Evans, 1798).
Jones, Morgan, *Athrawiaeth y Ddau Gyfammod mewn Cwestiynau ac Attebion er Hyfforddiad Y'mhellach i Blant yr Ysgolion Sabbathawl* (Caerfyrddin: John Evans, 1812).
Jones, Morgan, *HOLIADAU a ofynir i'r rhai a dderbynir yn Aelodau i Eglwys Gynulleidfaol ac a Attebir Ganddynt ar eu derbyniad* (Caerfyrddin: J. Evans, 1815).
Jones, William, *Cofiant y Parch. David Davies, diweddar weinidog Y Pantteg a Pheniel Sir Gaerfyrddin* (Abertawy: E. Griffiths, 1867).
Lewis, W. H., *Memoir of the Life and Labours of the Rev. David Peter* (London: Longman, Brown, Green and Longmans, 1846).
[Lloyd, Charles], *Particulars of the Life of a Dissenting Minister* (London: J. Adlard, *d.d.*).
Mathews, Mary, *Marwnad er Coffadwriaeth am y Parchedig Dafydd Dafis, Gweinidog yr Efengyl yn Ebenezer, Abertawe* (Abertawe: J. Harries, d.d.).

Peter, David (gol.) Samuel Palmer, *Catecism yr Ymneillduwyr Protestanaidd: gwedi ei fwriadu i addysgu a chadarnhau Pobl Ieuainc yn mhlith yr Ymneillduwyr yn Egwyddorion Anghydffurfiaeth* (Caerfyrddin: J. Evans, 1803).
Peter, David, *Y Dydd yn Gwawrio, neu bregeth ar agoriad capel Bwlch-newydd* (Caerfyrddin: J. Evans, 1809).
Peter, David, *Hanes Crefydd yn Nghymru o'r amser y daeth y Cymry i Ynys Brydain, hyd yn amser presennol* (Caerfyrddin: J. Evans, 1816).
Peter, David a James Phillips, *Anerchiad caredig at eglwysi Cynnulleidfaol Swydd Gaerfyrddin, o blaid y Gymdeithas Genhadol* (W. Evans: Caerfyrddin, 1833).
Phillips, Thomas, *Hanes am Urddiad Thomas Bevan a David Jones yn Neuaddlwyd Sir Aberteifi Awst 20fed a'r 21ain, 1817* (Caerfyrddin: J. Evans, 1818).
Powell, Lewis, *Y Llwythau Mewn Dyfnder Galar ar ol y diweddar Barch. Morgan Jones* (Llanelli: Rees a Thomas, 1836).
Rowlands, J., *Cofiant y diweddar Barchedig David Davies, Abertawy* (Abertawy: J.A. Williams, 1828).

## i. Ysgrifau mewn cylchgronau

Anhys. 'Adgofion am Hen Weinidogion: Y Parch. David Peter, Caerfyrddin', *Y Diwygiwr*, 20 (Awst 1855), 237-8.
Griffiths, James, 'Disgyblaeth Eglwysig', *Y Diwygiwr*, 6 (1841), 294-8, 326-30, 349-55.
Rees, Thomas, 'Dafydd Dafis, Abertawy, a'i Amserau', *Y Beirniad*, 4 (Ebrill 1863), 32-6.

## ii. Cylchgronau

*Antiquarian Notes*
*Cronicl Cenhadol*
*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru*
*Seren Gomer*
*The Carmarthenshire Antiquary*
*The Carmarthen Journal*
*The Evangelical Magazine*
*The Evangelical Magazine and Missionary Chronicle*
*The Monthly Repository*
*The Monthly Magazine*
*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*
*Y Beirniad*
*Y Cofiadur*
*Y Diwygiwr*
*Y Dysgedydd*
*Yr Ymofynnydd*

## Ffynonellau eilaidd cynnar

### i. Cyfrolau


Davies, T., *Bywyd ac Ysgrifeniadau y diweddar Barch. D. Rees, Llanelli* (Llanelli: B. R. Rees, 1871).
Davies, John, *Y Lloffyn Addfed Dechreuad a Chynydd Ymneillduaeth yn Abertawy a'r Cylch, Ail Argraffiad*, M. G. Dawkins (gol.), (Treforys: Jones a'i Fab, 1914).
Griffiths, David Avan, *Cofiant y diweddar David Williams, Troedrhiwdalar* (Llandeilo: D. W. a G. Jones, 1877).
Griffith, G. Penar, *Cenadon Cymreig* (Caerdydd: Gwaith Argraffu Deheudir Cymru, 1897).
Hughes, Henry, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru* (Caernarfon: Gwasg Genedlaethol Gymreig, 1906).
Hughes, John, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 1 (Gwrecsam: Hughes a'i Fab, 1851).
Hughes, John, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 2 (Gwrecsam: Hughes a'i Fab, 1854).
Hughes, John, *Methodistiaeth Cymru*, Cyfrol 3 (Gwrecsam: Hughes a'i Fab, 1856).
James, J. Lloyd, *Cymanfaoedd yr Annibynwyr, yn cynnwys eu hanes a'u llythyrau* (Merthyr Tydfil: William Hughes, 1867).
James, J. Lloyd, *Hanes Eglwys Glandŵr* (Merthyr Tydfil: Swyddfa'r Tyst, 1902).
James, J. Lloyd, *Hanes Hebron a Nebo* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams, 1903).
James, W., *Canmlwyddiant Eglwys Ebenezer, Abertawe* (Abertawe: E & J Griffiths, 1904).
Jones, E. Pan, *Cofiant ... Samuel Griffiths* (Corwen, *d.d.*).
Jones, E. Pan (gol.), *Oriel Coleg Caerfyrddin* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams, 1909).
Jones, John Morgan a William Morgan, *Y Tadau Methodistaidd: eu Llafur a'u Llwyddiant gyda Gwaith yr Efengyl*, Cyfrol 2 (Abertawe: Lewis Evans, 1897).
Jones, J. T., *Geiriadur Bywgraffyddol* (Aberdar: T. J. Jones, 1867).
Jones, R. J., *Unitarian Students 1796 - 1901* (Aberdare: Jenkin Howell, 1901).
Lewis, George, *Catecism Eglwysig neu Hyfforddiad Ysgrythurol mewn perthynas i Natur eglwys efangylaidd, ei Hawdurdod a'i rhagor-freintiau, ei swyddogion, ei disgyblaeth, &c, &c.* (Treffynnon: Edward Carnes, 1805).
Maurice, Mathias, *Yr Athrawiaeth y sydd yn ôl Duwioldeb. Gwedi ei Seilio ar Sanctaidd Scrythurau'r Gwirionedd; ac yn gyttunol a rhan Athrawiaethol Erthyglau Chyfaddefiadau Protestanaidd Lloeger* (Llundain, 1711).
Maurice, Mathias, cyf. Benjamin Evans, *Crefydd gymdeithasol wedi ei darlunio mewn hanes o sefydliad cyntaf Crist'nogaeth yn Ninas Caerludd* (Caerfyrddin: Ioan Evans, 1797).
Maurice, Mathias, Evan Evans (gol.), *Crefydd Gymdeithasol yn cael ei hegluro ar ddull hanes sefydliad cyntaf Cristionogaeth yn ninas Caerludd* (Aberdar: W. Lloyd, 1862).
Maurice, Mathias, David Gravell (gol.), *Crefydd Gymdeithasol neu Gydymaith y Cristion yn cael ei ddarlunio ar ddull Hanes sefydliad Cristionogaeth yn Ninas Caerludd* (Caerfyrddin: William Thomas, 1865).
Maurice, Mathias, Thomas Nicholas (gol.), *Social Religion Exemplified in an Account of the First Settlement of Christianity in the City of Caerludd*, Seventh Edition (London: Ward & Co, 1860).
Morgan, David, *Hanes Ymneillduaeth ... yng Nghymru*, Cyfrol 1 (Dolgellau: Evan Jones, 1855).
Owen, J. Dyfnallt, *Hanes Eglwys Heol Awst, Caerfyrddin* (Caerfyrddin: W.M.Evans a'i Fab, 1926).
Parry, Edward, *Llawlyfr ar Hanes y Diwygiadau Crefyddol yn Nghymru* (Corwen: Cwmni Argraffu Corwen, 1898).

Rees, Thomas, *Miscellaneous Papers on Subjects relating to Wales* (London: John Snow, 1867).
Rees, Thomas a John Thomas, *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, Cyfrolau 1 - 4 (Lerpwl: Swyddfa Y Tyst Cymreig, 1871-75), Cyfrol 5 (Dolgellau: William Hughes, 1891).
Rees, Thomas, *History of Protestant Nonconformity in Wales*, 2nd ed. (London: John Snow and Co., 1883).
Roberts, John, *Cofiant y Parch. Lewis Rees* (Abertawe: E. Griffiths, 1852).
Stephen, David Rhys, *Memoirs of the Late Christmas Evans, of Wales* (London: Aylott & Jones, 1847).
Stephens, T., (gol.), *Album Aberhonddu* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams, 1899).
Thomas, John, *Cofiant y Parch. T. Rees, D.D. Abertawy* (Dolgellau: William Hughes, 1888).
Thomas, Owen, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talsarn* (Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1874).
Thomas, Stephen, *Canmlwyddiant Eglwys Annibynol Blaenycoed* (Pencader: D. Jones, 1901).

**ii. Penodau mewn cyfrolau**

Anhys. 'Davies, David o Abertawe', *Y Gwyddoniadur Cymreig*, Cyfrol X (Dinbych: Gwasg Gee, 1879), tt. 511-12.
Anhys. 'Jones, Morgan', *Y Gwyddoniadur Cymreig*, Cyfrol VI (Dinbych: Gwasg Gee,1868), tt. 375-6.
Anhys. 'Williams, Edward', *Y Gwyddoniadur Cymreig*, Cyfrol VI (Dinbych: Gwasg Gee, 1868), t. 563.
Thomas, John, 'Ad-drem ar Ymneillduaeth Cymru', *HEAC*, V, tt. 441-83.
Williams, D. Gorllwyn, 'Y Parch. Morgan Jones, Trelech' yn L. D. Jones (gol.), *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1900), tt. 149-96.
Williams, John, 'Y Parch. David Davies, Abertawe' yn L. D. Jones (gol.) *Y Tadau Anibynnol*, Cyfrol 2 (Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig, 1899), tt. 103-44.

**iii. Ysgrifau mewn cylchgronau**

Evans, Walter J., 'Carmarthen College 13: David Peter', *Yr Ymofynydd*, Cyfres Newydd 5 (Mai 1901), 99-102.
Evans, Walter J., 'Dr Daniel Jones' Fund', *Antiquarian Notes*, 4/36 (1906), 3-15.
Evans, Walter J., 'Dr Daniel Jones' Fund', *Antiquarian Notes*, 4/37 (1906), 17-27.
'T. T', 'John James Gelli-onnen', *Yr Ymofynydd*, Cyfres Newydd 47 (Tachwedd 1891), 241-7.

**Ffynonellau eilaidd diweddar**

**i. Cyfrolau**

Ahlstrom, Sydney E., *A Religious Histoty of the American People* (New Haven: Yale University Press, 1973).
Anhys. *Cofio'r Parchedig Morgan Jones 1768 – 1835* (Llwyn-yr-hwrdd: Cymdeithas Cyfeillion Morgan Jones, 1985).
Bebbington, David, *Evangelicalism in Modern Britain: A History from the 1730s to the 1980s* (London: Unwin Hyman, 1989).
Bebbington, David, *Victorian Religious Revivals: Culture and Piety in Local and Global Contexts* (Oxford: Oxford University Press, 2012).

Bolam, C. G. et al, *The English Presbyterians: from Elizabethan Puritanism to Modern Unitarianism* (London: George Allen & Unwin, 1967).
Boles, John B., *The Great Revival: Beginnings of the Bible Belt* (1976) (Lexington: University Press of Kentucky, 1996).
Davies, Desmond, *Pobl y Porth Tywyll: Hanes a Thystiolaeth Eglwys y Bedyddwyr, y Tabernacl, Caerfyrddin 1650-1968* (Caerfyrddin: Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion, 2012).
Davies, D. Elwyn, *Y Smotiau Duon: Braslun o Hanes y Traddodiad Rhyddfrydol ac Undodiaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1980).
Davies, D. Elwyn, *'They Thought for Themselves': A Brief look at the Stoty of Unitarianism and the Liberal Tradition in Wales* (Llandysul: Gomer Press, 1982).
Davies, D. Elwyn, *Cewri'r Ffydd: Bywgraffiadur y Mudiad Undodaidd yng Nghymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1999).
Davies, Dewi Eirug, *Hoff Ddysgedig Nyth: Cyfraniad Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin i Fywyd Cymru* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1975).
Davies, E. Curig (gol.), *Eglwysi'r Annibynwyr* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1939).
Davies, E. Curig, *Storïau am Annibynwyr* (Abertawe: Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1939).
Davies, E. T., *Religion in the Industrial Revolution in South Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1965).
Davies, John, *Hanes Cymru* (London: Allen Lane, 1990).
Davies, Rhys, *Cefnarthen, y Comin, y Capel a'r Ysgol* (Clydach: W. Walters a'i Fab, 1983).
Edwards, Huw, *City Mission: The story of London's Welsh chapels* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2015).
Evans, D. Gareth, *A History of Wales, 1815-1906* (Cardiff: University of Wales Press,1989).
Evans, E. Lewis, *Cymru a'r Gymdeithas Genhadol* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1945).
Evans, E. Lewis, *Hanes Capel Isaac* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1950).
Evans, Eifion, *Daniel Rowland and the Great Evangelical Awakening in Wales* (Edinburgh: Banner of Truth Trust, 1985).
Evans, Gwilym, *Capel Seion Drefach, Llanelli 1712-1980* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1981).
Evans, Muriel Bowen, *Capel-y-Graig Tre-lech 1703-2003* (Llandybie: Gwasg Dinefwr, 2003).
Gibbard, Noel, *Griffith John, Apostle to Central China* (Bridgend: Bryntirion Press, 1998).
Gibbard, Noel, *Cymwynaswyr Madagascar 1818-1920* (Pen-y-bont ar Ogwr: Gwasg Bryntirion, 1999).
Gibbard, Noel, *Hanes Plwyf Llan-non, Hen Sir Gaerfyrddin* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1984).
Gibben, Crawford, *The Puritan Millennium: Literature and Theology (1550-1682)* (Milton Keynes: Paternoster, 2008).
Gibson, Gibson a John Morgan-Guy (goln), *Religion and Society in the Diocese of St David's, 1485-2011* (Abingdon: Ashgate, 2015).
Gruffydd, Ioan Wyn, *Cluded Moroedd Cofio Dwy Ganrif o Genhadaeth 1795-1995* (Abertawe: Gwasg John Penri, 1995).
Haykin, Michael A. G. a Kenneth J. Stewart (goln), *The Emergence of Evangelicalism: Exploring Historical Continuities* (Nottingham: Apollos, 2008).
Hudson, Winthrop S., *Religion in America* (New York: Charles Scribner's, 1965).
Hughes, Dewi Arwel, *Meddiannu Tir Immanuel* (Pen-y-bont ar Ogwr: Llyfyrgell Efengylaidd Cymru, 1990).

Hughes, D. G. Lloyd, *Tir yr Abad: Hanes New Inn a Gwyddgrug yn Shir Gâr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1996).
Hughes, Garfield H., (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn,* Cyfrol 2 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1967).
Hughes, Huw J., *Coleg y Werin: Hanes yr Ysgol Sul yng Nghymru, 1780-1851* (Chwilog: Cyhoeddiadau'r Gair, 2013).
Jenkins, Emlyn G., *Cofiant Elfed 1860-1953* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1957).
Jenkins, Geraint H., *Literature, Religion and Society in Wales, 1660-1730* (Cardiff: University of Wales Press, 1978).
Jenkins, Geraint H. *The Foundations of Modern Wales 1642-1780* (Oxford: Clarendon Press, 1987).
Jenkins, Geraint H.  et al (goln), *The Correspondence of Iolo Morganwg*, Vol. 3 (Cardiff: University of Wales Press, 2007).
Jenkins, Geraint H., *Y Digymar Iolo Morganwg* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2018).
Jenkins, J. Gwili, *Hanfod Duw a Pherson Crist: Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist yn ei Pherthynas â Chymru* (Liverpool: Gwasg y Brython, 1931).
Jenkins, R. T., *Yng Ngysgod Trefeca: Ysgrifau ar Hanes Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ddeunawfed Ganrif* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid, 1968).
John, E. Stanley (gol.), *Y Gair a'r Genedl: Cyfrol Deyrnged i R. Tudur Jones* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1986).
Jones, David Ceri, *'A Glorious Work in the World': Welsh Methodism and the International Evangelical Revival* (Cardiff: University of Wales Press, 2004).
Jones, David Ceri, Boyd Stanley Schlenther ac Eryn Mant White, *The Elect Methodists: Calvinistic Methodism in England and Wales, 1735-1811* (Cardiff: University of Wales Press, 2012).
Jones, Euros Wyn (cyf.), *Cymanfa Westminster Y Catecism Byrraf mewn Cymraeg Cyfoes,* (Llangefni: O. Jones, 2002).
Jones, Geraint Elfyn, *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1976).
Jones, Herman. *Hanes Eglwys Annibynnol Jerusalem, Penbre* (Llanelli: Cyhoeddwyd gan yr eglwys, 1962).
Jones, Ieuan Gwynedd a David Williams (goln), *The Religious Census of 1851: A Calendar of the Returns relating to Wales, Vol. 1: South Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1976).
Jones, Iorwerth, *David Rees y Cynhyrfwr* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1971).
Jones, John Gwynfor a Marian Beech Hughes (goln) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3: Y Twf a'r Cadarnhau, c. 1814-1914* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011).
Jones, R. Tudur, *Yr Eglwys - Cymdeithas Iesu Grist* (Abertawe: Gwasg Tŷ John Penry, 1962).
Jones, R. Tudur, *Congregationalism in England 1662-1962* (London: Independent Press, 1962).
Jones, R. Tudur, *Hanes Annibynwyr Cymru* (Abertawe: Gwasg Tŷ John Penry, 1966).
Jones, R. Tudur, *Yr Undeb: Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, 1872-1972* (Abertawe: Gwasg Tŷ John Penry, 1975).
Jones, R. Tudur, *John Elias, Pregethwr a Phendefig* (Penybont-ar-Ogwr: Gwasg Efengylaidd Cymru, 1976).
Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914* Cyfrol 1  (Abertawe: Gwasg John Penry, 1981).

Jones, R. Tudur, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl Hanes Crefydd yng Nghymru 1890-1914* Cyfrol 2 (Abertawe: Gwasg John Penry, 1982).
Jones, R. Tudur, *Duw a Diwyllliant: Y Ddadl Fawr, 1800-1830* (Caerdydd: Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 1986).
Jones, John Gwilym, *Bethania Y Tymbl Uchaf 1800-2000* (Y Tymbl: Cyhoeddwyd gan yr eglwys, 2000).
Larsen, Timothy a Michael Ledger-Thomas (goln), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions: Volume III: The Nineteenth Century* (Oxford: Oxford University Press, 2017).
Loader, Maurice (gol.), *Capel Als 1780-1980* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1980).
Löffler, Marion, *Welsh Responses to the French Revolution: Press and Public Discourse 1789–1802* (Cardiff: University of Wales Press, 2012).
Löffler, Marion a Bethan Jenkins, *Wales and the French Revolution: Political Pamphlets and Sermons from Wales, 1790-1806* (Cardiff: University of Wales Press, 2014).
Lloyd, J. E., *Trem ar Hanes yr Anibynwyr yn Nghymru* (Caerdydd: Cwmni Cyhoeddiadol Addysgol, 1909).
Lloyd, J. E., (gol.) *A History of Carmarthenshire,* 2 Gyfrol (Caerdydd: William Lewis, 1939).
Lloyd, J. E., (gol.), *Hanes ac Egwyddorion yr Annibynwyr Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939).
Lovett, Richard, *The History of the London Missionary Society 1795-1895* (London: Henry Frowde, 1899).
McLachlan, H., *English Education Under The Test Acts, being the history of the Nonconformist Academies, 1662-1820* (Manchester: Manchester University Press, 1931).
Morgan, D. Densil, *Christmas Evans a'r Ymneilltuaeth Newydd* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991).
Morgan, D. Densil, *Cedyrn Canrif: Crefydd a Chymdeithas yng Nghymru'r Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2001).
Morgan, D. Densil, *Wales and the Word: Historical Perspectives of Welsh Identity and Religion* (Cardiff: University of Wales Press, 2008)
Morgan, D. Densil, (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014).
Morgan, D. Densil, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales: 1. From Reformation to Revival, 1588-1760* (Cardiff: University of Wales Press, 2018).
Morgan, D. Densil, *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales: 2, The Long Nineteenth Century, 1760-1900* (Cardiff: University of Wales Press, 2021).
Morgan, Derec Llwyd, *Y Diwygiad Mawr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1981).
2003).
Morgan, Prys, *Bethel, Y Sgeti 1770-1993* (Abertawe, Tŷ John Penry, 1993).
Morgan, Prys, *The Eighteenth-Century Renaissance* (Llandybie: Christopher Davies, 1981).
Morgans, John I. a Peter C. Noble, *Our Holy Ground: The Welsh Christian Experience* (Tal-y-bont: Y Lolfa, 2016),
Mudd, T. Howell, *Rhai Ysgubau Allan o Ysgubor y Cof* (Abertawe: Yr awdur, 2021).
Murray, Iain H., *The Puritan Hope* (Edinburgh: The Banner of Truth Trust, 1975).
Noll, Mark A. (gol.), *God and Mammon: Protestants, Money and the Market, 1790–1860* (New York: Oxford University Press, 2002).
Noll, Mark A., *The Rise of Evangelicalism: The Age of Edwards, Whitefield and the Wesleys* (Leicester: Apollos, 2004).
Owen, Dafydd (gol.), *Gwylio Gorymdaith Dathliad dau gant a hanner Capel Lôn Swan, Dinbych: 1742-1992* (Dinbych: Gwasg Gee, 1992).
Owen, D. Huw, *Capeli Cymru* (Talybont:Y Lolfa, 2005).

Owen, Geraint Dyfnallt, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939).
Owen, W. T., *Edward Williams D.D. 1750-1813 his Life, Thought and Influence* (Cardiff: University of Wales Press, 1963).
Page, Elsbeth, *Hanes Eglwys yr Annibynwyr Blaenycoed 1801-2001* (Aberteifi: E. L. Jones a'i Fab, 2001).
Pryce, Huw, *J. E. Lloyd and the Creation of Welsh History: Renewing a Nation's Past* (Cardiff: University of Wales Press, 2011).
Pugh, D, Brinley, *Triawd yr Ynys* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1954).
Richards, Glyn, *Braslun o Hanes Ebenezer Abertawe* (Abertawe: Tŷ John Penry, 1954).
Roberts, Dyfed Wyn (gol.), *Revival, Renewal, and the Holy Spirit* (Milton Keynes: Paternoster, 2009).
Roberts, Gomer Morgan, *Y Per Ganiedydd (Pantycelyn)*, Cyfrol 1 (Llandysul: Gwasg Gomer, 1949).
Roberts, Gomer Morgan (gol.), *Gweithiau William Williams Pantycelyn*, Cyfrol 1 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1964).
Roberts, Gomer Morgan (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 1, Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1973).
Roberts, Gomer Morgan (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 2, Cynnydd y Corff* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1978).
Samson, Ray, *Eglwys Annibynnol Llwyn-yr-hwrdd 1805-2005* (Aberteifi: E. L. Jones a'i Fab, 2005).
Thomas, Rachel L., *Christian Temple Eglwys Annibynnol Gellimanwydd Rhydaman 1782-1882* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1982).
Thompson, E. P., *The Making of the English Working Class*, ail arg. (London: Penguin Books, 1968).
Thornbury, John F, *God Sent Revival The Story of Asahel Nettleton and the Second Great Awakening* (Welwyn: Evangelical Press, 1977).
Tudur, Geraint, *Howell Harris: From Conversion to Separation, 1735-50* (Cardiff: University of Wales Press, 2000),
Tyler, Bennet ac Andrew A. Bonar, *The Life and Labours of Asahel Nettleton* (Edinburgh: Banner of Truth , 1975).
Ward, W. R., *Religion and Society in England, 1790–1850* (London: B. T. Batsford, 1972).
Ward, W. R., *The Protestant Evangelical Awakening* (Cambridge: Cambridge University Press, 1992).
Ward, W. R. *Early Evangelicalism: A Global Intellectual History, 1670-1789* (Cambridge: Cambridge University Press, 1992).
Watts, Michael R., *The Dissenters: From the Reformation to the French Revolution* (Oxford: Clarendon Press, 1978).
Watts, Michael R., *The Dissenters: Volume 2 The Expansion of Evangelical Nonconformity* (Oxford: Clarendon Press, 1999).
White, Eryn M., *Praidd Bach y Bugail Mawr: Seiadau Methodistaidd De-Orllewin Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1995).
White, Eryn M., *The Welsh Methodist Society: The Early Societies in South-West Wales 1737-1750* (Cardiff: The University of Wales Press, 2020).
Wiles, Maurice, *Archetypal Heresy: Arianism through the Centuries* (Oxford: Clarendon Press, 1996).
Williams, Glanmor et. al, *The Welsh Church from Reformation to Disestablishment, 1603-1920* (Cardiff: University of Wales Press, 2007).
Williams, Gwyn A., *The Welsh in their History* (London: Routledge, Kegan & Paul, 1983).

Williams, John, *Eglwysi Annibynnol Abertawe a'r Cylch, 1860-1915* (Merthyr Tydfil: Joseph Williams & Sons, 1915).
Williams, T. Oswald, *Undodiaeth a Rhyddid Meddwl* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1962).
Wolffe, John, *The Expansion of Evangelicalism The Age of Wilberforce, More, Chalmers and Finney* (Nottingham: Inter-Varsity Press, 2006).

### ii. Penodau mewn cyfrolau

Alban, J. R., 'Local government, administration and politics, 1700-1830', yn Glanmor Williams (gol.), *Swansea: An Illustrated History* (Llandybïe: Christopher Davies, 1990), tt. 85-114
Bowen, Lloyd, 'Wales, 1587-1689', yn John Coffey (gol.), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions, Vol. 1: The Post-Reformation Era, 1559-1689* (Oxford: Oxford University Press, 2020), tt. 223-43.
Holmes, Andrew R.., 'Evangelism, Revivals, and Foreign Missions', yn Timothy Larsen a Michael Ledger-Thomas (goln), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions: Volume III: The Nineteenth Century* (Oxford: Oxford University Press, 2017). tt. 389-404.
James , E. Wyn, 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol' yn Geraint H. Jenkins (gol.) *Cof Cenedl XVII* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2002), tt. 65-101.
James, R. Watcyn, 'Thomas Charles a Sefydlu Cymdeithas y Beibl', yn D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o'r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), tt. 37-55.
Jenkins, R. T., 'Nonconformity after 1715', yn J. E. Lloyd (gol.), *A History of Carmarthenshire*, Vol. 2 (Cardiff: William Lewis, 1939), tt 185-263.
Jenkins, R. T., 'Yr Annibynwyr Cymreig a Methodistiaeth', yn J. E. Lloyd (gol.), *Hanes ac Egwyddorion Annibynwyr Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), tt. 129-44.
Jones, John Gwynfor, ' "Pontio Dwy Genhedlaeth": Methodistiaeth Galfinaidd Cymru c. 1791-1820', yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3, Y Twf a'r Cadarnhau, c.1814-1914* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011), tt. 1-41.
Jones, Joseph, 'Y Gyfundrefn Annibynnol', yn J. E. Lloyd (gol.), *Hanes ac Egwyddorion yr Annibynwyr Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1939), tt. 181-9.
Jones, R. Tudur, 'Diwylliant colegau Ymneilltuol y bedwaredd ganrif ar bymtheg', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol 5* (Dinbych: Gwasg Gee, 1970), tt. 112-49.
Jones, R. Tudur, 'Yr Hen Ymneilltuwyr, 1700-1740' yn Gomer M. Roberts (gol.), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru Cyfrol 1 Y Deffroad Mawr* (Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1973), tt. 13-42.
Jones, R. Tudur, 'Annibynwyr Cymru Ddoe', yn Iorwerth Jones (gol.), *Yr Annibynwyr Cymraeg Ddoe*, *Heddiw ac Yfory* (Abertawe: Gwasg John Penry, 1989), tt 9-33.
Jones, R. Tudur 'Athrawiaeth y Cyfamodau' yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 9-16.
Jones, R. Tudur 'Yr Eglwys a'r Eglwysi: Trefniadaeth Ryng-Eglwysig yr Annibynwyr, c. 1639-1850' yn D. Densil Morgan (gol.) *Grym y Gair a Fflam y Ffydd*, (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 51-90.
R. Tudur Jones, '"Y Dwym Ias" a'r "Sentars Sychion": Methodistiaeth ac Ymneilltuaeth yn y Ddeunawfed Ganrif', yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 153-69.
Jones, R. Tudur 'Y genedl Galfinaidd a'i llên', D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd* (Bangor: Canolfan Uwchefrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 255-84.

Jones, R. Tudur, ‘Awr anterth efengyliaeth yng Nghymru, 1800-60’, yn D. Densil Morgan (gol.), *Grym y Gair a Fflam y Ffydd: Ysgrifau ar Hanes Crefydd yng Nghymru* (Bangor: Canolfan Uwch-Efrydiau Crefydd yng Nghymru, 1998), tt. 285-308.
Lake, M. Islwyn, ‘Y Dechreuadau’ yn Ioan Wyn Gruffydd (gol.) *Cluded Moroedd Cofio Dwy Ganrif o Genhadaeth 1795-1995* (Abertawe: Gwasg John Penri, 1995), tt. 9-54.
Morgan, D. Densil, ‘Christmas Evans a Genedigaeth “Y Gymru Ymneilltuol”’, yn Geraint H. Jenkins (gol.) *Cof Cenedl VI* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1991), tt. 67-99.
Morgan, D. Densil, ‘Twentieth century historians of Welsh Protestant Nonconformity’, yn Alan P. F. Sell ac A. R. Cross (goln), *Protestant Nonconformity in the Twentieth Century* (Carlisle: Paternoster Press, 2003), tt. 78-101.
Morgan, D. Densil, ‘Nonconformity in Wales’, yn Robert Pope (gol.), *T & T Clark Companion to Nonconformity* (London: T & T Clark, 2013), tt 27-46.
Morgan, D. Densil, ‘Credo ac Athrawiaeth’, yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln) *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3, Y Twf a’r Cadarnhau, c.1814-1914* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011), tt. 112-86.
Morgan, Prys, ‘A Nation of Nonconformists: Thomas Rees (1815-85) and Nonconformist History’, yn Neil Evans a Huw Pryce *Writing a Small Nation’s Past: Wales in Comparative Perspective, 1850-1950* (London & New York: Routledge, 2013), tt. 97-109.
Owen, Goronwy Prys, ‘Addoli a’r Bywyd Ysbrydol 1. Y Diwygiadau’, yn John Gwynfor Jones a Marian Beech Hughes (goln), *Hanes Methodistiaeth Galfinaidd Cymru, Cyfrol 3, Y Twf a’r Cadarnhau, c.1814-1914* (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 2011), tt. 42-52.
Randall, Ian M., ‘Nonconformists and Overseas Mission’ yn Robert Pope (gol.), *T & T Clark Companion to Nonconformity* (London: T & T Clark, 2013), tt 381-406.
Roberts, Dyfed Wyn, ‘The Effect of Charles Finney’s Revivalism on the 1858-60 Awakening in Wales’, yn Dyfed Wyn Roberts (gol.), *Revival, Renewal, and the Holy Spirit* (Milton Keynes: Paternoster, 2009), tt. 36-44.
Roberts, Llion Pryderi, ‘ “Pob peth yn cydweithio er daioni”: *Cofiant ... Thomas Charles* (1816)’, yn D. Densil Morgan (gol.), *Thomas Charles o’r Bala* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014), tt. 157-72.
White, Eryn M., ‘A “Poor, Benighted Church”?: Church and Society in mid-eighteenth-century Wales’, yn R. R. Davies a Geraint H. Jenkins (goln), *From Medieval to Modern Wales: Historical Essays in Honour of Kenneth O. Morgan and Ralph A. Griffiths* (Cardiff, University of Wales Press, 2004), tt. 123-41.
White, Eryn M., ‘“I will once more shake the heavens”: The 1762 Revival in Wales’, yn Kate Cooper and Jeremy Gregory (goln), *Revival and Resurgence in Christian History* (Woodbridge: The Boydell Press, 2008), tt. 154-63.
White, Eryn M., ‘From ejectment to toleration in Wales, 1662-89’ yn Alan P. F. Sell (gol.), *The Great Ejectment of 1662* (Eugene, Oregon: Pickwick Publications, 2012), tt. 125-82.
White, Eryn M. ‘Religious revivals in the eighteenth, nineteenth and twentieth centuries’, yn William Gibson a John Morgan-Guy (goln), *Religion and Society in the Diocese of St Davids 1485-2011* (Farnham: Ashgate, 2015), tt 129-56.
White, Eryn M., ‘Protestant Dissent in Wales’, yn Andrew Thompson (gol.), *The Oxford History of Protestant Dissenting Traditions; The Long Eighteenth Century, c. 1689-c. 1828* (Oxford: Oxford University Press, 2018), tt. 161-82.

### iii. Ysgrifau mewn cylchgronau

Carwardine, Richard, ‘The Welsh Evangelical Community and “Finney’s Revival”’, *Journal of Ecclesiastical History*, 29 (1978), 463-80.

Davies, Hywel M., ‘Loyalism in Wales, 1792-3’, *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 20/4 (2001), 687-716.
Davies, T. Eirug, ‘Philip Pugh a’i Ragflaenwyr yng Nghanolbarth Sir Aberteifi’, *Y Cofiadur*, 14 (1937), 3-36.
Bowen-Evans, Miriam, ‘Poblogaeth Sir Gaerfyrddin, 1801-91’, *Carmarthenshire Antiquary* 36 (2000) 147-56.
Gibbard, Noel, ‘Heol Awst Congregational Church, 1703-1837’, *Carmarthenshire Antiquary* 42 (2006) 5-17.
Hugh, R. Leonard, ‘David Davies, Mynydd-bach: Pregethwr y caraswn ei glywed’, *Y Dysgedydd* (Rhagfyr 1954), 324-8.
Jenkins, R. T., ‘Briwsion yn hanes y Bedyddwyr Cyffredinol Cymreig’, *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru* (1931), 31-42.
Jenkins, R. T., ‘Yr Annibynwyr Cymreig a Hywel Harris’, *Y Cofiadur,* 12 (1935), 3-37
Jones, E. D., (gol.), ‘Llyfr Eglwys Mynydd-bach’, *Y Cofiadur*, 17 (1947), 27-9.
Jones, R. Tudur, ‘Dylanwad y Mudiad Methodistaidd ar Ymneilltuaeth Cymru yn y Ddeunawfed Ganrif,’ *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru*, XLVII Rhif 3 (1962), 52-70.
Owen, J. Dyfnallt, ‘Camre cyntaf Anghydffurfiaeth ac Annibyniaeth yn Sir Gaerfyrddin, 1600-1710’, *Y Cofiadur*, 13 (1936), 3-56.

**Traethodau ymchwil**

Gibbard, Noel, ‘Datblygiad yr Eglwysi Annibynnol yn Nhref Caerfyrddin a’r Tri Chwmwd, 1725-1841’, MA anghyoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1973.
Glyn, Rhodri, ‘Bywyd a Gwaith David Rees, Llanelli (1801-69)’, PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Aberystwyth, 2010.
Hugh, R. Leonard, ‘Annibyniaeth yng Ngorllewin Morgannwg, 1646-1816’, MA anghyoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1945.
Jones, W. Bryan, ‘Thomas Phillips Neuadd-lwyd’, MPhil anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2011.
Phillips, J. Arwyn ‘Bywyd a Gwaith William Williams o’r Wern’, MTh anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1977.
Thomas, L. Wynford, ‘Mathias Maurice a’i Eglwysoleg’, PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 2011.
Tudur, Alun, ‘O’r Sect i’r Enwad: Datblygiad Enwadau Ymneilltuol Cymru,1840-70’, PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Bangor, 1993.
Tudur, Dafydd, ‘The life, work and thought of Michael Daniel Jones (1822-98)’, PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Bangor, 2006.
Turner, Christopher Ben, ‘Revivals and Popular Religion in Victorian and Edwardian Wales’, PhD anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1979.

**Gwefannau**

*Dissenting Academies Online: Database and Encyclopaedia*, Dr Williams's Centre for Dissenting Studies, https://www.qmul.ac.uk/sed/religionandliterature/dissenting-academies/dissenting-academies-online.